Pure

Bangor University

DOETHUR MEWN ATHRONIAETH

Traddodiadau a defodau Sipsiwn benywaidd Cymru o safbwynt gymharol, 1900-2021

Lock-Thompson, Sarah

Award date:
2023

Awarding institution:
Prifysgol Bangor

Link to publication

General rights
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

Take down policy
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

Download date: 19. Apr. 2025

Traddodiadau a defodau Sipsiwn benywaidd Cymru o safbwynt gymharol, 1900-2021

Sarah Shannon Marie Lock-Thompson

Cyflwyno ar gyfer Doethuriaeth mewn Hanes Cymru

Prifysgol Bangor

Rhagfyr 2022

Crynodeb:

Traddodiadau a defodau sy'n berthnasol i Sipsiwn benywaidd Cymru yw testun ymchwil y thesis yma. Mae'r gwaith yn creu cymhariaeth gyda thraddodiadau a defodau Sipsiwn a Theithwyr benywaidd eraill Prydain a thu hwnt i Brydain er mwyn ystyried pa mor unigryw ydyw'r traddodiadau a defodau a gysylltwyd â Sipsiwn benywaidd yng Nghymru. Bydd y gwaith yn canolbwyntio ar y traddodiadau a defodau eu hunain a'u cyflwr yn y byd modern. Yn ogystal â hyn, mae'r thesis yn ystyried bywydau merched Sipsi yng Nghymru drwy gydol yr ugeinfed ganrif hyd at y presennol ac yn ystyried pa mor debyg neu wahanol oedd eu bywydau o'i gymharu â bywydau'r Cymry frodorol benywaidd. Bydd y gwaith yn dangos sut oedd bywydau'r merched hyn yn plethu. Gwelir bod y thesis yn cynnwys llinach amser eang, sy'n cychwyn ar ddechrau'r ugeinfed ganrif ac yn gorffen yn y presennol. Mae'n bwysig ystyried y cyfnod eang hwn er mwyn gweld newidiadau a diwygio dros amser ym mywydau y merched Sipsi yng Nghymru.

Hyd yn hyn, mae Sipsiwn benywaidd Cymru wedi eu hanwybyddu mewn hanesyddiaeth yn gyffredinol. Nid oes gwaith penodol am draddodiadau a defodau Sipsiwn benywaidd Cymru. Yn wir, nid yw hanes y Sipsiwn yn gyffredinol yn y wlad wedi'i astudio yn drylwyr ychwaith. Mae rhai gweithiau sydd yn trafod traddodiadau a defodau Sipsiwn Seisnig a Theithwyr Albanaidd, grwpiau a gysylltwyd gyda Sipsiwn Cymru yn ddiwylliannol oherwydd eu bod wedi cyd-briodi dros y canrifoedd ac felly yn rhannu traddodiadau a defodau. Mae'r gweithiau yma yn bwysig er mwyn creu cymhariaeth yn y gwaith a gosod traddodiadau a defodau Sipsiwn benywaidd Cymru mewn cyd-destun ehangach. Mae'r thesis yma yn bwysig felly i ddiweddaru'r gweithiau hanesyddol am Sipsiwn yng Nghymru a dangos 'lle' Sipsiwn benywaidd yn hanes cymdeithasol Cymru a'u cydberthynas ehangach gyda'r werin yn benodol. Mae'r gwaith yn ffordd o ddangos lle un grŵp lleiafrifol ethnig yn

hanes Cymru. Yn olaf, mae'n bwysig ystyried traddodiadau a defodau Sipsiwn benywaidd Cymru er mwyn dangos eu ffordd o fyw, rôl, dylanwad a phŵer oddi fewn i'w cymuned.

Bydd y thesis yn defnyddio'r hanesyddiaeth berthnasol i'r testun ac mae llyfryddiaeth lawn ar ddiwedd y gwaith. Defnyddiwyd nifer o ffynonellau cynradd sy'n cynnwys hunangofiannau, adnoddau archifdai fel lluniau ac erthyglau papur newydd Cymreig a ffynonellau mwy diweddar fel rhaglenni teledu. Daw'r data mwyaf unigryw gan gant tri deg a thri o gyfranogwyr i holiadur a luniwyd yn gofyn cwestiynau am draddodiadau a defodau yn gyffredinol yn y gymuned Sipsi.

Datganiad:

Yr wyf drwy hyn yn datgan mai canlyniad fy ymchwil fy hun yw'r thesis hwn, ac eithrio lle nodir yn wahanol. Caiff ffynonellau eraill eu cydnabod gan droednodiadau yn rhoi cyfeiriadau eglur. Nid yw sylwedd y gwaith hwn wedi cael ei dderbyn o'r blaen ar gyfer unrhyw radd, ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar yr un pryd mewn ymgeisiaeth am unrhyw radd oni bai ei fod, fel y cytunwyd gan y Brifysgol, am gymwysterau deuol cymeradwy.

I hereby declare that this thesis is the results of my own investigations, except where otherwise stated. All other sources are acknowledged by bibliographic references. This work has not previously been accepted in substance for any degree and is not being concurrently submitted in candidature for any degree unless, as agreed by the University, for approved dual awards.

Cydnabyddiaethau:

Diolch mawr i fy ngoruchwylwyr Karen a Lowri am eu cymorth, gwybodaeth a chefnogaeth wrth ysgrifennu'r thesis yma. Dwi wir yn gwerthfawrogi'r holl amser a diddordeb oedd gennych chi am fy nhestun.

Diolch hefyd i Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen am eu cefnogaeth ariannol. Ni faswn wedi gallu cwblhau'r gwaith yma heb eich cefnogaeth.

Yn ogystal, diolch i archifdy Lerpwl am eich cymorth gyda ffynonellau cynradd ac am adael i mi ddefnyddio lluniau o'ch archifdy.

Diolch hefyd i archifdy Caernarfon am adael i mi ddefnyddio ffynonellau gennych chi.

Yn olaf, diolch i Ryan, Penelope ac Arthur am eich cefnogaeth ac anogaeth. I chi mae hwn!

Cynnwys:

Crynodeb.....t.2

Datganiad.....t.4

Cydnabyddiaethau.....t.5

Darluniau.....t.7

Rhestr Dalfyriadau.....t.8

Rhestr Termau.....t.9

Cyflwyniad: cefndir, adolygiad llenyddiaeth a methodoleg.....t.10

Pennod 1: Genedigaethau a marwolaethau.....t.55

Pennod 2: Priodasau, ysgaru a gwahanu.....t.129

Pennod 3: Defodau glendid a dyletswyddau domestig.....t.193

Pennod 4: Merched Sipsi yn gweithio neu'n derbyn addysg.....t.236

Traddodiadau a defodau heddiw.....t.318

Casgliad terfynol.....t.327

Atodiad: Copi o'r holiadur.....t.337

Llyfryddiaeth.....t.343

Darluniau:

Ffigwr 1: 'Harold Lock, Louie Lock, William Ferguson and others-1 negative black and white', *Liverpool Special Collections & Archives*, SMGC Shaw p.239. (Golwg diwethaf-10/10/19). Trwy gwrteisi Llyfrgell Prifysgol Lerpwl..... tt.196-197.

Ffigwr 2: 'Locks (al.Boswell)-1 negative black and white', *Liverpool Special Collections & Archives*, SMGC Shaw p.122. (Golwg diwethaf-10/10/19). Trwy gwrteisi Llyfrgell Prifysgol Lerpwl.....tt. 246-247.

Rhestr Dalfyriadau:

Dalfyriad	**Term llawn**
GIG	Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol
MBFGW	My Big Fat Gypsy Wedding

Rhestr Termau:

Romani	**Cymraeg**	**Saesneg/English**
Dukkering	Dweud Ffortiwn	Fortune Telling
Gorja/ Gorgio	Person nid yw'n Sipsi	Non-Gypsy person
Hawking	Gwerthu o ddrws i ddrws	Selling from door to door
Hokkano baro	Tric mawr	Great trick
Mochadi	Aflendid defodol	Ritual uncleanliness
Vardo	Wagen draddodiadol Sipsi	Traditional Gypsy Wagon

Traddodiadau a defodau Sipsiwn benywaidd Cymru o safbwynt gymharol, 1900-2021

Sipsiwn benywaidd Cymru. Dyma destun sydd heb dderbyn astudiaethau digonol hyd yn hyn. Ym Mhrydain yn gyffredinol, er bod y gweithiau am Sipsiwn yn tyfu ar hyn o bryd, mae'r gymuned wedi'i anwybyddu yn yr hanesion cymdeithasol yng Nghymru er eu cysylltiadau hir-dymor gyda'r werin yn benodol. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd i'r gymuned fod yn draddodiadol gyfrinachol, a felly bod astudio 'lle' y Sipsiwn yn hanes cymdeithasol y wlad yn anodd. Mae'r gweithiau am Sipsiwn Cymru yn gyffredinol yn brin heb os. Bwriad y gwaith yma yw hyrwyddo'r ffaith bod Sipsiwn benywaidd Cymru a lle yn hanes y wlad. Bydd yn dangos bod y merched Sipsi yn cyfathrebu yn uniongyrchol gyda chymdeithas Cymru, yn enwedig y dosbarth gweithiol, ac felly yn plethu i hanes cymdeithasol y wlad. Hyd heddiw, mae dosbarth cymdeithasol yn effeithio ar y darlun o fywydau merched.[1] Gan fod Sipsiwn yn cael eu hystyried fel unigolion o haenau isaf y gymdeithas, bydd y gwaith yn amlygu'r tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng bywydau merched dosbarth gweithiol yng Nghymru a'r Sipsiwn benywaidd yn y wlad. I Brooke, roedd dosbarth yn cysylltu a chymeriad Prydeinig yn yr ugeinfed ganrif, gyda dosbarth a rhywedd yn dod law yn law.[2] Mae hyn yn golygu bod angen edrych ar sut oedd rôl y merched Sipsi a'r merched frodorol Gymreig fel merched dosbarth gweithiol yn cael ei gysylltu a disgwyliadau eu rhywedd drwy gydol yr ugeinfed ganrif, ac ystyried os oedd eu bywydau'n debyg neu wahanol oherwydd disgwyliadau derbyniol eu hoes. Y bwriad fydd i amlygu'r prif draddodiadau a defodau sy'n cysylltu â Sipsiwn benywaidd Cymru yn benodol a gweld os oes newid wedi bod dros amser, yn enwedig o'r ugeinfed ganrif hwyr ymlaen. Bydd cymhariaeth yn gallu cael ei greu gyda grwpiau teithiol eraill, er enghraifft y Sipsiwn Seisnig a'r Teithwyr Albanaidd, er mwyn ystyried pa mor unigryw oedd traddodiadau a defodau'r Sipsiwn Cymreig. Yn ogystal, bydd

[1] S. Bruley, *Women in Britain since 1900* (Hampshire, 1999), tt.2-3.
[2] S. Brooke, 'Class and gender', gan F. Carnevali a J. M. Strange (gol), *Twentieth-Century Britain- Economic, Cultural and Social Change* (Harlow, 2007), tt.42-44.

trafodaethau am draddodiadau, defodau ac arferion y Cymry frodorol benywaidd hefyd. Yn y ffordd yma, bydd dadansoddiad yn gallu cymryd lle i ystyried pa mor unigryw oedd bywydau'r Sipsiwn benywaidd yng Nghymru, ac os oes newid wedi bod erbyn y presennol. Mae'r gwaith yma yn cwmpasu llinach amser hir, o 1900-2021. Gan mai traddodiadau a defodau sy'n cael eu canolbwyntio arnynt fwyaf, mae'n bwysig cael llinach amser hir i ddangos sut mae'r traddodiadau a defodau wedi newid dros amser. Yn aml, mae traddodiadau a defodau yn newid ac esblygu dros rai degawdau, felly mae'n bwysig i'r gwaith allu orchuddio'r hen draddodiadau a defodau, ond hefyd y traddodiadau newydd sydd wedi ymddangos.

Hanes y Sipsiwn

Ymddangosodd y Sipsiwn yn Ewrop yn y bymthegfed ganrif yn ôl Chambers.[3] Erbyn hyn, mae academyddion yn tueddu i gytuno bod y Sipsiwn yn gwreiddio o India er enghraifft daeth y dystiolaeth gyntaf am gysylltiad y Sipsiwn gydag India yng ngweithiau'r ieithyddion. Enghraifft oedd astudiaethau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd yn pwysleisio'r tebygrwydd rhwng yr iaith Hindi ac iaith y Sipsiwn, Romani.[4] Yr oedd Fitzgerald yn dadlau yn 1942 bod Romani fel iaith yn cysylltu ag iaith o India a gwraidd Aryan.[5] Roedd yr ieithyddion a diddordeb yn y Sipsiwn oherwydd bod ganddynt iaith unigryw. Byddai hyn yn arwyddocaol i'r ieithyddion oherwydd roedd y ffaith bod y Sipsiwn hefo iaith eu hunain yn golygu eu bod yn grŵp ethnig penodol yn hawl eu hunain, hefo iaith, ac yna traddodiadau, arferion a defodau eu hunain. Mae iaith hefyd yn creu trefn mewn cymuned. Byddai cael iaith penodol oddi fewn i'r gymuned Sipsi yn galluogi iddynt cadw eu arferion yn gyfrinachol. Creodd Heinrich Grellmann gatalog o eiriau Romani yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda

[3] W. Chambers, *Exploits and Anecdotes of the Scottish Gypsies- with traits of their origin, character and manners* (Edinburgh, 1886), t.4.
[4] E. Jarman. a A.O.H. Jarman, *Y Sipsiwn Cymreig- Teulu Abram Wood* (Caerdydd, 1979), t.8.
[5] B. V. Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History* (Devon, 1974), t.3.

chyfieithiadau 'Hindostan' a Seisnig a ychwanegodd at y dystiolaeth o wraidd o India.[6] Mae Floate yn cytuno a'r gosodiad hwn, gan honni eu bod yn gwreiddio o Rajastnan, Gogledd-Orllewin India, heb gyfeirio at y dystiolaeth am hyn.[7] Heb os, mae Fonseca yn dadlau bod academyddion yn tueddu i gytuno bod y Sipsiwn wedi gadael India yn y degfed ganrif, gyda Cartwright yn honni mai rhyfela oedd y rheswm dros adael.[8] Bydd adrannau o'r gwaith yma yn tynnu sylw at draddodiadau a defodau tebyg rhwng y Sipsiwn ym Mhrydain a chymunedau Hindŵ i osod arferion y Sipsiwn mewn cyd-destun ehangach. Anghytunodd Okely a'r syniad bod y Sipsiwn yn gwreiddio o India, gan honni mai syniad egsotig arall yn unig oedd hyn wedi'i greu gan ramantwyr.[9] Mae'n bosibl bod ysgrifenwyr rhamantaidd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif yn ceisio rhoi gwraidd i'r Sipsiwn er mwyn dangos eu bod yn grŵp lleiafrifol egsotig, ddiddorol, o werth astudio. Mae rhai o gweithiau'r academyddion rhamantaidd yn cael eu trafod nes ymlaen.

Mae Le Bas, Sipsi Romani ei hun, yn nodi bod y bardd Firdausi yn awgrymu bod y Sipsiwn cyntaf yn ddeg mil o gerddorion cafodd eu rhoi yn anrheg i reolwr Persia gan Ymerawdwr India yn 439 OC.[10] Mae tystiolaeth bellach am y syniad yma gan Hamza, haneswr o Persia, a ysgrifennodd am fewnfudo deuddeg mil o gerddorion Zott i'r wlad rhwng y blynyddoedd 420-438.[11] Er nid yw Hamza yn enwi'r Sipsiwn yn benodol, yr oedd y Zott yn bobl o India, sy'n cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth bellach am wraidd y Sipsiwn. Mae'r dystiolaeth yma yn rhan o'r dyfalu sy'n digwydd am wraidd y Sipsiwn. Mae Smith, Teithiwr Albanaidd, yn credu bod y Sipsiwn yn gwreiddio o'r Aifft ac wedi dod i Brydain fel caethweision y Rhufeiniaid.[12] Mae Murdoch a Johnson yn eu cydnabod fel y mewnfudwyr cyntaf o Asia i

[6] I. Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey* (Llundain, 2006), tt.87-88.
[7] S. S. Floate, *My ancestors were Gypsies* (Llundain, 1999), t.3.
[8] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.94; G. Cartwright, 'Among the Gypsies', *World Literature Today*, Vol.80 (2006), t.52.
[9] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.100.
[10] D. Le Bas, *The Stopping Places-A Journey Through Gypsy Britain* (Llundain, 2018), t.6.
[11] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.93.
[12] J. Smith, *Tales from the Tent-Jessie's Journey continues* (Edinburgh, 2003), t.33.

Ewrop, ond nid oes tystiolaeth gadarn ar gyfer y gosodiad hwn.[13] Gwelwn fod gwraidd y Sipsiwn yn parhau i ddenu dadleuon gwahanol yn y presennol oherwydd y diffyg ffynonellau am eu bywydau cynnar. Mae gan academyddion syniadau gwahanol iawn am eu gwraidd, sy'n anodd eu cadarnhau hyd yn hyn. Bydd y gwaith yma yn cynnig tystiolaeth o blaid y syniad bod y Sipsiwn yn gwreiddio o India. Nid bwriad y gwaith yw cadarnhau'r syniad yma, ond mae'r dystiolaeth sy'n cysylltu'r cymunedau Sipsi a Hindŵ yn plethu i'r themâu fydd yn cael eu trafod. Felly, mae'r wybodaeth o werth eu cynnwys fel tystiolaeth ychwanegol am ddefodau a thraddodiadau y Sipsiwn benywaidd.

Daw'r cyfeiriad swyddogol cyntaf o'r Sipsiwn ym Mhrydain yn yr Alban yn 1505, tra bod y cyfeiriad cyntaf yng Nghymru yn 1579 mewn llythyr swyddogol o Actau'r Cyfrin Gyngor.[14] Gwelwyd bod y Sipsiwn wedi gwreiddio mewn ardaloedd eraill o Brydain cyn y cyfeiriad cyntaf ohonynt yng Nghymru. Mae dros saith deg o flynyddoedd rhwng y cyfeiriadau cyntaf yn yr Alban a Chymru. Nid yw'r cyfeiriadau swyddogol hyn yn golygu bod y Sipsiwn heb fod yn yr Alban a Chymru ers cyn y dyddiadau penodol yma. I'r gwrthwyneb, mae'n debygol bod y Sipsiwn wedi glanio yn yr Alban cyn 1505. Yn ogystal, roedd y Sipsiwn wedi bod ym Mhrydain am dros saith deg mlynedd cyn y gyfeiriadaeth atynt yn llythyr y Cyfrin Gyngor yn 1579. Mae'n fwy na thebyg bod Sipsiwn wedi bod yng Nghymru cyn y flwyddyn honno, gan fod Cymru fel yr Alban, ac ardaloedd eang o gefnwlad fyddai'n denu'r Sipsiwn iddi. Heb os, yn ôl Clébert roedd y Sipsiwn wedi setlo yn gyfforddus ym Mhrydain erbyn yr ail ganrif ar bymtheg, er y deddfau llym yn eu herbyn yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg pan oeddynt yn cael eu gweld fel troseddwyr.[15] Gwelwyd y Sipsiwn fel troseddwyr am iddynt fyw bywydau crwydrol, peidio setlo ac roeddynt a rheolau, iaith ac arferion eu hunain. Roedd rhai

[13] A. Murdoch a C. Johnson, 'Introduction', yn C. Johnson a M. Willers (gol), *Gypsy and Traveller Law* (Llundain, 2007), t.4.
[14] Jarman a Jarman, *Y Sipsiwn Cymreig- Teulu Abram Wood*, tt.10-12.
[15] Clébert, *The Gypsies*, t.111.

teuluoedd o Sipsiwn a penaethiaid dylanwadol eu hunain, felly mae'n bosibl bod hyn yn fygythiad i rheolwyr y wlad yn y cyfnod. Pasiwyd deddfau yn eu herbyn yn 1530, 1554 a 1562 i ceisio eu halltudio o Loegr.[16] Roedd y Llywodraeth Duduraidd yn ceisio cael gwared â'r Sipsiwn o Loegr drwy eu halltudio, cymryd eu heiddio, eu hannog i setlo yn y gymuned neu eu dienyddio.[17] Mae'r ffaith bod y Llywodraeth Duduraidd yn ceisio eu hannog i setlo yn awgrymu bod eu bywydau crwydrol yn cael ei weld fel problem i'w ddatrys. Gwelwyd bod y Sipsiwn yn cael eu hystyried yn broblem bwysig gan y Llywodraeth. Derbyniwyd blynyddoedd o drais oherwydd eu bywydau ar yr ymylon. Nid yw'n syndod felly bod y Sipsiwn wedi dechrau mudo i Gymru fwy ac yn cael eu cyfeirio atynt mewn dogfennau swyddogol o 1579. Yng nghefn gwlad Cymru, mae'n bosibl iawn byddai'r Sipsiwn wedi gallu ffoi oddi wrth y deddfau llym oedd y Llywodraeth yn Lloegr yn pasio yn eu herbyn. I rai, byddai setlo yn bosibl yng Nghymru, tra byddai eraill yn fwy tebygol o gael eu gadael i deithio heb gael eu cosbi fel y byddent yn Lloegr.

O ran Cymru, teulu Abram Wood sy'n cael eu nodi fel y Sipsiwn cyntaf ddaeth i'r wlad.[18] Mae dyddiadau gwahanol yn cael ei roi am ymddangosiad Abram Wood yng Nghymru, er enghraifft 1676 a 1730.[19] Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o'r wybodaeth am Abram Wood wedi'i seilio ar draddodiad llafar, er enghraifft bod o'n gant oed pan fu farw, a'r disgrifiad canlynol ohono yn 1900, can mlynedd neu fwy wedi ei farwolaeth

> He wore a three-cocked hat with gold lace, a silk coat with swallow- tails-
>
> sometimes red, sometimes green, and sometimes black- and a waistcoat embroidered with green leaves.[20]

[16] Liégeois, *Gypsies- An Illustrated History*, t.102.
[17] J. Morgan, ''Counterfeit Egyptians': The construction and implementation of a criminal identity in early modern England', *Romani Studies*, Vol.26 (2016), t.106.
[18] Davies, 'Welsh Gypsies', t.52.
[19] Jarman. a A.O.H. Jarman, *Y Sipsiwn Cymreig- Teulu Abram Wood*, t.46.
[20] Jarman. a A.O.H. Jarman, *Y Sipsiwn Cymreig- Teulu Abram Wood*, t.56.

Mae'r ffaith bod y gwybodaeth amdano ar lafar yn gyffredin ymysg y Sipsiwn, gan bod cofnodion ysgrifenedig yn brin, yn enwedig o gyfnod Abram Wood ei hun. Felly, mae angen cymryd y ffaith bod y wybodaeth amdano ac am ei deulu i raddau helaeth yn dystiolaeth llafar i ystyriaeth wrth ysgrifennu amdano. Mae'r teulu Wood yn cael ei gofio ar lafar fwyaf am eu cerddorion a physgotwyr arbennig. Hyd at y presennol, mae'r darlun o Abram Wood fel y Sipsi gyntaf yng Nghymru yn parhau yn yr ymwybod cyffredinol ymysg Sipsiwn Cymru. Mae'n rhan o fytholeg y Sipsiwn Cymreig. Wedi'r cofnod o Abram Wood er hynny, dyma agor y llifddorau ar gyfer teithio eang yn y wlad yn ôl y traddodiadau llafar. Erbyn yr 1920au er hynny roedd yr awdurdodau yn symud yn erbyn Sipsiwn Cymru, gan eu gwahardd o'r safleoedd gwersylla hynafol ac amgáu'r tir comin.[21] I rai teuluoedd, parhawyd gyda'r teithio am rai cenhedloedd, tra bod eraill wedi gweld setlo yn anochel. Erbyn heddiw, mae nifer o deuluoedd o Sipsiwn wedi setlo yng Nghymru, gan gynnwys teuluoedd Boswell, Lee, Lock a Price.[22] Fel yng ngweddill y Deyrnas Unedig, mae'r mwyafrif o Sipsiwn Cymru wedi setlo erbyn hyn oherwydd y diffyg safleoedd gwersylla a'r deddfau ffordd llym. Yn 1960 pasiwyd deddf ym Mhrydain i geisio atal Sipsiwn a Theithwyr rhag teithio.[23] I rai teuluoedd, golygodd hyn ddirywiad diwylliannol a'r ffordd draddodiadol hynny o fyw. Yr oedd setlo ymysg rhai teuluoedd yn anochel wedi hynny. Roedd setlo yn gallu golygu gwersylla ar safle parhaol ffurfiol, neu symud i mewn i dŷ. I rai rhieni Sipsi, mae addysg ffurfiol mewn ysgolion wedi cynyddu mewn pwysigrwydd, gan amlygu'r ffaith fod setlo yn fwy perthnasol iddynt erbyn y presennol. Fel bydd y gwaith yma yn dangos nes ymlaen, mae addysg ffurfiol mewn ysgol ac yna sicrhau graddau ffurfiol yn atyniad i nifer o rieni Sipsi a'u plant erbyn hyn oherwydd bod swyddi traddodiadol y Sipsiwn yn dirywio a'r angen am addysg ffurfiol yn cynyddu er mwyn cael swyddi cadarnhaol. I teuluoedd eraill wnaeth parhau gyda'r teithio,

[21] Davies, 'Welsh Gypsies', t.52.
[22] 'Romani Cymru', *Gwefan Romany Wales Project*, http://www.valleystream.co.uk/romany-welsh%20.htm (golwg diwethaf-24/01/20).
[23] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.8.

roedd y *Police, Crime, Sentencing and Courts Act* yn 2022 yn gwneud hyn yn amhosibl i raddau helaeth, gan sicrhau bod gwersylla ar dir heb caniatâd yn drosedd, ac os oedd yr unigolyn yn gwrthod ymadael neu'n achosi difrod, yn gallu cael eu carcharu hyd at dri mis neu derbyn dirwy.[24] Roedd y deddf yma yn gwthio grwpiau teithio i setlo, gan ymadael a rhai o'u traddodiadau a defodau mae'n debyg. I'r Sipsiwn sydd yn teithio, mae'r teithio ei hun yn aml yn cael ei weld fel rhan o'u hunaniaeth fel grŵp ethnig ar wahân. Gyda'r ddeddf uchod, roedd y Llywodraeth yn gwthio yn erbyn ffordd o fyw sydd wedi bodoli am ganrifoedd. Yn ôl Bevan, mae Sipsiwn yn rhan o hanes Cymru sydd wedi'i anwybyddu ac mae eu hanes yn y wlad angen cael ei gofnodi cyn iddo ddiflannu.[25] Gyda dirywiad cenhedloedd hŷn, y mae rhai o'r traddodiadau, defodau ac arferion unigryw i'r Sipsiwn yn cael eu colli. Rhaid ysgrifennu'r traddodiadau a defodau yma i lawr cyn iddynt ddiflannu yn gyfan gwbl. Bwriad y gwaith hwn yw uwcholeuo hanes Sipsiwn Cymru, gan eu gosod yng nghyd-destun hanes cymdeithasol y wlad. Bydd y gwaith yn dangos bod Sipsiwn benywaidd yn rhan allweddol o ardaloedd gwledig Cymru, yn enwedig yn achos eu swyddi, pwnc fydd yn cael ei drafod mewn manylder nes ymlaen.

Sipsiwn y presennol

Dyna Sipsiwn y gorffennol. Ond beth am Sipsiwn y presennol? Yn ôl Bhopal a Myers, mae'r term 'Gypsy' yn gallu bod yn broblemus erbyn hyn gan nid yw nifer o unigolion yn y gymuned yn cyfeirio at eu hunain fel Sipsiwn.[26] Daw'r unigolion fyddai'n draddodiadol wedi eu hystyried yn Sipsiwn 'dan nifer o dermau heddiw, gan gynnwys Sipsi, Romani/Romano, Teithiwr Gwyddelig/ Seisnig/ Albanaidd neu Deithwyr Newydd. Yn ôl Cartwright, gallai'r

[24] 'Police, Crime, Sentencing and Courts Act 2022', *Tŷ Cyffredin- Sesiynau 2019-21, 2021-22, https://bills.parliament.uk/bills/2839* (diweddariad diwethaf- 14 Gorffennaf, 2022).
[25] N. Bevan, 'History month challenges the stereotype of Gypsies in Wales', *Wales Online*, https://www.walesonline.co.uk/lifestyle/showbiz/history-month-challenges-stereotype-gypsies-2029120 (golwg diwethaf-31/10/19).
[26] K. Bhopal a M. Myers, *Insiders, Outsiders and Others- Gypsies and Identity* (Herefordshire, 2008), t.7.

term ‘Gypsy’ cael ei ddefnyddio yn gadarnhaol neu’n negyddol.[27] Yn sicr, mae rhai unigolion o’r gymuned yn ystyried y term yn amharchus, tra bod eraill yn ei ddefnyddio i ddisgrifio eu hunain. Y prif derm fydd yn cael ei ddefnyddio yn y gwaith yma yw Sipsi, gan mai dyma’r prif derm sy’n cael ei ddefnyddio am, a gan, y Sipsiwn yng Nghymru o brofiad personol. Y mae’r mwyafrif o ffynonellau cynradd bydd yn cael eu defnyddio yn y gwaith yma yn defnyddio’r term ‘Gypsy’ neu Sipsi yn ddibynnol ar iaith y ffynhonnell, felly dyma’r term sydd yn fwyaf perthnasol ar gyfer y gwaith hwn. Er hynny, bydd y term Teithiwr yn cael ei ddefnyddio wrth gyfeirnodi gwaith rhai academyddion eraill sy’n dewis defnyddio’r term hwnnw. Ar y cyfan er hynny, y term Sipsi fydd yn cael ei defnyddio. I gymharu bywydau’r Sipsiwn benywaidd yng Nghymru gyda’r merched Cymreig defnyddir y termau ‘Cymry frodorol benywaidd’ i ddisgrifio’r merched wedi eu geni yn Nghymru ac sy’n cael eu disgrifio fel Cymry yn yr hanesyddiaeth. Neu, i gymharu â chymunedau eraill, bydd y gwaith yn defnyddio’r termau, cymunedau allanol a person/unigolion/pobl nad yw’n Sipsiwn. Bwriad defnyddio’r term ‘cymunedau allanol’ yw’r ffaith bod Sipsiwn yn ystyried unrhyw berson neu gymuned nad yw’n Sipsiwn yn gymuned allanol.

O ran y niferoedd o Sipsiwn ym Mhrydain, roedd Cyngor Ewrop yn honni yn 1987 bod 30,000 o Sipsiwn a Theithwyr ym Mhrydain, gyda Morris a Clements yn honni nid oedd y ffigwr yma wedi newid erbyn 2002.[28] O’r 30,000 yma, mae Kann yn honni bod y rhan fwyaf o’r gymuned yn y Deyrnas Unedig wedi setlo erbyn hyn a rhoi’r gorau i deithio.[29] Bydd yn ddiddorol ystyried sut mae setlo wedi effeithio ar ddefodau a thraddodiadau y gymuned hon. Er dadl Kann, rhaid cofio nid pob Sipsi sydd wedi setlo ym Mhrydain ac mae bywydau’r unigolion yma yn sicr o fod yn wahanol i fywydau’r Sipsiwn sydd wedi setlo. Yn 2010, roedd

[27] Cartwright, ‘Among the Gypsies’, t.52.
[28] H. Crawley, *Moving Forward- the provision of accommodation for Travellers and Gypsies* (Llundain, 2004), t.6.
[29] A. Kann, ‘5 Big Fat Myths about Gypsies, Travellers and Roma’, *Independent-ar lein*, https://www.independent.co.uk/voices/comment/5-big-fat-myths-about-gypsies-travellers-and-roma-8609751.html (golwg diwethaf-01/11/19).

Kenrick yn awgrymu bod 3,000 o Sipsiwn yn rhan o boblogaeth Cymru.[30] Dyma ffigwr isel o ystyried y cyfanswm o Sipsiwn a Theithwyr sy'n cael eu hystyried fel byw ym Mhrydain. Ond, mae poblogaeth Cymru yn llai na Lloegr, felly mae'n anochel bod llai o Sipsiwn yn byw yn y wlad.

Bydd cysylltiad cryf Sipsiwn benywaidd Cymru gyda'r gymuned frodorol Cymraeg yn cael ei hyrwyddo yn y gwaith yma, gan ddangos bod y Sipsiwn a lle yn hanes cymdeithasol Cymru. Mae'r ffaith bod y gymuned mor fach efallai yn ychwanegu at y ffaith bod diffyg gweithiau am y Sipsiwn hefyd. Mae'n anodd gwybod y ffigwr cyflawn o Sipsiwn ym Mhrydain. Yn aml mae unigolion yn cuddio'r ffaith eu bod yn Sipsiwn, rhag ofn i'w cefndir cael effaith ar eu swydd neu iddynt dderbyn rhagfarn yn gyffredinol. Yn ogystal, mae rheolau'r cyfrifiad yn golygu mai un ethnigrwydd ydych yn cael dewis. Mae hyn yn golygu os ydych yn ystyried eich hunan dan fwy nac un ethnigrwydd, eich bod yn gorfod dewis un. Dyma ffordd i Sipsiwn eto cael eu cuddio o'r boblogaeth. Er hyn, mae Cheal yn cymeradwyo'r Sipsiwn am eu dawn i fodoli ac addasu, drwy hefyd ddal gafael ar eu hiaith, diwylliant a hunaniaeth.[31] Cytunodd Mayall a'r syniad yma gan nodi bod y Sipsiwn yn dal gafael ar eu hunaniaeth drwy addasu.[32] Mae'r gymuned hon, fel bydd y gwaith yma yn dangos, wedi hên arfer addasu dros y canrifoedd. Dyma'r nodweddion sy'n gwneud Sipsiwn Prydain yn grŵp unigryw yn y wlad, ond hefyd sy'n golygu eu bod yn wynebu lot o adlach gan y cyhoedd am fod yn wahanol. Disgrifir y gymuned gan Hopegood fel, 'one of the most isolated and enigmatic communities in modern day Britain'.[33] Gwelir pa mor unigryw mae'r gymuned yn cael ei ystyried gan rai academyddion sy'n dewis eu hastudio. Dyma'r gymuned

[30] D. Kenrick, *The A-Z of the Gypsies* (Lanham, 2010), t.289.
[31] Y. Cheal, 'Beyond the stereotypes: A review of Gypsies/Roma/Travellers and the Arts in Wales', *Safle wê Romani Arts*, http://www.romaniarts.co.uk/wp-content/uploads/2012/12/Beyond-the-Stereotypes.pdf (golwg diwethaf-31/10/19), t.2.
[32] D. Mayall, *Gypsy-travellers in nineteenth-century society* (Caergrawnt, 1988), t.3.
[33] R. Hopegood, 'Inside the world of the gypsy girls and why they leave school at the age of 11 to stay home and clean', *Mirror News*, ar lein, https://www.mirror.co.uk/news/real-life-stories/inside-world-gypsy-girls-leave-11133880 (golwg diwethaf-20/04/20).

ddiddorol a chyfrinachol bydd y gwaith yma'n canolbwyntio arno, ac yn ceisio datgelu gwybodaeth newydd amdano.

Y darlun o'r Sipsi yng Nghymru

Yn ôl Clébert, roedd y Sipsiwn Cymreig yn dal gafael ar eu traddodiadau fwy na grwpiau o Sipsiwn eraill.[34] Bydd y gwaith yma yn ystyried os yw'r gosodiad yma yn wir. Bydd y gwaith yma yn dangos bod y Sipsiwn Cymreig a'r Cymry frodorol ill dau yn bobloedd ofergoelus tu hwnt, yn enwedig yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, sydd efallai yn esbonio pam bod y Sipsiwn Cymreig yn dal gafael ar draddodiadau fwy na grwpiau o Sipsiwn eraill. Er bod y gwaith yn ceisio dangos y gwahaniaethau a thebygrwydd rhwng rôl merched Sipsi a'r Cymry frodorol benywaidd drwy esbonio a dadansoddi traddodiadau a defodau, mae angen gosod traddodiadau a defodau'r Sipsiwn mewn cyd-destun hefyd. I wneud hyn, mae cymhariaeth yn gallu cael ei greu rhwng Sipsiwn benywaidd Cymru a Sipsiwn benywaidd Lloegr a'r Alban er mwyn ystyried os yw traddodiadau a defodau Sipsiwn benywaidd Cymru yn unigryw i'r wlad. Mae'n bwysig gwneud hyn er mwyn ystyried pa draddodiadau a defodau sydd wir yn unigryw i Sipsiwn benywaidd Cymru, a pha draddodiadau a defodau a arferai cael eu defnyddio gan grwpiau o Sipsiwn ar draws Prydain. Ni fydd Sipsiwn yn Iwerddon yn cael eu trafod llawer yn y gwaith yma, oherwydd y diffyg ffynonellau cynradd sydd ar gael amdanynt. Yn ogystal, Teithwyr Gwyddelig sy'n preswylio yn Iwerddon i raddau helaeth, sy'n grŵp tebyg i'r Sipsiwn, ond sydd â achau a llinach wahanol. Bydd y gwaith yma yn gosod Sipsiwn benywaidd Cymru yng nghyd-destun astudiaethau rhywedd Cymru, pwnc sy'n tyfu ar hyn o bryd. Y bwriad fydd i ystyried rôl merched Sipsi yng Nghymru, a sut mae'r rôl hwnnw wedi newid. Yng ngeiriau George Borrow, a ysgrifennodd nifer o weithiau am Sipsiwn ym Mhrydain,

[34] J. P. Clébert, *The Gypsies*, gol. gan C. Duff (Middlesex, 1967), 111.

> ‘Gypsy women are by far more remarkable beings than the men’.[35]

Bydd y gwaith yma yn ystyried os oedd y Sipsiwn benywaidd yng Nghymru yn byw bywydau rhyfeddol o gwbl, yntau oedd eu bywydau yn debyg i ferched frodorol y wlad. Roedd merched Sipsi yn gallu bod yn ffyrnig ac yn cael eu cymryd o ddifri gan yr heddlu, er enghraifft cafodd dwy ferch Sipsi Cymreig yn ardal Rhyl eu galw i’r llys am feddwi ac achosi helynt yn 1902, yn ôl papur newydd y *Rhyl Journal*.[36] Gwelir bod merched Sipsi yn herio syniadau derbyniol eu hoes am ymddygiad derbyniol eu rhywedd ar adegau, ffactor bydd y gwaith yma yn ystyried hefyd.

Erbyn heddiw mae’r Sipsiwn yn tueddu i ffitio i mewn i un o ddau gategori yn yr ymwybod Prydeinig. Yn gyntaf, maent yn cael eu gweld fel ffigyrau rhamantaidd oherwydd y syniad ohonynt fel teithwyr hen-ffasiwn. Yng ngeiriau Davies,

> ‘A halo of romance clings round the caravans of these wanderers… there is the glamour of the unknown about them’.[37]

I nifer, nid yw’r Sipsiwn heddiw yn cael eu hystyried yn Sipsiwn gan nid ydynt yn byw mewn carafannau pren ac yn teithio’r gefnwlad. Dyma ragdybiaeth annheg a negyddol, ac sy’n cyfrannu at yr hiliaeth y mae Sipsiwn yn gwynebu yn ddyddiol ym Mhrydain. Yn ôl Liégeois, y Sipsi ‘orau’ yw’r un mytholegol sydd ddim yn bodoli, hynny yw y ffigwr rhamantaidd.[38] Mae gan nifer o unigolion o’r cyhoedd syniadau penodol am Sipsiwn, fel unigolion lliwgar, dirgel ac egsotig, sy’n golygu bod y Sipsiwn sy’n preswylio ym Mhrydain yn y presennol yn cael eu hamau o beidio fod yn Sipsiwn yn aml. Pan oedd Nell Loveridge

---

[35] G. Borrow, *Romano Lavo-Lil Word-Book of the Romany or English Gypsy language with specimens of Gypsy poetry, and an account of certain Gypsyries or places inhabited by them, and of various things relating to Gypsy Life in England* (Llundain, 1905), t.174.

[36] ‘Gipsy women in trouble’, *Rhyl Journal- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 21 Mehefin 1902.

[37] R. E. Davies, ‘Welsh Gypsies’, *Welsh Outlook,* Vol.14 (1927), t.53.

[38] J. P. Liégeois, *Gypsies- An Illustrated History* (Llundain, 2006), t.141.

yn cael ei magu yn Ne Lloegr yn yr 1960au-1970au, roedd syniadau egsotig yn parhau am y Sipsiwn.[39] Pan briododd hithau i mewn i'r gymuned yn yr 1980au er hynny, roedd modd iddi weld o lygad y ffynnon sut fath o fywydau oedd gan y Sipsiwn, oedd yn bell o'r syniadau egsotig yn aml. Yn ôl Fonseca, y Sipsiwn egsotig sy'n cael eu hystyried fel y Sipsiwn gwir ran amlaf.[40] I nifer o bobl, gwelwyd dirywiad y Sipsiwn gyda dirywiad y vardo, sef y carafannau pren sy'n cael eu cysylltu â'r gymuned yn draddodiadol. Er hynny, dyfais fodern oedd y carafannau pren a ymddangosodd yn yr ugeinfed ganrif. Cyn hynny, arferai'r Sipsiwn ddefnyddio pebyll, neu breswylio mewn ysgubor a lleoliadau tebyg. Gyda thwf ym mhoblogrwydd y vardo, mae'n debygol byddai'r Sipsiwn oedd wedi arfer byw yn y pebyll a'r ysgubor yn cael eu gweld fel 'gwir' Sipsiwn yn hytrach na'r Sipsiwn modern oedd yn mabwysiadu'r vardo moethus. Drwy'r cenedlaethau, y mae'r Sipsiwn wedi eu hamau am eu hachau. Os nid yw Sipsi yn cwrdd â safonau rhai unigolion o beth dylai Sipsiwn rhamantaidd edrych fel, maent yn cael eu hymwrthod a'u sarhau fel Sipsiwn ffals.

Ar wahân i'r darlun rhamantaidd, gall y Sipsi dderbyn yr ystrydebau o fod yn lleidr, celwyddgi neu dwyllwr. Yn ogystal, mae rhagfarn gyffredin o'r Sipsi fel unigolyn budur, efallai oherwydd y syniad ohonynt fel unigolion di-gartref. Yn ôl Ladrew, mae pobl yn tueddu i amau'r Sipsiwn gan eu bod nhw ddim yn dilyn rheolau'r gymdeithas frodorol Cymreig ar adegau.[41] Bydd y gwaith yma yn ymhelaethu ar draddodiadau a rheolau unigryw y Sipsiwn yng Nghymru. Gall y rheolau hyn greu tensiwn rhwng y Sipsiwn a'r gymdeithas frodorol Cymreig, pan mae dwy gymuned a diwylliant gwahanol yn gwrthdaro. Mae'r syniadau hyn am y Sipsiwn wedi'i maethu dros amser maith ac yn cysylltu â'r realiti ohonynt

[39] N. Loveridge, *Gypsies-I married a Romany! Honest, Raw and Extremely Funny!* (Seattle, 2017), Dim rhif tudalennau.
[40] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.238.
[41] R. B. Ladrew, 'Ancient Bards, Welsh Gypsies, and Celtic Folklore in the Cauldron of Regeneration', *Western Folklore,* Vol.54 (1998), t.227.

fel pobl ar yr ymylon neu du allan i'r gymdeithas frodorol. Bwriad y gwaith yma yw cyflwyno darlun mwy cyflawn o Sipsiwn yng Nghymru, yn enwedig o ran y merched.

Hanesyddiaeth 'cymunedau'

Mae'r ffaith bod cyn lleied o Sipsiwn ym Mhrydain yn golygu eu bod yn cael eu hystyried yn estron digroeso yn aml. Mae'n bosibl bod haneswyr cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar gymdeithas Prydain yn anwybyddu y Sipsiwn yn eu gweithiau oherwydd bod nifer o unigolion ddim yn ystyried Sipsiwn fel Prydeinwyr. Oherwydd eu natur o gadw ar wahân i'r gymuned frodorol a'r ffaith eu bod yn ddiwylliant gwahanol i'r 'arferol', mae'n bosibl nid yw'r haneswyr cymdeithasol yn ystyried bod Sipsiwn yn plethu i hanes cymdeithas Prydain.

Mae modd gosod hanes y Sipsiwn fel cymuned allanol yng Nghymru o fewn hanesyddiaeth fwy eang ar 'cymunedau' yng Nghymru. Roedd thesis PhD Daniel Rhydderch-Dart yn canolbwyntio ar gymunedau yn Sir Gaernarfon yn y ganrif Fictoraidd hwyr a'r ganrif Edwardaidd gynnar, sydd o fewn llinach ymchwil y thesis yma.[42] Dadl Rhydderch-Dart oedd bod hunaniaeth amrywiol y Cymry yn cael ei adlewyrchu yn y cymunedau, er enghraifft, bod cymunedau fel Tudweiliog wedi gallu addasu yn y cyfnod a newid o fod yn economi pysgota i fod yn economi amaethyddol a bod datblygiad rheilffordd ym Mhwllheli yn golygu bod twristiaid a phobl leol yn gallu teithio'n bellach a chyfrannu at yr economi yn yr ardal.[43] Gwelir bod cymunedau yn addasu yn y cyfnod yma er mwyn gwella economi eu hardaloedd mewn ffurf wahanol. Gwelir bod y Cymry yn byw mewn cymunedau eithaf gwahanol ac unigryw i'w gilydd yn y cyfnod ble roedd y Sipsiwn yn byw ar wahân mewn cymunedau unigryw hefyd. Yr oedd mewnfudwyr eraill wedi setlo yng Nghymru erbyn yr ugeinfed ganrif, nid yn unig y Sipsiwn. Wedi'r newyn yn Iwerddon yn y 1840au, daeth mewnfudwyr

[42] D. R. Dart, 'Making Communities in Modern Wales: Caernarfonshire in the Late Victorian and Early Edwardian Eras' (Thesis PhD., Prifysgol Bangor, 2020), t.249, t.277.
[43] Ibid, t.249, t.277.

Gwyddelig i Gymru mewn torfoedd, a'u gweld gan y Cymry fel estron digroeso.[44] Cafwyd croeso tebyg i'r Sipsiwn, a'u gweld yn 'eraill' digroeso a chymuned fygythiol. Yn ôl O'Leary, roedd y mewnfudwyr Gwyddelig yn cael eu gweld fel bygythiad i'r gweithwyr Cymreig hefyd, gan eu bod nhw'n barod i geisio am amrywiaeth o swyddi o'i gymharu â mewnfudwyr eraill.[45] Oherwydd y negyddiaeth yma tuag atynt, roedd ystrydebau negyddol wedi datblygu am y mewnfudwyr Gwyddelig, yn debyg i'r ystrydebau negyddol am y Sipsiwn. Academwr arall sydd wedi canolbwyntio ar y syniad o gymunedau yng Nghymru yw R. Merfyn Jones a ganolbwyntiodd ar gymunedau diwydiannol y chwarelwyr yng Ngogledd Cymru, ble roedd pwyslais ar anghydffurfiaeth, agwedd radical wleidyddol a chyfrannu at ddiwylliant Cymreig.[46] Esiamplau o sut oedd y cymunedau chwarelyddol yn draddodiadol yw'r ffaith bod adfywiad Methodistaidd yn bwysig iddynt ac eu bod yn hoffi cystadlu yn gerddorol a llenyddol.[47] Mae'r darlun yma yn awgrymu bod cymunedau'r chwarelwyr yn draddodiadol o ran Crefydd ac adloniant a bod y traddodiadau yma yn bwysig i'r gymuned fel cyfan, sy'n debyg i'r cymunedau Sipsi yng Nghymru gan fod traddodiadau iddynt hwy yn enwedig yn yr ugeinfed ganrif yn gallu bod o bwysigrwydd i'r holl gymuned yn y wlad fel bydd y gwaith yma yn amlygu. I ychwanegu, mae Jones yn dadlau bod chwarelwyr oedd wedi mudo i Arfon o Sir Fôn yn cael eu gweld fel tramorwyr a'u labelu yn 'Moch Sir Fôn'.[48] Nid yn unig y Sipsiwn oedd yn cael eu gweld fel 'eraill digroeso' yng Nghymru, wrth i'r adran yma ddangos bod y mewnfudwyr Gwyddelig a'r chwarelwyr o Fôn yn derbyn gormes, galw enwau a'u gosod ar ymylon cymdeithas. Roedd Cymru yn wlad oedd yn gartref i nifer o grwpiau ethnig gwahanol yn ystod yr ugeinfed ganrif. Mae Evans et al, yn amlinellu sut oedd cymuned amlhiliol Butetown 'Tiger Bay' Caerdydd ar ddechrau'r

[44] P. O'Leary, *Immigration and Integration: The Irish in Wales, 1798-1922* (Caerdydd, 2000), t.298.
[45] O'Leary, *Immigration and Integration: The Irish in Wales, 1798-1922*, t.302.
[46] R. M. Jones, *The North Wales Quarrymen 1874-1922* (Caerdydd, 1982), t.17.
[47] G. R. Roberts, *New Lives in the Valley- Slate Quarries and Quarry Villages in North Wales, New York and Vermont 1850-1920* (New Hampshire, 1998), tt.51-55.
[48] Jones, *The North Wales Quarrymen 1874-1922*, t.22.

ugeinfed ganrif yn cynnwys amryw o grwpiau ethnig, megis pobl o'r Caribi, Iwerddon, Sbaen a chymunedau Islamaidd ac Iddewig.[49] Er bod y syniad traddodiadol o'r 'werin' yng Nghymru yn darlunio'r Cymry fel pobl goddefgar, roedd achosion o erlid cymunedau Gwyddelig ac Iddewig yn yr ugeinfed ganrif, ac roedd Cymru wedi'i drefnu yn ôl cefndir ethnig.[50] Mae hyn yn dangos bod cymunedau nad oedd yn Sipsiwn hefyd yn cael eu herlid a'u trin fel eraill digroeso yn yng Nghymru'r ugeinfed ganrif. Gwelir fod Cymru'n wlad amrywiol oedd cynnwys nifer o grwpiau ethnig gwahanol, ond bod y pobloedd yma yn cael eu trin yn wahanol gan y Cymry frodorol.

Adolygiad Llenyddiaeth

Gweithiau o'r ugeinfed ganrif cynnar

Mae Cartwright yn tynnu sylw yn ei waith ef at y diffyg gweithiau academaidd am y Sipsiwn.[51] O ystyried grwpiau eraill o bobloedd ledled Ewrop, mae hyn yn wir i raddau helaeth. O edrych ar weithiau hanesyddol cyffredinol am Gymru megis gweithiau Davies, Johnes a Williams, nid oes trafodaeth o Sipsiwn o gwbl.[52] Dyma grŵp sydd wedi'i anwybyddu'n llwyr mewn hanesyddiaeth am y gymdeithas Gymraeg. Er bod y Sipsiwn wedi bod yn rhan o hanes Cymru ers dros bum can mlynedd mae'r diffyg cyfeiriadaeth atynt mewn gweithiau hanesyddol yn syndod. Mae'r ffaith bod y Sipsiwn yng Nghymru a gweddill Prydain yn gyfrinachol iawn o'u cymuned yn golygu ei fod yn anodd i academyddion allu casglu gwybodaeth amdanynt a'u hanes. Dywedodd Davies yn 1930 bod y Sipsiwn yn osgoi siarad eu hiaith eu hunain, Romani, gyda phobl o'r gymuned allanol.[53] Dyma gymuned

[49] N. Evans et al., 'Introduction: Race, Nation and Globalization', yn C. Williams et al., (gol), *A Tolerant Nation? Exploring Ethnic Diversity in Wales* (Caerdydd, 2003), t.5.
[50] N. Evans, 'Immigrants and Minorities in Wales, 1840-1990: A Comparitive Perspective', yn C. Williams et al., (gol), *A Tolerant Nation? Exploring Ethnic Diversity in Wales* (Caerdydd, 2003), tt.14-15.
[51] Cartwright, 'Among the Gypsies', t.53.
[52] J. Davies, *A History of Wales* (Llundain, 2007); M. Johnes, *Wales since 1939* (Manceinion, 2012); G. A. Williams, *The Welsh in their history* (Llundain, 1982).
[53] J. G. Davies, 'Welsh Sources for Gypsy History', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol.9 (1930), t.71.

leiafrifol sy'n benderfynol o beidio gadael pobl o'r 'tu allan' cymryd mantais ohonynt. Pan holodd y Parch H. James Sipsiwn a ddaeth i'r Wyddgrug yn 1869 am eu traddodiadau, dywed ef 'Y maent yn proffesu cadw eu hanes a'u defodau yn guddiedig oddiwrth y byd'.[54] O'r cychwyn pan fu'r academyddion yn ceisio dod i adnabod arferion y Sipsiwn, y mae'r gymuned ei hunan wedi ymladd i gadw eu traddodiadau mewn dirgelwch. Gall hyn fod yn rheswm dilys dros y diffyg gweithiau amdanynt yn y wlad.

Er hyn, mae'r Sipsiwn yng Nghymru yn ymddangos yng ngweithiau y cyfnod rhamantaidd ym Mhrydain. Gwelwyd twf y cyfnod rhamantaidd yn yr oes Fictoraidd, ble roedd diddordeb yn y cymunedau allanol 'egsotig'. Drwy labelu Sipsiwn fel egsotig, sicrhaodd yr academyddion rhamantaidd bod y Sipsiwn ddim yn cael eu gweld fel rhan o hanes a diwylliant Ewropeaidd.[55] Mae hyn yn golygu bod y Sipsiwn yn cael eu gweld fel grŵp 'allanol' ni ddylai bod yn rhan o Ewrop, ac felly Prydain, hyd heddiw. I Esplugas roedd rhaniad clir yn y llenyddiaeth am Sipsiwn yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gyda rhai yn eu beirniadu am fod yn ddiog gan ddarlunio syniadau cymuned geidwadol o'r grŵp allanol hon.[56] Ar y llaw arall, yn ôl Bardi darluniwyd eraill y Sipsiwn fel rhydd a deniadol, gyda bywyd oedd yn derbyn eiddigedd.[57] Dyma hyrwyddo'r ffaith bod dwy ystrydeb wahanol o'r Sipsiwn yn cael ei gyfleu i'r cyhoedd yn yr ugeinfed ganrif. Nid yw'n syndod felly bod rhai unigolion o'r gymuned frodorol ym Mhrydain yn ystyried y Sipsiwn rhamantaidd yn unigolion cadarnhaol, a bod Sipsiwn oedd ddim yn ffitio'r delfryd yma yn cael eu gweld fel troseddwyr a phobl ffals. O gweithiau'r awdur enwog Walter Scott a'r bardd George Crabbe,

---

[54] H. G. James, 'Hanes y Gipsies', *Seren Cymru- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 4 Mehefin 1869, t.2.
[55] A. Rao, adolygiad o *Gypsies amd other itinerant groups: A socio-historical approach*, gan L. Lucassen, et al., *Romani Studies*, Vol.10 (2000), https://search-proquest com.ezproxy.bangor.ac.uk/docview/762798928/CA58747C054346F7PQ/1?accountid=14874 (golwg diwethaf-21/07/20), t.77.
[56] C. Esplugas, 'Gypsy women in English life and literature', yn M. Button a T. Reed (gol), *The Foreign woman in British Literature: Exotics, Aliens and Outsiders* (Llundain, 1999), t.155.
[57] A. Bardi, 'The Gypsy as Trope in Victorian and Modern British Literature', *Romani Studies*, Vol.16 (2006), t.33.

cawn ddarlun arallfydol o'r Sipsiwn.[58] Fe wnaeth hyn greu delfryd o'r Sipsiwn yn y farn gyhoeddus ni allai Sipsiwn y presennol gwrdd ag o ran disgwyliadau. Yn ogystal, honnodd Douaud mai John Clare, o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, oedd y bardd Seisnig orau i ysgrifennu am Sipsiwn.[59] Cawn bortread rhamantaidd o'r Sipsiwn o'r gweithiau llenyddol uchod, sydd yn gwrthwynebu gwir fywydau'r unigolion yn y gymuned ei hun. Er hynny, yn ôl Walker roedd y Sipsiwn ym marddoniaeth Clare mewn gwisgoedd carpiog, a oedd yn amlinellu'r bywydau caled oedd rhai Sipsiwn yn wynebu yn draddodiadol.[60] Er bod barddoniaeth Clare yn darlunio'r Sipsiwn fel unigolion cyfriniol, sy'n cysylltu â llenyddiaeth ramantaidd y cyfnod, rydym yn derbyn portread mwy realistig o galedi rhai o'r Sipsiwn. Yn y cyfnod rhamantaidd roedd diddordeb mewn nifer o grwpiau ar yr ymylon. Er hyn, yn ôl Evans, roedd y Sipsiwn yn un o'r grwpiau egsotig hyn ar stepen ddrws rhamantwyr Prydain, sydd efallai yn esbonio eu poblogrwydd ymysg academyddion a llenyddion y cyfnod.[61] Roedd y Sipsiwn ar gael i'r academyddion a llenyddion manteisio arnynt, byw yn eu plith, dysgu eu harferion, ac yna ysgrifennu amdanynt mewn gweithiau nid oedd yn cyfeirnodi y Sipsiwn eu hunain, hynny yw o ble ddaeth y wybodaeth ohono.

O ran Cymru, mae Thomas Pennant yn trafod 'a gang of gipsies' yn ei hanes am Blwyfi Whiteford a Holywell yng Ngogledd Cymru, a gafodd ei gyhoeddi gyntaf yn 1796.[62] Mae'r ffynhonnell hon yn ddiddorol gan iddo drafod Sipsiwn Gogledd Cymru. Mae'n cadarnhau'r ffaith bod Sipsiwn yn rhan gyffredinol o'r cefn gwlad erbyn 1796. Er hyn, nid yw Pennant yn manylu ar ddefodau na thraddodiadau'r gymuned. Mae'r disgrifiad ohonynt yn ei waith yn gynil gyda diffyg disgrifiadau. Ar y llaw arall, un o'r academyddion sy'n cael ei dyfynnu fwyaf ynglŷn â Sipsiwn Cymru yw George Borrow, a deithiodd i Gymru yn 1854 ar

[58] G. Crabbe, *Selected Poems* (Llundain, 1991), t.217; R. Mayhead, *Walter Scott* (Caergrawnt, 1973), t.71.
[59] K. Douaud, 'The tie that binds: Gypsies, John Clare and English folk-culture', *Romani Studies*, Vol.18 (2008), t.1.
[60] S. H. Walker, 'John Clare's Gypsies', *Romani Studies*, Vol.19 (2009), t.131.
[61] S. Evans, *Stopping Places- A Gypsy History of South London and Kent* (Hertfordshire, 2004), t.2.
[62] T. Pennant, *The History of the Parishes of Whiteford and Holywell* (Clwyd, 1988), t.35.

bererindod i safleoedd enwog y wlad.[63] Yn ei hunangofiant am ei daith 'Wild Wales', mae Borrow yn cwrdd â Sipsi ac yn siarad ychydig o Romani iddo.[64] Er bod yr adrannau yma yn 'Wild Wales' yn ddiddorol, mae Fraser yn awgrymu bod y gwaith wedi'i seilio ar ddyddiaduron Borrow wrth deithio.[65] Mae dyddiaduron wedi'i seilio ar ymwybod yr ysgrifennydd, sy'n pwysleisio mai barn Borrow, ydym yn ei weld yn aml yn 'Wild Wales'. Mae Borrow yn tueddu i ramantu Sipsiwn Cymru, mae'n debyg oherwydd cyfnod ysgrifennu'r hunangofiant (sef y cyfnod llenyddol rhamantaidd ble roedd Sipsiwn yn cael eu gweld fel yr 'eraill' diddorol). Cytuna Ladrew â'r gosodiad hwn gan nodi bod unigolion fel Borrow yn hydoli bywydau'r Sipsiwn yn eu gweithiau, yn hytrach na dangos realiti.[66] Yn ogystal, roedd Mayall yn dadlau nid yw'r darllenydd yn dysgu llawer am y Sipsiwn o waith Borrow.[67] Mae'r disgrifiadau yn y gwaith yn gynnil ac nid ydynt yn datgelu unrhyw ffeithiau cadarn am y Sipsiwn yng Nghymru. Rhaid bod yn ofalus gyda'r llenyddiaeth ramantaidd gan nid ydynt yn rhoi darlun cywir o fywyd y gwir Sipsiwn yn aml. Y mae rhai ysgrifenwyr yn awgrymu bod academyddion fel Borrow wedi creu hunaniaeth i'r Sipsiwn.[68] Mae hyn yn awgrymu bod y syniadau sydd gan y mwyafrif am Sipsiwn yn ddychmygol. Ar y llaw arall, y mae traddodiadau a defodau y Sipsiwn yn cysylltu â'u hunaniaeth ac yn cael eu holrhain am ganrifoedd. Mae hyn yn awgrymu bod gan y Sipsiwn hunaniaeth eu hunain fel grŵp ethnig penodol canrifoedd cyn gweithiau Borrow. Mae'n annheg apwyntio ysgrifenwyr y cyfnod rhamantaidd fel dyfeiswyr hunaniaeth grŵp ethnig gyda tharddiad hir-dymor ym Mhrydain. Mae'r ddadl yn awgrymu bod y Sipsiwn heb hunaniaeth eu hunain cyn y cyfnod

[63] J. Sampson, 'An Englishman in Wales', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.51 (1972), t.85.
[64] G. Borrow, *Wild Wales- The People, Language and Scenery* (Llundain, 1906), t.556.
[65] A. M. Fraser, 'George Borrow's Walking Tours: The Welsh Diaries, 2-6 September 1854', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.49 (1970), t.97.
[66] Ladrew, 'Ancient Bards, Welsh Gypsies, and Celtic Folklore in the Cauldron of Regeneration', t.226.
[67] Mayall, *Gypsy-travellers in nineteenth-century society*, t.72.
[68] C. Clark, adolygiad o *In search of the true Gypsy: From Enlightenment to final solution*, gan W. Willems, *Romani Studies*, Vol.10 (2000), https://search-proquest-com.ezproxy.bangor.ac.uk/docview/762798970/3ED63AE02BC949FEPQ/1?accountid=14874 (golwg diwethaf-21/07/20), t.81.

rhamantaidd, sy'n annhebygol mewn grŵp ethnig hynafol. Er i draddodiadau a defodau amrywio rhwng teuluoedd, mae'r Sipsiwn wedi eu huno oherwydd eu gwaed, llinach, gwraidd ac yn eu hiaith ar adegau. Datblygwyd eu hunaniaeth dros ganrifoedd o deithio, esblygu a chyd-briodi gyda'r cymunedau oeddynt yn dod i gysylltiad â hwy.

Ar wahân i Borrow, ymddangosodd fan weithiau am Sipsiwn Cymru yn yr ugeinfed ganrif. Cawn erthygl o 1930 gan Jones sy'n amlinellu hanes cyffredinol y Sipsiwn yng Nghymru, ond yn osgoi mynd i unrhyw fanylder am y testun.[69] Eto yn 1932, cawn wybodaeth cyffredinol anhynod am Sipsiwn Cymru gan T. G. Jones.[70] Dangosodd y gweithiau yma bod diddordeb yng Nghymru yn y Sipsiwn ymysg rhai academyddion. Er hyn, mae'r diffyg ymchwilio yn glir yn y gweithiau, sy'n awgrymu bod yr awduron ddim yn cymryd y testun o ddifri fel gwaith academaidd ffurfiol. Cyhoeddodd y Gymdeithas Llen Sipsi erthygl yn 1957 gan Tipler wedi iddo ymchwilio i gyflwr yr iaith Romani yng Nghymru erbyn yr 1950au.[71] Nid yw'r gweithiau yma yn manylu digon ar ddefodau a thraddodiadau'r Sipsiwn Cymraeg er hynny. Nid ydynt yn rhoi cymorth na thystiolaeth ar gyfer y gwaith hwn i raddau helaeth, heblaw am ddangos bod y traddodiad o ysgrifennu am y gymuned yng Nghymru wedi bod yn brin. Rhoddwyd cefndir bras iddynt, gan osgoi mynd i unrhyw fanylder. Wrth astudio Sipsiwn Cymru er hynny, mae'r prif waith penodol am Sipsiwn yn y wlad wedi'i ysgrifennu gan Jarman a Jarman a ganolbwyntiodd ar hanes y teulu Wood.[72] Fel y trafodwyd ynghynt, Abram Wood sy'n cael ei gydnabod fel y Sipsi cyntaf ddaeth i Gymru. Mae'r gwaith hwn yn ddefnyddiol gan ei fod yn trafod rhai o arferion a rheolau Sipsiwn Cymru. Er hynny, cyhoeddwyd y gwaith yn yr 1970au, felly mae angen mwy o weithiau cyfoes am y Sipsiwn yng Nghymru. Yn ogystal, nid yw'r gwaith yn canolbwyntio ar ferched yn benodol, fel bydd

[69] R. W. Jones, 'Gypsies in Wales', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.19 (1930), tt.87-89.
[70] T. G. Jones, 'Sipsiwn Cymru', *Y Ford Gron*, Ionawr 1932.
[71] D. Tipler, 'Specimens of Modern Welsh Romani', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.36 (1957), tt.9-24.
[72] Jarman a Jarman, *Y Sipsiwn Cymreig- Teulu Abram Wood.*

y gwaith hwn. Canolbwyntir ar y teulu Wood yn benodol, tra bydd y gwaith hwn yn rhoi darlun cyffredinol o ddefodau a thraddodiadau Sipsiwn benywaidd Cymru. Er y diffyg hanesyddiaeth, mae'r pwnc yma yn bwysig i ehangu ar hanes cymdeithasol Cymru. Mae Sipsiwn wedi bod yn rhan o'r wlad ers canrifoedd ac mae'n bwysig i'w plethu i mewn i hanes Cymru er mwyn datblygu dealltwriaeth ehangach am y gwahanol bobloedd oedd yn cyd-fyw yn y wlad.

Yn gyffredinol daeth y Sipsiwn i blaen hanesyddiaeth fwyaf ym Mhrydain wedi datblygiad y Gymdeithas Llên Sipsi yn 1888 gan Charles Leland a David MacRitchie.[73] Bwriad y gymdeithas oedd cofnodi hanes a diwylliant Sipsiwn Prydain cyn iddo ddiflannu. Drwy'r ugeinfed ganrif gwelwyd gweithiau eang aelodau'r gymdeithas yn cael eu cyhoeddi mewn newyddiadur gan y Gymdeithas Llên Sipsi.[74] Mae'r newyddiadur hon yn cynnwys rhai gweithiau am Sipsiwn Cymru, ond dim gweithiau penodol am ferched Sipsi yng Nghymru. Yn ôl Mayall, mae pwyslais ar iaith a diwylliant y Sipsiwn yng ngweithiau'r cyfranwyr yn hytrach na phwyslais ar y ffaith bod y Sipsiwn ar y pryd yn cael eu herlid.[75] Mae hyn yn golygu bod y darlun o'r Sipsiwn yn y gweithiau yn gallu bod yn ramantaidd, sy'n cyd-fynd a tôn y cyfnod o ysgrifennu mewn ffordd rhamantaidd am unigolion nid oedd yn rhan o'r gymuned frodorol 'arferol' ym Mhrydain. Heb os, cyfrannwr pwysig y newyddiadur oedd John Sampson, sy'n cael ei weld fel un o'r prif ysgolheigion am Sipsiwn ym Mhrydain. Yn ôl ŵyr John Sampson, Anthony Sampson, roedd gan yr academydd angerdd am yr iaith Romani ers pan oedd yn ifanc iawn.[76] Cyhoeddodd lyfr am yr iaith Romani Cymreig wedi iddo ddarganfod bod yr iaith wedi parhau yn ardal Bala, er y gred bod yr iaith wedi diddymu.[77]

[73] D. E. Yates, *My Gypsy Days- Recollections of a Romani Rawnie* (Llundain,1953), tt.161-162.
[74] Yates, *My Gypsy Days- Recollections of a Romani Rawnie*, t.162.
[75] Mayall, *Gypsy-travellers in nineteenth-century society*, t.5.
[76] A. Sampson, *The Scholar Gypsy- The quest for a family secret* (Llundain, 1997), t.16.
[77] J. Sampson, *The Dialect of the Gypsies of Wales- Being the older form of British Romani preserved in the speech of the clan of Abram Wood* (Rhydychen, 1926), t.vii.

Daeth Sampson i adnabod a byw gerllaw y Sipsiwn Cymreig Matthew a'i fab Harry Wood yn ardal Betws-Gwerfyl-Goch er mwyn iddo glywed yr iaith Romani Cymreig ganddynt, a'i gasglu er mwyn creu gwaith amdano.[78] Dyma waith pwysicaf Sampson a gellir dadlau mai'r gwaith yma yw'r darganfyddiad mwyaf arwyddocaol hyd yn hyn mewn astudiaethau am y gymuned Sipsi yng Nghymru.

Yn fwy diweddar mae Brooks hefyd wedi ymchwilio i hanes Romani Cymreig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif, a'i ddarlunio fel un o ddwy iaith y wlad yn draddodiadol.[79] Yng ngeiriau Brooks,

> 'yn y dychymyg Cymraeg o leiaf, Romani yw un o ddwy iaith frodorol y Fro Gymraeg'.[80]
>
> 'dôi'r Sipsiwn Cymreig yn symbol i'r Cymry ohonynt hwy eu hunain-roeddynt yn lleiafrif, medrent iaith wahanol i'r Saesneg'.[81]

Dyma hyrwyddo syniad sy'n cael ei gyfleu yn y gwaith yma yn ogystal, sef bod y Sipsiwn Cymreig yn gymuned wahanol i gymuned frodorol y Cymry yn yr ugeinfed ganrif, ond bod y ddwy gymuned yn arfer byw ochr wrth ochr. Mae'r ail ddyfyniad yn cyfleu syniad pwysig, sef bod y Sipsiwn Cymreig a'r Cymry yn gallu cydfodoli yn eithaf heddychlon gan eu bod nhw ill dau yn lleiafrifoedd yn y Deyrnas Unedig. Mae Brooks hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod y Sipsiwn a'r Cymry yn siarad Cymraeg gyda'i gilydd mewn ardaloedd ble roedd y Gymraeg yn brif iaith.[82] Mae hyn yn dangos sut oedd y Sipsiwn yn gallu integreiddio i'r cymunedau Cymreig frodorol yng Nghymru, ble roedd yr iaith Gymraeg yn brif iaith.

[78] Yates, *My Gypsy Days- Recollections of a Romani Rawnie*, tt.72-79.
[79] S. Brooks, 'Cof am fath arall o Gymraeg, Romani Cymreig', *Taliesin*, Cyfrol 154 (2015), t.26.
[80] S. Brooks, *Hanes Cymry: Lleiafrifoedd Ethnig yn y Gwareiddiad Cymraeg* (Caerdydd, 2021), t.293.
[81] Ibid, t.325.
[82] Brooks, *Hanes Cymry: Lleiafrifoedd Ethnig yn y Gwareiddiad Cymraeg*, t.318.

Wrth edrych ar gweithiau eraill newyddiadur y Gymdeithas Llen Sipsi, mae Acton et al yn dadlau bod darganfod cydlyniad Sipsiwn benywaidd yn anodd, gydag erthyglau wedi eu hysgrifennu gan ddynion i ddynion.[83] Er hynny, mae Acton et al hefyd yn pwysleisio bod gwaith Eileen Lyster, un o fyfyrwyr John Sampson, yn dangos bod rhai Sipsiwn benywaidd o Ogledd Cymru yn deall gwraidd hanesyddol eu dealltwriaeth am rywedd, rheoli dynion ac iechyd.[84] Bydd gwaith Lyster, hunangofiant Betsy Wood sef hanner-Sipsi Cymraeg, yn cael ei drafod yn aml yn y gwaith hwn.[85] Mae'r hunangofiant yn cynnwys ffigyrau allweddol benywaidd, ac yn tueddu i ganolbwyntio ar hanes y Sipsiwn benywaidd yn y teulu Wood yn hytrach na'r dynion. Mae'r ffynhonnell yma yn hanfodol er mwyn cadarnhau enghreifftiau o ddefodau sy'n ymwneud â Sipsiwn benywaidd Cymru yn benodol. Un o fyfyrwyr eraill John Sampson oedd Dora Yates a gyhoeddodd hunangofiant am ei chysylltiadau gyda'r Sipsiwn a'i hamser fel Ysgrifenyddes y Gymdeithas Llên Sipsi o 1929-1952.[86] Mae'r hunangofiant hwn yn gyfuniad o ffaith a rhamant oherwydd cysylltiadau personol yr awdures gyda'r unigolion yn y llyfr. Dywed Nord bod Yates heb dderbyn y clod oedd hi'n ei haeddu am ei gweithiau am Sipsiwn.[87] Gwelwyd bod merched yn rhan allweddol o'r Gymdeithas Llên Sipsi hefyd, ac yn cyhoeddi gweithiau sydd o bwys i'r astudiaeth hon. Mae gweithiau Lyster a Yates yn hanfodol gan eu bod yn hyrwyddo esiamplau o ferched Sipsi Cymreig arwyddocaol a phwerus. Fel Yates, cyhoeddodd yr academydd Sipsiwn, Augustus John, hunangofiant a drafododd ei berthynas gyda'r Sipsiwn.[88] Fel yn achos Yates, mae'n anodd gwybod faint o ramant sydd wedi'i ychwanegu yn y drafodaeth. Daeth John yn Arlywydd y Gymdeithas Llên Sipsi yn 1937 wedi blynyddoedd o gyfathrebu gyda John Sampson yn yr

[83] T. Acton, et al., 'Gender issues in accounts of Gypsy health and hygiene as discourses of social control', yn T. Acton a G. Mundy (gol.), *Romani Culture and Gypsy Identity* (Hertfordshire, 1997), t.167.
[84] Acton, et al., 'Gender issues in accounts of Gypsy health and hygiene as discourses of social control', t.167.
[85] M. E. Lyster, *The Gypsy Life of Betsy Wood* (Llundain, 1926).
[86] Yates, *My Gypsy Days- Recollections of a Romani Rawnie*, t.161.
[87] D. E. Nord, *Gypsies and the British Imagination 1807-1930* (Efrog Newydd, 2006), t.150.
[88] A. John, *Chiaroscuro- Fragments of Autobiography: First Series* (Llundain, 1952), t.14.

iaith Romani.[89] Gwelwn fod yr academyddion uchod yn cymryd eu hymchwil o ddifri ac wedi gallu gwneud swydd ohono. Er hynny, yn ôl Matthews, roedd y Sipsi Cymraeg Esmeralda Lock yn ffynhonnell wybodaeth nifer o'r academyddion Sipsi, ond nid oeddynt yn ei thalu na'i chyfeirnodi yn eu gweithiau.[90] Gwelwyd bod cymryd mantais o unigolion yn y gymuned yn digwydd gan academyddion fyddai'n elwa yn ariannol o'i gweithiau. Byddai unigolion fel Esmeralda yn gwario llawer o amser yn cyfweld gyda'r academyddion Sipsi, ond ddim yn derbyn unrhyw cydnabyddiaeth am hyn.

Mae'r Sipsiwn wedi denu sylw academyddion eraill ar wahân i haneswyr hefyd, megis y daearyddwr Seisnig Salmon, fu'n ceisio profi eu bod yn gwreiddio o'r Aifft.[91] Eto, gwelwyd bod rhoi tarddiad i'r gymuned yn rhan allweddol o ymchwil nifer o academyddion. Ar wahân i haneswyr mwy ffurfiol, mae nifer o weithiau gan haneswyr teuluol sy'n trafod Sipsiwn, er enghraifft gwaith Floate am ei chysylltiad teuluol hithau hefo Sipsiwn yn Lloegr.[92] Mae defnydd i'r gweithiau hyn, yn enwedig wrth ystyried cofnodion bedyddio a phriodi yn y gymuned. Er nid yw'r haneswyr teuluol wedi derbyn hyfforddiant swyddogol yn aml, mae'r unigolion yma yn gwneud ymchwil trylwyr am y pynciau sydd yn eu diddori hwy. Mae'r lefel o ymchwil sy'n cyfrannu at eu gweithiau yn eu gwneud yn ddefnyddiol ar gyfer y gwaith yma. O ran y byd llenyddol yng Nghymru, mae'r Sipsiwn wedi eu hamsugno i nofelau enwog fel *Tân ar y Comin*, sy'n adrodd hanes Sipsi ifanc yn creu bywoliaeth i'w hun wedi marwolaeth ei dad-cu.[93] Bydd marwolaeth Alff Boswell yn y nofel yn cael ei drafod nes ymlaen yn yr adran marwolaethau i ddarlunio un o draddodiadau angladdol y Sipsiwn yng Nghymru. Mae nofelau yn gallu rhoi darlun rhamantaidd o'r gymuned er hynny, drwy lygaid pobl o'r tu allan i'r gymuned Sipsi rhan amlaf. Mae hyn yn sicr yn wir yn y nofel hon, gan i'r

[89] C. L. Morgan, *Augustus John Papers at the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1996), t.3-21.
[90] Matthews, *The Gypsy Woman-Representations in Literature and Visual Culture*, t.129.
[91] Chambers, *Exploits and Anecdotes of the Scottish Gypsies- with traits of their origin, character and manners,* t.4.
[92] Floate, *My ancestors were Gypsies*.
[93] T. L. Jones, *Tân ar y Comin* (Llandysul, 2013).

prif gymeriad enghreifftio'r ddelfryd o'r Sipsiwn yn y farn gyhoeddus, fel pobl rhydd, diddysg a theithiol. Nofelau fel *Tân ar y Comin* sy'n ychwanegu at syniadau rhai unigolion yn y presennol o beth yw 'gwir' Sipsi. Yn y byd cerddorol, mae'r academyddion fel Griffith yn pwysleisio dylanwad y teulu Wood yng Nghymru ar y delyn.[94] Mewn barddoniaeth y mae'r Sipsiwn yn ymddangos yn aml hefyd. Enghraifft yw 'Y Sipsiwn' gan Eifion Wyn sy'n rhoi darlun rhamantaidd o fywyd y Sipsi.[95] Mae'r gweithiau uchod yn pwysleisio pa mor boblogaidd oedd y Sipsiwn yn y byd llenyddol yng Nghymru. Mae'r gweithiau llenyddol llawer mwy llawn na'r gweithiau academaidd am Sipsiwn yn y wlad. Esbonnir hyn gyda'r ffaith bod Sipsiwn yn cael eu ffafrio am y syniad rhamantaidd ohonynt. Fel byddwn yn pwysleisio yn y gwaith hwn, y Sipsi orau yw'r Sipsi nid yw'n bodoli, sef yr unigolyn rhamantaidd sy'n byw yn isymwybod trigolion Prydain. Y ffigwr sy'n byw mewn carafán bren, yn teithio'r wlad a byw bywyd naturiol. Dyma'r Sipsi sy'n ffitio orau yn y llenyddiaeth, a'r un sydd yn cael ei ddefnyddio fwyaf. Gall hyn esbonio'r diffyg gweithiau academaidd hefyd, wrth i unigolion anwybyddu ffeithiau a chreu cymeriad eu hunain.

<u>Gweithiau yn ail hanner yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain</u>

Yn yr ugeinfed ganrif hwyr, roedd y Sipsiwn yn parhau i gael eu hastudio fel yr 'eraill' yn y gymdeithas Brydeinig, fel yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Pwysleisiodd Okely bod y Sipsi fel 'eraill' yn cael eu hastudio gan ferched a oedd yn cael eu hystyried fel 'eraill' yn yr 1980au eu hunain.[96] Roedd grwpiau ar yr ymylon yn cymryd diddordeb yng ngrwpiau eraill a oedd yn derbyn rhagfarn. Yn bwysig, roedd merched fel Okely yn gallu cydymdeimlo gyda'r gymuned, gan amlinellu themâu newydd yn eu gweithiau am Sipsiwn oedd heb eu trafod ynghynt, fel addysg a rôl merched yn y gymuned. Er hynny, mae'r gweithiau am ferched

[94] R. Griffith, *Llyfr Cerdd Dannau- Ymchwiliad i hanes hen gerddoriaeth a'r dulliau hynaf o ganu* (Caernarfon, 1913), t.269.
[95] E. Wyn, 'The Gypsy', cyfieithu gan J. G. Davies, *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol. 7 (1928), t.199.
[96] J. Okely, 'Constructing Difference: Gypsies as "Other"', *Anthropological Journal on European Cultures*, Vol.3 (1994), t.58.

Sipsi o ddiwedd y ganrif yn brin ofnadwy. Mae'n anodd darganfod gweithiau o ddiwedd yr ugeinfed ganrif sy'n trafod rhai o ddefodau a thraddodiadau merched Sipsi Prydain. Mae'r gweithiau yn gyffredinol am Sipsiwn yn niwedd y ganrif yn brin. Yn aml, rhaid dibynnu ar y ffynonellau cynradd prin sydd yn trafod merched Sipsi i ystyried y traddodiadau a defodau oedd yn cael eu cysylltu â hwy.

Erbyn heddiw mae'r llenyddiaeth yn ôl Hamilton yn canolbwyntio ar addysg Sipsiwn ac effaith ethnigrwydd a rhywedd.[97] Mae'r gweithiau yma yn bwysig yn y gwaith yma, gan fod y thema olaf yn crybwyll addysg merched Sipsi. Yn ogystal, mae'r gwaith hwn yn ffitio i'r categori rhywedd i raddau helaeth gan ei fod yn ystyried rôl merched Sipsi yng Nghymru. Ar gyfer darganfod y rôl hon mae angen ystyried sut oedd bywydau merched Sipsi yn gwahaniaethu gyda'r dynion, ac os oeddynt yn cael eu gweld yn israddol. O ran astudiaethau merched yn gyffredinol, mae'r gwaith hwn yn rhan o'r pynciau hanes rhywedd a hanes merched sydd wedi tyfu mewn poblogrwydd yng Nghymru a gweddill Prydain ers yr 1970au, megis gwaith Smith am hanes merched yng Nghymru'r oesoedd canol o'r flwyddyn 2000.[98] Cyhoeddodd Norman thesis yn 2002 sy'n trafod grŵp o Deithwyr benywaidd o Ogledd Cymru wedi iddi wario nifer o amser ymysg y merched.[99] Dyma'r gwaith tebycach i'r gwaith yma. Er hynny, mae'r gwaith yma yn unigryw oherwydd ei fod yn trafod themâu wedi eu hanwybyddu hyd yma. Mae'n canolbwyntio ar Sipsiwn benywaidd Cymru, yn hytrach nac unigolion sy'n hystyried eu hunain fel Teithwyr Gwyddelig. Yn ogystal, roedd gwaith Norman yn canolbwyntio fwy ar rolau a dyletswyddau presennol grŵp bach o Deithwyr benywaidd yn 2002.[100] Ar y llaw arall, mae'r gwaith yma yn ymchwiliad mwy eang i'r

[97] P. Hamilton, 'School books or wedding dresses? Examining the cultural dissonance experienced by young Gypsy/Traveller women in secondary education', *Gender and Education*, Vol.30 (2018), t.829.
[98] L. B. Smith, 'Towards a History of Women in Late Medieval Wales', yn Michael Roberts a Simone Clarke (gol), *Women and Gender in Early Modern Wales* (Caerdydd, 2000).
[99] I. Norman, *The changing lives of women Travellers* (Bangor, 2002).
[100] Norman, *The changing lives of women Travellers*, t.5.

traddodiadau oedd yn effeithio merched Sipsi yn yr ugeinfed ganrif a sut maent wedi newid erbyn yr unfed ganrif ar hugain.

Natur hanes merched ym Mhrydain yn gyffredinol

Er bod man gweithiau penodol sydd yn trafod merched Sipsi ym Mhrydain, mae'n bwysig cydnabod natur y gweithiau hanesyddol cyffredinol am ferched ym Mhrydain hefyd. Mae hyn yn gosod unrhyw waith hanesyddol am ferched Sipsi yng nghyd-destun y gweithiau hanesyddol am ferched yn gyffredinol yn y deyrnas. Y bwriad fydd i ddangos bod hanes merched Prydain yn bwnc newydd i raddau helaeth yn gyffredinol, ar wahân i hanes ferched Sipsi. Datblygodd hanes merched yn gyffredinol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg mewn gweithiau cymdeithasol a diwylliannol a oedd yn cael eu hystyried yn israddol o'i gymharu â hanes gwleidyddol a chyfreithiol.[101] Ond, gyda thwf y symudiad merched cyntaf ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd merched yn herio ffiniau eu rhywedd er mwyn cymryd rhan yn y byd academaidd ac ysgrifennu hanes o safbwynt eu hunain.. Er hyn, ni fyddai'r ymgyrchoedd yma wedi cael llawer o effaith ar ferched Sipsi a oedd yn tueddu i beidio cael addysg yn y lle cyntaf, heb os ysgrifennu mewn ffordd academaidd. I Bargielowska ni ellir deall hanes Prydain yn yr ugeinfed ganrif heb ystyried merched.[102] Bydd y gwaith yma yn pwysleisio bod merched, yn benodol merched Sipsi, yn chwarae rhan allweddol yn hanes Cymru a gweddill Prydain.

Roedd twf yn y gweithiau hanesyddol am ferched eto yn yr 1960au-1970au, gyda'r symudiad ffeministiaid.[103] Er hynny, roedd merched o dramor yn cael eu darlunio fel estron digroeso mewn nifer o weithiau yn yr 1950au-1960au, gan gyd-fynd â'r ymdeimlad Prydeinig yn

[101] B. Melman, 'Changing The Subject: Women's History And Historiography 1900-2000', yn I. Z. Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), tt.17-18.
[102] I. Z. Bargielowska, 'Introduction', yn I. Z. Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), t.4.
[103] Bargielowska, 'Introduction', t.19.

erbyn tramorwyr yn y cyfnodau hyn.[104] Datblygodd ddelwedd o Brydain 'dan ymosodiad gan dramorwyr.[105] Yn yr 1950au roedd sefydliadau ffasgaidd wedi bod yn ymgyrchu eu polisi 'Keep Britain White' gan ddangos bod tensiwn ynglŷn â hil yn bwnc llosg.[106] Mae'n bosibl bod y syniad yma wedi cael effaith ar y teimladau cenedlaethol tuag at Sipsiwn ym Mhrydain, gan eu bod yn grŵp ar yr ymylon. Yng ngeiriau Corradi am Sipsiwn yn gyffredinol,

> 'Gypsy bodies are seen as trespassers and as out-of-place anywhere'.[107]

Gwelir bod y Sipsiwn fel grŵp cyfan yn cael eu gweld fel perygl yn llygaid rhai unigolion. Nid oedd y Sipsiwn yn cael eu hystyried fel unigolion yn hawl eu hunain, ond yn cael eu gweld fel un broblem enfawr. Gallai hyn fod wedi annog academyddion i gadw'n glir o'r testun fel pwnc ymchwil, sy'n esbonio'r diffyg gweithiau academaidd yn gyffredinol.

Erbyn diwedd yr 1980au datblygodd tuedd tuag at hanes rhywedd yn hytrach nac hanes merched.[108] Roedd hyn yn ffordd i ystyried y berthynas rhwng y ddau rywedd, gan fod hanes merched a dynion yn aml wedi'i blethu. Mae'n debyg i haneswyr Prydain cael eu dylanwadu gan y theori ôl-strwythurol a ddatblygodd yn Ffrainc yn yr 1970au, ac sy'n canolbwyntio ar y gwahaniaethau rhwng dynion a merched sy'n cael eu darlunio mewn diwylliant.[109] Er bod y gwaith yma yn canolbwyntio ar draddodiadau sy'n ymwneud a Sipsiwn benywaidd Cymru, bydd hefyd yn ystyried y gwahaniaethau o ran rhywedd yn y gymuned i ddeall pam bod merched yn cael eu cysylltu â chymaint o ddefodau. I Brooke, mae astudiaethau rhywedd angen ystyried beth mae gwrywdod a benywdod yn golygu i gymdeithas.[110] Byddwn yn

---

[104] W. Webster, ''Race', Ethnicity and National Identity', yn I. Z. Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), t.292.
[105] Webster, ''Race', Ethnicity and National Identity', t.304.
[106] V. Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950s* (Llundain, 2015), t.438.
[107] R. Lund, 'Gypsy Feminism: An Interview with Laura Corradi', *Nordic Journal of Feminist and Gender Research*, Vol.27 (2019), t.141.
[108] Melman, 'Changing The Subject: Women's History And Historiography 1900-2000', t.24.
[109] Melman, 'Changing The Subject: Women's History And Historiography 1900-2000', t.27.
[110] Brooke, 'Class and gender', t.44.

gweld bod rolau derbyniol rhywedd yn cael eu cymryd o ddifri yn y diwylliant Sipsi. I Bargielowska, er bod merched y flwyddyn 2000 â mwy o gyfleoedd na merched yn y flwyddyn 1900, roedd hafalrwydd rhwng y ddau rywedd yn parhau i fod yn wibiog.[111] Rhaid cydnabod bod merched gwahanol â phrofiadau gwahanol yn yr ugeinfed ganrif, a heddiw. Gwelir bod hanesyddiaeth am, a gan, ferched wedi cynnyddu drwy gydol yr ugeinfed ganrif. Er hynny, roedd y gweithiau a oedd yn crybwyll merched Sipsi yn brin. Felly, mae'r gwaith yma yn llenwi'r bwlch mewn hanesyddiaeth, ac yn gosod Sipsiwn benywaidd yng nghyd-destun hanesyddol Prydain am ferched, rhywedd ac am Sipsiwn yn gyffredinol.

Natur hanes merched yng Nghymru yn gyffredinol

Mae'n glir o ystyried yr hanesyddiaeth am ferched yng Nghymru bod twf ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif a dechrau'r unfed ganrif ar hugain yn y gweithiau hyn. I Wright, cyn yr 1970au, roedd hanes merched yng Nghymru wedi'i seilio ar tystiolaeth llafar yn unig ac roedd hanes fel disgyblaeth wedi'i dominyddu gan ddynion.[112] Gwaith pwysig wrth ystyried yr hanesyddiaeth am ferched yng Nghymru oedd Jane Aaron et al *Our Sisters' Land-The Changing Identities of Women in Wales* a gyhoeddwyd yn 1994 ac oedd yn cynnwys erthyglau am, er enghraifft, trais domestig gan Charles , merched yn y gweithlu gan Rees a gwaith domestig gan Pilcher.[113] Dyma waith defnyddiol i'r astudiaeth yma gan ei fod yn crybwyll a themâu sy'n cael ei drafod yn y thesis yma. Mae llyfr Aaron et al yn bwysig tu hwnt gan ei fod yn pwysleisio sut oedd merched a rhan allweddol mewn nifer o feysydd penodol drwy gydol yr ugeinfed ganrif, boed hynny yn y cartref neu'r gweithlu.

[111] Bargielowska, 'Introduction', t.1.
[112] M. Wright, 'Whose past? Whose future? An exploration of women's history in Wales', *Equal Opportunities*, Vol.19 (2000), t.25.
[113] N. Charles, 'The refuge movement and domestic violence', yn J. Aaron et al., (gol), *Our Sisters' Land-The Changing Identities of Women in Wales* (Caerdydd, 1994), t.50; T. Rees, 'Women and paid work in Wales', yn J. Aaron et al., (gol), *Our Sisters' Land-The Changing Identities of Women in Wales* (Caerdydd, 1994), t.93; J. Pilcher, 'Who should do the dishes? Three generations of Welsh women talking about men and housework', yn J. Aaron et al., (gol), *Our Sisters' Land-The Changing Identities of Women in Wales* (Caerdydd, 1994), t.45.

Canolbwyntiodd Aaron ar beth yw hi i fod yn Gymraes yn 1998, gan gysylltu ddelwedd o'r Gymraes gyda hunaniaeth genedlaethol.[114] Mae'r thesis yma yn gwneud rhywbeth tebyg, gan iddo ddangos sut oedd rhai gweithredoedd oedd yn unigryw i ferched Sipsi yn cysylltu a'u hunaniaeth oddi fewn i'r gymuned, er enghraifft sut oedd glanhau i rhai yn rhan o'u hunaniaeth neu sut oedd gweithio swyddi penodol yn rhan o'u hunaniaeth oddi fewn i'r grŵp. Yn 2002, roedd Tibbott yn canolbwyntio ar hanes ddomestig yng Nghymru gan gysylltu merched yn bennaf gyda'r gwaith domestig.[115] I ychwanegu, yn 2004, cyhoeddodd Draisey waith oedd yn ystyried bywydau merched yng Nghymru yn gyffredinol, o'r cyfnod Rhufeinig nes degawdau olaf yr ugeinfed ganrif gan ganolbwyntio ar themâu megis priodasau, trosedd a swyddi.[116] Yn fwy diweddar yn 2011, mae Beddoe wedi canolbwyntio ar bywyd domestig merched yng Nghymru a dangos y bywydau caled oedd ganddynt.[117] Roedd hyn yn debyg i fywydau'r merched Sipsi yn y wlad. Bydd y gweithiau sydd wedi cael eu crybwyll yn yr adran yma yn cael eu defnyddio er mwyn cymharu bywydau merched Sipsi Cymru gyda merched frodorol Cymreig. Mae'r ffaith bod hanesyddiaeth am ferched yn agwedd eithaf newydd o hanes ac yn tyfu o hyd yn dangos bod y gwaith yma am ferched Sipsi yn ychwanegu at creu hanesyddiaeth fwy hafal yng Nghymru. Mae'n bwysig i hanesyddiaeth am ferched yng Nghymru ystyried cymunedau ethnig lleiafrifol yn y wlad, er mwyn ystyried sut oedd bywydau'r merched yma yn y cymunedau gwahanol yn gwahaniaethu neu'n debyg.

Yr heriau wrth astudio'r Sipsiwn

Er bod yr adolygiad llenyddiaeth yma wedi hyrwyddo bod gweithiau am Sipsiwn Prydain yn cynyddu ar hyn o bryd, gall academyddion sy'n ceisio eu hastudio yn y deyrnas wynebu nifer

[114] J. Aaron, Jane, *Pur fel y Dur- Y Gymraes yn llen Menywod y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd, 1998), t.1.
[115] S. M. Tibbott, *Domestic Life in Wales* (Caerdydd, 2002).
[116] D. Draisey, *Women in Welsh History* (Abertawe, 2004).
[117] D. Beddoe, 'Munitionettes, Maids and Mams: Women in Wales, 1914-1939', yn A. John (gol), *Our Mother's Land: Chapters in Welsh Women's History, 1830-1939* (Caerdydd, 2011).

o heriau. Yn ôl Bhopal a Myers, mae rhai academyddion yn hawlio perchnogaeth am y Sipsiwn ac yn amau academyddion newydd, sy'n broses anaddas ac annheg.[118] Mae'r negyddiaeth yma yn gallu ei wneud yn anodd i ddechrau astudio'r gymuned. Yng ngeiriau Roy Wells, sef Arlywydd y Cyngor Cenedlaethol Sipsi,

> You clever academics befriend us for a few months, they come down to our sites, eats our food and drinks our tea. Some of them even lives among us. Then they disappear to their nice homes and University libraries. Next thing we know, they're giving lectures on us, writing books about us…what do they know about our struggles?[119]

Dyma safbwynt pwysig sydd angen cael ei hystyried cyn cychwyn ymchwiliad am y gymuned Sipsi. Dyma gymuned sydd wedi arfer gweld academyddion yn cymryd mantais. Oherwydd hyn, gall dderbyn mynediad i'r Sipsiwn ar gyfer cynnal cyfweliadau fod yn anodd oherwydd natur gyfrinachol y gymuned. Yn ôl Liegeois mae Sipsiwn yn diogelu eu diwylliant drwy ddweud celwyddau ac ymddwyn yn amheus o ddarparu data.[120] Mae'n bosibl felly bod y wybodaeth sydd wedi cael ei gasglu gan y Sipsiwn am eu hunain yn anghywir. I ychwanegu, mae'r ffaith bod y gymuned a diwylliant llafar i raddau helaeth yn golygu bod diffyg ffynonellau ysgrifenedig hanesyddol ar gael amdanynt. I'r ymchwilwyr sydd eisiau cyfweld ag aelodau benywaidd o'r gymdeithas, yn aml nid yw merch Sipsi i fod yng nghwmni dyn nid yw'n perthyn iddi.[121] Rhaid gwneud trefniadau i sicrhau cyfwelydd benywaidd yn yr achosion hyn. Mae angen ystyried unrhyw addasiadau sydd angen cael eu cwblhau a'u trefnu cyn cychwyn ar ymchwiliad am y gymuned Sipsi, er mwyn osgoi unrhyw amharch neu helynt.

---

[118] Bhopal a Myers, *Insiders, Outsiders and Others- Gypsies and Identity,* tt.36-43.
[119] Ibid, tt.36-37.
[120] Liégeois, *Gypsies- An Illustrated History*, t.18.
[121] K. Bhopal, 'Gender, identity and experience: Researching marginalised groups', *Women's Studies International Forum,* Vol.33 (2010), t.191.

Safle/ Cefndir yr ymchwilydd

Mantais sydd gen i yw'r ffaith fy mod yn dod o deulu o Sipsiwn Cymraeg fy hunan. Mae hyn yn golygu bod cael mynediad i'r gymuned yn haws ac yn golygu bod unigolion o'r gymuned yn fwy tebygol o rhoi cymorth gyda'r ymchwil oherwydd fy nghysylltiad gyda'r gymuned. Byddai Sipsiwn yn fwy tebygol o helpu'r ymchwilydd os yw'r ymchwilydd hwnnw yn Sipsi ei hunan. Rhaid cydnabod bod fy safle a fy nghefndir i wedi cael effaith ar y gwaith yma i raddau. Mae'n amlwg bod tuedd yn bodoli, ac mae'n bwysig cydnabod hyn, ond hefyd gweld bod tuedd yn rhan o weithiau academyddion sydd heb cysylltiad mor agos i'r pwnc ymchwil. Mae'r manteision o fod yn rhan o'r gymuned Sipsi yng Nghymru ar gyfer yr astudiaeth yma yn gorbwyso'r rhagfarn a allai fod yn anfantais.

Mae'n ddefnyddiol bod yn rhan o'r gymuned gan ei fod yn golygu bod traddodiadau a defodau yn ymwneud â merched y gymuned yn rhan o dreftadaeth yr ymchwilydd. Bydd yr ymchwilydd â phrofiad uniongyrchol o sut mae traddodiadau a defodau wedi newid, esblygu neu diddymu erbyn yr ugeinfed ganrif ar hugain. Gan fy mod i'n ferch, dwi'n gallu ystyried mewn ffordd unigryw sut mae traddodiadau a defodau wedi neu heb cael effaith ar fy mywyd innau. Dwi'n dod o deulu o Sipsiwn Cymraeg, sef y teulu Lock, sydd wedi gwreiddio yn Ynys Môn ers yr ugeinfed ganrif. Arferai'r teulu Lock cael y cyfenw Boswell. Cafodd y cyfenw ei newid i Lock, ond mae'r rheswm pam yn ansicr. Traddodiad llafar yw i'r teulu Boswell ddod i drybini gyda'r awdurdodau ac yna ffoi oddi wrth yr heddlu a newid eu cyfenw. Mae'n bosibl i'r cyfenw cael ei ddewis oherwydd i'r teulu rhagori mewn pigo clo oddi ar giât caeau ffermwyr yn y nos i adael i'w ceffylau gwyro ar y tir, cyn cloi y giatiau ar eu hol yn y boreau a parhau i deithio heb i'r ffermwyr wybod. Rhywbeth sy'n bwysig i gydnabod yn fy nheulu innau, ond hefyd o ran y gymuned gyfan, yw bod straeon, traddodiadau, defodau a hanes teuluol yn cael ei basio ar lafar. Mae'n amhosibl gwybod yn sicr os yw'r wybodaeth yn gywir erbyn y presennol, ond i ni fel teulu mae'r gwybodaeth yn

cael ei cymryd o ddifri. Byddaf yn defnyddio gwybodaeth dwi wedi clywed ar lafar, neu wedi dysgu amdano gan oedolion y gymuned, neu wrth cael fy magu yn y gymuned yn gyffredinol fel tystiolaeth yn y gwaith yma. Gwnaf yn glir pa dystiolaeth sy'n dod ar lafar, felly mae angen cymryd hyn i ystyriaeth wrth ei ddarllen. Mae'r teulu wedi bod yng Nghymru ers dros can pump deg o flynyddoedd o leiaf. Mae tystiolaeth o hyn yn dod o luniau o'r teulu yn ardaloedd ym Môn yn yr ugeinfed ganrif cynnar, felly'n mae'n bosibl iawn bod y teulu wedi bod yng Nghymru ers cyn yr ugeinfed ganrif. Bydd un o'r lluniau yma yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth nes ymlaen. Mae fy nheulu innau wedi gwreiddio i raddau helaeth ac yn byw mewn tai neu ar tir eu hunain mewn chalets neu carafannau. Dwi wedi byw mewn tai erioed. Mae hyn yn rhoi safbwynt gwahanol i safbwynt merch Sipsi fyddai wedi cael ei magu yn teithio neu ar safle gwersylla parhaol, a byddai'r defnydd o traddodiadau a defodau ym mywyd pob dydd yn wahanol yn fy marn i os baswn i wedi cael fy magu yn teithio.

Methodoleg

Ffynonellau cynradd: eu cryfderau a gwendidau

Er bydd yr ymchwiliad hwn yn defnyddio'r hanesyddiaeth bresennol berthnasol, bydd hefyd yn defnyddio ffynonellau cynradd (fel hunangofiannau, erthyglau papur newydd a rhaglenni teledu) ac yn dangos darganfyddiadau newydd.

Mae hunangofiannau unigolion o'r gymuned Sipsi yn boblogaidd ymysg y cyhoedd hyd heddiw. Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, gwelir hunangofiannau'r Sipsiwn Cymreig Betsy Wood o 1926 a Nansi Lovell o 1933.[122] Yn fwy diweddar, mae hunangofiannau wedi eu hysgrifennu gan nifer o'r Sipsiwn a Theithwyr Seisnig megis Violet Cannon yn 2011 a

[122] Lyster, *The Gypsy Life of Betsy Wood*, E. P. Morgan, *Nansi Lovell-Hunangofiant Hen Sipsi* (Morgannwg, 2018).

George Locke yn 2012.[123] Mae'r gweithiau hyn yn aml yn rhoi darlun rhamantaidd o fywydau'r Sipsiwn, er enghraifft yn y carafannau pren yn teithio ledled y wlad. Er hyn, mae'r hunangofiannau cynnar yma yn bwysig wrth ddadlau yn erbyn y syniad bod y gymuned Sipsi yn gyfrinachol tu hwnt. Mae'n dangos bod rhai unigolion mwy na bodlon i ddatgelu gwybodaeth am eu bywydau o fewn y gymuned ac yn esbonio traddodiadau a defodau mewn manylder. Mae Mayall yn dadlau bod y mwyafrif o wybodaeth am y Sipsiwn gan ysgrifenwyr nid yw'n rhan o'r gymuned, ond bod rhai hunangofiannau gan y Sipsiwn eu hunain.[124] Yn ôl Shaw, mae'r hunangofiannau yn dangos bod marchnatwyr llyfrau yn chwarae rhan mewn parhad ystrydebau yn erbyn Sipsiwn Prydain.[125] Gall yr hunangofiannau hyn ychwanegu at y syniad ystrydebol bod Sipsiwn heddiw ddim yn wir Sipsiwn oherwydd eu bod wedi rhoi'r gorau i fyw'r bywyd traddodiadol. Yn ogystal, yn aml mae'r awduron yn canolbwyntio ar agweddau cadarnhaol eu bywydau ac yn anwybyddu'r amseroedd gwael. Mae hyn yn gallu rhoi darlun unochrog o fywyd yr unigolion. Ar y llaw arall, merched yw awduron yr hunangofiannau yma i raddau helaeth. Gallent fod yn bwysig wrth gadarnhau traddodiadau benywaidd yn y gymuned. Darlunnir y cyfnod ble roedd y bywyd traddodiadol o allu teithio'r cefnwlad heb llawer o heriau awdurdodol yn dirywio hefyd, gan ddangos sut mae bywydau merched wedi newid.

Yn ogystal, mae nifer eang o erthyglau papur newydd ar gael mewn archifdai lleol sy'n trafod y Sipsiwn Cymraeg. Mwy na dim, mae'r erthyglau hyn yn cofnodi troseddau y Sipsiwn, er enghraifft troseddau ar y Briffordd neu wrth adael eu ceffylau grwydro. Cawn nifer o achosion o Sipsiwn yn cael eu cyhuddo o droseddau ym mhapurau newydd Gogledd Cymru

[123] V. Cannon, *Gypsy Princess-The true story of a Romany childhood* (Llundain, 2011), G. Locke, *Big Louie & Me- Caravans, curses & cockfights* (Hertfordshire, 2012).
[124] Mayall, *Gypsy-travellers in nineteenth-century society*, tt.7-8.
[125] M. Shaw, 'Intersecting stories and gender support systems in Violet Cannon's Gypsy Princess: The true story of a Romany childhood', *Romani Studies*, Vol.28 (2018), t.234.

o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg hwyr a'r ugeinfed ganrif gynnar.[126] Ychwanegodd y wasg at y syniad hwn o'r Sipsi fel troseddwr, gan ganolbwyntio ar y darlun negyddol ohonynt. Mae'r rhan fwyaf o gyfeiriadau at Sipsiwn ym mhapurau newydd Gogledd Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg hwyr a'r ugeinfed ganrif gynnar yn trafod troseddau yr oedd y Sipsiwn wedi cyflawni, sy'n dangos bod y wasg yn ychwanegu at y syniad ystrydebol o'r Sipsiwn fel 'eraill egsotig' a throseddwyr afreolus. Ar y llaw arall, mae yna erthyglau sydd yn trafod digwyddiadau pwysig, er enghraifft angladd Sipsi poblogaidd neu briodas rhwng Sipsi a Gorgio (person nid yw'n Sipsi). Mae'r erthyglau yn bwysig i gadarnhau rhai traddodiadau, yn enwedig o ran angladdau. Er bod yr ysgrifenwyr â dealltwriaeth brin o'r Sipsiwn eu hunain, mae'r ffeithiau caled ynddynt yn gallu bod yn ddefnyddiol a diddorol.

I ychwanegu, mae'r ymchwiliad hon yn cynnwys lluniau o rai o'r Sipsiwn Cymraeg yn ystod yr ugeinfed ganrif gynnar. Daw'r lluniau yma o adran Sipsi archifdy Lerpwl, sy'n gasgliad enfawr o ffynonellau, dogfennau a lluniau o Sipsiwn Prydain. Mae'r lluniau yma yn dystiolaeth bwysig am Sipsiwn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Maent yn dangos y rhaniad rhywedd clir oedd yn y gymuned, sydd yn bwysig iawn fel tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn. Mewn un llun bydd merch benodol yn cael ei chyfeirio ati yn y gwaith hwn er mwyn ystyried ei rôl yn y teulu a'i chyfrifoldebau.

O ran tystiolaeth fwy diweddar, bydd rhaglenni teledu fel *My Big Fat Gypsy Wedding* yn cael eu defnyddio i ystyried sut mae traddodiadau wedi parhau neu newid mewn rhai teuluoedd Sipsi. Rhaid bod yn ofalus gyda'r rhaglenni teledu, gan yn aml mae Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig yn cael eu cynnwys dan yr un label ynddynt. Er hyn, mae *MBFGW* a rhaglenni eraill yn bwysig er mwyn dangos sut mae'r Sipsiwn yn ceisio dal gafael ar eu diwylliant a

[126] 'Llangefni Petty Sessions', *The North Wales Chronicle and Advertiser for the Principality- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 23 Mai 1919; 'Gipsies in Anglesey and their purchases-Larceny or buying on credit?', *The North Wales Express- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 25 Mawrth 1892.

thraddodiadau a'r heriau yn eu herbyn. Yn aml cawn ddarlun pobl ifanc o'r gymuned yn y rhaglenni, sy'n rhoi safbwynt diddorol am y syniadau o gwmpas traddodiadau.

Bwriad dewis cymaint o ffynonellau cynradd gwahanol oedd dangos yr amrywiaeth o ran tystiolaeth sydd ar gael ar gyfer astudio'r Sipsiwn ym Mhrydain. Yn aml, mae'r Sipsiwn yn cael eu hystyried yn gyfrinachol tuag at academyddion, sy'n gallu bod yn wendid. Er hyn, mae ffynonellau cynradd, fel lluniau a hunangofiannau efallai yn dadlau yn erbyn y syniad yma, ac yn dangos bod rhai o'r Sipsiwn eisiau arddangos eu hunain a'u ffordd o fyw. Mewn astudiaeth sy'n canolbwyntio ar agwedd o hanes sydd heb dderbyn astudiaethau digonol, sef merched Sipsi yng Nghymru, eu traddodiadau a defodau, mae angen defnyddio cymaint o ffynonellau cynradd sydd ar gael. Mae hyn yn bwysig gan fod y gweithiau academaidd am Sipsiwn yng Nghymru yn brin, a'r gweithiau academaidd am ferched Sipsi ym Mhrydain yn gyffredinol yn brin hefyd. Yn aml, mae angen dibynnu ar y ffynonellau cynradd yn unig am dystiolaeth yn y gwaith yma, sy'n dangos pam bod amrywiaeth eang o ffynonellau wedi cael eu defnyddio. Yn ogystal, mae'r ffynonellau cynradd yn cynnwys tystiolaeth ar hyd y llinach amser yn y gwaith yma (1900-2021), er enghraifft hunangofiannau o ddechrau'r ugeinfed ganrif a rhaglenni teledu o'r unfed ganrif ar hugain cynnar. Mae hyn yn sicrhau bod tystiolaeth ar gael sy'n dangos datblygiad, dirywiad a pharhad traddodiadau a defodau yn y gymuned Sipsi.

Yr Holiadur

Yn ogystal â'r ffynonellau cynradd, mae'r ymchwiliad yn defnyddio data wedi'i gasglu oddi wrth gant tri deg a thri unigolyn o'r gymuned Sipsi ar ffurf holiadur. Cafodd yr holiaduron eu dosbarthu i oedolion dros deunaw oed. Y mae copi o'r holiadur yn yr atodiad ar ddiwedd y thesis. Bwriad y cwestiynau oedd ystyried os oes gan y gymuned Sipsi ddefodau a thraddodiadau unigryw i'r gymuned. Hefyd, os yw'r traddodiadau a defodau hyn wedi parhau

at y presennol. Roedd yn bwysig ystyried os oedd traddodiadau newydd wedi ymddangos, yn enwedig yn yr unfed ganrif ar hugain. Yn ogystal, bu'n bwysig gweld os oedd unrhyw hen draddodiadau wedi newid neu esblygu dros y degawdau diwethaf. Roedd adrannau yn y cwestiynau ble roedd cyfranogwyr yn gallu ychwanegu eu sylwadau eu hunain. Yr adrannau yma a ddatgelodd yr wybodaeth fwyaf unigryw a diddorol i'r gwaith yma. Bydd dyfyniadau o sylwadau y cyfranogwyr yn cael eu defnyddio yn aml yn y gwaith fel tystiolaeth am draddodiadau a defodau, ond hefyd i ddangos bod rhai traddodiadau a defodau yn unigryw i deuluoedd penodol.

Cafodd yr holiadur, yn ogystal â thudalen wybodaeth am yr holiadur, ei adolygu gan Swyddog Moeseg, Ysgol Hanes, Athroniaeth a Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor. Cafodd yr holiadur a'r dudalen wybodaeth cymeradwyaeth moeseg lawn. Nid oedd y cyfranogwyr yn gorfod cynnwys eu henw yn yr holiadur i sicrhau cyfrinachedd. Cafodd y pandemig Covid 19 effaith ar yr astudiaeth hon, yn enwedig wrth ystyried yr holiaduron. Yn gyntaf, roedd cyfweliad gydag ewythr yr awdures i fod i gymryd lle. Oherwydd rheolau cadw pellter cymdeithasol a chysgodi, nid oedd hyn yn bosibl. Yn wreiddiol, y bwriad oedd dosbarthu'r holiaduron mewn person ac ar lein, er mwyn ceisio cyrraedd cymaint o unigolion â phosibl. Ond oherwydd rheolau Covid 19, nid oedd dosbarthu mewn person yn bosibl. Cafodd y broblem yma ei oresgyn drwy ddosbarthu yr holiadur ar lein a rhoddwyd y dudalen wybodaeth ar ffurf Google Doc. Yna, dosbarthwyd yr holiadur a'r dudalen wybodaeth dros ebost ac ar y llwyfan cymdeithasol Facebook ar grwpiau trafod ac ymgyrchu Sipsi a Theithwyr. Anogwyd cyfranogwyr i ddarllen y dudalen wybodaeth yn ofalus cyn dewis cymryd rhan. Roedd modd iddynt gysylltu â'r ymchwilydd yn uniongyrchol er mwyn cael gwybodaeth bellach. Os oedd yna gwestiynau nid oedd y cyfranogwyr yn fodlon eu hateb, roeddynt yn gallu eu hanwybyddu a pharhau at y cwestiwn nesaf yn lle. Os nad oedd cyfranogwyr eisiau parhau gyda'r holiadur, roeddynt hefo'r hawl i dynnu'n ôl o'r holiadur ar

unrhyw bryd heb roi rheswm pam. Os oedd cyfranogwyr yn penderfynu ar ôl cwblhau'r holiadur nid oeddynt yn fodlon i'r wybodaeth a roddir cael ei ddefnyddio yn y thesis, roedd eu hymatebion yn cael eu dinistrio heb unrhyw gwestiynau nac effaith iddynt. Nid oedd gwybodaeth bersonol y cyfranogwyr nac unrhyw wybodaeth a roddir yn yr holiadur yn cael ei drosglwyddo i unrhyw berson neu barti allanol. Trafodwyd y wybodaeth a gasglwyd rhwng yr ymchwilydd a'r goruchwylwyr yn unig. Anfantais o ddosbarthu'r holiaduron ar lein yn unig yw'r ffaith bod rhai Sipsiwn heb mynediad i'r rhyngrwyd ac felly wedi methu cymryd rhan.

Pam dewis holiadur?

Bwriad dewis holiadur, yn hytrach na dull ymchwil arall megis cyfweliadau, oedd rhoi amser digonol i gyfranogwyr feddwl ac ymateb yn drylwyr. Ymddengys fod hyn wedi bod yn llwyddiannus, gan fod yr ymatebion i'r holiadur wedi bod yn ddisgrifiadol a thrylwyr tu hwnt. Cryfder holiadur o'i gymharu â chyfweliad oedd gallu casglu tystiolaeth gan ganran uchel o gyfranogwyr, ac felly gweld tueddiadau ac ystyried canrannau. Roedd hyn yn bwysig, gan fod traddodiadau a defodau yn cael eu cadarnhau gan fwy nac un person. Roedd modd gweld sut oedd traddodiadau a defodau yn berthnasol i unigolion o'r gymuned a chael barn cant tri deg a thri o unigolion am y traddodiadau a defodau hynny. Yn ôl Blaxter et al, holiaduron sy'n cael eu defnyddio fwyaf fel dull ymchwil cymdeithasol.[127] Mae hyn yn dangos bod holiaduron yn cael eu cydnabod gan academyddion am eu gwerth fel dulliau ymchwilio. Yn ôl Burns, manteision holiaduron yw'r ffaith nad ydych yn gorfod trefnu amser neu dydd penodol fel yn achos cyfweliad ac mae hyn yn golygu bod dim cywilydd yn digwydd neu cysylltiad uniongyrchol gyda'r ymchwilydd. Mae hyn yn berthnasol yn y gymuned Sipsi.[128] Yn ôl profiad personol teuluol, byddai unigolion o fy nheulu yn teimlo

[127] L. Blaxter, et al., *How to Research: Fourth Edition* (Berkshire, 2010), t.201.
[128] R. B. Burns, *Introduction to Research Methods* (Llundain, 2000), t.581.

cywilydd cymryd rhan mewn cyfweliad, ond fwy tebygol o cymryd rhan mewn holiadur. Mantais arall yn ôl Burns yw'r teimlad bod holiadur yn fwy cyfrinachol na chyfweliad ac felly bod ymatebion yn fwy tebygol o fod yn wirioneddol ac heb eu heffeithio gan yr ymchwilydd.[129] Gwendid holiadur o'i gymharu â chyfweliad yw'r ffaith bod llai o siawns i'r cyfranogwr newid cyfeiriad y sgwrs tuag at rywbeth perthnasol ni fuasai'r ymchwilydd wedi meddwl amdano ynghynt. Yn ogystal, mewn holiaduron, mae pob amser cwestiwn sydd yn annigonol neu â ymateb difrawd.[130] Roedd hyn yn wir yn ymatebion yr holiadur yma, wrth i rai cyfranogwyr ymateb yn ddifrawd i rai o gwestiynau'r holiadur. Yn ôl Burns, anfantais holiadur yw nad ydych yn gwybod pam bod person wedi dewis ymateb mewn ffordd penodol, ac felly methu ymestyn ar hynny.[131] Yn ogystal, mae Burns yn nodi bod hi'n amhosibl creu holiadur sy'n hollol glir i bob cyfranogwr a bod camddeall yn gallu digwydd.[132] Gan fod diffyg darllen ac ysgrifennu yn gyffredin yn y gymuned Sipsi, mae'n bwysig cydnabod bod holiadur yn anfanteisiol yn yr achos yma, gan ei fod yn golygu bod rhai unigolion methu cymryd rhan. Er yr anfanteision yma, yn y sefyllfa o ymchwilio i'r thesis yma yn ystod amser Covid 19, holiadur oedd y ffordd orau i mi casglu data mewn ffordd diogel a dibynadwy.

Cefndir y cyfranogwyr

Roedd cwestiwn un yn gofyn rhywedd y cyfranogwyr. Gwnaeth chwe pherson dewis peidio ateb. Yna, roedd 21.09% (27 o gyfranogwyr) yn wryw, 77.34% (99 o gyfranogwyr) yn fenyw, a 1.56% (2 o gyfranogwyr) yn dewis peidio datgelu. Mae'n bwysig bod cymaint o ferched wedi dewis ymateb, gan ei fod yn dangos bod merched y gymuned yn cymryd diddordeb mewn gweithiau am eu cymuned. Hefyd mae'n dangos bod merched yn fwy parod

[129] Ibid, t.t.581.
[130] Blaxter, et al., *How to Research: Fourth Edition*, t.201.
[131] Burns, *Introduction to Research Methods*, tt.581-582.
[132] Ibid, tt.581-582.

i roi amser at ymateb i holiaduron a all cael effaith ar y portread o'u cymuned. Gan mai gwaith am draddodiadau a defodau oedd yn cael effaith ar fywydau merched Sipsi yw hon, mae'n bwysig cael safbwyntiau gan ferched Sipsi eu hunain fel tystiolaeth. Ar y llaw arall, mae'r ffaith bod y mwyafrif o gyfranogwyr yn ferched yn golygu mai safbwyntiau benywaidd ydym yn ei gael yn yr holiadur i raddau helaeth. Byddai mwy o amrywiaeth ymysg y cyfranogwyr o ran rhywedd efallai wedi creu canlyniadau llai rhagfarnllyd. Er hyn, mae'r ffaith bod yr ymatebion yn cael eu trosglwyddo i'r gwaith yma mewn ffordd anhysbys yn golygu bod rhywedd y cyfranogwr ddim mor bwysig â hynny. Gallai'r rhan fwyaf o'r dyfyniadau sy'n cael eu defnyddio yn y gwaith yma fod wedi cael eu hysgrifennu gan unrhyw berson, heb os eu rhywedd. Mae'r rhan fwyaf o'r dyfyniadau yn eithaf gwrthrychol, sy'n golygu mai enghreifftiau o draddodiadau a defodau sy'n cael eu rhestru yn aml yn yr adrannau sylwadaeth. Weithiau mae barn person yn cael ei adlewyrchu'n glir yn y sylwadaeth, ond yn aml ffeithiau sy'n cael eu trafod.

Ar wahân i gwestiwn am rhywedd, roedd hi'n bwysig ystyried oed y cyfranogwyr a benderfynodd ymateb i'r holiadur. O'r cant dau ddeg ac wyth o gyfranogwyr a atebodd cwestiwn dau am oed, mae'r graff canlynol yn amlinellu'r canlyniadau,



Mae'n ddiddorol mai'r oedran 25-40 oedd mwyaf poblogaidd, sydd efallai yn awgrymu bod unigolion o'r gymuned yn y categori oed hwnnw a mwy o ddiddordeb mewn cael dweud am

eu cymuned eu hunain. Ar y llaw arall, mae'r ffaith bod ffigwr isel o gyfranogwyr rhwng 18-24 oed yn anfantais i raddau helaeth. Bydd y gwaith yma yn dangos bod rhai o'r hen genhedloedd yn y gymuned Sipsi yn beirniadu'r cenhedloedd iau am beidio cadw at draddodiadau a defodau. Mae'r iau yn cael eu cysylltu â dirywiad diwylliannol yn aml oherwydd cysylltiadau agosach yr iau yn gyffredinol gyda diwylliannau eraill. Mae'r ffaith bod y mwyafrif o'r cyfranogwyr dros bump ar hugain oed felly yn golygu bod pobl ifanc heb eu cynrychioli yn ddigonol yn yr holiadur hwn, nac yn gallu gwrthddweud safbwyntiau y cenhedloedd hŷn. Mae'n bwysig cael amrywiaeth o gyfranogwyr o gategorïau oed gwahanol, er mwyn cael safbwyntiau gwahanol a gweld os yw traddodiadau a defodau wedi cael eu pasio ymlaen drwy'r cenhedloedd. Nid yw'n deg i apwyntio pobl ifanc fel y rheswm dros ddirywiad traddodiadau a defodau. Yn aml, nid yw'r bobl ifanc yma wedi cael eu dysgu i gadw at y traddodiadau a defodau, felly mae'n annheg i roi'r bai arnynt am eu dirywiad.

Roedd cant dau ddeg a saith o ymatebion i gwestiwn tri, sef pa ieithoedd ydych yn ei siarad. Roedd y cwestiwn hon yn gwestiwn ble roedd cyfranogwyr yn cael dewis mwy nac un ateb. Dewisiodd 31.50% (40 o gyfranogwyr) Gymraeg, 93.70% (119 o gyfranogwyr) Saesneg, 44.09% (56 o gyfranogwyr) Romani, a 14.17% (18 o gyfranogwyr) 'eraill'. Roedd yn bwysig gweld bod cymaint yn gallu siarad Cymraeg, sy'n dangos mabwysiadu o ddiwylliant y brif gymuned yn y wlad. Roedd hefyd yn ddiddorol gweld bod cymaint o unigolion wedi dal gafael ar yr iaith Romani, sy'n dangos parhad diwylliant ymysg y gymuned yn eu tradoddiadau eu hunain. Byddai rhoi blwch sylwadaeth ar ôl yr adran 'eraill' wedi bod yn ddiddorol, er mwyn gweld pa fath o ieithoedd eraill oedd yn cael eu siarad gan y cyfranogwyr.

Er mwyn ystyried pa hunaniaeth oedd cyfranogwyr yr holiadur yn apwyntio i'w hunain, roedd yn bwysig cael cwestiwn penodol i hyn, sef cwestiwn pedwar. Nid pob unigolyn o'r gymuned sy'n cael ei drafod yn y gwaith yma sy'n cyfeirio at eu hunain fel Sipsi. Dewiswyd

categorïau hunaniaeth fyddai'n fwyaf cyffredin ym Mhrydain i unigolion o'r gymuned. Roedd cyfranogwyr yn cael dewis mwy nac un ateb. Y mae'r graff isod yn darlunio'r amrywiaeth:



Felly, er bod 31.50% o'r cyfranogwyr yn gallu siarad Cymraeg, dim ond 20.31% oedd yn ystyried eu hunain yn Gymraeg a 22.66% oedd yn ystyried eu hunain yn Sipsi Cymraeg. Dyma ddatgeliad diddorol, sy'n dangos er bod iaith gan berson, nid yw hynny yn golygu bod yr unigolyn hwnnw yn ystyried eu bod wedi mabwysiadu hunaniaeth pobl yr iaith honno. Gwelir o'r graff mai'r canran uchaf oedd 'Sipsi/Teithiwr Seisnig', sydd efallai yn pwysleisio bod mwy o Sipsiwn o Loegr yn barod i gael dweud am eu diwylliant eu hunain. Neu, efallai ei fod yn hyrwyddo bod canran uwch o Sipsiwn a Theithwyr yn byw yn Lloegr o'i gymharu â gweddill gwledydd Prydain. Diddorol oedd gweld yr amrywiaeth o ran hunaniaeth y cyfranogwyr a oedd yn cynnwys unigolion o bob gwlad ym Mhrydain ac o nifer o grwpiau ethnig gwahanol, o'r Teithwyr Gwyddelig ac Albanaidd i'r Sipsiwn Cymraeg a Seisnig. Roedd yr holiadur yma yn galw ar Sipsiwn i ateb cwestiynau am eu traddodiadau a defodau. Mae'n ddiddorol felly bod cymaint o unigolion oedd yn ystyried eu hunain yn Deithwyr hefyd wedi penderfynu ateb y cwestiynau. Gan mai holiadur ar lein oedd yr holiadur yma roedd y cwestiynau yn gallu cyrraedd unigolion tu hwnt i Gymru. Nid yw hyn yn anfantais,

gan ei fod yn dangos pa fath o draddodiadau a defodau oedd yn debyg neu'n wahanol rhwng y grwpiau gwahanol sy'n cael eu darlunio yn y graff uchod. Mae hyn yn rhoi cyd-destun i draddodiadau a defodau y Sipsiwn Cymraeg ac yn amlygu yr arferion oedd yn unigryw i Sipsiwn Cymru yn benodol. Er mwyn sicrhau bod digon o gyfranogwyr yn ateb y cwestiynau yn yr holiadur i allu gweld tueddiadau, roedd hi'n bwysig i adael yr holiadur yn agored i nifer o unigolion gwahanol Sipsi a Theithwyr. Nid yw hyn yn lleihau gwerth y wybodaeth a gasglwyd yn yr holiadur. Mae'n cryfhau'r data i raddau helaeth, gan ei fod yn dangos safbwyntiau unigolion o nifer o gefndiroedd gwahanol.

Roedd cwestiwn pump yn gofyn os oedd y cyfranogwyr wedi teithio o gwbl yn ystod eu bywydau. O'r cant dau ddeg ac wyth o ymatebion, atebodd 74.22% (95 o gyfranogwyr) 'Do' a 25.78% (33 o gyfranogwyr) 'Naddo'. Roedd y canran uchel a ddywedodd eu bod wedi teithio yn syndod, o ystyried bod y mwyafrif o gyfranogwyr rhwng 25-40 oed, ac wedi eu magu mewn cyfnod ble roedd y llywodraeth yn ceisio diddymu teithio y gymuned. Braf oedd gweld bod cymaint o unigolion wedi gallu parhau gyda'r bywyd traddodiadol o deithio, o leiaf ar ryw gyfnod o'i bywydau. Mae'n bosibl bod hyn yn golygu bod traddodiadau yn fwy tebygol o wedi cael eu pasio i lawr drwy'r cenhedloedd yn y teuluoedd a fu'n parhau i deithio. Ar y llaw arall, nid teithio sy'n gwneud person yn Sipsi, er bod hyn yn ystrydeb gyffredinol am y gymuned. Bydd hyn yn cael ei ystyried yn y gwaith yma. Hefyd, bydd y syniad bod mabwysiadu arferion newydd a chadw at hen draddodiadau yn bosibl mewn byd modern yn cael ei ystyried yn ogystal.

Bydd ymatebion yr holiadur yn cael eu cyfeirio atynt drwy gydol y gwaith hwn, ac yn ffurfio rhan o'r wybodaeth unigryw yn yr ymchwiliad. Bwriad y cwestiynau oedd ystyried tueddiadau mewn safbwyntiau unigolion o'r gymuned am draddodiadau a defodau. Y mae'r cwestiynau yn cysylltu'n gryf â'r themâu fydd yn cael ei amlinellu nes ymlaen. Roedd y cwestiynau wedi eu rhannu mewn adrannau. Roedd y cwestiynau cyntaf yn gofyn am

draddodiadau geni, hynny yw ble roedd Sipsiwn yn tueddu i gael eu geni ac os oedd bydwragedd penodol yn y gymuned. Yna, roedd yr holiadur yn gofyn cwestiynau am draddodiadau yn gyffredinol, ac os yw'r gymuned yn ofergoelus. Bwriad hyn oedd rhoi cyd-destun i'r syniad o'r gymuned Sipsi fel cymuned sy'n dal gafael ar draddodiadau. Yna, roedd cwestiynau am rôl merched a sut mae priodasau Sipsi yn unigryw. Mae'n debyg mai'r adran yma fydd yn datgelu'r wybodaeth fwyaf arwyddocaol i'r ymchwiliad hon, yn enwedig y cwestiwn am rôl merched. Dyma'r cwestiynau sydd yn cysylltu'n agosach gyda thestun ymchwil y gwaith hwn. Yn olaf, roedd cwestiwn am effaith addysg ar y gymuned. Bwriad y cwestiwn yma oedd ystyried os oedd addysg wedi cael unrhyw effaith ar fywyd traddodiadol, yn enwedig ymysg merched Sipsi. Ym mhob adran, roedd lle i gyfranogwyr rhoi sylwadau eu hunain. Roedd y sylwadau yn bwysig iawn gan eu bod yn rhoi cyfle i unigolion o'r gymuned lleisio barn eu hunain, yn hytrach na thicio bocs yn unig. Yn yr adrannau sylwadau oedd y data mwyaf defnyddiol ac unigryw. Mae'r sylwadau hyn yn cael eu cyfeirio atynt yn aml yn y gwaith hwn, ac yn ffurfio rhan sylweddol o'r dystiolaeth am draddodiadau penodol. Roedd yr holiaduron yn gwbl anhysbys, felly ni fydd unrhyw unigolyn a gyfrannodd yn cael ei enwi yn y gwaith hwn.

<u>Themâu</u>

Ar wahân i'r fethodoleg, bydd yr ymchwiliad hwn yn cael ei drefnu yn bennodau thematig i adlewyrchu'r digwyddiadau a lleoedd ble mae Sipsiwn benywaidd yn ymddangos fwyaf. Y themâu 'dan sylw fydd:

1. Genedigaethau a marwolaethau. Atebir cwestiynau fel: ble roedd Sipsiwn yn arfer cael eu geni? Oedd yna fydwraig benodol yn y gymdeithas? A oedd yna ddefodau marwolaeth a chladdu penodol?

2. Priodasau, ysgaru a gwahanu. Bydd yn ystyried sut oedd priodasau Sipsiwn yn wahanol o'i gymharu â'r gymuned frodorol? A oes enghreifftiau o ysgaru yn y gymuned? Oedd gwahanu yn rhywbeth oedd yn digwydd?
3. Defodau glendid a dyletswyddau domestig. Oedd yna ddefodau glendid penodol i Sipsiwn benywaidd? A oedd Sipsiwn benywaidd yn cael eu heffeithio fwy gan ddefodau glendid o'i gymharu â Sipsiwn gwrywaidd? Beth oedd dyletswyddau domestig Sipsiwn benywaidd?
4. Merched Sipsi yn gweithio neu cael addysg. A oes traddodiad o ferched yn gweithio yn y gymuned? A yw addysg wedi dod yn fwy poblogaidd ymysg merched dros y blynyddoedd?

Bydd y themâu hefyd yn trafod os oes newid wedi bod yn y traddodiadau a defodau yn ymwneud a'r testunau uchod, yn enwedig yn yr ugain mlynedd ddiwethaf. Bydd hefyd yn ystyried os oes defodau a thraddodiadau newydd wedi eu mabwysiadu erbyn hyn. Bwriad y casgliad fydd dangos bod bywydau Sipsiwn benywaidd Cymru wedi datblygu a newid, ond bod defodau a thraddodiadau yn parhau i fod yn bwysig i rai teuluoedd. Y nod fydd dangos bod nifer o draddodiadau a defodau yn parhau yng Nghymru, ond bod Sipsiwn benywaidd y wlad yn cydymffurfio â rheolau cymdeithas derbyniol erbyn hyn, er enghraifft drwy fabwysiadu addysg a swyddi. Bydd y gwaith hefyd yn dangos bod y Cymry eu hunain yn bobl ofergoelus yn gyffredinol, ac yn dal gafael ar draddodiadau a defodau eu hunain. Dywedodd Trevelyan fod ofergoeliaeth yn bodoli mewn rhai ardaloedd o Gymru o hyd yn 2016.[133] Gall hyn ddangos pam bod traddodiadau ymysg y Sipsiwn Cymraeg wedi ffynnu a pharhau. Mae'r Cymry wedi eu darlunio fel diwylliant dosbarth gweithiol rhan amlaf.[134] Y

[133] M. Trevelyan, *Welsh Traditions and Superstitions- A Historical Article of the Mythology of Wales* (Worcestershire, 2016), dim rhifau tudalennau.
[134] Y. Nguyen, et al., 'Understanding Wales: Nationalism and Culture', *Colonial Academic Alliance Undergraduate Research Journal*, Vol. 4 (2015), t.5.

mae hyn yn wir hefyd o'r gymuned Sipsi. Bydd y gwaith hwn yn dangos sut oedd bywydau'r ddwy gymuned yn plethu, ac yn debyg neu'n wahanol o ystyried eu traddodiadau, defodau ac arferion. Mae hanes llen-werin yng Nghymru yn brin yn gyffredinol mewn gweithiau academaidd.[135] Felly, bydd y gwaith yma nid yn unig yn diweddaru'r wybodaeth am Sipsiwn benywaidd yng Nghymru a'u traddodiadau a defodau, ond yn cysylltu â'r syniad o len-werin yng Nghymru yn gyffredinol. Yng ngeiriau Fonseca mewn ymchwiliad yn yr 1990au, 'Traditional Gypsy life has mostly disappeared in Britain.'[136] Mae'r gwaith yma yn dadlau yn erbyn y gosodiad yma, gan ddangos bod traddodiadau a defodau yn parhau ymysg Sipsiwn benywaidd Cymru a Phrydain. Er bod bywyd teithiol i lawer wedi dirywio, nid yw hyn yn golygu bod bywyd traddodiadol wedi dirywio hefyd. Yr oedd mwy i fywyd traddodiadol Sipsi na theithio yn unig, a bydd y gwaith yma yn dangos hyn. I ychwanegu, mae'r gwaith yma yn ffitio i'r hanesyddiaeth am y syniad o 'gymunedau' yng Nghymru. Mae'n dangos bod y gymuned Sipsi yn cael ei weld fel 'eraill' diddorol, egsotig ar y gorau, ond 'eraill' digroeso ar yr ymylon ar y gwaethaf. Felly, mae'n bwysig wrth ddangos bod 'cymunedau' yn amrywio ac yn addasu yng Nghymru drwy gydol yr ugeinfed ganrif hyd at y presennol.

[135] J. Wood, 'Perceptions of the Past in Welsh Folklore Studies', *Folklore*, Vol.108 (1997), t.93.
[136] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.233.

Pennod 1: Genedigaethau a marwolaethau

Cefndir

Mae genedigaethau a marwolaethau yn ddigwyddiadau pwysig tu hwnt yn y gymuned Sipsi. Maent yn gallu cysylltu'n gryf gyda defodau a thraddodiadau'r gymuned, yn ogystal â'r syniad bod y gymuned yn ofergoelus. Yn ôl Adams, mae marwolaeth yn aflonyddu parhad cymdeithasol mewn teulu. [137] Mae hyn yn wir i bron bob diwylliant. Gall marwolaethau a genedigaethau cael effaith trawiadol ar deuluoedd a chymunedau ledled y byd. Cofnodwyd Abram Wood, sy'n cael ei gydnabod fel y Sipsi cyntaf ddaeth i Gymru, yng nghofrestrau bedyddio a chladdu Llangelynnin.[138] Mae'r wybodaeth yma am enedigaeth a marwolaeth Abram Wood yn anghyffredin, gan mai prin yw'r data am y digwyddiadau hyn ym mywydau Sipsiwn, yn enwedig yng Nghymru yn yr ugeinfed ganrif gynnar. Er hynny, nid yw'r wybodaeth am enedigaethau a marwolaethau Sipsiwn Cymreig yn gwbl absennol. Bydd y bennod yma yn defnyddio'r ffynonellau sydd ar gael am y testunau yma i amlygu traddodiadau a defodau diddorol y Sipsiwn Cymreig yn ymwneud â genedigaeth a marwolaeth.

Mae adran gyntaf y bennod yma yn ystyried traddodiadau a defodau geni y gymuned Sipsi gan amlygu'r arferion unigryw i'r Sipsiwn Cymreig. Y traddodiad mwyaf unigryw i Sipsiwn Cymreig oedd trochi baban newydd mewn dŵr oer, yntau mewn llyn, afon neu bwll dŵr. Mae'r traddodiad yma yn cael ei ganolbwyntio arno, gan ddefnyddio tystiolaeth gan Gymro am drochi baban. Bydd y gwaith yma yn pwysleisio bod cael plant yn rhan allweddol o fywyd y werin yng Nghymru, heb os oeddynt yn Sipsiwn ai beidio. Roedd plant yn golygu twf yn incwm y teulu rhan amlaf, yn ogystal â chymorth i rieni yn eu henoed. Hyd heddiw,

[137] S. Adams, 'Women, Death and *In Memoriam* Notices in a Local British Newspaper', yn K. Charmaz, G. Howarth ac A. Kellehear (gol), *The Unknown Country: Death in Australia, Britain and the USA* (Llundain, 1997), t.98.
[138] J. Sampson, 'The Wood Family-Part 2', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.11 (1932), t.57.

mae beichiogi yn hanfodol bwysig i ganran uchel o Sipsiwn ym Mhrydain ac mae geni plant yn ifanc yn gyffredin tu hwnt. Erbyn hyn, mae'r bedydd wedi datblygu i fod yn fawreddog er mwyn dathlu bywyd newydd. Bydd y gwaith yn dangos sut mae rhai traddodiadau wedi parhau, er enghraifft rhoi darn o arian i faban newydd, drwy ddefnyddio'r data a gasglwyd yn yr holiaduron fel tystiolaeth o barhad traddodiadau. Wrth ystyried marwolaeth hefyd, yn yr oesoedd canol roedd claddu yn fath o ddefod yn ôl Williams a Sayer.[139] Bydd ail adran y bennod hon yn ystyried os oedd hyn yn wir i'r gymuned Sipsi yng Nghymru. Fel cyd-destun, yng Nghymru'r oesoedd canol cynnar roedd unigolion pwysig yn cael eu claddu mewn safleoedd pwysig yn y tirlun, yn hytrach nac mewn Eglwys.[140] Gwelwyd bod traddodiadau claddu yn bwysig i drigolion Cymru mewn cymunedau hynafol hefyd. Roedd lleoliadau claddu yn cael eu dewis yn ofalus er mwyn anrhydeddu unigolion pwysig. Bydd ail hanner y bennod yma yn darlunio'r traddodiadau a defodau a gysylltwyd gyda marwolaeth ymysg y Sipsiwn ac yn hyrwyddo traddodiadau a defodau angladdol oedd yn unigryw i Sipsiwn Cymru. Genedigaeth a marwolaeth yw rhai o'r unig bethau sy'n wir cysylltu holl bobloedd y byd. Yn sicr, roedd genedigaeth a marwolaeth yn ddigwyddiadau pwysig i Sipsiwn Cymru, ond hefyd gweddill Sipsiwn Prydain. Bydd y bennod yma yn hyrwyddo'r ffaith bod traddodiadau a defodau genedigaeth a marwolaeth Sipsiwn Cymru a gweddill Prydain yn rhan allweddol o'u diwylliant unigryw.

Genedigaeth

Gwelodd yr ugeinfed ganrif ym Mhrydain diwygio o ran y profiad o enedigaeth i ferched. Ar ddechrau'r ganrif, mae Jones yn pwysleisio bod merched yn dioddef gyda'u hiechyd

[139] H. Williams a D. Sayer, 'Halls of Mirrors: death and identity in medieval archaeology', yn D. Sayer a H. Williams (gol), *Mortuary practices and social identities in the Middle Ages- Essays in burial archaeology in honour of Heinrich Härke* (Exeter, 2009), t.3.
[140] D. Petts, 'De Situ Brecheniauc and Englynion Y Beddau: Writing about Burial in Early Medieval Wales', *Anglo-Saxon Studies in Archaeology*, Vol.14 (2007), t.170.

oherwydd gormodedd o enedigaethau.[141] Roedd y pwyslais ar y niferoedd o blant oedd merched yn gallu beichiogi, yn hytrach nac ar iechyd y merched eu hunain. Tueddai merched eni nifer fawr o blant, ac roedd marwolaethau babanod a mamau yn ystod genedigaethau yn gyffredin tu hwnt. Bydd y bennod yma yn darlunio'r newidiadau drwy gydol yr ugeinfed ganrif, hyd at y presennol, mewn beichiogrwydd a genedigaeth. Bydd yn hyrwyddo'r gwelliannau yn y gwasanaethau iechyd a gyfrannodd at welliannau yn iechyd merched beichiog Prydain. Ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, cynyddodd y diddordeb academaidd mewn beichiogi a geni. Enghraifft benodol o waith academaidd oedd gwaith Loudon yn 1992 a ganolbwyntiodd ar farwolaethau yn ystod genedigaethau.[142] Gwelwyd bod beichiogi wedi'i fabwysiadu gan academyddion fel testun ymchwil o bwys. Mae'r ymchwil ar feichiogi a geni yn golygu bod genedigaethau yn llawer mwy diogel erbyn y presennol o'i gymharu ag ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Bydd y gwaith yma yn dangos bod gwelliannau gwasanaethau beichiogi a genedigaethau wedi digwydd drwy gydol yr ugeinfed ganrif. Hefyd, bydd y gwaith yn ystyried sut oedd y gwasanaethau yma yn effeithio ar ferched Sipsi. Byddwn yn ystyried testunau fel, lleoliad geni babanod Sipsi ac os oedd bydwragedd penodol yn y gymuned Sipsi. Bydd cymhariaeth yn cael ei greu gyda phrofiadau merched o'r gymuned frodorol Cymreig drwy gydol yr ugeinfed ganrif, er mwyn gosod profiadau y merched Sipsi yng nghyd-destun eu hoes.

Llenwi'r crud

Yn y gymuned Sipsi, mae'n gyffredin i gwpl eni nifer o blant oherwydd peidio defnyddio dull atal genhedlu. Roedd rhai merched Sipsi wedi eu gwahardd rhag defnyddio dulliau atal genhedlu oherwydd eu credoau Catholig. Mae'r Sipsiwn yn bobl ysbrydol o brofiad personol. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd i'r Sipsiwn arfer fod yn grŵp ofergoelus oedd yn credu

[141] H. Jones, *Health and Society in Twentieth Century Britain* (Oxon, 2013), t.64.
[142] T. McIntosh, *A Social History of Maternity and Childbirth: Key themes in maternity care* (Oxon, 2012), t.5.

mewn ysbrydion, y diafol ac arwyddion mewn natur, a felly bod mabwysiadu Crefydd fwy ffurfiol fel Catholigiaeth yn naturiol iddynt. Mae rhai Sipsiwn a Theithwyr, sydd hefo gwraidd Gwyddelig yn benodol, a teimladau cryf iawn am eu Crefydd Catholig ac yn dilyn rheolau'r Crefydd yn drylwyr. I ddyfynnu syniadau Catholig am ddulliau atal genhedlu:

> 'Each and every marriage act is required to be open to the transmission of life (Paul VI)'[143]

> 'It is immoral for a husband or wife to deprive or hinder the procreation of new life (Pius XII)'[144]

Gwelir bod dulliau atal genhedlu yn cael eu gwrthod gan yr Eglwys Gatholig, a bod hyn yn gallu cael effaith sylweddol ar rhai merched Sipsi. I gymuned sydd yn annog merched i eni cymaint o blant ag sy'n bosibl, nad yw'n syndod bod rhai Sipsiwn wedi mabwysiadu y Crefydd Gatholig a'i rheolau, oherwydd bod y rheolau yn berthnasol iddynt. Mae crefydd yn holl-bwysig i rai unigolion, gyda defodau a thraddodiadau yn cael eu cadw atynt yn drylwyr. Hefyd, gall fod Crefydd yn cael ei weld fel gweithred traddodiadol gan y Sipsiwn, sydd yn gymuned yn ei hun sydd yn ceisio 'dal gafael ar eu bywydau traddodiadol, ac felly mae'n bosibl bod hyn hefyd yn dangos pam bod Catholigiaeth yn berthnasol iddynt. I ychwanegu, roedd teimlad ymysg rhai merched Teithio bod dulliau atal genhedlu i ferched tu allan i'r gymuned Sipsi yn unig.[145] Roedd hyn yn creu ffin ychwanegol rhwng y ddwy gymuned. Yn ogystal, ni fyddai nifer o ferched Sipsi wedi eu dysgu am ddulliau atal cenhedlu, felly yn annhebygol o'i defnyddio. Sefydlodd Mary Stopes glinig dulliau atal genhedlu yn Llundain yn 1921, a oedd yn cael ei feirniadu gan Eglwysi Catholig y Brifddinas.[146] Er hynny, byddai'r clinig hon yn cael effaith ar ferched adran fechan o Brydain. Ni fyddai'r mwyafrif o ferched,

[143] R. Jones, *The Canon Law Of The Roman Catholic Church of England: 2nd Edition* (Llundain, 2011), t.43.
[144] Ibid, t.43.
[145] R. McKinley, *Gypsy Girl-A life on the road, A journey to freedom* (Llundain, 2011), t.181.
[146] Jones, *Health and Society in Twentieth Century Britain*, t.68.

yn enwedig merched dosbarth gweithiol yn gallu fforddio i deithio i Lundain. Nid yw'n debygol byddai merched Sipsi wedi clywed hyd yn oed am glinig Mary Stopes. Mae'n annhebygol ei fod wedi cael llawer o effaith ar y gymuned. I Brooke, roedd dosbarth yn cael effaith ar mynediad i ddulliau atal genhedlu a gwybodaeth rhywiol gan ddangos bod eich sefyllfa economaidd yn cael effaith ar eich hiechyd rhywiol yn yr ugeinfed ganrif.[147] Er bod dulliau atal genhedlu wedi eu mabwysiadu gan y cyhoedd gydag ymddangosiad y bilsen yn 1962, nid yw'r dechnoleg yma yn cael ei ffafrio yn aml gan Sipsiwn Prydain.[148] Eto mae'n bwysig pwysleisio bod canran cadarnhaol o Sipsiwn a chredoau Catholig, yn enwedig y rhai a gwraidd Gwyddelig, felly nid yw dulliau atal genhedlu yn cael eu derbyn. Yn ôl Fisher, cyfrifoldeb gwrywaidd oedd dulliau atal genhedlu yn gyffredinol ym Mhrydain ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, ond bod newid wedi bod yng nghanol y ganrif a bod merched a fwy o gyfrifoldeb wedi hynny.[149] Mae'n bosibl bod hyn yn dangos bod merched yn cymryd fwy o cyfrifoldeb dros iechyd eu hunain, neu bod dynion a merched yn dewis dulliau gyda'i gilydd, neu bod gwyr yn annog eu gwragedd i ddefnyddio dulliau fel y bilsen a bod merched yn gorfod cymryd cyfrifoldeb dros hynny.[150] Heb os, mae'r ffaith bod merched a mwy o ddiddordeb a hyder mewn dewis dulliau atal genhedlu o ganol y ganrif ymlaen, yn dangos bod rolau rhywedd wedi newid a dod yn fwy hafal ynghylch dewis dulliau atal genhedlu. Mae'n ymddangos bod hyn heb ddigwydd yn y gymuned Sipsi yn yr ugeinfed ganrif. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd i ferched Sipsi ddim dod ar draws hysbysebion am ddulliau atal genhedlu newydd, megis y bilsen. Neu, mae'n bosibl bod natur gyfrinachol a cheidwadol merched Sipsi yn golygu eu bod yn teimlo'n anghyfforddus trafod dulliau atal genhedlu eu hunain. Fel mae'r adran yma wedi dangos hefyd, roedd nifer o ferched o grwpiau teithio yn

[147] Brooke, 'Class and gender', t.43.
[148] Bargielowska, 'Introduction', t.8.
[149] K. Fisher, *Birth Control, Sex and Marriage in Britain 1918-1960* (Rhydychen, 2006), tt.238-239.
[150] Ibid, tt.239-242.

dilyn rheolau Catholig ynghylch dulliau atal genhedlu, felly byddai'r newidiadau cymdeithasol yma heb cael effaith arnynt heb os.

Yn y gymuned Sipsi, mae geni niferoedd eang o blant yn rhoi statws uwch i'r ferch hwnnw.[151] Gwelwyd bod genedigaeth yn ffordd o sefydlu statws a dylanwad teulu. Felly, roedd genedigaeth yn ddigwyddiad pwysig a ffurfiol i nifer o Sipsiwn, traddodiad sy'n bodoli mewn rhai teuluoedd hyd heddiw. Ym Mhrydain yr ugeinfed ganrif, anogir merched Cymraeg ac Albanaidd i eni plant er mwyn cynyddu'r Ymerodraeth a'r cenedloedd eu hunain.[152] Gwelwyd bod beichiogi yn rhan o wleidyddiaeth Prydain yn yr ugeinfed ganrif, ac yn ffordd o ehangu awdurdod yr Ymerodraeth Brydeinig. Yn ogystal, prif nod rhai merched Sipsi erbyn heddiw yw geni cymaint o blant ag sy'n bosibl. Mae'n rhoi math o statws oruwch i ferch os gellith hi eni amryw o blant. I Maggie Smith-Bendell, Sipsi Seisnig, ystyrir ei theulu hithau yn fach yn y gymuned, gyda'i rhieni yn magu wyth o blant.[153] Efallai byddai magu wyth o blant yn cael ei hystyried yn deulu enfawr i rai erbyn y presennol. Er hynny, amrywia y cyfanswm o blant i bob teulu yn ddibynnol ar yr oes, er enghraifft wedi colledion yr ail ryfel byd roedd yna niferoedd eang o enedigaethau yn gyffredinol ym Mhrydain.[154] Gwelir bod dewis cael teuluoedd mawr ddim yn gwbl unigryw i'r Sipsiwn. Yn ôl Longford, prif ddyletswydd merched Brenhinol fel Mary o Teck yn y teulu Windsor oedd llenwi'r crud.[155] Prif ddyletswydd nifer o ferched Sipsi drwy gydol yr ugeinfed ganrif, ac erbyn hyn i rai, yw llenwi'r crud hefyd. Mae'r Teithwyr Gwyddelig benywaidd yn gwynebu dyletswydd debyg. Mewn hunangofiant gan Gmelch, amlinellai fod Nan, sef Teithiwr Gwyddelig, wedi geni deunaw o blant.[156] Yn ogystal, cafodd nain y Teithiwr Gwyddelig, Rosie McKinley,

[151] T. Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker* (Llundain, 2012), t.26
[152] Webster, ''Race', Ethnicity and National Identity', t.294.
[153] M. S. Bendell, *Rabbit stew and a penny or two* (Llundain, 2010), t.5.
[154] Bargielowska, 'Introduction', t.2.
[155] E. Longford, *The Royal House of Windsor* (Llundain, 1974), t.34.
[156] S. Gmelch, *Nan-The Life of an Irish Travelling Woman* (Llundain, 1986), t.27.

deunaw o blant hefyd.[157] Oherwydd y cyd-briodi rhwng y Sipsiwn a'r Teithwyr Gwyddelig drwy gydol yr ugeinfed ganrif, nid yw'n syndod bod y syniadau am feichiogi yn gallu bod yn debyg yn y ddwy gymuned. Roedd geni niferoedd eang o blant yn golygu bod yn straen economaidd ar deulu mae'n debyg, yn enwedig pan oedd y plant rheini yn rhy ifanc i gyfrannu at incwm y teulu. Yn y papur newydd *The Cardiff Times* yn 1905, roedd merch Sipsi, Emma Jones, yn cael ei disgrifio fel cael ei darganfod yn euog o ugain trosedd difrifol, er enghraifft dwyn ac adrodd ffortiwn.[158] Ond, mae'r erthygl hefyd yn nodi bod Emma hefo dwy ar bymtheg o blant.[159] Nad yw'n syndod felly bod rhai merched gydag uwch-gyfartaledd o blant, ac efallai yn fregus yn economaidd, yn teimlo'n anobeithiol ac yn cymryd rhan mewn troseddau fel dwyn.

Er hyn, roedd mwy o blant yn golygu mwy o incwm teuluol yn y pen draw hefyd i'r teulu Sipsi ac i nifer o gymunedau eraill. Yn ôl Draisey, roedd plant yn angenrheidiol yn y gymuned Gymraeg i ddod â chyflog ychwanegol a chymorth i'r rhieni yn eu henaint.[160] Yn y gymuned Sipsi hefyd, roedd pwyslais ar eni plant i ofalu am rieni wedi iddynt heneiddio. Yng Nghymru yn benodol felly, mae'r dadleuon uchod yn dangos bod y rhesymau dros eni plant yn adlewyrchol o'i gilydd. Mewn cymunedau tlawd, nid yw'n syndod bod geni niferoedd eang o blant yn ddeniadol, wrth i rieni feddwl am y cyflog ychwanegol a'r cymorth fyddai'r plentyn hwnnw yn gallu ei roi. I ychwanegu at y syniad bod plant yn ddeniadol i deuluoedd gwerin, mae Jenkins yn honni bod plant yn cael eu hystyried yn ased yng Nghymru a bod rhai gweithgareddau wedi eu gwahardd i ferch feichiog er mwyn gwarchod y plentyn, er enghraifft byddai cerdded dros fedd yn lladd plentyn.[161] Gwnaed pob ymdrech i amddiffyn

[157] McKinley, *Gypsy Girl-A life on the road, A journey to freedom*, t.2.
[158] 'Desperate Gipsy Woman', *The Cardiff Times- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 26 Awst 1905.
[159] Ibid.
[160] Draisey, *Women in Welsh History*, t.121.
[161] J. G. Jenkins, *Life & Traditions in Rural Wales* (Gloucestershire, 2009), t.173.

mam feichiog a'r plentyn yn y groth. Roedd ofergoeliaeth o gwmpas genedigaethau a beichiogi yn gyffredin mewn cymunedau gwerin yn benodol. Mae'r pwyslais ar fodloni ofergoeliaeth tra'n feichiog yn dangos pa mor bwysig oedd geni plentyn ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Roedd plant yn hanfodol fel gweithwyr a gofalwyr. Yng Nghymru, byddai'r Sipsiwn a fudodd i'r wlad wedi darganfod pobl ofergoelus a thraddodiadol tu hwnt, a oedd yn ddrych i'w diwylliant eu hunain mewn nifer o ffurf. Bydd y bennod hwn yn ystyried traddodiadau geni'r Sipsiwn Cymreig a'r Cymry eu hunain er mwyn ystyried os oedd tebygrwydd rhyngddynt.

Yn aml, mae Sipsiwn yn eu harddegau yn penderfynu dechrau teulu.[162] Cytuna Fonseca a'r gosodiad hwn, gan honni bod merched yn blant eu hunain wrth eni.[163] Er bod y testun yma yn ddadleuol, mae'n bwysig cydnabod bod geni plant yn ifanc yn rhan gyffredinol o fywydau nifer o Sipsiwn Prydain. Tu hwnt i Brydain hefyd, mae grwpiau o Sipsiwn yn tueddu i eni eu plant yn ifanc. Mewn astudiaeth gan Fonseca yn yr 1990au am grŵp o Sipsiwn yn Kinostudio, Albania, roedd geni yn eu harddegau yn cael ei ddisgwyl a'i obeithio amdano.[164] Gwelir bod geni'n ifanc yn gyffredin i Sipsiwn ledled Ewrop. Gan fod y grŵp o Sipsiwn yr oedd Fonseca yn ymchwilio iddynt yn byw mewn ardal dlawd tu hwnt, roedd disgwyliadau bywyd yn llawer is.[165] Golyga hyn fod geni'n ifanc yn fwy cyffredin, wrth i ddigwyddiadau mawr mewn bywyd orfod digwydd yn fwy buan. Er hyn, nid pob Sipsi sydd yn dewis geni plant yn ifanc yn y cymunedau o Sipsiwn ledled Prydain. Yng Nghymru yn benodol erbyn y presennol, nid oes canrannau uchel o enedigaethau yn eu harddegau ymysg Sipsiwn, o brofiad personol. Yn ôl Pheonix, merched dosbarth gweithiol o deuluoedd mawr sy'n fwy

[162] B. Foster a P. Norton, 'Educational equality for Gypsy, Roma and Traveller children and young people in the UK', *Equal Rights Trust*, https://www.equalrightstrust.org/ertdocumentbank/ERR8_Brian_Foster_and_Peter_Norton.pdf (golwg diwethaf-31/10/19), t.102.
[163] I. Fonseca, *bury me standing- The Gypsies and their journey* (Llundain, 1995), t.43.
[164] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.43.
[165] Ibid, t.43.

tebygol o eni plant yn ifanc.[166] Mae'r ystrydeb yma yn ffitio i'r gymuned hon, ond yn annheg wrth iddo gategoreiddio merched ifanc dosbarth gweithiol fel mamau ifanc. Er hynny, darganfyddwyd mai Prydain oedd â'r canran uchaf o enedigaethau i ferched yn eu harddegau yn yr Undeb Ewropeaidd yn yr 1990au.[167] Ni ddatgelir cefndir y merched yn yr astudiaeth gan osgoi gosod merched dosbarth gweithiol yn unig fel mamau ifanc. Drwy gydol yr ugeinfed ganrif, roedd hi'n gyffredin i ferched yn eu harddegau ar draws dosbarthiadau cymdeithasol eni plant. Mae hyn yn bwynt teg erbyn y presennol hefyd. I Jones, mae'r canrannau uchel o ferched yn beichiogi tra yn eu harddegau yn digwydd oherwydd diffyg adnabyddiaeth pobl ifanc o ddulliau atal genhedlu a'r peryglon o feichiogrwydd.[168] Er y twf mewn dulliau atal genhedlu erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, roedd y diffyg gwybodaeth oedd yn cael ei gyfleu mewn safleoedd fel ysgolion yn golygu bod pobl ifanc yn parhau i eni plant mewn niferoedd eang. I'r merched sydd eisiau dechrau teuluoedd yn eu harddegau, fel rhai merched Sipsi, nid oes llawer o effaith. Er hynny, mae angen cymryd i ystyriaeth bod nifer o Sipsiwn benywaidd ddim eisiau geni plant yn ifanc. Gall addysg rhyw perthnasol i ferched Sipsi ar wahân i pobl ifanc nid yw'n Sipsiwn, fod yn ffordd i addysgu merched Sipsi am y peryglon o feichiogi a'r opsiynau sydd ar gael iddynt heb orfod cyfathrebu gyda pobl o'r tu allan i'r gymuned.

Digwyddiad fenywaidd

Digwyddiadau benywaidd arferai genedigaethau fod yn y gymuned Sipsi. Mae beichiogrwydd yn cael ei ystyried fel rhanbarth benywaidd, gyda'r gŵr yn aml ddim yn bresennol yn yr enedigaeth ei hun. Yn draddodiadol, mewn rhai teuluoedd, nid oedd dynion

[166] A. Phoenix, *Young Mothers* (Cambridge, 1991), t.26.
[167] Bargielowska, 'Introduction', t.8.
[168] H. Jones, 'Health and Reproduction', yn I. Z. Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), t.90.

yn cael bod yn bresennol yn y gwersyll tra oedd genedigaeth yn digwydd hyd yn oed.[169] Dyma wahardd y dynion yn gyfan gwbl rhag bod ar gyfil y digwyddiad. Mae'n bosibl bod y delfrydau yma wedi cael eu pasio drwy'r cenhedloedd ymysg dynion Sipsi. Yn ôl Petulengro, Sipsi o Loegr, merched o'r teulu oedd yn tueddu i helpu i eni plant yn y gymuned, gan ei wneud yn ddigwyddiad benywaidd i raddau helaeth.[170] Nid oedd y tad yn cael ei ystyried yn rhan hanfodol o'r enedigaeth. Gan fod genedigaeth yn cael ei hyrwyddo fel digwyddiad benywaidd i raddau helaeth, mae'n bosibl bod y dynion oedd eisiau cymryd rhan yn yr enedigaeth yn dewis peidio er mwyn osgoi cael eu cywilyddio gan ddynion eraill y teulu. Roedd eithriadau i'r rheol yma er hynny. Yn achos Nell Loveridge yn yr 1980au, roedd ei gŵr Jake yn help mawr gyda magwraeth eu baban, gan gynnwys helpu i'w olchi.[171] Byddai hyn yn aml wedi ei weld yn weithred fenywaidd gan rhai teuluoedd, tra bod dynion o deuluoedd eraill efallai yn fwy parod i fod yn fwy ymarferol ym magwraeth eu babanod. Mae traddodiadau yn dechrau dirywio yn yr unfed ganrif ar hugain, er enghraifft wrth i Sipsi Seisnig Tony Giles fod yn bresennol wrth i'w gariad di-Sipsi eni ei fab yn y rhaglen deledu *My Big Fat Gypsy Wedding*.[172] Mae'n bosibl bod y Sipsiwn ifanc yn newid eu syniadau a chredoau am genedigaeth erbyn heddiw, a bod dynion y gymuned eisiau rôl fwy ymarferol ym magwraeth eu plant. Mewn gwaith yn 2006, roedd Greenfields yn honni bod gŵr Sipsi yn tueddu i aros gyda'r ferch am ychydig wrth iddi eni plentyn, ond yn gadael cyn yr enedigaeth ei hun.[173] Heb os, mae newidiadau yn digwydd yn y gymuned, sy'n golygu bod dynion Sipsi eisiau bod yn bresennol yn enedigaeth eu babanod. Mae'n bosibl bod cydberthynas rhwng mwy o briodasau Sipsi-Gorgio a'r twf mewn dynion Sipsi yn goruchwylio'r enedigaeth.

[169] E. Maccoll a P. Seeger, *Till Doomsday in the afternoon-The folklore of a family of Scots Travellers-The Stewarts of Blairgowrie* (Manceinion, 1986), t.24.
[170] E. Petulengro, *The Girl in the Painted Caravan-Memories of a Romany Childhood* (Llundain, 2011), t.36.
[171] Loveridge, *Gypsies-I married a Romany! Honest, Raw and Extremely Funny!* Dim rhif tudalennau.
[172] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 2-Episode 4, *Channel 4 boxset*.
[173] M. Greenfields, 'Family, community and identity', yn C. Clark a M. Greenfields (gol), *Here to Stay-The Gypsies and Travellers of Britain* (Hatfield, 2006), t.44.

Mae'n gyffredin tu hwnt erbyn hyn i bartner fod yn bresennol mewn genedigaeth ar draws Prydain. Nid oedd hyn yn wir yn yr ugeinfed ganrif gynnar a chanol er hynny, pan oedd genedigaeth yn rhanbarth benywaidd ar draws cymunedau Prydeinig. Gyda'r twf mewn perthnasau rhwng Sipsiwn a phobl o'r gymuned allanol, mae'n debygol bod yr arferiad yma yn treiddio i'r gymuned.

Dathlu'r genedigaeth

Mae genedigaethau yn ddigwyddiadau pwysig i unigolion a theulu estynedig yn y gymuned Sipsi. I McIntosh, gall genedigaeth fod yn ddigwyddiad cyhoeddus a phreifat, ac yn arwyddocaol i deulu a chymdeithas ym Mhrydain.[174] Yn sicr, mae genedigaeth yn cael effaith trawiadol ar y gymuned Sipsi ac yn ffordd o gryfhau diwylliant a sicrhau bod y gymuned yn bodoli. Mae'n ffordd i uno teuluoedd mewn modd mwy cadarn ac ehangu'r gymdeithas ymhellach. Er iddo fod yn ddigwyddiad preifat i'r ferch neu'r cwpl, mae'r teulu estynedig yn cymryd diddordeb yn yr enedigaeth ac yn ei ddathlu. Dywed Greenfields fod genedigaeth yn ddigwyddiad teuluol a chymdeithasol enfawr, gyda bedydd mawreddog i'w ddathlu.[175] Mae'r bedydd ysblennydd yn ffordd i'r teulu estynedig allu croesawu'r plentyn i'r gymuned, dosbarthu anrhegion a phwysleisio statws a chyfoeth y teuluoedd. Yn draddodiadol, er bod nifer o Sipsiwn ddim yn tueddu i gofrestru eu plant, roeddynt yn arfer eu bedyddio, yn aml yn enw'r fam yn unig.[176] Mae'n bosibl nid oedd tad y plentyn eisiau cael ei enwi mewn dogfen ffurfiol oherwydd ei fod mewn helynt gyda'r cyfreithiau. Neu, oherwydd mai merched y gymuned sy'n arfer llenwi ffurflenni swyddogol, mae'n bosibl bod hyn yn esbonio pam bod y fam yn unig wedi'i henwi ar y tystysgrif bedyddio. Mae'n bosibl bod y bedydd ei hun yn cael ei weld yn ddigwyddiad benywaidd, fel y genedigaeth ac felly bod y fam yn unig yn cael ei

[174] McIntosh, *A Social History of Maternity and Childbirth: Key themes in maternity care,* t.156.
[175] Greenfields, 'Family, community and identity', tt.44-45.
[176]A. McGowan, *On the Gypsy Trail- Sources for the family history of Gypsies* (Romany and Traveller Family History Society, 1998), tt.8-9.

henwi, ond does dim tystiolaeth o hyn. Ar y llaw arall, cafodd Violet Smith cyfenw ei mam oherwydd bod ei rhieni heb briodi.[177] Nid oedd unrhyw sgandal yn hyn yn yr ugeinfed ganrif, ac nid oedd y weithred mor anghyffredin â hynny. Mae pwysigrwydd bedyddio yn parhau ymysg y gymuned hyd at y presennol. Gwyddys bod Sipsiwn yn bobl Grefyddol ac ysbrydol yn aml, felly mae bedyddio plant yn gyffredin yn y gymuned.

Ar wahân i'r anrhegion bedyddio, yn ôl Cannon mae plentyn newydd Sipsi yn derbyn anrhegion gwerthfawr ar ei enedigaeth yn ogystal.[178] Byddai'r anrhegion hyn yn cadw eu gwerth ac yn ffordd o gynilo ar ran y plentyn hwnnw. Darluniwyd un traddodiad diddorol tu hwnt yn yr ymatebion i gwestiwn agored naw yn yr holiadur, 'Oes yna unrhyw draddodiadau ydych chi'n cadw ato?', sy'n cysylltu ag anrhegion i faban newydd, gan ddau gyfranogwr gwahanol. Yng ngeiriau'r cyfranogwyr,

> 'Crossing babies palm with silver'
>
> 'Meeting a new baby, first put a silver coin into their hand so they grasp it, this blessed coin then goes into the baby's money box so they will always be lucky.'

Mae'r traddodiad hwn yn cynnig rhagdybiaethau a damcaniaethau diddorol, er enghraifft mae'n bosibl bod y traddodiad yn ffordd i ddechrau cynilo ar ran y baban newydd. Os oedd nifer fawr o deulu a chyfeillion yn ymweld â'r baban newydd ac yn dewis cwblhau'r traddodiad hon, byddai'r plentyn hefo cynilion teg i'w ddefnyddio wedi iddynt dyfu. Mae'r ffaith bod y baban yn gorfod dal gafael ar yr arian cyn ei gynilo yn awgrymu bod y traddodiad yn symbolaidd. Gallai fod yn symbol o gryfder y plentyn newydd wrth afael yn yr arian. Y mae ffynonellau eraill o wybodaeth yn awgrymu mai hen draddodiad Prydeinig oedd

[177] J. Davies, *Tales of the Old Gypsies* (Newton Abbot, 1999), t.112.
[178] Cannon, *Gypsy Princess-The true story of a Romany childhood*, t.24.

rhoi arian i faban newydd i sicrhau ei fod yn iach ac yn gyfoethog yn ei amser.[179] Y mae'r cyfranogwr yn awgrymu mai i sicrhau lwc y baban y mae'r traddodiad yn cymryd lle. Mae hyn yn gwneud synnwyr mewn cymuned sy'n gwerthfawrogi lwc ac yn credu mewn anlwc ac ofergoeliaeth i raddau helaeth. Roedd croesi llaw baban newydd gydag arian, mae'n debyg, yn digwydd am resymau gwahanol mewn teuluoedd gwahanol. Mae traddodiadau yn oddrychol i bob person a theulu, sy'n golygu bod y rhesymau dros gwblhau traddodiadau mewn teuluoedd gwahanol, er iddynt fod yn debyg, yn amrywio.

Lleoliad geni

Yn draddodiadol roedd merched Prydeinig yn yr ugeinfed ganrif gynnar yn geni plant yn eu cartref gyda chymorth teulu, cymdogion neu fydwraig os oedd un ar gael.[180] Mewn ymchwiliad i ferched ym Mhrydain yr 1950au, disgrifiodd Lorna Arnold iddi weld merch ifanc yn geni plentyn yn ei chartref ar fatras ar y llawr wedi'i amglychynu gan weddill ei phlant.[181] Gallai genedigaeth yn y cartref fod yn ddigwyddiad pryderus i weddill y plant yn y cartref. Roedd teuluoedd mawr dosbarth gweithiol yn gorfod rhannu dwy ystafell weithiau, gan ddangos bod genedigaeth ddim yn ddigwyddiad preifat na chyfforddus i nifer o ferched. Os oedd bydwraig ar gael, rhan amlaf, nid oedd y bydwragedd yma wedi cael unrhyw hyfforddiant swyddogol mewn geni plant.[182] Byddent yn tueddu i fod yn ferched hŷn oedd wedi cael nifer o blant ei hunain, ac wedi bod yn bresennol mewn nifer o enedigaethau, ac felly'n deall y gweithredoedd sylfaenol. Gall geni gartref felly fod yn beryglus iawn i ferched a phlant y cyfnod, gyda diffyg cymorth meddygol a'r rhan fwyaf o gartrefi a diffyg adnoddau syml fel dŵr tap a thoiledau tu mewn i'r tŷ. Yng Nghymru'r ugeinfed ganrif, yr oedd y

[179] R. English, 'Pennies for heir to the throne: 2,013 silver coins to be minted for children born on same day as royal baby', *Daily Mail ar lein*, https://www.dailymail.co.uk/femail/article-2354742/Royal-baby-Silver-coins-minted-child-born-day.html (golwg diwethaf-09/08/20).
[180] Jones, 'Health and Reproduction', t.92.
[181] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950s*, t.113.
[182] McIntosh, *A Social History of Maternity and Childbirth: Key themes in maternity care*, t.2.

prinder tai yn golygu bod gorboblogi yn gyffredin.[183] Roedd hyn yn cael effaith negyddol ar y merched, gan mai hwythau oedd yn y cartref fwyaf, ac yn gorfod cadw'r cartref yn lân. Roedd geni plentyn yn y cyfnod yma yn risg yr oedd merched o bob dosbarth gymdeithasol yn gorfod ei wynebu. Wedi Deddf Bydwragedd 1902, roedd bydwraig yn gorfod cael hyfforddiant yng Nghymru a Lloegr er mwyn ceisio lleihau y marwolaethau mamol a babanod oedd yn digwydd yn aml mewn genedigaethau.[184] Gwelir fod diwygio wedi cymryd lle ynghylch iechyd merched yng Nghymru a Lloegr. Ar ôl 1936, roedd yna gorff bydwragedd penodol ym Mhrydain, gan godi statws y fydwraig fel unigolyn proffesiynol.[185] Roedd merched yn gallu profi eu gwerth yn y byd meddygol drwy fabwysiadu hyfforddiant bydwragedd. Gwellodd cyflwr cartrefi y niferoedd o bobl hefyd, felly dirywiodd y risg i'r merched a'r plant yn sylweddol. Yn yr 1920au-1930au roedd twf yn y niferoedd o enedigaethau mewn ysbytai, a ddirywiodd yn sydyn oherwydd y lefelau uchel o farwolaethau plant oherwydd aflendid.[186] Yn rhan gyntaf yr ugeinfed ganrif, gwelir bod geni eich plentyn yn y cartref yn llai o risg nac geni mewn Ysbyty. Byddai merched yn geni yn yr ysbytai os oedd unrhyw beth wedi'i mynd o'i le i raddau helaeth. Rhan amlaf, y cartref oedd y prif leoliad i eni babanod yn yr ugeinfed ganrif gynnar.

I droi ein sylw at yr unigolion oedd yn rhoi cymorth i ferched Sipsi eni eu plant. Cafodd cwestiwn wyth yr holiadur sef, a oedd yna fydwragedd penodol o fewn y gymuned, ei ateb gan gant un deg a phump o gyfranogwyr. Atebodd 62.40% (78 o gyfranogwyr) 'Oedd' ac 37.60% (47 o gyfranogwyr) 'Nac oedd'. Roedd canran ymatebion y cwestiwn yma yn ddiddorol, gyda swm cadarnhaol yn hawlio bod bydwragedd penodol yn y gymuned. Byddai cwestiwn agored i gyfranogwyr allu ymhelaethu ar eu hatebion i gwestiwn wyth wedi bod yn

[183] Beddoe, 'Munitionettes, Maids and Mams: Women in Wales, 1914-1939', yn Angela John (gol), *Our Mother's Land: Chapters in Welsh Women's History, 1830-1939*, tt.197-198.
[184] G. S. Cross, '"A Midwife at every confinement": Midwifery and Medicalized Childbirth in Ontario and Britain, 1920-1950', *Canadian Bulletin of Medical History*, Vol.31 (2014), tt.140-153.
[185] Jones, 'Health and Reproduction', t.92.
[186] Ibid, t.92.

ddefnyddiol tu hwnt yn yr achos yma. Er hyn, daeth y dyfyniad canlynol o gwestiwn chwech yr holiadur, sef cwestiwn agored am leoliad geni traddodiadol y Sipsiwn,

'my mum says there was always an experienced woman to help with the birthing'

I ychwanegu, daeth y dyfyniad canlynol o'r ymatebion i gwestiwn chwech yn ogystal,

'There would have been a older woman to help'

Awgryma hyn bod y fydwraig draddodiadol ymysg y gymuned Sipsi yn debyg i bydwragedd traddodiadol cymunedau eraill ym Mhrydain. Er nid yw'r cyfranogwyr yn mynd i fanylder am fydwragedd y gymuned Sipsi, mae'r wybodaeth a roddir yn ddiddorol. Mae'r dyfyniadau uchod yn pwysleisio mai merch aeddfed fyddai'n gweithredu fel bydwraig, person hefo profiad o eni plant, fel yn y cymunedau nad oedd yn Sipsiwn . Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, pan nid oedd bydwragedd proffesiynol ym Mhrydain, roedd apwyntio merched penodol oedd hefo profiad gyda'r dasg yn gwneud synnwyr. Dyma'r merched oedd yn fwy tebygol o allu rhoi cymorth i ferched eraill yn eu genedigaeth. Mewn cymuned deithiol roedd genedigaeth yn gallu digwydd mewn unrhyw le, yn aml yn bell o unrhyw bentref neu dref. Ni fyddai llawer o unigolion ac amser i alw am ddoctor, neu a diffyg arian i'w talu. Golyga hyn fod y merched yn debygol o roi cymorth i'w gilydd yn eu genedigaethau ac ymddiried mewn merch aeddfed i eni'r plentyn yn ddiogel. Ar y llaw arall, roedd y canran o unigolion nid oedd yn credu bod bydwragedd penodol yn y gymuned Sipsi yn swm dilys hefyd. Awgryma hyn bod bydwragedd penodol ymysg y gymuned yn gyffredin i rai teuluoedd yn unig. Mae'n bosibl bod y teuluoedd mawr a arferai deithio gyda'i gilydd a mwy o siawns o gael merch yn eu mysg gyda'r sgiliau perthnasol i helpu i eni plentyn. Ar y llaw arall, mewn teuluoedd llai mae'n debygol ni fyddai merch brofiadol o'r fath o gwmpas i helpu. Yn yr achosion yma, mae'n debyg byddai'r ferch un ai yn gorfod geni ar ei phen ei hun, neu yn cael cymorth doctor lleol os oedd digon o arian ganddynt i'w talu ac un ar gael ac yn barod i helpu. I'r

merched Sipsi oedd wedi setlo mewn ardal benodol, mae'n bosibl iawn eu bod yn defnyddio gwasanaethau bydwragedd penodol y cymunedau yna, un ai bydwragedd proffesiynol, neu ferched oedd wedi bod yn bresennol mewn nifer o enedigaethau.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd hysbysebion, cylchgronnau a'r llywodraeth yn annog merched Prydain i feichiogi er mwyn ychwanegu at yr ymdrech ryfela.[187] Roedd cadw niferoedd y boblogaeth i fyny yn bwysig i wlad oedd yn brwydro. Darlunir dyletswydd merched fel geni cymaint o blant a phosibl er mwyn sicrhau parhad y genedl. Roedd ymdrech wedi'r rhyfel hefyd i wella gofal iechyd i ferched, a felly annog mwy o enedigaethau yn y deyrnas. Gyda datblygiad y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol yn 1948 gyda gofal iechyd am ddim, gwellodd safonnau yn yr Ysbytai, gan wella iechyd merched yn gyffredinol hefyd.[188] Datblygwyd technoleg newydd fel y gwrthfiotig a throsglwyddiad gwaed, a oedd yn rhoi mwy o siawns i ferched oresgyn genedigaeth anodd.[189] Newidiodd y cyflwyniad o'r gwasanaethau a thechnoleg newydd rhain sut oedd genedigaethau yn cael eu rheoli. Oherwydd y gwelliannau, daeth ysbytai yn lleoedd ble roedd nifer o ferched yn dewis geni eu babanod. Erbyn 1990, dim ond un y cant o enedigaethau oedd yn digwydd yn y cartref, gan ddangos poblogrwydd eang yr Ysbyty erbyn diwedd y ganrif.[190] Cynyddodd poblogrwydd cartrefi mamolaeth hefyd, sefydliadau oedd yn arbenigo mewn gofal i ferched wrth eni. Roedd y cartrefi yma yn atyniad i nifer o ferched dosbarth gweithiol yn benodol, oherwydd gallent ymlacio a chael digon o fwyd a chwmni oddi wrth straen eu cartrefi a dyletswyddau arferol.[191] Dirywiodd yr angen am y cartrefi yma erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif. Ond, yn eu hamser roeddent yn darparu lloches bwysig i ferched beichiog. I'r rhan fwyaf o ferched, yn enwedig gyda genedigaethau cyntaf er hynny, yr Ysbyty oedd yr unig opsiwn oedd yn cael

[187] A. Davis, 'Wartime women giving birth: Narratives of pregnancy and childbirth, Britain c.1939-1960', *Studies in History and Philosophy of Biological and Biomedical Sciences*, Vol. 47 (2014), tt.257-260.
[188] Jones, 'Health and Reproduction', t.95.
[189] McIntosh, *A Social History of Maternity and Childbirth: Key themes in maternity care,* t.73.
[190] Jones, 'Health and Reproduction', t.96.
[191] McIntosh, *A Social History of Maternity and Childbirth: Key themes in maternity care,* t.72.

ei gyfleu iddynt erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif. I Beier, gwelwyd newid o enedigaeth fel digwyddiad anffurfiol ymysg cymdogion, i ddigwyddiad wedi'i reoli gan staff a oedd wedi eu hyfforddi mewn gofal iechyd erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif.[192] Oherwydd y pryder ar ddechrau'r ganrif gyda niferoedd eang o farwolaethau wrth eni, newidiodd genedigaeth i gael ei ystyried yn broses meddygol, gyda'r meddygon yn annog y dosbarth gweithiol i droi yn erbyn straeon llafar yr 'hen wragedd'.[193] Ffeithiau a gofal proffesiynol oedd yn bwysig erbyn diwedd y ganrif, nid barn cymdogion oedd wedi arfer cael eu gweld fel bydwragedd, heb hyfforddiant swyddogol. Darluniwyd yr ysbyty fel y lle orau a mwyaf diogel i eni plentyn erbyn diwedd y ganrif, nid ymysg cymdogion heb hyfforddiant.

Byddai'r delfrydau hyn yn fwy na thebyg wedi cael effaith ar y gymuned Sipsi. Gyda thwf yn y cyd-briodi rhwng Sipsiwn a phobl o'r gymuned frodorol yng Nghymru ac ym Mhrydain yn gyffredinol erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, a chysylltiadau agosach rhwng y ddwy gymuned yn gyffredinol, mae'n anochel bod datblygiad gwasanaethau iechyd wedi cael effaith ar y Sipsiwn hefyd. Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, roedd gan y Sipsiwn yng Nghymru a thu hwnt mynediad i wasanaeth bydwragedd proffesiynol, fel gweddill merched y wlad. Yng ngeiriau un o gyfranogwyr cwestiwn chwech yr holiadur sef (Yn draddodiadol, ble roedd plant yn y gymuned Sipsi yn tueddu i'w cael ei geni?),

> 'My grandmother was born in a wagon and my father in a trailer then the midwife came to check the baby.'

Gan dybio mai bydwraig broffesiynol fyddai'n ymweld â baban newydd, mae'r dyfyniad yma yn dangos y cyd-berthynas oedd wedi datblygu rhwng unigolion o'r gymuned Sipsi a'r gymuned allanol. Yn yr achos yma, mae'n debyg bod bydwraig o'r gymuned allanol yn cael

[192] L. M. Beier, 'Expertise and Control: Childbearing in Three Twentieth Century working-class Lancashire communities', *Bulletin of the History of Medicine*, Vol.78 (2004), t.379.
[193]Ibid, tt.380-381.

ei chroesawu i'r cartref, gan ddangos bod rhai teuluoedd Sipsi wedi mabwysiadu rhai o wasanaethau y gymuned allanol oedd yn siwtio eu ffordd o fyw. Awgryma'r dyfyniad uchod bod y ferch Sipsi wnaeth eni'r baban yn yr achos yma wedi geni'r plentyn ymysg unigolion o'r gymuned yn unig. Dim ond ar ôl yr enedigaeth oedd y fydwraig yn dod i weld y baban yng ngeiriau'r cyfranogwr. Mae hyn yn bwysig wrth ddangos bod genedigaeth i'r fam yma yn parhau i fod yn weithred gyfrinachol oddi wrth y gymuned allanol, ond bod y fydwraig yn cael dod i weld y baban wedi'r enedigaeth ei hun. Eto, mae hyn yn pwysleisio bod y Sipsiwn yn defnyddio adnoddau'r gymuned frodorol os oeddynt yn eu siwtio hwythau. Hefyd mae'n dangos bod bydwragedd proffesiynol yn cael eu derbyn gan rhai Sipsiwn benywaidd yn benodol. Yn ddiddorol, nid yw'r cyfranogwr yn nodi bod y fam newydd yn cael ei gwirio, ar ffurf arholiad corfforol, gan y fydwraig wedi'r enedigaeth yn yr achos yma. Hyd heddiw, mae nifer o Sipsiwn benywaidd yn enwog am eu cyfrinachedd a'u cywilydd o unrhyw berson weld eu corff. Mae merched y gymuned yn cael eu magu i fod yn geidwadol, er enghraifft i wisgo mewn ffordd ceidwadol a peidio dangos eu corff. Gall hyn esbonio pam bod rhai merched yn y gymuned yn osgoi cael eu harchwilio gan fydwraig broffesiynol wedi'r enedigaeth.

Yn draddodiadol, roedd genedigaeth yn tueddu i gymryd lle un ai yn y vardo neu mewn pabell y tu allan iddo yn y gymuned Sipsi. Cafodd Silvester Gordon, Sipsi Seisnig, er enghraifft ei eni mewn pabell yn Blackpool yn 1895.[194] Yr oedd pebyll y mwyafrif o Sipsiwn yn gyfforddus, er enghraifft gyda phabell Mackenzie Boswell yn cael ei ddisgrifio gan Yates fel moethus a chynnes yn ei hunangofiant yn 1953.[195] Yn y babell geni, byddai'r ferch wedi'i amgylchynu gan swynion lwcus, er enghraifft cerrig, dail a pherlysiau, i warchod y fam a'r

[194] S. G. Boswell, 'The Book of Boswell', gol. gan J. Seymore, J*ournal of the Gypsy Lore Society,* Vol.49 (1970), t.6.
[195] Yates, *My Gypsy Days- Recollections of a Romani Rawnie,* t.16.

plentyn.[196] Gallai'r swynion hyn darparu hyder a chysur i ferch wrth eni. Diddorol yw'r ffaith bod rhanbarth ar wahân yn cael ei greu ar gyfer genedigaeth yn y gymuned. Byddai hyn yn golygu bod y merched yn cael eu gadael i gwblhau'r dasg o eni'r baban heb ymyrraeth y dynion. Hefyd, byddai'n ffordd i ddynion gadw i ffwrdd o'r enedigaeth a pheidio dod ar ei draws ar ddamwain. Oherwydd pwyslais y Sipsiwn ar lendid, fel bydd yn cael ei drafod nes ymlaen, roedd y babell yn cael ei losgi wedi'r enedigaeth a'r fam a phlentyn yn symud i'r vardo (carafán) neu babell arall.[197] Dyma ffordd i sicrhau bod y fam a'r plentyn ddim yn cael eu hystyried yn aflan gan y gymuned. Mae'n anochel bod gwaed yn rhan o enedigaeth, hylif dynol fyddai'n cael ei ystyried yn aflan yn llygaid y gymuned. Drwy losgi'r babell a'r eiddo y tu mewn iddo, roedd y pyder o gwmpas aflendid yn cael ei ddiddymu yn gyfan gwbl. Er bod nifer o Sipsiwn yn cael eu geni mewn pebyll, cafodd Ryalla Duffy ei geni mewn Ysbyty yn Evesham yn 1959 gan fod ei mam dros bedwar deg oed yn ei geni.[198] Dyma doriad hefo traddodiad er lles y fam a'r plentyn. Gwelir bod datblygiad y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol wedi cael effaith cadarnhaol ar y Sipsiwn hefyd, gan sicrhau genedigaethau diogel i famau oedd angen cymorth meddygol wrth eni. Roedd merched Sipsi yn gallu gwneud y mwyaf o'r darpariaethau iechyd oedd ar gael iddynt erbyn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Yn achos Ryalla Duffy, gwelwyd bod y fam yn hyblyg ac yn barod i ddefnyddio gwasanaethau iechyd y gymuned allanol i eni ei phlentyn yn ddiogel.

Roedd adran yn yr holiadur oedd yn gofyn am leoliad geni Sipsiwn. Cwestiwn chwech yn yr holiadur cafodd ei ddosbarth i'r gymuned oedd: Yn draddodiadol, ble roedd plant yn y gymuned Sipsi yn tueddu i'w cael ei geni? Y mae'r graff isod yn dangos yr ymatebion mwyaf poblogaidd gan y cant un deg a thri o gyfranogwyr i'r cwestiwn:

[196] P. J. Lee, *We Borrow the Earth-An Intimate Portrait of the Gypsy Folk Tradition and Culture* (Ravine cyhoeddwyr ar lein, 2015), t.93.
[197] M. F. Wood, *In the Life of a Romany Gypsy*, gol. gan J. A. Brune (Llundain, 1973), t.78.
[198] R. Duffy, *Pinnies& Pegs-A Gypsy Childhood* (Derbyshire, 2009), t.5.



Gwelir bod y mwyafrif o gyfranogwyr wedi dewis y cartref fel y prif le yr oedd Sipsiwn yn tueddu i'w cael eu geni. Cwestiwn agored oedd cwestiwn chwech a olygodd bod y cartref yn cael ei ddisgrifio fel nifer o leoedd gwahanol gan gyfranogwyr. Y prif leoedd oedd yn cael eu disgrifio fel y cartref, oedd un ai y vardo, y babell, neu mewn tŷ. Cafwyd y dyfyniad canlynol, sy'n bwysig wrth ystyried traddodiadau geni hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif,

> 'Pre 1960s most children were born in the trailer…But don't forget even children born to house dwellers pre 60s were born in the house. So there is no difference between them there.'

Mae'r datganiad yma yn deg ac yn wir i raddau helaeth, fel sydd wedi cael ei ddarlunio ynghynt. Yn sicr, roedd y rhan fwyaf o Sipsiwn yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif yn dewis geni eu plant yn y cartref, ble bynnag oedd hwnnw. Ond rhai cofio nid traddodiad unigryw i'r Sipsiwn oedd hyn o gwbl. Fel mae'r dyfyniad uchod yn pwysleisio, yn y cartref oedd merched o'r ddwy gymuned yn arfer geni eu plant, heb os cyflwr y cartref. Mae'r canran uchod yn cadarnhau rhai o'r syniadau blaenorol am safle traddodiadol geni y Sipsiwn.

Ar y llaw arall, yr oedd cryn dipyn o gyfranogwyr yn dadlau mai yn yr Ysbyty oedd Sipsiwn yn tueddu i'w cael eu geni yn draddodiadol. O'r ymatebion, gwelir bod sawl cenhedloedd o'r un teulu wedi eu geni mewn ysbytai. Yn ogystal, roedd rhai o'r cyfranogwyr yn dadlau bod genedigaethau yn digwydd yn yr ysbytai yn ddibynnol ar amgylchiadau. Mae hyn yn

awgrymu os oedd unrhyw drafferthion, neu ddiffyg lle perthnasol i eni, yr oedd Sipsiwn yn tueddu i ddefnyddio ysbytai i eni eu plant. Y mae hyn yn cyd-fynd a natur hyblyg y gymuned. Rhai o'r ymatebion eraill i'r cwestiwn hon oedd cartref cymdogion, 'dan goedwig yn ystod amser casglu afalau, neu mewn ffos yn ystod amser ffermio. Mae'r amrywiaeth yn yr ymatebion yn awgrymu bod y Sipsiwn yn gwneud y mwyaf o'u sefyllfa wrth eni eu plant. Os oedd angen Ysbyty arnynt, roeddent yn ddigon bodlon i'w fynychu. Os mai coeden yn unig oedd eu lloches, roedd eu bywydau naturiol yn rhoi siawns da iddynt oroesi'r enedigaeth.

Mae'r wybodaeth o'r dyfyniad canlynol o gwestiwn chwech yn cael eu hadlewyrchu mewn nifer o ddyfyniadau eraill am y cwestiwn, 'I have seven sisters, three were born in hospitals, five in a tent.' Mae'r dyfyniad yma yn dangos bod rhieni Sipsi yn tueddu i fod yn hyblyg yn draddodiadol ac yn barod i ddefnyddio'r ysbytai os oedd angen, ond hefyd yn hapus i eni yn y cartref. Tybir bod lleoliad y geni yn ddibynnol ar yr amgylchiadau, er enghraifft os oedd yr enedigaeth yn symud ymlaen yn braf neu os oedd y rhieni yn digwydd bod yn agos i ysbyty a hefo gofal plant i weddill y plant. Gall llawer o faterion gwahanol cael effaith ar leoliad genedigaeth babanod Sipsi. Yng ngeiriau cyfranogwr arall o gwestiwn chwech,

> 'I was born in hospital but my brothers and sister were born onto the road, although my dad always took my mother to the hospital afterward to be sure.'

Dangosa hyn ddefnydd o'r ysbytai gan y cwpl yma i sicrhau iechyd a diogelwch y fam wedi'r enedigaeth. Gallai fod yn ffordd o gadarnhau bod y fam yn ddigon iach a chryf i symud ymlaen o'r safle hwnnw. Roedd yn ffordd o ddefnyddio gofal y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol i siwtio anghenion eu hunain wedi genedigaeth yn y cartref. Mae hyn yn dangos cymysgedd o ddal gafael ar draddodiadau y gymuned, ond hefyd defnyddio'r gwasanaethau a thechnoleg fodern i sicrhau diogelwch y fam a'r plentyn. Dangosa hyn sut

ddechreuodd y cysylltiad rhwng y Sipsiwn a'r gymuned frodorol yng Nghymru a thu hwnt gynyddu yn ail hanner yr ugeinfed ganrif.

Roedd un ymateb diddorol iawn i'r cwestiwn hon sy'n haeddu cael ei ddyfynnu yn llawn,

> 'My grandfather told me that years ago (so that would be years before he was born, and he's 80-something) they used to try and go back to the place where they traditionally wintered to have children. Traditionally the couple would be living and travelling with the father's family until they had a child, then they would go off and live together after that. The baby would never be born inside the vardo'.

Dyma wybodaeth unigryw a diddorol iawn, sy'n amlygu traddodiad nid yw'n cael ei drafod ymaith. Mae'n bosibl bod dychwelyd i'r safle gwersylla draddodiadol i eni plentyn yn lwcus i'r teulu penodol yma. Byddai hyn yn gwneud synnwyr wrth ystyried pwysigrwydd geni plant i'r gymuned hon. Mae'n bosibl bod dychwelyd i hen le gwersylla yn ffordd o roi'r siawns orau i'r plentyn hwnnw oroesi. Mewn cymuned sy'n tueddu i fod yn ofergoelus tu hwnt, yr oedd safleoedd gwersylla hynafol yn rhan bwysig o'u diwylliant. Yn ôl Fitzgerald, roedd rhai teuluoedd yn dychwelyd i le penodol i gladdu eu meirw yn ogystal.[199] Gwelir bod lleoedd penodol yn gallu bod yn bwysig tu hwnt i'r gymuned hon ac yn ffordd i ddechrau a rhoi'r gorau i fywyd mewn ffordd symbolaidd ac mewn lle arwyddocaol. I rai teuluoedd, byddai'r safleoedd gwersylla hynafol a math o fytholeg neu hud wedi eu cysylltu â nhw, a allai esbonio pam bod y teulu penodol yma wedi dewis teithio at safle penodol i ferch allu geni ei phlentyn. Mae'r dyfyniad uchod hefyd yn datgelu bod cwpl newydd yn byw gyda theulu'r gŵr cyn geni plentyn a bod yn annibynol. Dywed Liégeois mai genedigaeth plentyn cyntaf, ac nid priodas, sy'n sefydlu teulu sefydlog yn llygaid y Sipsiwn.[200] Er hyn, mae Liégeois yn canolbwyntio ar Sipsiwn ledled Ewrop. Cyn i'r dyfyniad uchod cael ei roi yn yr holiadur,

[199] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History,* t.75.
[200] Liégeois, *Gypsies- An Illustrated History,* t.68.

roedd hi'n anodd gwybod faint o berthnasol oedd gwybodaeth Liégeois i draddodiadau geni Sipsiwn Prydain. Er hyn, mae'r dyfyniad gan y cyfranogwr yn awgrymu mai genedigaeth gyntaf, ac nid priodas, oedd yn arfer rhoi annibyniaeth i gwbl newydd Sipsi, yn y teulu hwnnw yn benodol. Mae adran olaf y dyfyniad yn ddiddorol hefyd, sef y ddadl nid oedd genedigaeth yn digwydd y tu mewn i'r vardo. Mae'r syniad yma yn gwbl cyferbynnu ag amryw o ymatebion i gwestiwn chwech yn yr holiadur. I raddau helaeth, mae'r syniad yn gwneud synnwyr. Byddwn yn ystyried mewn bennod nes ymlaen rheolau glendid y Sipsiwn. Rhaid ystyried os oedd y teuluoedd oedd yn gwerthfawrogi'r rheolau glendid fwyaf yn debygol o ganiatâu genedigaeth oddi fewn i'r vardo? Gall genedigaeth fod yn broses budur, yn enwedig yn draddodiadol. Yn ogystal, byddai gwragedd Sipsi ag anrhydedd mawr yn eu cartrefi. A oedd hi'n fwy tebygol bod Sipsiwn benywaidd yn dewis geni mewn pabell rhan amlaf i osgoi gwneud y vardo yn aflan? Mae'n debygol bod hyn yn ddibynnol ar y teulu, yr amgylchiadau a'r cyfnod. Pan oedd pebyll yn cael eu ffafrio fwy gan y Sipsiwn a'u defnyddio yn ogystal i'r vardo, mae'n debygol iawn y byddai'r ferch yn defnyddio pabell ar wahân i eni ynddo. Cadarnhawyd hyn gan y Sipsi Seisnig Amos Churen yng ngwaith Fitzgerald a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1942, wrth iddo honni bod ei nain â phabell ar wahân i eni ei phlant a bod y babell yn cael ei ddinistrio mis ar ôl y geni.[201] I rai merched Sipsi, roedd genedigaeth yn ddigwyddiad annibynol oddi wrth weddill y teulu, gyda'r babell ar wahân yn amlygu hyn. Pwrpas dinistrio'r babell fyddai osgoi llygredd i weddill y teulu. Er hyn, pan aeth y pebyll allan o ffasiwn erbyn ail hanner yr ugeinfed ganrif, mae'n debygol bod merched Sipsi wedi dewis geni yn y vardo, neu yn y carafannau mwy modern a ddechreuodd ymddangos yn y cyfnod hwnnw. Yn gyffredinol, roedd traddodiadau geni a thraddodiadau eraill yn gallu amrywio yn y gymuned Sipsi ymysg pob teulu, sy'n esbonio'r amrywiaeth o

[201] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History,* t.49.

ymatebion i'r holiaduron. Nid yw unrhyw un o'r ymatebion yn anghywir, gan fod traddodiadau yn gallu bod yn unigryw i bob teulu, fel y mae'r dyfyniad uchod yn datgelu.

Roedd hi'n bwysig allu ystyried ble roedd y cyfranogwyr eu hunain wedi cael eu geni a chael cwestiwn penodol am hyn. Atebodd cant dau ddeg a saith o gyfranogwyr i'r holiadur gwestiwn saith sef, ble cafodd chi eich geni? O'r canran yma, atebodd 76.38% (97 o gyfranogwyr) yr ysbyty, 11.81% (15 o gyfranogwyr) y cartref ac 11.81% (15 o gyfranogwyr) 'eraill'. Cyn edrych ar y canran uchel o enedigaethau mewn ysbytai mewn manylder, mae'n bwysig cydnabod bod deg ar hugain o gyfranogwyr heb gael eu geni mewn ysbytai. Ni ddylai'r canran yma cael ei anwybyddu, gan ei fod yn dangos bod geni yn y cartref ac mewn safleoedd eraill wedi parhau i nifer o unigolion Sipsi o fewn cof byw. Hyd heddiw, mae merched o bob diwylliant a chymuned yn dewis geni babanod yn y cartref. Nid yw hyn yn weithred newydd, ac mae'n annhebyg bod y weithred yn mynd i ddod i ben. Yn ddiweddar, mae genedigaethau yn y cartref wedi bod yn cael eu hyrwyddo fwy gan y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol (GIG) gyda safle wê y GIG yn dadlau bod un o bob hanner cant o ferched beichiog yn dewis geni yn y cartref yng Nghymru a Lloegr.[202] Gwelwyd felly bod y canrannau o enedigaethau yn y cartref a gafodd ei ddarlunio yn yr ymatebion i gwestiwn saith sef 'Lle cafodd chi eich geni?' yn cyd-fynd a thueddiadau gweddill cymunedau Prydain hefyd. Byddai cwestiwn agored ar ôl yr adran 'Eraill' yn y cwestiwn yma wedi bod yn ddefnyddiol tu hwnt er mwyn i gyfranogwyr allu dweud yn benodol ble cafwyd eu geni, os nid oeddynt wedi cael eu geni mewn ysbyty neu yn y cartref. Heb yr adran agored yma, rhaid dyfalu pa fath o leoedd cafodd y pymtheg cyfranogwr a atebodd 'Eraill' eu geni. Gall ymchwilydd ddefnyddio ymatebion cwestiwn chwech 'Yn draddodiadol, ble roedd plant Sipsi yn tueddu i gael eu geni?' i awgrymu rhai o'r lleoedd yma. Trafodwyd ynghynt gan

[202] 'Where to give birth: the options', *NHS ar lein*, https://www.nhs.uk/conditions/pregnancy-and-baby/where-can-i-give-birth/ (golwg diwethaf-18/08/20).

ddefnyddio ymatebion cyfranogwyr cwestiwn chwech bod rhai genedigaethau yn digwydd yng nghartrefi cymdogion, 'dan goedwigoedd neu mewn ffosydd ar ochr y ffordd. Mae'n bosibl felly bod y cyfranogwyr a atebodd 'Eraill' i'r cwestiwn yma wedi cael eu geni yn y lleoedd yma, neu leoedd tebyg. Dim ond dyfalu y mae'n bosibl gwneud yn yr achos yma, felly mae'n rhaid dibynnu ar ymatebion rhai o'r cyfranogwyr eu hunain er mwyn awgrymu rhai o'r lleoedd allai Sipsiwn fod wedi cael eu geni, nid oedd yn ysbytai neu gartrefi.

I droi ein sylw at y cyfranogwyr a atebodd yr 'Ysbyty' fel lleoliad eu genedigaeth. Mae'n debyg bod y canran uchel o enedigaethau mewn ysbytai yn cyd-fynd a dirywiad y Sipsiwn sy'n gallu teithio fel ffordd o fyw. Hyd heddiw, y mae Sipsiwn a Theithwyr Prydain yn cael eu gwthio i fyw ar safleoedd parhaol neu mewn tai cyngor, oherwydd bod y llywodraeth wedi pasio cymaint o ddeddfau yn erbyn gwersylla ac wedi amgau y safleoedd hynafol gwersylla. Oherwydd diffyg lle ac adnoddau ar y safleoedd parhaol, roedd geni mewn ysbytai yn ymarferol i nifer o ferched. Hefyd, gyda'r syniad mai'r ysbytai yw'r lleoedd gorau i eni plant erbyn hyd, nid yw'n syndod bod cymaint o'r cyfranogwyr wedi eu geni mewn ysbytai. Yn ôl Greenfields, mae'r Sipsiwn heddiw yn tueddu i eni eu plant yn yr Ysbyty, er mwyn sicrhau bod y garafán yn aros yn lân.[203] Oherwydd y diffyg lle, mae hyn yn ddatrysiad ymarferol. Cytuna Cheal gan amlinellu bod genedigaeth yn cael ei ystyried fel amhur i Sipsiwn Cymru, felly'n digwydd o wirfodd yn yr Ysbyty i raddau helaeth.[204] I ychwanegu, mae Norman yn ei gwaith am grŵp o Deithwyr yng Ngogledd Cymru, yn dadlau bod rhai yn gweld eu hunain fel merched modern wrth ddefnyddio'r gofal iechyd orau yn eu barn hwy, sef yr Ysbytai.[205] Gwelwn fod Sipsiwn y presennol wedi addasu ac yn deall bod yr Ysbytai yn opsiwn da ar gyfer sicrhau genedigaeth ddiogel a chyfforddus iddynt. I Acton et al, cynyddodd diddordeb mewn iechyd yn y gymuned, gyda thwf symudiad y merched ymysg y Sipsiwn yn yr

[203] Greenfields, 'Family, community and identity', t.44.
[204] Cheal, 'Beyond the stereotypes: A review of Gypsies/Roma/Travellers and the Arts in Wales'
[205] Norman, *The changing lives of women Travellers*, t.33.

1980au.[206] Gwelwyd bod merched y gymuned yn cymryd iechyd eu hunain a'u plant i ddwylo eu hunain, yn hytrach nac ddibynnu ar dynion y gymuned. Yn achos Jess Smith, Teithiwr Albanaidd, Ysbyty oedd yr unig opsiwn wrth iddi eni ei phlentyn cyntaf yn Ysbyty Perth yn 1967 drwy enedigaeth cesaraidd.[207] I ychwanegu, cafodd brawd y Sipsi Seisnig Violet Cannon ei geni yn cesaraidd yn 1977 oherwydd esgor hir.[208] I nifer o deuluoedd Sipsi, datblygodd yr ysbytai i fod yn hafanau diogel i eni eu plant. Mae'r hen draddodiad o eni mewn vardo neu babell wedi diddymu oherwydd dirywiad y ffordd hynny o fyw.

Mae nifer o broblemau yn gallu ymddangos wrth i fwy o Sipsiwn benywaidd dewis geni eu plant mewn Ysbytai. Yn ôl Mcleish mae helynt yn gallu digwydd oherwydd anealltwriaeth tuag at y diwylliant Sipsi mewn ysbytai, er enghraifft gyda grwpiau mawr o deulu yn dod i ymweld â'r fam newydd, neu'r ferch yn gwrthod bydwraig wrywaidd.[209] Gall hyn achosi drwg-deimlad neu densiwn rhwng y teulu a'r staff. Datrysiad Mcleish i'r problemau hyn yw gofyn am anghenion y ferch a hyfforddi staff ar sut i ddelio gyda'r sefyllfa.[210] Gall problemau ymddangos wrth i Sipsiwn geisio defnyddio adnoddau modern, ond hefyd parhau gyda'u traddodiadau geni eu hunain. Yng Ngogledd Cymru yn benodol erbyn hyn, o brofiad personol, y mae genedigaethau yn y gymuned Sipsi wedi cymryd lle yn yr ysbytai am rai degawdau. Mae hyn yn dangos y cysylltiad agosach rhwng y ddwy gymuned yng Nghymru erbyn yr unfed ganrif ar hugain. Ac er bod yr awdures wedi cael ei geni yn y cartref yn 1997, roedd hyn yn eithriad erbyn hynny ymysg y gymuned frodorol a'r gymuned Sipsi yng Ngogledd Cymru. Fel mae'r paragraff yma wedi dangos, roedd yr ysbytai wedi eu gosod ar

[206] Acton, et al., 'Gender issues in accounts of Gypsy health and hygiene as discourses of social control', t.176.
[207] Smith, *Tales from the Tent-Jessie's Journey continues*, t.216.
[208] Cannon, *Gypsy Princess-The true story of a Romany childhood*, t.20
[209] J. Mcleish, 'Gypsy and Traveller women: The road to better care', *The Practicing Midwife*, Vol.11 (2008), t.3.
[210] Mcleish, 'Gypsy and Traveller women: The road to better care', t.4.

bedestal erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, a hyd heddiw dyna'r prif leoliad y mae merched yng Nghymru yn tueddu i eni eu plant.

Traddodiadau a defodau geni

Mae defodau yn bwysig i enedigaethau Sipsiwn. Yn ei nofel am ferch hanner-Sipsi mae Godden yn dadlau bod plentyn yn derbyn tri enw ar ei enedigaeth: un cyfrinachol, enw penodol mae'r gymuned yn unig yn ei alw, a trydydd enw cyhoeddus.[211] Dyma ffordd i gadw enwau yn gyfrinachol oddi wrth y gymuned allanol. Hefyd byddai'n ffordd o ddiogelu Sipsi oddi wrth yr awdurdodau nes ymlaen yn ei fywyd oherwydd y dryswch allai tri enw achosi. Dywedodd Borrow fod Sipsiwn a dau enw, un cyfrinachol ymysg y teulu ac un i'r gymuned allanol.[212] Nid yw'n awgrymu pam bod y Sipsiwn yn derbyn dau enw er hynny. Cytuna Buckland a'r traddodiad hon gan honni bod plentyn yn derbyn o leiaf dau enw wrth gael ei fedyddio i ddrysu ysbrydion anfad rhag adnabod y plentyn hwnnw.[213] Bydd y gwaith yma yn pwysleisio yn aml pa mor bwysig oedd bodloni ysbrydion yn llygaid y Sipsiwn yn yr ugeinfed ganrif. Oherwydd i'r gymuned dueddu i fod yn ofergoelus, roedd ysbrydion anfad yn cael eu hystyried yn berygl gwir. Byddai eu bodloni yn cael ei weld yn weithred naturiol i'w wneud gan nifer o deuluoedd. Roedd defodau a thraddodiadau yn bwysig i ddiwylliannau eraill hefyd. Mewn rhai cymunedau Hindŵ y mae seremonïau yn ystod y geni i warchod y fam a'r plentyn, er enghraifft llafarganu mantras i sicrhau bywyd hir.[214] Yn draddodiadol yn yr Alban roedd yr Howdie, sef y bydwraig, yn cwblhau defodau ofergoeliaeth yn ystod genedigaeth er enghraifft datglymu pob cwlwm ac agor ffenestri a drysau i'r plentyn

[211] R. Godden, *The Diddakoi* (Llundain, 2004), t.2.
[212] Borrow, *Romano Lavo-Lil Word-Book of the Romany or English Gypsy language with specimens of Gypsy poetry*, t.185.
[213] R. Buckland, *Buckland's Book of Gypsy Magic* (San Francisco, 2010), t.38.
[214] The Library of Congress, 'Hindu Rites and Rituals: The Ceremonies of Hinduism', *Safle wê Learn Religions*, https://www.learnreligions.com/hindu-rites-and-rituals-1770058 (golwg diwethaf-30/05/20).

ddarganfod ei ffordd i mewn i'r byd.[215] Yn debyg, yn ôl Rákóczi, rhan o ddewiniaeth y Sipsiwn oedd i glymu darnau o ddillad merch feichiog i warchod y plentyn rhag erthylu naturiol.[216] Nid yw'r syniad o ddefodau genedigaeth yn unigryw i Sipsiwn, ond mae ganddynt ddefodau geni sydd yn unigryw i'r gymdeithas, fel yr enwi. Gwelwyd o'r esiamplau uchod bod diwylliannau o lu a defodau a thraddodiadau eu hunain. Byddai'r defodau a thraddodiadau yma yn gysur i'r merched oedd yn beichiogi neu'n geni mae'n debyg. Mewn sefyllfa ble nid oeddynt a llawer o reolaeth, roedd cael rheolaeth dros y traddodiadau a defodau oedd yn cymryd lle yn debygol o fod yn gysur i ferch feichiog.

Traddodiad diddorol ac unigryw ymysg Sipsiwn Cymru oedd i drochi baban newydd mewn dŵr afon, pwll neu lyn. Y mae disgrifiad llawn o'r traddodiad yma gan gyfrannwr o'r enw Cledwyn Fychan yn y *Llafar Gwlad Cyfredol*,

> 'Wrth ddarllen am Lyn Boddi Babis yn *Llafar Gwlad* (146, Hydref 2019) cofiais am beth welodd fy hen daid, Samuel Owen, dros gan mlynedd yn ôl. Ar y pryd roedd yn byw yn Hafod Bach, Gwytherin (ond ym mhlwy Llanfair Talhaearn) ar fin yr hen ffordd o Lanrwst i Dinbych. Nid nepell o'r fan honno mae pwt o gomin ar fin y ffordd lle byddai sipsiwn yn aros yn achlysurol.
>
> Yn gynnar un bore rhewllyd gwelodd Taid un o'r sipsiwn yn dwad allan o'i garafán yn cario baban noeth newydd-anedig gerfydd ei draed. Torrodd blisged o rew oddi ar wyneb pwll gerllaw a throchi'r baban yn y dŵr cyn ei gymryd yn ôl i'r garafán.

[215] F. Mcalpine, 'Five Birth Traditions of the British Isles', *BBC America*, fersiwn ar lein, http://www.bbcamerica.com/anglophenia/2013/07/british-birth-traditions (golwg diwethaf-17/01/20).
[216] B. I. Rákóczi, 'Gypsy Magic', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.35 (1956), t.45.

> Dwn i ddim a fu Taid yn siarad efo'r sipsi a'i peidio ond rhywsut neu'i gilydd roedd wedi cael ar ddeall bod hynny'n arfer ymhlith y sipsiwn er mwyn sicrhau bod cyfansoddiad eu hepil yn ddigon cryf i oroesi.'[217]

Mae Cledwyn Fychan yn cyfeirio at erthygl mewn rhifyn blaenorol o'r cylchgrawn *Llafar Gwlad*, sy'n trafod pwll dŵr yn agos i Bethel yng Ngwynedd. Yng ngeiriau Howard Huws,

> 'Gellid dyfalu y safai dŵr yno ar un adeg; a dyfalu rhagor, mai yno y cafwyd, neu y ceid gwared ar fabanod dieisiau mewn oes greulonach a fu.'[218]

Gwelir bod Howard Huws yn dyfalu bod enw'r lle yma wedi datblygu oherwydd i fabanod dieisiau efallai cael eu boddi yn y pwll dŵr. Ar y llaw arall, mae atgofion Cledwyn Fychan yn cynnig syniadau eraill am yr enw 'Llyn Boddi Babis'. Er nid oedd atgofion Cledwyn Fychan a'i daid wedi digwydd ym Methel yng Ngwynedd, roeddent wedi eu lleoli yng Ngogledd Cymru hefyd. Mae hyn yn awgrymu efallai bod traddodiad y Sipsiwn o drochi baban newydd mewn dŵr oer yn digwydd ar draws Gogledd Cymru. Mae'n bosibl bod camddaeall wedi digwydd ynghylch 'Llyn Boddi Babis' ardal Bethel ac yn draddodiadol bod trochi babanod Sipsi wedi bod yn digwydd yno hefyd. Er bod y traddodiad uchod yn syndod i ddarllennydd y presennol, y mae'n gwneud synnwyr yng ngyd-destun yr oes i'r gymuned hon. Yr oedd y Sipsiwn yn byw eu bywydau y tu allan rhan amlaf. Dyma fywyd caled a thrafferthus i blentyn cael ei eni iddo. Mae'n debyg bod trochi'r baban yn y dŵr rhewllyd yn fath o fedydd i'r bywyd caled hwn. Os gallai'r plentyn ymdopi a'r trochi yma, byddai'n fwy tebygol o oroesi ei blentyndod, rhywbeth a oedd yn bryder i nifer o rieni Sipsi. Y mae diffyg ffynonellau am y traddodiad yma, sydd efallai yn awgrymu mai traddodiad ymysg y Sipsiwn Cymraeg ydoedd. Gan fod y ffynonellau am y Sipsiwn Cymraeg yn brin eu hunain, mae'r diffyg trafodaeth am y traddodiad yn gwneud synnwyr. Er hyn, yn atgofion Harriet Hart yn

[217] C. Fychan, 'Llyn boddi babis arall', *Llafar Gwlad cyfredol*, Rhif 149, Awst 2020.
[218] H. Huws, 'Llyn Boddi Babis', *Llafar Gwlad*, Rhif 146, Hydref 2019.

1936, Sipsi o Ynys Manaw, dywedodd bod plentyn newydd yn arfer cael bath cyntaf mewn dŵr glaw neu dŵr o'r glaswellt.[219] Mae'r ddefod yma digon tebyg i awgrymu bod y traddodiad efallai yn cael ei ddefnyddio gan deuluoedd Sipsi ymaith o Gymru. Ar y llaw arall, nid yw Ynys Manaw mor bell â hynny oddi wrth Gymru, o ystyried teithio ar y môr. Mae'n ddigon tebyg bod Sipsiwn Cymreig wedi mudo i Ynys Manaw, gan fynd a'u traddodiadau a defodau gydent hwy. O hunangofiant y Teithiwr Albanaidd Jess Smith o 2008, dysgwn fod un o blaenolwyr yr awdures wedi geni plentyn ac yna ei golchi yn y llyn cyfagos.[220] Roedd y Teithwyr Albanaidd wedi bod ym Mhrydain canrifoedd cyn ymddangosiad y Sipsiwn. Dyma bwynt diddorol sy'n awgrymu efallai bod y Sipsiwn wedi mabwysiadu rhai o draddodiadau'r Teithwyr Albanaidd wedi iddynt fewnfudo i Brydain. Mae hyn yn gwneud synnwyr, gan fod y ddwy gymuned deithiol yma wedi cyd-briodi. Heb os, mae'r traddodiadau yma yn dangos bod dŵr yn arfer chwarae rhan yng ngenedigaeth rhai Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru a thu hwnt. Yn draddodiadol, mae dŵr wedi'i weld fel cyfansawdd sy'n puro gan nifer o ddiwylliannau gwahanol. Mewn pennod nes ymlaen, bydd y gwaith yn dangos bod Sipsiwn yng Nghymru yn arfer cymryd defodau glendid o ddifrif. Mae'n bosibl bod glanhau'r baban mewn dŵr ffres yn ffordd o buro'r plentyn, a fyddai'n cael ei ystyried yn amhur wedi genedigaeth oherwydd cysylltiad gyda hylif dynol a gwaed. Gallai trochi'r baban mewn dŵr fod yn ddefod glendid arall ymysg y Sipsiwn, ffordd i sicrhau bod y plentyn yn cael ei lanhau a'i buro yn llygaid y teulu.

O ran beichiogrwydd i'r Sipsiwn yng Nghymru yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, mae hanes diddorol yn hunangofiant Betsy Wood, sef hanner-Sipsi. Mae'r hunangofiant yma yn darlunio bywyd Betsy yn hanner cyntaf yr ugfeinfed ganrif, ac yn canolbwyntio ar ffigyrau allweddol benywaidd yn y teulu Wood i raddau helaeth. Ynddo mae merch Sipsi, sef Alice,

[219] W. W. Gill, 'Manx Gypsies', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.15 (1936), t.156
[220] J. Smith, *Jessie's Journey-Autobiography of a Traveller Girl* (Edinburgh, 2008), t.163.

yn feichiog ac yn cael ei gadael gan ei siwtor.[221] I ddenu siwtor arall mae'n trywanu ei chroen a rhoi ychydig o'i gwaed ar wyneb dyn arall. Wedyn mae Alice yn datgan yn gyhoeddus bod y ddau wedi cael rhyw, gan sicrhau bod yntau yn gorfod cymryd cyfrifoldeb dros y plentyn.[222] Mae'r ddefod o ddenu siwtor gyda gwaed yn cysylltu â hud naturiol y Sipsiwn, pwnc fydd yn cael ei drafod mewn manylder nes ymlaen. Dyma ddigwyddiad diddorol wrth i ferch allu defnyddio ei phwerau ystrywgar i sicrhau bod ei phlentyn a hithau ddim yn cael eu gwarthruddo yn llygaid ei chymuned. Mae'r enghraifft hon yn unigryw i Gymru, gan bwysleisio cysylltiad y Sipsiwn Cymreig gyda hud naturiol. Tueddai'r Cymry fod yn bobl fwy ofergoelus yn gyffredinol nac gweddill pobloedd Prydain. Gall hyn ddangos pam bod Sipsiwn Cymru yn fwy parod i ddefnyddio dulliau dewinol yn ystod ei beichiogrwydd. Dangosa'r enghraifft yma fod Sipsiwn benywaidd Cymru yn gallu bod yn bwerus yn hawl ei hunain a chymryd eu dyfodol i ddwylo ei hunain. Gwelir hefyd bod beichiogi tu allan i briodas yn gyffredin i'r gymuned, a ddim yn cael ei feirniadu yn ormodol yn y cyfnod hwn. Yn ôl Hall, roedd canran eithaf uchel o ferched yn feichiog ym Mhrydain cyn iddynt briodi o'r 1930au ymlaen.[223] Nid yw hyn yn golygu bod y merched yma ddim yn cael eu beirniadu. Mae'n bosibl byddai'r beichiogrwydd yn cael ei hystyried yn sgandal enfawr i deulu merch o'r gymuned allanol. Nid oedd hyn yn wir i ferched Sipsi yng Nghymru yn yr ugeinfed ganrif gynnar o ystyried hanes Alice uchod. Dyma ddangos gwahaniaeth mawr yn y cymunedau a'u ffordd o fyw. Yn debyg, mewn rhai cymunedau gwledig ym Mhrydain yr 1950au, roedd beichiogi cyn priodi yn gyffredin gyda'r dyn yn ymgeisio i sicrhau bod y ferch ddim yn anffrwythlon.[224] I'r cymunedau gwledig yma, roedd beichiogi a sicrhau aer yn bwysicach na'r priodi ei hun. Yn ogystal, roedd adroddiad gan comisiwn cyflogi plant 1842 yn datgan

[221] Lyster, *The Gypsy Life of Betsy Wood*, tt.92-95.
[222] Ibid, tt.92-95.
[223] L. A. Hill, 'Sexuality', yn I. Z. Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), tt.59-60.
[224] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950s*, t.153.

bod beichiogi cyn priodi yn gyffredin i ferched haenau is Gogledd Cymru.[225] Felly, mae'n bosibl bod y traddodiad o feichiogi cyn priodi yn digwydd ymysg y dosbarth gweithiol yng Nghymru hefyd, nid yn unig y Sipsiwn yn y wlad, yn enwedig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er i arferion y Gorgio ddylanwadu ar y Sipsiwn erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, roeddynt wedi plannu eu hunain fel grŵp allanol o estron oherwydd eu harferion gwahanol.

Adran ddiddorol o arferion Sipsiwn Lloegr yw sut mae genedigaethau yn cael eu cyhoeddi. Mae Samantha Lee, a briododd i mewn i'r gymuned, yn honni bod mam ei gŵr yn gorfod dweud wrth ei dad o eu bod yn feichiog, ac yntau yn dweud wrth y dynion eraill yn y gymuned.[226] Dyma ffordd i adnewyddu a dal gafael ar y traddodiadau sy'n creu ffin rhwng y ddau rywedd yn y gymuned, wrth i dad y gŵr cael y ddyletswydd o hysbysebu'r newyddion. Yn ogystal, gan fod genedigaeth yn cael ei ystyried fel rhanbarth merched, mae hyn yn ffordd i ddynion allu darganfod gwybodaeth am feichiogrwydd heb unrhyw deimlad o gywilyddio. Nid oes tystiolaeth o'r ddefod yma ymysg Sipsiwn Cymru er hynny. Er bod plentyn Samantha yn hanner-Sipsi byddai'n cael ei fagu ymysg teulu Sipsi ei gŵr i raddau helaeth. Yn ôl Okely, mae plant undeb rhwng Sipsi a Gorgio fel arfer yn cael eu cydnabod fel Sipsiwn, syniad sy'n cael ei gytuno â gan Fonseca.[227] Dangosa hyn fod y diwylliant Sipsi yn cael blaenoriaeth ym magwraeth y plentyn hwnnw. Gan fod y rhiant Gorgio yn aml yn mabwysiadu arferion y Sipsiwn wrth briodi i mewn i'r gymuned, mae'r plentyn yn cael ei ystyried fel Sipsi cyflawn. Rydym yn cwrdd â Samantha a'i gŵr Patrick ar episodau o *My Big Fat Gypsy Wedding*, y gyfres teledu enwog. Mewn un episod mae Samantha a Patrick yn pryderu bydd ei mab yn cael ei fwlio am fod yn hanner-Sipsi gan y plant Gorgio a'r plant Sipsi, gan ddangos bod hiliaeth yn bresennol ar y ddau ochr.[228] Er i blant o undod rhwng

[225] G. T. Roberts, *The Language of the Blue Books- The Perfect Instrument of Empire* (Cardiff, 1998), tt.69-70.
[226] S. Lee, *Gypsy Bride- One girl's true story of falling in love with a Gypsy boy* (Llundain, 2011), t.294.
[227] J. Okely, *The Traveller-Gypsies* (Caergrawnt, 1983), t.154; Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.12.
[228] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 2-Episode 4, *Channel 4 boxset*.

Sipsi a Gorgio dueddu i gael eu hystyried fel Sipsiwn cyflawn yn draddodiadol, mae amseroedd wedi newid ac mae hyn yn rhywbeth mae rhieni fel Samantha a Patrick yn pryderu amdano ar ran eu mab.

Beth sy'n glir o hanes Samantha a Patrick yw'r gobaith mawr am blant yn y gymuned Sipsi. Mae Madine yn darlunio sut mae rhieni Sipsi yn eidoleiddio eu plant a'u difetha, yn enwedig wrth dalu am eu diwrnod priodas yn achos y merched.[229] Gwelwyd bod y plant yn cael eu haddoli gan eu rhieni sy'n rheswm arall pam bod Sipsiwn yn geni cymaint o blant. Disgrifiodd John Sampson yn 1892 bod plant yn cael eu hanrhydeddu yn y gymuned a'r holl deulu yn distewi i wrando ar blentyn yn siarad.[230] Yn ogystal, roedd y Teithwyr Albanaidd hefyd yn sbwylio eu plant hwythau yn ôl Betsy Whyte, Teithiwr Albanaidd ei hun.[231] Yn aml, roedd teuluoedd mawr o Sipsiwn a Theithwyr yn teithio gyda'i gilydd o amgylch cylchred penodol o ffermydd i ddarganfod gwaith. Roedd hyn yn golygu bod plant yn cael eu magu ymysg ymestyniad eang o fodryb, ewythrod, cefndryd, neiniau a theidiau. Nid yw'n syndod bod y plant yn cael eu sbwylio cymaint oherwydd hyn. Gwelir bod parchu plant y gymuned yn draddodiad hir-dymor. Yn gyffredinol, mae yna bryder ym Mhrydain bod plant yr unfed ganrif ar hugain yn cael eu gor-amddiffyn.[232] Mae modd dadlau bod hyn yn sicr yn wir yn y gymuned Sipsi. Er hynny, mae'r plant yn derbyn digonedd o sylw a chariad, sy'n awgrymu bod eu hamddiffyn o ddylanwadau drwg efallai ddim yn beth drwg.

Darluniwyd pwysigrwydd y plant i rieni Sipsi dro ar ôl tro yng nghwestiwn naw yn yr holiadur sef 'Oes yna unrhyw draddodiadau ydych chi'n cadw ato?'. Mae'r esiamplau canlynol yn dangos y parch ac anrhydedd sy'n cael eu dangos iddynt,

[229] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.122.
[230] J. Sampson, 'Tales in a Tent', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol. 3 (1892), t.200.
[231] B. Whyte, *The Yellow on the Broom-the early days of a traveller woman* (Edinburgh, 2001), t.21.
[232] R. Huq, *Making Sense of Suburbia through popular culture* (Llundain, 2013), t.158.

'Children are my main priority'

'My children and my husband are my life and I would defend them unconditionally'.

Mae'r delfrydau hyn yn gyffredin i nifer o rieni Sipsi, ac mae'r gobaith mawr am blant yn cael eu darlunio yn y dyfyniadau wrth i blant cael eu hystyried yn flaenoriaeth lwyr. I nifer o rieni Sipsi mae magu plant yn golygu bod llinach y teulu yn parhau a thraddodiadau a defodau y diwylliant yn cael eu pasio ymlaen hefyd. Mae'n ffordd o gynnal y bywyd Sipsi mewn cyfnod pan mae'r bywyd traddodiadol yn cael ei herio. Drwy fagu eu plant gyda pharch, eu hamddiffyn a rhoi digon o sylw iddynt, mae'r rhieni Sipsi yn sicrhau bod y teulu yn agos yn hir-dymor a'r plant ar gael i'w helpu yn eu henoed. I ferched Sipsi sydd wedi eu magu gan eu rhieni i fod yn wragedd tŷ yn y dyfodol, mae geni plant yn fath o anrhydedd. Mae'n ffordd i rai merched bwysleisio i'w rhieni eu bod yn bwriadu i barhau gyda'r ddelfryd ddelfrydol o fod yn ferch ac i ychwanegu at y teulu. Mae geni plant yn cael ei hystyried yn weithred fenywaidd tu hwnt, delfryd sy'n cael ei anrhydeddu gan nifer o ferched Sipsi.

<u>Iechyd a diogelwch</u>

Ffactor bwysig arall i Samantha Lee yn ei genedigaeth oedd ystyried sut i fagu plentyn mewn carafán oherwydd y diffyg lle.[233] Yn draddodiadol, roedd bywydau'r Sipsiwn yn cael eu byw tu allan i raddau helaeth oherwydd natur eu gwaith, felly nid oedd amgylchedd clos y vardo o reidrwydd yn broblem. Yng ngeiriau Violet Cannon, Sipsi Seisnig,

'we grew up to think that the outdoors was our indoors'.[234]

Erbyn heddiw mae amseroedd wedi newid, ac mae'n rhaid gallu magu plentyn mewn amgylchedd cyfforddus, glan a chynnes. Gall beichiogrwydd fod yn ddigwyddiad peryglus i ferched Sipsi sy'n teithio neu'n byw mewn carafannau, oherwydd yr amgylchedd gwael,

[233] Lee, *Gypsy Bride- One girl's true story of falling in love with a Gypsy boy,* tt.295-296.
[234] Cannon, *Gypsy Princess-The true story of a Romany childhood*, t.51.

symud parhaol a'r diffyg mynediad i feddyg.[235] Hyd heddiw, mae genedigaeth yn y gymuned Sipsi yn gallu bod yn beryglus. Gyda thwf adnabyddiaeth o gryfderau gwasanaethau iechyd yn y gymuned, disgwylir i enedigaethau fod yn fwy diogel yn y pen draw. Y mae merched Sipsi a merched sydd wedi priodi i mewn i'r gymuned sydd yn byw mewn carafannau angen bod yn ddyfeisgar gyda'r lle sydd ar gael iddynt yn y cartref a gwneud y mwyaf ohono. Mae'n anochel bod cael cartref llai nac arferol yn golygu bod rhieni newydd yn cael eu gwthio i brynnu'r angenrheidiau yn unig ar gyfer eu plentyn newydd. Byddai hyn yn golygu bod arian ddim yn cael ei wastraffu a bod popeth sydd yn cael ei brynu wir yn cael ei ddefnyddio.

I droi ein sylw at rhai o draddodiadau y Teithwyr Albanaidd er mwyn creu cymariaethau. Gallai genedigaeth i Deithiwr Albanaidd fod yn broses beryglus yn ystod yr ugeinfed ganrif. Cawn ddarlun o'r perygl o feichiogi i Deithwyr Albanaidd yn hunangofiant Jess Smith, a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 2002. Adroddai hanes genedigaeth ei mam, wrth i'w nain ei geni ar ochr ffordd ar ben ei hun cyn parhau ar ei siwrnai i ymweld â'i chwaer.[236] Mae'r hanes hwn yn rhyfeddol, ond mae Smith yn tyngu ei fod yn wir. Yn ôl y Teithiwr Albanaidd Belle Stewart, gwnaeth ei nain eni mab ar ochr ffordd ar ben ei hun hefyd.[237] Efallai bod hyn yn brofiad cyffredin i Sipsiwn a Theithwyr yr ugeinfed ganrif oherwydd y diffyg cysylltiad ag Ysbyty a'r ffaith bod merched allan drwy'r dydd yn gwerthu o ddrws i ddrws. Dangosa hyn pa mor fregus oedd genedigaeth yn gallu bod i ferch Sipsi yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg hwyr i'r ugeinfed ganrif gynnar. Er hyn, nid oes enghreifftiau penodol o Sipsiwn benywaidd yng Nghymru yn geni ar ochr y ffordd i allu cymharu. Er mae'n bosibl iawn ei fod wedi digwydd, mae'n anodd gwybod yn sicr heb dystiolaeth bendant. Yn ogystal,

[235] M. Greenfields, 'Travellers' health', yn C. Clark a M. Greenfields (gol), *Here to Stay-The Gypsies and Travellers of Britain* (Hatfield, 2006), tt.192-193.
[236] Smith, *Jessie's Journey-Autobiography of a Traveller Girl*, t.163.
[237] Maccoll a Seeger, *Till Doomsday in the afternoon-The folklore of a family of Scots Travellers-The Stewarts of Blairgowrie*, t.24.

adroddai Smith mewn nofel *Bruar's Rest* fod unigolyn yn gorfod goruchwylio'r enedigaeth ymysg y Teithwyr Albanaidd i sicrhau bod y ferch heb ddwyn y plentyn.[238] Gallai hyn gysylltu â'r syniad traddodiadol ystrydebol o Sipsiwn fel hergydiwr plant. Er hyn, yn ôl Borrow, roedd gan y Sipsiwn benywaidd ddigon o blant heb iddynt gael y byrdwn o blant pobl eraill.[239] Roedd gan y gymuned barch tuag at blant, fel sydd wedi cael ei drafod ynghynt. Ar y llaw arall, roedd plant Sipsi yn cael eu herwgipio gan elusennau Cristion hyd at 1973 yn y Swistir a'u rhoi i deuluoedd nid oedd yn Sipsiwn i'w diwygio i fyw bywydau mwy Cristion.[240] Nid y Sipsiwn oedd yn dwyn plant, ond roedd plant y Sipsiwn eu hunain yn cael eu herwgipio, yn enwedig tu hwnt i Brydain. Gwelwn fod genedigaeth ddim yn broses syml yn y gymuned a bod rheolau clir yno i geisio gwarchod y ferch a'r plentyn. Eto, nid oes cyfeiriadaeth at oruchwylio genedigaeth ymysg y ffynonellau cynradd am Sipsiwn Cymru, sy'n awgrymu mai traddodiad unigryw i'r Teithwyr Albanaidd ydoedd.

Er hyn, gallai genedigaeth Sipsi fod yn bryderus oherwydd natur bywyd teithiol y gymuned, a'r ffaith eu bod yn cael eu hamau gan y gymuned allanol ar adegau. Yn atgofion Manfri Wood, Sipsi Romani ei hun, nodir bod doctor wedi gwrthod dod i helpu i eni baban yn y teulu un tro.[241] Mae'r hunangofiant hwn o 1973, ond mae pryderon eraill i brofiad Sipsiwn benywaidd o eni plant yn parhau yn y presennol. Hyd heddiw mae problemau ledled Prydain ynglŷn â gwasanaethau iechyd sydd ar gael i ferched Sipsi neu Deithio. Yn ôl Pwyllgor Merched a Hafalrwydd y Tŷ Cyffredin, nid yw nifer o'r safleoedd y mae Sipsiwn a Theithwyr yn byw arnynt heddiw yn ffit i fyw arnynt.[242] Darluniodd Samantha Lee, a

---

[238] J. Smith, *Bruar's Rest* (Rhydychen, 2006), t.111.
[239] Borrow, *Romano Lavo-Lil Word-Book of the Romany or English Gypsy language with specimens of Gypsy poetry*, t.178.
[240] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.240.
[241] Wood, *In the Life of a Romany Gypsy*, tt.19-20.
[242] 'House of Commons Women and Equalities Committee-Tackling inequalities faced by Gypsy, Roma and Traveller communities', *UK Parliament Seventh Report of Sessions 2017-19*, fersiwn ar lein, https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmwomeq/360/full-report.html (golwg diwethaf-25/10/19), t.38.

briododd i mewn i'r gymuned, safle gwersylla parhaol ei theulu yng nghyfraith fel taclus, cyfforddus a heb ei orboblogi.[243] Er hyn, nid yw'r delfryd yma yn wir i bob Sipsi a Theithiwr. Yn aml nid yw'r safleoedd hyn hefo adnoddau golchi nac dŵr thap, sy'n angenrheidiau sylfaenol. Yn ôl Goward et al mae unigolion o'r cymunedau Sipsi a Theithio yn ogystal ag unigolion proffesiynol sy'n ymdrin â'r cymunedau, yn tynnu sylw at y ffaith nid yw nifer o safleoedd gwersylla parhaol yn ddiogel.[244] Yn anffodus, nid yw'r gwelliannau sydd ei angen yn cael eu gweithredu yn aml. Nid oes gan unigolion o'r gymuned opsiynau eraill, felly mae'n rhaid aros ar y safleoedd parhaol, heb os eu cyflwr yn aml. Mae rhai Sipsiwn yn gorfod byw ar safleoedd anghyfreithlon oherwydd y diffyg safleoedd parhaol iddynt. Yn aml, mae'r Sipsiwn yma sydd yn teithio yn gorfod byw ar faes parcio neu ystad diwydiannol, heb unrhyw adnoddau.[245] Yn ôl Rogers a Greenfields, mae erthyliadau naturiol yn gyffredin yn y gymuned, oherwydd diffyg mynediad i wasanaethau genedigol.[246] I ychwanegu, mae Parry et al yn dadlau bod merched Sipsi yn tueddu i gael symptomau beichiogrwydd tebyg i ferched o gymunedau eraill, er enghraifft salwch boreol ac iselder wedi geni, ond bod y merched Sipsi yn gwynebu erthyliadau naturiol yn fwy aml.[247] Mae hyn yn golygu bod iechyd Sipsiwn benywaidd yn cael ei beryglu oherwydd diffyg adnoddau syml. Mae'n rhaid bod y canrannau uchel o erthyliadau naturiol yn cyd-fynd a bywydau bregus merched Sipsi. Oherwydd y diffyg sgiliau llythrennedd yn y gymuned Sipsi, os mae merched yn derbyn llythyrau gan feddyg neu Ysbyty, nid ydynt yn gallu eu darllen yn aml.[248] Gall hyn olygu bod apwyntiadau pwysig yn cael eu methu ac iechyd y ferch a'r plentyn yn cael ei rhoi mewn perygl. Datrysiad Mcleish i'r her yma fyddai i feddygfa ac Ysbytai atgoffa Sipsiwn am eu hapwyntiadau dros y

[243] Lee, *Gypsy Bride- One girl's true story of falling in love with a Gypsy boy,* tt.89-91.
[244] P. Goward et al., 'Crossing boundaries. Identifying and meeting the mental health needs of Gypsies and Travellers', *Journal of Mental Health*, Vol.15 (2006), t.317.
[245] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.241.
[246] C. Rogers a M. Greenfields, 'Hidden losses and 'forgotten' suffering: the bereavement experiences of British Romany Gypsies and Travellers', *Bereavement Care*, Vol.36 (2017), t.98.
[247] G. Parry, at al., 'Health Status of Gypsies and Travellers in England', *Journal of Epimediology and Community*, Vol.61 (2007), t.200.
[248] Mcleish, 'Gypsy and Traveller women: The road to better care', t.2.

ffôn.[249] Gwelwn fod iechyd merched sy'n feichiog yn cael ei ystyried gan academyddion ar hyn o bryd. Mae iechyd nifer o ferched yn cael ei herio oherwydd natur eu diwylliant a'r diffyg adnabyddiaeth o anghenion y gymuned.

Casgliad pennod genedigaeth

Gall genedigaeth yn y gymuned Sipsi fod yn broses beryglus i'r ferch a'r plentyn yn draddodiadol ac hyd at y presennol, oherwydd y diffyg cymorth meddygol a'r diffyg adnoddau syml yn y cartref. Er hynny, roedd hyn yn wir i'r dosbarth gweithiol ym Mhrydain yn gyffredinol yn yr ugeinfed ganrif gynnar. Gyda sefydliad y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol gwelwyd gwelliannau yn iechyd merched Prydain. Roedd ysbytai ar gael i ferched o bob cefndir i allu geni eu plant. Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, ysbytai oedd y prif leoedd geni ym Mhrydain. Erbyn heddiw, mae nifer o Sipsiwn yn dewis geni mewn ysbytai am resymau ymarferol, fel y diffyg lle mewn carafannau. Nid yw'r trochi baban mewn dŵr yn digwydd yng Nghymru bellach, ond mae'r ffaith bod ffynhonnell gynradd yn ei drafod yn bwysig wrth ddangos traddodiadau unigryw y Sipsiwn Cymreig yn yr ugeinfed ganrif. Er hynny, nid yw nifer o ddefodau y Sipsiwn wedi diflannu, gyda niferoedd eang o deulu yn ymgasglu wedi'r enedigaeth i ddathlu a'r rhan fwyaf o ddynion Sipsi yn gwrthod cael rhan yn yr enedigaeth ei hunan. Er nid yw Sipsiwn heddiw yn tueddu i dderbyn nifer o enwau gwahanol ar eu genedigaethau, mae llysenwau yn gyffredin iawn yn y gymuned hyd heddiw. Mae bron pob person hefo rhyw fath o lysenw yn y gymuned, weithiau enwau sy'n bersonol i'r teulu. Mae'r bennod yma wedi amlygu pa mor bwysig yw genedigaethau yn y gymuned Sipsi hyd heddiw a'u rôl ym mharhad diwylliannol y gymuned.

Marwolaeth

[249] Mcleish, 'Gypsy and Traveller women: The road to better care', t.2.

Cefndir

Ers canrifoedd, mae marwolaeth wedi denu sylw academyddion o lu ym Mhrydain a thu hwnt. Ers yr oes Goleuo, mae eiddo beddi a chofeb wedi eu defnyddio i geisio deall cymunedau'r gorffennol.[250] Yn y bennod yma, bydd eiddo'r meirw Sipsi yn cael ei drafod mewn manylder, hynny yw beth sy'n digwydd i'r mwyafrif o eiddo'r meirw yn ogystal â beth sy'n cael ei gynnwys ym medd y meirw Sipsi. Yn ogystal, bydd cofeb Sipsiwn Prydain yn cael ei drafod, er enghraifft pa fath o gofeb sy'n cael ei ddefnyddio gan y Sipsiwn yn ogystal â sut mae'r gofeb yn cael ei addurno. Yn ddiweddar, mae marwolaeth wedi datblygu i'w gael ei hastudio mewn nifer o ddisgyblaethau gwahanol, gan gynnwys hanes, hanes celf a chymdeithaseg.[251] Mae hyn yn golygu bod marwolaeth bellach yn ffitio'n gyfforddus yn y gwaith hanesyddol yma, sydd ei hun yn ffitio i ddisgyblaethau gwahanol megis hanes Cymru a threftadaeth. Y mae defodau a thraddodiadau angladdol y Sipsiwn yng Nghymru a thu hwnt ym Mhrydain yn ddiddorol ac yn haeddu adran eu hunain yn y gwaith yma.

Mae'r prif weithiau am farwolaeth yn y gymuned Sipsi ym Mhrydain gan Thompson, a ysgrifennodd nifer o erthyglau ar gyfer newyddiadur y Gymdeithas Llên Sipsi. Cyhoeddodd Thompson dair erthygl rhwng 1924-1930 yn trafod marwolaeth a chladdu yn y gymuned Sipsi yn Lloegr.[252] Mae'r gweithiau hyn yn bwysig gan mai dyma'r erthyglau sy'n mynd i fanylder fwyaf ynghylch arferion marwolaeth y Sipsiwn Seisnig. Defnyddir Thompson enghreifftiau o Sipsiwn adnabyddus ei oes drwy gydol y gwaith ac mae'n crybwyll marwolaethau merched Sipsi hefyd. Mae rhai enghreifftiau o farwolaethau Sipsiwn Cymreig yn cael eu trafod yn yr erthyglau. Er hyn, canolbwyntio ar arferion Sipsiwn Seisnig y mae

[250] R. Chapman, 'Beyond the Archaeology of Death?', *Historiae Mortis*, Vol.1 (2003), t.2.
[251] Ibid, t.5.
[252] T. W. Thompson, 'English Gypsy Death and Burial Customs', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.3 (1924), tt.5-38; T. W. Thompson, 'English Gypsy Death and Burial Customs-continuation', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.3 (1924), tt.60-93; T. W. Thompson, 'Additional notes on English Gypsy Death and Burial Customs', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol. 9 (1930), tt.34-38.

Thompson, felly nid yw'r wybodaeth yn yr erthyglau pob amser yn berthnasol i'r astudiaeth hon. Rhaid cofio bod erthyglau Thompson wedi dyddio erbyn hyn hefyd ac yn dangos canfyddiadau eu hoes ysgrifennu. Mae enghreifftiau allan o waith Thompson yn cael eu defnyddio yn y bennod hon. Er hyn, mae'r ffocws ar y ffynonellau Cymreig megis hunangofiannau Betsy Wood a Nansi Lovell i ystyried traddodiadau a defodau marwolaeth unigryw y Sipsiwn Cymreig neu i ddangos bod syniadau Thompson am arferion y Sipsiwn yn Lloegr yn berthnasol yng Nghymru hefyd. Mae'r dystiolaeth fwyaf unigryw i'w ddarganfod yn y data a gasglwyd yn yr holiaduron a bydd trafodaeth lawn o'r dystiolaeth yma nes ymlaen.

Bwriad y bennod yma yw pwysleisio bod y Sipsiwn Cymreig yn byw mewn gwlad ble roedd ofergoeliaeth o gwmpas marwolaeth yn bresennol yn barod. Bydd yn dangos bod rhagfynegi marwolaethau yn digwydd yn y ddwy gymuned yng Nghymru drwy gydol yr ugeinfed ganrif. Bydd y traddodiad Sipsi o losgi a dinistrio eiddo y meirw yn cael ei drafod mewn manylder, arferiad oedd yn digwydd yng Nghymru yn ôl y ffynonellau cynradd. Yn ogystal, bydd traddodiadau unigryw eraill y Sipsiwn Cymreig yn cael eu trafod, er enghraifft, peidio galaru yn ormodol mewn angladdau. Y mae adran benodol yn trafod traddodiadau a defodau angladdol merched Sipsi, gan gynnwys gwisgo nifer o haenau o ddillad i'w cael eu claddu ynddynt a'r ffaith bod rhai merched Sipsi yn gadael symiau eang o arian ar eu hôl. Hefyd, bydd y bennod yn pwysleisio bod hen draddodiadau fel torfoedd eang mewn angladdau yn parhau hyd at y presennol yn y rhan fwyaf o deuluoedd Sipsi. Bydd yn dangos bod rhai traddodiadau wedi dirywio, tra bod eraill wedi ymddangos erbyn hyn er enghraifft dathliadau enfawr i ddathlu bywyd y meirw ac enwi cenhedloedd newydd ar ôl blaenolwyr. Yn gyffredinol, mae'r bennod yn hyrwyddo sut mae traddodiadau a defodau marwolaeth ac angladdol y Sipsiwn Cymreig wedi newid dros amser, gan greu cymhariaeth hefo'r gymuned frodorol yng Nghymru ond hefyd hefo cymunedau eraill o Sipsiwn a Theithwyr ar draws

Prydain. Yn ôl Fitzgerald, roedd Sipsiwn yr ugeinfed ganrif gynnar yn ofni ysbrydion y meirw a bod yr ofn yma yn cysylltu â holl ddefodau angladdol y Sipsiwn.[253] Roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffordd oedd y Sipsiwn yn ceisio bodloni enaid y meirw, proses fydd yn cael ei drafod mewn manylder gan ystyried y defodau gwahanol, drwy gydol y bennod yma.

Cymuned ofergoelus

Yn draddodiadol, roedd y Sipsiwn yn hyrwyddo ac anrhydeddu symbolau o farwolaeth. I'r Sipsiwn sy'n hawlio'r ddawn o broffwydo'r dyfodol, mae marwolaeth yn cael ei rhagrybuddio yn aml.[254] Gallai hyn fod drwy adrodd ffortiwn, neu drwy weld symbolau o farwolaeth. Yn ôl Savinia Gray roedd cigfran yn arwydd o farwolaeth.[255] Mae hyn yn draddodiad i nifer o gymunedau ac mae'r gigfran wedi'i gysylltu âg anlwc am gyfnod hir. Yn debyg, yr oedd canu yr aderyn Plover aur yng Ngogledd Cymru yn arfer cael ei ystyried yn arwydd o farwolaeth.[256] Yn ogystal, yn ôl Davies, roedd anifeiliaid yn cael eu hystyried yn anlwcus gan glowyr Cymru, er enghraifft cathod du.[257] Dangosodd Davies sut oedd glowyr Cymru yn weithwyr mwyaf ofergoelus y wlad,

> 'If they met a redheaded woman, a cross-eyed woman, a rag-and-bone merchant, or a gypsy, then many would return home rather than risk their fate at the pit.'[258]

Mi oedd Cymru yn wlad ofergoelus tu hwnt yn hawl ei hun, heb os ofergoeliaeth y Sipsiwn yn y wlad. Gwelir yn y dyfyniad gan Davies sut oedd grwpiau ar yr ymylon yn y wlad, yn enwedig y Sipsiwn neu cardotwyr yn cael eu hamau a'u cysylltu ag anlwc. Gwelir bod

[253] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History*, t.108.
[254] Lyster, *The Gypsy Life of Betsy Wood*, t.147.
[255] C. F. Payne, 'Some Romani Superstitions', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.36 (1957), t.111.
[256] C. L. Daniels a C.M. Stevans, *Encyclopaedia of Superstitions, Folklore, and the Occult Sciences of the World* (Honolulu, 1903), t.681.
[257] R. Davies, *Sex, Sects and Society 'Pain and Pleasure': A Social History of Wales and the Welsh, 1870-1945* (Caerdydd, 2018), t.276.
[258] Ibid, t.276.

symbolau fel gweld anifail penodol neu gweld unigolion penodol yn cael ei weld fel rhybydd o farwolaeth i'r glowyr, ac arwyddion o farwolaeth yn cael eu cymryd o ddifri gan y Sipsiwn hefyd.

I ychwanegu rhagor at y syniad o broffwydo cyn marwolaeth, mae Geraldine Price yn hawlio bod ysbryd wedi ymweld â hi i'w rhagrybuddio am farwolaeth aelodau o'i theulu.[259] Yn ôl Bartlett proffwydodd Urania Boswell, Sipsi Seisnig a fu farw yn un deg wyth oed, ei marwolaeth ei hun ar ôl bywyd o adrodd ffortiwn teulu a chyfeillion.[260] Gwelwyd o'r enghreifftiau yma fod Sipsiwn yn cael eu rhybuddio am farwolaethau mewn ffurf wahanol, nid yn unig wrth weld symbolau neu arwyddion. Mae'r ddwy enghraifft yma yn darlunio sut oedd dewiniaeth a phroffwydo yn rhan o'r broses i rai unigolion, boed hynny drwy weld ysbrydion neu wrth adrodd ffortiwn. Yn gyffredinol, roedd y mwyafrif o Sipsiwn yn yr ugeinfed ganrif yn credu mewn ofergoeliaeth a'r symbolau naturiol allai effeithio ar lwc. Fel disgrifiodd Thompson y Sipsi Cymraeg Noah Lock,

> 'He would probably believe you if you told him that you had just seen the devil, or a ghost, or a fairy, or a witch, but for a Gypsy he is not abnormally superstitious'.[261]

Mae'r disgrifiad yma yn ein harwain i gredu bod y rhan fwyaf o Sipsiwn yn ofergoelus iawn, os oedd Noah yn cael ei hystyried fel peidio bod yn ofergoelus tu hwnt ag yntau yn credu mewn ysbrydion a thylwyth teg. Nid yn unig y Sipsiwn oedd yn ofergoelus yng Nghymru. Roedd y Cymry eu hunain hefyd yn bobl ofergoelus hyd yn oed yn yr ugeinfed ganrif. Yn ôl Davies, roedd tylwyth teg yn codi ofn ar y Cymry ac yn cael eu hystyried yn anfad.[262] Mae Davies hefyd yn darlunio sut oedd y diafol, ysbrydion a mor-forwynion yn cael eu credu

[259] J. Sandford, *Gypsies* (Llundain, 1973), t.42.
[260] D. M. M. Bartlett, 'Two Recent Gypsy Funerals', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.13 (1934), tt.92-93.
[261] T. W. Thompson, 'English Gypsy Folk-tales, and other Traditional Stories', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol. 8 (1914-15), t.185.
[262] Davies, *Sex, Sects and Society 'Pain and Pleasure': A Social History of Wales and the Welsh, 1870-1945*, t.272.

ynddynt gan y Cymry a'u pryderu.[263] Roedd y Sipsiwn a'r Cymru ill dau yn gymunedau ofergoelus, sy'n cael eu darlunio yn y dyfyniad uchod am Noah Lock ac yng ngwaith Davies. Gwelir bod y Sipsiwn wedi treiddio i wlad ble roedd ofergoeliaeth yn fyw o hyd. Mae'n bosibl bod hyn wedi sicrhau bod ofergoeliaeth ymysg y Sipsiwn wedi parhau.

Holwyd cyfranogwyr yr holiadur, 'Fyddech chi'n ystyried y diwylliant Sipsi fel bod yn ofergoelus?'. Y mae'r graff canlynol yn darlunio'r canlyniadau gan gant dau ddeg a pum cyfranogwr:



Gwelir bod y canran uchel o gyfranogwyr yn ystyried y gymuned Sipsi fel bod yn ofergoelus. Mae'r canlyniadau yn adlewyrchu y syniadau sy'n cael eu cyfleu yn yr hanesyddiaeth. Mae'n debygol bod Sipsiwn yn fwy tebygol o gredu mewn arwyddion o farwolaeth oherwydd eu cred gyffredinol mewn ofergoeliaeth a phwerau goruwchnaturiol. Ar y llaw arall, nid oedd swm cadarnhaol o gyfranogwyr yn credu bod y gymuned yn ofergoelus. Mae'n bosibl bod hyn yn dangos tueddiadau mwy modern, wrth i unigolion yn yr unfed ganrif ar hugain ildio credoau ofergoelus mewn byd modern. I nifer o unigolion erbyn hyn, mae ofergoeliaeth yn cael ei ystyried yn amherthnasol i fywyd modern. Mae'r ymatebion yn y graff yn amlinellu sut mae rhai unigolion yn 'dal gafael ar ofergoeliaeth, tra bod eraill yn ei weld yn ddibwrpas

[263] R. Davies, *Hope and Heartbreak: A Social History of Wales and the Welsh, 1776-1871* (Caerdydd, 2005), tt.355-374.

yn y gymuned Sipsi. Byddai rhoi dyddiad penodol, er enghraifft 'fyddech chi'n ystyried y diwylliant Sipsi fel bod yn ofergoelus yn ail hanner yr ugeinfed ganrif?' efallai wedi creu canlyniadau gyda ffocws mwy penodol. Neu, byddai rhoi blwch sylwadaeth ar ôl y cwestiwn wedi galluogi cyfranogwyr i leisio eu barn am y cwestiwn ei hunan, a'r rhesymau dros eu hateb. O edrych yn ôl, byddai hyn wedi ychwanegu gwybodaeth ddiddorol ar gyfer yr adran yma yn y gwaith. Er hyn, mae'r canlyniadau yn y graff heb os yn bwysig er mwyn dangos faint o gyfranogwyr oedd yn ystyried y gymuned yn ofergoelus. Bydd y bennod yma yn pwysleisio sut oedd credoau ofergoelus y Sipsiwn yn eu pwyso i gwblhau traddodiadau a defodau marwolaeth er mwyn bodloni y meirw.

I ychwanegu at y syniadau am arwyddion o farwolaeth, yng ngeiriau'r bardd Theodore Watts-Dunton a fu'n ysgrifennu yn y deunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg,

> I afterwards found that what is called the long sight of the Gypsies…is not long sight at all, but is the result of a peculiar faculty the Gypsies have of observing more closely than Gorgios do everything that meets their eyes in the woods and on the hills and along the roads.[264]

Yn achos Watts-Dunton ac yn sicr hyd heddiw y mae unigolion o'r gymuned allanol yn cael eu galw yn 'Gorgios' gan y Sipsiwn sy'n amlinellu'r gwahaniaeth clir rhwng y ddwy gymuned o safbwynt y Sipsiwn. Term Romani ydyw sy'n parhau i fod yn boblogaidd yn y gymuned. Mae'r disgrifiad yma yn pwysleisio'r ffaith bod y Sipsiwn yn defnyddio'r symbolau naturiol o'u cwmpas fel tystiolaeth o'u dyfodol. Nid yw Watts-Dunton yn hawlio i gredu yn yr adrodd ffortiwn a fu'n cael ei gysylltu â'r Sipsiwn, fel bydd yn cael ei drafod nes ymlaen yn y traethawd hwn. Mewn cyfnod ceidwadol yr oedd Watts-Dunton yn ysgrifennu, ac er y diddordeb mewn Sipsiwn, nid oedd y rhan fwyaf o academyddion yn barod i

[264] K. Hutton, *The Gypsy Bride* (Llundain, 2020), t.82, tt.486-487.

wynebu'r cywilyddio cyhoeddus o gredu mewn adrodd ffortiwn. Yr oedd yr haenau uwch o'r gymdeithas Brydeinig yn tueddu i farnu'r werin am barhau i gredu mewn ofergoeliaeth ac adrodd ffortiwn erbyn yr ugeinfed ganrif gynnar. Er hyn, mae Watts-Dunton yn dangos ei gefnogaeth ef yn y Sipsiwn gan ddangos bod y gymuned yn fwy gwyliadwrus na'r gymuned frodorol. Efallai bod hyn yn awgrymu bod y Sipsiwn yn deall y byd naturiol yn well na'r Gorgio, wrth iddynt fyw yn ei mysg drwy'r tymhorau a gweld y newidiadau naturiol yn digwydd o'u blaenau. Mae'n bosibl bod y Sipsiwn felly yn fwy parod i gredu mewn symbolau o farwolaeth, oherwydd eu bod yn defnyddio'r symbolau o'u cwmpas o ddydd i ddydd ac yn tueddu i fod yn gymuned ofergoelus tu hwnt.

Traddodiadau a defodau

Traddodiad Cymraeg sy'n canolbwyntio ar farwolaeth yw 'canwyll y corph', a ddisgrifwyd fel golau cannwyll sy'n cael ei weld o amgylch cartref cyn bod marwolaeth yn digwydd yno.[265] Gwelir bod pryder mawr ynghylch proffwydo marwolaethau yn bodoli ymysg y Cymry ar wahân i'r gymuned Sipsi yn y wlad. Byddai symbolau fel 'canwyll y corph' yn cael eu pryderu a'u credu gan y werin yn benodol, mewn cymuned oedd yn 'dal gafael ar ofergoeliaeth yn bell i mewn i'r ugeinfed ganrif. Dywedodd Howells fod rhagfynegi marwolaeth yn gyffredin mewn hanesion llafar y Cymry, er enghraifft wrth i unigolion hawlio iddynt weld angladd ysbrydol yn teithio tua'r Eglwys cyn marwolaeth.[266] Roedd hanes tebyg yn hunangofiant y Sipsi Cymraeg Betsy Wood o 1926 a ddisgrifiodd angladd ysbrydol yn ymyl ardal Towyn.[267] Gwelir fod ofergoeliaeth a'r gred yn y goruwchnaturiol yn bodoli yng Nghymru, heblaw ymysg y Sipsiwn. Yn yr ugeinfed ganrif yn benodol, roedd credoau'r werin yng Nghymru yn adlewyrchu nifer o'r credoau oedd yn bodoli ymysg

[265] P. Roberts, *Cambrian Popular Antiquities, or an account of some traditions, customs and superstitions of Wales, with observations as to their origin etc* (Llundain, 1815), t.169.
[266] W. Howells, *Cambrian superstitions, comprising Ghosts, Omens, Witchcraft, Traditions &.c.* (Llundain, 1831), tt.51-55.
[267] Lyster, *The Gypsy Life of Betsy Wood*, t.148.

Sipsiwn y wlad. Yn gyffredinol, roedd cefnwlad Cymru yn rhanbarth ble roedd ofergoeliaeth, dewiniaeth ac ysbrydion yn bryderon gwir.

I droi ein sylw at enghraifft benodol arall o ragrybuddio marwolaeth yn y gymuned Sipsi. Yn ôl y Sipsi Seisnig Maggie Smith Bendell, roedd ei modryb Emmy wedi rhagrybuddio marwolaeth ei hun wrth eni ei phlentyn cyntaf.[268] Er bod y llyfr wedi'i gyhoeddi yn 2010 nid oes dyddiad yn cael ei gyfeirio ato ynglŷn â'r digwyddiad yma. Er hyn, cafodd Bendell ei geni yn 1941 ac roedd hi'n ifanc iawn pan fu farw ei modryb. Mae hyn yn awgrymu mai o gwmpas yr 1950au cynnar y bu farw Emmy. Roedd y ddawn o broffwydo yn gallu bod yn faich ar adegau, yn enwedig os oedd yr unigolyn yn proffwydo marwolaeth eu hunain neu aelod o deulu. Oherwydd proffwydoliaeth Emmy er hynny, gallai'r teulu cyflawni un o ddefodau'r Sipsiwn cyn iddi farw, sef i deithio gyda'r person hwnnw i'r hen safleoedd gwersylla oedd yn golygu rhywbeth i'r person.[269] Dyma ffordd i gofio a dweud ffarwel. Byddai Sipsiwn eraill yn ymuno a'r teulu ar y ffordd i dreulio amser a'u cefnogi mewn amser o iselder.[270] Byddai safleoedd gwersylla penodol â atgofion cryf i unigolion fyddai wedi gwario eu bywydau yn teithio rhyngddynt. Yn anaml, byddai'r ddefod yma yn gallu cymryd lle, gan nid pob Sipsi oedd yn proffwydo eu marwolaeth. Yn yr achosion ble roedd unigolion a rhybudd o'u marwolaeth, byddai teithio i'r hen feysydd gwersylla yn golygu bod yr unigolyn hwnnw yn dod ar draws cyfeillion a theulu ac yn medru gadael iddynt wybod bod y diwedd ar fin dod. Mae'r cofnod hwn yn cysylltu â dawn y Sipsiwn o ddweud ffortiwn. Hyd at y presennol, mae gorymdaith angladdol Sipsi yn pasio hoff leoedd y meirw ar y ffordd i'r fynwent.[271] Mae'r syniad o daith olaf yn parhau. Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos bod

[268] Bendell, *Rabbit stew and a penny or two*, t.144.
[269] Ibid, t.146.
[270] Bendell, *Rabbit stew and a penny or two*, t.148.
[271] G. Challenger, 'Cemetery Culture and Traditions for people from the Traveller communities with regards to cemeteries and burying the dead', *Safle wê Friends Families and Travellers*, https://www.gypsy-traveller.org/wp-content/uploads/2017/03/Cemetery-Culture-and-Traditions_v2.pdf (golwg diwethaf-29/01/21), t.3.

arwyddion o farwolaeth yn rhan bwysig o gredoau nifer o Sipsiwn a gwir yn cael eu cymryd o ddifrif. Yn y diwylliant Hindŵ, y mae'r orymdaith angladdol yn pasio hoff leoedd y meirw ar y ffordd i'r amlosgfa.[272] Dyma ddangos tebygrwydd rhwng defodau angladdol y Sipsiwn a'r Hindŵ ym Mhrydain. Gwelir bod yr angladd yn ffordd o fodloni y meirw a'u helpu i basio ymlaen i'r nefoedd, neu i ailymgnawdoli yn achos yr Hindŵ. Yn y ddwy gymuned, mae'n debyg bod y ddefod yn ffordd o roi cysur, un ai i'r unigolyn fyddai'n marw yn achos y Sipsiwn, neu i deulu'r meirw yn achos y gymuned Hindŵ.

Tueddai angladdau Sipsi fod yn ddigwyddiadau sydd yn denu nifer o gyfeillion ac aelodau teuluol. Pan fu farw'r academydd Sipsiwn John Sampson yn 1931, ei ewyllys oedd iddo gael ei amlosgi a'i lwch cael ei wasgaru ar fynydd Moel Goch yng Nghymru, ble bu'n byw am gyfnod hir ymysg y teulu Woodiaid.[273] Yn ôl Jones, roedd Moel Goch yn cysylltu â ffigyrau mytholegol Cymraeg fel Ceridwen a Brân, ac yn un o hoff leoedd Sipsiwn Cymru i wersylla.[274] Cafodd y seremoni ei gynnal ymysg teulu a chyfeillion Sampson, ond hefyd casgliad enfawr o Sipsiwn, i gadw at draddodiad y gymuned o ymgasgliadau enfawr mewn angladdau. Enghraifft arall o hyn yn y gymuned oedd y torfoedd eang yn angladd Urania Boswell a chafodd eu hamcangyfrif yn chwe chant o bobl.[275] Mae hyn yn nifer enfawr o westeion, sy'n dangos poblogrwydd yr unigolyn a'i theulu yn llygaid y gymuned. Yn angladdau'r Teithwyr Albanaidd roedd torfoedd eang yn ymgasglu ac yn teithio milltiroedd i'r angladd, yn ôl Smith.[276] Dyma ffordd i ddangos parch at y meirw a chefnogaeth i'r teulu mewn cyfnod o iselder. Yn y cyfnod Rhufeinig roedd teulu a chyfeillion yn ymgasglu pan oedd person ar fin marw yn ôl Toynbee.[277] Byddai'r gymwynas yn cael ei dalu'n ôl mewn amser. I Okely, mae peidio ymddangos mewn angladd perthynas i chi yn y gymuned Sipsi yn

[272] J. Rugg a B. Parsons, *Funerary Practices in England and Wales* (Bingley, 2018), t.83.
[273] Yates, *My Gypsy Days- Recollections of a Romani Rawnie*, t.117-118.
[274] Jones, 'Sipsiwn Cymru', t.58.
[275] Bartlett, 'Two Recent Gypsy Funerals', t.89.
[276] Smith, *Tales from the Tent-Jessie's Journey continues*, t.221.
[277] J. M. C. Toynbee, *Death and Burial in the Roman World* (Llundain, 1996), t.43.

ddinistr emosiynol ac yn ddiwylliannol annerbyniol erbyn hyn.[278] Hyd heddiw, mae torfoedd eang yn ymgasglu ar gyfer angladdau yn y gymuned. Dyma draddodiad sydd wedi parhau ymysg y Sipsiwn hyd at y presennol. Mae'n bwysig i fod yn bresennol mewn angladdau teuluol yn benodol, hyd yn oed os ydych yn gorfod teithio'n bell i fod yn rhan ohono.

Yn debyg i'r traddodiad yma, mae'n draddodiadol yn y gymuned Sipsi yn ôl Petulengro i aros gyda'r gwael tra maent yn yr ysbyty, hyd yn oed os ydynt yno am wythnosau.[279] Enghraifft o hyn oedd i Violet Smith aros gyda'i gŵr am naw mis tra y bu ef yn yr ysbyty.[280] Eto, mae hyn yn dangos pa mor agos yw unigolion yn y gymuned, a pam bod colled yn cael cymaint o effaith arnynt. Mewn astudiaeth am Roma Mwslimaidd ac Orthodox yn Serbia dadleuodd Todorović bod teulu a chyfeillion yn ymgasglu ar fin marwolaeth person yn y gymuned i gynnig cefnogaeth ac adnoddau i'r teulu.[281] Mae'r cyfeillgarwch yma yn cael ei adlewyrchu yn nefodau ar draws y gymuned Sipsi, heb os eu lleoliad byw. Mae'n ymddangos fel petai unigolion Sipsi heb os eu cefndir yn rhannu gwerthoedd yn ymwneud a chefnogi'r gymuned mewn amseroedd o angen. Mae unigolion yn gwneud y mwyaf y gallent i gymhorthi'r gwael a'u teuluoedd pan foed angen, gan fod y gymwynas yn cael ei dalu yn ôl yn ei dro. Yn ogystal, mewn astudiaeth am y Romani yn gyffredinol, dadleuodd Zahn-Hiepler bod y gymuned yn osgoi siarad am farwolaeth gyda'r meirw pan maent yn ymgasglu.[282] Er mai'r Romani yn gyffredinol y mae'r awdur yn cyfeirio atynt, mae'r pwyslais ar fodloni'r gwael a'u cadw yn gyfforddus ac yn hapus yn bodoli mewn cymunedau Sipsi ar draws y byd, gan gynnwys Cymru.

[278] J. Okely, 'Gypsy Intermediaries Guide the Stranger: Bringing Reciprocity, Some Misunderstanding, but Protection from Outsiders', *Journal of Gypsy Studies*, Vol.1 (2017), t.81.
[279] Petulengro, *The Girl in the Painted Caravan-Memories of a Romany Childhood*, t.288.
[280] Davies, *Tales of the Old Gypsies*, t.114.
[281] D. Todorović, 'Preface', yn D. Todorović (gol), *Romani narratives about pre-death death and after-death customs* (Niš, 2005), t.9.
[282] S. Z. Hiepler, 'The Romani Death and Mortuary Practices', *Safle wê Cornerstone-Minnesota State Uni*, https://cornerstone.lib.mnsu.edu/gos/2018/presentations/9/ (golwg diwethaf-15/10/20).

Roedd ymateb i gwestiwn agored naw yn yr holiadur, sef 'Oes yna unrhyw draddodiadau ydych chi'n cadw ato?', yn ychwanegu rhagor o wybodaeth am aros gyda'r meirw hefyd nes iddynt gael eu claddu. Yng ngeiriau'r cyfranogwr am y traddodiadau oeddynt yn cadw atynt hyd heddiw,

> 'Death rituals most strictly, sitting up- no drinking during period between death and burial'.

Gwelir bod y meirw yn cael eu hanrhydeddu wrth i'r corff cael ei wylio'n barhaol drwy'r nos cyn yr angladd. Gallai fod yn ffordd i roi cefnogaeth i deulu agos y meirw ac i alaru yng nghwmni eraill. Hefyd, gallai fod yn ffordd i ddangos parch at y meirw ac i fodloni enaid y meirw. Mewn cymuned Sipsi o Romania, y Korturare Roma, mae presennoli angladd yn bwysig i ddangos parch o'r meirw a'r teulu, ac i ddiolch i'r teulu am bresennoli angladd yn eu teulu hwythau ynghynt.[283] Mae angen talu cymwynas o gefnogi teulu mewn angladd yn ôl yn ei dro i osgoi unrhyw ddrwgdeimlad yn y gymuned benodol yma. Mae hyn yn debyg ym Mhrydain, gan fod Sipsiwn sy'n peidio mynychu angladd teuluoedd eraill o Sipsiwn yn aml yn cael eu beirniadu. Fel bydd y bennod yma yn dangos, arferai fodloni enaid y meirw fod yn rhan arwyddocaol mewn angladd Sipsi. Yr oedd bwyta'r meirw mewn rhai cymunedau Aztec yn ffordd i ryddhau'r enaid yn ôl rhai anthropolegydd.[284] Yn ogystal, roedd y Nandi yn Kenya yn credu bod calon y meirw yn gallu bod yn beryglus os nid oedd y ddefod o adael i hyaenas fwyta corff y meirw yn cymryd lle i alluogi i'r galon symud ymlaen i'r tiroedd sanctaidd.[285] Er bod y defodau angladdol yn hollol wahanol yn yr enghreifftiau penodol yma, mae'n bwysig gweld bod cymunedau eraill dros y canrifoedd yn ceisio bodloni'r enaid neu'r corff yn eu defodau angladdol hwythau hefyd. Yn y cymunedau yma i gyd, roedd defodau

[283] G. B. Fabeni, 'Ritual Spaces and Burial Places: International migration and transnational change among the Korturare Roma', *Intersections*, Vol.4 (2018), t.146.
[284] M. P. Pearson, *The Archaeology of Death and Burial* (Gloucestershire, 1999), t.52.
[285] P. J. Ucko, 'Ethnography and Archaeological Interpretation of Funerary Remains', *World Archaeology*, Vol.1 (1969), t.270.

arbennig yn gorfod cymryd lle i fodloni'r meirw, boed hynny drwy wylio corff y meirw, bwyta'r corff neu aberth y corff i hyaenas.

Y mae traddodiadau tebyg i'r Sipsiwn yn y diwylliant Hindŵ o wylio corff y meirw. Wedi marwolaeth mae'r corff yn cael ei wylio'n barhaol nes iddo gael ei amlosgi.[286] Gwelwyd bod y syniad o gefnogi eich teulu a sicrhau bod traddodiadau angladdol y diwylliant yn parhau, yn rhan bwysig o fywydau Sipsiwn Prydain a'r gymuned Hindŵ hyd heddiw. Gan fod y gymuned Sipsi mor glos, mae dangos eich cefnogaeth mewn amseroedd o angen yn hanfodol er mwyn sicrhau perthnasau teuluol cadarnhaol. Yng Nghymru hefyd, yr oedd corff y meirw yn cael ei wylio'n barhaol drwy'r nos cyn yr angladd yn draddodiadol.[287] Cytuna Owen a'r draddodiad yma, gan ychwanegu bod pob unigolyn oedd yn gwylio'r corff yn gweddio o'i flaen yn gyntaf.[288] Eto, roedd hyn yn ffordd o gefnogi'r teulu mewn cyfnod o angen. Ar wahân i deithio i'r angladd, roedd mathau eraill o ddangos cefnogaeth i'r teulu mewn cyfnod o golled yn y gymuned Sipsi. Pan fu farw modryb y Sipsi Seisnig, Rosemary Penfold, cyrhaeddodd cannoedd o flodau i orchuddio'r bedd.[289] Dyma ffordd gyffredinol erbyn heddiw i ddangos cefnogaeth. Er hynny, mae'r cyfanswm o flodau sy'n cael eu gyrru i orchuddio bedd Sipsi yn gallu bod yn ryfeddod. Gall y blodau mewn angladd yn benodol fod yn addurnedig tu hwnt. Mae Rogers yn tynnu sylw at y ffaith bod blodau angladdol Sipsi yn tueddu i fod ar ffurf rhywbeth oedd y meirw yn ei hoffi.[290] Gall y blodau bod ar ffurf ceffyl, hoff gerbyd neu eitem o ddillad er enghraifft. Mae'r pwyslais ar greu angladd personol iawn i'r meirw ac i'r teulu i'w weld yn glir yma. Mae'r blodau addurnedig yma yn hanfodol wrth bwysleisio hunaniaeth y meirw yn yr angladd ac ymysg y gymuned.

---

[286] Rugg a Parsons, *Funerary Practices in England and Wales*, t.83.
[287] Roberts, *Cambrian Popular Antiquities, or an account of some traditions, customs and superstitions of Wales, with observations as to their origin etc*, t.174.
[288] T. M. Owen, *The Customs and Traditions of Wales* (Caerdydd, 1991), t.81.
[289] R. Penfold, *A Field Full of Butterflies- Memories of a Romany Childhood* (Llundain, 2011), t.69.
[290] C. Rogers, 'Beyond Bereavement: is close kinship enough? An exploration of the bereavement experiences and support in Gypsy and Traveller families' (Thesis PhD., Buckinghamshire New University, 2016), t.166.

Mewn mynwentau yr oedd Sipsiwn Cymru a gweddill Prydain yn tueddu i'w cael eu claddu yn yr ugeinfed ganrif, wedi gwasanaethau ffurfiol mewn Eglwysi. Yn ôl Pearson, arferai grwpiau teithiol ddim defnyddio mynwentau, ond bod grwpiau fel y Sipsiwn Seisnig yn eithriadau.[291] Er nid oedd Sipsiwn yn tueddu i fynychu Eglwysi yn aml, roeddynt yn bobl Grefyddol ac ysbrydol tu hwnt. Yn ôl McGowan, er bywyd teithiol y Sipsiwn, nid oes llawer o dystiolaeth o gladdu ar ochr y ffordd ymysg y gymuned.[292] I rhai Sipsiwn mae traddodiadau a defodau Catholig yn bwysig. Mewn traddodiadau Catholig, mae claddu yn hytrach nac amlosgi yn cael ei argymell.[293] Mae hyn efallai yn esbonio pam bod claddu yn fwy poblogaidd nac amlosgi i'r Sipsiwn. Tueddai Sipsiwn cael eu claddu ar dir wedi'i gysegru, fel gweddill y boblogaeth. Mewn astudiaeth am grŵp Sipsi o Romania, y Korturare Roma, dadleuodd Fabeni fod pwyslais yn y gymuned ar gladdu'r meirw yn ôl yn y pentref cafwyd eu magu ynddo hyd yn oed os ydynt wedi symud i wlad arall.[294] Cysylltwyd y ddefod yma gydag anrhydedd teuluoedd. Er bod y Korturare Roma yn grŵp o Sipsiwn tu hwnt i Brydain, mae'n bwysig gweld bod pwyslais ymysg cymunedau Sipsi ar draws Ewrop i gladdu'r meirw mewn mynwent. Mae'n bwysig i'r corff farw fod ar dir wedi'i gysegru, mewn lleoliad ble mae'r teulu yn gallu ymweld â'r bedd yn rheolaidd. Yn debyg, cafodd corff taid Rosie McKinley ei ddychwelyd i Iwerddon ar ei farwolaeth, er nid oedd ef wedi byw yn Iwerddon ers dros dri deg mlynedd.[295] Er bod McKinley yn Deithiwr Gwyddelig, mae'n bwysig gweld bod y traddodiad o ddychwelyd y corff i leoliad geni'r meirw yn digwydd ymysg grwpiau teithio Prydain hefyd. Mae'n bosibl bod y traddodiad yma a gwraidd Catholic hefyd. Defod Gatholig yw i gorff farw cael ei gladdu ym mhlwyf yr unigolyn.[296] Gyda'r grefydd Gatholig

[291] Pearson, *The Archaeology of Death and Burial*, t.137.
[292] McGowan, *On the Gypsy Trail- Sources for the family history of Gypsies,* t.12.
[293] Jones, *The Canon Law Of The Roman Catholic Church of England: 2nd Edition,* t.21.
[294] G. B. Fabeni, 'Ritual Spaces and Burial Places: International migration and transnational change among the Korturare Roma', *Intersections,* Vol.4 (2018), tt.137-142.
[295] McKinley, *Gypsy Girl-A life on the road, A journey to freedom*, t.76.
[296] Jones, *The Canon Law Of The Roman Catholic Church of England: 2nd Edition,* t.21.

yn flaenllaw ym mywydau nifer o Sipsiwn a Theithwyr, nid yw'n syndod bod traddodiadau a defodau Catholig wedi treiddio i'r gymuned.

Yng Nghymru, roedd hi'n draddodiadol i eiddo a chartref y Sipsi, yntau'r babell neu'r vardo, cael ei losgi wedi marwolaeth y perchennog. Dyma ffordd i sicrhau bod enaid, neu ysbryd, y meirw ddim yn gallu dychwelyd i'r ddaear. Yn y diwylliant Hindŵ, y mae amlosgi'r meirw yn hanfodol er mwyn i'r enaid adael y corff a gallu ailymgnawdoli.[297] Yn ogystal, mae Fonseca yn dadlau bod y diwylliant Hindŵ yn llosgi eiddo'r meirw, sy'n gyflinell glir i ddefod y Sipsiwn Cymreig.[298] Y mae'r enaid yn rhan allweddol o angladdau nifer o ddiwylliannau. Dadleuodd Pollock fod tystiolaeth yn Caerfyrddin o eiddo fel bwyd, gwydr a chrochenwaith yn cael ei gynnwys ar bair yn yr oes Rufeinig.[299] Yn hunangofiant Nansi Lovell, sef Sipsi Cymraeg, mae'r weithred yma yn cymryd lle hefyd.[300] Cyhoeddwyd hunangofiant Nansi Lovell am y tro cyntaf yn 1933 sy'n awgrymu bod y traddodiad yn cymryd lle yng Nghymru yn yr ugeinfed ganrif gynnar hefyd. Roedd pryder mawr ymysg y Sipsiwn yn benodol o enaid y meirw yn creu trafferthion i'r byw, os oedd eu heiddo ddim yn cael ei losgi. Mewn astudiaeth am ddefodau angladdol y Romani yn gyffredinol, dadleuodd Zahn-Hiepler fod llosgi neu ddinistrio eiddo'r meirw yn symbol o ddiweddglo bywyd dynol yr unigolyn.[301] Yn sicr, mae dinistrio eiddo'r meirw yn ffordd glir a therfynol i adlewyrchu diwedd bywyd. Ym Mhrydain er hynny, yr enaid sy'n cael ei gysylltu â dinistrio eiddo yn y gymuned. Cysyllta hyn eto gyda'r syniad o'r gymuned fel bod yn anghyffredin o ofergoelus. Gwelwyd bod llosgi eiddo'r meirw yn fath o ddefod angladdol eithaf cyffredin, yn enwedig ym Mhrydain. Gall hyn fod oherwydd i Brydain fod yn deyrnas eithaf gwledig, a'r werin yn parhau i gredu mewn ofergoeliaeth hyd at yr ugeinfed ganrif. Byddai'r pryder ynglŷn ag

[297] Rugg a Parsons, *Funerary Practices in England and Wales,* t.83.
[298] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.106.
[299] K. Pollock, *The evolution and role of burial practice in Roman Wales* (Thesis PhD., Prifysgol Bangor, 2005), t.105.
[300] Morgan, *Nansi Lovell-Hunangofiant Hen Sipsi*, t.99.
[301] Hiepler, 'The Romani Death and Mortuary Practices', *Safle wê Cornerstone-Minnesota State Uni*.

ysbrydion yn cael ei gymryd o ddifri. Mae nofel Hayes am Deithwyr Seisnig hefyd yn trafod y traddodiad o ddinistrio eiddo'r meirw, gan ddangos bod y traddodiad efallai ddim yn unigryw i Gymru.[302] Mae'n debyg bod hyn yn digwydd yn yr Alban yn draddodiadol hefyd, er enghraifft wrth i'r nofel *Bruar's Rest* a gyhoeddwyd gan y Teithiwr Albanaidd Jess Smith yn 2006 ddisgrifio llosgi eiddo'r meirw.[303] Cadarnhawyd hyn gan y Teithiwr Albanaidd, Betsy Whyte, a ddywedodd bod Teithwyr Albanaidd yn osgoi bod yn berchen ar eiddo y meirw oherwydd eu bod yn ofni enaid neu ysbryd y meirw.[304] Gwelwyd bod Sipsiwn a Theithwyr ledled Prydain wedi mabwysiadu'r traddodiad. Gyda bywyd teithiol y Sipsiwn, roedd dinistrio eiddo'r meirw yn gwneud synnwyr. Ni fyddai'r teulu yn gallu cadw eiddo'r meirw, gan ni fyddent yn aml yn gallu ei drosglwyddo o un lle i'r llall. Roedd angen cadw eiddo yn gyfyngedig yn y gymuned Sipsi, er mwyn i'r ceffyl allu tynnu'r vardo heb unrhyw her. Ym mhapur newydd *The Cardigan Observer and General Advertiser* yn 1896, roedd hen wreigan Sipsi yn ardal Slough wedi marw ac roedd ei heiddo i gyd yn cael eu dinistrio.[305] Mae hyn yn dangos bod y ddefod yn digwydd ymysg y Sipsiwn yn Lloegr hefyd, a bod y digwyddiad o ddiddordeb i bapur newydd Cymreig. Efallai bod hyn oherwydd i'r ddefod fod yn anarferol ym Mhrydain a felly bod ysgrifenwyr y papur newydd yn meddwl byddai'r testun o ddiddordeb i darllenwyr. Mae dyddiad yr erthygl yn bwysig hefyd, oherwydd dyma'r cyfnod ble roedd grwpiau lleiafrifol fel y Sipsiwn yn cael eu gweld fel eraill diddorol gan rhai academyddion. Yn Ne Madagascar, roedd y gymuned Tandroy yn arfer llosgi eiddo'r meirw yn eu cartref gan ei fod yn cael ei hystyried yn llygredig.[306] Y mae'r syniadau yma am

[302] R. Hayes, *The Travellers-Four People: One Story- Lizzie* (Hampshire, 2015), t.32.
[303] Smith, *Bruar's Rest*, t.26.
[304] Whyte, *The Yellow on the Broom-the early days of a traveller woman*, tt.139-140.
[305] 'A Strange Gipsy Rite', *The Cardigan Observer and General Advertiser for the Counties of Cardigan, Carmarthen and Pembroke- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 28 Mawrth 1896.
[306] Pearson, *The Archaeology of Death and Burial*, t.85.

lygredd yn adlewyrchu syniadau'r Sipsiwn am eiddo'r meirw ac yn pwysleisio bod cymunedau tu hwnt i Sipsiwn Prydain yn ystyried eiddo'r meirw yn beryglus.

Mae Smith yn ymhelaethu ar ddefodau marwolaeth y Teithwyr Albanaidd, gan nodi bod y corff yn arfer cael ei baratoi, er enghraifft drwy roi cerrig bychain dros lygaid y meirw a gorchuddio'r corff â brethyn.[307] Bwriad y cerrig oedd gwarchod enaid y meirw rhag cythreuliaid. Yn debyg, mae Cunliffe yn honni gallai beddi pwll (pit burials) y Celtiaid, gyda cherrig trwm yn cael eu gosod ar y cyrff, fod yn ffordd o sicrhau bod yr enaid ddim yn dianc.[308] Gwelwyd bod cerrig yn cael eu defnyddio yn nefodau claddu diwylliannau ar wahân i'r Teithwyr Albanaidd ac yn tueddu i gysylltu ag enaid y meirw. I nifer o ddiwylliannau roedd eneidiau'r meirw yn cael eu hofni a'u bodloni os oedd yn bosibl. Ym Mhrydain y cyfnod modern cynnar, roedd y werin yn credu bod corff y meirw yn gallu cael pŵer goruwchnaturiol a bod eneidiau yn gallu bod yn weithredol.[309] Yn ogystal, mewn rhai diwylliannau yn yr Oes Haearn ym Mhrydain, roedd y meirw yn gallu bod yn fygythiad i'r byw ac angen ei fodloni cyn i'r enaid symud ymlaen.[310] Gwelwyd bod nifer o ddiwylliannau yn ystyried sut i gadw ysbrydion rhag eu herio. Mae'n debyg bod y Sipsiwn wedi mabwysiadu'r ofn hon yn y gwledydd oeddynt yn dod i gysylltiad ag. Yn ôl y Sipsi Romani Patrick Lee, roedd eneidiau'r meirw yn cael eu hystyried yn fregus yn syth wedi'r farwolaeth.[311] Mae'r draddodiad llafar Prydeinig 'speak only good of the dead' yn pwysleisio bod ysbryd y meirw angen ei gymodi.[312] Mae'r datganiad uchod yn fath o rybudd i'r rhai fyddai'n cymryd y risg o siarad yn negyddol am y meirw. Mae'n bosibl iawn fod rhai o ddefodau'r Sipsiwn wedi eu hysbrydoli gan y cymunedau oeddynt yn mewnfudo iddynt. Yn ei hunangofiant, mae Manfri Wood yn nodi bod anifeiliaid y meirw yn cael eu lladd wedi

[307] Smith, *Bruar's Rest*, t.75.
[308] B. Cunliffe,'Celtic Death Rituals', *Archaeology*, Vol.41 (1988), t.41.
[309] S. Tarlow, *Ritual, Belief and the Dead in Early Modern Britain and Ireland* (Caergrawnt, 2011), tt.159-174.
[310] D. W. Harding, *Death and Burial in Iron Age Britain* (Rhydychen, 2016), t.28.
[311] Lee, *We Borrow the Earth-An Intimate Portrait of the Gypsy Folk Tradition and Culture*, t.76.
[312] W. Sikes, *British Goblins: Welsh Folklore, Fairy Mythology, Legends and Traditions* (Llundain, 1880), t.9.

marwolaeth Sipsi.[313] Y syniad yw bod yr anifeiliaid ddim yno i atgofio'r teulu am y person maent wedi ei golli. Roedd lladd hoff anifail y meirw a'i gynnwys ar y goelcerth amlosgi yn rhan o ddefod angladdol rhai cymunedau yn yr oesoedd canol yn ôl Nielsen hefyd.[314] Eto, pwysleisir hyn bod y gymuned Sipsi yn cadw defodau angladdol hynafol yn fyw hyd at yr ugeinfed ganrif. Er hyn, nid pob teulu Sipsi oedd yn cynnwys anifeiliaid y meirw ar y goelcerth. I rai, byddai hyn wedi'i weld fel gwastraff a chreulon i'r anifail. Roedd gan Sipsiwn barch mawr tuag at anifeiliaid, felly nid pob teulu fyddai'n ymarfer y ddefod yma.

O ran y corff ei hun, nid amlosgi oedd yr arferiad yn y gymuned Sipsi. Yn ei erthygl yn 1924, mae Thompson yn honni bod Sipsiwn Seisnig wedi defnyddio arch ers canrif o leiaf, yn hytrach nac llosgi'r corff.[315] Cytuna McGowan a'r gosodiad hwn gan nodi bod y rhan fwyaf o Sipsiwn yn cael eu claddu mewn mynwentau.[316] Mae hyn yn cyd-fynd a'r cyfnod pan fu'r Sipsiwn yn gynyddol yn mabwysiadu traddodiadau Cristnogol ym Mhrydain. Datblygodd angladd i fod yn ffordd i'r Sipsiwn arddangos eu statws, cyfoeth ac unigrwydd o flaen y gymuned Gorgio. Erbyn cyfnod ysgrifennu Thompson roedd eiddo'r meirw yn parhau i gael ei losgi, ar wahân i'r vardo a oedd werth mwy o arian na phabell.[317] Gwelir bod traddodiadau wedi dechrau dirywio wrth i'r teulu eisiau 'dal gafael ar eitemau gwerthfawr neu sentimental. Byddai llosgi pabell ac ychydig o eiddo wedi bod yn haws i deulu ei gwblhau, na llosgi vardo gwerthfawr. Datblygodd y cartrefi addurnedig a drud yma i fod yn bwysig i'r Sipsiwn fel symbol o'u hunaniaeth. Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, roedd y vardos yn bethau prin, felly mae'n anhebygol y byddai teulu yn eu llosgi. Erbyn yr unfed ganrif ar hugain, mae Rogers yn

[313] Wood, *In the Life of a Romany Gypsy*, t.109.
[314] K. H. Nielsen, 'Rituals to free the spirit-or what the cremation pyre told', yn D. Sayer a H. Williams (gol), *Mortuary practices and social identities in the Middle Ages- Essays in burial archaeology in honour of Heinrich Härke* (Exeter, 2009), t.89.
[315] Thompson, 'English Gypsy Death and Burial Customs', t.20.
[316] McGowan, *On the Gypsy Trail- Sources for the family history of Gypsies*, t.12.
[317] Thompson, 'English Gypsy Death and Burial Customs-continuation', tt.76-82.

dadlau bod eiddo'r meirw yn fwy tebygol o gael ei werthu i'r Gorgio yn hytrach na'i losgi.[318] Gwelwyd bod y traddodiad o gael gwared ag eiddo'r meirw yn parhau, ond wedi esblygu. Gall eiddo'r meirw fod yn werthfawr erbyn hyn, felly nid yw'n syndod bod teuluoedd yn dewis gwerthu yn hytrach na dinistrio'r eiddo.

Yn y nofel enwog Cymraeg *Tân ar y Comin* a gyhoeddwyd am y tro cyntaf yn 1975, mae vardo Alff Boswell yn cael ei losgi gyda'i gorff farw y tu mewn iddo.[319] Er nid Sipsi oedd awdur y nofel hon, mae'n dangos bod y traddodiad o losgi vardo y meirw wedi'i drosglwyddo i'r ymwybod Gymraeg am Sipsiwn Cymru. Unigryw yw'r disgrifiad o Alff ei hunan yn cael ei losgi gyda'r vardo er hynny, sy'n dangos bod y weithred yno yn eithaf anghyffredin. Mae'n bosibl bod yr awdur wedi camddeall traddodiadau'r Sipsiwn Cymraeg yn yr achos hwn. Roedd amlosgi yn gyffredin ym Mhrydain yn yr Oes Haearn a'r cyfnod cynnar Rhufeinig, ond dirywiodd y gweithgaredd i raddau helaeth wedi hynny.[320] Mae'n bosibl bod llosgi'r meirw wedi newid i gysylltu â phenyd. Erbyn yr oesoedd canol roedd unigolion yn tueddu i gael ei llosgi'n fyw i gael gwared â phechodau. Er hynny, roedd twf yn y diddordeb mewn amlosgi unwaith eto ym Mhrydain yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Yn ôl Jupp, roedd hyn yn cyd-daro â'r twf yn y syniad o farwolaeth fel rhan o natur a'r dirywiad ym mhoblogrwydd defodau angladdol.[321] Dechreuodd drigolion Prydain ffafrio angladdau syml, gan droi i ffwrdd o ddefodau angladdol yr oedd y lleiafrifoedd ethnig yn cadw atynt. Roedd yr amlosgi felly yn ffordd o bwysleisio eich statws, ac yn symbol eich bod yn mabwysiadu arferion modern. Nid oedd marwolaeth yn cael ei ystyried ychwaith fel digwyddiad negyddol tu hwnt, ond yn rhan naturiol o'r cylchred bywyd. Mae'r darlun o farwolaeth Sipsi yn nofel T. Llew Jones yn dangos rhagdybiaethau unigolyn o gymuned

[318] Rogers, 'Beyond Bereavement: is close kinship enough?' (Thesis PhD., Buckinghamshire New University, 2016), t.79.
[319] Jones, *Tân ar y Comin*, t.11.
[320] S. Lucy, *The Anglo-Saxon way of Death -Burial Rites in Early England* (Gloucestershire, 2000), t.119.
[321] P. C. Jupp, 'Why was England the first country to popularize cremation?', yn K. Charmaz et al., (gol), *The Unknown Country: Death in Australia, Britain and the USA* (Llundain, 1997), t.142.

‘allanol’ am gymuned o ddiddordeb iddo. Mae nofel T. Llew Jones yn boblogaidd iawn i blant ac yn creu darlun rhamantaidd o fywydau’r Sipsiwn. I rai plant, mae’n bosibl mai nofel T. Llew Jones sy’n rhoi’r darlun cyntaf iddynt am hanes a thraddodiadau’r Sipsiwn. Gallai’r syniadau rhamantaidd sy’n cael ei gyfleu yn y gwaith cael eu cymryd o ddifrif gan y darllenwyr, ni fyddai’n debygol o gwestiynu syniadau’r nofel am y gymuned Sipsi. Mae’n debygol bod nofelau fel *Tân ar y Comin* wedi cyfrannu at y twf mewn diddordeb yn y Sipsiwn. Er hyn, mae’r darlun rhamantaidd o’r Sipsiwn sy’n cael ei gyfleu yn y nofel hon yn ogystal â nofelau eraill sy’n trafod Sipsiwn yn gallu cyfrannu at yr ystrydebau sy’n parhau hyd heddiw am y Sipsiwn ym Mhrydain a’u harferion. Yn ôl Mayall, roedd pobl nid oedd yn Sipsiwn yn dysgu ystrydebau am y Sipsiwn gan eu gilydd, y cyfryngau neu llen-werin.[322] Gwelwyd bod nofelau hefyd wedi ychwanegu at y syniadau ystrydebol am y Sipsiwn dros y blynyddoedd.

Yn ddiddorol, mae erthygl fer gan Yates a gyhoeddwyd yn 1930 yn trafod un o draddodiadau angladdol eraill y Sipsiwn Cymraeg, sef i beidio galaru yn ormodol, gan allai hyn aflonyddu’r meirw.[323] Mae’r erthygl yma yn bwysig, gan nid oes llawer o weithiau academaidd penodol am Sipsiwn Cymru, yn enwedig wrth ystyried eu defodau a thraddodiadau. Wedi marwolaeth George VI yn 1952 roedd y torfoedd yn ei angladd yn gwbl dawel.[324] Yn yr 1950au roedd galaru yn gyhoeddus yn gyffredinol ym Mhrydain yn cael ei feirniadu. Er hyn, mewn erthygl papur newydd *Seren Cymru*, mae’r merched Sipsi yn cael eu disgrifio fel galaru’r uchel yn angladd Samuel Small yn Plymouth yn 1884.[325] Awgryma hyn fod galaru yn fwy cyffredinol i angladd Sipsiwn Seisnig, tra bod peidio galaru’n gyhoeddus efallai yn unigryw i Sipsiwn

[322] Mayall, *Gypsy-travellers in nineteenth-century society,* t.91.
[323] D. E. Yates, ‘Lamentation for the Dead: A Welsh Gypsy Belief and its parallels’, *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol. 9 (1930), t.26.
[324] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950s*, t.96.
[325] ‘Marwolaeth “Brenin y Gipsies”’, *Seren Cymru- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 29 Awst 1884, t.5.

Cymru. Dangosa hyn bod gwahaniaethau penodol yn nefodau angladdol Sipsiwn o wledydd gwahanol. Nid yw pob Sipsi yn dilyn yr un defodau. Yn achos y Sipsiwn Cymraeg, enaid y meirw sy'n cael ei fodloni eto yn y ddefod yma. Pryderai'r gymuned i'r meirw cael ei herio gan alaru, felly nid oedd hyn yn cael ei annog. Fel yn achos y Sipsiwn Seisnig, roedd y Teithwyr Albanaidd yn tueddu i alaru yn uchel ac yn gyhoeddus ar farwolaeth person, gydag oedolion yn crio ac yn gwrthod bwyta am ddyddiau yn ôl Betsy Whyte.[326] Er nid Sipsiwn ydynt, roedd y Sipsiwn a'r Teithwyr Albanaidd yn rhannu nifer o draddodiadau a defodau oherwydd eu bywydau teithiol tebyg a'r cyd-briodi oedd yn digwydd rhyngddynt. Gwelir bod peidio galaru yn gyhoeddus ddim yn draddodiad cyffredin ar draws grwpiau teithiol Prydain. Mae'n debygol y byddai Sipsiwn Lloegr, yn enwedig yn y Gogledd, wedi cyd-briodi fwy gyda'r Teithwyr Albanaidd oherwydd y ffaith eu bod yn byw yn agosach iddynt ac yn fwy tebygol o deithio i'r Alban. Ar y llaw arall, byddai'n anghyffredin i Sipsi Cymraeg briodi a Theithiwr Albanaidd ar ddechrau'r ugeinfed ganrif yn benodol, gan ni fyddent yn dod i gysylltiad gyda'i gilydd. Mae'n bosibl bod y Sipsiwn Cymraeg wedi 'dal gafael ar neu ddatblygu traddodiadau a defodau oedd yn unigryw i'w hunain i ffwrdd o ddylanwad grwpiau teithiol eraill.

Traddodiadau a defodau unigryw i ferched

Y mae enghreifftiau penodol o farwolaethau merched Sipsi wedi eu cyhoeddi mewn papurau newydd o'r ugeinfed ganrif. Cyhoeddodd papur newydd *News of the World* erthygl yn 1926 am farwolaeth Sipsi chwech ar hugain oed Caroline Penfold, a nodi bod ei vardo ac eiddo wedi'i ddinistrio.[327] Gwelwyd bod merched a dynion yn dilyn y traddodiad o losgi eiddo ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Mae'n ddiddorol bod papur newydd wedi dewis cyhoeddi erthygl am y digwyddiad, sy'n dangos bod y traddodiad rhyfeddol yn denu sylw y cyhoedd efallai.

[326] Whyte, *The Yellow on the Broom-the early days of a traveller woman*, t.92.
[327] Thompson, 'Additional notes on English Gypsy Death and Burial Customs', t.36.

Mae'n arwyddocaol mai merch ifanc oedd 'dan sylw yn yr erthygl gan fod hyn yn amlinellu diddordeb y cyhoedd ym mywydau a marwolaethau rhamantaidd a trasig y Sipsiwn. Roedd y ffaith bod Caroline Penfold yn ifanc yn rhamantu sefyllfa ddigalon. Yn ôl Buckland, roedd merched yn tueddu i gael eu gwisgo mewn nifer o sgertiau i gael eu claddu, er mwyn sicrhau bod y person yn barod am y daith i'r nefoedd.[328] Gwisgwyd Vashti Boswell yn 1839 mewn belt addurnedig byddai ei theulu yn gwisgo mewn amseroedd arbennig i'w chladdu.[329] Gwelwyd bod merched yn cael eu hanrhydeddu mewn marwolaeth cymaint â dynion y gymuned. Darluniwyd statws a chyfoeth merched Sipsi Prydain yn y ffordd yr oeddynt yn cael eu gwisgo neu'r gemwaith amdanynt wrth gael eu claddu. Ymysg trigolion teyrnas Dahomey yn Affrica roedd cyfoeth y meirw yn cael ei adlewyrchu yn y nifer o eiddo oedd yn cael ei gynnwys yn y bedd.[330] Roedd hyn yn ddefod safonnol i nifer o gymunedau gwahanol ar draws y canrifoedd, sy'n cael ei ddarlunio gan y niferoedd o nwyddau bedd sy'n cael ei hastudio mewn archeoleg. Roedd defod y Dahomey yn Affrica yn ddefod debyg i arddangos cyfoeth ar y corff ei hunan, fel yn achos y Sipsiwn. Ar y llaw arall, roedd eiddo y meirw yr oeddynt yn cynnwys mewn beddi y Lugbara o Uganda yn adlewyrchu personoliaeth y meirw, er enghraifft roedd claddu merch gyda glain yn adlewyrchu ei statws benywaidd.[331] Yn wahanol i ddarlunio cyfoeth y meirw fel yn y gymuned Sipsi, gwelir bod rhai cymunedau yn cynnwys eiddo yn y bedd fyddai'n adlewyrchu personoliaeth neu hunaniaeth y meirw.

Erbyn eu henoed, roedd y merched yn cael eu gweld fel ffigyrau dylanwadol yn y gymuned Sipsi, felly'n derbyn clod enfawr. Pwrpas gormodedd o ddillad ar y meirw fyddai sicrhau bod y person hefo digon o ddillad ac eiddo tra yn y nefoedd. Darluniodd cenad o'r enw Ibn Fadlan yn y Volga rhwng 921-922 OC angladd uchelwr ble roedd adran o gyfoeth y meirw

[328] Buckland, *Buckland's Book of Gypsy Magic,* t.146.
[329] Thompson, 'English Gypsy Death and Burial Customs', t.8.
[330] Ucko, 'Ethnography and Archaeological Interpretation of Funerary Remains', t.267.
[331] Ibid, t.265.

yn cael i'w ddefnyddio i dilledu'r corff mewn dillad newydd, cyfoethog.[332] Gwelwyd bod dilledu corff y meirw mewn ffordd benodol neu mewn dillad penodol yn rhan o ddefodau angladdol hynafol cymunedau ar wahân i'r Sipsiwn. Defnyddiwyd dillad yn draddodiadol gan unigolion fel ffordd i ddarlunio eu cyfoeth neu statws, felly mae'n naturiol bod dilledu corff farw yn derbyn cryn gymaint o sylw mewn nifer o gymunedau gwahanol. Yn ddiddorol, mae Wood yn datgan bod merched Sipsi yn cael eu claddu gyda'u holl emwaith, ar wahân i un fodrwy a oedd yn cael ei adael i'r ferch hynaf.[333] Dyma ddarn bach o wybodaeth unigryw i hunangofiant Wood, sy'n dangos y berthynas agos rhwng mamau a merched yn y gymuned Sipsi. Hefyd, gan fod Sipsiwn yn tueddu i gael arch agored yn draddodiadol, roedd arddangos holl emwaith y meirw yn ffordd o bwysleisio eu statws. Yr oedd y teulu Sipsi Derby Boswell yn credu bod tynnu gemwaith merch farw i ffwrdd cyn ei chladdu yn beryglus.[334] Nid yw'r awdur yn mynd i fanylder am hyn, ond mae'n debygol bod perygl o aflonyddu enaid y meirw yn digwydd os oedd y gemwaith yn cael ei symud.

Cafwyd angladd traddodiadol pan fu farw y Sipsi Seisnig Ellen Shevlin yn 1933 a oedd yn cynnwys llosgi ei vardo a dinistrio ei holl eiddo.[335] Dangoswyd bod niferoedd eang o Sipsiwn eisiau parhau gyda'r hen draddodiadau yn ystod yr ugeinfed ganrif. Mae Bartlett yn honni bod yr angladd yn gostus a bod Ellen wedi gadael £30,000 ar ei hol.[336] Dyma swm cadarnhaol i'w theulu etifeddu, sy'n dangos bod Ellen Shevlin wedi bod yn effeithiol tu hwnt wrth gynilo drwy ei bywyd. Gwelwyd bod merched Sipsi yn gallu gadael symiau o arian ac eiddo gwerthfawr. Fel oedd yn arferiad i weddill Sipsiwn Prydain, roedd y torfoedd eang yn angladd Ellen yn pwysleisio ei statws yn y gymuned a'r parch oedd yn cael ei dosbarthu tuag ati hi a'i theulu. Yn y nofel *The Gypsy Bride* a gyhoeddwyd yn 2020 y mae'r hen wreigan

[332] Pearson, *The Archaeology of Death and Burial*, t.1.
[333] Wood, *In the Life of a Romany Gypsy*, t.110.
[334] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History*, t.85.
[335] Bartlett, 'Two Recent Gypsy Funerals', tt.94-95.
[336] Ibid, tt.96-97.

Sipsi yn gwybod ei bod am farw ac yn dewis marw mewn pabell y tu allan yn ei dillad gorau.[337] Y mae'r nofel yma yn darlunio sut oedd merched Sipsi yn benodol yn dymuno gwisgo eu dillad gorau a pharatoi eu hunain os oedd modd cyn eu marwolaeth. Yn ôl Pearson, mae dillad y meirw yn gallu darlunio gwerthoedd neu bersonoliaeth y person, neu'n aml mae'r dillad yn cael ei ddewis gan deulu'r meirw heb unrhyw gyfarwyddiadau gan y meirw eu hunain.[338] Nid yw'r ail ddatganiad pob amser yn wir ymysg y Sipsiwn, a arferai wisgo eu dillad gorau i farw os oedd modd paratoi fel sy'n cael ei ddarlunio yn y nofel a drafodwyd uchod. Dewisai rhai Sipsiwn farw mewn pabell hyd yn oed os oedd ganddynt vardo, gan mai mewn pabell byddent wedi cael eu geni. Y mae'r babell yn agosach i'r ddaear, rhywbeth y mae'r Sipsiwn yn anrhydeddu. Mae'n ffordd o ddod i ddiwedd bywyd ymysg natur. Er hyn, nid yw'r papurau newydd yn trafod marwolaethau merched Sipsi yng Nghymru, neu draddodiadau angladdol Sipsiwn Cymru, sy'n ei wneud yn anodd gwybod pa mor berthnasol oedd y defodau uchod i Sipsiwn benywaidd Cymru.

Marwolaeth babanod

Er hyn, cawn wybodaeth unigryw o atgofion Myfanwy Griffiths, un o drigolion ardal Hirael ym Mangor Gogledd Cymru, am farwolaeth baban o'r teulu Sipsi Lock.[339] Yng ngeiriau Myfanwy Griffiths,

> dwi'n meddwl ei bod yn mynd i Sir Fon, dwi ddim yn gwybod yn union i le oeddant yn mynd i gladdu y beth bach, a dyma nhw wedyn yn rhoid caravan reit wrth ymyl y dŵr, a rhoid hi ar dân, ac caravan newydd yn disgwyl i'r dyn.[340]

[337] Hutton, *The Gypsy Bride*, t.296.
[338] Pearson, *The Archaeology of Death and Burial*, t.9.
[339] 'Myfanwy Griffiths recalls her association with the gypsies of the Hirael area of Bangor', *Archifdy Caernarfon*, XM/T/319. (Golwg diwethaf-12/09/19), t.15. Gyda chaniatâd Archifdy Caernarfon
[340] 'Myfanwy Griffiths recalls her association with the gypsies of the Hirael area of Bangor', *Archifdy Caernarfon*, XM/T/319. (Golwg diwethaf-12/09/19), t.15. Gyda chaniatâd Archifdy Caernarfon

Nid yw'r adnodd yn cynnwys dyddiad, sy'n golygu bod gosod y digwyddiad mewn cyd-destun oes yn anodd. Er hyn, mae'n debygol mai yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif digwyddodd y farwolaeth yma gan fod y teulu yn byw mewn carafán bren. Heb os, claddwyd y plentyn yn Sir Fôn a llosgwyd y garafán ble roedd y baban wedi marw. Dysgwn fod rhieni'r plentyn wedi symud i garafán newydd wedi'r farwolaeth, gan fyddai'r hen garafán yn cael ei hystyried yn llygredig wedi'r farwolaeth ynddo. Yn ogystal, bu angen llosgi cartref y plentyn i fodloni ei enaid. Dyma ffynhonnell sydd heb ei ganolbwyntio arno nes hyn. Mae'r ffynhonnell yn bwysig gan ei fod yn darlunio angladd plentyn mewn ychydig o fanylder. Cafodd y baban ei gladdu er mwyn i'r rhieni allu ymweld â'i fedd gan ddangos pwysigrwydd y plentyn ond hefyd y gofeb i Sipsiwn Cymru. Gwelwyd bod llosgi'r vardo yn draddodiad a barhaodd drwy gydol yr ugeinfed ganrif. Pan fu farw plentyn yn y teulu Sipsi Smith o Herefordshire, dinistriwyd a llosgwyd y vardo ble roedd y plentyn wedi byw, arferiad anghyffredin wedi marwolaeth plentyn yn ôl Fitzgerald.[341] Mae hyn yn awgrymu bod dinistrio vardo ddim yn gyffredin tu hwnt pan oedd plentyn yn marw. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd lefelau uchel o farwolaethau plant yn y gymuned yn yr ugeinfed ganrif. Byddai llosgi vardo pob tro oedd plentyn yn marw yn anarferol. Mae'n bosibl hefyd bod enaid y plentyn yn cael ei hystyried yn ddiogel gan fod plant yn cael eu hystyried yn bur. Ni fyddai'r enaid yn beryglus i weddill y teulu, felly nid oedd angen llosgi'r vardo. Mae'n bosibl iawn bod y vardo wedi'i ddinistrio yn yr enghraifft uchod oherwydd galar y rhieni a'r ffaith nid oeddynt am gael eu hatgofio am eu plentyn yn ddyddiol drwy edrych ar y vardo ble roeddent wedi ei fagu.

Gan fod plant yn golygu cymaint i Sipsiwn, roedd marwolaeth plentyn yn cael effaith trawiadol ar y gymuned. Yn aml, nid oedd y plentyn hwnnw yn cael ei enwi wedi'r farwolaeth, ac roedd lluniau o'r plentyn yn cael ei dinistrio. Pan ymwelodd Thompson a'r

[341] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History,* t.100.

teulu Lock ym Miwmares yn 1911, cafodd Subi Lee gwraig weddw Rabbi Lock lythyr gan ei merch yng nghyfraith yn dweud bod ei phlentyn wedi marw ac yn ymbil arni hi a gweddill merched y teulu i ddinistrio unrhyw luniau oedd ganddynt o'r plentyn.[342] Gwelwyd bod y traddodiad yma yn cael ei drosglwyddo rhwng merched y teulu. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd i ferched bod yn gyfrifol dros blant ifanc yn y teulu. Bwriad dinistrio'r lluniau oedd lleihau galar y rhieni mae'n debyg. Pan fu farw baban y Sipsi Cymreig Betsy Wood, llosgwyd ei holl eiddo, a deimlodd fel ail farwolaeth i Betsy. [343] Gan fod plant mor bwysig yn y gymuned, roedd colled yn cael ei deimlo'n ddwfn. Os byddai'r rhieni yn ymweld ag aelod o'r teulu ac yn gweld lluniau o'r plentyn, gallai cael effaith negyddol tu hwnt arnynt gan fod y lluniau yn atgoffa'r rhieni o'r plentyn ac yn amlygu'r teimladau o alar. Ar y llaw arall, mae'n bosibl bod dinistrio'r lluniau yn ffordd o fodloni enaid y meirw, fel yn achos llosgi'r vardo.

Pwysleisir hyn pa mor negyddol oedd yr effaith ar iechyd meddwl y rhieni wedi'r farwolaeth. Fel mae'r enghraifft uchod yn dangos, nid oedd y rhieni eisiau cadw unrhyw beth fyddai'n eu hatgoffa o'u plentyn, oherwydd y boen o'u colli. Mae'n bwysig bod atgofion Griffiths wedi digwydd yng Ngogledd Cymru hefyd, er mwyn dangos bod llosgi carafannau ac eiddo yn digwydd yng Ngogledd y wlad. Nid oes llawer o wybodaeth ar gael mewn ffynonellau ysgrifenedig am farwolaethau plant yn y gymuned Sipsi. Mewn erthygl o 2016 gan Heaslip et al, nodir bod disgwyliad byw plant Sipsi yn isel gan fod nifer fawr o erthyliadau naturiol a geni'n farw yn digwydd yn y gymuned.[344] Yn ôl Goward et al, mewn ymchwiliad yn 2016, roedd disgwyliadau bywyd Sipsiwn a Theithwyr ym Mhrydain mewn amcangyfrif yn dau ddeg saith blwydd yn llai na'r gymuned 'arferol'.[345] Mae hyn yn cysylltu â bywydau bregus y

[342] Thompson, 'English Gypsy Death and Burial Customs-continuation', t.84.
[343] Lyster, *The Gypsy Life of Betsy Wood*, t.129.
[344] V. Heaslip et al., 'Lived experiences of vulnerability from Gypsy Roma Traveller perspective', *Journal of Clinical Nursing*, Vol.25 (2016), t.1988.
[345] Goward et al., 'Crossing boundaries. Identifying and meeting the mental health needs of Gypsies and Travellers', t.316.

Sipsiwn a diffyg adnoddau syml y gymuned mae'n debyg. Yn gyffredinol, gwelwyd bod cadw eiddo'r meirw yn gallu bod yn rhy boenus i'r Sipsiwn. Byddai popeth oedd y meirw yn perthyn arno yn achosi gormod o atgofion i'r unigolion yn y gymuned. Tueddai teuluoedd mawr deithio gyda'i gilydd, felly roedd colledion yn cael eu teimlo yn gryf.

Effaith colled

Mae gwaith diweddar Rogers a Greenfields am effaith colled ar Sipsiwn a Theithwyr Prydeinig yn unigryw a defnyddiol.[346] Dyma un o'r gweithiau sydd ar y blaen wrth ystyried heriau Sipsiwn Prydain yn y cyfnod modern. Amlinellent y ffaith bod y teuluoedd hyn yn agos iawn yn aml gan iddynt fyw mewn un gymuned, felly bod colledion yn cael eu teimlo drwy'r gymuned.[347] Yn sicr, mae'r teuluoedd hyn yn cydfyw, gweithio a magu plant o amgylch ei gilydd yn aml. Byddai marwolaeth yn creu colled enfawr i gymunedau clos. Mewn cymunedau eraill ar draws y canrifoedd, roedd colled yn ddefod angladdol bwysig. Yn ôl O'Rourke, roedd trigolion Lehonia yn arfer datgladdu eu meirw ar ôl cyfnod penodol fel ffordd i ddod a galaru i ben.[348] Gwelir bod trigolion Lehonia yn ceisio dod a'u teimladau o alar a cholled wedi marwolaeth i ben gyda symbol penodol bod yr unigolion a gollwyd wedi marw. Mae cymunedau gwahanol yn delio gyda cholled mewn ffurf wahanol. Yn y gymuned Sipsi, tueddai unigolion beidio siarad am eu galar, sy'n gallu cael effaith hir-dymor negyddol ar eu hiechyd meddwl. Yn ôl Goward et al, y mae lefelau uchel o broblemau iechyd meddwl yn y cymunedau Sipsi a Theithio, ond bod diffyg gweithiau academaidd am hyn.[349] Gall

[346] Rogers a Greenfields, 'Hidden losses and 'forgotten' suffering: the bereavement experiences of British Romany Gypsies and Travellers', tt.94-102.
[347] Rogers a Greenfields, 'Hidden losses and 'forgotten' suffering: the bereavement experiences of British Romany Gypsies and Travellers', t.97.
[348] D. O'Rourke, 'Mourning becomes eclectic: Death of communal practice in a Greek cemetery', *American Ethnologist*, Vol.34 (2007), t.390.
[349] Goward et al., 'Crossing boundaries. Identifying and meeting the mental health needs of Gypsies and Travellers', t.316.

cynydd yn y gweithiau academaidd am broblemau iechyd meddwl Sipsiwn a Theithwyr annog awdurdodau i sefydlu gwasanaethau iechyd meddwl perthnasol ar gyfer y cymunedau.

Yn y gymuned Sipsi, maent hefyd yn honni bod merched sy'n colli eu mamau yn ifanc yn gorfod cymryd rôl fatriarchaidd y teulu ymlaen.[350] Dyma gyfrifoldeb enfawr i ferch ifanc orfod llenwi esgidiau ei mam, gan ofalu am y cartref, plant iau a'i thad mewn cyfnod ble mae'r golled ar ei waethaf. I Maddrell a Sidaway, mae safleoedd penodol sy'n cysylltu â'r meirw yn gallu gwaethygu'r galar, er enghraifft cartref, parc neu glwb cymdeithasol.[351] I'r Sipsiwn benywaidd, y cartref yw'r prif safle i ymgasglu, felly gall y galar fod yn ormodol yno. Symudai nifer o Sipsiwn i fyw i ran arall o'r wlad a pheidio teithio i safle y marwolaeth eto oherwydd eu galar. Yn debyg, arferai'r Pintupi Aborigines o Awstralia adael lleoliad marw person am flwyddyn o leiaf.[352] Nid yw'r awdur yn ehangu ar y rheswm dros hyn. Mae'n bosibl bod y ddefod yn un rhan o ddefodau angladdol eang. Neu mae'n bosibl bod galar neu deimlad o lygredd neu anlwc yn y lleoliad wedi'r farwolaeth. I'r Sipsiwn, mae'n debyg bod y rhesymau yma i gyd yn chwarae rhan yn y rheswm dros ymadael a lleoliad marw y meirw am gyfnod. Mewn rhaglen sy'n trafod dadfeddiant Dale Farm sef safle Sipsiwn a Theithwyr yn Essex, gwelwyd hanes Mimi oedd wedi colli ei merch Nina mewn damwain motor beic ac yn teimlo fel rhoi'r gorau i'w bywyd.[353] Gan fod hyn yn erbyn ei chredoau fel Catholig, roedd hi'n hunan-niweidio am gyfnod. Mae'r hanes hwn yn amlinellu'n glir sut mae colled yn gallu effeithio unigolion o'r gymuned a'r ffaith bod y cymorth i oresgyn ddim ar gael i'r unigolion hyn. Yn y gymuned Brydeinig yn gyffredinol,

[350] Rogers a Greenfields, 'Hidden losses and 'forgotten' suffering: the bereavement experiences of British Romany Gypsies and Travellers', t.100.
[351] A. Maddrell a J. D. Sidaway, 'Introduction: Bringing a Spacial Lens to Death, Dying, Mourning and Remembrance', yn A. Maddrell a J. D. Sidaway (gol), *Deathspaces- Spaces for Death, Dying, Mourning and Remembrance* (Oxon, 2016), tt.2-3.
[352] Pearson, *The Archaeology of Death and Burial*, t.124.
[353] 'The Big Gypsy Eviction', *Fideo YouTube*, https://www.youtube.com/watch?v=DAYyCte8nHQ (golwg diwethaf-29/02/20).

darluniwyd aelodau gwrywaidd y gymdeithas fel peidio dangos galar yn aml wedi colled.[354] Mae hyn yn rhan o'r ystrydeb Brydeinig o beidio dangos teimladau yn gyhoeddus. Mae hyn yn gallu cael effaith negyddol ar iechyd meddwl unigolion ym Mhrydain. Yn draddodiadol, nid yw aelodau gwrywaidd y gymdeithas Sipsi yn tueddu i ddangos galar yn gyhoeddus ychwaith. Yn hunangofiant Sipsi Cymraeg, Nansi Lovell, awgrymwyd bod Sipsi i fod i guddio eu teimladau, nid bod fel y 'gorgio'.[355] Dyma ddangos eto sut oedd y Sipsiwn yn ceisio creu rhaniad rhyngddynt a chymunedau allanol. Er hyn, cafodd hunangofiant Nansi ei ysgrifennu gan academwraig arall, felly mae'n bosibl bod camddeall neu orliwio ynddo. Y syniad yw er hynny mai'r dynion ddylai fod yn gryf yn yr achosion hyn, sy'n pwysleisio eu rôl rhywedd fel yr amddiffynydd.

Yr angladd a'r gofeb

Hyd heddiw, mae angladd yn cael ei ystyried fel digwyddiad enfawr yn y cymunedau o Sipsiwn ledled Prydain. Nid yn unig yr angladd, ond hefyd y gofeb i'r person yn y fynwent sydd wedi dod yn arwydd o ethnigrwydd y gymuned. Yn ôl Parker a McVeigh, mae cofeb efallai wedi cymryd lle y vardos fel ffordd o bwysleisio ethnigrwydd, cyfoeth a statws.[356] Gall bedd gynnwys lluniau symbolaidd, fel ceffylau, gan amlygu swydd neu ddiddordebau'r meirw.[357] Mae'r gofeb addurnedig yn ffordd i anrhydeddu a dangos cariad at y meirw, gan amlygu bod y teulu yn adnabod y person yn dda ac yn adnabod eu diddordebau. Yn draddodiadol, roedd basgedi hawking yn cael eu darlunio ar gofeb merched Sipsi, ond erbyn heddiw nid oes llawer o gyfeiriadaeth at swyddi merched Sipsi ar eu cofeb.[358] Mae hyn yn

[354] T. Walter, 'Emotional Reserve and the English Way of Grief', yn K. Charmaz et al., (gol), *The Unknown Country: Death in Australia, Britain and the USA* (Llundain, 1997), t.127.
[355] Morgan, *Nansi Lovell-Hunangofiant Hen Sipsi,* t.67,
[356] G. Parker a C. McVeigh, 'Do not cut the grass: expressions of British Gypsy-Traveller identity on cemetery memorials', *Mortality,* Vol.18 (2013), t.306.
[357] Rogers, 'Beyond Bereavement: is close kinship enough?' (Thesis PhD., Buckinghamshire New University, 2016), t.79.
[358] Parker a McVeigh, 'Do not cut the grass: expressions of British Gypsy-Traveller identity on cemetery memorials', tt.306-307.

dangos newid yn yr amseroedd. Yn draddodiadol, roedd merched Sipsi yn tueddu i weithio o ddrws i ddrws. Erbyn heddiw, mae'r traddodiad yma wedi dirywio gyda mwy o ferched yn dibynnu ar eu gwŷr i ennill incwm. Bydd y syniad hwn o ddyletswyddau gweithiol y ddau rywedd yn cael ei drafod ymhellach ymlaen. Yn debyg i hyn, yn ôl Pearson y mae arch modern Ghanaian yn arfer cael ei siapio i adlewyrchu swydd y meirw er enghraifft mewn siap llysiau, ceir neu anifeiliaid.[359] Fel y lluniau ar gofeb Sipsi, darluniwyd gwaith yr unigolion yn yr enghraifft yma gan hefyd amlygu eu hunaniaeth a sut roeddynt yn cyfrannu at eu cymuned. Yn gyffredinol, roedd henebion yn rhan o dirlun oes Haearn cynnar Cymru, sy'n dangos traddodiad hir o gofeb i'r meirw yn y wlad.[360] Gwelwyd bod y Sipsiwn wedi mabwysiadu arferiad hir-dymor yng Nghymru.

Oherwydd y twf yn y Sipsiwn wnaeth setlo yn yr ugeinfed ganrif, roedd mabwysiadu cofeb yn ffordd o anrhydeddu'r meirw heb orfod llosgi eu holl eiddo. Tueddai gofeb Sipsi fod yn addurnedig, afradlon a chymhleth. Yn aml, mae llun y meirw yn cael ei drosglwyddo ar y gofeb. Mae rhesymau ymarferol dros hyn hefyd. Gall rhoi llun y meirw ar y bedd fod yn ffordd i unigolion o'r gymuned ei adnabod, mewn cymuned a lefelau uchel o anllythrennedd.[361] Yn ogystal, mae canrannau eang o flodau yn gorchuddio'r bedd, fel gweithred o barch at y meirw. Yn draddodiadol, roedd y Cymry yn plannu blodau ar fedd unigolion ac yn gofalu amdanynt a'u chwynnu pob wythnos.[362] Datblygodd plannu blodau ar y bedd neu orchuddio'r bedd gyda blodau yn ddefod bwysig i nifer o gymunedau yn ystod yr ugeinfed ganrif. Roedd yn ffordd i gadw'r bedd yn lliwgar, mewn cyfnod o iselder i'r teulu yn y lle cyntaf. Yn ogystal, roedd yn ffordd o farcio bedd yr unigolyn hwnnw, a'i greu yn

[359] Pearson, *The Archaeology of Death and Burial*, t.55.
[360] M. Brittain, 'Layers of life and death: aspects of monumentality in the early Bronze Age of Wales', yn V. Cummings a C. Fowler (gol), *The Neolithic of the Irish Sea-Materiality and traditions of practice* (Rhydychen, 2015), t.224.
[361] Challenger, 'Cemetery Culture and Traditions for people from the Traveller communities with regards to cemeteries and burying the dead', *Safle wê Friends Families and Travellers*, t.3.
[362] Owen, *The Customs and Traditions of Wales*, t.82.

unigryw. Yn ôl Pearson, roedd Sipsi yn trosglwyddo i fod fel Gorgio ar ei farwolaeth oherwydd bod defodau angladdol Gorgio fel addurno'r bedd yn rhan o ddefodau'r Sipsiwn erbyn hyn.[363] Er hynny, gall unrhyw unigolyn sydd wedi ymweld â bedd Sipsi dystio bod eu cofeb yn unigryw a gwahanol i feddi Gorgio am amryw o resymau. Tueddai fedd Sipsi sefyll allan mewn mynwent oherwydd y cerrig bedd addurnedig gyda cherfluniau, y blodau lliwgar eang a'r anrhegion sydd weithiau yn cael eu gadael yn ymyl y gofeb megis dŵr sanctaidd neu gerfluniau o vardos. Er mai gweithred Gorgio arferai addurno bedd fod, mae'r Sipsiwn wedi'i fabwysiadu a'i ddatblygu yn ôl eu harferion a syniadau eu hunain am sut i gofio am y meirw.

Erbyn heddiw yng Nghymru, dadleuodd Cheal fod eiddo'r meirw yn cael ei ddinistrio, ond y corff ddim yn cael ei amlosgi.[364] Mae'n bosibl bod hyn yn wir i rai teuluoedd. Efallai bod hyn oherwydd i gofeb ddod yn fwy poblogaidd ymysg y Sipsiwn yn gyffredinol. Neu, mae'n bosibl bod newid agwedd tuag at amlosgi wedi digwydd yn y gymuned. Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, roedd y mwyafrif o Sipsiwn yng Nghymru a thu hwnt yn cael eu claddu mewn mynwentau wedi gwasanaeth ffurfiol mewn Eglwys. Mae'r traddodiad yma yn parhau hyd heddiw. Yn ddiweddar mae Greenfields yn honni bod y meirw yn cael eu cofio drwy ymweld â'u beddi yn aml ac enwi cenhedloedd newydd ar eu hol.[365] Ymysg rhai teuluoedd Sipsi, mae'n draddodiad i ymweld a beddi aelodau o'r teulu ar ddiwrnod Nadolig, a'u gorchuddio a blodau.[366] Yn aml, bydd teulu Sipsi yn ymweld â beddi cenhedloedd o aelodau o'r teulu. Yng ngeiriau Damian Le Bas, Sipsi Seisnig a gyhoeddodd lyfr yn 2018,

> 'As a small boy I stood with my mum while she gently placed carnations into a square marble vase on my great-great-great-grandfather's grave'.[367]

[363] Pearson, *The Archaeology of Death and Burial*, t.25.
[364] Cheal, 'Beyond the stereotypes: A review of Gypsies/Roma/Travellers and the Arts in Wales', t.17.
[365] Greenfields, 'Family, community and identity', t.46.
[366] 'Episode 8: Gypsy Kids-Our Secret World-Season 2 2018', *Channel 5*, fersiwn ar lein, https://www.my5.tv/gypsy-kids-our-secret-world/season-2/christmas-special (golwg diwethaf-31/10/19), 18:37.
[367] Bas, *The Stopping Places-A Journey Through Gypsy Britain*, t.48.

Mae'r dyfyniad yma yn dangos y gofal y dangosir tuag at gofeb blaenolwyr yn y gymuned Sipsi. Mae'n tynnu sylw at yr anwyldeb a'r parch a ddangosir tuag at yr henoed. I Rogers, mae'r meirw yn cael eu cadw mewn cof ymysg y gymuned Sipsi drwy adrodd straeon amdanynt ac ymweld â'u beddi.[368] Gwelwyd bod y meirw a chysylltiad clir hefo'r byd dynol. Felly, er bod gan y Sipsiwn bryder ynghylch aflonyddu ysbryd y meirw, mae'n ddiddorol gweld yr ymdrech at gadw'r meirw mewn cof hefyd. Yn draddodiadol yng Nghymru, roedd cyfeillion a theulu'r meirw yn dychwelyd i'r bedd wedi'r angladd am rai dyddiau Sul i adrodd Gweddi'r Arglwydd.[369] Dyma ffordd o ddangos cariad at y meirw, yn ogystal â sicrhau bod enaid y meirw wedi'i fodloni. Mae'n bosibl bod y Sipsiwn Cymraeg wedi benthyg y syniad o ymweld â bedd y meirw gan y Cymry eu hunain wedi iddynt fewnfudo i'r wlad. Yn draddodiadol, roedd Sipsiwn yn ei ystyried yn anlwcus i enwi'r meirw o gwbl.[370] Diddorol felly yw'r ffaith bod y traddodiad hwn wedi dirywio dros y blynyddoedd, ac erbyn heddiw bod plant yn cael eu henwi ar ôl disgynyddion. I Cannon, Sipsi Seisnig, mae enwi ar ôl blaenolwyr yn ffordd o greu perthynas ehangach.[371]

Yn gyffredinol erbyn heddiw, mae pwysigrwydd y gofeb wedi dod yn flaenllaw yn y gymuned. Nid yw eiddo'r meirw yn cael ei losgi yng Nghymru i raddau helaeth erbyn hyn hefyd. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd i'r teulu eisiau cadw'r eiddo fel atgof o'r meirw. Yn aml, mae Sipsiwn yn etifeddu eiddo gwerthfawr gan eu blaenolwyr. Gwelwyd bod pasio eiddo i lawr y cenhedloedd yn dod yn fwy poblogaidd yn y gymuned. Mae'n bosibl bod hyn yn ffordd i sicrhau bod y diwylliant yn parhau, gydag eiddo fel crochenwaith yn rhan bwysig o ddiwylliant merched y gymuned. Mae Lee yn awgrymu bod dirywiad lleoedd i losgi'r

[368] Rogers, 'Beyond Bereavement: is close kinship enough?' (Thesis PhD., Buckinghamshire New University, 2016), t.80.
[369] Roberts, *Cambrian Popular Antiquities, or an account of some traditions, customs and superstitions of Wales, with observations as to their origin etc*, t.177.
[370] W. Crooke, 'Gypsy Forms and Ceremonies', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.3 (1909), t.181; A new member, 'My Dukkeripen', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.45 (1966), t.49.
[371] Cannon, *Gypsy Princess-The true story of a Romany childhood*, t.9.

eiddo wedi cael effaith ar y traddodiad hwn.[372] Yn sicr, y mae'n anodd darganfod lle diogel i'r ddefod yma gymryd lle erbyn hyn, gyda rheolau penodol ar y safleoedd parhaol a'r gwersyll dros dro y mae'r Sipsiwn yn tueddu i fyw arnynt, sy'n gwahardd llosgi eang. Yng ngeiriau Lee hefyd,

> 'I don't believe it is possible to practice the old death ritual in the modern world with so many accumulated possessions.'[373]

Yn sicr, i gymuned sydd yn casglu eiddo costus erbyn hyn, nid yw dinistrio'r holl eiddo yn gwneud synnwyr, nac ei angen. Gan nid yw nifer o deuluoedd o Sipsiwn yn teithio erbyn heddiw, nad oes angen cael gwared â holl eiddo'r meirw gan nid ydyw yn cael ei hystyried yn fyrdwn ond yn ffordd o atgofio am y person hwnnw. Ar y llaw arall, yn ateb i adran agored cwestiwn naw yr holiadur sef, 'Oes yna unrhyw draddodiadau ydych chi'n cadw ato?, ysgrifennodd un cyfranogwr y canlynol, 'Burning of belongs after death'. Dyma'r unig gyfranogwr wnaeth gyfeirio at y ddefod yma, a'r ffaith ei fod yn parhau gydag ef. Mewn astudiaeth gan Davies yn 1999 roedd y Sipsi Seisnig Harriet Hall yn honni ei bod hithau eisiau i'w charafannau cael eu llosgi ar ei marwolaeth.[374] Dangosa'r enghreifftiau hyn bod y ddefod wedi dirywio mewn poblogrwydd, ond bod rhai teuluoedd mae'n debyg yn parhau i'w ddefnyddio. Gallai amgylchiadau effeithio ar pam bod rhai teuluoedd yn defnyddio'r ddefod yma o hyd. Os mae teulu yn berchen ar eu tir ac â digon o le i losgi eiddo'r meirw mewn ffordd ddiogel, mae'n bosibl iawn fod y teuluoedd penodol yna yn parhau gyda'r ddefod.

O'r ail ganrif ar bymtheg ymlaen yng Nghymru a Lloegr, roedd angladdau yn symbol o statws a chyfoeth, gyda gorymdaith angladdol hir a gwahoddiadau penodol.[375] Mae atgofion a gasglwyd yn yr 1970ai cynnar gan Nathaniel Lee, Sipsi Seisnig, yn nodi bod angladd Romani

[372] Lee, *We Borrow the Earth-An Intimate Portrait of the Gypsy Folk Tradition and Culture*, t.79.
[373] Lee, *We Borrow the Earth-An Intimate Portrait of the Gypsy Folk Tradition and Culture*, t.81.
[374] Davies, *Tales of the Old Gypsies*, t.37.
[375] Rugg a Parsons, *Funerary Practices in England and Wales*, t.6.

yn ddathliad gyda chanu, dawnsio a dillad lliwgar.[376] Dyma ffordd i ddathlu bywyd y meirw yn hytrach nac gwario'r dydd yn galaru. Roedd angladd Simey Doherty yn 2017, er enghraifft, yn ddathliad o'i fywyd gyda dawnswyr Gwyddelig yn perfformio, rasio ceffylau, canu a cherddoriaeth bacbib.[377] Y flwyddyn ganlynol yn angladd wŷr Simey, Mikey, roedd yna rasio ceffylau, canu a gorymdaith o un ar bymtheg Rolls-Royce.[378] Gwelwyd bod yr angladd yn fath o berfformiad, gyda'r dathliad yn ffordd o anrhydeddu'r meirw. Mae tystiolaeth o wledda yn ymyl y bedd cyn dinistrio'r offer bwyta i'w gael yn Stanway, Essex, mewn bedd Rhufeinig.[379] Gallai hyn ddangos bod dathlu bywyd y meirw yn digwydd ar hyd y cenhedloedd, nid yn unig yn y gymdeithas Sipsi. Fel yn achos y Sipsiwn Cymraeg, mae galaru cyhoeddus wedi dirywio, gyda'r Sipsiwn Seisnig yn dewis anrhydeddu bywydau'r meirw drwy ddathlu yn lle. I Smale, erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif roedd angladdau yn gallu adlewyrchu credoau traddodiadol cymuned a chael ei labelu'n dda neu ddrwg.[380] Hynny yw, roedd angen i'r angladd fod yn gofeb neu ddathliad o fywyd y meirw mewn ffordd dderbyniol, neu byddai'n aml yn cael ei feirniadu gan y gwesteion. Yn y gymuned Sipsi mae angladd ysbelennydd yn dangos parch tuag at y meirw. Felly, mae'r teuluoedd yn gwario llawer o arian yn aml i anrhydeddu eu meirw a dangos eu parch a statws. Mae'r dathliadau angladdol ysblennydd yn y gymuned Sipsi yn debyg i ddisgrifiad Jennifer Worth, bydwraig yn Llundain yn yr 1950au, o briodas dosbarth gweithiol a oedd yn cynnwys deunaw o Rolls-Royce i'r gwesteion a theisen saith haen.[381] Gwelir bod unigolion o haenau is y gymdeithas eisiau arddangos eu hunain mewn digwyddiadau cyhoeddus fel priodasau ac angladdau o'r

[376] *Rokkering to the Gorgios-In the early nineteen seventies-British Romany Gypsies speak of their hopes, fears and aspirations*, casglu a gol.gan J. Sandford (Herefordshire, 2000), t.34.
[377] 'Episode 7: Gypsy Kids-Our Secret World-Season 2 2018', *Channel 5*, fersiwn ar lein, https://www.my5.tv/gypsy-kids-our-secret-world/season-2/episode-7 (golwg diwethaf-31/10/19).
[378] 'The Gypsies next door-Season 1-Epsiode 3', *Channel 5*, https://www.my5.tv/the-gypsies-next-door/season-1/episode-3 (golwg diwethaf-30/03/20), 31:34-39:47.
[379] A. Smith, 'Death in the Countryside: Rural Burial Practices', yn A. Smith et al., (gol), *Life and Death in the ountryside of Roman Britain* (Llundain, 2018), t.253.
[380] B. Smale, 'The Social Construction of Funerals in Britain', yn K. Charmaz et al., (gol), *The Unknown Country: Death in Australia, Britain and the USA* (Llundain, 1997), t.113.
[381] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950s*, t.253.

1950au ymlaen. Byddai'r arddangosfa hyn yn ennill parch ac eiddigedd gweddill y gymuned, ac yn fath o symbol o statws.

Casgliad pennod marwolaeth

Yn ôl Howarth, er i ddefodau angladdol Seisnig cael eu darlunio'n aml fel y 'ffordd Brydeinig', mae defodau unigryw ym mhob gwlad ym Mhrydain gyda'r grwpiau ethnig lleiafrifol yn 'dal gafael ar eu defodau fwyaf.[382] Gwelwyd bod traddodiadau a defodau yn cael eu cadw atynt yn y gymuned Sipsi yn benodol, oherwydd y gred o gadw'r gymuned ar wahân. Yn ddiddorol iawn, mae'r bennod yma ar adegau wedi pwysleisio tebygrwydd defodau angladdol y diwylliannau Sipsi a Hindŵ ym Mhrydain. Enghraifft yw'r pwyslais ar warchod y corff a bodloni enaid y meirw. Dyma ddwy gymuned sydd wedi dal gafael ar eu defodau a thraddodiadau er iddynt fewnfudo i Brydain. Mae'r defodau tebyg rhwng y ddau ddiwylliant yn awgrymu bod math o gysylltiad hir-dymor rhwng y ddwy gymuned, sydd efallai yn cysylltu yn ôl i India. Yr oedd Hübschmannová yn defnyddio tebygrwydd diwylliannol a chymdeithasol fel tystiolaeth o wraidd y Sipsiwn i India.[383] Neu, mae'n bosibl bod y Sipsiwn wedi mabwysiadu rhai o arferion y diwylliannau eraill oeddynt yn dod i gysylltiad ag. Mae'r traddodiadau a defodau angladdol Sipsi yn debygol o fod yn gyfuniad o draddodiadau a defodau diwylliannau daethant i gysylltiad ag.

Yng Nghymru, roedd y Sipsiwn yn dewis peidio galaru yn gyhoeddus, yn groes i weddill cymunedau teithiol Prydain. Yn anarferol, mae'r ffynonellau Cymreig yn tynnu sylw at farwolaethau babanod yn eithaf aml, o ystyried bod y ffynonellau am y testun yma yn brin ym Mhrydain yn gyffredinol. Roedd yn bwysig ystyried effaith colled ar y gymuned Sipsi, o safbwynt rhieni yn yr ugeinfed ganrif. Hefyd, roedd yn bwysig ystyried effaith colled ar y

[382] G. Howarth, 'Is there a British Way of Death?', yn K. Charmaz et al., (gol), *The Unknown Country: Death in Australia, Britain and the USA* (Llundain, 1997), t.84.
[383] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.103.

gymuned hyd heddiw, o ystyried agosrwydd y Sipsiwn fel cymuned. Y traddodiad mwyaf unigryw oedd llosgi holl eiddo'r meirw, y merched a'r dynion. Er bod y traddodiad hwn wedi dirywio erbyn yr unfed ganrif ar hugain, mae'r Sipsiwn wedi mabwysiadu defodau angladdol newydd i siwtio'r byd modern. Mae'r defodau hynny yn cynnwys cofeb addurnedig a dathliadau enfawr fel rhan o'r angladd ei hunan. Mae'r gofeb erbyn hyn yn symbol o hunaniaeth. Mae'r defodau hyn yn parhau i gadw'r gymuned Sipsi ar wahân o ran eu traddodiadau. Yn hytrach na pheidio enwi'r meirw o gwbl, erbyn hyn mae'r meirw yn cael eu cofio drwy adrodd straeon amdanynt ac enwi cenhedloedd newydd ar eu hol. Mae'r adran yma wedi dangos sut mae'r Sipsiwn wedi addasu eu traddodiadau a defodau marwolaeth ac angladdol i siwtio byd modern.

Casgliad thema genedigaethau a marwolaethau

Mae'r thema yma wedi dangos sut mae digwyddiadau mawr teuluol, genedigaethau a marwolaethau yn yr achos yma, yn plethu i hanes defodau a thraddodiadau yn y gymuned. Mae casgliadau teuluol fel angladdau a bedydd yn ddigwyddiadau sy'n denu grwpiau mawr o'r teulu ac mae hyn yn draddodiad hir-dymor yn y gymuned Sipsi. Mae digwyddiadau teuluol fel angladdau a genedigaethau yn gyffredinol yn cael eu rheoli gan rhaniadau rhywedd pendant. Yn achos angladdau, mae dynion a merched yn eistedd ar wahân yn y wledd ar ôl yr angladd. Yn achos genedigaethau, rhanbarth benywaidd yw'r geni ei hun. Mae'r traddodiad yma o rannu mewn digwyddiadau teuluol yn cael ei drafod ymhellach yn y thema priodasau, ysgaru a gwahanu. Yn ogystal, mae'r thema yma wedi dangos bod traddodiadau unigryw yn cael ei ddarlunio yn y ffynonellau am Sipsiwn yng Nghymru, fel llyn boddi babis yn achos genedigaethau a peidio galaru'n uchel mewn angladdau. I ychwanegu, mae'n ddiddorol gweld o'r thema yma bod enwi ar ôl cenhedloedd blaenorol yn digwydd bellach yn y gymuned Sipsi, gan yn draddodiadol nad oedd y meirw yn cael ei enwi oherwydd y pryder ynghylch aflonyddu enaid y person hwnnw. Gwelir bod y gymuned Sipsi

wedi addasu yn yr achos hon ac efallai bod ofergoeliaeth wedi dirywio mewn rhai teuluoedd yn benodol. Mae'r thema wedi dangos pa mor bwysig oedd bodloni enaid y meirw, er enghraifft yn achos llosgi eiddo'r meirw. Yn ogystal, mae'r thema wedi dangos bod agwedd symbolaidd at gwblhau nifer o'r traddodiadau a defodau yn y gymuned Sipsi. Roedd hyn yn glir yn achos genedigaethau pan oedd y babell geni yn cael ei losgi gan ddymchwel y berygl o aflendid mewn ffordd symbolaidd a therfynol. I gloi, mae'r thema genedigaethau a marwolaethau wedi dangos bod ofergoeliaeth wedi rheoli bywydau Sipsiwn ar draws yr ugeinfed ganrif, ac hyd at y presennol mewn rhai teuluoedd, a bod traddodiadau a defodau yn cael eu cwblhau yn aml i fodloni enaid y meirw ac oherwydd agwedd symbolaidd.

Pennod 2: Priodasau, ysgaru a gwahanu

Cefndir

Y mae priodasau Sipsiwn Prydain wedi derbyn cryn dipyn o sylwebaeth gan y cyhoedd yn y deng mlynedd diwethaf oherwydd ymddangosiad rhaglenni teledu sydd yn cael eu trafod nes ymlaen yn y bennod yma. Heb os, mae'n bosibl iawn fod yr unigolion o cymunedau eraill Prydeinig a wyliodd y rhaglenni teledu wedi eu heffeithio gan y darlun o briodasau Sipsi fel bod yn wahanol neu unigryw ym Mhrydain. Bwriad y bennod yma yw ystyried pa mor unigryw oedd, ac yw, priodas Sipsi yng Nghymru. Yn ogystal, bydd yn ystyried y priodasau sydd yn dod i ben ac os oes traddodiadau neu defodau penodol yn ymwneud â ysgaru neu gwahanu. Y bwriad fydd i ddangos pam bod ysgaru mor anarferol yn y gymuned Sipsi yn draddodiadol, a pam bod hyn efallai yn newid erbyn y presennol. Y traddodiad priodasol mwyaf unigryw i Sipsiwn Cymru oedd neidio'r gansen, a bydd yr arferiad yma yn cael ei drafod mewn manylder nes ymlaen gan ddangos cysylltiad agos iawn gyda'r Cymry eu hunain. Ar wahân i'r traddodiad yma, mae'r dystiolaeth am arferion priodasol y Sipsiwn Cymreig yn eithaf prin. Mae hyn yn golygu bod angen dibynnu ar ffynonellau tu hwnt i Gymru yn aml er mwyn creu cymhariaeth neu awgrymu traddodiadau allai fod yn gyffredin i Sipsiwn ar draws Prydain. Mae ffynonellau mwy modern fel rhaglenni teledu a hunangofiannau modern yn bwysig yn y bennod yma, gan mai'r ffynonellau yma fydd yn datgelu'r wybodaeth fwyaf unigryw a defnyddiol. Yr oedd cwestiwn penodol yn yr holiadur am briodasau Sipsi sef cwestiwn tair ar ddeg, 'A yw priodas Sipsi yn wahanol i berson nad yw'n Sipsi?'. Bwriad y cwestiwn oedd ystyried barn unigolion o'r gymuned eu hunain am eu priodasau, ac os ydynt yn eu hystyried yn wahanol i briodasau pobl nad yw'n Sipsiwn ym Mhrydain. Y mae canlyniadau'r cwestiwn yn cael eu cyflwyno yn y graff canlynol:



O'r cant dau ddeg a dau o gyfranogwyr, roedd y mwyafrif fel y gwelir yn ystyried priodasau Sipsi yn wahanol, tra bod canran teg hefyd yn pwysleisio nid oeddynt yn wahanol. Yn gyffredinol, mae'r canlyniadau yn dangos bod priodas Sipsi yn cael ei hystyried yn wahanol gan y rhan fwyaf o gyfranogwyr. Roedd yn bwysig ystyried pam bod y canlyniadau yma wedi ymddangos. Wedi'i gysylltu â'r cwestiwn yma oedd cwestiwn agored a oedd yn gofyn i'r cyfranogwyr esbonio eu hateb yn eu geiriau eu hunain os yn bosibl. Yr adran yma datgelodd y wybodaeth fwyaf diddorol a defnyddiol ar gyfer y cwestiwn yma. Bydd dyfyniadau cyfranogwyr o'r cwestiwn agored yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth yn aml yn y bennod yma.

Priodasau

Yng ngeiriau'r Frenhines Fictoria wrth iddi longyfarch ei wŷr y Dug Efrog am ei briodas gyda Mary o Teck yn 1893, 'I am sure she will make a good, devoted and useful wife'.[384] Dyma'r rhinweddau sy'n cael eu ffafrio am y gwragedd yn y gymuned Sipsi hyd heddiw. Roedd y merched defnyddiol yn cael eu priodi yn fuan iawn yn draddodiadol, yn aml o gwmpas pedwar ar ddeg oed.[385] Roedd gwraig Sipsi yn tueddu i ddarlunio'r delweddau ffafriol yn llygaid y gymuned i ddenu siwtor, er enghraifft moeseg gwaith gref a thueddiad i fod yn lân ac yn ddefnyddiol o gwmpas y cartref. Yn ôl Wood, yn draddodiadol roedd rhieni

[384] Longford, *The Royal House of Windsor*, t.33.
[385] D. Williamson, *The king and the lamp: Scottish traveller tales* (Edinburgh, 2000), t.303.

Sipsi yn dewis partner i'w plentyn, gyda'r cwpl yn cael byw hefo'i gilydd am gyfnod a dewis un ai priodi neu dorri'r dyweddiad heb unrhyw effaith i'w moesau.[386] Roedd Prydain yr ugeinfed ganrif yn wlad eithaf ceidwadol, yn enwedig yn hanner cyntaf y ganrif. Er bod rhieni pobl ifanc o gymunedau ceidwadol Prydeinig yn dewis partneriaid i'w plant yn aml ar ddechrau'r ugeinfed ganrif hefyd, dyma ble mae'r tebygrwydd yn dod i ben. Mae'r ffaith bod y Sipsiwn yn cael byw hefo'i gilydd cyn priodi a thorri dyweddiad yn unigryw yn yr ugeinfed ganrif. Byddai'r weithred yma wedi bod yn sioc i Brydeinwyr geidwadol yr ugeinfed ganrif gynnar. Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif roedd y weithred yn gyffredin ymysg y gymuned allanol ym Mhrydain hefyd.

O ran enghreifftiau o briodasau Sipsi, unwaith oedd Anne Wood wedi cwrdd â'i gŵr cyn ei briodi, ac roeddynt yn briod am bedwar deg mlynedd cyn iddo farw.[387] Roedd yr uniad yma yn dangos bod priodasau wedi eu trefnu yn digwydd yn y gymuned, ond hefyd yn gallu bod yn gadarnhaol tu hwnt. Er hyn, nid pob priodas Sipsi oedd yn parhau nes diwedd oes y partneriaid. Gwnaeth Saiforella Wood a Fred Price wahanu ar ôl cyfnod gyda'i gilydd, ond byw gyda ail bartner am weddill eu hoes.[388] Mae'r esiampl yma yn dangos bod gwahanu cyn priodi yn digwydd rhwng partneriaid Sipsi. Cadarnhawyd hyn yng ngwaith Fitzgerald a gyhoeddwyd yn gyntaf yn 1942, wrth iddo ddadlau bod treialu priodas yn gyffredin, a bod y ddau bartner yn cydnabod eu camgymeriad yn sydyn fel arfer ac yn gwahanu yn syth cyn ail-briodi a setlo hefo'u partneriaid newydd am weddill eu hoes.[389] Nid oedd pwysau ar y ferch i orfod aros gyda'r partner a ddewiswyd. Er hynny, mae gwaith Fitzgerald yn awgrymu bod math o bwysau ar yr unigolion i setlo gyda'u hail bartner. Nid yw'r awdur yn mynd i fanylder am hyn. Er hynny, mae'n bosibl dadlau bod pwysau ar yr unigolion i ail-briodi yn fuan er lles

[386] Wood, *In the Life of a Romany Gypsy*, tt.104-105.
[387] 'Traveller women telling it straight', *Fideo YouTube*, https://www.youtube.com/watch?v=RtddrgWOopA (golwg diwethaf-28/02/20), 01:49.
[388] T. W. Thompson, 'Gypsy Marriage in England- continuation from page 129', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol. 6 (1927), t.152.
[389] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History*, t.61.

anrhydedd eu teulu, ac i sicrhau eu bod hwythau yn denu siwtor newydd cyn iddi fod yn rhy hwyr. Yn anaml byddai unigolion oedd yn priodi ail-bartner yn gwahanu oddi wrthynt er hynny, sy'n awgrymu bod y broses o dreialu priodas gyntaf efallai yn gweithio'n dda i'r gymuned. Erbyn yr ail briodas, byddai'r unigolion yn deall beth oedd yn cael eu disgwyl ohonynt mewn priodas. Yn ogystal, mae'n debygol y byddent yn dewis partner oedd yn eu siwtio yn well er mwyn osgoi unrhyw wahanu arall. Roedd math tebyg o dreialu priodasau yn digwydd yng Nghymru'r oesoedd canol. Mae gennym gopi Lladin o'r ail ganrif ar ddeg a chopi Cymreig o'r drydedd ganrif ar ddeg o gyfreithiau Hywel, sef cyfraith swyddogol oedd y cael ei ddefnyddio yng Nghymru cyn ei goncwest gan Frenin Lloegr.[390] Roedd y cyfreithiau yn nodi bod cwpl priod yn cael gwahanu yn gyfreithiol hyd at saith mlynedd i mewn i'r briodas, ac os oedd y gwr yn ail-briodi yna roedd y wraig cyntaf hefyd yn cael priodi eto.[391] Yn ôl Stacey, yng Nghymru'r oesoedd canol, roedd ysgaru yn digwydd er iddo fod allan o ffasiwn yng ngweddill Ewrop.[392] Mae'n bosibl bod ysgaru i'r Cymry yn derbyn llai o feirniadaeth hyd heddiw oherwydd hyn. Yn ogystal, mae Stacey yn dadlau bod dosbarthiadau gweithiol yng Nghymru yn parhau gyda'r treialu priodasau yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.[393] Mae'n ddiddorol gweld bod treialu priodasau wedi bod yn nodedig yn hanes canoloesol Cymru yn ogystal ag yn nhraddodiadau'r Sipsiwn yn y wlad.

Ffoi ymaith

Traddodiad unigryw i Sipsiwn Prydain oedd ffoi ymaith i briodi. Yn aml, roedd cwpl Sipsi oedd wedi penderfynu priodi heb ganiatâd eu rhieni yn ffoi i briodi ymaith cyn dychwelyd i'r teulu i ofyn am faddeuant. Roedd y digwyddiad yma yn fath o berfformiad, gyda'r teulu i gyd

[390] D. Jenkins, *Cyfraith Hywel- Rhagarweiniad i Gyfraith Gynhenid Cymru'r Oesau Canol* (Llandysul, 1970), t.5.
[391] *The Law of Hywel Dda- Law texts from Medieval Wales*, cyfieithu a gol. gan D. Jenkins (Llandysul, 1986), tt.45-47.
[392] R. C. Stacey, 'Divorce, Medieval Welsh style', *Speculum*, Vol.77 (2002), t.1123.
[393] Ibid, t.1123.

yn goruchwylio'r maddeuant. Anaml byddai rhieni yn gwrthod maddeuant i'r cwpl, ond roedd angen dilyn y rheolau traddodiadol. Pan wnaeth Henty Smith, Sipsi Seisnig, ffoi ymaith i briodi, na wnaeth ei rhieni maddau iddi nes i'w gŵr cael ei greu'n Brenin y Sipsiwn yn ôl y papur newydd *Rhyl Record and Advertiser* o1907.[394] Mae hyn yn dangos bod maddau i'w plant ddim pob amser yn broses syml yn y gymuned, a bod y plant angen ennill y maddeuant hwnnw ar adegau. Yn achos Henty, roedd angen i'w gŵr newydd ddangos ei werth i rhieni ei wraig newydd, ac roedd cael ei greu'n Brenin ei dylwyth yn ffordd dda o wneud hyn. I Hodgson, yn ôl credoau Sipsi, nid oedd angen lwfans, ffrog briodas na dyweddiad i fod yn briod.[395] Yn draddodiadol, gallai briodas Sipsi fod yn ddigwyddiad anffurfiol, heb y defodau priodasol sy'n cysylltu â phriodasau erbyn heddiw yn gyffredinol. Er hyn, roedd rhai cwplau ifanc Sipsi yn dewis priodi ymaith mewn Eglwysi neu swyddfeydd cofrestru rhan amlaf, heb i'w rhieni wybod. Mae'n debygol bod y traddodiad yn digwydd ymysg Sipsiwn ledled Prydain, gan ei fod yn ffordd i bobl ifanc y gymuned ddewis eu partner heb i'w rhieni wneud ar eu rhan. Mewn un o hanesion gwerin y Sipsiwn Cymraeg, *The leaves that hung but never grew*, mae'r cwpl yn teithio i Lundain i briodi cyn dychwelyd i Gymru i fyw.[396] Dyma enghraifft o redeg ymaith. Yn aml mewn straeon gwerin, i Lundain oedd yr arwyr yn ffoi, gan fod Llundain yn cael ei adnabod gan bawb. Yn yr hanes, gwelwyd bod y cwpl ifanc yn dychwelyd i Gymru yn yr hanes i fyw wedi'r briodas, sy'n awgrymu bod y cwpl yn dychwelyd at eu teuluoedd wedi'r rhedeg ymaith gymryd lle. I Francis Barton, Sipsi Romani ei hun, wedi'r rhedeg ymaith roedd angen i'r cwpl fod yn gwbl annibynnol yn ariannol.[397] Byddai hyn yn dangos bod y cwpl yn ddigon aeddfed i briodi yn y lle cyntaf ac yn ffordd iddynt ddangos wrth eu rhieni eu bod yn aeddfed ac yn barod i sefyll ar eu traed eu

[394] 'Gipsy Queen's Death', *Rhyl Record and Advertiser- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 12 Ionawr 1907.
[395] A new member, 'My Dukkeripen', t.45.
[396] J. Sampson, (wedi eu casglu), *Gypsy Folk Tales* (Llundain, 1984), t.36.
[397] *Rokkering to the Gorgios-In the early nineteen seventies-British Romany Gypsies speak of their hopes, fears and aspirations*, t.95.

hunain. Gan fod cwpl newydd Sipsi yn cael eu hannog i ddechrau teulu eu hunain yn fuan wedi'r briodas, roedd angen i'r cwpl sicrhau bod cyflogau parhaol yn cael eu hennill rhyngddynt. Nid oedd unrhyw sgandal yn cael ei gysylltu â'r cwpl oherwydd y ffordd yma o briodi. Priododd Lydia Lee yn erbyn ewyllys ei rhieni, cyn cael eu croesawu yn ôl i'r teulu wedi cyfnod o aros draw.[398] Roedd yn ffordd i sicrhau bod pobl ifanc yn dewis partneriaid eu hunain hefyd, yn hytrach na gadael eu rhieni ddewis.

Roedd cymaint o redeg ymaith yn digwydd, fel bod rhieni yn dod i arfer neu ei ddisgwyl. Nid oedd rhai tadau yn cytuno a'r rhedeg ymaith er hynny. Yng ngeiriau'r Sipsi Cymraeg Jack Lock,

> A lot of gypsy girls eloped because their fathers didn't like them having boyfriends. You see, they didn't like losing their daughters because they were breadwinners. They gave their fathers the money they earned dukkerin.[399]

'Dukkerin' yw'r term Romani am adrodd ffortiwn, swydd fydd yn cael ei drafod mewn manylder mewn pennod nes ymlaen am swyddi merched Sipsi. Gwelir bod merched ifanc Sipsi yn gallu bod yn werthfawr i'r teulu oherwydd iddynt ddod ag arian ychwanegol o ddydd i ddydd i'r teulu. Nid yw'n syndod felly bod rhai tadau yn ceisio stopio eu merched rhag rhedeg ymaith. Neu os oedd y tad wedi methu, a'r cwpl wedi rhedeg ymaith yn barod, nid yw'n syndod bod y cwpl yn eu croesawu yn ôl, yn enwedig os oedd incwm pawb yn y teulu yn cael ei rannu rhyngddynt.

Yn ôl Thompson, nid oedd y cwpl yn gorfod priodi mewn Eglwys, gan fod y rhedeg ymaith ei hun yn cael ei ystyried fel priodas yn llygaid y Sipsiwn.[400] I rai Sipsiwn, roedd priodas yn

[398] D. Tipler, 'Life with some South Welsh Gypsies', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.35 (1956), t.19.
[399] Davies, *Tales of the Old Gypsies*, t.70.
[400] T. W. Thompson, 'Gypsy Marriage in England', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol. 6 (1927), t.117.

ddigwyddiad anffurfiol, gyda dathliad ymysg y teulu yn fwy pwysig. Yng ngeiriau Belle Stewart, Teithiwr Albanaidd, mewn gwaith a gyhoeddwyd yn 1986 ,

> 'there was never much actual marriage amang the Traveller folk long ago'.[401]

Priodasau ffurfiol Eglwysig y mae Belle Stewart yn cyfeirio ati mae'n debyg. Gwelir bod priodasau anffurfiol yn rhan o draddodiad y Teithwyr Albanaidd hefyd, gan ddangos bod cyd-briodi yn debygol o fod wedi digwydd rhwng y ddwy gymuned. Yng ngeiriau George Smith yn 1880,

> 'Judging from the conversations I have had with the Gipsies in various parts of the country, not more than half living as men and wives are married.'[402]

Darluniwyd yr ymddygiad yma yn negyddol i unigolyn mewn oes geidwadol o haenau uwch y gymdeithas, fel Smith. Er hynny, i'r Sipsiwn eu hunain, roedd yr ymddygiad yma yn arferol ac wedi digwydd ers canrifoedd. Yr oedd ymateb ddiddorol i gwestiwn tair ar ddeg yr holiadur 'A yw priodas Sipsi yn wahanol i briodas person nad yw'n Sipsi? Os ydi, sut?' yn cyfeirio at y syniad o gwplau 'priod' y Sipsiwn, nid yw wedi priodi o gwbl. Yng ngeiriau'r cyfranogwr,

> 'I know some people still consider themselves 'married' as soon as the couple have moved into a trailer or house together-regardless of whether they've been to a church or anything.'

Mae'r ymateb yma yn hynod ddiddorol ac unigryw yn yr holiadur ac yn dangos bod rhai teuluoedd gwir yn cadw at draddodiadau oedd yn cymryd lle ymysg y Sipsiwn yn yr ugeinfed ganrif gynnar. Mae'r wybodaeth graff hon yn darlunio agwedd anffurfiol rhai teuluoedd Sipsi

[401] Maccoll a Seeger, *Till Doomsday in the afternoon-The folklore of a family of Scots Travellers-The Stewarts of Blairgowrie*, t.3.
[402] G. Smith, *Gypsy Life: our Gypsies and their children* (Llundain, 1880), t.98.

tuag at briodasau hyd at y presennol. Mae'n dangos bod traddodiadau a defodau yn cael eu pasio drwy'r cenhedloedd a'u cadw atynt gan rhai teuluoedd yn benodol. Roedd y traddodiad yma yn un hen iawn, felly roedd yn syndod darganfod tystiolaeth ei fod yn parhau i ddigwydd. Mae tystiolaeth o'r 1930au hwyr a'r1940au cynnar yn dangos bod priodas yn gallu bod yn ddigwyddiad anffurfiol ymysg y Teithwyr Albanaidd hefyd, o ystyried bod Betsy Whyte a'i gŵr wedi cael eu priodi gan ei mam yn y cartref.[403] Er bod y cwpl wedi eu priodi yn gyfreithiol yn llygaid y gyfraith nes ymlaen, roedd eu priodas gyntaf yn cael ei hystyried yn ffurfiol ac wedi'i rwymo yn llygaid eu cymuned. Mae'n bosibl bod y syniadau anffurfiol tuag at y seremoni briodasol yn gyffredin ar draws grwpiau teithiol yn yr ugeinfed ganrif gynnar, a bod hyn wedi newid erbyn heddiw ymysg rhai teuluoedd yn fwy nac eraill. Mae'n amlwg bod gwahaniaethau clir ym mywydau a thraddodiadau y Sipsiwn a Theithwyr o'i gymharu a'r gymuned Brydeinig, yn enwedig ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif.

Mae McGowan yn dadlau bod priodasau mwy ffurfiol, hynny yw priodasau mewn Eglwysi, wedi dod yn fwy poblogaidd yn y gymuned Sipsi yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[404] Mae'n debygol bod hyn oherwydd twf pwysigrwydd Crefydd ffurfiol yn y gymuned. Er hyn, mae Lee yn honni bod rhai Sipsiwn yn priodi mewn Eglwysi, ond yn cynnal seremonïau priodasol eu hunain hefyd a fyddai'n cael eu cymryd yn fwy o ddifri.[405] Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif yn benodol, roedd nifer o bobl ifanc Sipsi oedd yn rhedeg ymaith yn priodi mewn swyddfeydd cofrestru cyn dychwelyd i'w rhieni, i'w wneud yn briodas ffurfiol a rhwymol. Byddwn yn gweld yn yr adran yma bod rhai defodau a thraddodiadau priodasol y

[403] B. Whyte, *Red Rowans and Wild Honey* (Edinburgh, 2000), t.137.
[404] McGowan, *On the Gypsy Trail- Sources for the family history of Gypsies,* t.11.
[405] Lee, *We Borrow the Earth-An Intimate Portrait of the Gypsy Folk Tradition and Culture*, t.85.

Sipsiwn wedi parhau hyd at y cyfnod modern, tra bod eraill wedi dirywio. Gwelwyd hefyd bod traddodiadau newydd wedi ymddangos i gymryd eu lle.

Erbyn heddiw, mae rhedeg ymaith i briodi yn cael ei hystyried yn sgandal enfawr yn y gymuned Sipsi, gan ddangos gwyro mawr oddi wrth draddodiadau. Gall enw da teulu gael ei effeithio, a phurdeb y ferch ei gwestiynu. Mae'r gymuned Sipsi wedi newid i fod yn fwy ceidwadol erbyn y presennol. Un rheswm dros hyn, a'r agerdd mewn cadw'r merched yn bur, yw'r pwyslais o gadw'r merched oddi wrth effeithiau'r gymuned allanol. Os yw'r ferch yn cael ei chyfyngu i'r gymuned, ac yn wir i cael perthnasau gyda dynion y gymuned yn unig, nid os modd i'r gymuned allanol cael llawer o effaith arni. Mae'n ffordd i gymuned wedi'i ddominyddu gan ddynion i raddau helaeth sicrhau bod y merched 'dan eu hawdurdod. Yn ogystal, mae'n debyg bod pwysigrwydd Crefydd i rhai teuluoedd o Sipsiwn erbyn y presennol yn golygu bod byw yn fwy ceidwadol, er enghraifft drwy beidio cael rhyw cyn priodi, yn bwysicach iddynt. Mae clebran yn y gymuned Sipsi, o brofiad personol, yn bwysig. Mae'r darlun o'r teulu yn bwysig felly, ac mae'n hanfodol i rhai dynion yn y gymuned i'w merched yn benodol ymddwyn yn geidwadol a peidio eu cywilyddio. Rheswm arall o fod yn geidwadol yn y gymuned yw'r ffaith i'r Sipsiwn ceisio creu rhaniad rhyngddynt a'r gymuned 'allanol'. Drwy ymddwyn yn geidwadol a pheidio cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael eu hystyried fel gweithgareddau cymunedau 'allanol' megis rhyw cyn priodi a byw hefo partner cyn priodi, mae'r Sipsiwn yn gallu sicrhau y rhaniad yma a dangos eu bod yn gymuned a moesau uwch. Os daw'r ferch yn ôl at ei rhieni a'r bachgen yn gwrthod ei phriodi, nid oes llawer o siawns i unrhyw berson eraill ei phriodi oherwydd y sgandal. I'r rhai sy'n dychwelyd a dewis priodi, mae angen i'r cwpl cael eu gwahanu nes y briodas ac mae angen i'r digwyddiad ddigwydd yn sydyn iawn i adfer enw da'r teuluoedd.[406] Yng ngeiriau

[406] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.152.

cyfranogwr i gwestiwn tair ar ddeg yr holiadur sef 'A yw priodas Sipsi yn wahanol i briodas person nad yw'n Sipsi? Os ydi, sut?',

'we dont live together before marriage.'

Mae'r dyfyniad syml hwn yn crynhoi sut mae traddodiadau wedi newid yn y gymuned. Erbyn hyn, mae nifer o deuluoedd yn gweld anrhydedd mewn cadw'r cwpl ifanc ar wahân nes y briodas i gadw enw da y teuluoedd. Er nid yw'r dyfyniad yn amlygu hyn, mae'r ffaith bod y cyfranogwr wedi cyfeirio at y traddodiad o beidio byw gyda'r partner cyn y briodas yn pwysleisio'r traddodiad o beidio cael rhyw cyn priodi, arferiad fydd yn cael ei drafod ymhellach ymlaen yn y bennod hwn. Dangosa hyn fod traddodiadau wedi newid, gyda'r pwyslais ar enw da teulu a morwyndod y ferch wedi cymryd lle y rhedeg ymaith mewn pwysigrwydd. Yn debyg, erbyn heddiw mae beichiogrwydd cyn priodi yn cael ei hystyried yn sgandal enfawr. Er hynny, mae Madine yn honni os caiff y beichiogrwydd ei gadw'n gyfrinachol nes ar ôl y briodas nid oes unrhyw sgandal.[407] Nid yw'r beichiogrwydd yn cael ei gwestiynu o gwbl wedi'r briodas, ac nid oes unrhyw effaith negyddol ar anrhydedd y ferch a'i theulu. Yn draddodiadol, roedd Sipsiwn yn gallu cael plant tu allan i briodas, heb unrhyw effaith ar enw da'r teulu. Dangoswyd bod syniadau'r gymuned allanol wedi cael effaith ar y gymuned Sipsi o ystyried rheolau priodasol. Tra bod tueddiadau ceidwadol y gymuned frodorol wedi dirywio, mae'r gymuned Sipsi wedi datblygu i fod yn fwy ceidwadol erbyn yr unfed ganrif ar hugain.

Dylanwad y ferch

Roedd dylanwad a phŵer merch Sipsi i'w weld yn nhraddodiad priodasol oedd yn gyffredin ymysg nifer o deuluoedd o Sipsiwn ym Mhrydain, sef bod y priodfab yn ymuno a theulu'r briodferch wedi iddynt briodi. Ymysg y teulu Lock yng Ngogledd Cymru, cafodd Mairik

[407] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.207.

Lock a Mary Smith ddeg o blant.[408] Priododd eu dau fab a gadael y teulu, tra bod gwŷr eu merched wedi ymuno a'u teulu hwythau.[409] Roedd teulu'r ferch yn cael blaenoriaeth ac felly roedd cael niferoedd eang o ferched, fel yn achos Mairik Lock, yn gallu bod yn fuddiol tu hwnt. Pan oedd priodasau rhwng y teulu Sipsi Abram Wood yng Nghymru gyda Sipsiwn eraill, roedd gwŷr yn ymuno a theulu'r briodferch yn ogystal.[410] Mae'n bosibl bod hyn yn digwydd ar draws Cymru. Nid oes rheswm yn cael ei roi dros wneud hyn, ond mae'n debyg ei fod yn ffordd o sicrhau bod gan deuluoedd Sipsi gyflenwad o ddynion i gyfrannu at incwm y teulu. Mewn rhai cymunedau roedd geni merched yn gallu bod yn straen economaidd. Yn y gymuned Sipsi er hynny, roedd geni merched yn golygu bod eu gwŷr yn y dyfodol yn ymuno a'r teulu. Arferai arian y teulu cael ei rannu, felly roedd mabwysiadu meibion yng nghyfraith yn broses buddiol tu hwnt i nifer o deuluoedd Sipsi. Roedd hyn yn enwedig yn wir os oedd y ferch wedi priodi yn dda, i deulu Sipsi gyda chyfoeth. Ymysg rhai teuluoedd Sipsi a Theithio ar draws Prydain, roedd pris gwaddol yn cael ei dalu gan teulu'r briodferch i deulu'r gŵr. Yn ôl Rosie McKinley, roedd y pris gwaddol ar ddechrau'r ugeinfed ganrif yn gallu bod yn £100,000-£200,000, tra bod y pris erbyn 2011 o gwmpas £20,000.[411] Nid pob teulu sy'n cymryd rhan yn y traddodiad yma er hynny. Mae'n debygol bod y pris gwaddol yn cael ei dalu i deulu'r dyn oherwydd bod y teulu yn colli allan ar weithiwr wedi'r briodas.

Neidio'r gansen

I droi ein sylw at draddodiadau priodasol unigryw y Sipsiwn yng Nghymru. Traddodiad pwysig i'r Sipsiwn Cymraeg yn ôl Thompson oedd neidio'r gansen fel rhan o'r ddefod priodi er mwyn sicrhau ffrwythlondeb y ferch.[412] Cytuna Crooke a'r syniad o ffrwythlondeb drwy

[408] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History,* t.112-113.
[409] Ibid, tt.112-113.
[410] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History,* t.113.
[411] McKinley, *Gypsy Girl-A life on the road, A journey to freedom,* t.33.
[412] Thompson, 'Gypsy Marriage in England- continuation from page 129', t.172-173.

neidio dros adnodd naturiol yn ei waith o 1909.[413] Gan fod teuluoedd mawr yn bwysig i Sipsiwn yn gyffredinol, mae'r traddodiad hwn yn ffitio i hanes y gymuned gyda'r amcan o gynyddu ffrwythlondeb. Roedd ffrwythlondeb yn hanfodol i gymuned oedd yn gwerthfawrogi ac yn anrhydeddu plant cymaint. Mewn astudiaeth gan Fonseca yn yr 1990au am Sipsiwn ym Mwlgaria, defod briodasol darganfyddodd yr ymchwilydd oedd i'r briodferch gerdded dros drothwy ei chartref newydd yn cario plentyn fel gobaith am ffrwythlondeb.[414] Gwelir bod grwpiau o Sipsiwn tu hwnt i Gymru yn ystyried pwysigrwydd ffrwythlondeb ac yn ei gynnwys fel defod briodasol. I nifer o ferched Sipsi, roedd beichiogi yn hanfodol ar gyfer sefydlu ei statws a chadarnhau ei phriodas, sy'n dangos pam bod defodau priodasol yn aml yn cyfeirio at ffrwythlondeb. Cawn ddisgrifiad gan Yates yn ei gwaith a gyhoeddwyd yn 1953 o briodas y Sipsi Cymreig Alice Wood gyda'r Sipsi Seisnig Henry Lee drwy neidio'r ysgubell,

> 'when a Gypsy 'broomstick marriage' takes place in Wales, it is literally over a branch of flowering broom that the bridal pair jump, to be united by a bond that is binding until death.'[415]

Darluniwyd agwedd y Sipsiwn at briodasau yn yr ugeinfed ganrif, sef y syniad bod priodas am byth. Gwelir bod angen i'r cwpl neidio dros ddarn o goeden flodeuog fel symbol eu bod wedi priodi. Roedd rhai cwplau yn neidio yn ôl ac ymlaen dros y gansen fel rhan o'r traddodiad. Mae'r enghraifft yma yn dangos bod y traddodiad gwir yn cymryd lle ymysg Sipsiwn Cymru.

Mae Lyster yn ymhelaethu ar y traddodiad hwn yn hunangofiant Betsy Wood o 1926 gan honni bod tad y ferch fel arfer yn dal darn o goeden a'r cwpl yn neidio drosto nôl ac ymlaen

[413] Crooke, 'Gypsy Forms and Ceremonies', t.178.
[414] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.133.
[415]Yates, *My Gypsy Days- Recollections of a Romani Rawnie,* t.65.

fel symbol eu bod wedi priodi.[416] Mae'n bosibl bod tad y ferch yn gafael yn y gansen fel symbol ei fod yn trosglwyddo rheolaeth ei ferch i'r gŵr newydd oddi wrth ef ei hun. Mae'r ffaith bod hunangofiant Betsy Wood a Yates yn trafod neidio'r gansen ar ddechrau'r ugeinfed ganrif yn pwysleisio mai yn y cyfnod hwnnw yn benodol oedd y traddodiad yma mwyaf poblogaidd ymysg y Sipsiwn yng Nghymru. Yn ôl Buckland, roedd ysgubell yn rhan o swyni i warchod rhag ysbrydion anfad hefyd.[417] Fel y gwelwyd yn yr adran am ddefodau marwolaeth y Sipsiwn, arferai'r gymuned gwneud ymdrech penodol i beidio aflonyddu ysbrydion a gwarchod eneidiau. Felly, mae'n bosibl bod defodau i warchod y gymuned rhag ysbrydion yn bresennol mewn seremonïau priodasol, nid yn unig seremonïau angladdol. Gan fod y Sipsiwn yn bobl ofergoelus yn gyffredinol, byddai'n naturiol iddynt gynnwys defodau i warchod rhag ysbrydion yn y seremonïau priodasol. Gallai fod yn ffordd i warchod y cwpl newydd rhag unrhyw helynt a'u paratoi am fywyd priodasol heb unrhyw her.

Roedd defod debyg i neidio'r gansen gan y Sipsiwn Seisnig yn ôl Petulengro, sef i'r gŵr newydd neidio dros dân agored a dŵr i ddangos byddai'n wynebu unrhyw berygl ar ran ei wraig newydd.[418] Gwelwyd bod angen i ŵr allu profi y gallai amddiffyn ei wraig newydd nes iddo gael caniatâd i'w phriodi. Nid oedd angen i'w wraig wneud hyn, gan ddangos rhaniad o ran rhywedd a'r syniad mai'r dyn sy'n amddiffyn. Er hyn, gwelwyd bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio yn aml mewn traddodiadau priodasol yn y gymuned Sipsi. Mae hyn yn gwneud synnwyr, gan fyddai'r gymuned yn arfer defnyddio'r adnoddau o'u cwmpas yn y byd naturiol o ddydd i ddydd, megis dŵr o'r afon neu goed ar gyfer gwneud tân. Gallai'r Sipsiwn ddefnyddio'r pethau naturiol o'u cwmpas, rhoi elfen symbolaidd iddynt, a'u defnyddio fel rhan o seremoni briodasol. Mae hunangofiant Betsy Wood, Sipsi Cymreig, yn cadarnhau'r traddodiad o neidio dros y gansen ac yn rhoi gwybodaeth fwy eang, er enghraifft bod y gŵr

[416] Lyster, *The Gypsy Life of Betsy Wood*, t.24.
[417] Buckland, *Buckland's Book of Gypsy Magic,* t.15.
[418] Petulengro, *The Girl in the Painted Caravan-Memories of a Romany Childhood*, t.79.

yn plethu modrwy o wellt i'w wraig nes bod y cwpl wedi casglu digon o arian gyda'i gilydd er mwyn prynnu modrwy aur.[419] Eto, gwelwyd bod y Sipsiwn yn defnyddio'r deunyddiau naturiol o'u cwmpas i selio eu priodasau. Roedd eu bywydau yn naturiol tu hwnt yn yr ugeinfed ganrif gynnar yn benodol, felly roedd priodas gan ddefnyddio natur yn berthnasol tu hwnt iddynt. Yn hunangofiant Nansi Lovell, Sipsi Cymraeg, darganfyddwn fod prynnu modrwy briodas hefo'i gilydd yn lwcus i'r Sipsiwn.[420] Dangoswyd sut oedd y Sipsiwn yn dod at ei gilydd yn draddodiadol wedi priodas. O'r amser pan briodent, bu'n rhaid iddynt weithio gyda'i gilydd i ddarparu yn ariannol. Symbol o hyn oedd cynilo i brynu modrwy aur i'r ferch. Cyn neidio, roedd angen gaddo o flaen y gwesteion i fod yn ffyddlon i'w gilydd hefyd.[421] Nid yw'r traddodiad hwn mor wahanol â hynny i'r adduned mewn priodas Eglwysig. Mae'n bosibl bod hyn yn dangos sut oedd Crefydd yn gallu bod yn perthnasol i'r Sipsiwn a sut efallai bod Crefydd wedi dod yn bwysicach iddynt.

Yn ddiddorol, mae George Locke yn datgan bod neidio'r gansen wedi digwydd ym mhriodas ei gyfnither Scarlet wedi iddi briodi mewn Eglwys hefyd.[422] Mae'n bwysig datgan bod George yn Sipsi Seisnig, sy'n dangos bod y draddodiad wedi treiddio i rhai o'r teuluoedd Sipsi yn Lloegr hefyd. Ar y llaw arall, roedd Scarlet wedi gwrthod cwblhau'r traddodiad priodasol o gymysgu wrin a oedd yn draddodiadol i'r teulu.[423] Byddai wrin y cwpl yn cael ei gymysgu mewn bwced fel symbol o'r undod corfforol wedi'r briodas. Roedd neidio'r gansen wedi digwydd yn lle i rhoi elfen draddodiadol i'r briodas yn llygaid y gymuned. Cawn wybodaeth ehangach am y draddodiad yng ngeiriau George Locke,

> Should the bride's skirt touch the branch this will show she has already lost her virginity or is pregnant and the man can then refuse to marry her. If the man's trousers

[419] Lyster, *The Gypsy Life of Betsy Wood*, t.24.
[420] Morgan, *Nansi Lovell-Hunangofiant Hen Sipsi*, t.104.
[421] Lyster, *The Gypsy Life of Betsy Wood*, t.24.
[422] Locke, *Big Louie & Me- Caravans, curses & cockfights*, tt.105-106.
[423] Ibid, t.105.

> should do the touching, this will indicate that he has been or will be unfaithful, and then it's up to the father of the bride to decide whether his daughter will continue with the marriage.[424]

Nid yw'n syndod mai'r dynion sy'n cael dewis os yw'r briodas yn cael cymryd lle, yntau'r priodwr neu tad y priodferch. Mewn cymuned patriarchaidd, mae'n gwneud synnwyr mai'r dynion oedd yn gwneud y penderfyniadau pwysig, fel y rhai uchod. Mae'n ddiddorol bod y traddodiad o neidio'r gansen wedi datblygu a bod angen neidio mewn ffordd benodol i sicrhau bod y briodas ddim yn cael ei amau. Mae elfen ofergoelus y ddefod yn cael ei ddarlunio yn y dyfyniad gan George ac yn dangos bod symbolau fel cyffwrdd y gansen yn cael ei cymryd o ddifri a bod merched a dynion yn gallu cael eu amau o anffyddlondeb neu twyllo heb dystiolaeth cadarn.

Mae priodas Sipsi yn cael ei hystyried yn briodas am byth yng Nghymru rhan amlaf. Mewn rhai dyfyniadau gan gyfranogwyr i gwestiwn agored naw yn yr holiadur sef, 'Oes yna unrhyw draddodiadau ydych chi'n cadw ato?' roedd unigolion yn tynnu sylw at y syniad bod priodas am byth yn y gymuned. Enghraifft yw'r canlynol,

> 'I believe that marriage is forever and when I become a mother one day I will instil these traditions and beliefs in my children'

I nifer o gwplau Sipsi hyd at y presennol, mae priodas yn cael ei ystyried yn gytundeb ni ellir ei ddiddymu. Ar y llaw arall, yn ddiddorol, mae Lee yn honni bod cwpl Sipsi oedd eisiau ysgaru yng Nghymru yn neidio yn ôl dros y gansen, ac yn cael ail-briodi wedi hyn.[425] Mae'r traddodiad yma yn gwneud synnwyr, wrth iddo ddad-rwymo y cwpl yn gorfforol yn yr un modd a gafwyd eu huno yn y lle cyntaf. Bu'n ffordd o ddadwneud yr hud o'r undod. Ar y

[424] Locke, *Big Louie & Me- Caravans, curses & cockfights*, t. 106.
[425] Lee, *We Borrow the Earth-An Intimate Portrait of the Gypsy Folk Tradition and Culture*, t.87.

cyfan, roedd priodas dros y gansen yn briodas ffurfiol yn llygaid y Sipsiwn. Ni fyddai'r cwpl yn cael eu hannog i briodi mewn Eglwys hefyd, gan fod neidio'r gansen yn cael ei hystyried yn briodas wir. Mewn gwaith a gyhoeddwyd yn gyntaf yn 1942, roedd Fitzgerald yn honni bod neidio'r gansen wedi parhau ymysg Sipsiwn Cymru nes yn ddiweddar a bod hyn oherwydd i'r Sipsiwn yn y wlad 'ddal gafael ar draddodiadau a defodau hynafol fwy, sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffaith bod yr iaith Romani pur wedi parhau yn hirach yng Nghymru nac yng ngweddill Prydain.[426] Mae'r wybodaeth yma yn dystiolaeth bwysig i ddangos bod neidio'r gansen fel defod briodasol wedi parhau ymysg Sipsiwn Cymru ymhell i mewn i'r ugeinfed ganrif. Mae awgrym Fitzgerald am 'ddal gafael ar draddodiadau a defodau yn y wlad yn deg o ystyried bod Romani fel iaith wedi parhau yn y wlad ymhell i mewn i'r ugeinfed ganrif hefyd. Mae'n bosibl bod Sipsiwn Cymru yn fwy tebygol o gadw at draddodiadau a defodau nac gweddill Sipsiwn Prydain yn yr ugeinfed ganrif oherwydd bod datblygiad trefi a dinasoedd heb gael llawer o effaith arnynt yng nghefnwlad Cymru. Gyda datblygiad trefi a dinasoedd yn Lloegr a mudo eang y Sipsiwn iddynt i ddarganfod swyddi, byddai'r traddodiadau a defodau hynafol yn dechrau dod yn ddibwrpas neu ddiangen iddynt.

Pan ysgrifenodd Fitzgerald yn 1942, roedd ef yn credu bod y Sipsiwn yng Nghymru wedi benthyg y ddefod o neidio'r gansen gan Deithwyr Gwyddelig ddaeth i'r wlad.[427] Roedd gan y Teithwyr Gwyddelig ddefod debyg, sef i neidio dros 'budget' sef blwch cadw offer fel rhan o'u defodau priodasol.[428] Mae'r tebygrwydd yn y defodau hyn yn drawiadol a heb ystyried tystiolaeth bellach, byddai'r mwyafrif yn cytuno bod rhyw fath o fenthyg wedi cymryd lle. Er hyn, yn ddiddorol mae astudiaethau eithaf diweddar yn awgrymu nid traddodiad unigryw i Sipsiwn Cymru oedd neidio'r ysgubell. Trafododd T. Gwynn Jones bod trigolion yn Sir

[426] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History*, t.65.
[427] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History*, tt.65-66.
[428] Ibid, t.65.

Gaernarfon yn neidio dros ysgub dderwydd er mwyn selio eu priodasau.[429] I ymhelaethu, nododd Jones yn 1928 fod trigolion ardal Ceiriog yn Ninbych yn neidio dros ysgub fedw yn yr un modd.[430] Ychwanega Jones ragor o wybodaeth, er enghraifft bod Sipsiwn Cymru yn defnyddio pren banadl nid fedw a'r ffaith ei fod yn annhebygol bod defod Sipsi wedi'i fabwysiadu gan drigolion Cymru.[431] Awgryma hyn fod y Sipsiwn wedi benthyg y ddefod gan y Cymry, pan ddaethant i'r wlad am y tro cyntaf. Mae'n debygol mai hen draddodiad Cymreig ydoedd. Nid yw'n annhebygol bod Sipsiwn yn mabwysiadu arferion trigolion y gwledydd oeddynt yn teithio iddynt. Yn wir, mewn astudiaeth am Sipsiwn yn y Balkans, disrifiodd Marushiakova a Popov y diwylliant Sipsi fel cael ei effeithio gan ddiwylliant y gwledydd yr oeddynt yn dod i fyw iddynt.[432] Mae'n naturiol i arferion a thraddodiadau'r prif ddiwylliant mewn gwlad cael effaith ar gymunedau bychain fel y Sipsiwn. Yn ddiddorol iawn, roedd neidio'r gansen yn rhan o ddefod priodi trigolion Affricanaidd-Americanaidd yr UDA hefyd, gan awgrymu bod y Cymry ddaeth i setlo yn y wlad dros y canrifoedd wedi dod a'u defodau gyda hwy.[433] Y mae'r syniadau yma wedi eu hymchwilio iddynt mewn mannau eraill. Er hyn, mae'n ddiddorol ystyried sut mae'r traddodiad o neidio'r gansen wedi'i fabwysiadu gan gymunedau ar wahân i'r Cymry eu hunain. Dadleuodd Parry fod neidio'r gansen yn digwydd ar stepan drws cartref newydd y cwpl yng Nghymru, a bod y Sipsiwn wedi'i fabwysiadu fel ffordd o roi ffurfioldeb i'w priodasau.[434] Datblygodd cario'r briodferch dros y trothwy yn draddodiad cyffredinol ym Mhrydain, a allai fod wedi'i gysylltu â'r traddodiad Cymraeg yma. Mae'n debygol bod y ddefod yn rhoi lwc i gwplau newydd

[429] C. W. Sullivan, '"Jumping the Broom": A further consideration of the origins of an African American wedding custom', *The Journal of American Folklore*, Vol.110 (1997), t.203.
[430] R. W. Jones, '"Besom Wedding" in the Ceiriog Valley', *Folklore*, Vol.39 (1928), t.153.
[431] Ibid, t.165.
[432] E. Marushiakova a V. Popov, 'Myth ac Process', yn T. Acton (gol), *Scholarship and the Gypsy Struggle: Commitment in Romani Studies* (Hatfield, 2000), t.82.
[433] Sullivan, '"Jumping the Broom": A further consideration of the origins of an African American wedding custom', t.204; A. Dundes, '"Jumping the Broom": On the origin and meaning of an African American wedding custom, *The Journal of American Folklore*, Vol.109 (1996), t.324.
[434] T. D. Parry, 'The Holy Land of Matrimony: The complex legacy of the Broomstick wedding in American History, *American Studies*, Vol,55 (2016), t.86.

Cymraeg yn eu cartref newydd gyda'i gilydd. Mae'r dystiolaeth uchod yn gryf er mwyn dadlau bod y Sipsiwn wedi benthyg y syniad o neidio'r gansen gan y Cymry, yn hytrach nac datblygu'r traddodiad eu hunain. Gyda'u ffordd o fyw teithiol, roedd defnyddio'r pethau naturiol o'i cwmpas i briodi yn gwneud synnwyr.

Mae'n ddiddorol i gymharu defodau priodi y Sipsiwn Cymraeg gyda Sipsiwn eraill ym Mhrydain. Mewn nofel gan y Teithiwr Albanaidd Jess Smith, mae'r cwpl yn cymysgu eu wrin mewn bwced a'i daflu dros y tân, ac yn cymysgu eu gwaed hefyd.[435] Nid yw'r awdures yn mynd i fanylder am y rhesymau dros gwblhau'r defodau hyn er hynny. Cytuna Thompson fod Sipsiwn Albanaidd yn cymysgu wrin fel rhan o'r ddefod briodi.[436] Nid yw yntau yn ymhelaethu ar y ddefod. Mae'n bosibl bod cymysgu hylif dynol yn symbol o'r undod corfforol ac eneidiol rhwng y cwpl wedi'r briodas. Fel ym mhriodasau'r Sipsiwn Cymraeg dros yr ysgubell, roedd y Teithwyr Albanaidd yn gweld y pwysigrwydd o'r cwpl yn cwblhau tasgau gyda'i gilydd er mwyn priodi. Ni wnaeth Smith ei hun gymryd rhan yn y defodau traddodiadol, wrth iddi briodi dyn nid oedd yn Sipsi yn swyddfa gofrestru Perth.[437] Er hyn, mae'r traddodiad yma yn dangos bod cwplau o Deithwyr Albanaidd yn defnyddio hylif o'r corff mewn ffordd symbolaidd yn eu priodasau, traddodiad unigryw i'r gymuned hwnnw mae'n debyg. Ar y llaw arall, roedd ymuno dwylo o flaen tystion yn fwy cyffredin ymysg Sipsiwn Lloegr yn yr ugeinfed ganrif.[438] O'i gymharu â phriodasau y Sipsiwn Cymreig a'r Sipsiwn Albanaidd, roedd priodasau'r Sipsiwn Seisnig yn gallu bod yn eithaf syml. Roeddent yn fwy tebyg i briodasau'r Gorgio erbyn yr ugeinfed ganrif, er enghraifft gyda nifer o gwplau yn dewis priodi mewn swyddfa gofrestru neu drwy uno dwylo yn yr un modd ymysg y gymuned yn unig.[439] Mae'n ddiddorol gweld bod priodasau'r Sipsiwn Seisnig yn gallu bod

[435] Smith, *Bruar's Rest,* tt.93-94.
[436] T.W. Thompson, 'The ceremonial customs of the British Gipsies', *Folklore,* Vol.24 (1913), t.335.
[437] Smith, *Tales from the Tent-Jessie's Journey continues,* t.209.
[438] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History,* t.66.
[439] Ibid, t.66.

yn syml iawn yn yr ugeinfed ganrif, o ystyried y darlun o briodasau rhai Sipsiwn a gawn o wylio rhaglenni teledu modern fel *My Big Fat Gypsy Wedding*. Bydd MBFGW yn cael ei drafod mewn manylder nes ymlaen.

Y mae traddodiad unigryw arall ymysg y Sipsiwn Cymraeg wedi ymddangos. Pan briododd y Sipsi Cymraeg Sarah Wood gyda Gorgio, John Roberts, gwrthododd ei theulu hithau'r briodas nes i John ymladd amdani gyda bachgen o'r llwyth.[440] Dyma ferch Sipsi yn mynd yn erbyn ewyllys ei theulu er mwyn allu priodi ei dewis hi o ddyn. Mae'r ddefod uchod yn bwysig, gan i'r Sipsiwn ei weld yn hanfodol i John allu amddiffyn ei hunan a'i wraig newydd os oedd angen. Yn ôl Fitzgerald, roedd rhai teuluoedd Sipsi yn arbrofi siwtor er enghraifft drwy ei orfodi i ymladd aelod gwrywaidd teulu'r ferch.[441] Dyma yn union a ddigwyddodd yn achos Sarah Wood a John Roberts. Dyma rinwedd pwysig i gymuned oedd wedi arfer cael ei erlid. Gwelwn fod diogelwch merched y gymuned yn bwysig iawn iddynt. Mae'r ddefod hon yn debyg i ddefod rhai o'r Sipsiwn Seisnig o neidio dros dân agored a dŵr i ddangos gallent amddiffyn eu gwraig. Yn y pen draw, roedd rhaid i'r dynion Sipsi allu amddiffyn eu gwragedd, ac roedd y defodau priodasol yn adlewyrchu hyn.

Pwy oedd y Sipsiwn yn priodi?

Yn draddodiadol, roedd priodasau rhwng cefndryd yn gyffredin yn y gymuned Sipsi, yn enwedig mewn rhai teuluoedd a oedd yn credu ni ddylai unigolion briodi tu allan i'r gymuned.[442] Priododd Mackenzie Boswell a'i gyfnither gyntaf, Lureni, o'r teulu Heron-Young.[443] Dyma uno dau hen deulu o Sipsiwn Prydeinig. Tueddai Sipsiwn briodi Sipsiwn eraill yn draddodiadol, gan nid oeddynt yn arfer cwrdd âg unrhyw bobl eraill yn aml.[444]

[440] Jarman a Jarman, *Y Sipsiwn Cymreig- Teulu Abram Wood,* tt.99-104.
[441] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History,* t.64.
[442] T. W. Thompson, 'Gypsy Marriage in England', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol. 5 (1926), tt.12-127.
[443] Yates, *My Gypsy Days- Recollections of a Romani Rawnie,* t.17.
[444] *Rokkering to the Gorgios-In the early nineteen seventies-British Romany Gypsies speak of their hopes, fears and aspirations*, t.96.

Roedd hyn yn ffordd i warchod y gymuned rhag effaith y byd allanol a chadw traddodiadau a defodau yn gyfrinachol. Dadleuodd Betsy Whyte bod Teithwyr Albanaidd yn priodi o fewn dau neu dri o deuluoedd yn unig, oherwydd adnabyddiaeth hirdymor o arferion ei gilydd.[445] Roedd hyn yn ffordd i geisio diogelu bod y cwpl newydd yn bwrw ymlaen yn dda gyda'i gilydd. Hefyd, roedd yn ffordd dda o sicrhau bod y cwpl yn aros gyda'r teulu estynedig gan ychwanegu at incwm y teulu cyfan, fyddai'n cael ei rannu rhwng pawb. Roedd rhieni yn hoffi cael eu plant o'u cwmpas, felly roedd priodasau o fewn y teulu yn sicrhau hyn. Yn ôl Betsy Whyte, Teithiwr Albanaidd, roedd cwpl newydd yn aros gyda rhieni un ai'r gŵr neu'r wraig nes eu bod yn cael eu hymddiried ynddynt i fyw ar wahân.[446] Nid oes tystiolaeth cryf bod hyn yn digwydd ymysg Sipsiwn Cymru. Er hyn, roedd Sipsiwn Cymru ac yng ngweddill Prydain yn tueddu i deithio mewn teulu estynedig yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif. Felly, mae'n bosibl bod math o dreialu cwplau newydd yn gallu cymryd lle. Credai rhai bod cadw'r gwaed yn y teulu yn bur yn hanfodol, sy'n cael ei ddarlunio yn yr enghreifftiau o briodasau rhwng cefndryd a'r ymdrech i briodi oddi mewn y gymuned.

Yn ôl Ladrew, nid oedd priodasau rhwng y Sipsiwn a'r Cymry yn cael eu hannog yn draddodiadol.[447] Er hynny, mae'r syniadau hyn wedi dirywio dros y blynyddoedd. Darluniodd cyfranogwr i gwestiwn tair ar ddeg yr holiadur 'A yw priodas Sipsi yn wahanol i briodas person nad yw'n Sipsi? Os ydi, sut?' sut oedd newidiadau yn digwydd yn y gymuned o ystyried priodasau. Yng ngeiriau'r cyfranogwr,

> 'tend to be gypsies marry gypsies, however that now is changing.'

Dangosa'r dyfyniad yma sut mae'r Sipsiwn eu hunain wedi esblygu yn yr unfed ganrif ar hugain i gyd-briodi fwy gyda cymunedau allanol. Oherwydd y cysylltiad ehangach rhwng y

[445] Whyte, *Red Rowans and Wild Honey*, t.91.
[446] Whyte, *The Yellow on the Broom-the early days of a traveller woman*, t.116.
[447] Ladrew, 'Ancient Bards, Welsh Gypsies, and Celtic Folklore in the Cauldron of Regeneration', t.229.

ddwy gymuned, roedd hyn yn ganlyniad anochel. Mae'r amser ble roedd Sipsiwn yn priodi Sipsiwn yn unig a theuluoedd yn gallu ymffrostio am eu gwaed pur wedi dod i ben. Y mae Sipsiwn yn priodi unigolion o bob diwylliant erbyn hyn. Mae hyn yn rhan o'r newidiadau anochel sy'n digwydd dros y degawdau mewn lleiafrifoedd ethnig. Yn ôl Lehti a Mattson, oherwydd y priodasau rhwng cefndryd roedd lefelau uwch o anhwylder genynnol yn eu hepil.[448] Efallai bod hyn yn esbonio pam bod priodasau rhwng cefndryd yn y gymuned wedi lleihau yn sylweddol.

Mae enghraifft arbennig o briodas rhwng merch Sipsi Cymraeg o'r teulu Lee a gŵr bonheddig o'r enw Mr Gorton ym mhapur newydd *The North Wales Express* o 1884.[449] Mae'r ffaith bod merch Sipsi wedi priodi dyn eithaf uchelwrol yn ddigwyddiad anarferol, sy'n dangos pam bod yr hanes wedi cael ei ychwanegu yn y papur newydd. Gwelwn fod priodi ar y tu allan ddim mor anghyffredin â hynny mae'n debyg. Mae Cressy wedi ymchwilio yr achau cafodd eu llunio i nifer o deuluoedd o Sipsiwn gan yr academyddion yn ystod yr oes rhamantaidd, sydd yn awgrymu bod cyd-briodi gyda'r Gorgios yn gyffredin.[450] Roedd hyn yn ffordd ymarferol i sicrhau parhad diwylliant. Yn 1967, roedd Clébert yn honni bod priodasau rhwng Sipsiwn a Gorgio yn cynyddu.[451] Yn ogystal, mae Okely yn dadlau fod Sipsiwn Seisnig yn cytuno i rai priodasau Sipsi-Gorgio, os yw'r Gorgio yn mabwysiadu traddodiadau Sipsi.[452] Roedd hyn yn ffordd i sicrhau parhad bodolaeth y gymuned. O ran enghraifft, priododd Charlie Lock o deulu Sipsi o Ogledd Cymru gyda merch leol Cymraeg yn yr ugeinfed ganrif gynnar.[453] Erbyn heddiw, mae priodasau rhwng Sipsiwn a phobl nid yw'n Sipsiwn yn gyffredin ym Mhrydain. Yn y rhaglen deledu *My Big Fat Gypsy Wedding*,

[448] A. Lehti a B. Mattson, 'Health, attitude to care and pattern of attendance among Gypsy women-a general perspective', *Family Practice*, Vol.18 (2001), t.445.
[449] 'The marriage of Miss M. Lee and Mr H. Gorton', *The North Wales Express- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 7 Tachwedd 1884, t.5.
[450] D. Cressy, *Gypsies: An English History* (Rhydychen, 2018), t.238.
[451] Clébert, *The Gypsies*, t.260.
[452] Okely, *The Traveller-Gypsies*, t.156.
[453] Davies, *Tales of the Old Gypsies*, t.69.

roedd Sipsi Romani Tracy Heron yn briod i'w gŵr Gorgio am ddeg mlynedd cyn iddynt adnewyddu eu haddunedau.[454] Dyma enghraifft o sut mae cyd-briodi yn gallu gweithio rhwng y ddwy gymuned. Yn ail hanner yr ugeinfed ganrif ac erbyn yr unfed ganrif ar hugain yn sicr, roedd mwy o gyd-briodi gan fod Sipsiwn yn dod i gysylltiad gyda pobl nid yw'n Sipsiwn fwy, os oedd hynny drwy'r ysgol neu oherwydd gwaith.

My Big Fat Gypsy Wedding

I nifer, mae'r syniadau am briodasau Sipsi wedi dod wrth wylio'r rhaglen deledu *My Big Fat Gypsy Wedding* darlledwyd ar Channel 4 rhwng 2010-2012. Fel awgrymir yn yr enw, mae'r sioe yn arddangos priodasau yn y gymuned Sipsi a Theithio ac yn bwysig wrth ystyried defodau priodasol y cymunedau erbyn yr unfed ganrif ar hugain. I Thelma Madine, wnaeth ddylunio y rhan fwyaf o'r ffrogiau briodas yn y sioe, mae'r syniad o fod yn Dywysoges am y diwrnod yn atyniad i nifer o'r merched.[455] Bywyd o waith domestig sy'n wynebu'r merched yn y sioe wedi eu priodasau, felly rydym yn gallu gweld pam bod y syniad uchod mor atyniadol. Arferiad modern yw'r 'mini-bride', sef chwaer fach neu gyfnither, sy'n gwisgo copi o ffrog y briodferch.[456] Symbol o gyfoeth a statws yw'r arferiad newydd hwn. Gyda chynnydd yng nghyfoeth rhai aelodau o'r gymuned, y mae traddodiadau newydd wedi ymddangos er enghraifft y 'mini-bride' a ffrog priodas enfawr i'r briodferch. Y mwyaf yw'r ffrog briodas, y gorau i nifer o'r merched hyn. Dewisiodd Samantha Lee, a briododd i mewn i'r gymuned, ffrog ugain stôn gydag un ar hugain o beisiau.[457] Roedd hyn yn ffordd o

[454] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 2-Episode 4, *Channel 4 boxset*, 2:28:47.
[455] T. Madine, *Gypsy Wedding Dreams* (Llundain, 2013), t.36.
[456] Ibid, tt.70-71.
[457] Lee, *Gypsy Bride- One girl's true story of falling in love with a Gypsy boy,* t.246-247.

gydymffurfio â'r traddodiad newydd hon o ffrogiau priodas enfawr. Darluniwyd Patrick, ei gŵr, fel herio traddodiadau wrth briodi Samantha gan fod hi'n Gorgio.[458] Er hynny, mae'r gwaith yma yn pwysleisio bod priodasau rhwng Sipsiwn ac unigolion nid yw'n Sipsiwn wedi cynyddu'n sylweddol dros y degawdau diwethaf. Er bod ffrog Samantha yn binc, mae'r rhan fwyaf o Sipsiwn a Theithwyr yn dewis ffrogiau gwyn i bwysleisio ei morwyndod. Er hynny, mae'n bosibl nid oedd hyn yn liw draddodiadol.

Yn hunangofiant Betsy Wood, Sipsi Cymraeg, mae Rosaina Wood yn gwisgo ffrog sidan coch ar ddiwrnod ei phriodas.[459] Yn ogystal, pan briododd Damian Le Bas, a gyhoeddodd lyfr yn 2018, gwisgodd ei wraig ef ffrog goch hefyd.[460] Gwelwn fod newid wedi digwydd dros y blynyddoedd o ffafrio ffrogiau priodas lliw coch i liw gwyn. Gall fod hyn yn arwydd o ymgais i gydymffurfio â gweddill y gymdeithas, gan fod ffrogiau priodas wen wedi cynyddu mewn poblogrwydd drwy'r ugeinfed ganrif. Yn ddiddorol iawn, lliw traddodiadol ffrogiau priodas merched Hindŵ yw coch yn ogystal, sy'n symbol o ffrwythlondeb a ffyniant.[461] Dyma gysylltiad cynil arall rhwng y ddwy gymuned, sydd efallai yn ddarn bach o dystiolaeth bellach i awgrymu bod y Sipsiwn yn gwreiddio o India. O ran ffrogiau priodas Sipsi, daeth dyfyniad diddorol i'r golwg gan gyfranogwr i gwestiwn agored naw am draddodiadau oedd yr unigolion yn cadw atynt. Yng ngeiriau'r cyfranogwr,

> 'Sew your own wedding dress adding a lock of your hair into the hem.'

Nid yw'r traddodiad diddorol yma yn cael ei drafod yn yr hanesyddiaeth sy'n cael ei rhestru ar ddiwedd y gwaith yma. Ni aeth y cyfranogwr i fwy o fanylder am y traddodiad yma. Mae'n fwy na thebyg mai lwc sy'n chwarae rhan yn y traddodiad i'r teulu penodol hwnnw.

---

[458] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 1-Episode 2, *Channel 4 boxset*, 53:21.
[459] Lyster, *The Gypsy Life of Betsy Wood*, t.163.
[460] Bas, *The Stopping Places-A Journey Through Gypsy Britain*, t.132.
[461] J. Mackey a S. Bose, '14 Hindu Wedding Ceremony Traditions You Need to Know', *Safle Wê Brides*, https://www.brides.com/hindu-wedding-ceremony-rituals-traditions-4795869 (golwg diwethaf-30/05/20).

Oherwydd y diffyg tystiolaeth am y traddodiad a diffyg ei grybwyll yn y gweithiau hanesyddol, mae'n bosibl mai traddodiad un teulu penodol ydyw. Nid oes tystiolaeth bod y traddodiad yn digwydd yng Nghymru yn draddodiadol ychwaith.

I droi ein sylw at enghreifftiau eraill o'r briodferch wnaeth ymddangos yn y sioe MBFGW. Ym mhennod gyntaf y raglen, mae Josie yn priodi gyda ffrog pum stôn amdani.[462] Mae hyn yn swnio'n fach o'i gymharu â ffrog Samantha yn flaenorol. Yn aml, mae cynllunwyr priodasol yn derbyn ceisiadau afradlon gan y briodferch Sipsi a Theithwyr wrth iddynt geisio rhagori merched eraill y gymuned gyda'u priodasau.[463] Mae priodasau rhai Sipsiwn wedi colli'r elfen anffurfiol amdanynt, ac yn ffordd i arddangos a phwysleisio statws i rai teuluoedd. Ym mhriodas Chantelle Keeley, roedd yna ugain mil o grisialau ar y ffrog briodas, ond hefyd saith deg tri o wŷr briodas a saith morwyn briodas.[464] Er nid Sipsi oedd y ferch yma ond Teithiwr Gwyddelig, mae priodasau'r Sipsiwn sydd yn cael eu harddangos yn y sioe mor goegwych â hyn. Dyma'r unig gyfle sydd ganddynt i sefyll allan, ac mae'r sioe yn pwysleisio'r gystadleuaeth rhwng y merched hyn i gael y ffrog briodas orau. Pan ddyluniodd Thelma Madine ei ffrog briodas gyntaf i Sipsi, roedd ganddo drên cant a saith troedfedd o hir ac roedd y parti priodas yn cynnwys deunaw o forwyn briodas.[465] Bwriad hyn oedd i'r briodas fod yn well na phriodas cyfnither y briodferch, a ddigwyddodd ychydig cyn ei phriodas hi. Mae'n rhan o'r gystadleuaeth a'r nod o ddangos statws a chyfoeth mawreddog eu teulu. Disgrifiodd cyfranogwr i gwestiwn tair ar ddeg yr holiadur 'A yw priodas Sipsi yn wahanol i briodas person nad yw'n Sipsi? Os ydi, sut?' priodas Sipsi fel y canlynol, 'no expense spear for the son or daughter'. Mae hyn yn pwysleisio bod rhieni Sipsi yn barod i dalu symiau mawreddog o arian i sicrhau bod priodas eu mab neu ferch yn adlewyrchu eu

[462] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 1-Episode 1, *Channel 4 boxset*, 29:16.
[463] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 1-Episode 4, *Channel 4 boxset*, 6:55-12:22.
[464] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 2-Episode 6, *Channel 4 boxset*, 1:14:50.
[465] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.54.

statws a chyfoeth o fewn y gymuned. Mae rhai rhieni yn cynilo ar gyfer priodasau eu plant o'u hieuenctid, sy'n pwysleisio y pwysigrwydd o allu fforddio y priodas gorau phosibl i'w plant. Mae hyn hefyd yn pwysleisio pa mor bwysig yw plant i rieni Sipsi. Er hyn, mae'r Sipsi Seisnig Violet Cannon yn pwysleisio nid pob merch Sipsi sydd yn defnyddio ffrogiau Thelma.[466] Y mae rhai merched Sipsi yn dewis priodi mewn ffordd fwy syml a llai amlwg. Mae'n dibynnu'n llwyr ar eu ffafriaeth, personoliaeth a theulu yn aml. Disgrifiodd Cannon ei ffrog briodas ei hun fel, 'fairly understated it wasn't that obvious'.[467] Mae hyn yn gwrthddweud y syniadau ystrydebol o MBFGW, bod pob merch Sipsi yn dewis cael priodas fawreddog, dros ben llestri.

I Quarmby mae'n annheg apwyntio ffrogiau enfawr, colur a lliw haul chwistrell fel ystrydebau i Sipsiwn yn unig, gan fod nifer o ferched o gymunedau eraill yn hoffi'r rhain hefyd.[468] Y mae dulliau hunan-wella a hanes hir-dymor ym Mhrydain. Dechreuodd ferched cyffredin ddefnyddio colur o ddydd i ddydd o'r 1920au ymlaen, gan ddangos traddodiad hir ymysg y cyhoedd o ddefnyddio dulliau hunan-wella.[469] Yr oedd merched Prydain yn cael eu hysbrydoli gan ferched enwog yn aml. Cafodd ffilmiau Holywood effaith sylweddol ar bobl ifanc, gyda phwyslais ar edrychiad yn hytrach na moesau erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif.[470] Dirywiodd y pwyslais mewn rhinweddau fel moeseg gwaith cryf a natur dawel, i'w cael eu hamnewid am harddwch ac ymddangosiad. Yn ogystal, roedd y niferoedd eang o gylchgronau merched yn yr 1960au yn cynnig gwasanaeth archebu dillad, colur ac adnoddau i'r cartref.[471] Dyma ei wneud yn hawdd i ferched cyffredin cael gafael ar adnoddau hunan-wella. Roedd pwyslais enfawr ar wella eich hunan a'ch cartref, mewn cyfnod ble roedd

[466] Cannon, *Gypsy Princess-The true story of a Romany childhood*, t.283.
[467] Cannon, *Gypsy Princess-The true story of a Romany childhood*, t.291.
[468] K. Quarmby, *No Place To Call Home-Inside the Real Lives of Gypsies& Travellers* (Llundain, 2013), t.182.
[469] I. Z. Bargielowska, 'The Body And Consumer Culture', yn I. Z. Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), t.184.
[470] Ibid, t.185.
[471] 'A Woman's World', *Fideo Youtube*, https://www.youtube.com/watch?v=GZOHlbtC3cU (golwg diwethaf-15/05/20), 13:30.

benyweidd-dra yn bwysig tu hwnt. I nifer o ferched, o bob diwylliant, mae'r syniadau yma yn bodoli o hyd. Gwelir bod y rhan fwyaf o ferched ifanc yn yr unfed ganrif ar hugain yn defnyddio rhyw fath o ddulliau i wella neu amlygu eu cyrff, un ai gyda cholur, deunydd trin gwallt neu liw haul chwistrell. Dangosa hyn bod y syniadau yma ddim yn unigryw i'r gymuned Sipsi yn unig. Er bod MBFGW yn dangos bod y merched yn tueddu i ffafrio ffrogiau priodas enfawr, nid yw'r traddodiad yma yn unigryw i'r cymunedau hyn. Pa fodd bynnag, tra bod y rhan fwyaf o bobl yn tueddu i gydymffurfio a gofynion derbyniol cymdeithasol, mae Sipsiwn yn tueddu i wneud y gyferbyn.[472] Eu bwriad yn eu dillad yn benodol yw arddangos eu hunain mewn ffordd dros ben llestri ar adegau. Yn y ffordd yma maent yn sefyll allan yn yr unig ffordd y gallent hwy. Pwysleisiodd Rosie McKinley bod merched yn nheulu ei mam yn gweld pwysigrwydd mawr mewn edrych yn dda.[473] Er bod McKinley o deulu Teithwyr Gwyddelig, mae'r pwyslais ar edrych yn dda yn debyg mewn rhai teuluoedd Sipsi hefyd. Mae'n gallu effeithio ar statws a dylanwad y teulu hwnnw.

Er poblogrwydd y sioe gyda rhai, mae MGFGW wedi derbyn llawer o feirniadaeth hefyd. I Cheal, mae'r sioe yn cadarnhau nifer o ystrydebau am Sipsiwn gan y gymuned allanol.[474] Gallai hyn fod yn negyddol tu hwnt a chael effaith ar, a chynnyddu'r, rhagfarn sy'n cael ei wynebu gan Sipsiwn o ddydd i ddydd. Yng ngeiriau Taylor mae'r sioe yn rhoi, 'exoticised image of their lives'.[475] Digwyddiadau mawr, sef y priodasau, sy'n cael eu harddangos i raddau helaeth yn y sioe. Nid yw bywydau arferol yr unigolion a ymddangosodd yn y sioe yn cael eu crybwyll llawer. Dim ond darn bach o fywyd yr unigolion ydym yn ei weld yn y sioe. Nid yw bywydau'r unigolion yn y sioe mor gyffrous na diddorol rhan amlaf i gynhyrchwyr sioeau, felly mae pwyslais ar ddangos sut mae priodasau'r unigolion yn y sioe yn wahanol ac

[472] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.134.
[473] McKinley, *Gypsy Girl-A life on the road, A journey to freedom*, t.49.
[474] Cheal, 'Beyond the stereotypes: A review of Gypsies/Roma/Travellers and the Arts in Wales', t.59.
[475] B. Taylor, 'Britain's Gypsy Travellers: A people on the outside', *safle wê History Today*, https://www.historytoday.com/archive/britains-gypsy-travellers-people-outside (golwg diwethaf-01/11/19).

unigryw. Dyma'r adrannau yn y rhaglen a ddenodd gwylwyr ato, yntau i ddysgu am arferion y gymuned allan o ddiddordeb neu i gadarnhau syniadau negyddol oedd gan rhai unigolion o'r cyhoedd yn barod am y gymuned. Nid oes Sipsiwn benywaidd o Gymru yn ymddangos yn y sioe, sy'n tueddu i ganolbwyntio ar y gymuned yn Lloegr. Yn ogystal, mae enw'r sioe yn gamarweiniol, gan fod y mwyafrif o'r merched ynddo yn Deithwyr Gwyddelig sy'n byw yn Lloegr, yn hytrach nac Sipsiwn Romani. Yn ôl Matthews, mae angen ystyried y sioe a sut mae'n darlunio merched Sipsi yn yr unfed ganrif ar hugain, yntau i gytuno a'r portread neu ei herio.[476] Canran isel o'r cymunedau Sipsi a Theithio sy'n cael eu darlunio yn y sioe, felly nid yw'n rhoi darlun cyflawn o arferion a thraddodiadau merched yr holl gymuned. I Casey, mae'r priodasau manwl a defodau priodasol yn ychwanegu at y syniad o'r Sipsiwn fel 'eraill' yn yr ymwybod boblogaidd.[477] Awgrymwyd gan nifer o Sipsiwn bod y rhaglen ddim yn adlewyrchu gwir safonnau eu cymuned.[478] Yn y pen draw, cynhyrchydd y rhaglen oedd yn dewis beth oedd yn cael ei gynnwys yn yr episodau, a beth i'w adael allan. Gall y sioe rhoi rhagdybiaeth i gymunedau allanol bod pob Sipsi yn tueddu i briodi yn y ffordd sy'n cael ei ddarlunio. Yn ôl Kann, nid yw'r sioe yn rhoi'r darlun cyfan.[479] Mae hyn yn wir, gan fod nifer o Sipsiwn ledled Prydain â phriodasau gwahanol iawn i'r rhai sy'n cael eu darlunio yn MBFGW. Pwysleisiodd Cindy McDonagh ac Eddie McDonagh, Teithwyr, bod MBFGW ddim yn darlunio ffordd o fyw pob Teithiwr Gwyddelig a Sipsi Romani.[480] Dyma'r awgrymiadau mae angen cymryd i ystyriaeth wrth ddefnyddio'r rhaglen fel ffynhonnell.

---

[476] J. Matthews, *The Gypsy Woman-Representations in Literature and Visual Culture* (Llundain, 2018), t.47.
[477] R. Casey, ''Caravan wives' and 'decent girls': Gypsy-Traveller women's perceptions of gender, culture and morality in the North of England', *Culture, Health& Sexuality*, Vol.16 (2014), t.3.
[478] J. Richardson a R. O'Neill, ''Stamp on the Camps': the social construction of Gypsies and Travellers in media and political debate', yn J. Richardson a A. Ryder (gol), *Gypsies and Travellers-Empowerment and inclusion in British Society* (Bristol, 2012), t.180.
[479] Kann, '5 Big Fat Myths about Gypsies, Travellers and Roma'.
[480] C. McDonagh, 'Not in our name either', *Travellers Times*, fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/features/not-our-name-either (golwg diwethaf-19/11/19); E. McDonagh, 'Not in our name either', *Travellers Times*, fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/features/not-our-name-either (golwg diwethaf-19/11/19).

Darluniwyd priodas Sipsi yn wahanol iawn i'r darlun ohonynt yn MBFGW gan gyfranogwyr i gwestiwn tair ar ddeg 'A yw priodas Sipsi yn wahanol i briodas person nad yw'n Sipsi? Os ydi sut?'. Yng ngeiriau un cyfranogwr am sut mae priodas Sipsi yn well yn eu barn hwy,

> It's better! More fun and relaxed and less strict. More natural and down to earth…with a nice help yourself buffet of food, and pretty wild flowers. And the whole family sings, and helps out. And the party goes all night. Also they can cost less (overall) and are done outdoors or at home.

Y mae'r ddelfryd yma yn cysylltu'n agosach gyda'r traddodiadau priodasol Sipsi yn yr ugeinfed ganrif yng Nghymru. Mae'r gyfeiriadaeth at flodau gwyllt a'r ddelfryd naturiol yn adlewyrchu'r darlun a gawn o briodas dros y gansen a drafodwyd ynghynt. Mae'r bwffe o fwyd yn hytrach na chael pryd o fwyd ffurfiol yn elfen glasurol o briodasau Sipsi ledled Prydain. Drwy wneud hyn, mae'r priodasau yn llai ffurfiol ac mae modd cynnig bwyd i unrhyw berson ychwanegol sy'n mynychu'r briodas, yn hytrach na chael prydau penodol i bob unigolyn. Y mae'r briodas sy'n cael ei ddarlunio yn y dyfyniad uchod yn cysylltu gyda phriodasau traddodiadol Sipsi hefyd gyda'r darlun o'r teulu yn canu a dathlu gyda'i gilydd. Yn ôl George Locke, Sipsi Seisnig, roedd dathliad enfawr wedi priodas ei gyfnither Scarlet, gyda cystadlu mewn canu, dawnsio, chwarae offerynau a bocsio.[481] Arferai Sipsiwn Cymru yn benodol ganu, chwarae offerynau a dawnsio fel rhan o'r adloniant ar gyfer priodas hefyd. Mae'r gyfeiriadaeth at y ffaith bod y priodasau yn gallu costio yn llai na phriodas person nid yw'n Sipsi yn ddiddorol. Y mae hyn yn cyferbynnu gyda'r arddangos a'r pwyslais ar gyfoeth a statws yn MBFGW. Dangosa hyn bod rhai teuluoedd wedi cadw at wraidd y traddodiadau priodasol Sipsi, sef digwyddiad syml i uno'r teulu ymysg y byd naturiol ac yna dathliad gyda chanu a dawnsio.

[481] Locke, *Big Louie & Me- Caravans, curses & cockfights*, t.109.

Casgliad teuluol

I Bhopal a Myers, mae priodasau Sipsi yn gyfle i deulu ymgasglu, cryfhau diwylliant a chynghreiriau a setlo gwrthdaro hir-dymor drwy ymladd.[482] Bydd y syniadau yma yn cael eu hystyried yn y paragraff yma. Cytuna Madine a'r syniad o ymgasgliad teuluol mawr ar gyfer priodas Sipsi, gan amlinellu bod torfoedd eang o bobl yn teithio yn bell i fynychu priodas yn aml.[483] Yn gyffredinol hyd heddiw nid oes gwahoddiadau yn cael eu gyrru i fynychu priodas Sipsi. Mae'n ffordd i sicrhau bod neb yn cael eu gadael allan a thensiwn teuluol yn cael ei osgoi.[484] Cyfeiriodd rhai o'r cyfranogwyr i gwestiwn tair ar ddeg yr holiadur 'A yw priodas Sipsi yn wahanol i briodas person nad yw'n Sipsi? Os ydi, sut?' at y diffyg gwahoddiadau yn y gymuned. Yng ngeiriau un o'r cyfranogwyr,

> 'They are generally open events not invite only…They are used more as a meet and greet than non traveller/gypsy weddings for family and friends who don't live near one another.'

Darluniwyd y briodas fel undod hir-dymor rhwng teuluoedd ond hefyd ffordd i deulu a chyfeillion ymgwrdd yn gymdeithasol. Mewn cymuned deithiol, mae hyn yn gwneud synnwyr, gyda llai o siawns i deulu a chyfeillion ymgwrdd. Mae'n ffordd naturiol i uno'r teulu cyfan mewn un lle am ychydig o ddyddiau. Gyda theuluoedd enfawr nid yw'n syndod bod y mwyafrif o gwplau yn osgoi gyrru gwahoddiadau oherwydd yr ofn o anghofio am unrhyw berson. Golyga hyn bod canrannau uchel iawn o unigolion yn gallu ymddangos mewn priodasau, yn ddibynnol ar bwy yn y teulu sydd wedi clywed bod y briodas yn cymryd lle. Mae priodasau Sipsi yn gallu denu cannoedd o aelodau o'r teulu.

[482] Bhopal a Myers, *Insiders, Outsiders and Others- Gypsies and Identity*, t.32.
[483] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.56.
[484] Cannon, *Gypsy Princess-The true story of a Romany childhood*, t.287.

Er hyn, mae'r croeso i bawb yn golygu bod gwrthdaro yn anochel ar adegau, er bod hyn yn eithriad. Dyma gyfle i dynion ddangos eu sgiliau bocsio migwrn noeth, sy'n draddodiadol ymysg rhai dynion yn y gymuned. Mae'n ffordd sydyn ac anrhydeddus yn llygaid y gymuned i roi diwedd ar unrhyw drafferthion rhwng teuluoedd. Erbyn hyn, nid yw cwffio yn gyffredin iawn yn y gymuned Sipsi, ond pan mae o yn digwydd rhaid cadw at rheolau a chael dyfarnwr yn bresennol.[485] Cyfeiriodd cyfranogwr arall i gwestiwn tair ar ddeg 'A yw priodas Sipsi yn wahanol i briodas person nad yw'n Sipsi? Os ydi, sut?' at y ffaith bod gwahoddiadau agored wedi datblygu i fod yn negyddol tu hwnt. Yng ngeiriau'r cyfranogwr,

> 'it's open, but now because of bad people gatecrashing weddings the people has gone more to do invite only.'

Gwelir bod rhai teuluoedd yn esblygu i ddefnyddio gwahoddiadau er mwyn osgoi unrhyw helynt mewn digwyddiadau teuluol. Mae'n ymddangos o'r dyfyniad yma bod rhai unigolion yn mynychu'r digwyddiadau teuluol er mwyn gwrthdaro yn unig. Gall hyn rhoi enw drwg i Sipsiwn yn y lleoliadau priodasol sy'n golygu na fyddent yn derbyn priodas Sipsi yno ar ôl hynny. Nid yw'n syndod felly bod nifer o gwplau yn dewis gyrru gwahoddiadau erbyn hyn, i osgoi unrhyw helynt ar un o ddiwrnodau gorau eu bywydau. Yng Nghymru'r oes fodern gynnar, yr oedd traddodiad i westeion priodas rasio ei gilydd i'r Eglwys ac i'r ennillydd cael ei anrhydeddu yn y wledd briodas.[486] Yn ôl Owen, yn Sir Gaernarfon ac Ynys Môn yr oedd y traddodiad yma yn cael ei gwblhau fwyaf.[487] Er nid ymladd oedd y traddodiad hwn, gwelir bod y Cymry hefyd yn creu cystadleuaeth fel rhan o'r briodas, sy'n debyg i focsio y dynion mewn rhai priodasau Sipsi.

[485] Lee, *Gypsy Bride- One girl's true story of falling in love with a Gypsy boy,* t.284.
[486] Sikes, *British Goblins: Welsh Folklore, Fairy Mythology, Legends and Traditions*, t.311.
[487] Owen, *The Customs and Traditions of Wales,* t.60.

Elfen bwysig arall i briodas Sipsi yw'r cyfrinachedd o'i gwmpas. Yn ôl Madine, mae Sipsiwn yn gyfrinachol am leoliad a dyddiad eu priodas, oherwydd yr ofn o'r lleoliad dathlu ganslo wedi iddynt ddarganfod mai Sipsiwn ydynt hwy.[488] Mae hyn yn digwydd yn aml ac yn cysylltu â'r rhagfarn yn erbyn Sipsiwn, felly mae angen iddynt fod yn ofalus gyda'r wybodaeth. Drwy fod yn gyfrinachol, mae modd cadw unigolion teuluol sydd yn chwilio am drafferth allan o'r briodas. Ymysg rhai teuluoedd, ar y diwrnod ei hun y mae'r lleoliad dathlu yn cael ei hysbysebu o gwmpas y teulu, ar lafar, gan gysylltu â thraddodiad llafar y gymuned yn gyffredinol. Roedd gan y Cymry traddodiad debyg i hon, gydag unigolyn yn cael ei apwyntio yn 'bidder' y briodas gyda'r swydd o hysbysebu'r briodas o gwmpas y gymuned.[489] Yr oedd priodasau yng Nghymru yn tueddu i gynnwys traddodiadau fel yr un uchod i mewn i'r ugeinfed ganrif. Gwelir bod y traddodiad llafar o hysbysebu priodasau yn bwysig i'r Cymry, nid yn unig y Sipsiwn.

Mae priodasau i'r Sipsiwn yn gyfleoedd i bwysleisio statws eich teulu, er enghraifft drwy roi anrhegion gwerthfawr i'r cwpl newydd.[490] Yn aml, mae'r anrhegion hyn yn tsieina drud neu emwaith, pethau all y cwpl newydd eu gwerthu mewn amseroedd o angen. Mewn astudiaeth gan Fonseca yn yr 1990au am Sipsiwn ardal Sliven ym Mwlgaria roedd čeiz, sef pris gwaddol y briodferch, yn cael ei arddangos yng nghartref ei rhieni cyn y briodas, ac yn gallu cynnwys carpedi, tyweli, matiau a llestri.[491] Yn aml, llenwi'r ystafelloedd y cartref gyda'r čeiz i arddangos cyfoeth a statws teulu'r briodferch. Roedd yr anrhegion rhan amlaf yn bethau ymarferol i'r cwpl newydd ddefnyddio yn eu cartref newydd. Er hyn, roedd yr anrhegion yn gallu bod yn werthfawr, yn enwedig y llestri neu'r carpedi o dramor.

[488] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.130.
[489] Roberts, *Cambrian Popular Antiquities, or an account of some traditions, customs and superstitions of Wales, with observations as to their origin etc*, t.159.
[490] B. Adams, et al., *Gypsies and Government Policy in England- A study of Travellers' way of life in relation to the policies and practices of Central and Local Government* (Llundain, 1975), t.66.
[491] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.125-126.

Ble mae Sipsiwn yn cwrdd?

Mewn priodasau mae'r Sipsiwn ifanc yn gallu cwrdd, gan ddechrau perthnasau eu hunain yn y pen draw. Yn draddodiadol, mae dynion a merched yn gwahanu mewn digwyddiadau teuluol gan gadw at eu rhywedd penodol.[492] Mae hyn yn adnewyddu'r rhaniadau rhywedd yn y gymuned, ac yn sicrhau bod y merched yn tueddu i gadw i ffwrdd o'r bechgyn. Amlinellodd cyfranogwr i gwestiwn agored naw yn yr holiadur, sef 'Oes yna unrhyw draddodiadau ydych chi'n cadw ato?' y rhaniad rhywedd sy'n bodoli mewn digwyddiadau teuluol Sipsi. Yng ngeiriau'r cyfranogwr,

> 'Women and men don't mix when they are in gypsy gatherings.'

Gan fod Sipsiwn ifanc yn cael eu hannog o oedran ifanc iawn i gael ffrindiau o'r un rhywedd a hwy, mae'r rhaniad yma yn gwneud synnwyr. Mewn astudiaeth am y Korturare Roma, grŵp o Sipsiwn o Romania, dadleuodd Fabeni fod rhaniad rhywedd mewn angladdau yn y gymuned, er enghraifft gyda merched yn aros hefo corff y meirw cyn ei gladdu a'r dynion mewn ystafell ar wahân yn gwledda a dathlu bywyd y meirw.[493] Mewn astudiaeth gan Todorović, darluniwyd y rhaniad rhywedd ymysg y Roma Orthodox yn Serbia hefyd gyda'r merched yn paratoi corff farw merch, a'r dynion yn paratoi corff farw dyn.[494] Er bod y grŵpiau o Sipsiwn yma yn byw tu hwnt i Brydain, mae'n bwysig gweld bod rhaniad rhywedd clir yn gyffredin ymysg y Sipsiwn, heb os eu lleoliad byw. Yn ogystal, er mai angladdau sy'n cael eu trafod yn yr astudiaethau uchod, roedd rhaniad rhywedd yn bodoli yn gyffredinol mewn digwyddiadau teuluol, ac nid yn unig mewn angladdau. Yn sicr, mae George Locke yn datgan bod y dynion ar un ochr o'r Eglwys a'r merched ar ochr arall ym mhriodas ei

[492] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.255.
[493] Fabeni, 'Ritual Spaces and Burial Places: International migration and transnational change among the Korturare Roma', t.145.
[494] Todorović, 'Preface', t.10.

gyfnither Scarlet, sy'n dangos bod y traddodiad yn digwydd ar draws digwyddiadau teuluol.[495] Yng ngeiriau'r Sipsi Seisnig, Fred Stephenson,

> you never used to see women sitting round the fire with men; they had their own fire. There's still one or two at Stow who leave the fire when the men come up. You see, there's men's talk and women's talk.[496]

Mae 'Stow' yn cyfeirio at y ffair geffylau sy'n denu cannoedd o Sipsiwn pob blwyddyn yn Stow-on-the-Wold. Mae'r dyfyniad yn bwysig, gan ei fod yn dangos bod rhaniadau rhywedd yn bodoli ers degawdau yn y gymuned Sipsi. Gwelir bod y traddodiad wedi datblygu o gwmpas y lleoedd tan pan oedd y Sipsiwn yn parhau i deithio rhan amlaf. Mae Stephenson yn cyfeirio at sgyrsiau dynion a sgyrsiau merched, gan bwysleisio'r gwahaniaeth sydd rhyngddynt. Yn anffodus, nid yw'n cyfeirio yn benodol at y pynciau gwahanol oedd yn cael eu trafod gan ddynion a merched. Mae'n debygol bod y rhaniad rhywedd cymdeithasol o amgylch y lle tân wedi datblygu i gynnwys digwyddiadau teuluol hefyd. Yn naturiol, os oedd y ddau rywedd yn rhannu yn y cartref, roedd hyn yn bendant yn mynd i ddigwydd mewn digwyddiadau cymdeithasol hefyd. Mae atgofion George Locke yn cadarnhau atgofion Stephenson, gan iddo honni bod merched ddim i fod yn bresennol tra bod dynion yn trafod ymysg ei gilydd.[497] Mae'n bwysig gweld pa mor gadarn oedd y rhaniad rhywedd a bod y syniadau yma yn bodoli, yn enwedig mewn digwyddiadau teuluol.

Mae digwyddiadau teuluol yn lleoedd i deulu a chyfeillion ymgwrdd fel arfer, heb os y rheswm dros y digwyddiad. Darluniwyd gan gyfranogwr i gwestiwn tair ar ddeg yr holiadur 'A yw priodas Sipsi yn wahanol i briodas person nad yw'n Sipsi? Os ydi, sut?' sut mae

[495] Locke, *Big Louie & Me- Caravans, curses & cockfights,* tt.108-109.
[496] Davies, *Tales of the Old Gypsies*, t.60.
[497] Locke, *Big Louie & Me- Caravans, curses & cockfights,* t.160.

priodas Sipsi yn gwahaniaethu oddi wrth priodas cwpl nid yw'n Sipsiwn. Yng ngeiriau'r cyfranogwr,

> 'it's more about getting the family and friends together.'

Felly, pan mae digwyddiadau teuluol yn digwydd mae'n anochel i ddynion a merched wahanu, gan eu bod wedi arfer gwneud hyn o oedran ifanc iawn. Mewn priodasau y Cymry yn ystod yr ugeinfed ganrif gynnar, yr oedd merched y gymuned yn ymgasglu y diwrnod cyn y briodas i baratoi y wledd briodas.[498] Yn ogystal, mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, roedd merched a dynion yn gwahanu mewn Eglwysi yn gyffredinol.[499] Gwelir nid traddodiad unigryw i'r Sipsiwn oedd y rhaniad rhywedd. Yn wir, roedd rhaniadau rhywedd clir i'w gweld ledled Cymru a Prydain yn yr ugeinfed ganrif yn benodol. Mae'r enghreifftiau uchod o Gymru yn pwysleisio bod y dynion a merched i wahanu mewn digwyddiadau cyhoeddus, fel yn y gymuned Sipsi.

Gan fod bywydau Sipsiwn benywaidd wedi eu cyfyngu i'r cartref i raddau helaeth, mae'r digwyddiadau fel dathliadau dyweddio a phriodasau yn rhai o'r unig gyfleoedd i gwrdd â phobl ifanc eraill.[500] Dyma pam bod digwyddiadau teuluol yn cael eu mynychu gan gymaint o aelodau o'r teulu yn aml, wrth i rieni hefyd ystyried gwerth mewn gadael i'r bobl ifanc yn y gymuned gymysgu. Mae hyn yn annog priodasau oddi fewn i'r gymuned. Yn y digwyddiadau hyn, mae merched Sipsi yn gwisgo i fyny mewn dillad addurnedig iawn i ddenu sylw siwtor, gyda nifer yn comisiynu ffrogiau gan Thelma Madine yn benodol am un digwyddiad.[501] Dyma'r unig ffordd i sefyll allan mewn ystafell llawn merched eraill sydd hefyd yn chwilio am siwtor. Byddai rhai yn gweld y dillad yn ddadlennol a rhywiol, ond mae'r Sipsiwn yn ei

[498] Owen, *The Customs and Traditions of Wales*, t.41.
[499] Ibid, t.87.
[500] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.123.
[501] Ibid, t.199.

weld fel math o wisgo i fyny ac arddangos eu hunain.[502] Ym Mhrydain yn 1951, cyhoeddwyd pamffled gyda chyngor i ferched ar sut i ddenu gŵr, er enghraifft 'NEVER TALK ABOUT YOURSELF'.[503] Darlunnir denu siwtor fel prif alwedigaeth merched Prydain, a'r unig beth o werth dylent ymgeisio amdano. Y mae'r syniadau yma yn bodoli ymysg rhai teuluoedd Sipsi hyd heddiw. Dangoswyd hyn pa mor gyfyngedig yw bywydau'r Sipsiwn benywaidd a bod creu perthnasau gyda phobl ifanc eraill yn y gymuned yn anodd ofnadwy. Fel arfer, mae'r cwpl ifanc yn adnabod ei gilydd o oedran ifanc cyn dyweddio.[504] Byddent yn aml wedi tyfu i fyny yn mynychu'r yr un digwyddiadau teuluol ac felly wedi arfer gweld ei gilydd dros gyfnod hir o amser. Yn ddefnyddiol iddynt hwy, mae'r bechgyn y mae merched Sipsi yn dod i gysylltiad ac fel arfer yn Sipsiwn ei hunain. Mae hyn yn golygu nid oes llawer o her i'r cwpl ifanc ddyweddio, cyhyd ac mae'r bachgen yn gofyn caniatâd tad y ferch i gael ei phriodi. Nid pob teulu Sipsi ym Mhrydain sydd yn cadw at yr arferion yma, wrth i nifer o bobl ifanc Sipsi cael eu hannog gan eu rhieni i ddewis partner dros eu hunain heb os eu cefndir. Nid pob merch Sipsi sy'n cael ei hannog i ddenu siwtor o oedran ifanc.

Mewn digwyddiadau fel dathliadau priodasol, y mae traddodiad newydd sy'n cael ei fabwysiadu gan rhai teuluoedd yn digwydd-sef 'grabbing'. Y bwriad yw i fachgen sengl ceisio cusannu merch sengl drwy ei thynnu i gornel ddistaw.[505] Nid yw pob Sipsi a Theithiwr yn cyd-fynd a'r traddodiad hon, mae'n bwysig cydnabod. Disgrifiodd y Teithiwr Gwyddelig Cindy McDonagh y weithred fel traddodiad dychmygol a thrais rhywiol yn ei barn hi.[506] Yn ôl Nell Loveridge, a briododd Sipsi Romani Seisnig, mae cipio yn digwydd mwy ymysg y Teithwyr Gwyddelig yn hytrach na'r Sipsiwn Romani.[507] Er hyn, mae'r safbwynt sy'n cael ei drafod uchod yn awgrymu bod y traddodiad ddim yn digwydd ymysg pob teulu Teithiwr

[502] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.200.
[503] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950s*, tt.76-77.
[504] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.133.
[505] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.200.
[506] McDonagh, 'Not in our name either', *Travellers Times*.
[507] Loveridge, *Gypsies-I married a Romany! Honest, Raw and Extremely Funny!* Dim rhif tudalennau.

Gwyddelig. Mae'n debygol bod y traddodiad yn dibynnu ar y teulu, boed hwythau yn Deithwyr Gwyddelig neu'n Sipsiwn. Heb os, mae'r arferiad newydd yma wedi denu poblogrwydd ymysg rhai teuluoedd. Er i'r gymuned allanol mae 'grabbing' yn cael ei farnu, mae nifer o ferched ifanc yn y gymuned Sipsi eisiau cael eu cipio er mwyn allu denu siwtor. Yn hunangofiant y Sipsi Seisnig, Violet Cannon, darluniwyd cipio fel gweithgaredd cellwair ac ychydig o hwyl rhwng pobl ifanc.[508] Nid yw'n cael ei darlunio mewn ffordd ddifrifol o gwbl. Mae Madine yn honni bod y priodwr mewn un briodas aeth hithau iddi wedi bod yn cipio ei wraig am flwyddyn cyn ei phriodi, a bod hithau'n edrych ymlaen am y cipio.[509] Mae'n ffordd i ddangos eich bod â diddordeb mewn cael perthynas gyda merch yn aml. Cynigir pwynt teg gan Madine, sy'n honni bod y cyfryngau ddim yn dangos bod teulu'r ferch o gwmpas pan mae'r cipio yn digwydd.[510] Ni fyddai unrhyw beth drwg yn gallu digwydd i'r ferch, a'i theulu o'i chwmpas, gan fod dynion Sipsi yn warchodol iawn o'i merched, chwiorydd a chyfnitherod. Yn MBFGW gwnaeth y cwpl Chayenne a John briodi blwyddyn ar ôl i John ei chipio ym mhriodas ei chwaer.[511] Mae'r enghraifft hon yn dangos bod grabbing yn gallu bod yn effeithiol yn y gymuned, gan fod priodasau yn gallu deillio ohonynt. Eto, rhaid pwysleisio mai ffordd o ddenu siwtor yw'r cipio yma ymysg rhai teuluoedd yn y gymuned yn unig.

Yn y gymuned Sipsi mae priodferch yn cael ei hystyried yn hen i briodi yn ei dauddegau cynnar mewn rhai teuluoedd. Mae pwysau mawr i briodi'n fuan a pheidio cael eich gadael ar y silff. Yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd merched yn ofni cael eu gadael ar y silff yn ogystal, felly'n defnyddio swynion i ragweld eu dyfodol rhamantaidd, er enghraifft adrodd rhigymau.[512] Gwelwyd yma bod oed priodi yn cael ei gymryd o ddifri gan y

[508]Cannon, *Gypsy Princess-The true story of a Romany childhood*, t.197.
[509] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.202.
[510] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.201.
[511] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 2-Episode 7, *Channel 4 boxset*, 01:34:00.
[512] C. Stevens, *Welsh Courting Customs* (Llandysul, 1993), tt.13-17.

Cymry frodorol hefyd, a bod merched yn benodol yn pryderu am hyn. Yn hunangofiant y Sipsi Seisnig Violet Cannon, a gyhoeddwyd yn 2011, priododdd modryb yr awdures yn naw ar hugain oed, sy'n cael ei hystyried yn hên ofnadwy.[513] Ym Mhrydain yr ugeinfed ganrif, roedd merched di-briod mewn oed yn cael eu hystyried yn economaidd bregus gan nid oeddynt hefo dyn i ddibynnu arno yn ariannol.[514] Yn y gymuned Sipsi erbyn hyn mae rhai merched yn cael eu dysgu sgiliau domestig o oedran ifanc, ond nad yw ysgol ffurfiol cymaint o ddiddordeb iddynt. Mae hyn yn golygu nid yw nifer o'r merched yn deall, nac hefo'r sgiliau, i ennill cyflogau eu hunain. Gwelir bod merch Sipsi sengl yn fregus yn economaidd hefyd. I'w teuluoedd, byddai'r merched di-briod yn ddibynnol arnynt am eu bywoliaeth ac felly'n faich iddynt. Dyma reswm ddilys dros annog merched Sipsi i briodi mor fuan â phosibl. Yn yr ugeinfed ganrif gynnar roedd yna anhafalrwydd o ran y gymhareb rhywedd, gyda mwy o ferched na dynion.[515] Golyga hyn fod y gystadleuaeth am ŵr yn broblem dilys i nifer o ferched ifanc. Nid oedd merch eisiau bod heb ŵr mewn cyfnod lle nid oedd merch yn gallu bod yn economaidd annibynnol i raddau helaeth. Mae'r gymhareb yma yn wir yn y gymuned Sipsi hefyd. Tra bod dynion Sipsi yn gallu priodi yn hŷn, mae'r merched yn gorfod priodi'n fuan a denu sylw siwtor cadarnhaol mewn cymuned fach.

Yn draddodiadol, wrth weithio ar y ffermydd yn ystod y gwanwyn a'r haf oedd Sipsiwn ifanc yn tueddu i gwrdd eu partner am y dyfodol.[516] Dyma gyfle i bobl ifanc gwrdd am gyfnodau hir mewn un lle penodol. Mae'n anochel bod cwplau wedi cael eu ffurfio ar ôl misoedd yng nghwmni ei gilydd ar y ffermydd. Yn ogystal, mae Le Bas yn honni bod ffair geffylau traddodiadol yn le i'r ifanc ddarganfod partner.[517] Yn sicr, roedd cannoedd o bobl ifanc yn ymuno a'u rhieni yn y ffair geffylau. Gan fod teuluoedd yn aml yn teithio o ffair i ffair, yn

[513] Cannon, *Gypsy Princess-The true story of a Romany childhood*, t.270.
[514] Bargielowska, 'Introduction', t.5.
[515] J. Lewis, 'Marriage', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), t.70.
[516] Bendell, *Rabbit stew and a penny or two*, tt.79-80.
[517] Bas, *The Stopping Places-A Journey Through Gypsy Britain*, t.60.

enwedig y teuluoedd oedd yn arbenigo mewn ceffylau, roedd pobl ifanc yn gweld ei gilydd mewn nifer o leoliadau gwahanol drwy'r flwyddyn. Yn y rhaglen deledu, *Gypsy Kids-Our Secret World*, a gyhoeddwyd yn 2016 gwelwn fod lot o bobl ifanc yn y gymuned yn cwrdd yn Epsom gyda'r merched â gwisgoedd addurniadol i ddenu siwtor.[518] Gall y ffair fod yn lleoedd pwysig i ferched a bechgyn ifanc gwrdd yn y gymuned, ymysg eu pobl eu hunain.Yng ngeiriau Mary Burnside, wrth ddisgrifio ffair geffylau Appleby,

> 'a romantic, magical place where you courted and met your future lifelong partner'.[519]

Appleby yw'r ffair geffylau mwyaf enwog sy'n cael ei gysylltu â'r Sipsiwn. Lleolwyd Appleby yn ardal Cumbria, Gogledd Lloegr. Mae Appleby yn gasgliad cymdeithasol blynyddol hyd heddiw ac yn uno unigolion o bob dosbarth cymdeithasol.[520] Arferai fod yn ffair i ffermwyr lleol, nes i'r Sipsiwn glywed amdano a phenderfynnu elwa ohono eu hunain, drwy werthu ceffylau ond hefyd sefydlu marchnad eu hunain. Yn gyffredinol, erbyn hyn, mae Appleby yn le i gyfeillion a theuluoedd Sipsi ymgasglu ac yn ddigwyddiad diwylliannol. Mae'r traddodiad o gwrdd partner yn Appleby wedi parhau. Yn y trydydd episod o MBFGW gwelwn fod grwpiau o fechgyn yn teithio i'r ffair geffylau yn Appleby i ddarganfod merched.[521] Gwelwyd bod y ffair wedi datblygu i fod yn lleoedd i gyfarfod ac i'r ifanc allu cwrdd ymysg eu cymuned. Magwyd merched mewn cymuned mor agos, a'u hamddiffyn rhag y gymuned allanol a dynion yn gyffredinol, felly mae'r digwyddiadau hyn yn rhoi cyfle iddynt ddod i adnabod pobl ifanc o'r run oedran. Pwysleisia'r rhaglen, *Gypsy Kids-Our Secret World*, fod priodi yn rhan arwyddocaol ym mywydau merched Teithio.[522] Nid yw'n

---

[518] 'Episode 1: Gypsy Kids-Our Secret World-Season 1 2016', *Channel 5*, fersiwn ar lein, https://www.my5.tv/gypsy-kids-our-secret-world/season-1/episode-1 (golwg diwethaf-24/10/19), 37:30.
[519] A. Connell, *Appleby Gypsy Horse Fair: Mythology, Origins, Evolution and Evaluation* (Cumberland a Westmorland, 2015), tt.89-90.
[520] R. A. R. Wade, 'The saving of Appleby Fair', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.45 (1966), t.35.
[521] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 1-Episode 3, *Channel 4 boxset*, 1:59:49.
[522] 'Episode 6: Gypsy Kids-Our Secret World-Season 2 2018', *Channel 5*, fersiwn ar lein, https://www.my5.tv/gypsy-kids-our-secret-world/season-2/episode-6 (golwg diwethaf-31/10/19), 27:20.

sicr os mae'r rhaglen yn ceisio cyfleu bod hyn yn wir yn y gymuned Sipsi hefyd. Mae'r termau Teithiwr a Sipsi yn cael eu defnyddio yn gyfnewidiol am unigolion o'r ddwy gymuned yn aml, er eu bod yn wahanol. Yn sicr, er hynny, mae priodi i nifer o ferched ifanc Sipsi yn nod bywyd. Y mae angen i nifer o bobl ifanc Sipsi ddibynnu ar y digwyddiadau teuluol a'r ffair er mwyn darganfod partner oddi fewn i'r gymuned, er bod rhain yn ychydig ac yn bell oddi wrth ei gilydd rhan amlaf. Nid oes modd dibynnu ar y gwaith tymhorol yn y ffermydd i ddarganfod partner dros gyfnod hir o amser, gan fod y math yma o waith wedi dirywio.

Morwyndod y ferch Sipsi

I ychwanegu at y syniad o amddiffyn y merched yn y gymuned Sipsi, yn y gorffennol a'r presennol, mae morwyndod y ferch Sipsi cyn priodi yn hanfodol bwysig i rai teuluoedd ledled Prydain. Sefydlwyd pwysigrwydd morwyndod i Rosie McKinley a'i chwaer drwy gydol eu bywydau ac roedd eu rhieni yn gwrthod trafod unrhyw beth ym ymwneud a'r corff gyda'r plant, gan gynnwys mislif.[523] Er bod McKinley o deulu Teithwyr Gwyddelig, mae'r gwaith yma yn dangos bod traddodiadau'r Sipsiwn a'r Teithwyr yn debyg iawn ar adegau. Roedd y pwyslais ar morwyndod yn bwysig ymysg y Sipsiwn hefyd. Yn ôl Thompson yn 1927, nid oedd cwpl ifanc yn cael cwrdd ar ben eu hunain gan fod purdeb merched yn anrhydedd i dynion y gymuned.[524] Sipsiwn Seisnig y mae Thompson yn canolbwyntio arno er hynny, a allai awgrymu bod y traddodiad ddim mor bwysig yng Nghymru. Nid oes sicrwydd ynghylch pa mor berthnasol yw gwybodaeth Thompson ynglŷn â Sipsiwn benywaidd Cymru. Mae'n bosibl bod y pwyslais ar forwyndod y merched wedi cynyddu'n sylweddol drwy gydol yr ugeinfed ganrif, sy'n dangos pam bod cymaint o bwyslais arno erbyn heddiw. Yng ngeiriau Gill mewn erthygl a gyhoeddwyd yn 1936,

[523] McKinley, *Gypsy Girl-A life on the road, A journey to freedom*, t.92.
[524] Thompson, 'Gypsy Marriage in England', t.115.

> Once, when camped in some Welsh region whose inhabitants were still uncivilised, the attentions of the Welshmen to some of the Boswell women and girls became so pressing that it was necessary to smuggle them out of the way.[525]

Mae'r Boswells yn hen deulu Sipsi Prydeinig. Roedd y Sipsiwn benywaidd yn edrych yn wahanol i ferched o'r gymuned frodorol yng Nghymru, ac felly yn atyniad i'r dynion Cymraeg mae'n debyg. Roedd y syniadau egsotig amdanynt hefyd yn denu unigolion tuag atynt, a allai fod yn beryglus i'r merched ifanc. Nid yw gwaith Gill yn cyfeirio at y Boswells fel Sipsiwn Cymraeg. Yn draddodiadol, Sipsiwn Seisnig oedd y Boswells, sy'n awgrymu mai teithio yn unig yng Nghymru oeddynt yn yr achos yma ac nid byw yn y wlad. Eto, fel yng ngwaith Thompson, morwyndod merched Sipsi Seisnig sy'n cael eu cyfeirio ato mewn ffordd anrhydeddus. Mae'n bosibl bod y traddodiad yma ddim yn berthnasol i Sipsiwn benywaidd Cymru.

Yn y bennod am enedigaethau ymysg y Sipsiwn, gwelwyd bod beichiogi cyn priodi yn gyffredin yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif ymysg y gymuned yng Nghymru. Yn hunangofiant y Sipsi Cymraeg Betsy Wood, roedd Alice Wood yn feichiog cyn priodi ac yn bwriadu denu siwtor arall wedi iddi gael ei gadael gan ei phartner.[526] Roedd yr enghraifft yma yn dangos nid oedd morwyndod mor bwysig ymysg y gymuned Sipsi yng Nghymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Os oedd tad y plentyn anghyfreithlon yn ei gydnabod, nid oedd y ferch yn cael ei siomi yn llygaid y gymuned. Er hyn, roedd mwy o bwyslais yn y gymuned yn ail hanner yr ugeinfed ganrif i ferched cadw eu morwyndod nes iddynt briodi. Y mae'r syniad yma wedi treiddio i rai teuluoedd Sipsi sy'n preswylio yng Nghymru. Roedd eithriadau i hyn. Pan briododd Nell Loveridge ei gŵr yn yr 1980au cynnar, roedd hithau yn feichiog yn

[525] Gill, 'Manx Gypsies', t.149.
[526] Lyster, *The Gypsy Life of Betsy Wood*, tt.92-95.

barod.[527] Er hyn, gan nid oedd Nell yn Sipsi, mae'n bosibl bod y sgandal ddim yn cael ei hystyried mor ddrwg ag os byddai hithau wedi bod yn Sipsi. Hefyd, nid oedd y beichiogrwydd wedi'i gyhoeddi nes ar ôl y briodas, felly roedd modd osgoi sgandal yn y ffordd yma hefyd. Yn ei waith a gyhoeddwyd yn 2019, pwysleisiodd Marcus fod rhai teuluoedd Sipsi yn meddwl bod anrhydedd eu merched yn gallu cael ei ddinistrio gyda chysylltiad hefo dyn Gorgio.[528] Er hyn, mae'r merched yn cael bod yng nghwmni dynion sy'n perthyn iddynt ar ben eu hunain.[529] Mae hyn yn ffordd i ddynion y gymuned allu cadw llygaid ar y merched a phwysleisio goruchafiaeth y rhyw wrywaidd. Mewn rhaglen deledu o 2019, *Absolutely Ascot*, pwysleisir bod cael perthynas a merch Sipsi yn golygu cael perthynas a'r holl deulu, yn enwedig brodyr y ferch sy'n cael lot o ddweud ym mherthnasau eu chwiorydd.[530] Mae'r arferiad yma yn sicrhau bod y merched hyn yn ddibynnol ar y dynion yn eu teulu agos, nes iddynt briodi a'r cyfrifoldeb hynny drosglwyddo i'r gŵr. Yn ogystal, mae'n dangos y rhaniad clir o ran rhywedd yn y gymdeithas, gyda'r ferch yn ddibynnol ar y brawd sy'n gweithredu fel amddiffynydd. Mae'r broses yma yn dangos pa mor agos yw brodyr a chwiorydd yn y gymuned hefyd mewn ffordd bositif.

Yng ngeiriau cyfranogwr i gwestiwn agored naw yn yr holiadur am draddodiadau neu ddefodau y mae'r cyfranogwyr yn cadw atynt,

> 'Virginity for our girls, woman not talking with men unless their husband is there'.

Hyd at y presennol, gwelwn fod morwyndod yn hanfodol bwysig, yn enwedig i rai teuluoedd. Roedd y traddodiad yma digon pwysig i'r cyfranogwr benderfynu ei ychwanegu yn yr ateb. Mae'r dyfyniad yn dangos goruchafiaeth wrywaidd yn ogystal, gyda merched y teulu penodol

[527] Loveridge, *Gypsies-I married a Romany! Honest, Raw and Extremely Funny!* Dim rhif tudalennau.
[528] G. Marcus, *Gypsy and Traveller Girls- Silence, Agency and Power* (Switzerland, 2019), t.212.
[529] Bhopal, 'Gender, identity and experience: Researching marginalised groups', t.191.
[530] 'Absolutely Ascot-Season 2, episode 2', *ITV Hub*, https://www.itv.com/hub/absolutely-ascot/2a5862a0010 (golwg diwethaf-10/12/19), 20:05; 'Absolutely Ascot-Season 2, episode 3', *ITV Hub*, https://www.itv.com/hub/absolutely-ascot/2a5862a0011 (golwg diwethaf-10/12/19), 08:30.

hwnnw wedi eu gwahardd rhag siarad gyda dynion heb i'w gwŷr fod yno. Yn fwy na thebyg, mae'r syniadau yma yn gyffredin i amryw o deuluoedd Sipsi ledled Prydain. Cawn ddarlun o gymuned batriarchaidd yma, gyda'r dynion yn cael eu codi'n uwch na'r merched a'u bodloni. Mae'r dyfyniad yn awgrymu bod cadw at y traddodiad hwnnw yn ffordd o barchu eich hunan a dynion eich teulu. Cysyllta hyn â phwysigrwydd parch ac enw da yn y gymuned Sipsi. Er nid pob merch Sipsi fyddai'n cadw at y traddodiad uchod, mae'r amryw o ymatebion tebyg i'r cwestiwn yn awgrymu bod nifer cadarnhaol yn. Esiamplau eraill oedd,

> 'Yes I don't believe in sex before marriage I think a girl should be respectful in that manner!'
>
> 'no sex before marriage.'

Mae'r ffaith bod y delfrydau yma yn cael eu hadlewyrchu mewn amryw o atebion gan y cyfranogwyr i'r cwestiwn hon yn dangos bod y traddodiad yn cael ei gadw ato gan nifer o deuluoedd gwahanol oddi fewn i'r gymuned mae'n debyg. I rai teuluoedd, mae'n amlwg bod rhyw cyn priodi yn ffordd i amharchu y teulu. Nid pob cyfranogwr a gyfeiriodd at y traddodiad yma er hynny. Gall hyn awgrymu bod rhai teuluoedd ddim yn gweld y traddodiad mor bwysig â hynny erbyn hyn. Neu, ar y llaw arall, mae'n bosibl bod y cyfranogwyr wedi rhestru rhai traddodiadau maent yn cadw atynt yn hytrach na rhestru'r holl draddodiadau a allai fod yn rhestr hir iawn. Roedd rhyw cyn priodi yn digwydd yn aml yng Nghymru'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, sy'n cael ei adlewyrchu yn Comisiwn Llafur 1893, sy'n nodi bod 114 o bob 1,000 genedigaeth rhwng 1884-1888 yn blant anghyfreithlon.[531] Mae Stevens yn honni bod ffactorau fel y darlun o anfoesoldeb y Cymry yn y Llyfrau Gleision yn 1847, sef adroddiad i gyflwr addysg Cymru, wedi cyfrannu at newidiadau cymdeithasol yng Nghymru ac annog mwy o diweirdeb, gyda rhyw cyn priodi yn cael ei ddarlunio fel defod

[531] Stevens, *Welsh Courting Customs,* t.41.

dosbarthiadau is.[532] Gwelwyd bod tuedd tuag at ymddygiad carwrol fwy moesol a cheidwadol wedi tyfu yng Nghymru, a mae'n bosibl bod hyn wedi cael effaith ar y gymuned Sipsi. Mae'r Sipsiwn fel cymuned, o brofiad personol, yn pryderu am eu hymddygiad a sut mae hynny yn effeithio ar y darlun ohonynt. Felly, fel yn achos y Cymry frodorol, mae'n bosibl bod y Sipsiwn wedi rhoi pwyslais ar beidio cael rhyw cyn priodi gan ei fod o'n cael ei weld bellach yng Nghymru fel defod anfoesol.

I ychwanegu, mae Horder a Davies yn awgrymu nid oes llawer o Sipsiwn a Theithwyr ifanc yn gwario llawer o amser i ffwrdd o'i rhieni cyn priodi.[533] Mae hyn yn creu bywyd cysgodol, gyda'r bwriad o'r merched beidio cael eu heffeithio gan arferion y gymuned allanol. Gwelwn fod purdeb y merched yn hanfodol yn y presennol hefyd. Yn ôl Casey, yn aml mae'r merched sydd yn cael rhyw cyn priodi yn cael eu diarddel o'r gymuned a'u hanwybyddu gan y merched eraill.[534] Nid yw'r merched eraill eisiau i'w enw da cael ei effeithio gan y ferch dramgwyddus. Yn y rhaglen MBFGW wedi i Roseanne a'i chariad redeg ymaith gyda'i gilydd, roedd angen iddynt briodi mor sydyn â phosibl er mwyn gwarchod enw da'r teulu.[535] Y bwriad oedd iddynt briodi o fewn yr wythnos, er mwyn sicrhau nid oedd unrhyw effaith negyddol yn erbyn anrhydedd y teulu. Gall chwiorydd y ferch sy'n rhedeg ymaith erbyn hyn cael eu heffeithio'n negyddol hefyd, gyda dynion yn cadw i ffwrdd oddi wrthynt oherwydd sgandal eu chwaer. Gwelwyd bod rhedeg ymaith yn gallu effeithio ar y teulu cyfan ar wahân i'r cwpl ei hunain. Mewn rhai achosion, caiff y ferch ei ddiarddel o'r teulu a'r gymuned yn

[532] Stevens, *Welsh Courting Customs*, tt.97-98.
[533] R. Horder a J. Davies, 'Working with Gypsy and Traveller children and young people', *safle wê YoungWales*, http://www.youngwales.wales/images/Blast_Off_16_Working_with_Gypsy_and_Traveller_Children_and_Young_People.pdf (golwg diwethaf-31/10/19), t.13.
[534] Casey, ''Caravan wives' and 'decent girls': Gypsy-Traveller women's perceptions of gender, culture and morality in the North of England', t.17.
[535] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 2-Episode 5, *Channel 4 boxset*, 02:05.

gyfan gwbl. Mae hyn yn esbonio pam bod rhedeg ymaith yn llai o atyniad erbyn hyn yn y gymuned.

Yn draddodiadol, roedd merched Sipsi yn tueddu i briodi'n ifanc iawn, yn aml erbyn eu penblwydd yn un ar bymtheg oed. Yn yr 1950au ym Mhrydain, roedd priodi'n ifanc yn gyffredin o hyd.[536] Yn yr 1950au a'r1960au, amcangyfrifwyd mai oedran tebygol i briodi oedd dwy ar hugain i ferch a phedwar ar hugain i ddyn.[537] I nifer o ferched yn y gymuned Sipsi, nid yw'r traddodiad yma wedi dirywio gyda phriodasau cyn ugain oed yn gyffredin iawn o hyd. Darluniwyd hyn gan gyfranogwyr yn yr ymatebion i gwestiwn tair ar ddeg yr holiadur 'A yw priodas Sipsi yn wahanol i briodas person nad yw'n Sipsi? Os ydi, sut?'. Yng ngeiriau'r cyfranogwyr,

> 'Gypsy marriages are often arranged and we marry young.'
>
> 'I perceive it to be an expectation at a younger age'
>
> 'Marry really young'

Er nid yw priodi'n ifanc yn gyffredin ym mhob teulu, y mae niferoedd eang yn credu yn y traddodiad ac yn ceisio ei gwblhau. Mae'r dyfyniad cyntaf yn ddiddorol gan ei fod yn awgrymu bod priodasau wedi eu trefnu yn parhau i ddigwydd yn y gymuned. Nid yw hyn yn syndod i raddau helaeth gan fod nifer o rieni eisiau i'w plant briodi Sipsiwn yn unig a chadw'r diwylliant ar wahân. Mae'r ail ddyfyniad yn darlunio'r syniad bod priodi'n ifanc yn ddisgwyliad cyffredin yn y gymuned. Yn y gymuned, mae pobl ifanc yn dod i oed aeddfedrwydd yn fuan, yn eu harddegau cynnar. Mae'r bobl ifanc Sipsi wedi eu hymddiried ynddynt i weithio a gwneud tasgau aeddfed fel gofalu am blant iau neu gyfrannu at y busnes teuluol o oedran ifanc. Roedd y Sipsi Seisnig Harriet Hall yn helpu i ofalu am naw o frodyr a

[536] N. Charles, *Gender in Modern Britain* (Rhydychen, 2002), t.46.
[537] Draisey, *Women in Welsh History*, t.174.

chwiorydd iau ar ddechrau'r ugeinfed ganrif.[538] Nid yw hyn yn annhebyg i fywydau rhai merched ifanc Sipsi hyd heddiw. Golyga hyn fod priodasau buan yn fwy cyffredin, wrth i bobl ifanc ystyried eu hunain fel annibynnol ac aeddfed yn ifanc iawn. Roedd un o'r merched ifanc oedd wedi comisiynu ffrog briodas gan Thelma Madine yn priodi'n un ar bymtheg oed.[539] Mae'r oedran yma yn gyffredin i nifer o ferched Sipsi, gyda'r mwyafrif yn priodi cyn gynted â phosibl wedi eu penblwydd yn un ar bymtheg oed. Mae rhai o'r astudiaethau am addysg Sipsiwn, er enghraifft gwaith Hamilton, yn dangos bod rhai merched yn eu harddegau ifanc yn gweld addysg yn wastraff amser gan eu bod yn bwriadu priodi o gwmpas un ar bymtheg oed a dibynnu ar eu gŵr am yr incwm.[540] Yn ôl Marcus, ystrydeb gyffredinol yw'r syniad bod y merched Sipsi eisiau priodi a geni plant yn unig yn eu bywydau.[541] Er hyn, mae'r syniadau yma am ddyletswyddau'r ferch wedi eu treiddio i nifer o'r merched hyn drwy gydol eu bywydau. Mae pwysau ar y genethod mewn rhai teuluoedd i adael yr ysgol yn fuan a phriodi.[542] Nid oes unrhyw opsiwn arall yn cael ei hyrwyddo i nifer o'r merched. Mae Hamilton yn pwysleisio bod disgwyl i Sipsiwn ifanc fod yn barod i weithio, bod yn economaidd annibynol a phriodi erbyn oed gadael ysgol.[543] Maent yn cael eu hyfforddi am y dyletswyddau hyn o oedran ifanc iawn. Mae hyn yn golygu bod traddodiadau yn parhau, gyda merched yn tueddu i briodi'n ifanc yn y gymuned o hyd.

[538] Davies, *Tales of the Old Gypsies*, t.38.
[539] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.119.
[540] Hamilton, 'School books or wedding dresses? Examining the cultural dissonance experienced by young Gypsy/Traveller women in secondary education', t.835.
[541] G. Marcus, 'Marginalisation and the Voices of Gypsy/Traveller Girls', *Cambridge Open-Review Education Research e-Journal*, Vol.1 (2015), t.59.
[542] S. Cemlyn et al., 'Inequalities experienced by Gypsy and Traveller communities: A review', *University of Britstol, Buckinghamshire New University, Friends, Families and Travellers-Equality and Human Rights Commission*, https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/research_report_12inequalities_experienced_by_gypsy_and_traveller_communities_a_review.pdf (golwg diwethaf-31/10/19), t.224.
[543] P. Hamilton, 'Engaging Gypsy and Traveller pupils in secondary education in Wales: tensions and dilemmas of addressing difference', *International Studies in Sociology of Education*, Vol.27 (2018), t.6.

Cyn priodi, mae angen i'r bachgen ofyn caniatâd tad y ferch.[544] Mae'r broses yma yn sicrhau bod patriarchiaeth yn parhau yn y gymuned. Patriarchaeth yw'r broses o ddynion yn rheoli rhanbarth merched.[545] Y dynion sydd a'r pŵer goruwch, gyda'r merched yn cael eu trin yn israddol. Yn yr oes fodern gynnar yn Lloegr roedd academyddion yn tueddu i amlinellu ffiniau rhywedd yn eu gweithiau, gan drosglwyddo'r tasgau domestig i'r merched.[546] Gan mai clerigwyr oedd yr academyddion hyn yn aml, nid yw'n syndod bod merched yn cael eu hisraddio yn eu gweithiau. Yn y gymuned Sipsi, y syniad yw bod y ferch yn trosglwyddo o gyfrifoldeb y tad i'r gŵr wedi'r briodas. Yn draddodiadol, roedd y broses yma yn sicrhau cynghreiriau rhwng teuluoedd a chymorth mewn amseroedd o drybini. Awgrymir bod y briodas yn fath o ymdriniaeth busnes rhwng y dynion, gyda'r ferch fel y wobr yn y pen draw. Wedi'r briodas, roedd y cwpl newydd yn symud i garafán neu cartref eu hunain ac yn gweithredu ar wahân.[547] Dyma sicrhau bod y bobl ifanc yn aeddfedu a ddim yn fyrdwn i'w rhieni.

Yn ddiddorol, pan briododd y Teithiwr Gwyddelig Paddy Doherty, pwysodd ei wraig newydd ef i gynilo a gweithio'n galed, gan ei wneud yn fwy cyfrifol.[548] Y mae pwysau ar ddynion Sipsi i ddarparu ar gyfer eu teulu yn ogystal. Gwelwyd bod rhai merched yn y gymuned Sipsi a Theithwyr yn gallu cael dylanwad eang ar eu gwŷr wedi eu priodas. Roedd dynion oedd yn methu â darparu ar gyfer eu teuluoedd yn yr oes fodern gynnar yn Lloegr yn derbyn beirniadaeth.[549] Mae hyn yn wir yn y gymuned Sipsi a'r gymuned Teithio hyd heddiw. Felly, mae dylanwad y wraig yn hanfodol wrth annog ei gŵr i fynd i weithio a darparu yn ariannol. Gall effaith gwraig sicrhau bod dynion yn y gymuned yn setlo gydag un ferch a bod yn

[544] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 2-Episode 7, *Channel 4 boxset*, 1:39:49.
[545] S. Kendall, 'Sites of resistance: places on the margin-the Traveller 'homeplace'', yn T. A. Acton (gol), *Gypsy politics and Traveller identity* (Hertfordshire, 1997), t.81.
[546] B. S. Capp, *When Gossips Meet: Women, Family and Neighbourhood in Early Modern England* (Rhydychen, 2003), t.26.
[547] Okely, *The Traveller-Gypsies*, t.61.
[548] P. Doherty, *Hard Knocks& Soft Spots* (Edbury, 2012), tt.103-106.
[549] Capp, *When Gossips Meet: Women, Family and Neighbourhood in Early Modern England*, t.88.

gyfrifol, gan eu bod a dyletswydd fawr wrth orfod darparu ar gyfer eu gwraig a teulu newydd. Rôl y gŵr newydd yw darparu'r cartref fyddai'r cwpl yn symud iddi wedi'r briodas.[550] Mae hyn yn gyfle i ŵr newydd brofi ei werth i'w wraig newydd a'i theulu. Y mwyaf o arian oedd y gŵr yn gwario ar y cartref y gorau i'w enw da.

Casgliad adran priodasau

Gyda phriodasau, daw bywyd teuluol, a gyda hynny mae angen i'r cwpl ddarganfod cartref sy'n ei siwtio nhw. Yn anffodus, mae'r cartref i nifer o ferched Sipsi wedi datblygu i fod yn garchar. Erbyn heddiw, mae'r mwyafrif o ferched Sipsi un ai yn byw ar safleoedd gwersylla parhaol neu mewn tai. Mae'r amser ble roedd y Sipsiwn yn gallu teithio ledled y wlad wedi dirywio i'r rhan fwyaf o'r gymuned. Amlinellodd y Sipsi Cymraeg, Raymond Lock, bod teithio wedi dod yn broses anodd dros y blynyddoedd.[551] Gyda deddfau llym y llywodraeth ynghylch teithio a gwersylla, nid yw hyn yn syndod. Yn ail gyfres y sioe MBFGW, penderfynodd y Teithiwr Gwyddelig Mary setlo mewn tŷ wedi iddi gael ei symud ymlaen pum deg o weithiau mewn un flwyddyn.[552] Mae'n glir i'w weld bod pwysau mawr ar y Sipsiwn a Theithwyr i setlo mewn un lle penodol. Er hynny, ar y safleoedd gwersylla parhaol gall y Sipsiwn sicrhau parhad eu traddodiadau gan mai unigolion o'r gymuned sydd yn byw arnynt. Yn aml mae chwiorydd, mamau, neiniau a cyfnitherod yn byw ar yr un safle, gyda theimlad clos a chymunedol. Yn ôl Cressy, roedd y Sipsiwn pob amser wedi teithio mewn grŵp teuluol ehangach.[553] Yn y safleoedd parhaol, mae'r traddodiad yma yn gallu parhau, gyda chenhedloedd o'r run teulu yn byw arnynt. Mae'r profiad o fagu plant ymysg eu cymuned a diwylliant eu hunain ar y safleoedd parhaol felly yn atyniad i nifer o Sipsiwn. Mae'n ffordd o roi'r gorau i deithio, ond hefyd dal gafael ar ddiwylliant. Yn aml, mae byw

[550] Cannon, *Gypsy Princess-The true story of a Romany childhood*, t.194.
[551] 'The Gypsies next door-Season 1-Episode 2', *Channel 5*, https://www.my5.tv/the-gypsies-next-door/season-1/episode-2 (golwg diwethaf-30/03/20), 20:20.
[552] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 2-Episode 2, *Channel 4 boxset*, 1:14:50, 1:28:08.
[553] D. Cressy, *Gypsies: An English History* (Rhydychen, 2018), t.234.

ymysg y gymuned yn cael ei ffafrio oherwydd pryder ynghylch gwrthdaro gyda cymunedau allanol.[554] Y mae niferoedd eang o Sipsiwn a Theithwyr wedi cael profiadau gwael gyda'r awdurdodau a chymunedau allanol, fel bod drwgdybio wedi tyfu. Er dyletswyddau eang merched yn y cartref, mae'r safleoedd parhaol yn sicrhau bod nifer o unigolion eraill o gwmpas i rannu heriau a hapusrwydd.[555] Gall y merched hyn helpu ei gilydd gyda dyletswyddau domestig. Mae'r merched yma'n deall ei gilydd ac yn deall gofynion eu diwylliant.

Er hynny, gwelwyd cynnydd yn y niferoedd o Sipsiwn yn symud o'r safleoedd parhaol i mewn i dai. Penderfynodd rhieni yn y rhaglen deledu *The Gypsies Next Door* a gyhoeddwyd yn 2019 symud er mwyn allu defnyddio'r wê gan fod gwaith cartref eu plant yn cael ei drosglwyddo i rieni drosto.[556] Gwelwyd bod rhai rhieni Sipsi eisiau symud i wella cyfleoedd eu plant. Yn aml, nid oes adnoddau syml ar gael ar y safleoedd parhaol megis dŵr, trydan a chawodydd, sy'n annog y symudiadau i mewn i dai. Gyda'r symudiad hwn, mae'r merched Sipsi yn colli cefnogaeth aelodau benywaidd y gymuned. Mae'r teimlad o gael eu cwmpasu gan eu diwylliant hefyd yn gallu cael ei golli. Yn ôl Nell Loveridge, bu'n anodd iddi hithau a'i gŵr setlo mewn tŷ wedi iddynt fyw mewn carafán, oherwydd colled cymdogaeth byw ar safle.[557] Gallai fod yn sioc ddiwylliannol a chymdeithasol i deulu Sipsi sydd wedi arfer byw ymysg perthnasau agos ar safle orfod symud i mewn i dŷ. Mae Kendall yn honni fod iselder yn gryf mewn merched sy'n symud i fyw i dŷ, oherwydd colled eu cymuned.[558] Symudodd y Teithiwr Albanaidd Sabrina Smith i mewn i dŷ, ond cafodd y diffyg cymdogaeth a'r arwahanrwydd effaith negyddol ar ei hiechyd meddwl, a bu'n rhaid iddi ddychwelyd i

[554] G. Picker, adolygiad o *Gypsies and Travellers in Housing: The Decline of Nomadism*, gan David Smith a Margaret Greenfields, *Roma Rights*, Vol.1 (2014), t.113.
[555] Lehti a Mattson, 'Health, attitude to care and pattern of attendance among Gypsy women-a general perspective', t.447.
[556] 'The Gypsies next door-Season 1-Episode 1', *Channel 5*, https://www.my5.tv/the-gypsies-next-door/season-1/episode-1 (golwg diwethaf-30/03/20), 05:56.
[557] Loveridge, *Gypsies-I married a Romany! Honest, Raw and Extremely Funny!* Dim rhif tudalennau.
[558] Kendall, 'Sites of resistance: places on the margin-the Traveller 'homeplace'', t.81.

garafán.[559] Mewn ymchwiliad gan Greenfields a Smith, nododd rhai merched Sipsi oedd wedi eu cartrefu eu bod yn teimlo'n unig a ddim â pherthnasau da gyda chymdogion.[560] Mae hyn yn gwbl wahanol i gymuned Sipsi ar safle parhaol, ble mae'r unigolion wedi eu huno drwy deulu, priodasau a diwylliant. Ar y safleoedd parhaol, mae'n rhaid i'r cymdogion cael perthnasau da oherwydd maint bach y safleoedd yn aml. Yn debyg iawn, symudodd nifer o deuluoedd dosbarth gweithiol Prydeinig i'r datblygiadau cyngor newydd yn yr 1950au gan olygu dirywiad diwylliannol.[561] I Morgan, roedd adeiladu'r ystadau cyngor yma mewn ardaloedd trefol a gwledig Cymru yn drawsnewid cymdeithasol bwysig.[562] Roedd y cartrefi newydd yn foethus ac yn cynnig adnoddau modern fel ystafelloedd ymolchi tu fewn. Er hyn, dirywiodd y teimlad cymdogol o'r cymunedau dosbarth gweithiol cyn yr 1950au, ble roedd merched yn helpu ei gilydd ac yn barod i glebran dros baned. Gwelir bod y newidiadau diwylliannol sy'n digwydd yn y gymuned Sipsi ar hyn o bryd wedi digwydd i'r gymuned dosbarth gweithiol ym Mhrydain yn barod, ond dros chwe degawd yn ôl. Mae Smith a Greenfields wedi cyhoeddi llyfr sy'n trafod sut mae'r Sipsiwn a Theithwyr yn ceisio addasu i fyw mewn tai, ond hefyd 'ddal gafael ar eu traddodiadau hwythau.[563] Mae'n anodd i unigolion sydd wedi arfer byw bywyd teithiol addasu i sefyllfa hollol wahanol. Mae'n debygol bod hyn yn creu gwrthdaro oddi fewn i'r teulu, ond hefyd hefo cymdogion. Gall fod yn anodd i gymunedau ddeall arferion ei gilydd, sy'n gallu creu trafferthion ymysg cymdogion.

I ferched nid yw'n Sipsiwn sy'n priodi i mewn i'r gymuned, ac yn symud i fyw ar safle gwersylla parhaol, mae'r broses yn gallu bod yn anodd hefyd. Mae'n sioc ddiwylliannol

---

[559] 'Episode 18-Sabrina's Story (10/05/19)', *On the Road-Podcast for Gypsy, Roma and Traveller Communities*, fersiwn ar lein, http://ontheroadradio.libsyn.com/sabrinas-story-episode-18 (golwg diwethaf-27/09/19), 17:20.
[560] M. Greenfields a D. M. Smith, 'Housed Gypsy Travellers, Social Segregation and the Reconstruction of Communities', *Housing Studies*, Vol.25 (2010), tt.403-404.
[561] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950s*, t.244.
[562] P. Morgan, *Wales: An Illustrated History* (Gloucestershire, 2005), tt.278-279.
[563] Picker, adolygiad o *Gypsies and Travellers in Housing: The Decline of Nomadism*, gan David Smith a Margaret Greenfields, t.114.

enfawr i orfod gadael tŷ a byw ar safle, heb adnoddau syml yn aml ac mewn carafannau clos. Wedi priodas Samantha a Patrick ar MBFGW, roedd Samantha yn teimlo'n unig ar y safle oherwydd y diffyg pobl ifanc arno.[564] Gwelwyd bod ffurfio cartref eich hunan ddim yn broses hawdd i bob merch yn y gymuned, un ai'r Sipsiwn benywaidd neu'r Gorgio sy'n priodi i mewn i'r gymuned. Y naill ffordd neu'r llall, mae'r sioc ddiwylliannol yn gallu amharu ar iechyd meddwl y merched. Merched y gymuned sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan y symudiadau hyn oherwydd eu bod yn gwario y rhan fwyaf o'u hamser gartref. Mae priodas yn atyniad i nifer o ferched Sipsi, fel ffordd o ddianc oddi wrth reolaeth parhaol eu teulu.[565] Er hynny, wedi'r briodas mae'r gŵr yn cymryd lle y tad fel prif reolwr y teulu, felly nid oes llawer o newid i'r ferch. Gall y dynion adael y cartref ar unrhyw bryd, a bod i ffwrdd o'r cartref drwy'r dydd yn gweithio. Felly, nid yw'r broses cymaint o sioc ddiwylliannol iddynt hwy. I'r teuluoedd traddodiadol, wedi'r briodas, nid yw'r briodferch yn cael ymweld â ffrindiau sengl na phresennoli dathliadau heb ei gŵr.[566] Bwriad hyn yw sicrhau bod enw da'r ferch honno ddim yn cael ei gwestiynu, a'i gŵr yn osgoi cael ei gywilyddio mewn unrhyw ffordd. Cytunodd Violet Cannon, Sipsi Seisnig, yn ei hunangofiant bod merch priod ddim yn ymweld ag unrhyw ferch sengl.[567] Rhaid cofio, er hynny, bod hunangofiant Cannon yn trafod traddodiadau Sipsiwn Seisnig. Mae'n fwy na phosibl bod y traddodiad yma ddim yn digwydd yng Nghymru. Mae'n bosibl bod y rheolau llym yma i rhai merched yn achosi drwg-deimlad rhwng gŵr a gwraig. Gall hyn fod yn rheswm hir-dymor dros wahanu. Mae'r sioc yma i ferched nid yw'n Sipsiwn yn gallu cael effaith negyddol ar briodasau, a chreu gwrthdaro gyda gwŷr.

[564] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 2-Episode 4, *Channel 4 boxset*, 02:25:35.
[565] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.279.
[566] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 1-Episode 5, *Channel 4 boxset*, 1:15:16.
[567] Cannon, *Gypsy Princess-The true story of a Romany childhood*, t.236.

Ysgaru a gwahanu

Cefndir

Nid yw priodasau y Sipsiwn, er eu pwysigrwydd diwylliannol i'r gymuned, pob amser yn gweithio. Yn yr oes fodern gynnar, roedd disgwyl i wraig anwybyddu anffyddlondeb ei gŵr.[568] Nid oedd gan ferched unrhyw hawl dros eu heiddio na phlant, felly'n aml roedd anffyddlondeb y gŵr yn cael ei anwybyddu'n llwyr. Ar y llaw arall, roedd merched Sipsi anffyddlon yn gallu cael eu cosbi yn llym. Yn ôl Saiki Heron, Sipsi Seisnig, roedd Dick Heron yn clymu ei wragedd i olwyn cert, eu taro, a'u gadael yno heb ddillad os oedd yn ei amau o anffyddlondeb.[569] Mae'r enghraifft hon yn eithafol, ond yn dangos nid oedd anffyddlondeb merched yn cael eu hanwybyddu fel y dynion yn y gymuned. Roedd anffyddlondeb merch Sipsi yn fater difrifol, ac yn cael ei osgoi i raddau helaeth. Yn ddiddorol, mae Okely yn honni ei fod yn gyffredin i ddynion Sipsi gael perthnasau rhywiol tu allan i briodas gyda merched Gorgio.[570] Awgrymir nid oes unrhyw effaith i anrhydedd y dynion Sipsi am wneud hyn. Yn ôl Okely, mae merch sengl Gorgio yn cael ei hystyried gan y gymuned Sipsi fel afreolus yn rhywiol ac ar gael i ddynion.[571] Mae'r ystrydebau hyn yn golygu bod dynion Sipsi yn gallu cael perthnasau achlysurol hefo merched Gorgio heb effaith i anrhydedd eu hunain. Mae'n cael ei weld yn naturiol i dynion grwydro at y merched hyn oherwydd yr ystrydebau uchod. Yn yr ugeinfed ganrif gynnar, roedd anffyddlondeb gwraig yn rheswm dilys dros ysgaru, tra bod anffyddlondeb gŵr yn cael ei anwybyddu.[572] I nifer o ferched Sipsi, nid yw'r traddodiad hon wedi newid. Yn ôl Fonseca, mae dyn Sipsi yn gallu

[568] Capp, *When Gossips Meet: Women, Family and Neighbourhood in Early Modern England,* t.92.
[569] Thompson, 'Gypsy Marriage in England- continuation from page 129', t.155.
[570] J. Okely, 'Gypsy Women-Models in Conflict', yn S. Ardener (gol), *Perceiving Women* (Llundain, 1975), t.75.
[571] J. Okely, 'Gypsy Justice versus Gorgio Law: Interrelations of Difference', *The Sociological Review,* Vol.53 (2005), tt.691-692.
[572] Hall, 'Sexuality', t.51.

gadael ei wraig yn hawdd, tra bod merch Sipsi sydd wedi ysgaru yn debygol o briodi dyn arall sydd wedi ysgaru neu ŵr gweddw yn unig.[573] Gwelir bod pechod ysgaru yn berthnasol i ferched Sipsi yn unig yn ôl astudiaeth Fonseca. Mae hyn yn dangos y gwahaniaeth o ran rhywedd, wrth i ysgaru peidio cael effaith negyddol ar obeithion priodasol dynion Sipsi, tra bod gobeithion y merched wedi eu cyfyngu. Sipsiwn tu hwnt i Brydain y mae Fonseca yn cyfeirio atynt yn ei gwaith rhan amlaf er hynny ac mae'n bosibl bod y wybodaeth ddim yn berthnasol i Sipsiwn Cymru a Prydain.

Drwy ysgaru yn yr ugeinfed ganrif gynnar, roedd merched yn gallu colli eu plant, hawl economaidd a hawl i ail-briodi yn gyffredinol ym Mhrydain.[574] Dyma faterion difrifol oedd angen i ferch cymryd i ystyriaeth cyn meddwl ysgaru. I'r merched oedd yn cael eu gadael gan eu gwŷr neu yn weddwon yn yr ugeinfed ganrif gynnar, roedd ail-briodi yn anhebygol hefyd.[575] Byddai angen i'r ferch fod yn gyfrifol am ei theulu cyfan yn yr achosion hyn yn aml. Erbyn 1953 hyd yn oed, roedd unigolyn oedd wedi ysgaru yn haenau uwch y gymdeithas yn cael eu gwahardd rhag digwyddiadau cyhoeddus all cael eu presennoli gan aelodau o'r teulu Brenhinol.[576] Roedd y weithred yma yn anelu at ferched a dynion. Triniwyd yr unigolion yma fel haint allai cael effaith negyddol ar weddill y gymdeithas. Yr oedd unrhyw berson nid oedd yn cydymffurfio i ofynion derbynion cymdeithasol a byw bywyd delfrydol yn derbyn gormes. Gwelir bod bywydau merched yn yr ugeinfed ganrif gynnar yn gallu bod yn heriol tu hwnt. Mae merched yn y gymuned Sipsi yn y presennol yn ofni colli eu plant i wasanaethau cymdeithasol os mai trais yw'r rheswm dros yr ysgaru hefyd. Yn ogystal, nid yw nifer o'r merched wedi gweithio erioed, felly heb arfer ennill cyflog eu hunain. I ychwanegu, mae'r ofn o golli cefnogaeth cymuned a theulu yn golygu bod merched y

[573] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.134.
[574] Capp, *When Gossips Meet: Women, Family and Neighbourhood in Early Modern England*, t.114.
[575] H. Jones, 'The State and Social Policy', yn I. Z. Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), t.321.
[576] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950s*, t.40.

gymuned yn osgoi ysgaru. Ysgrifennodd Gibson yn 1897 am safle'r ferch, gan amlinellu bod merch methu ysgaru oherwydd anffyddlondeb ei gŵr ac yn gorfod profi trosedd er mwyn ysgaru yn gyfreithiol.[577] Nid oedd hyn yn wir i ddynion, sy'n dangos anhafalrwydd o ran hawliau'r ddau rywedd. Yn 1897, nid oedd gan ferched hawl i bleidleisio eto, felly mae'r syniadau uchod yn gwneud synnwyr yng nghyd-destun yr oes. Erbyn 1937, roedd cwpl yn gallu ysgaru oherwydd enciliad, creulondeb a gwallgofrwydd yn ôl Lewis.[578] Er iddo ddod yn haws i ferched allu ysgaru eu gŵyr, roedd angen tystiolaeth gadarn er mwyn sicrhau bod y gwahanu yn digwydd. Nid yw anffyddlondeb yn cael ei grybwyll, gan ddangos nid oedd yn cael ei hystyried yn broblem digon pwysig i ysgaru drosto.

Enghraifft ddiddorol o ferch Sipsi yn ysgaru oedd Esmeralda Lock a briododd ac ysgarodd yr academwr Sipsiwn, Francis Hindes Groome yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg hwyr.[579] Dyma enghraifft o ddyn Uchelwrol yn cael ei atynnu gan y ferch Sipsi hudolus, a'r ferch Sipsi yn cael ei hatynnu gan y syniad o fyw bywyd cyfoethog. Wedi cyfnod o fod yn briod er hynny, dirywiodd y briodas. Yn ôl Yates, roedd Esmeralda eisiau dychwelyd at ei phobl ei hun a bywyd o ryddid.[580] Er bod yr enghraifft yma allan o fframwaith yr ymchwiliad hwn, mae'n bwysig i ddangos bod ysgaru yn digwydd yn y gymuned. Y rheswm dros ddefnyddio'r enghraifft yma yw iddo gael lot o sylw gan gyfryngau ei gyfnod. Yn aml, mae'n anodd darganfod esiamplau o ysgaru yn y gymuned, gan iddo gael ei distewi i beidio cywilyddio'r cwpl.

Cyn deddf diwygio ysgaru yn 1969, oedd yn ei wneud yn haws i ferched allu ysgaru eu gŵyr, roedd merched oedd eisiau gwahanu yn gorfod gadael eu cartref o fewn tri mis.[581] Yn y

[577] J. Gibson, *The Emancipation of Women* (Llundain, 1897), t.10.
[578] Lewis, 'Marriage', t.79.
[579] Yates, *My Gypsy Days- Recollections of a Romani Rawnie*, t.99.
[580] Yates, *My Gypsy Days- Recollections of a Romani Rawnie*, t.105.
[581] C. Smart, *The ties that bind-law, marriage and the reproduction of patriarchal relations* (Llundain, 1984), tt.32-41.

bedwaredd ganrif ar ddeg roedd dirymiad oedd yn golygu bod priodas heb gymryd lle o gwbl yn gallu digwydd.[582] Er hyn, erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd ysgaru yn derbyn beirniadaeth llym. Mae'n debyg bod hyn oherwydd twf syniadau Cristnogol am ffurfioldeb priodasau. Dim ond ar ôl 1977 oedd merched di-gartref oherwydd trais domestig yng Nghymru â'r hawl i gael eu hail-gartrefu.[583] Mae Bargielowska yn honni bod y canrannau uchel o ysgaru o'r 1970au ymlaen ym Mhrydain yn adlewyrchu twf mewn annibyniaeth i ferched.[584] Wrth i ferched cael mwy o annibyniaeth, efallai wrth gallu mabwysiadu swyddi, roedd twf yn y cwplau oedd yn ysgaru. Gallai hyn ddangos bod ysgaru yn opsiwn bellach i'r merched oedd mewn priodasau anhapus, oherwydd iddynt allu darparu i'w hunain a'u plant yn economaidd heb gymorth eu gwŷr. Er hyn, i'r mwyafrif o ferched Sipsi, na fyddent hefo'r modd ariannol i sefydlu cartref pe bai priodas yn diddymu, yn ôl Arber.[585] Mae hyn yn rhoi'r argraff bod nifer o ferched Sipsi a Theithio wedi eu clymu i'w priodasau ac heb lawer o siawns o ddianc. Y mae'r pryder ynghylch sefydlu eu hunain yn annibynol yn economaidd a chorfforol yn gallu bod yn bryderus i rai merched Sipsi, sydd heb arfer bod yn annibynol.

Erbyn 1990, roedd 26% o briodasau yng Nghymru yn ail-briodasau, gyda rhieni sengl yn fwy cyffredin.[586] Yn ogystal, dim ond 13,600 o ferched yng Nghymru priododd yn 1990 o'i gymharu â 18,000 yn 1961.[587] Mae'r ystadegau uchod yn dangos bod diwygio wedi digwydd yn ail hanner yr ugeinfed ganrif i ddeddfau ysgaru Prydain. Dangoswyd bod ysgaru yn cynyddu a bod y Llywodraeth yn newid gydag amseroedd ac yn addasu i ofynion merched. Gwelwn effaith y ddeddf diwygio ysgaru yn y canranau uchod. Hefyd, mae'r ffaith bod

[582] L. Tompkins, 'Mary Percy and John de Southeray: Wardship, Marriage and Divorce in fourteenth-century England', yn G. Dodd (gol), *Fourteenth Century England X* (Suffolk, 2018), t.146.
[583] Charles, 'The refuge movement and domestic violence', t.50.
[584] Bargielowska, 'Introduction', t.13.
[585] S. Arber, 'Unequal partners: Inequality in earnings and independent income within marriage', yn L. McKie et al., (gol), *Gender, Power and the Household* (Hampshire, 1999), t.188.
[586] S. Betts, 'The changing family in Wales', yn J. Aaron et al., (gol), *Our Sisters' Land-The Changing Identities of Women in Wales* (Caerdydd, 1994), tt.18-19.
[587] D. Beddoe, *Out of the Shadows- A History of Women in twentieth century Wales* (Caerdydd, 2000), t.176.

priodasau yn gyffredinol wedi lleihau yn ddiddorol. Yn ôl Madine, mae ysgaru yn y gymuned Sipsi yn achosi llai o sgandal erbyn heddiw. [588] Gall hyn fod oherwydd i ysgaru fod yn fwy cyffredin ar draws Prydain, a bod hyn yn cael effaith ar y gymuned Sipsi drwy'r cyfryngau a'r cysylltiadau rhwng Sipsiwn a phobl nid yw'n Sipsiwn.

Trais domestig

Ar wahân i anffyddlondeb a chaethiwo merched i'r cartref, mae trais domestig yn parhau i fod yn achos sylweddol dros ysgaru ym Mhrydain. I D'Cruze, roedd trais domestig yn gyffredin i rai teuluoedd dosbarth gweithiol yn yr 1960au oherwydd gwrthdaro dros rôl ddomestig yn aml.[589] Roedd rhai dynion yn disgwyl i ferched gweithio fel caethweision ar eu rhan hwy yn y cartref, gan gyflawni pob tasg yn ôl rheolau'r gŵr. Dyma reswm dros wrthdaro mewn nifer o gartrefi, a fyddai'n arwain at drais domestig yn aml. Nid yn unig y merched dosbarth gweithiol oedd yn derbyn trais er hynny. Roedd trais domestig yn gyffredin ar draws dosbarthiadau cymdeithasol. Mewn astudiaeth oedd yn trafod bywydau Sipsiwn yn yr ugeinfed ganrif ym Mhrydain, dywedodd Davies am y Sipsi Seisnig Harriet Hall,

> 'Harriet admitted that one day after being particularly badly beaten she had harnessed the horse and cart and, taking the children with her, covered the 35-mile journey to her mum and step-dad in a day.'[590]

Nid yn unig yw'r dyfyniad yma yn dangos cryfder y ferch yma wrth wynebu bywyd caled iawn, ond hefyd mae'n adlewyrchu bywydau nifer o ferched ym Mhrydain yn yr ugeinfed ganrif. Ni wnaeth Harriet adael ei gŵr, sy'n gyffredin iawn, yn enwedig ymysg y cenhedloedd hŷn. Gwelwyd bod rhai merched Sipsi wedi gorfod dioddef am flynyddoedd

[588] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.139.
[589]S. D'Cruze, 'Crime', yn I. Z. Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), tt.207-208.
[590] Davies, *Tales of the Old Gypsies*, t.42.

mewn distawrwydd er mwyn sicrhau parhad anrhydedd eu hunain a'u teulu. Pasiwyd deddf yn 1976 oedd yn galluogi gwraig i feddiannu gorchymyn i atal trais ei gŵr.[591] Er hynny, nid oedd trais rhywiol mewn priodas yn drosedd nes 1991, sy'n dangos nid oedd yn cael ei gymryd o ddifrif ym Mhrydain.[592] Mae'n anodd gweithredu deddfau fel y rhai uchod. Bu'n rhaid i'r Teithiwr Albanaidd, Sabrina Stewart, ffoi oddi wrth ei gŵr gyda'i phedwar o blant er mwyn dianc rhag trais domestig.[593] Amcangyfrifwyd y Comisiwn Hafalrwydd a Hawliau Dynol yn 2007, bod 61% o Sipsiwn Seisnig benywaidd ac 81% o Deithwyr Gwyddelig wedi derbyn trais yn eu cartref.[594] Mae'r rhain yn ystadegau enfawr. Dangosa hyn fod y broblem yn bodoli ledled Prydain, sydd efallai yn dangos pam bod ysgaru a gwahanu wedi cynyddu yn y gymuned yn ddiweddar. Er hyn, nid yw'r ystadegau yn cynnwys Sipsiwn Cymru, felly mae'n anodd gwybod pa ganran o unigolion sy'n wynebu trais yn y gymuned yng Nghymru.

Er hynny, mae'r rhan fwyaf o'r merched sydd yn derbyn trais domestig yn tueddu i aros hefo'i gŵr, oherwydd yr ofn o gael eu gwrthod gan y gymuned neu golli eu plant. Roedd hyn yn wir yn achos y Teithiwr Rosie McKinley. Er bod y trais domestig gan ei gŵr wedi cychwyn ar enedigaeth ei plentyn cyntaf, roedd hi'n gwrthod ei ysgaru oherwydd yr ofn o cael ei diarddel gan ei chymuned.[595] Yn ôl Madine, nid yw merched y gymuned yn gweld trais fel problem yn aml, ac yn meddwl eu bod yn ei haeddu.[596] Dyma'r ffordd mae nifer o'r merched yma wedi cael eu magu. Dyma'r agwedd wedi'i drosglwyddo iddynt gan ferched eu cymuned. Nid yw trais yn cael ei hystyried yn destun o bwys, ond yn rhan cyffredinol o fywyd merch Sipsi. Nad yw nifer o loches i ferched sy'n ffoi oddi wrth drais domestig yn

[591] H. L. Smith, 'The Women's Movement, Politics and Citizenship, 1960s-2000', yn I. Z. Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), tt.280-281.
[592] Ibid, t.208.
[593] 'Episode 18-Sabrina's Story (10/05/19)', *On the Road-Podcast for Gypsy, Roma and Traveller Communities*, 31:57.
[594] J. Bindel, 'The big fat truth about Gypsy life', *The Guardian*, fersiwn ar lein, https://www.theguardian.com/lifeandstyle/2011/feb/25/truth-about-gypsy-traveller-life-women (golwg diwethaf-25/10/19).
[595] McKinley, *Gypsy Girl-A life on the road, A journey to freedom*, t.156, t.210.
[596] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.141-153.

darparu ar gyfer teuluoedd mawr.[597] Gan fod y rhan fwyaf o ferched Sipsi â niferoedd uwch-gyfartaledd o blant, nid yw gadael rhai ohonynt ar ôl gyda'r gŵr yn opsiwn. Yn ôl Pwyllgor Merched a Hafalrwydd y Tŷ Cyffredin mae nifer o'r merched yn y gymuned Sipsi wedi eu magu i feddwl bod eu gwŷr â'r hawl i gael rhyw hefo nhw ar unrhyw bryd.[598] Pwysleisia hyn fod y gymuned yn batriarchaidd, gyda dynion yn mabwysiadu'r dylanwad mwyaf yn y briodas. Nid yw'r merched yma â llawer o ddewis dros weithredoedd, sy'n hawl dynol. Mae newidiadau angen cymryd lle i wella'r adnoddau a gwasanaethau sydd ar gael i ferched Sipsi a Theithio sy'n gwynebu trais domestig.

I ychwanegu, mewn dogfen wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, amlinellwyd bod angen gwella'r gefnogaeth i unigolion sy'n derbyn trais domestig yn y cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr yng Nghymru.[599] Nid yw trais domestig yn weithred fodern mewn priodasau ym Mhrydain ychwaith. Dyma her sydd wedi cael ei gwynebu gan ferched am ganrifoedd. Yn yr oes fodern gynnar, roedd dynion o bob dosbarth cymdeithasol yn treisio eu gwragedd.[600] Yn wahanol i'r gymuned Sipsi er hynny, roedd y merched yma yn ôl Capp yn gallu troi at gymdogion am gymorth a llety.[601] Yn aml, roedd cymdogion yn barod i dystio yn erbyn y troseddwr yn y llysoedd, felly roedd cyfeillion yn gallu bod yn hanfodol i ferched yr oes. Gwelwyd bod trais domestig yn cael ei feirniadu yn yr oes, yn hytrach na'i dderbyn, sy'n gwrthwynebu'r syniad o batriarchaeth lwyr yn yr oes fodern gynnar. Mae'r gymuned Sipsi yn tueddu i anwybyddu trais domestig oherwydd nid yw'n arferiad i gymryd diddordeb ym

[597] 'Supporting Gypsies and Travellers living with domestic violence', Taflen wybodaeth wedi'i greu gan, *Friends, Families and Travellers*, http://www.gypsy-traveller.org/wp-content/uploads/file/10_06_09%20DV%20leaflet.pdf (golwg diwethaf-31/10/19).
[598] 'House of Commons Women and Equalities Committee-Tackling inequalities faced by Gypsy, Roma and Traveller communities', t.53.
[599] 'Enabling Gypsies, Roma and Travellers report', *Llywodraeth Cymru*, https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-02/enabling-gypsies-roma-and-travellers_0.pdf (golwg diwethaf-31/10/19), t.14.
[600] Capp, *When Gossips Meet: Women, Family and Neighbourhood in Early Modern England,* t.103.
[601] Ibid, t.107.

musnes teuluol person arall. Golyga hyn fod nifer o ferched a dynion yn dioddef mewn distawrwydd.

I ymhelaethu ar hyn, mae ymgyrchwyr yn yr Alban yn cytuno bod angen gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i ferched o'r gymuned Teithio a Sipsi yn y wlad. Yn ôl Sabrina McDonagh, sy'n Deithiwr Albanaidd, nid yw'r gefnogaeth sydd ar gael yn siwtio anghenion y merched, er enghraifft y ffaith bod nifer o'r merched erioed wedi byw yn annibynol felly'n ofni trafferthion ariannol.[602] Mae angen gwasanaethau i annog merched Sipsi i ddod yn fwy annibynol, yn economaidd yn enwedig. Gallai hyn olygu bod mwy o ferched Sipsi yn dewis gadael partneriaid treisiol yn hytrach nac aros yn y cartref oherwydd diffyg arian a chysylltiadau. Mae un ferch Teithio a ysgarodd a'i gŵr oherwydd trais domestig yn gweithio i gefnogi merched eraill o'r gymuned sy'n gwynebu profiadau tebyg.[603] Syniad Tina yw bod dirywiad ffordd o fyw, er enghraifft diffyg ceffylau, teithio a chymysgu â phobl anghywir yn golygu bod iechyd meddwl dynion yn y gymuned wedi dirywio hefyd ac achosi mwy o drais domestig.[604] Mae'r awgrym yma yn gwneud synnwyr, ond mae angen ymyrraeth enfawr i sicrhau bod y trais yma sydd mewn canrannau uchel ddim yn parhau.

Enghreifftiau o ysgaru

Ceir enghreifftiau penodol o ysgaru yn y gymuned. Yn hunangofiant y Sipsi Seisnig, Violet Cannon, dysgwn fod yr awdures wedi ysgaru â'i gŵr cyntaf yn 2011.[605] Cafodd Violet barti i ddathlu ei ysgariad, gyda theisen enfawr a ffrog ysgaru oedd wedi'i ail-greu allan o'i ffrog

[602] S. McDonagh, 'Addressing Domestic Violence', *Traveller Times*, fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/features/addressing-domestic-violence (golwg diwethaf-17/11/19).
[603] 'Episode 4-Escaping Domestic Violence: Tina's Story (22/11/18), *On the Road-Podcast for Gypsy, Roma and Traveller Communities*, fersiwn ar lein, http://ontheroadradio.libsyn.com/escaping-domestic-violence-tinas-story-episode-4 (golwg diwethaf-02/03/20).
[604]'Episode 4-Escaping Domestic Violence: Tina's Story (22/11/18), *On the Road-Podcast for Gypsy, Roma and Traveller Communities*, fersiwn ar lein, http://ontheroadradio.libsyn.com/escaping-domestic-violence-tinas-story-episode-4 (golwg diwethaf-02/03/20), 14:15.
[605] M. Shaw, 'Intersecting stories and gender support systems in Violet Cannon's Gypsy Princess: The true story of a Romany childhood', *Romani Studies*, Vol.28 (2018), t.222; Cannon, *Gypsy Princess-The true story of a Romany childhood*, t.366.

briodas.[606] Cafodd y ffrog briodas ei ddeio yn binc a'i leihau, gan ddangos amcanusrwydd a llawenhad yr awdures.[607] Dyma ddarlun tebyg i'r dathliadau priodasol yn y rhaglen MBFGW, gyda'r ffrog a theisen enfawr. Mae Cannon yn defnyddio'r traddodiadau hyn ac yn eu haddasu i ddathlu ei ysgariad. Mae'r weithred yma yn cael ei feirniadu yn y gymuned fel arfer. Mae hanes Cannon er hynny yn dangos bod rhai merched yn gwneud y mwyaf o'r sefyllfa ac yn dathlu diwedd perthynas nid oedd yn gweithio. Roedd gan Cannon gymorth a chefnogaeth ei theulu, sy'n bwysig iawn i ferched Sipsi. I'r merched sy'n pryderu cael eu diarddel o'r gymuned a'r teulu am wahanu gyda'u gŵyr, mae ysgaru yn broses ofnus a phryderus tu hwnt. Mewn episod o *Gypsy Kids-Our Secret World*, mae'r testun o ysgaru yn cael ei drafod gan ddangos bod rhai merched yn symud i mewn i dai gyda'u plant wedi'r gwahanu.[608] Yn ogystal, trafodwyd ysgariad rhieni Bridgett, un o'r briodferch yn MBFGW oherwydd trais.[609] Dangosa hyn fod ysgaru yn fwy poblogaidd erbyn hyn ymysg rhai teuluoedd yn y gymuned, yn enwedig os oes trais yn cymryd lle. Mae'n bosibl bod agweddau yn newid gydag amser, gan ei wneud yn fwy derbyniol i ysgaru.

Enghraifft arall yw Pricilla, Teithiwr Gwyddelig, a ysgarodd ei gŵr a chael plant allan o briodas.[610] Am hyn collodd hi chefnogaeth ei theulu yn gyfan gwbl. I'r merched Sipsi a Theithio sy'n dewis priodi'n ifanc mae Madine yn honni nid ydynt wedi eu paratoi ar gyfer cael perthynas.[611] Yn aml, mae'r merched yma yn breuddwydio am y briodas orau o oedran ifanc iawn a ddim yn meddwl llawer am y realiti o fyw oddi wrth ei rhieni. Mae'r ffaith eu bod yn cael eu diogelu a'u cadw oddi wrth fechgyn i raddau helaeth hefyd yn ychwanegu at y ffaith bod y merched yma ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl amdano mewn perthynas gwir.

---

[606] Shaw, 'Intersecting stories and gender support systems in Violet Cannon's Gypsy Princess: The true story of a Romany childhood', t.231.
[607] Cannon, *Gypsy Princess-The true story of a Romany childhood*, t.367.
[608] 'Episode 3: Gypsy Kids-Our Secret World-Season 1 2016', *Channel 5*, fersiwn ar lein, https://www.my5.tv/gypsy-kids-our-secret-world/season-1/episode-3 (golwg diwethaf-25/10/19), 14:45.
[609] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 1-Episode 3, *Channel 4 boxset*, 1:54:26.
[610] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 2-Episode 5, *Channel 4 boxset*, 04:28.
[611] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.140.

Mae enghraifft Pricilla yn dangos pam bod nifer o ferched o'r gymuned Sipsi a Theithwyr yn gwrthod ysgaru, oherwydd yr ofn o golli cysylltiad hefo'i teuluoedd. I ferched sydd wedi cael eu gwarchod rhag y gymuned allanol ac sydd heb dderbyn addysg yn aml, mae'r syniad o adael y teulu yn anymarferol. Pwysig yw'r ffaith bod y merched hyn wedi cytuno i gael eu harddangos ar y teledu yn trafod eu hysgariad, sy'n dangos hyder yn eu cymuned am gefnogaeth.

Yn ddiddorol, cawn gyfweliad gyda dyn Sipsi sydd wedi ysgaru yn MBFGW.[612] Amlinellodd George Webb bod ei gyn-wraig yn ei weld yn anodd i fyw bywyd Sipsi.[613] Mae'n bwysig cydnabod bod bywyd Sipsi yn gallu bod yn heriol tu hwnt i ferch nid yw'n Sipsi. Gallai'r rheolau a thraddodiadau sy'n rhan o'r ffordd o fyw Sipsi fod yn anodd i berson nid yw'n Sipsi ddeall a chadw atynt. Pan mae dyn Sipsi yn gadael priodas nid yw'n cael ei hystyried cymaint o sgandal.[614] Cysyllta hyn gyda'r syniad o'r dynion fel goruwch yn y gymdeithas. Mae ganddynt hwy yr hawl i ysgaru os ydynt yn ei ddewis, tra bod y merched yn cael eu hisraddio fel arfer. Dangosa hyn rhaniad rhywedd clir. Mae'r cofnod hwn yn bwysig gan ei fod yn pwysleisio syniadau nifer o Sipsiwn, sef bod cydbriodas hefo Gorgio ddim yn gweithio oherwydd gwahaniaethau'r cymunedau. Gwelwn hefyd bod rhai o ddynion y gymuned yn gweld ysgaru fel opsiwn erbyn hyn, nid rhywbeth sy'n dod â phechod i'r teulu gyfan.

<u>Casgliad adran ysgaru a gwahanu</u>

Erbyn y presennol, y mae priodas rhwng Sipsiwn yn cael ei hystyried gan yr unigolion eu hunain fel arfer fel priodas am byth. Golyga hyn fod unrhyw drafferthion fel anffyddlondeb neu drais domestig yn cael ei anwybyddu yn aml. Cyfeiriodd nifer o gyfranogwyr i gwestiwn

[612] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 2-Episode 4, *Channel 4 boxset*, 2:28:27.
[613] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 2-Episode 4, *Channel 4 boxset*, 2:28:27.
[614] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.140.

tair ar ddeg yn yr holiadur 'A yw priodas Sipsi yn wahanol i briodas person nad yw'n Sipsi? Os ydi, sut? at y syniad o briodas am byth, a'r diffyg ysgaru yn y gymuned. Yng ngeiriau rhai o'r cyfranogwyr,

> 'When we marry thats it, no changing to new people at all marriage is for life.'
>
> 'For my parents generation there was strictly no divorce, which means domestic abuse is tolerated as there is no 'out''
>
> 'in a minority of cases divorce is more common which is something that never happened you just had to get on with it.'

Mae'r dyfyniad cyntaf yn darlunio'r rheolau anhyblyg sy'n cael eu cadw atynt gan rhai teuluoedd hyd at y presennol yn y gymuned Sipsi. Mae'r agwedd llym tuag at ysgaru yn cael ei gyfleu yn y dyfyniad a'r syniad bod priodas methu cael ei ddiddymu. Mae'r ail ddyfyniad yn pwysleisio effaith y rheolau llym priodasol ar unigolion yn y gymuned. Darluniwyd bod trais domestig yn benodol yn gorfod cael ei anwybyddu, mewn cymuned draddodiadol nid oedd yn credu mewn rhoi diwedd i briodas. Fel y gwelwyd ynghynt yn y bennod yma, roedd gwahanu ac ysgaru yn digwydd yn draddodiadol yn yr ugeinfed ganrif ymysg y Sipsiwn a newid partneriaid yn eithaf cyffredin. Enghraifft o hyn oedd rhwng Saiforella Wood, o'r teulu Sipsi Cymreig enwog y Woodiaid, a Fred Price, fel y trafodwyd ar ddechrau'r bennod.[615] Syndod yw felly bod rhai teuluoedd o Sipsiwn yn y presennol yn beirniadu ysgaru cymaint. Y mae'r cyfranogwr yn yr ail ddyfyniad yn cyfeirio at y rheolau llym yng nghyd-destun cenhedlaeth ei rhieni, sydd efallai yn awgrymu bod y rheolau ddim yn berthnasol erbyn hyn i genhedlaeth y cyfranogwr. Mae'n bosibl bod ysgaru yn fwy cyffredin yn y teulu hwnnw erbyn heddiw ymysg y cenhedloedd iau. Yn olaf, mae'r drydydd dyfyniad yn ddiddorol, gan ei fod yn amlygu bod ysgaru yn broses sydd yn digwydd yn y gymuned erbyn hyn, ond mewn

[615] Thompson, 'Gypsy Marriage in England- continuation from page 129',t.152.

lleiafrifoedd. Darluniwyd priodas yn y dyfyniad fel rhywbeth oedd rhaid gweithio ato. Awgryma hyn bod yr unigolion a dewisai ysgaru yn gadael eu hunain a'u teulu i lawr wrth fethu yn eu priodasau. Mae'n ymddangos bod ysgaru yn parhau i fod yn bwnc tabŵ, testun sy'n cael ei gyfleu mewn ffordd negyddol rhan amlaf gan y cyfranogwyr. Mae'n bosibl bod ysgaru yn cael ei ddarlunio yn negyddol gan rhai unigolion oherwydd syniadau Catholig. Yn ôl Jones, nid yw priodas gyfreithlon Gatholig yn gallu cael ei ddiddymu ar wahân i drwy farwolaeth un o'r partneriaid.[616] Mae ysgaru yn cael ei feirniadu ymysg Catholigion gyda syniadau cadarn am briodasau. Gan fod nifer o Sipsiwn a Theithwyr yn Gatholigion, nid yw'n syndod bod agwedd mor negyddol tuag at ysgaru a bod ysgaru yn cael ei weld fel cymaint o sgandal. Oherwydd bod rhai teuluoedd yn y gymuned yn geidwadol tu hwnt, fel sydd wedi cael ei drafod ynghynt, byddai ysgaru yn sgandal enfawr iddynt fyddai'n achosi clebran am y teulu.

Er hyn, arferai gwahanu ac ysgaru fod yn ddigwyddiadau arferol ymysg Sipsiwn yr ugeinfed ganrif, yn enwedig yr ugeinfed ganrif gynnar. Tybed felly pam bod ysgaru wedi newid i fod yn ddigwyddiad oedd yn cywilyddio'r holl deulu? Ateb syml i hynny fyddai'r cysylltiadau agosach rhwng y Sipsiwn a chymunedau allanol dros y degawdau diwethaf yn benodol. Dim nes yr unfed ganrif ar hugain collodd ysgaru cymaint o'r stigma oedd yn cael ei gysylltu ag ef drwy'r ugeinfed ganrif ym Mhrydain. Mewn teyrnas Gristnogol a cheidwadol ar y cyfan, roedd syniadau am briodasau ac ysgaru yn llym erbyn yr ugeinfed ganrif ym Mhrydain. Roedd ysgaru yn bendant yn cael ei feirniadu. Mae'n debygol iawn bod y syniadau yma wedi treiddio i mewn i'r gymuned Sipsi, yn enwedig wrth i fwy o Sipsiwn cael eu trosi i fod yn fwy Crefyddol. Daeth priodasau yn fwy ffurfiol ac ysgaru yn ddigwyddiad negyddol. Oherwydd natur y Sipsiwn i 'ddal gafael ar draddodiadau, heb os pa mor hen yw'r traddodiadau, mae'r syniadau Crefyddol llym am briodasau yn bodoli ymysg nifer o

[616] Jones, *The Canon Law Of The Roman Catholic Church of England: 2nd Edition,* t.102.

deuluoedd Sipsi hyd heddiw. Tra bod syniadau rhai cymunedau Prydeinig wedi esblygu am ysgaru erbyn yr unfed ganrif ar hugain, nid yw'r syniadau yma wedi eu treiddio i nifer o deuluoedd Sipsi hyd yn hyn. Er hynny, mae'r enghreifftiau a drafodwyd uchod yn dangos bod ysgaru yn ddigwyddiad sydd yn digwydd erbyn hyn, a gydag amser bydd yn digwydd yn amlach mae'n debyg.

Casgliad thema priodasau, ysgaru a gwahanu

Bwriad y thema yma oedd dangos sut oedd y syniadau o gwmpas priodasau wedi newid yn y gymuned Sipsi drwy gydol yr ugeinfed ganrif. Dyma'r thema sy'n dangos, i raddau helaeth, y newidiadau mwyaf ynghylch defodau penodol sy'n cael eu defnyddio yn y gymuned. Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, roedd treialu priodasau yn digwydd yn y gymuned Sipsi yng Nghymru, a thrwy gydol yr ugeinfed ganrif roedd ffoi ymaith i briodi yn draddodiad gyffredin. Er hyn, erbyn yr unfed ganrif ar hugain roedd ffoi ymaith cyn priodi, byw gyda partner cyn priodi neu cymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol yn cael ei feirniadu yn y gymuned. Mae'r thema yma wedi dangos pam bod newid wedi digwydd yn y syniadau delfrydol am briodasau. Y prif reswm sy'n cael ei ddarlunio yw'r ffaith bod nifer o Sipsiwn bellach yn ystyried eu hunain yn Catholigion ac felly bod rheolau Catholig ynghylch gweithgareddau rhywiol yn cael eu dilyn ganddynt. Mae nifer o Sipsiwn bellach yn annog eu merched yn benodol i fod yn geidwadol tu hwnt a chadw eu hunain yn bur. Mae'n bosibl bod hyn eto wedi cael ei effeithio gan gredoau Catholig. Neu, mae'n bosibl bod teuluoedd eisiau cadw eu merched yn bur i osgoi clebran amdanynt a sicrhau bod y merched yn priodi yn dda. Mae'r thema wedi dangos mai merched yn bennaf sy'n gorfod cadw at y rheolau penodol o amgylch 'courting', sy'n cadw'r merched yma 'dan awdurdod gwrywaidd eu tad yn aml. Mae'n bosibl bod hyn yn annog merched ifanc Sipsi i briodi'n fuan er mwyn dianc oddi wrth awdurdod eu tad. Yna, pan maent yn priodi a dod 'dan awdurdod eu gwr, mae'r realiti o fyw gyda'r person hwnnw yn golygu bod gwahanu yn fwy tebygol o ddigwydd. Mae'r ffaith bod

Sipsiwn yn aml yn annog y syniad o briodasau am byth a bod bywyd priodasol yn anodd, yn enwedig i gwplau sydd heb ddod i adnabod eu gilydd yn dda cyn priodi, yn golygu bod gwahanu ac ysgaru wedi cynyddu yn y gymuned erbyn yr unfed ganrif ar hugain. Er hyn, mae ysgaru yn parhau i cael ei weld yn sgandal i nifer o deuluoedd Sipsi, sy'n wrthgyferbyniad llwyr i'r traddodiad ar ddechrau'r ugeinfed ganrif o dreialu priodasau, gwahanu ac yna ail-briodi. Mae priodasau i rhai teuluoedd bellach yn cael eu gweld fel cytundeb na ellir ei ddadwneud. Ond, mae'r thema yma wedi dangos bod priodasau ar ddechrau'r ugeinfed ganrif yn benodol yn gytundebau mwy anffurfiol.

Pennod 3: Defodau glendid a dyletswyddau domestig:

Cefndir

I nifer o ferched Sipsi, mae glendid yn rhan allweddol o'u bywydau, magwraeth a hunaniaeth. Mewn amgylchiadau clos yn y gefnwlad, roedd merched Sipsi yn gorfod cadw y teulu a'r cartref yn daclus ac yn lan. Yn ôl Mayall, roedd Sipsi pur yn cael ei hystyried yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg fel cadw at rheolau, tabŵs a chredoau'r Sipsi a bod defodau yn gallu dominyddu eu bywydau.[617] Mae'r prif waith am ddefodau glendid Sipsiwn benywaidd Prydain gan Thompson o 1922, ond yn canolbwyntio ar Sipsiwn Seisnig.[618] Mae'r gwaith yn ddefnyddiol o hyd, gan ei fod yn gallu cael ei ddefnyddio i roi cyd-destun a chefndir hanesyddol i'r pwnc hon. Er nid yw traddodiadau'r Sipsiwn benywaidd Cymreig yn cael eu trafod, mae'n bosibl defnyddio gwaith Thompson i awgrymu rhai o'r prif ddefodau glendid allai fod wedi effeithio ar ferched Sipsi ym Mhrydain oll. Awdur oedd yn ddibynnol ar waith Thompson am dabŵs yn y gymuned Sipsi oedd Fitzgerald yn ei lyfr am hanes Sipsiwn Prydain yn gyffredinol yn 1974.[619] Ychwanegodd Fitzgerald ragor o wybodaeth ei hun er hynny, gan dynnu sylw at y ffaith mai merched oedd yn cael eu cysylltu â'r defodau glendid llym yn y gymuned rhan amlaf, gan eu bod nhw'n cael eu hystyried yn llygredig i ddynion.[620] Bydd tystiolaeth bellach o waith Fitzgerald yn cael ei ddefnyddio yn y bennod yma. Bwriad y bennod yw amlygu enghreifftiau o ddefodau glendid y Sipsiwn benywaidd. Bydd yn dangos sut mai merched oedd a chyfrifoldeb llwyr yn aml dros y rheolau glendid. Hyd heddiw, mae nifer o ferched Sipsi â chyfrifoldeb llwyr dros dasgau domestig hyd yn oed os oes ganddynt swyddi yn ogystal. Bydd y bennod yn creu cymhariaeth gyda bywydau merched werin Cymru yn yr ugeinfed ganrif a hyd heddiw hefyd. Bydd yn dangos sut oedd bywydau'r

[617] Mayall, *Gypsy-travellers in nineteenth-century society,* tt.76-77.
[618] T. W. Thompson, 'The uncleanness of women among English Gypsies', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol. 1 (1922), tt.15-43.
[619] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History,* t.44.
[620] Ibid, tt.43-45.

merched o'r ddwy gymuned yn debyg i raddau helaeth o ystyried eu dyletswyddau yn y cartref.

Defodau glendid

'Mochadi'

Yn draddodiadol, roedd nifer o ddefodau glendid corfforol a moesol yr oedd Sipsiwn Prydain yn cadw atynt yn yr ugeinfed ganrif. Roedd y defodau hyn yn holl bwysig i hanes a diwylliant y gymuned ac yn cael ei symboleiddio gyda therm penodol i ddisgrifio'r rheolau glendid yn y gymuned sef 'Mochadi'.[621] Ystyr y term yw, yn llythrennol, defodau glendid. Pwrpas y rheolau oedd sicrhau purdeb moesol a chorfforol. Y bwriad oedd i osgoi llygredd ac aflendid. Y mae rhaniad clir rhwng purdeb a llygredd yn y gymuned Hindŵ yn ogystal, er enghraifft wrth iddynt ddefnyddio dŵr fel rhan o'r broses o buro.[622] Ar ôl angladd, mae teuluoedd Hindŵ yn cael bath fel rhan o ddefod glendid, ac y mae'r teulu agos yn cael eu hystyried yn llygredig am rai dyddiau wedi'r digwyddiad.[623] Y mae'r gwaith hwn yn amlinellu sut mae'r cymunedau Sipsi a Hindŵ yn rhannu defodau tebyg. Mae'r tebygrwydd wrth ystyried pwyslais y ddwy gymuned ar lendid a'r syniadau am lygredd yn ddiddorol tu hwnt ac yn ychwanegu at y syniad bod cysylltiad hir-dymor rhyngddynt. Yn gyffredinol, roedd pobloedd gyntefig yn credu mewn defodau glendid oherwydd yr ofn o aflonyddu ysbrydion drwg.[624] Roedd glanhau a chadw lleoedd sanctaidd yn bur yn ffordd o gadw'r ysbrydion yn hapus. Yn debyg, i'r Sipsiwn, mae'r defodau a rheolau sy'n heffeithio eu bywydau yn cysylltu â ffawd.[625] Yn draddodiadol roedd ffawd yn rhan bwysig ym mywydau'r Sipsiwn, gyda'r gred ei fod yn rheoli popeth. Cysylltwyd y defodau glendid gyda

[621] Cheal, 'Beyond the stereotypes: A review of Gypsies/Roma/Travellers and the Arts in Wales', t.14.
[622] The Library of Congress, 'Hindu Rites and Rituals: The Ceremonies of Hinduism'.
[623] Ibid.
[624] M. Douglas, *Purity and Danger: An Analysis of Concepts of Pollution and Taboo* (Oxon, 2003), t.10.
[625] Lehti a Mattson, 'Health, attitude to care and pattern of attendance among Gypsy women-a general perspective', t.445.

lwc ac anlwc yn aml hefyd. Felly gan fod y mwyafrif o Sipsiwn yn yr ugeinfed ganrif yn tueddu i fod yn ofergoelus, roedd y defodau glendid yn cael eu cadw atynt er lles lwc y teulu. Yn ôl Crooke, roedd siarad am bethau oedd yn cael eu hystyried yn llygredd wedi'i wahardd yn y gymuned hefyd, er enghraifft, wrin neu organau cenhedlu.[626] Mae Samantha Lee, a briododd i mewn i'r gymuned, yn honni yn ei hunangofiant yn 2011 bod teulu ei gŵr yn osgoi trafod organau rhyw dynion o gwbl hyd heddiw sy'n dangos bod y traddodiad yn parhau mewn rhai teuluoedd.[627] Gwelwyd bod dyletswyddau domestig yn ffurfio un rhan yn unig o reolau mochadi, a bod siarad am bethau penodol yn gallu cael ei hystyried yn llygredig. Nid yw'n syndod bod nifer o deuluoedd Sipsi yn gwrthod trafod organau rhyw yn y presennol, gan fod nifer o deuluoedd Sipsi yn geidwadol tu hwnt hyd heddiw.

I rai, mae'r Sipsiwn yn cael eu cysylltu ag aflendid, safleoedd clos a budreddi. Mae Greenfields a Smith yn cynnig pwynt teg, gan ddweud bod cysylltu grwpiau allanol gydag aflendid yn rhan gyffredinol o berthnasau rhwng pobl ar y 'tu mewn' a phobl ar y 'tu allan'.[628] Mae'r syniadau hyn yn rhan o'r hiliaeth gyffredinol sy'n bodoli am grwpiau allanol fel y Sipsiwn. Er hyn, yn yr ugeinfed ganrif gynnar, roedd teuluoedd dosbarth gweithiol yn arfer byw mewn cartrefi clos, er enghraifft wrth rentu ystafelloedd yn hytrach na thŷ.[629] Yn y cyfnod yma, roedd y Sipsiwn yn tueddu i fyw bywydau yn y byd naturiol rhan amlaf. Nid oeddent yn tueddu i fod yn y vardo neu'r babell yn aml, heblaw am i gysgu. Gweddill yr amser, tueddai'r Sipsiwn o bob oedran weithio, chwarae a gwneud eu holl ddyletswyddau y tu allan. Nid oedd natur clos y vardo neu'r babell yn broblem i gymuned oedd yn treulio eu hamser i raddau helaeth y tu allan. Byddai'r Sipsiwn oedd yn teithio'r gefnwlad yn benodol yn tueddu i gael lot o awyr iach, ac yn iachach o'i herwydd. Fel yn achos y Sipsiwn, roedd y

[626] Crooke, 'Gypsy Forms and Ceremonies', t.277.
[627] Lee, *Gypsy Bride- One girl's true story of falling in love with a Gypsy boy,* t.174.
[628] Greenfields a Smith, 'Housed Gypsy Travellers, Social Segregation and the Reconstruction of Communities', t.406.
[629] Bruley, *Women in Britain since 1900*, t.7.

Cymry eu hunain hefyd yn cael eu beirniadu am aflendid yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd adroddiad i gyflwr addysg Cymru gan gomisiynwyr o Loegr yn 1847 yn darlunio sut oedd glendid a moesoldeb yn cysylltu'n gryf, er enghraifft gydag thrigolion Niwbwrch yn Ynys Môn yn cael eu darlunio fel pobl budur a thlawd, ac felly anfoesol.[630] Eto, fel yn achos y Sipsiwn, roedd y feddylfryd o beirniadu grwpiau ar y tu allan yn cael ei ddarlunio yn yr adroddiad yma. Gwelir bod unigolion haenau uwch y gymdeithas yn cysylltu glendid â moesoldeb, gan na fyddent hwy wedi arfer poeni am gadw'n lan mewn cyfnod pan byddent yn gallu cyflogi gweision i boeni am hynny ar eu rhan. Tra bod haenau uwch y cymdeithas frodorol Brydeinig yn gallu fforddio morwynion i gwblhau'r holl tasgau domestig, roedd merched dosbarth gweithiol yn gorfod gwneud yr holl dasgau eu hunain.[631] Merched Sipsi oedd yn gwneud y tasgau domestig hefyd, yn ogystal â gwarchod y plant a'r henoed. Gwelwyd bod bywydau merched dosbarth gweithiol yr ugeinfed ganrif gynnar a'r merched Sipsi ddim mor wahanol â hynny. Dim ond yn ddiweddar y mae bywydau'r ddwy gymuned yn cyferbynnu fwyaf. Bydd y thema hon yn dangos pa mor bwysig yw defodau glendid moesol a chorfforol i nifer o Sipsiwn hyd heddiw. Yn ogystal, bydd yn pwysleisio pa mor bwysig oedd dyletswyddau domestig yn draddodiadol, a'u rôl ym mywydau merched y gymuned. I ychwanegu, bydd y gwaith yn dangos bod dirywiad yn y defodau glendid a dyletswyddau domestig wedi digwydd mewn rhai teuluoedd, gan fod y rheolau ddim bellach yn berthnasol iddynt.

Er mwyn ystyried y darlun o'i hunain yr oedd Sipsiwn yng Nghymru yn ceisio ei gyfleu yn yr ugeinfed ganrif gynnar, rhaid ystyried yr unigolion eu hunain: beth oeddynt yn tueddu i edrych fel? Beth oeddynt yn ei wisgo? Gwelwyd o ffigwr 1 pa mor anrhydeddus a glân y

[630] Roberts, *The Language of the Blue Books- The Perfect Instrument of Empire*, tt.140-141.
[631] Bruley, *Women in Britain since 1900*, tt.7-8.

mae'r Sipsiwn yn edrych.

Ffigwr 1: 'Harold Lock, Louie Lock, William Ferguson and others-1 negative black and white', *Liverpool Special Collections & Archives,* SMGC Shaw p.239. (Golwg diwethaf-10/10/19). Trwy gwrteisi Llyfrgell Prifysgol Lerpwl.

Unigolion o'r teuluoedd Lock a Ferguson sydd yn y darlun a gafodd y ffotograff ei dynnu yn ardal Glan Wydden yng Ngogledd Cymru. Mae gan rhai o'r merched ffrogiau wen amdanynt, heb unrhyw arwydd o aflendid. Mae'r dynion a'r plant hefyd yn gwisgo eu dillad gorau, gan fod ffotograffiaeth yn anghyffredin yn y cyfnod. Tynnwyd y llun yn 1928, sy'n dangos bod y gymuned yn cadw eu hunain yn lan mewn cyfnod ble na fyddent hefo mynediad i ddŵr tap parhaol mae'n debyg. Mae'r ffotograff yn dangos anrhydedd y Sipsiwn Cymraeg yn y

teuluoedd penodol hyn a'r delwedd ohonynt oeddynt yn ceisio ei gyfleu. Nid yw'r unigolion yn ffigwr 1 yn cyd-fynd a syniadau traddodiadol rhagfarnllyd am y Sipsiwn fel unigolion oedd yn byw mewn budreddi. Mae'n amlwg fod yr unigolion yn y llun wedi gwneud ymdrech penodol i arddangos eu hunain. Er hynny, fel bydd y bennod yma yn dangos, nid oedd y Sipsiwn yn hoffi budreddi yn gyffredinol. Golyga hyn fod y mwyafrif o deuluoedd yn cadw eu hunain yn lan, hyd yn oed heb adnoddau syml.

Yn aml, merched fyddai'n gorfod cadw yn fwyaf llym at y rheolau glendid. Mae gwaith Thompson yn pwysleisio ffin benodol rhwng y ddau rywedd, wrth i ferched cael eu gweld yn aflan yn aml, er enghraifft os oedd merch yn cerdded dros fwyd y dynion ar ddamwain, roedd y bwyd yn cael ei weld yn aflan ac yn cael ei daflu.[632] Nid oedd y rheol yma yn berthnasol i ddynion y gymuned. Mae gwaith Fitzgerald yn cadarnhau'r ddefod yma wrth i'r Sipsi Seisnig Amos Churen dystio i Fitzgerald y byddai ef yn gwrthod bwyta unrhyw fwyd neu ddiod y byddai merch wedi cerdded drosto.[633] Er bod Amos Churen yn Sipsi Seisnig, mae'n debygol bod y ddefod hon yn gyffredin ar draws y gymuned, nid yn berthnasol i Loegr yn unig. Yn wir, roedd y ddefod yn gyffredin i grwpiau teithiol ar draws Prydain. Yn ôl Betsy Whyte, roedd y Teithwyr Albanaidd yn ystyried dŵr yn llygredig os oedd merch wedi cerdded drosto.[634] Mae'n rhaid bod cyfnewid o ddefodau a thraddodiadau wedi digwydd rhwng y Teithwyr Albanaidd a'r Sipsiwn pan ddaeth y Sipiwn i Brydain am y tro cyntaf. Oherwydd bod y Teithwyr Albanaidd wedi bod yn teithio canrifoedd cyn ymddangosiad y Sipsiwn, roedd yn naturiol i'r ddau grŵp teithiol yma gyd-briodi. Byddai hyn yn esbonio y tebygrwydd rhwng traddodiadau a defodau yn y ddwy gymuned. Heb os, gwelir bod rheolau mochadi yn gallu israddio merched yn y gymuned Sipsi a thu hwnt. Er hynny, byddai'r merched Sipsi yn yr ugeinfed ganrif yn rhan o'r canrifoedd o ferched byddai wedi dilyn y

[632] Thompson, 'The uncleanness of women among English Gypsies', t.21.
[633] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History*, t.45.
[634] Whyte, *Red Rowans and Wild Honey*, t.73.

rheolau. Ni fyddent yn debygol o gwestiynu'r rheolau, nac ychwaith gweld eu hunain yn israddol, gan fyddent wedi arfer hefo arferion y gymuned. Ar unwaith, mae modd gweld bod defodau glendid yn cael ei ystyried yn weithred fenywaidd. Gan mai merched yn draddodiadol dros y canrifoedd sydd wedi ymgymryd â'r dyletswyddau domestig, nid yw'n syndod bod defodau glendid y Sipsiwn yn berthnasol i ferched yn unig ran amlaf. Gan ystyried y cyd-destun yma, mae'n ddiddorol ystyried a'i dynion aeth ati i lunio'r rheolau mochadi.

Esiamplau o reolau glendid

Esiampl ddiddorol o reol glendid gan Thompson oedd defnyddio powleni gwahanol i olchi dillad, llestri ac eich hunan i ddiogelu popeth rhag llygredd.[635] Yn ôl Penfold, Sipsi Seisnig, roedd gan ei nain anrhydedd mawr mewn glendid a hefo powleni golchi gwahanol am bob swydd, sy'n cyd-fynd â syniadau Thompson.[636] Yng nghwestiwn agored naw yr holiadur, 'Oes yna draddodiadau ydych chi'n cadw atynt?' cyfeiriodd un unigolyn at y gwahanol bowlenni a'u defnydd. Yng ngeiriau'r cyfranogwr, '3 bowls, 1 hands, 1 clothes, 1 dishes'. Darluniwyd hyn fel rhywbeth naturiol i'w wneud. Gwelwyd y gwahaniaeth clir rhwng defnydd y tair powlen. Disgrifir defnydd y powlenni mewn ffordd llym, sy'n awgrymu na ddylai unrhyw gwyro digwydd oddi wrth y traddodiad. Adran ddiddorol iawn o'r dyfyniad oedd y syniad o ddefnyddio powlen i olchi dillad. Roedd hyn yn awgrymu bod yr unigolyn yma yn parhau i olchi dillad gyda'r dwylo, sy'n dangos parhad sylweddol yn yr hen draddodiadau. Ar y llaw arall, mae'n bosibl mai'r dillad sy'n cael eu cyfeirio atynt yn yr achos yma yw lliain sychu llestri. Mae ymateb gan gyfranogwr arall i'r cwestiwn yn awgrymu hyn. Yng ngeiriau'r cyfranogwr,

[635] Thompson, 'The uncleanness of women among English Gypsies', t.20.
[636] Penfold, *A Field Full of Butterflies- Memories of a Romany Childhood*, t.23.

'i boil tea towels on the stove with bleach and washing powder.'

Mae'r traddodiad yma, yn ogystal â golchi cwpanau te mewn bleach yn digwydd mewn nifer o deuluoedd Sipsi. O brofiad personol, mae'r traddodiad yma yn cymryd lle yng Ngogledd Cymru hyd heddiw. Felly, efallai mai lliain sy'n cael eu golchi yn y drydedd bowlen erbyn heddiw, mewn cyfnod ble mae'r peiriant golchi dillad yn eitem gyffredin yng nghartrefi Prydain. Roedd gan merched Cymreig frodorol yr ugeinfed ganrif patrwm penodol i olchi dillad yn ogystal, er enghraifft golchi dillad gwyn yn gyntaf, yna dillad lliwgar, dillad gwlanog, ac yn olaf y dilladau fwyaf budur.[637] Fel yn achos y Sipsiwn benywaidd, roedd y merched frodorol Cymreig hefyd hefo ffordd penodol o olchi eu dillad ac yn cadw at trefn penodol. Mae'n dangos bod merched o'r gymuned frodorol Gymreig hefyd hefo defodau glanhau eu hunain.

Wrth ystyried esiampl arall o ddefod glendid gan Thompson, roedd dillad merched a dynion i fod i'w golchi ar wahân yn draddodiadol. [638] Gwelwyd y rhaniad o ran rhywedd eto, a'r syniad bod merched yn gallu bod yn aflan ac effeithio ar lendid y dynion. Er bod erthyglau Thompson wedi dyddio erbyn hyn, ei waith ef sy'n cael ei gyfeirio ati fwyaf ynglŷn â defodau glendid Sipsiwn hyd at y presennol. Yn ogystal, er bod y gwaith yn canolbwyntio ar Sipsiwn Seisnig, mae nifer o'r defodau hyn yn cydfynd â defodau Sipsiwn gweddill Prydain hefyd. Gall y gwaith cael ei ddefnyddio i gymharu defodau Sipsiwn Seisnig gyda Sipsiwn Cymraeg. Mewn un o hanesion gwerin y Sipsiwn Cymraeg, *The leaves that hung but never grew*, mae glendid yn cael ei bwysleisio oherwydd dwylo budur y prif gymeriad.[639] Gwelwyd pwysigrwydd glendid fel rhinwedd sy'n cael ei bwysleisio yn y straeon gwerin hyd yn oed. Nid yw'r hanes werin hon yn mynd i fanylder am ddefodau glendid er hynny. Mae'n bosibl

[637] Tibbott, *Domestic Life in Wales*, t.33.
[638] T.W. Thompson, 'Additional notes on the English Gypsy uncleanness taboos', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol. 8 (1929), t.33.
[639] Sampson (wedi eu casglu), *Gypsy Folk Tales,* t.34.

bod trafod glendid fel rhinwedd mewn straeon gwerin yn berthnasol i'r Sipsiwn a'u bod yn ystyried y gyfeiriadaeth at lendid fel rhybudd. Fel yng ngwaith Thompson, mae'r hanes werin uchod yn pwysleisio'r ffin glir rhwng glendid ac aflendid. Darluniwyd ffin na ddylid ei groesi yn y dwy waith.

Yn draddodiadol, roedd merched Sipsi yn cael eu gweld yn fwyaf aflan tra yn y cyfnod mislif. Yn ôl y Sipsi Seisnig Amos Churen, roedd merch ifanc yn dod yn beryglus o ran llygredd wedi iddi ddechrau ar ei mislif am y tro cyntaf.[640] Gwelir bod mislif yn cael ei hystyried fel digwyddiad symbolaidd yn llygaid y gymuned. Cysylltir hyn gydag ofergoeliaeth, wrth i ferch ifanc cael ei hystyried yn llygredig a pheryglus i weddill y gymuned oherwydd y mislif a'r ffaith ei bod hi'n cael ei hystyried fel merch aeddfed yn hytrach na phlentyn. Gwelir fod plant Sipsi ddim yn gorfod dilyn rheolau mochadi heb os eu rhywedd, nes bod merch ifanc yn cael ei mislif am y tro cyntaf. Rhoddir y mislif bŵer symbolaidd i ferched Sipsi yn ôl Weyrauch.[641] Yn y cyfnod yma, nid oedd merched yn cael paratoi bwyd i'w gwŷr, rhag ofn i'r bwyd cael ei lygru. Yn ogystal, os oedd merch yn cerdded dros unrhyw beth, er enghraifft dŵr neu fwyd yn ystod ei mislif, roedd y peth hwnnw yn cael ei ystyried yn amhur.[642] Yn ôl Hodgson, roedd merched wedi eu gwahardd rhag cerdded o flaen wyneb dyn tra oedd yn eistedd hyn yn oed.[643] Gwelwyd bod merched yn cael eu trin yn israddol, oherwydd proses naturiol eu corff. Er bod hyn yn annheg, roedd y merched yn cadw at y rheolau llym yma er mwyn osgoi cywilyddio eu teulu. Gall teulu cael eu diarddel o'r gymuned am beidio cadw at y rheolau, a'u gweld yn aflan am byth. Awgrymwyd gan Acton fod y tabŵ mislif wedi lleihau yn ddiweddar oherwydd cynhyrchiad darpariaeth mislif.[644] Gall fod rhai teuluoedd yn symud gydag amseroedd ac addasu

[640] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History,* t.51.
[641] W. O. Weyrauch, 'Oral Legal Traditions of Gypsies and Some American Equivalents, yn W. O. Weyrauch (gol), *Gypsy Law-Romani Legal Traditions and Culture* (Oakland, 2001), t.246.
[642] Cheal, 'Beyond the stereotypes: A review of Gypsies/Roma/Travellers and the Arts in Wales', t.17.
[643] R. Hodgson, 'My Dukkeripen', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol.46 (1967), t.103.
[644] Okely, *The Traveller-Gypsies,* t.210.

oherwydd dyfeisiadau newydd. Er hynny, ysgrifennodd Norman yn 2002, os oedd merch yn gwaedu ar y dillad gwlâu roedd y gŵr hefyd yn cael ei ystyried yn aflan.[645] Mae hyn yn dangos efallai bod yr hen draddodiadau a defodau heb ddirywio cymaint â hynny, yn enwedig mewn rhai teuluoedd. Er hynny, roedd gwaith Norman yn canolbwyntio ar un gymuned o Deithwyr Gwyddelig yng Ngogledd Cymru. Er bod y defodau glendid Sipsi wedi treiddio i'r gymuned Teithwyr Gwyddelig oherwydd cyd-briodi dros y blynyddoedd, nid yw'n sicr os yw pob cymuned yn parhau gyda'r defodau uchod. Nid yn unig ymysg Sipsiwn Prydain yr oedd tabŵ ynghylch mislif. Mewn astudiaeth yn yr 1990au gan Fonseca am grŵp o Sipsiwn yn Kinostudio, Albania, darganfuwyd bod merch oedd ar ei mislif ddim yn cael ymweld â baban newydd oherwydd bod y mislif yn cael ei ystyried yn llygredig ac felly yn beryglus.[646]

Mae'n debyg bod y tabŵ ynghylch mislif wedi datblygu yn y gymuned Sipsi oherwydd dylanwad y cymunedau frodorol ym Mhrydain. Yn yr 1950au yng Nghymru wledig, roedd merched yn cael eu gwahardd rhag golchi eu dwylo gyda dŵr oer a chael bath yn ystod eu mislif oherwydd y gred bod hyn yn achosi niwed i'r corff mewnol.[647] Gwelir bod merched yn y gymuned frodorol yng Nghymru yn gorfod dilyn rheolau defodol yn ystod eu mislif hefyd. Fel yn y gymuned Sipsi, roedd ofergoeliaeth yn fyw yng Nghymru wledig, sydd efallai yn esbonio pam bod defodau traddodiadol wedi parhau yn y wlad hyd at yr 1950au. Roedd Gilbert White yn honni yn 1788 fod ofergoeliaeth yn plannu'n ddwfn, yn enwedig ymysg y dosbarth gweithiol nid oedd yn derbyn addysg fodern.[648] Er bod addysg ar gael i bob plentyn erbyn hyn, y mae rhai cymunedau neu ardaloedd yn parhau i 'ddal gafael ar ofergoeliaeth. Mewn rhai cymunedau, mae'r syniadau yn cael eu pasio i lawr drwy'r cenhedloedd, ac wedi creu gwraidd dwfn. Mae'r tabŵ ynghylch hylif dynol yn y gymuned Hindŵ hefyd yn

[645] Norman, *The changing lives of women Travellers,* t.10.
[646] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey,* t.43.
[647] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950s*, tt.70-71.
[648] S. Roud, *The Penguin Guide to the Superstitions of Britain and Ireland* (Llundain, 2003), dim rhif tudalennau.

awgrymu cysylltiad rhwng y ddwy gymuned, a allai wreiddio o India, yn hytrach na chysylltiad rhwng defodau y Cymry a'r Sipsiwn.[649] Yn gyffredinol, gwelwyd bod cymunedau eraill yn ystyried mislif yn tabŵ. Mae'n ddiddorol gweld bod cymunedau ofergoelus, megis y Sipsiwn, y Cymry yn yr ugeinfed ganrif gynnar a'r gymuned Hindŵ yn rhannu'r pryderon ynghylch mislif. Mae hyn yn awgrymu mai ofergoeliaeth sydd yn hybu'r pryderon hyn. Wrth i'r gred mewn ofergoeliaeth leihau yng Nghymru, mae mislif fel tabŵ wedi dirywio yn ogystal. Byddai dirywiad mewn syniadau ofergoelus yn y gymuned Sipsi hefyd yn achosi dirywiad yn y syniad o fislif fel testun tabŵ mae'n debyg.

Dyletswyddau domestig

Cefndir

Mae'r bwyslais ar y defodau uchod yn golygu bod dyletswyddau glendid wedi dod yn hanfodol bwysig yn y gymuned Sipsi. Yn y gymuned draddodiadol hon, y merched sy'n gorfod cymryd y cyfrifoldeb dros y dyletswyddau glendid hyn. Yn draddodiadol, roedd gan ferched Sipsi ffedog benodol i wisgo wrth baratoi bwyd a gwneud eu tasgau domestig.[650] Mae'r ffaith bod dillad y Sipsiwn benywaidd wedi eu haddasu er mwyn siwtio eu dyletswyddau domestig yn pwysleisio pa mor arwyddocaol oedd y dyletswyddau hyn i drefn eu dyddiau. Yn ei hunangofiant a gyhoeddwyd yn 1970 mae Silvester Boswell yn rhestru dyletswyddau ei chwiorydd tra oeddynt yn cael eu magu mewn pabell, sef i olchi dillad, glanhau'r pres ar y stof neu'r tegell copr a pharatoi bwyd.[651] Nid oedd merched yn osgoi gweithio'n galed, hyd yn oed y merched ifanc. Roedd angen i bob aelod o deulu Sipsi cymryd rhan yn nhasgau gweithiol neu dasgau golchi, er mwyn sicrhau bod y teulu yn gweithredu. Y merched oedd yn derbyn y dyletswyddau domestig, er hynny, gan gysylltu â'r syniad

[649] The Library of Congress, 'Hindu Rites and Rituals: The Ceremonies of Hinduism'.
[650] An Old Member, 'English Gypsy Dress in Bygone Days (continued)', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.39 (1960), t.39.
[651] Boswell, 'The Book of Boswell', t.12.

traddodiadol o rôl y ferch ym Mhrydain. Yng ngeiriau Duffy yn 2009, roedd y mamau yn dysgu eu merched y pump enwog,

> 'sweep your hearth, pickup your bed, wash your pots, shake your rugs and sweep the floor.'[652]

Dyma ddyletswyddau ymarferol mewn cartrefi mor fychain. Dangoswyd bod mamau yn arwyddocaol wrth annog eu merched i gyd-fynd â thraddodiadau oedd wedi eu gwreiddio yn ddwfn. Roedd angen i famau dysgu'r sgiliau defnyddiol hyn i'w merched, fyddai hefo teuluoedd eu hunain yn y pen draw i ofalu amdanynt. I'r Teithwyr Gwyddelig roedd yna rolau rhywedd dwfn hefyd, gyda dynion yn aml yn gofalu am y ceffylau ac anifeiliaid a merched yn gofalu am y cartref a'r teulu.[653] Roedd popeth yn cael ei goginio dros dân agored, felly roedd angen dysgu o oedran ifanc sut i dynnu croen anifail a'i goginio.[654] Dyma sgiliau perthnasol i fywyd teithiol y Sipsiwn a Theithwyr.

Mae dyletswyddau domestig merched Sipsi wedi parhau yn sylweddol hyd at y presennol. Gwelwyd bod dirywiad rôl weithiol rhai merched Sipsi erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif yn golygu bod dyletswyddau domestig wedi dod yn fwy pwysig i'r merched penodol yma. Yn ôl Madine, gwniyddes ffrogiau briodas Sipsiwn, dewisai nifer o'r merched Sipsi yn yr unfed ganrif ar hugain briodi'n ifanc oherwydd eu bod wedi gadael yr ysgol yn ifanc i helpu i warchod plant iau, ac yn barod i ddianc oddi wrth hyn.[655] Oherwydd blynyddoedd o ofalu am blant iau a glanhau, mae priodi yn ffordd o allu cael cartrefi eu hunain a math o ryddid i'r merched penodol yma. Nid yw hyn yn golygu bod y dyletswyddau domestig yn lleihau. Yn

---

[652] Duffy, *Pinnies& Pegs-A Gypsy Childhood*, tt.64-65.
[653] A. Keefe, 'Life with the Irish Travellers reveals a bygone world', *National Geographic-ar lein*, https://www.nationalgeographic.com/photography/proof/2016/08/irish-travellers-uphold-the-traditions-of-a-bygone-world/ (golwg diwethaf-01/11/19).
[654] 'Episode 7-Memory Lane: Stories of Gypsy Days Gone By (20/12/18), *On the Road-Podcast for Gypsy, Roma and Traveller Communities*, fersiwn ar lein, http://ontheroadradio.libsyn.com/memory-lane-episode-7 (golwg diwethaf-02/03/20), 01:54.
[655] Madine, *Gypsy Wedding Dreams*, t.36.

gyferbyn, mae'r merched priod ifanc yn gweithio'n galetach, heb unrhyw gymorth gan chwiorydd iau na mamau. Yn ôl Hamilton, mae nifer o Sipsiwn a Theithwyr yn credu bod gyrru eu plant i ysgolion uwchradd yn golygu eu bod yn colli allan ar sgiliau traddodiadol y gymuned.[656] Mae'r sgiliau hyn yn cynnwys defodau glendid ac yn parhau i fod yn hanfodol bwysig i nifer o ferched Sipsi.

Mae nifer o ferched Sipsi ym Mhrydain yn y presennol yn tueddu i wario llawer o amser yn y cartref, un ai mewn tŷ neu mewn carafán, ac yn glanhau'r tu mewn a thu allan i'r cartref yn ddyddiol.[657] Mewn astudiaeth gan Fonseca yn yr 1990au yn Kinostudio, Albania, roedd merched Sipsi yn gorfod glanhau'r tu mewn a thu allan i'r cartref yn ddyddiol hefyd.[658] Er bod yr ardal yn dlawd, roedd pwyslais enfawr ar lendid ymysg y teulu penodol oedd Fonseca yn treulio amser hefo. Gyda'r Sipsiwn ym Mhrydain hefyd, er bod eu hamgylchiadau yn gallu bod yn anodd ar adegau oherwydd diffyg adnoddau syml neu safle parhaol i fyw arno, mae'r pwyslais ar lendid yn golygu bod y merched yn gallu cael balchder yn eu cartref o leiaf. Roedd merched yn yr 1950au yn treulio amser yn glanhau'r tu allan i'r cartref yn ddyddiol hefyd, drwy olchi'r stepen ddrws. Enwir y broses yma yn 'donkey-stoning' oherwydd y dabled carreg, dŵr a bleach oedd yn cael ei ddefnyddio i'w golchi.[659] Roedd stepen drws glan yn golygu cartref glan a oedd yn cael ei edrych ar ei ôl. Gwelir bod enw da merched yn gallu cael ei gysylltu â safon tu allan y cartref, nid yn unig y cartref mewnol. I'r merched hyn roedd argraff gyntaf yn bwysig tu hwnt. Y mae'r merched yn y gymuned Sipsi yn ystyried hyn yn bwysig hefyd, ac yn sicrhau bod eu cartref yn edrych yn rhagorol y tu mewn a thu allan. Mae hyn yn sicrhau bod y ferch honno yn osgoi unrhyw glebran amdani, oherwydd cyflwr y cartref. Y mae glendid yn cysylltu âg enw da y ferch, ac anrhydedd ei

[656] Hamilton, 'School books or wedding dresses? Examining the cultural dissonance experienced by young Gypsy/Traveller women in secondary education', t.831.
[657] Casey, ''Caravan wives' and 'decent girls': Gypsy-Traveller women's perceptions of gender, culture and morality in the North of England', tt.10-13.
[658] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.47.
[659] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950's,* t.61.

theulu o brofiad personol. Mae glendid i mi yn rhan o fy hunaniaeth fel merch yn y teulu, ac yn rôl dwi'n cymryd o ddifri ac yn anrhydeddu ynddo.

Cyd-destun bywydau domestig

Mae bywydau domestig y merched Sipsi yn debyg iawn i'r gwragedd tŷ delfrydol yn yr 1950au ym Mhrydain. Addysgwyd merched ifanc mewn ysgolion sut i fod yn wraig, mam a duwies ddomestig ddelfrydol yn yr 1950au.[660] Hyd at y presennol, mamau Sipsi sydd fel arfer yn addysgu eu merched sut i fod yn wragedd a mamau da eu hunain a sut i wneud y gwaith domestig i safon gadarnhaol. Trefn diwrnod nifer o'r merched yn yr 1950au fyddai siopa, golchi dillad gyda'i dwylo a choginio pryd ardderchog o fwyd yn barod i'w gwŷr ddychwelyd o'r gweithlu.[661] Roedd y drefn diwrnod undonog yma yn gyffredin iawn i ferched y cyfnod ac yn cael ei hyrwyddo mewn ysgolion ac mewn hysbysebion. Wedi'r Ail Ryfel Byd, dychwelodd y dynion i'r gweithlu, gyda'r merched yn dychwelyd yn ogystal i'r cartref. Mae Gardiner yn pwysleisio mai 1.2% yn unig o ferched oedd yn mynychu Prifysgolion yn yr 1950au.[662] Y dynion oedd yn cael blaenoriaeth mewn addysg ac yn y gweithlu. Yr unig ffordd oedd y mwyafrif o ferched yn gallu teimlo ei bod yn cyfrannu at y teulu oedd drwy ragori yn y dyletswyddau domestig. Oherwydd yr hysbysebion eang, roedd y gwragedd yma yn cael eu hannog i ddefnyddio'r dechnoleg newydd, fel y peiriant olchi cyntaf a'r sugnwr llwch. Credai nifer o ddynion bod y merched â bywydau hawdd oherwydd y dechnoleg newydd yma. Er hyn, roedd y peiriannau golchi dillad yn gorfod cael eu llenwi gyda dŵr yn gyntaf cyn iddynt olchi'r dillad. Yn ogystal, nid yn unig glanhau oedd angen i ferch wneud yn yr 1950au. Roedd y merched hyn yn magu plant, gofalu am henoed a

[660] C. Dyhouse, 'Education', yn I. Z. Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), t.124.
[661] E. Castelow, 'The 1950's Housewife', *Historic UK*, https://www.historic-uk.com/CultureUK/The-1950s-Housewife/ (golwg diwethaf-20/04/20).
[662] J. Gardiner, 'The story of women in the 1950's', *History Today*, https://www.historytoday.com/reviews/story-women-1950s (golwg diwethaf-20/04/20).

gwirfoddoli yn y gymuned yn aml hefyd, ac roedd hyn yn cymryd oriau o'u hamser. I Holden, er bod gofalu yn rhan bwysig o fodolaeth, nid yw'n cael ei anrhydeddu.[663] Gwelir fod merched yn cwblhau tasgau angenrheidiol, ond ddim yn cael unrhyw glod amdano.

Mewn rhai teuluoedd ym Mhrydain yr ugeinfed ganrif, roedd un o'r merched yn cael ei dewis i aros gyda'r rhieni i ofalu amdanynt yn eu henoed.[664] Cyfrifoldeb eu bywydau fyddai gofalu am eu rhieni. Dangosa hyn fod bywydau merched yn aml yn cael eu dewis iddynt. Roedd yr arferiad yma yn bodoli yn y gymuned Sipsi hefyd. Weithiau nid oedd merch wedi denu siwtor, felly aros gyda'r rhieni oedd yr opsiwn orau. Ar y llaw arall, roedd rhai merched yn cael eu dewis o oedran ifanc am y dasg, ac felly yn colli allan ar briodi a byw bywyd eu hunain. Dewiswyd Jess Smith, y Teithiwr Albanaidd, am y dasg hon gan ei thad.[665] Er ni fu'n rhaid i Jess gyd-fynd â'r dasg, gwelwyd bod y traddodiad wedi parhau hyd at ganol yr ugeinfed ganrif o'r hanes hon. Cyfeiriodd cyfranogwr i gwestiwn naw yr holiadur, sef 'Oes yna unrhyw draddodiadau ydych chi'n cadw ato?', at y parch sy'n cael ei ddangos at henoed yn y gymuned Sipsi. Yng ngeiriau'r cyfranogwr, 'Not putting old folks in a home'. I gymuned mor agos, gyda rhai teuluoedd yn cael eu magu ymysg cenhedloedd hŷn drwy gydol eu bywydau, mae rhoi aelodau hŷn o'r gymuned mewn cartrefi henoed yn amharch enfawr. Mae nifer o Sipsiwn yn beirniadu y Gorgio am roi eu henoed mewn cartrefi, arferiad sydd yn digwydd ormod yn eu llygaid hwy. Oherwydd hyn, merched Sipsi sy'n arfer cael eu tasgu hefo gofalu am yr henoed yn y gymuned. Gallai hyn olygu rhoi cymorth syml fel gwirio dros y person a sicrhau bod ganddynt bopeth maent ei angen. Ar y llaw arall, gallai olygu symud y person i mewn i gartref eu hunain a gofalu amdanynt yn fwy ffurfiol os ydynt yn dioddef o unrhyw salwch.

[663] K. Holden, 'Family, Caring and Unpaid Work', yn I. Z. Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), t.135.
[664] Holden, 'Family, Caring and Unpaid Work', t.137.
[665] Smith, *Tales from the Tent-Jessie's Journey continues*, t.39.

Cyfrifoldeb merched Sipsi

Oherwydd diffyg adnoddau syml fel trydan ar rai safleoedd gwersylla, mae angen i nifer o'r merched Sipsi olchi gyda'i dwylo. Enghraifft yw'r ffaith iddynt olchi'r lloriau ar eu pengliniau yn ddyddiol. Gwelwyd bod y dechnoleg newydd, fel sugnwr llwch, heb allu rhoi cymorth i nifer o ferched Sipsi. I rhai, na chafodd y technoleg newydd fel y popty trydanol, sugnwr llwch neu'r haearn smwddio trydanol yn yr 1950au effaith am amser hir.[666] Daeth trydan i Gymru wledig ar ôl yr ail ryfel byd, ond nad oedd pawb yn gallu fforddio'r technoleg newydd ac nad oedd rhai eisiau newid o'r hen offer.[667] Gwelwyd bod y technoleg newydd heb cael effaith ar y merched Cymreig ychwaith am rhai blynyddoedd. Er hyn, nid yw gwaith tŷ wedi dod yn haws i rhai merched Sipsi dros y blynyddoedd sydd yn parhau i fyw heb trydan parhaol. Mewn hanesion cyffredinol am rhywedd, y merched sydd o hyd yn gofalu am y plant a'r henoed yn ogystal â chwblhau tasgau domestig.[668] Mae arferion y Sipsiwn yn cyd-fynd ag arferion traddodiadol a'r syniadau hir-dymor sy'n bodoli am rôl merched. Drwy gysylltu merched gyda'r cartref, maent yn cael eu gwahardd o'r byd cyhoeddus.[669] Y mae'r gweithlu yn rhan o'r byd cyhoeddus, ac felly roedd merched yn arfer cael eu gwahardd rhag hyn hefyd. Dywed Gillis a Hollows fod yr eidioleg yma yn cael ei hybu drwy'r cyfryngau a llenyddiaeth yng nghanol yr ugeinfed ganrif.[670] Dyma adnewyddu syniadau'r gymuned am batriarchaeth, gyda'r dynion yn cael gadael y cartref ar unrhyw adeg a'r merched yn gorfod aros. Yn y gymuned Sipsi, mae rhai teuluoedd yn pwysleisio bod merched ifanc sydd yn gadael y cartref ar eu pen eu hunain yn anfoesol, ond bod bechgyn ifanc yn cael gadael ar unrhyw bryd.[671] Mae hyn yn dangos gwahaniaeth amlwg rhwng y ddau rywedd yn y

[666] Tibbott, *Domestic Life in Wales*, tt.116-120.
[667] Ibid, tt.116-120.
[668] L. McKie et al., 'Connecting Gender, Power and the Household', yn L. McKie, et al., (gol), *Gender, Power and the Household* (Hampshire, 1999), t.4.
[669] Kendall, 'Sites of resistance: places on the margin-the Traveller 'homeplace'', t.82.
[670] S. Gillis a J. Hollows, 'Introduction', yn S. Gillis a J. Hollows (gol), *Feminism, Domesticity and Popular Culture* (Oxon, 2009), t.4.
[671] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 1-Episode 1, *Channel 4 boxset*, 18:58.

gymuned. Y mae enw da y ferch yn cael ei gwestiynu os mae hi'n gadael y cartref, tra bod y bachgen yn cael mwy o ryddid. Mae'r merched yn aml yn cael eu caethiwo yn eu cynefin 'naturiol' sef y cartref, a'r gwaith domestig.

Mae gwaith diddorol Gregory yn amlinellu cyfrifoldeb merched dros fwyd y teulu, a sut mae hyn yn uno bywyd teuluol, rolau rhywedd a chyfrifoldeb merched dros iechyd a lles y teulu.[672] Pwysleisia'r gwaith hwn sut mae rhywbeth mor syml a bwydo'r teulu yn gallu fod yn gyfrifoldeb mawr i un person gorfod cyflawni. Yn yr 1930au ym Mhrydain, roedd merched yn tueddu i fwyta llai er mwyn bwydo eu gwŷr a phlant fwy.[673] Gallai hyn cael effaith negyddol tu hwnt ar iechyd y merched hyn. I'r cymunedau tlawd, roedd bwydo'r gŵr, sef darparwr yr incwm, yn hanfodol bwysig i'r merched. Oherwydd y diffyg oergell mewn cartrefi y mwyafrif o deuluoedd yn yr 1950au, yr oedd merched yn gorfod siopa yn ddyddiol i osgoi gwenwyn bwyd.[674] Nid yn unig oedd hyn yn cymryd llawer o amser allan o ddiwrnod y ferch, roedd hefyd yn golygu bod iechyd y teulu yn nwylo'r ferch. Arferai'r Cymry yn draddodiadol hefyd cael eu hanrhydeddu am eu lletygarwch, ac roedd hyn yn bodoli o hyd yn yr ugeinfed ganrif, pan oedd bwyd a diod yn cael ei gynnig i unrhyw ymwelydd i'r cartref Cymreig, yn enwedig mewn amseroedd pwysig fel y Nadolig.[675] Er diffyg arian gan rhai teuluoedd, roedd lletygarwch yn parhau, er enghraifft gyda chrempog yn esiampl o'r bwyd oedd yn cael ei gynnig.[676] Gwelir bod bwydo cyfeillion ac ymwelwyr yn bwysig tu hwnt i'r Cymry ac yn rhan o'r ymddygiad derbyniol cymdeithasol oedd yn bodoli yn y wlad. Roedd bwydo ymwelwyr yn symbol o letygarwch y teulu hwnnw, ac yn ffordd i groesawu cyfeillion i'r cartref Cymreig. Er bod teuluoedd Sipsi yn gallu bod yn fawr, roedd pob gwraig yn

[672] S. Gregory, 'Gender roles and food in families', yn L. McKie, et al., (gol), *Gender, Power and the Household* (Hampshire, 1999), t.62.
[673] Jones, 'Health and Reproduction', t.94.
[674] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950's,* t.342.
[675] Tibbott, *Domestic Life in Wales*, tt.1-5.
[676] Ibid, t.4.

gyfrifol am fwydo ei gŵr a phlant, heb gymorth ariannol gan ei gŵr yn aml yn yr ugeinfed ganrif.[677] Roedd angen i ferched Sipsi ennill arian eu hunain er mwyn cynnal y teulu, fel bydd yn cael ei drafod yn y bennod nesaf. Mae'r merched Sipsi yn achosi parhad rolau rhywedd yn y gymuned drwy fabwysiadu tasgau fel bwydo'r teulu hyd at y presennol. Mewn astudiaeth gan Fonseca am Sipsiwn ardal Kinostudio, Albania, roedd yn symbolaidd bwysig i fwydo cig i'r teulu mewn ardal mor dlawd.[678] Nid oedd merched Sipsi yn cael gadael y cartref yn aml, gyda'r eithriad o, er enghraifft, prynu bwyd.[679] Mae'r astudiaeth yn dangos pa mor ddylanwadol oedd rôl y merched fel darparwyr a paratowyr y bwyd i'r teulu. Roedd prynu cig yn dangos sgiliau'r ferch o fargeinio mewn ardal dlawd ofnadwy. Er nid oedd y merched yn cael gadael byd mewnol y cartref yn aml, roedd prynu bwyd yn ffordd i ferch fod yn rhan o'r byd cyhoeddus a gweithredu ar ran y teulu.[680] Gwelir y ddefod o fwydo'r teulu fel modd o rhoi statws i ferch Sipsi yn yr ardal, gan ddangos sgiliau'r ferch o allu darganfod bwyd pan oedd cynnyrch yn brin. I raddau helaeth mae'r merched yn derbyn eu rôl draddodiadol, felly'n gwrthod unrhyw ddiwygio gall ddigwydd. Yng ngeiriau Tom McCready, mewn hunangofiant am ei fagwraeth fel Sipsi Seisnig yn yr 1940au a'r 1950au,

> 'Mother would wash her hands and immediately start to prepare the main meal of the day-frequently some kind of meat.'[681]

Roedd hyn i gyd ar ôl i'w fam fod yn gweithio drwy'r dydd. Nid oedd hi'n disgwyl cael unrhyw help gan y dynion yn y teulu, er bod hithau fel y dynion, yn gweithio drwy'r dydd hefyd. Er bod merched y gymuned yn gweithio, roedd paratoi y bwyd yn cael ei weld fel sgil benywaidd, ac felly byddai merched yn cael eu dysgu o oedran ifanc i wneud hynny.

---

[677] Lyster, *The Gypsy Life of Betsy Wood*, t.130.
[678] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.34.
[679] Ibid, t.40.
[680] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, tt.34-40.
[681] T. McCready a J. McCready, *A Wandering of Gypsies-The Autobiography of Two Present-day Romanies* (Derbys, 2001), t.20.

Yn 1958, roedd gwragedd tŷ yn Essex yn brwydro yn erbyn y cynnydd sylweddol mewn prisiau nwyddau fel bwyd, gan ddangos nid pob gwraig tŷ oedd yn aros gartref yn dawel gan beidio herio'r byd cyhoeddus.[682] Merched oedd yn gorfod sicrhau bod arian y teulu yn gorchuddio pob bil a nwyddau oedd ei angen ar y teulu hwnnw. Merched oedd yn rheoli economi y cartref a sicrhau bob popeth yn cael ei dalu ar amser. Swydd y dynion oedd trosglwyddo'r arian. I ferched roedd cynyddu prisiau nwyddau yn fater difrifol iddynt, gan mai hwythau oedd â'r cyfrifoldeb o brynu a pharatoi prydau o fwyd yn y cartref. Gwelir bod rhai merched yn cydnabod eu gwerth yn y gymuned ac yn gweld bod ymgyrchu er rhan eu hunain yn gallu gwneud lles iddynt. Mae bywydau'r Teithwyr Gwyddelig benywaidd yn debyg i'r Sipsiwn, er enghraifft gyda Nellie Power yn honni yn 1988 ei bod hi'n gorfod siopa yn ddyddiol oherwydd y diffyg lle yn y garafán ac yn gorfod berwi dŵr oer os oedd ei angen.[683] Gwelwyd bod bywyd domestig merch Sipsi yn gallu bod yn heriol tu hwnt ymhell i mewn i'r ugeinfed ganrif hwyr. Er hynny, hyd at yr 1950au ym Mhrydain, roedd y rhan fwyaf o ferched yn gorfod siopa yn ddyddiol. Dim ond ers yr 1960au y mae'r weithred o siopa yn wythnosol wedi cynyddu mewn poblogrwydd ymysg teuluoedd Prydain.

Yn aml, mae rhieni Sipsi yn gweld ysgol ffurfiol fel rhan fach o'r broses o addysgu eu plant, gyda gweddill y sgiliau perthnasol i'w dyfodol yn cael eu dysgu gartref, er enghraifft sgiliau domestig a gofal plant i'r merched.[684] Tybiai nifer o rieni bod dirywiad y sgiliau hyn yn golygu dirywiad diwylliannol. Mae gan nifer o'r henoed yn y gymuned anrhydedd mawr yn y rheolau sy'n bodoli i wahanu'r ddau rywedd ac yn ymgeisio i sicrhau bod y teulu ddim yn mabwysiadu arferion cymunedau allanol.[685] Mae barn henoed yn y gymuned yn bwysig ac yn cael ei hystyried gyda gofal gan y cenhedloedd iau. Oherwydd hyn, mae'r syniad o ddysgu

[682] 'A Woman's World', *Fideo Youtube*, 07:26.
[683] M. Lennon et al., *Across the Water-Irish Women's Lives in Britain* (Llundain, 1988), t.180.
[684] 'Moving Forward-Gypsy Traveller Education', *Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau-Llywodraeth Cynulliad Cymru*, Fersiwn ar lein, https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/moving-forward-gypsy-traveller-education.pdf (golwg diwethaf-03/10/19), t.14.
[685] Marcus, *Gypsy and Traveller Girls- Silence, Agency and Power*, t.207.

sgiliau traddodiadol yn hytrach nac aros yn yr ysgol yn cael ei drosglwyddo drwy'r cenhedloedd hyd at y presennol i bobl ifanc Sipsi. Yn ôl Cattanach, mae yna bwysau ar blant i barhau hefo traddodiadau yn y gymuned.[686] Nid yw hyn yn wir i bob teulu Sipsi. Mae'n ddibynnol ar ddelfrydau a barn y teuluoedd penodol yna. Yn ei bywgraffiad mae Samantha Lee yn pwysleisio bod rhaniadau clir o ran dyletswyddau yn y gymuned, gyda'r dynion yn darparu yn ariannol tra bod y merched yn gofalu am y cartref.[687] Cytuna Smith a'r gosodiad hwn gan amlinellu mai rôl ddomestig sy'n arfer disgwyl merch Sipsi erbyn heddiw yng Nghymru.[688] Awgryma'r ddadl hon bod bywydau domestig yn cael eu cysylltu â Sipsiwn benywaidd Cymru hyd heddiw. Yn ôl Casey, mae nifer o'r merched yn gweld eu gwaith domestig fel rhan o ddefod ac fel rhan allweddol o'u hunaniaeth ddiwylliannol.[689] Gwelwyd bod gwraidd dwfn yn y syniadau am ddyletswyddau merched yn y gymuned Sipsi yng Nghymru a gweddill Prydain. I nifer o'r merched, teimlent eu bod yn bradychu eu cymuned a theulu os ydynt yn gwrthod gadael yr ysgol yn fuan a dysgu sgiliau traddodiadol eu rhywedd ymysg y gymuned. Mae lot o bwysau ar y merched hyn i gydymffurfio yn hytrach nac herio rôl sydd wedi bodoli am ganrifoedd yn y gymuned. Ar y llaw arall, mae angen pwysleisio mai nid pob merch Sipsi sy'n cael ei hannog i fod yn wraig tŷ yn hytrach nac aros yn yr ysgol a chael swydd. Erbyn hyn, mae nifer o deuluoedd Sipsi yn herio y syniadau traddodiadol am y gymuned a rôl unigolion oddi fewn iddo.

O ystyried y darlun sy'n cael ei gyfleu gan raglenni teledu a rhai haneswyr, mae nifer o unigolion o'r gymuned ifanc Sipsi yn tueddu i gytuno â'r rhaniadau rhywedd sy'n bodoli a'r tasgau sy'n cael ei gysylltu â rhywedd. Yn y rhaglen *Gypsy Kids-Our Secret World*, a

[686] J. Cattanach, 'Reducing child health inequality among Gypsy Travellers', *Community Practitioner*, Vol.93 (2020), t.46.
[687] Lee, *Gypsy Bride- One girl's true story of falling in love with a Gypsy boy,* t.135.
[688] A. F. Smith, 'Gypsy and Traveller Education: Engaging Families-A Research Report', *Gwefan Llywodraeth Cymru*, https://gov.wales/gypsy-and-traveller-education-0 (golwg diwethaf-03/10/19), t.16.
[689] Casey, ''Caravan wives' and 'decent girls': Gypsy-Traveller women's perceptions of gender, culture and morality in the North of England', tt.12-13.

ddarlledwyd yn 2016 a 2018 roedd rhai o'r merched ifanc yn meddwl ni ddylai merched fynd i'r ysgol a dylent fod gartref yn helpu i ofalu am blant iau.[690] Yn ogystal, themâu parhaol yw'r syniad mai dynion sy'n ennill cyflog, tra bod merched yn glanhau y cartref a gofalu am y plant.[691] Eto, mae hyn yn pwysleisio pa mor ddylanwadol yw syniadau traddodiadol ar blant Sipsi. Gwelwyd bod rôl draddodiadol yn cael ei ddarlunio fel yr unig opsiwn i nifer o'r merched ifanc hyn. Ar y llaw arall, roedd nifer o Deithwyr Gwyddelig yn cael eu harddangos yn y raglen deledu. Fel yn y rhaglen *My Big Fat Gypsy Wedding*, mae'r termau Sipsi a Theithiwr yn cael eu defnyddio yn gyfnewidiol, felly mae'n anodd gwybod yn sicr pa mor berthnasol oedd y wybodaeth oedd yn cael ei gyfleu yn y raglen. Yn ôl Pollert, yn gyffredinol roedd nifer o ddynion ym Mhrydain yn credu'n draddodiadol bod y byd gwaith yn fyd gwrywaidd, tra bod 'lle' y ferch yn y cartref yn cwblhau tasgau domestig.[692] Bwriad hyn oedd sicrhau bod y dynion yn dychwelyd o'r gweithlu i gartref clud a chyfforddus, gyda'r ddelwedd ystrydebol o'r wraig yn gweini ar ei gŵr. Mae'r syniadau traddodiadol hyn yn parhau yn y gymuned Sipsi yng Nghymru, ond ledled Prydain hefyd. Mae yna raniad o ran rhanbarthau rhywedd sy'n debyg i'r maestrefi a ddatblygodd ym Mhrydain ac America yn yr 1950au, gyda'r merched yn y cartref a'r dynion yn y gweithlu.[693] Mae'r system batriarchaidd hon yn dysgu merched i dderbyn eu rôl fel mam a gwraig, gan adael y byd cyhoeddus i'r dynion. Gwelwyd bod merched ym Mhrydain yn gyffredinol yn yr ugeinfed ganrif yn gorfod derbyn eu rôl ddomestig oherwydd mai dyma oedd y rôl ddelfrydol i nifer o ferched. Dyma'r bywyd sy'n wynebu nifer o ferched Sipsi ym Mhrydain hyd heddiw.

Rhanbarth y ferch Sipsi

[690] 'Episode 1: Gypsy Kids-Our Secret World-Season 1 2016', 15:07.
[691] 'Episode 3: Gypsy Kids-Our Secret World-Season 2 2018', *Channel 5*, fersiwn ar lein, https://www.my5.tv/gypsy-kids-our-secret-world/season-2/episode-3 (golwg diwethaf-29/10/19), 01:44.
[692] A. Pollert, 'Women, Gender Relations and Wage Labour', yn D. Morgan et al., (gol), *Gender, Class and Work* (Hants, 1985), t.101.
[693] Huq, *Making Sense of Suburbia through popular culture*, tt.133-135.

Nid yn unig y gwaith domestig yw rhanbarth y ferch Sipsi. Y merched sydd fel rheol yn delio â systemau addysg a gwasanaethau iechyd ar ran y teulu, ond y dynion sy'n dewis faint o addysg mae'r plant yn ei dderbyn.[694] Pwysleisia hyn y gwahaniaeth rhwng merched a dynion yn y gymuned, a pa mor ddylanwadol yw penderfyniadau'r dynion. Er bod y merched yn gweithio fel cyfryngwr ar ran y teulu, y dynion sy'n cael y gair olaf. Darluniwyd y parch sy'n cael ei ddangos tuag at y gŵr gan rhai o'r cyfranogwyr i gwestiwn tair ar ddeg yn yr holiadur 'A yw priodas Sipsi yn wahanol i briodas person nad yw'n Sipsi? Os ydi, sut?'. Yng ngeiriau'r cyfranogwyr eu hunain,

> 'the wife stays at home, and looks after the children and clean and cook, she never disrespects her husband'
>
> 'All conversations with the law, land managers, farmers etc was done by the men.'
>
> 'Men expect their wives to respect them.'

Mae'r dyfyniadau yma yn gosod merched Sipsi mewn rôl draddodiadol delfrydol fel gwragedd tŷ effeithiol, a oedd yn ffyddlon i orchmynion eu gwŷr. Ymysg y Teithwyr Albanaidd, roedd dynion a bechgyn yn cael eu parchu gan aelodau benywaidd y teulu a'u gor-amddiffyn a sbwylio yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif a thu hwnt.[695] Ymddengys bod hyn yn gyffredin ymhlith nifer o deuluoedd teithio yn yr ugeinfed ganrif. Mae'n ddelfryd sy'n parhau ymysg nifer o deuluoedd Sipsi a Theithio hyd heddiw. Er hyn bydd y delfryd yma yn cael ei ddadlau yn ei erbyn nes ymlaen, yn enwedig y syniad mai'r dynion yn unig oedd yn cyfathrebu gyda'r awdurdodau. Bydd y bennod yn dangos bod merched Sipsi Gogledd Cymru yn cael eu gyrru ar ran eu gŵyr i'r llysoedd i drafod gydag awdurdodau mewn amseroedd o drybini. Mae'r rhan fwyaf o ferched Sipsi yn teimlo parch mawr tuag at

[694] Casey, ''Caravan wives' and 'decent girls': Gypsy-Traveller women's perceptions of gender, culture and morality in the North of England', t.14.
[695] Whyte, *Red Rowans and Wild Honey,* t.115.

eu gŵyr. Ond mae'r darlun o ferch Sipsi diniwed yn bell o'r gwirionedd yn y rhan fwyaf o deuluoedd hyd heddiw.

Yng nghartref Liz Monnington, gwraig tŷ yn yr 1950au ym Mhrydain, ei gŵr oedd yn gwneud y penderfyniadau heb unrhyw eithriad ar ran y teulu, er enghraifft amseroedd bwyta neu ar ran addysg y plant.[696] Mae hyn yn ymddangos yn annheg, gan mai'r merched oedd yn arfer delio gyda'r coginio a gyrru eu plant i'r ysgol. Yn debyg, roedd nifer o ferched gwledig Prydain yr 1950au yn edrych tuag at eu gwŷr am y gair olaf ynglŷn â'r blaid wleidyddol dylent bleidleisio amdani.[697] Gwelir bod dynion wedi arfer yn draddodiadol allu gwneud y penderfyniadau ar ran eu teuluoedd. Mewn rhai teuluoedd nid yw'n Sipsiwn, mae'r traddodiad yma yn parhau hefyd. Mae angen cydnabod bod merched Sipsi ag ychydig o bŵer er hynny, wrth iddynt gael eu hymddiried ynddynt i ddelio ag awdurdodau allanol ar ran y gymuned. I ehangu, mae Greenfields yn honni tra bod dynion yn trafod yn gyhoeddus ar ran y teulu, y merched sydd yn gwneud penderfyniadau yn y cartref.[698] Felly, er bod merched ddim â llawer o ddweud yn gyhoeddus, maent yn gallu dylanwadu ar syniadau eu gwŷr yn y cefndir. Mae hyn yn rhan o bŵer y merched hyn, mewn cymuned sy'n cyfyngu eu dylanwad cyhoeddus i raddau helaeth.

Gall rôl y fam yn y gymuned Sipsi fod yn bwerus yn ei rhanbarth ei hun, sef y cartref. Mae Ureche a Franks yn gosod y mamau fel arweinwyr y cartref, gyda'r dasg o amddiffyn enw da'r teulu a chadw at reolau'r diwylliant er mwyn osgoi cywilyddio'r teulu.[699] Mae'r rhagdybiaeth hwn yn gosod dylanwad a chyfrifoldeb i ferched y gymuned, yn hytrach na'i

[696] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950's,* tt.219-220.
[697] Ibid, t.151.
[698] Greenfields, 'Family, community and identity', t.41.
[699] H. Ureche a M. Franks, 'This is who we are-A study of the views and identities of Rroma, Gypsy and Traveller young people in England', *The Children's Society Report*, https://www.childrenssociety.org.uk/sites/default/files/tcs/research_docs/This%20is%20who%20we%20are%20%20A%20study%20of%20the%20experiences%20of%20Rroma,%20gypsy%20and%20traveller%20children%20throughout%20England.pdf (golwg diwethaf-31/10/19), t.28.

israddio. Yn ôl Kiddle, y tu mewn i'r garafán yw'r unig le gall merched cael rheolaeth lwyr.[700] Gwelwyd bod y dyletswyddau domestig yn fath o bŵer i'r merched hyn, ac yn rhoi teimlad o gyfrifoldeb iddynt mewn cymuned wrywaidd. I Madine, y merched sy'n cadw'r gymuned yn glos gyda'u rheolaeth dros y cartref.[701] Mae hyn yn wir mewn cymunedau eraill hefyd. Mamau sydd yn cael eu hystyried yn arweinwyr y cartref mewn nifer o deuluoedd nid yw'n Sipsiwn. Ar y llaw arall, er bod Kendall yn cydnabod dylanwad merched fel pennaeth eu cartrefi, rhaid hefyd cydnabod bod y merched hyn yn ddibynnol ar ddynion y gymuned hefyd, er enghraifft am arian neu os ydynt yn methu gyrru.[702] Felly, gyda'r rôl ddylanwadol o reoli'r cartref, mae cyfyngiadau o hyd wrth i ddiffyg opsiynau a sgiliau olygu bod rhai merched yn parhau i ddibynnu ar y dynion yn y gymuned.

Er mwyn rhoi cyd-destun i hanes dyletswyddau domestig yng Nghymru, mae'n bwysig ystyried pwy oedd â chyfrifoldeb dros waith domestig yn y wlad a beth oedd hyn yn golygu i'r unigolion yma. Yng Nghymru'r ugeinfed ganrif, roedd gan famau gyfrifoldeb llwyr dros dasgau domestig yn y wlad yn gyffredinol.[703] Gwelwyd bod bywydau merched Cymraeg a merched Sipsi Cymraeg efallai ddim mor wahanol yn yr ugeinfed ganrif. Pwysleisiodd Beddoe bod rhanbarthau'r ddau rywedd yng Nghymru'r ugeinfed ganrif yn wahanol iawn.[704] Fel yn y gymuned Sipsi, roedd niferoedd eang o ferched Cymru yn wragedd tŷ tra bod eu gŵyr yn y gweithlu. Mae'r traddodiad yma wedi parhau yn y gymuned Sipsi i raddau helaeth yng Nghymru. Rhanbarth nifer o ferched yw'r cartref gan amlaf, tra mae'r gweithlu yw rhanbarth y dynion gan amlaf. Mewn astudiaeth yng Nghymru yn 1994, darganfyddodd Pilcher bod y genhedlaeth iau yn teimlo dylai dynion wneud siâr o waith domestig, ond ei fod

[700] C. Kiddle, *Traveller Children-A Voice for Themselves* (Llundain, 1999), t.38.
[701] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.197.
[702] Kendall, 'Sites of resistance: places on the margin-the Traveller 'homeplace'', t.82.
[703] B. J. Brown a S. Baker, *Mothers, wives and changing lives- women in mid twentieth-century rural Wales* (Caerdydd, 2011), t.66.
[704] Beddoe, *Out of the Shadows- A History of Women in twentieth century Wales*, t.12.

yn anodd gweithredu hyn.[705] Mae'r astudiaeth hon yn dangos bod y syniadau am waith domestig yn gyffredinol yng Nghymru wedi dechrau newid erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif. Erbyn yr unfed ganrif ar hugain roedd y newidiadau a diwygio yma wedi dod yn flaenllaw yng Nghymru, gyda mwy o ddynion yn cymryd rhan yn y tasgau domestig a merched yn gallu mynd i weithio hefyd. Er hyn, mae Mannay wedi ail-ystyried gwaith Pilcher yn 2016 ac yn dadlau bod byd domestig Cymru yn anhafal o hyd gyda merched yn ceisio bod yn wragedd tŷ perffaith a gweithio'n llawn amser hefyd.[706] Felly, er bod merched yn cymryd rhan yn y byd cyhoeddus fwy erbyn hyn gan weithio, maent yn cael eu tasgu gyda'r gwaith domestig hefyd. Gwelwyd bod gobeithion Pilcher am fyd domestig hafal heb eu cyflawni yn yr unfed ganrif ar hugain hyd yn oed. Ni all un ond tybio bod hyn oherwydd y syniadau ystrydebol mai merched sydd i fod yn gyfrifol am y gwaith domestig.

Yn y gymuned Sipsi yng Nghymru ni ddaeth y ganrif newydd â newidiadau mawr i ddyletswyddau'r merched ychwaith. Cytuna Whitaker, gan honni bod y ddadl ynglŷn â gwaith domestig yn parhau yn yr unfed ganrif ar hugain, gyda merched fel arfer yn gorfod cwblhau'r dasg.[707] Mewn gwaith enwog a sbardunodd symudiad y ffeministiaid, dadleuodd Betty Friedan yn y *The Feminine Mystique* o 1963, bod cyfrifoldeb y ferch dros y cartref a'r teulu mor bwysig â rôl y dyn yn y gweithlu.[708] Ond, er gweithiau fel hyn ac ymdrech y symudiad o ferched yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, i nifer o ferched yr unfed ganrif ar hugain nid oes newid sylweddol wedi digwydd yn eu dyletswyddau. Mae hyn yn wir am y gymuned Sipsi yng Nghymru, ond hefyd am nifer o ferched o cymunedau eraill yn y wlad. Mae gwaith Mannay yn destament i'r ffaith bod merched yn parhau i gael eu cysylltu â'r

[705] Pilcher, 'Who should do the dishes? Three generations of Welsh women talking about men and housework', t.45.
[706] D. Mannay, 'Who should do the dishes now? Revisiting Gender and Housework in contemporary urban South Wales', yn D. Mannay (gol), *Our Changing Land: Revisiting Gender, Class and Identity in Contemporary Wales* (Caerdydd, 2016), tt.65-66.
[707] E. Whitaker, *An Analysis of Betty Friedan's- The Feminine Mystique* (Llundain, 2017), tt.12-13.
[708] Ibid, t.10.

gwaith domestig, er eu sgiliau ehangach.[709] Mae'n rhaid bod hyn oherwydd y syniadau traddodiadol am beth mae'n golygu i fod yn ferch yn yr ymwybod gyffredinol. Er bod nifer o ferched Sipsi a merched nid yw'n Sipsiwn yn rhan o'r gweithlu erbyn hyn, mae'r gwaith domestig hefyd yn cael ei drosglwyddo iddynt hwy yn aml. Y mae nifer o ferched yn y presennol yn gorfod gwneud amser i weithio, ond hefyd i wneud gwaith domestig, mewn byd sydd yn annog merched i wneud y ddau.

Ar wahân i ddyletswyddau domestig, roedd gan ferched ddyletswyddau eraill wedi'i apwyntio iddynt. I Phoenix, merched oedd yn arfer gorfod cymryd cyfrifoldeb dros amddiffyniad plentyn wedi ei enedigaeth.[710] Mae'n debyg bod hyn yn gwreiddio o'r ffaith mai merched, fel gwragedd tŷ yn aml, oedd yn gweld y plant fwyaf. Yn y gymuned Sipsi mae yna raniad o ran cyfrifoldeb y plant sy'n cysylltu â rhywedd; y dynion sy'n magu a hyfforddi'r bechgyn, tra mai'r merched sy'n dysgu'r genethod. Mamau'r gymuned sydd â chyfrifoldeb llwyr dros addysgu eu merched yn niwylliant y Sipsiwn, er enghraifft drwy ddysgu sgiliau glanhau a sut i ofalu am blant o oedran ifanc.[711] Gan fod disgwyl i rai merched briodi tra yn eu harddegau, mae dysgu'r sgiliau hyn o oedran ifanc yn hanfodol. Swyddi Petulengro, o oedran ifanc, oedd cadw'r vardo yn lân, gofalu am blant iau, siopa a choginio.[712] Yn debyg iawn, roedd merched dosbarth gweithiol ym Mhrydain yn gyffredinol yn cael eu hymbil arnynt i helpu i ofalu am blant iau o oedran ifanc.[713] Bwriad rhoi'r swyddi o oedran ifanc oedd llacio cyfrifoldebau'r rhieni a rhoi teimlad o gyfrifoldeb i'r plant. Gwelwyd bod bywydau'r merched ifanc yma ddim mor wahanol â hynny. I ychwanegu, roedd plant hŷn yn y gymuned Teithio ym Mhrydain â chyfrifoldebau tebyg. Yn dair ar ddeg

[709] Mannay, 'Who should do the dishes now? Revisiting Gender and Housework in contemporary urban South Wales', tt.65-66.
[710] Phoenix, *Young Mothers*, t.4.
[711] Cemlyn et al., 'Inequalities experienced by Gypsy and Traveller communities: A review', t.226.
[712] Petulengro, *The Girl in the Painted Caravan-Memories of a Romany Childhood*, t.220.
[713] Bruley, *Women in Britain since 1900*, t.8.

oed, bu'n rhaid i Rosie McKinley ofalu am chwech o brodyr a chwiorydd iau pan oedd ei rhieni wedi teithio o Loegr i Iwerddon am angladd.[714] Er ni fyddai hyn yn cael digwydd erbyn heddiw, mae'n bwysig gweld cymaint o gyfrifoldeb oedd gan plant yn eu harddegau yn y cymunedau Teithio a Sipsiwn ym Mhrydain a thu hwnt.

Byddai'r ddysg am waith domestig yn golygu bod merched yn aml ddim yn ymddiried yn y bechgyn i wneud tasgau domestig, gan feddwl ni fyddent yn ei gwblhau cystal â'r merched.[715] Gwelwyd bod yr hyfforddiant y mae mamau yn ei roi yn sicrhau bod rolau rhywedd derbyniol oddi fewn i'r gymuned yn parhau a pheidio cael eu herio. Yn *Gypsy Kids-Our Secret World*, pasiwyd sgiliau i lawr y cenhedloedd ymysg merched un teulu, gyda'r ferch ifanc yn bwriadu gadael yr ysgol yn ddeg oed fel gwnaeth ei mam a'i nain cynddi.[716] Mae pwysau ar y merched gan ferched eraill y teulu, nid yn unig y dynion, i gydymffurfio â thraddodiadau oes. Yn ôl Hopegood, mae merched ifanc Sipsi yn dysgu sut i lanhau o'r amser maent yn dechrau cerdded.[717] Er bod hyn yn orliwiad, mae merched ifanc Sipsi yn cael eu hannog o oedran ifanc iawn i gopïo eu chwiorydd hŷn a mamau, gan gymryd rhan mewn tasgau domestig. Mae'n debygol i'r merched hyn deimlo eu bod yn gadael y teulu i lawr os nid ydynt yn derbyn eu rôl dderbyniol. Mewn ymchwiliad gyda dwy ar bymtheg o Sipsiwn, Roma a Theithwyr, darganfyddwyd bod rhai merched eisiau herio rolau traddodiadol eu rhywedd a mynychu coleg neu swydd, ond yn ofni colli eu hunaniaeth hefyd.[718] Gwelwyd bod merched y gymuned yn cael eu tynnu rhwng eu dyletswyddau traddodiadol a'u gobeithion personol.

---

[714] McKinley, *Gypsy Girl-A life on the road, A journey to freedom*, tt.76-77.
[715] Foster a Norton, 'Educational equality for Gypsy, Roma and Traveller children and young people in the UK', t.102.
[716] 'Episode 5: Gypsy Kids-Our Secret World-Season 2 2018', *Channel 5*, fersiwn ar lein, https://www.my5.tv/gypsy-kids-our-secret-world/season-2/episode-5 (golwg diwethaf-31/10/19). 06:23.
[717] Hopegood, 'Inside the world of the gypsy girls and why they leave school at the age of 11 to stay home and clean'.
[718] V. Heaslip et al., 'Lived experiences of vulnerability from Gypsy Roma Traveller perspective', *Journal of Clinical Nursing*, Vol.25 (2016), t.1993.

Yn nheulu'r Sipsi Seisnig Henry yn y rhaglen deledu *Absolutely Ascot*, a ddarlledwyd yn 2019, mae merched y teulu yn gofalu am y tŷ a choginio, a'i dad ag yntau yn ennill cyflog.[719] Mae canran uchel o deuluoedd yn parhau i beidio gwyro o'r rolau rhywedd derbyniol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu hefyd yn ymatebion cyfranogwyr i gwestiwn tair ar ddeg yr holiadur 'A yw priodas Sipsi yn wahanol i briodas person nad yw'n Sipsi? Os ydi, sut?'. Yng ngeiriau'r cyfranogwyr,

> 'Women keep to traditional roles: child-rearing, cleaning etc. Men don't take an active part in childcare/housework but financially provides for the family.'
>
> 'Cleanliness was important and from the earliest age girls are taught the importance of a clean home.'
>
> 'Women do all the domestic chores and most of the childcare.'
>
> 'I think the roles are still more traditionally defined in gypsy marriages like women-home and children and Men-work. Both me and my mam married non gypsies but I think we still both tend to stick to traditional women roles than non gypsy women today especially my mam even though both of us also work as well.'

Mae'r tri dyfyniad cyntaf yn pwysleisio rolau derbyniol rhywedd sy'n bodoli mewn rhai teuluoedd Sipsi o hyd, y syniad mai'r ferch dylai wneud y gwaith tŷ, tra bod y dyn yn gweithio am gyflog. Gwelir bod merched yn cael eu dysgu am lendid o oedran ifanc. Mae hyn yn sicrhau bod rôl y ferch fel y gweithiwr domestig yn cael ei feithrin o oedran ifanc iawn. I'r merched sy'n cael eu magu i feddwl mai hwythau dylai wneud y gwaith domestig, nid ydynt yn gwybod am unrhyw beth wahanol ac yn fwy parod i barhau gyda'r rôl draddodiadol hon. Mae'r trydydd dyfyniad yn awgrymu bod y merched yn gwneud y rhan

[719] 'Absolutely Ascot-Season 1, episode 2', *ITV Hub*, https://www.itv.com/hub/absolutely-ascot/2a5862a0002 (golwg diwethaf-19/11/19), 38:10.

fwyaf o'r gofal plant. Mae'r tad yn dysgu'r meibion sut i ennill bywoliaeth i'w hunain yn aml, tra mae'r fam yn dysgu'r merched sut i wneud gwaith domestig, ond hefyd sy'n bwydo'r plant, eu gwisgo a'u golchi. Dangosa hyn mai'r fam yw'r prif warcheidwad am y plant, tra bod y tad yn dysgu'r mab sgiliau cyflogedig yn unig, yn aml. Mae'r dyfyniad olaf yn ddiddorol gan ei fod yn dangos bod y merched Sipsi sy'n priodi pobl o'r gymuned allanol yn fwy tebygol o barhau i wneud y tasgau domestig i raddau helaeth hefyd. Mae'n cael ei gydnabod yn gyffredinol mai merched ym Mhrydain sydd i raddau helaeth yn gyfrifol am waith domestig, felly nid yw'n syndod bod y merched o'r dyfyniad olaf yn parhau gyda'r gwaith domestig mewn priodas gyda dynion nid oedd yn Sipsiwn. Heb os y diwylliant, merched sy'n arfer gorfod gwneud y gwaith domestig. Mae'r cyfranogwr yn nyfyniad pedwar yn ystyried bod hithau a'i mam yn parhau hefo rôl draddodiadol eu rhywedd fwy na merched nad yw'n Sipsiwn er eu bod yn gweithio. Er hyn, mae'r bennod yma yn pwysleisio bod rôl merched yn gyffredinol ym Mhrydain wedi'i gysylltu â gwaith domestig yn draddodiadol a hyd at y presennol er bod canrannau uchel o ferched ym Mhrydain â swyddi hefyd.

Yn ôl Fletcher, roedd ffiniau rhwng gwrywaidd a benywaidd yn fwy clir rhwng y blynyddoedd 1500-1800 yn gyffredinol yn Lloegr.[720] Roedd y ffiniau clir yma yn golygu bod dyletswyddau y ddau rywedd wedi'i plannu'n dwfn yn y meddylfryd Prydeinig. Yn ystod oes Fictoria, roedd merched dosbarth canol a gweithiol yn aml wedi eu clymu i'r tŷ i ffwrdd oddi wrth gysylltiad cymdeithasol.[721] Tra bod merched Uchelwrol yn gallu cyflogi morwynion i wneud y gwaith domestig, roedd y merched o ddosbarthiadau eraill yn gorfod cymryd yr holl gyfrifoldeb o ofalu am y cartref. Nid yw'r ffiniau yma wedi newid llawer hyd at y presennol yn y gymuned Sipsi. Er bod nifer o ferched Sipsi bellach hefo swyddi, maent hefyd yn cael y cyfrifoldeb llwyr o wneud y gwaith domestig yn aml. Mae'n debygol bod hyn oherwydd i'r

[720] A. Fletcher, *Gender, Sex and Subordination in England 1500-1800* (Llundain, 1995), t.407.
[721] L. Mackie a P. Pattullo, *Women at work* (Llundain, 1977), t.21.

gymuned aros ar wahân i'r gymuned allanol cymaint â phosibl a cheisio peidio mabwysiadu arferion y Gorgio. I Holcombe, a ysgrifennodd yn 1973, nid oedd patriarchaeth oes Fictoria wedi diflannu, gyda'r ddelfryd yn parhau.[722] Gwelwyd bod hyn yn wir yn y gymuned Sipsi, hyd yn oed yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae rhai dynion yn y gymuned yn gwneud ymdrech i sicrhau bod y merched yn cael eu cydnabod yn israddol, ac yn gorfod cwblhau'r holl dasgau domestig 'hawdd' fel symbol o hyn. Yn ôl Allen, mae merched Sipsi yn cael eu diffinio trwy berthynas â dynion, a'u gweld fel mamau, gwragedd, chwiorydd a merched, yn hytrach nac unigolion.[723] Mewn byd modern, ble mae merched yn gallu gwneud popeth y mae dynion yn ei gallu, mae'n syndod bod delfrydau hen ffasiwn yn parhau mewn rhai teuluoedd Sipsi. I Johnson, system gwrywaidd dominyddol sy'n diffinio merched.[724] Yn sicr, mae'r system dominyddol yma yn parhau yn y gymuned Sipsi i raddau helaeth. Mae'r ffaith bod y mwyafrif o hanesyddiaeth am y Sipsiwn wedi tueddu i ganolbwyntio ar ddynion Sipsi nes yn ddiweddar yn pwysleisio'r system dominyddol yma. Dynion Sipsi sy'n dominyddu y gweithiau am Sipsiwn, a dynion sy'n dominyddu'r gymuned ei hunan rhan amlaf hefyd sydd efallai yn esbonio pam mai'r dynion sy'n flaenllaw yn y gweithiau. Yn ogystal, fel mae'r gwaith yma wedi dangos yn barod, mae dynion Sipsi yn ceisio gwarchod merched y gymuned rhag dylanwad y byd allanol a sicrhau bod y gymuned yn parhau i fod yn geidwadol. Drwy gwrthod i'r merched cymryd rhan mewn ymchwiliadau am y gymuned, mae merched yn cael eu hanwybyddu yn yr hanesyddiaeth.

Mae'r rhaglenni teledu yn amlinellu sut mae rhai merched Sipsi yn cael eu trin yn israddol oherwydd eu rhywedd. Yn MBFGW mae'r merched yn cael eu darlunio yn rhywiol, ond heb lais gwleidyddol.[725] Y mae'r merched yn y rhaglen yn cael eu darlunio fel gwrthrych yn unig,

[722] L. Holcombe, *Victorian Ladies At Work* (Newton Abbot, 1973), t.200.
[723] S. Allen, 'Race, Ethnicity and Nationality: some questions of identity', yn H. Afshar a M. Maynard (gol), *The Dynamics of 'Race' and Gender: some feminist interventions* (Llundain, 1994), t.95.
[724] M. J. Johnson, *Strong Mothers-Weak Wives* (Llundain,1988), t.2.
[725] A. Tremlett, 'Demotic or Demonic? Race, Class and Gender in 'Gypsy' reality TV', *The Sociological review*, Vol.62 (2014), t.327.

yn hytrach na merched pwerus Sipsi. Mae'r gwaith yma yn ceisio dadlau bod merched Sipsi â dylanwad a phŵer yn eu cymunedau yn draddodiadol a hyd heddiw. Er hyn, trefn diwrnod un o'r merched ifanc ar y sioe oedd coginio, glanhau a gwarchod y plant iau, pob dydd.[726] Mae'r rheolwaith yma yn gadarn i rai merched ac nid yw'r merched yn gallu gwyro oddi wrth eu dyletswyddau, neu byddent yn wynebu digofaint eu tadau. Patriarchaeth, yn ôl Lown, yw rheolaeth dynion dros eu teulu.[727] Mae'r rhaglen MBFGW yn pwysleisio'r pŵer yma drwy gydol rhaglenni'r gyfres. Mae angen i'r merched ofyn caniatâd eu tad cyn gallu gadael eu cartref, tra nid oes angen i'w brodyr wneud. Dangosa hyn bod rhai merched yn cael eu gweld fel ased domestig yn unig, a'u trin yn israddol i'r dynion. Gwelwyd pŵer y tad yn y teulu, a'r syniad bod y merched yn cael eu gor-amddiffyn. Y tad sy'n holl-bwerus, ac hefo'r hawl i dderbyn neu wrthod unrhyw ofyniad gan ferched ei deulu. Ar y llaw arall, mae rhai ffynonellau yn awgrymu bod merched y gymuned yn gallu cael pŵer yn hawl eu hunain. Ym mhapur newydd y *North Wales Express,* pan gafodd dynion o deuluoedd Sipsi Cymraeg Price, Lock, Jones a Hughes eu gorchymyn i'r llys yn 1906 am droseddau priffordd, gyrrwyd eu gwragedd i'r llys ar eu rhan.[728] Gwelir bod merched Sipsi yn cael eu defnyddio gan eu gwŷr i fod yn gyfryngwyr gyda'r awdurdodau. Rhoddwyd pŵer yn nwylo'r merched wrth i'r teulu oll ymddiried ynddynt i ddelio gyda'r heddlu, neu awdurdodau eraill. Mae hyn yn awgrymu bod merched yn cael eu cydnabod yn ddylanwadol yn y gymuned, yn enwedig yn draddodiadol. Gwelir bod y Sipsiwn benywaidd Cymraeg yma yn herio'r syniad bod merched yn cael eu gweld yn israddol yn y gymuned. I'r gwrthwyneb, mae'r merched yn cael eu gyrru fel cyfryngwyr i'r llys gan amlygu eu dylanwad oddi fewn i'r gymuned a phwysleisio eu sgiliau cyfathrebu.

[726] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 1-Episode 3, *Channel 4 boxset,* 1:33:45.
[727] J. Lown, 'Not so much a factory, more a form of patriarchy: Gender and Class during industrialisation', yn D. Morgan et al., (gol), *Gender, Class and Work* (Hants, 1985), t.30.
[728] 'Bangor Police Court', *The North Wales Express- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 20 Gorffennaf 1906, t.3.

Un o'r prif academyddion am wragedd tŷ ym Mhrydain yw Ann Oakley a ysgrifennodd nifer o lyfrau am y pwnc yn ail hanner yr ugeinfed ganrif.[729] I Oakley, nid yw dyletswyddau'r wraig tŷ yn gyffredinol yn cael ei hystyried fel gwaith oherwydd nid oes cyflog yn cael ei ennill.[730] Dyma ffordd i gymuned batriarchaidd israddio gwaith domestig a'i hyrwyddo fel dyletswydd syml, rhywbeth allai merched ei gyflawni fel y rhywedd israddol. Er hyn, amcangyfrifwyd mewn ymchwiliad yn 1971 bod gwragedd tŷ yn gwneud saith deg saith awr o waith tŷ yr wythnos, tra bod merched mewn ardal o Lundain yn gwneud pymtheg awr o waith domestig y diwrnod yn 1951.[731] Dyma swm enfawr o oriau o ystyried bod y gwaith domestig ddim yn cael ei hystyried yn waith o gwbl. Roedd rhai o'r gwragedd tŷ yn gwneud mwy o oriau o waith na'i gŵyr. Pan cafodd gwaith Rowbotham ei gyhoeddi yn 1992, roedd hithau yn amcangyfrif bod merched yn gwneud chwe deg i saith deg awr o waith yr wythnos, oherwydd eu swyddi, gwaith tŷ ac gofalu am eu plant.[732] Er bod gwaith Rowbotham yn cynnwys gwaith cyflogedig fel rhan o'r amcangyfrif, mae'n bwysig gweld bod merched yn cyfrannu oriau sylweddol at rhedeg eu cartrefi hyd yn oed ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, ac yn gweithio mewn swyddi cyflogedig hefyd. Yn bwysig hefyd pwysleisiodd Bargielowska fod gwragedd tŷ yn methu creu rhaniad rhwng eu hamser gweithio ac amser hamdden.[733] Pan ydych yn gweithio o adref, mae'r amseroedd hyn yn tueddu i gymysgu gyda'i gilydd. Tueddai merched gyfuno gwaith ac amser hamdden, er enghraifft wrth wnïo neu weu yn yr amseroedd nid oeddent yn gwneud gwaith domestig.[734] Dyma'r math o amser hamdden fyddai'n creu elw yn y pen draw i'r teulu cyfan. Hyd yn oed yn eu hamseroedd hamdden, roedd merched yn meddwl am y teulu cyfan, gan greu dillad. Heb unrhyw gymorth gan ŵr

[729] Dyhouse, 'Education', t.129.
[730] A. Oakley, *Housewife* (Llundain, 1976), t.3.
[731] Oakley, *Housewife*, t.6; Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950's,* t.57.
[732] S. Rowbotham, *Women in Movement: Feminism and Social Action* (Llundain, 1992), t.5.
[733] I. Z. Bargielowska, 'Housewifery', yn I. Z. Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), t.151.
[734] M. Francis, 'Leisure and Popular Culture', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), t.230.

neu forwynion ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, roedd disgwyl i'r merched yma weithio oriau hirach na swydd lawn-amser, ond ddim cael eu talu.[735] Roedd merched wedi eu caethiwo i'r cartref yn aml, heb amser hamdden i'w hunain nac arian yw hunain ychwaith.

Effaith clebran

Darluniwyd gwragedd tŷ yn gyffredinol ym Mhrydain fel clebran yn hytrach na gwneud unrhyw waith defnyddiol yn draddodiadol. Er hynny, mae'r canran o oriau gweithio uchod yn gwrthddweud hyn. Mae Hopegood yn dadlau bod merched Sipsi erbyn hyn yn gwario o leiaf pum awr y diwrnod yn glanhau eu cartref, gan ddefnyddio o leiaf tair potel o bleach yr wythnos fel rhan o'u harferion glanhau.[736] Mae enw da merch Sipsi yn tueddu i gysylltu â safon eu cartref. Mae ganddynt anrhydedd mewn hysbysebu eu bod yn glanhau am oriau pob diwrnod. Yn ogystal, mae'r defnydd o boteli cyfan o adnoddau glanhau pob wythnos yn fath o symbol o'u hymdrechion yn eu dyletswyddau. Mae clebran yn ffordd o hysbysebu eich sgiliau domestig anrhydeddus yn y gymuned Sipsi. Clebran yn yr achos yma yw bod merched Sipsi yn tueddu i sgwrsio gyda'i gilydd am unrhyw destun o ddiddordeb iddynt, yn enwedig am ymddygiad merched eraill yn y gymuned. Yn ôl Tebbutt, roedd y clebran yn ffordd o allu cymharu ymddygiad a chyfrifoldebau merched eraill y gymuned, gan sicrhau bod disgwyliadau yn cael eu cyflawni, yn enwedig o ran dyletswyddau domestig.[737] Yn y ffordd hon roedd rôl ddomestig merched yn parhau yn hir-dymor. Mae'r traddodiad yma yn parhau yn y gymuned Sipsi ac yn cysylltu gyda'r ynfydrwydd hefo enw da'r teulu. Cytuna Madine a'r gosodiad hon gan amlinellu bod Sipsiwn benywaidd yn hoffi clebran am ei gilydd.[738] Mewn cymuned mor glos, mae'n anodd cadw cyfrinachau, felly mae clebran yn rhan naturiol

[735] Bargielowska, 'Housewifery', t.151.
[736] Hopegood, 'Inside the world of the gypsy girls and why they leave school at the age of 11 to stay home and clean'.
[737] M. Tebbutt, *Women's Talk? A Social History of 'gossip' in working-class neighbourhoods, 1880-1960* (Hants, 1997), t.49.
[738] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.235.

o fywydau'r merched. Gall cymdogion gadarnhau ymddygiad derbyniol cymuned, ac roedd beirniadu a sgandal yn rhan gyffredinol o fywyd cymunedol yn yr oes fodern gynnar hyd yn oed.[739] Gwelwyd bod clebran yn rhan draddodiadol o fywyd y werin ym Mhrydain. Yng Nghymru'r 1950au, roedd clebran yn digwydd rhwng merched Cymreig frodorol sy'n cael ei ddarlunio gan y cystadlu rhwng cymdogion oedd yn digwydd i mabwysiadu'r technoleg newydd megis popty trydanol neu sugnwr llwch.[740] Gwelwyd bod clebran yn achosi i ferched brynu'r technoleg newydd, sy'n dangos bod cadw at ymddygiad derbyniol yr oes fel merched modern yn bwysig iddynt.

Mewn ymchwiliad i ferched Prydain yn yr 1950au gan Nicholson, amlinellodd Maureen Johnson bod ei mam a oedd yn wraig tŷ yn hoffi clebran ac yn annog ei merch i fod yn fwy benywaidd.[741] Mae mam Maureen yn ffitio i'r ddelfryd o'r wraig tŷ oherwydd y clebran, ond hefyd y ffaith bod hi'n annog ei merch i fod yn fwy benywaidd yn ei ffordd o fyw. I ychwanegu, roedd Dot Maskell, a briododd ŵr o'r gefnwlad, yn cael ei beirniadu gan ferched pentref ei gŵr oherwydd iddi wisgo dillad a ystyrir yn fodern.[742] Mae'n debyg bod cenfigen a syniadau traddodiadol yn golygu bod merched yn gormesu merched eraill. Fel arfer roedd clebran yn eithaf diniwed, ond mae enghraifft Dot yn dangos bod rhai merched yn cael ei eithrio o'r gymuned o'i herwydd. Gwelir bod merched yn gorfod cyrraedd safon dderbyniol yn llygaid y gymuned yn yr 1950au. Mae'r syniadau am safonau yn parhau o hyd yn y gymuned Sipsi, ac mae'r delfrydau hyn yn cael eu trosglwyddo drwy glebran.

Yn gyffredinol, mae'r syniad o barchusrwydd yn bwysig i nifer o gymunedau. Cysyllta parchusrwydd yn ôl Skeggs gyda'r darlun delfrydol o'r wraig briod gyda phlant a gŵr sefydlog, yn glanhau'r tŷ.[743] Mae clebran ymysg merched y cymunedau sy'n credu yn y

[739] Capp, *When Gossips Meet: Women, Family and Neighbourhood in Early Modern England,* tt.268-269.
[740] Tibbott, *Domestic Life in Wales*, tt.123
[741] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950's,* t.51.
[742] Ibid, t.150.
[743] B. Skeggs, *Formations of class and gender-Becoming Respectable* (Llundain, 1997), t.21.

ddelwedd yma, fel y Sipsiwn, yn golygu bod parchusrwydd yn hanfodol bwysig yn y darlun o'r teulu hwnnw. Gall parchusrwydd fod yn rhan o bersonoliaeth y ferch, yn ogystal â'i rôl yn y gymuned. Mae'r syniadau yma yn sicrhau bod merched yn parhau gyda'r rôl draddodiadol o wragedd tŷ ac yn cyflawni dyletswyddau domestig am oriau bob dydd i osgoi unrhyw glebran amdanynt. Gwelir bod y disgwyliadau am ferched Sipsi yn gyffredinol ac am eu cartrefi yn uchel ac mae hyn yn cael ei ddarlunio mewn dyfyniad gan gyfranogwr i gwestiwn agored naw yr holiadur, sef 'Oes yna unrhyw draddodiadau ydych chi'n cadw ato?'. Yng ngeiriau'r cyfranogwr,

> 'Travellers are know to have nice things and take pride in their appearance, the perception of others is extremely valued and we believe it is important to be liked'.

Mae'r dyfyniad yma yn crynhoi delfrydau sy'n cael eu rhannu gan nifer o ferched Sipsi a Theithio, y pwysigrwydd o fod yn barchus, glan a bod eraill yn eich hoffi. Mae'r ymddygiad yma yn cael ei drosglwyddo rhwng merched y gymuned ar lafar ac mae clebran yn chwarae rhan allweddol ynddo.

Gan fod rheolau mochadi yno i warchod moesau'r Sipsiwn hefyd, nid yw merched ifanc yn derbyn addysg rhyw yn aml.[744] Pryderai nifer o rieni am effaith yr addysg yma ar eu plant, er enghraifft, yr ofn iddynt fabwysiadu beth sy'n cael ei hystyried fel arferion Gorgio. Ofnai rhieni i'w plant cael eu hannog i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol os ydynt yn derbyn addysg rhyw yn yr ysgol wedi eu hamgylchynu gan fyfyrwyr eraill. Yn ôl Madine, nid yw merched Sipsi yn siarad am ryw gyda'i mamau hyd yn oed, gan ei weld yn amharchus.[745] Golyga hyn bod rhai merched ifanc Sipsi yn priodi heb adnabyddiaeth am ryw o gwbl oherwydd bod eu rhieni yn gwrthod ei drafod a gwrthod gadael iddynt cael addysg

[744] S. Cullen et al., 'Good practice guide: working with housed Gypsies and Travellers', *Shelter England*, http://england.shelter.org.uk/__data/assets/pdf_file/0010/57772/Working_with_housed_Gypsies_and_Travellers.pdf (golwg diwethaf-01/11/19), t.8.
[745] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.204.

rhyw yn yr ysgol. Nid oedd y mwyafrif o ferched ifanc yn yr ugeinfed ganrif gynnar yn derbyn addysg rhyw ychwaith, a phriodi heb wybodaeth syml fel sut i feichiogi.[746] Gallai hyn cael effaith negyddol iawn ar y berthynas rhwng y cwpl newydd. Mewn ymchwiliad gan Nicholson am ferched yn yr 1950au, roedd Liz Jones yn credu bod cusanu bachgen yn gallu arwain at feichiogrwydd.[747] Daw'r syniadau yma oherwydd diffyg addysg rhyw i ferched yn yr 1950au. Roedd gan nifer fawr o famau gywilydd i siarad am faterion rhywiol gyda'i merched a oedd yn arwain at anwybodaeth lwyr i nifer o ferched ifanc ynglŷn â hormonau a rhyw. Mae'r anwybodaeth yma yn parhau ymysg merched mewn nifer o deuluoedd Sipsi, gan iddynt gael eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y dosbarthiadau addysg rhyw mewn ysgolion, a'u rhieni yn gwrthod eu haddysgu eu hunain. Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, roedd camau yn cymryd lle i addysgu merched ifanc am ryw. I nifer o ferched Sipsi, roedd yr addysg yma wedi'i wahardd, oherwydd credoau rhieni. Mae rhieni Sipsi eisiau cadw eu plant, yn enwedig y merched, yn gwbl ddiniwed a glan. Arferai Bendell cael ei glanhau gan ei mam amryw o weithiau pob diwrnod yn yr 1950au ym Mhrydain.[748] Gwelwyd bod yr angerdd hwn hefo glendid, purdeb a diniweidrwydd heb gywasgu yn yr unfed ganrif ar hugain mewn nifer o deuluoedd yn y gymuned Sipsi.

Rôl y matriarch

Yn ddiddorol, nid yw'r merched hŷn yn gorfod cadw at lot o'r rheolau moesol gan fod eu rhywiaeth ddim yn cael ei ystyried yn fygythiad i ddynion y gymuned.[749] Pwysleisir y cysylltiad rhwng rhywiaeth a glendid. Y merched ifanc hyd at ganol oed oedd yn derbyn y gormes mwyaf ynglŷn â hyn, sy'n dangos eu bod yn cael eu hystyried yn ffigyrau israddol i ddynion y gymuned. Darluniwyd y merched ifanc hyd at ganol oed fel unigolion ni all rheoli

[746] Hall, 'Sexuality', t.52.
[747] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950's,* t.55.
[748] Bendell, *Rabbit stew and a penny or two,* t.11.
[749] Fonseca, *bury me standing- The Gypsies and their journey*, t.80.

eu rhywiaeth eu hunain, yn enwedig yn eu hieuenctid. Diddorol yw'r ffaith bod merched hŷn yn gallu anwybyddu nifer o'r rheolau, gan ddangos eu dylanwad matriarchaidd erbyn diwedd eu hoes. Mae'n debygol bod y ffaith i'r mislif dod i ben i'r merched hŷn yma yn golygu bod y merched ddim yn cael eu hystyried yn aflan bellach. Awgrymir hyn mai mislif yw'r tabŵ mochadi gwaethaf i ferch Sipsi. Mewn cymuned Sipsi yn Mrostar, Albania, roedd merched hŷn hefo pŵer oherwydd eu hadnabyddiaeth o ysbrydion a meddyginiaeth.[750] Yn ogystal, roedd y ffaith bod merch hŷn yn dod yn fwy corfforol gwrywaidd yn ei henoed yn golygu bod ei statws yn cael ei weld yn uwch.[751] Dangoswyd hyn bod cymunedau o Sipsiwn tu hwnt i Gymru a Phrydain yn gyffredinol yn derbyn dylanwad a phŵer y matriarch. Gallai merched fabwysiadu statws am eu hadnabyddiaeth o faterion nid oedd yn draddodiadol i ddynion y gymuned adnabod, megis meddyginiaeth neu faterion ysbrydol. Byddai'r merched yma yn cael eu galw arnynt am gyngor neu safbwyntiau ynghylch materion allai effeithio ar y teulu neu'r gymuned gyfan. Y mae Lee yn cytuno â'r syniad o'r matriarch fel person dylanwadol, gan ychwanegu ni fyddai unrhyw berson o'r teulu yn ei chroesi.[752] Gall hyn esbonio pam bod merched hŷn yn derbyn fwy o barch yn y gymuned. Yr oedd ambell i fatriarch yn datblygu i'w cael eu gweld fel Brenhines y Sipsiwn. Un o'r merched yma oedd Louisa Smith, ac roedd y Brenhines yn cael ei gweld fel cyfathrebwr nodedig, cynghorydd i ferched eraill y gymuned am draddodiadau a defodau, ac yn cael ei pharchu gan ddynion y gymuned hefyd.[753] Mae'r ffaith bod marwolaeth Brenhines y Sipsiwn Henty Smith yn ardal Handsworth, Birmingham, wedi'i gofnodi ym mhapur newydd y *Rhyl Record and Advertiser* yn 1907, yn dangos ei dylanwad yn yr ardal honno a'r ffaith ei bod hi'n adnabyddus yng Nghymru hefyd.[754] Mae'r

[750] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.80.
[751] Ibid, t.80.
[752] Lee, *We Borrow the Earth-An Intimate Portrait of the Gypsy Folk Tradition and Culture*, t.90.
[753] Locke, *Big Louie & Me- Caravans, curses & cockfights*, t.3, t.12.
[754] 'Gipsy Queen's Death', *Rhyl Record and Advertiser- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 12 Ionawr 1907.

ffaith bod Henty yn cael ei chyfeirio ati fel Brenhines ardal penodol yn awgrymu bod Brenhinesoedd gwahanol mewn ardaloedd gwahanol. Mae'n ddiddorol bod y matriarch yn dylanwadu ar merched y gymuned fwyaf, gan ddangos bod rhaniad clir rhwng y merched a dynion, hyd yn oed yn achos y merched dylanwadol yma. Nid oedd angen i ferch fod yn fatriarch i fod yn ddylanwadol yn y gymuned er hynny. Darluniodd y Sipsi Seisnig Tom McCready ddylanwad ei fam wrth iddo yntau a'i dad orfod gofyn caniatâd ei fam cyn prynu carafán newydd yn yr 1950au.[755] Gwelir bod y fam yn yr achos yma â dylanwad dros penderfyniadau teuluol pwysig yn ymwneud âg arian, ac mae'n debygol bod y delfrydau hyn yn gyffredin mewn teuluoedd eraill Sipsi hefyd.

Cyfeiriodd rhai cyfranogwyr cwestiwn deuddeg yr holiadur, sef 'A yw rôl merched Sipsi wedi newid dros y blynyddoedd yn eich barn chi? Os ydi sut?' at y syniad traddodiadol o'r matriarch Sipsi. Yng ngeiriau'r cyfranogwyr,

> 'in my family the female was always the matriarchal.'
>
> 'Gypsy women used to have a lot more power within the family and community years ago. In some cases the head of the family would be an elderly matriarch who made decisions, and even if it was a man-there would normally be a strong Gypsy woman who people would come to with problems or to ask for advice.'

Mae'r dyfyniad cyntaf yn bwysig wrth ddangos bod rhai teuluoedd â merch fel pennaeth. Dangosa'r dyfyniad cyntaf bod merch bob amser yn bennaeth ar y teulu penodol hwnnw, sy'n unigryw a diddorol. Mae'r ail ddyfyniad yn gymhellol hefyd gan ei fod yn dangos rôl y matriarch fel penderfynwr a chynghorwr yn y teulu. Mae'r dyfyniadau yma yn amlygu sut oedd merched Sipsi yn gallu cael rôl allweddol, yn enwedig yn eu hoedolaeth hwyr heb os

[755] McCready a McCready, *A Wandering of Gypsies-The Autobiography of Two Present-day Romanies*, t.54.

dylanwad y dynion yn y teulu. Nid yw'n syndod felly bod y matriarch ddim yn gorfod cadw at y rheolau moesol llym oedd yn ymwneud â Sipsiwn benywaidd. Yn ôl cofnod Lewis Henry Morgan yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd merched Iroquois yn rheoli cynnyrch a dosbarthu bwyd yn y gymuned, yn ogystal â chael dylanwad ar gyngor gwrywaidd y gymuned.[756] Gwelir nid traddodiad modern yw matriarchaeth mewn cymunedau bychain. Gallai merched mabwysiadu dylanwad eang mewn rhai cymunedau a derbyn parch mawr gan aelodau gwrywaidd eu cymdeithas. Nid pob merch yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif oedd yn cael eu hisraddio gan eu chymuned. Mewn astudiaeth yn yr 1990au, darganfyddodd Fonseca bod merched ifanc teulu o Sipsiwn yn Kinostudio, Albania, yn ateb i'w mam-yng-nghyfraith yn hytrach nac i'w gwŷr oherwydd bod y fam-yng-nghyfraith yn cael ei gweld fel matriarch dylanwadol yn hawl ei hun.[757] Gwelir bod y matriarch yn gallu cael dylanwad eang ar aelodau benywaidd ei theulu neu gymdeithas, wrth i'r iau ddysgu yn ôl ei dylanwad ac ymateb iddi hi. Mewn rhai teuluoedd, roedd dylanwad y matriarch yn ymestyn dros aelodau benywaidd y teulu yn unig. Er hyn, roedd y dylanwad yma yn rhoi pŵer i'r merched hŷn yn hawl ei hunain.

Dynion domestig

Yn ail gyfres *Gypsy Kids-Our Secret World*, rydym yn cwrdd â rhieni geneth sydd wedi ysgaru, gyda'r tad yn gorfod gwneud mwy o dasgau domestig drosto'i hun, yn gyferbyniad i arferion y Sipsiwn.[758] Dyma enghraifft anarferol, sy'n dangos bod rhai dynion yn y gymuned yn gorfod addasu i'w sefyllfa a dysgu sut i gwblhau tasgau domestig, yn enwedig wedi ysgariad. Oherwydd yr ystrydeb o ferched fel gweithwyr domestig, mae hyn yn golygu bod

[756] Pearson, *The Archaeology of Death and Burial*, t.100.
[757] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.40.
[758] 'Episode 2: Gypsy Kids-Our Secret World-Season 2 2018', *Channel 5*, fersiwn ar lein, https://www.my5.tv/gypsy-kids-our-secret-world/season-2/episode-2 (golwg diwethaf-29/10/19), 15:32.

nifer o ddynion yn gyffredinol â diffyg sgiliau domestig.[759] Yn ôl Oakley, tra bod cyflogwyr yn disgwyl i ferched fod â rôl ddomestig, nid oes yr un disgwyliadau i ddynion.[760] Mae hyn yn golygu bod cyflogwyr yn llai hyblyg tuag at ddynion sydd angen amser oddi wrth eu swydd i gwblhau tasgau domestig. Mae hyn hefyd yn wir wrth ystyried absenoldeb tadogaeth, sydd yn llai o lawer nac absenoldeb mamolaeth. Os mae ysgariad yn digwydd mae'n gallu bod yn anodd i ddynion gorfod dysgu'r sgiliau domestig hyn. Yn arferol, yr unig dasg ddomestig y mae'r gŵr Sipsi yn ei gyflawni yw paratoi bwyd mewn amseroedd unigryw. Enghraifft o hyn yw os yw'r ferch yn cael ei hystyried yn aflan wedi iddi eni plentyn.[761] Yn yr achos hwn, byddai'r bwyd yn cael ei hystyried yn llygredig os fyddai'r merch yn ei baratoi. Mae'r ddefod yma yn pwyso dynion i orfod gwneud tasgau domestig wedi'r cyfnod o eni plentyn ac yn pwysleisio rôl israddol merched yn llygaid dynion y gymuned. Mae'r ffaith bod merch yn cael ei hystyried yn llygredig wedi genedigaeth yn pwysleisio bod rheolau mochadi yn fwy perthnasol i ferched y gymuned ac yn cael yr effaith fwyaf arnynt. Yn ôl Nell Loveridge roedd y ferch yn cael ei hystyried yn aflan wedi'r enedigaeth nes i'r plentyn cael ei fedyddio.[762] Mae'n bosibl bod y bedydd fel digwyddiad Crefyddol a phur yn diddymu unrhyw aflendid neu lygredd yn llygaid y gymuned. Neu, mae'n bosibl bod digon o amser wedi pasio erbyn y bedydd i ddweud yn sicr bod y ferch yn lan unwaith eto. Dangosa'r enghraifft uchod bod cynnydd ysgaru yn y gymuned yn golygu bod dynion yn gorfod dysgu sgiliau domestig ar ran eu hunain. Yn y ffordd hon y mae traddodiadau diwylliannol yn dirywio hefyd yn llygaid rhai unigolion o'r gymuned gan bod rôl ddomestig wedi'i gysylltu a hunaniaeth diwylliannol merched y gymuned yn draddodiadol.

[759] B. Mason a E. Mason, 'Masculinity and family work', yn R. J. Perelberg a A. C. Miller (gol), *Gender and Power in Families* (Llundain, 1990), t.212.
[760] Oakley, *Housewife*, t.69.
[761] Adams et al., *Gypsies and Government Policy in England,* t.76.
[762] Loveridge, *Gypsies-I married a Romany! Honest, Raw and Extremely Funny!* Dim rhif tudalennau.

Casgliad y thema defodau glendid a dyletswyddau domestig

Gallai'r wraig tŷ cael ei darlunio mewn ffordd gadarnhaol, nid yn unig fel ffigwr israddol i ddynion. Mae academyddion diweddar yn darlunio gwragedd tŷ fel ffigyrau canolog oedd yn ychwanegu at safonau byw teuluoedd yn sylweddol.[763] Heb i ferched gwblhau tasgau domestig, byddai cartrefi'r ugeinfed ganrif yn fudur ac aflan tu hwnt. Merched oedd yn gyfrifol am fwydo, dilladu, golchi a glanhau yn y cartref. Heb y merched hyn, byddai'r deinamig y cartref wedi dirywio. I nifer o unigolion o bob cefndir, y fam sy'n darlunio'r syniad o gartref iddynt. Roedd dyletswyddau'r merched yn gallu fod yn symbol o barchusrwydd teuluoedd ym Mhrydain. Yn ogystal, daeth rheoli'r cartref yn rhan o hunaniaeth merched Prydain erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif.[764] Dangoswyd bod newidiadau wedi digwydd dros y ganrif wrth i'r syniad o'r wraig tŷ fod yn symbol o fod yn Brydeinig. Erbyn heddiw, mae Madine yn honni bod rhai Sipsiwn Romani a Seisnig yn dewis peidio cadw at y traddodiadau dwfn glendid, oherwydd eu cysylltiadau mwy agos gyda'r gymuned allanol.[765] Mae technoleg newydd a newid mewn syniadau yn golygu bod traddodiadau yn dirywio ymysg rhai teuluoedd. I nifer o deuluoedd, sy'n byw mewn cartrefi moethus erbyn hyn, nid yw'r defodau glendid llym mochadi yn angenrheidiol. Er bod rhai o'r rheolau glendid llym ddim bellach yn perthnasol i rhai merched, er enghraifft golchi dillad merched a dynion ar wahân, mae glanhau yn bwysig i rhai merched o hyd ac yn cael ei weld fel symbol o'u hunaniaeth fel merch Sipsi. Ond, roedd rheolau mochadi yn cynnwys rheolau am burdeb corfforol a moesol, ac roedd glanhau yn ffurfio rhan o hyn yn unig. Roedd peidio siarad am bethau llygredig, er enghraifft organau rhyw, wedi'i wahardd, ac mae hyn yn parhau mewn rhai teuluoedd o hyd. Yn ogystal, mae'r ffaith bod rhai merched Sipsi wedi eu gwahardd rhag cymryd rhan mewn dosbarthiadau addysg rhyw gan eu rhieni yn awgrymu bod purdeb

[763] Bargielowska, 'Housewifery', t.161.
[764] Ibid, t.162.
[765] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.140.

moesol eu plant o bwysigrwydd iddynt o hyd. Mae'r ffaith bod nifer o deuluoedd Sipsi yn gwarchod moesau eu genethod yn awgrymu eu bod yn defnyddio rheolau mochadi o hyd, er bod rhai efallai ddim yn ystyried neu cofio bellach eu bod yn gwneud hynny. Mae'n debygol bod hyn wedi cyfrannu at y ffaith bod rhai teuluoedd yn y gymuned yn geidwadol tu hwnt erbyn y presennol.

O ran dyletswyddau domestig, mae pryder cyffredin ymysg Prydeinwyr ynglŷn â'r balans rhwng gwaith a bywyd teuluol i ferched.[766] Erbyn hyn, mae mwy o ferched yn gweithio oriau hirach yn ôl Cromptom a Lyonette.[767] Golyga hyn bod merched hefo llai o amser i wario ar ddyletswyddau domestig. Er hyn, y mae syniad mytholegol bod rôl ddomestig merched yn naturiol.[768] Mae hyn yn golygu mai merched sydd yn cymryd y cyfrifoldeb mwyaf am y gwaith tŷ, hyd yn oed os ydynt yn gweithio mewn swydd gyflogedig hefyd. Golyga hyn fod merched yn tueddu i gael llai o amser hamdden na dynion, wrth iddynt orfod rhannu eu hamser rhwng y gweithlu a'r cartref yn aml.

I rai merched sydd eisiau bywyd mwy domestig, nid yw hyn yn opsiwn, gyda'r angen am ail gyflog yn gyffredin i nifer o deuluoedd. Mae Gillis a Hollows yn darlunio gwraig tŷ fel bod yn garcharor yn y cartref.[769] Er hynny, mae rhai merched eisiau bod yn wragedd tŷ ac yn methu oherwydd gofynion ariannol yr unfed ganrif ar hugain. Mewn ymchwiliad am ferched yn yr 1950au disgrifir Nicholson merched y cyfnod fel, 'wielding degrees and diplomas-reduced to becoming nappy-changers and cooks'.[770] Ond beth am y merched oedd eisiau gwneud trawsnewidiad o fod yn weithiwr i fod yn wraig tŷ? Mae angen cydnabod nid pob merch oedd eisiau gweithio yn yr 1950au, a rhaid dweud yr un peth am yr unfed ganrif ar

[766] R. Cromptom a C. Lyonette, 'Are we all working too hard? Women, Men, and changing attitudes to employment?', yn A. Park et al., (gol), *British Social Attitudes-The 23rd report- Perspectives on a changing society* (California, 2011), t.3.
[767] Ibid, t.12.
[768] Oakley, *Housewife*, t.157.
[769] Gillis a Hollows, 'Introduction', t.1.
[770] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950's,* t.191.

hugain. I'r merched sydd eisiau aros yn y cartref i fagu teulu a gwneud y gwaith domestig, y mae gofynion y gymdeithas erbyn hyn yn golygu bod y merched yma yn cael eu disgrifio fel pobl diog a hen ffasiwn. Erbyn 2004 roedd Harris yn dadlau bod y mwyafrif o ferched yn methu bod yn wragedd tŷ oherwydd bod eu gwŷr â chyflogau ansefydlog neu yn methu fforddio eu cadw gartref.[771] Tueddai merched yn yr unfed ganrif ar hugain cael eu hannog i weithio. Cynigir Harris pwynt teg, mai nid pob merch sydd yn addysgedig a phroffesiynol ym Mhrydain yr unfed ganrif ar hugain.[772] Nid yw hyn yn cael ei hystyried yn aml, gan fod merched yn cael eu hannog i weithio a magu teulu ar yr un pryd. Y mae bywyd traddodiadol allan o afael y rhan fwyaf o ferched yng Nghymru a gweddill Prydain oherwydd syniadau newydd am rôl y ferch erbyn hyn. Oherwydd y cyd-briodi gyda'r Gorgio yn y gymuned Sipsi, mae nifer o'r Sipsiwn benywaidd â bywydau tebyg iawn i ferched o cymunedau allanol erbyn hyn. Golyga hyn fod nifer o'r merched Sipsi yn gorfod gadael y cartref a mynd i weithio er mwyn helpu i gynnal eu teuluoedd, yn hytrach na byw bywyd traddodiadol. Rhaid cofio mai tuedd eithaf diweddar yw bod yn wraig tŷ yn unig, a cyn yr ail ryfel byd roedd merched yn tueddu i gyfuno dyletswyddau domestig gyda gwaith i ennill cyflog, fel bydd yn cael ei drafod yn y bennod nesaf.[773]

[771] A. Harris, *Future Girl: Young Women in the Twenty-First Century* (Llundain, 2004), t.7.
[772] Harris, *Future Girl: Young Women in the Twenty-First Century*, t.8.
[773] Bargielowska, 'Housewifery', t.149.

Pennod 4: Merched Sipsi yn gweithio neu'n derbyn addysg

Cefndir

> 'The story of women in paid work in the twentieth century is that until the 1950s and especially the 1970s they mainly didn't have it.'[774]

Mae'r bennod hon yn dadlau yn erbyn y gosodiad yma gan ddangos bod Sipsiwn benywaidd Prydain a merched o'r cymunedau eraill Prydeinig yn gweithio am gyflog drwy gydol yr ugeinfed ganrif. Yr oedd gwaith penodol yn cael eu cysylltu â Sipsiwn benywaidd yng Nghymru yn draddodiadol, er enghraifft fel adroddwyr ffortiwn a gwerthwyr o ddrws i ddrws. Mae'r bennod yn dangos sut newidiodd Sipsiwn benywaidd yng Nghymru o weithio eu swyddi traddodiadol i gymryd rhan mewn gwaith tebyg i ferched gwerin eraill yng Nghymru erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, ac yn bendant erbyn y presennol. Mae'r bennod hefyd yn ystyried sut ddatblygodd rhai teuluoedd Sipsi y syniad y dylai merched peidio gweithio ac aros yn y cartref. Bydd yn dangos pam bod hyn wedi digwydd a sut roedd hyn yn cysylltu â dirywiad swyddi traddodiadol y Sipsiwn benywaidd. Yn ogystal, mae'r bennod yn trafod addysg merched Sipsi yng Nghymru a sut daeth merched Sipsi yn y wlad i fynychu Prifysgolion. Bydd cymariaethau yn cael eu creu rhwng Sipsiwn benywaidd Cymru a Sipsiwn benywaidd yng ngweddill Prydain, yn ogystal â'r Cymry benywaidd eu hunain. Mae hyn yn bwysig i greu cyd-destun i hanes gwaith ac addysg Sipsiwn benywaidd yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r ffynonellau am waith ac addysg y Sipsiwn benywaidd yng Nghymru, yn enwedig yn yr ugeinfed ganrif, yn brin, felly mae angen creu cymariaethau gyda merched eraill er mwyn dyfalu sut byddai'r Sipsiwn yng Nghymru wedi byw. Fel y bennod diwethaf am ddefodau glendid, mae'r bennod yma yn bwysig gan ei fod yn rhoi mewnwelediad i fywyd pob dydd cyffredin y Sipsiwn benywaidd yng Nghymru. Mae'n ffitio i'r thema

[774] D. McCloskey, 'Paid Work', yn I. Z. Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), t.165.

traddodiadau a defodau y Sipsiwn benywaidd yng Nghymru gan fod y gwaith yr oedd y Sipsiwn Cymreig yn ei wneud yn draddodiadol ac unigryw i'r gymuned. Mae'n bwysig i'r thema gan ei fod yn dangos sut mae traddodiadau wedi newid, a sut mae merched Sipsi erbyn hyn yn cael addysg a gwneud swyddi gwahanol i'r rhai byddai wedi cael eu cysylltu a nhw drwy gydol yr ugeinfed ganrif.

Gwaith traddodiadol

Drwy gydol yr ugeinfed ganrif, roedd merched Sipsi wedi gorfod gweithio. I Morgan, roedd trawsnewid cymdeithasol yng Nghymru yn yr ugeinfed ganrif, gyda thwf yn y niferoedd o ferched oedd yn gweithio yn y wlad.[775] Roedd angen i bawb yn y gymuned weithio er lles y teulu. Er bod dyletswyddau domestig yn rhan allweddol ym mywydau merched Sipsi yng Nghymru ac yng ngweddill Prydain, roedd gan y merched hyn gyfrifoldebau eraill hefyd. Gwaith oedd rhan arferol o fywydau Sipsiwn benywaidd traddodiadol. Mewn astudiaeth am Sipsiwn ardal Kinostudio yn Albania, y rhinwedd pwysicaf i'r merched oedd gweithio'n galed.[776] Roedd hyn yn wir i Sipsiwn benywaidd Cymru o ystyried sut mae merched o fy nheulu i yn cael eu clodfori am weithio'n galed trwy gydol eu hoes ar ôl iddynt farw hefyd. Roedd merched wedi arfer gwneud tasgau ar wahân i waith domestig ym Mhrydain, er enghraifft, gyda merched yn yr oes fodern gynnar yn gwerthu nwyddau yn y farchnad leol, helpu i eni plant neu fod yn bennaeth dros cartrefi eu hunain wedi marwolaeth eu gŵr.[777] Gwelwyd bod merched ym Mhrydain yn gyffredinol â rôl allweddol yn y gymuned, ar wahân i'w dyletswyddau gartref. Yng Nghymru, yn gyffredinol, roedd nifer o ferched wedi arfer ennill cyflog ychwanegol i'r teulu mewn rhyw ffordd. Yn yr oesoedd canol yng Nghymru, roedd merched yn cael eu cyflogi fel gweithwyr amaethyddol, cynhyrchwyr defnydd ac yn

[775] Morgan, *Wales: An Illustrated History*, tt.278-279.
[776] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.40.
[777] Capp, *When Gossips Meet: Women, Family and Neighbourhood in Early Modern England*, tt.26-27.

gwasanaethu yng nghartrefi haenau uwch y gymdeithas.[778] Roedd merched yn rhan arwyddocaol ym myd y gweithwyr, ac yn ased angenrheidiol, yn enwedig wedi cyfnodau o bla pan oedd y gweithlu wedi'i gyfyngu. Rhwng diwedd y rhyfel byd cyntaf a'r 1940au hwyr, merched ifanc 'dan bedwar ar hugain oed oedd yn ffurfio 45% o'r gweithlu benywaidd.[779] Rhai o'r prif swyddi ar gael oedd fel gwasanaethwyr domestig neu mewn ffatrïoedd. Gwelwyd bod merched ifanc yn fwy parod i fabwysiadu swyddi, gan ddangos bod y ganrif newydd wedi dod â diwygio yn y gweithlu hefyd. Erbyn yr 1940au roedd hi'n eithaf cyffredin i ferch ifanc weithio cyn iddi briodi. Dyma gyfnod symudiad y ffeministiaid ym Mhrydain, gyda merched yn mabwysiadu rôl fwy dylanwadol yn y byd cyhoeddus a hawlio lle yn hanes gwleidyddol Prydain hefyd. Yn 1852, o'r wyth miliwn o ferched dros ddeg oed a oedd yn byw yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, roedd 2,348,200 yn gweithio.[780] Mae'r swm yma yn dangos bod merched yn ffurfio rhan sylweddol o'r gweithlu yn gyffredinol ym Mhrydain. Er hynny, nid oedd y Sipsiwn yn arfer cael eu cynnwys mewn cyfrifiadau yn aml, felly mae'n debygol nid yw'r swm uchod yn cyfateb i'r niferoedd o Sipsiwn benywaidd oedd yn gweithio. Rheswm ymarferol dros hyn oedd bod y Sipsiwn heb cyfeiriad sefydlog, a felly bod llenwi cyfrifiad yn amhosibl. Bydd y thema hon yn dangos bod Sipsiwn benywaidd yn arfer gweithio, ac yn ased mawr i incwm y teulu. Yn ystod oes Fictoria, roedd y Gymdeithas Annog Cyflogaeth i ferched yn hyfforddi grwpiau o ferched i gael swyddi, fel er enghraifft: trinwyr gwallt, ffotograffwyr, golygwyr neu ymgyrchwyr elusennol.[781] Yn sicr, nid oedd cymdeithasau fel yr uchod yn cael unrhyw effaith ar y Sipsiwn benywaidd a oedd yn byw ar wahân cymaint â phosibl oddi wrth y gymuned allanol. Roedd y merched yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd yn dewis gweithio yn cael ei beirniadu am 'gymryd' gwaith y dynion

[778] Smith, 'Towards a History of Women in Late Medieval Wales', t.36.
[779] S. Todd, *Young Women, Work and Family in England 1918-1950* (Rhydychen, 2005), t.1.
[780] Mackie a Pattullo, *Women at work*, t.13.
[781] Holcombe, *Victorian Ladies At Work*, t.16.

a chael llai o gyflog amdano.[782] I ychwanegu, roedd adroddiad i gyflwr addysg yng Nghymru yn 1847 yn beirniadu merched oedd yn gwneud gwaith oedd yn cael ei hystyried yn wrywaidd, er enghraifft yn y pyllau glo, gan eu darlunio yn herio ymddygiad rhywiol hefyd.[783] Felly, roedd y merched yma yn yr adroddiad yn cael eu darlunio yn anfoesol am herio'r syniadau Fictoraidd am safle'r ferch a'r swyddi dylai merched ymgymryd. Gwelwyd bod merched yn cael eu trin yn wael am ymgeisio am swyddi yn hytrach na phriodi, er bod hanes hir-dymor o ferched yn y gweithlu. Bydd y bennod yma yn dangos bod merched Sipsi yn cael eu cyflogi mewn swyddi oedd yn cael eu hystyried yn wrywaidd yn yr ugeinfed ganrif, a bod hyn yn gyffredin yn eu cymuned hwy.

Cwestiwn deuddeg yr holiadur oedd 'A yw rôl merched Sipsi wedi newid dros y blynyddoedd yn eich barn chi?' O'r cant dau ddeg a phedwar o ymatebion, mae'r graff canlynol yn dangos y canlyniadau:



Cwestiwn deuddeg oedd un o'r cwestiynau mwyaf pwysig yn yr holiadur, gan ei fod yn cysylltu'n agos iawn gyda'r cwestiwn ymchwil a'r darganfyddiadau yn y gwaith yma. O ystyried y graff mae'n ddiddorol gweld bod cymaint o gyfranogwyr yn credu bod rôl merched Sipsi wedi newid. Ar y llaw arall, roedd 24.19% yn credu nid oedd wedi newid, sy'n

[782] S. Ellis, *The women of England: Their social duties and domestic habits* (Llundain, 1839), t.346.
[783] Roberts, *The Language of the Blue Books- The Perfect Instrument of Empire*, t.162.

swm teg, ac sy'n dangos bod rhai unigolion yn credu bod rôl merched Sipsi heb newid o gwbl, boed hynny'n beth da neu ddrwg. Ar y cyfan, mae'r cwestiwn yma yn amlygu sut mae rôl merched Sipsi wedi newid yn y presennol. Bydd y bennod yma, mwy na phenawdau eraill yn y gwaith, yn pwysleisio sut mae bywydau merched Sipsi wedi newid, yn enwedig sut mae swyddi merched Sipsi wedi newid ac esblygu a sut mae niferoedd eang o ferched Sipsi yn mynychu'r Brifysgol erbyn hyn. I'r cyfranogwyr a atebodd 'Ydi' i'r cwestiwn yma, roedd siawns i esbonio eu hateb fwy ar ffurf cwestiwn agored 'Os ydi, sut?'. Bydd yr wybodaeth o'r cwestiwn agored yn cael ei ddefnyddio yn aml yn y bennod yma, gan fod niferoedd eang o'r cyfranogwyr yn cyfeirio at swyddi ac addysg merched Sipsi yn eu hatebion.

Meddyginiaeth

Yn y gymuned Sipsi roedd gweithio yn elfen gyffredin o fywydau'r merched yn draddodiadol. Roeddynt yn cael eu beirniadu am beidio ychwanegu at incwm y teulu, yn hytrach nac am weithio. Mae'r ffaith bod Sipsiwn benywaidd yn gweithio ddim mor unigryw â hynny, ond roedd y gwaith oeddynt yn ei wneud yn unigryw iddynt hwy. I Wood, Sipsi ei hun, roedd creu meddyginiaeth yn rhan o waith Sipsiwn benywaidd.[784] Cyhoeddodd Thompson erthygl gyfan yn 1925 am feddyginiaeth y Sipsiwn Seisnig, gyda rhan helaeth o'r wybodaeth yn cael ei gasglu gan Lavinia Boswell.[785] Cysyllta hyn â'r syniad o'r ferch Sipsi fel apothecari a gweledydd, person allai'r gymuned Cymreig droi atynt am gymorth mewn amseroedd o angen. Mae yna esiamplau di-rif o feddyginiaeth y Sipsiwn, er enghraifft, bod mandrake yn dda ar gyfer problemau gyda'r frest a nionyn yn dda ar gyfer annwyd a dolur gwddw.[786] Roedd Lavinia Boswell yn rhoi sleisen o datws mewn blawd dros losg.[787] Yn ddiddorol, cyfeiriodd cyfranogwr i gwestiwn deuddeg yr holiadur 'A yw rôl merched Sipsi

[784] Wood, *In the Life of a Romany Gypsy*, t.84.
[785] T. W. Thompson, 'English Gypsy Folk-Medicines', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol. 4 (1925), t.160.
[786] Wood, *In the Life of a Romany Gypsy*, tt.81-82.
[787] Thompson, 'English Gypsy Folk-Medicines', t.165.

wedi newid dros y blynyddoedd yn eich barn chi? Os ydi, sut?', at y ffaith bod modryb iddi yn ymarfer llysieuaeth. Yng ngeiriau'r cyfranogwr ei hun,

> 'my auntie was a herb expert healed animals she was blind but never banged in to anything ever we were amazed as kids.'

Mae'r dyfyniad yma yn ddiddorol tu hwnt ac yn dangos bod llysieuydd ac apothecari Sipsi yn gallu arbenigo mewn gwelliannau penodol. Yn yr achos yma, roedd modryb y cyfranogwr yma yn arbenigo mewn gwella anifeiliaid, sgil pwysig iawn mewn cymuned a arferai anrhydeddu anifeiliaid a'r byd naturiol. Roedd yn syndod gweld bod cyfranogwr wedi cyfeirio at llysieuydd mewn ymateb. Dyma dystiolaeth bwysig yn uniongyrchol gan unigolyn o'r gymuned Sipsi sy'n dangos bod merched Sipsi a rôl feddygol yn y gymuned yn draddodiadol. Roedd Louisa Smith, Sipsi Seisnig nodedig, hefyd yn enwog am greu meddyginiaeth ei hun, ac roedd pobl o'r gymuned frodorol Seisnig yn gofyn am ei help yn aml.[788] Dangosa hyn fod y Sipsiwn benywaidd yn gallu bod o werth i bobl nid oedd yn Sipsiwn hefyd, a bod cyfathrebu yn digwydd rhwng y ddwy gymuned. Gallai'r Sipsiwn defnyddio eu sgiliau naturiol i greu elwa i'w hunain.

Tueddai merched yn y gymuned frodorol yng Nghymru yn draddodiadol greu meddyginiaeth eu hunain yn aml hefyd, yn enwedig merched y gefnwlad. Yn ôl Fitzgerald, nid oedd y Sipsiwn yn defnyddio doctoriaid llawer ac yn dibynnu ar eu sgiliau eu merched eu hunain rhan amlaf, yn enwedig o ran clefydau cyffredin.[789] Mae Lawton yn honni bod merched Cymru yn creu meddyginiaeth allan o flodau yn aml a bod y sgiliau yn cael eu pasio ymlaen i genhedloedd newydd ar lafar.[790] Nid yw hyn yn annhebyg i sut oedd rhieni Sipsi yn pasio sgiliau ymlaen i'w plant. Roedd merched Sipsi o deuluoedd gwahanol hefo gwelliannau

[788] Locke, *Big Louie & Me- Caravans, curses & cockfights*, t.6
[789] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History*, t.138.
[790] J. Lawton, *Flowers & Fables- A Welsh Herbal* (Bridgend, 2006), t.7.

personol eu hunain.[791] Mae hyn yn golygu bod y sgiliau yn gallu bod yn unigryw iawn i bob teulu ac yn cael eu pasio ymlaen i ferched ifanc y gymuned drwy gydol eu bywydau. Yn y deunawfed ganrif, defnyddiwyd pridd o lawr yr Eglwys yng Nghymru mewn eli i wella brechiadau neu clwyfi.[792] Yn ogystal, roedd merched ifanc yn plannu hadau butterbur ar nos Wener yng Nghymru i gael gwelediad o'u gŵyr yn y dyfodol.[793] Defnyddiwyd y math syml hwn o hyd ac iachâd yn aml yng Nghymru. Mewn cymunedau cefnwlad, oherwydd diffyg arian, roedd angen i ferched ddibynnu ar eu sgiliau eu hunain i greu meddyginiaeth yn aml. Gyda thwf swyddi meddygaeth i ddynion, daeth dirywiad yr apothecari benywaidd.[794] Yn ei amser er hynny, roedd gwaith apothecari yn gyfrifoldeb mawr i ferch Sipsi, a ffordd i ennill cyflog ychwanegol cadarnhaol i'r teulu.

Rheolaeth dros arian

Yn ôl Liégeois, roedd cyflog merched Sipsi yn tueddu i fod yn fwy sefydlog na'r dynion, felly'n cael ei ddefnyddio fwy o ddydd i ddydd.[795] Y syniad oedd bod cyflog y dynion yn dod mewn un swm ac yn cael ei wario ar nwyddau mwy costus, megis vardo newydd. Ar y llaw arall, roedd merched yn gallu ennill cyflog llai, ond pob dydd. Felly, roedd y cyflog hwnnw'n cael ei ddefnyddio i fwydo'r teulu. Yn anffodus, gyda chynnydd teulu roedd cyflog merch Sipsi hefyd yn gorfod cynyddu i fwydo'r plant i gyd.[796] Yng nghwestiwn deuddeg yr holiadur sef 'A yw rôl merched Sipsi wedi newid dros y blynyddoedd yn eich barn chi?', ychwanegodd cyfrannwr at y syniadau uchod. Yng ngeiriau'r cyfrannwr,

> 'Women always earned the daily bread and took care of money, it was the men who took care of the family and decided where to go, normally earning the larger sums of

[791] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History*, t.138.
[792] Owen, *The Customs and Traditions of Wales*, t.84.
[793] Lawton, *Flowers & Fables- A Welsh Herbal*, t.7.
[794] J. Sharpe, *Instruments of Darkness-Witchcraft in England 1550-1750* (Llundain, 1996), t.174.
[795] Liégeois, *Gypsies- An Illustrated History*, tt.82-83.
[796] D. Reeve, *Smoke in the Lanes-Happiness and Hardship on the Road with the Gypsies in the 1950s* (Hatfield, 2003), t.86.

> money from horse trading or making the stuff to sell for the women. That is how it was in my romani family traditionally. More romani women I know prefer education and certain degrees, namely law and social studies, things that help others in their community.'

Mae'r dyfyniad yma yn cadarnhau syniad Liégeois o ddefnyddio arian y merched i fyw o ddydd i ddydd, tra bod y dynion yn arfer ennill y cyflogau mwy. Yn ogystal, roedd Fitzgerald yn honni mai merched Sipsi oedd prif gefnogwyr ariannol y teulu a bod merched yn cymryd y cyfrifoldeb mwyaf dros y gwaith.[797] Gan fod cyflogau'r dynion yn gallu bod â saib mawr rhyngddynt, yn aml cyflog merched oedd yn cynnal teuluoedd am gyfnod mawr o'r flwyddyn. Mae'r dyfyniad uchod hefyd yn pwysleisio'r berthynas weithiol oedd rhwng cwpl Sipsi, y syniad bod y ferch yn gwerthu nwyddau yr oedd y dyn yn ei greu. Mae'r system yma o werthu yn cael ei drafod mewn manylder nes ymlaen. Yn ddiddorol, mae'r cyfrannwr yn cyfeirio at y ffaith bod merched Romani y mae efe yn ei adnabod yn cwblhau graddau mewn astudiaethau all helpu eu cymuned. Mae hwn yn bwynt teg. Nes ymlaen yn y bennod yma, bydd esiamplau o ferched penodol Sipsi sydd wedi mynychu'r Brifysgol yn cael eu defnyddio i ystyried sut mae merched Sipsi yn defnyddio addysg i wella cyflwr bywyd eu hunain, eu teulu a'u cymuned. Mae'r dyfyniad uchod hefyd yn dangos mai gwraig Sipsi oedd a rheolaeth dros yr arian yn y teulu penodol hwnnw. Yn gyffredinol yng Nghymru, y wraig oedd a rheolaeth dros arian y cartref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg hefyd.[798] Yn ôl Reeve, y merched Sipsi oedd yn tueddu i warchod yr arian, yn enwedig ar ddiwrnod ffair, rhag ofn i'r gŵr ei wario i gyd.[799] Gwelwyd bod y merched Sipsi a'r merched Cymreig yn cael eu hymddiried ynddynt i warchod arian y teulu, sy'n dangos cyfrifoldeb eithaf mawr. Ar adegau, roedd merched Sipsi yn cymryd cyfrifoldeb llwyr dros arian y cartref. Yn achos y

[797] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History*, t.119.
[798] Draisey, *Women in Welsh History*, t.120.
[799] Reeve, *Smoke in the Lanes-Happiness and Hardship on the Road with the Gypsies in the 1950s*, t.121.

Sipsi Seisnig, Harriet Hall, roedd hithau yn gyfoethocaf na'i gŵr ar eu priodas a hithau oedd yn mynd allan i weithio tra bod yntau yn aros yn y cartref ac yn glanhau.[800] Dyma wyriad clir oddi wrth y syniadau delfrydol am rolau y ddau rhywedd yn y gymuned. Er bod merched yn arfer gweithio o ddydd i ddydd, roedd dynion yn ennill arian mewn ffurf eraill hefyd, er enghraifft drwy fasnachu. Ond, yn achos Harriet, hithau oedd yn ennill yr arian i gyd ar gyfer y teulu, gan ddangos bod merched yn y gymuned yn gallu cael pŵer goruwch dros arian y teulu.

Hawking

Gwelwyd bod y merched yn cael eu dibynnu arnynt er mwyn cynnal y teulu, yn enwedig os oedd swyddi i'r dynion yn brin ar y pryd. Tra mai'r dynion Sipsi oedd yn creu'r pegiau collen sy'n cael eu cysylltu â'r Sipsiwn yn draddodiadol, y merched oedd yn arfer eu gwerthu o ddrws i ddrws yn y pentrefi a'r ffermydd oeddynt yn ei basio.[801] Roedd y cyd-weithio yma yn sicrhau bod dynion a merched y gymuned yn tueddu i wneud siâr o'r gwaith, ac yn ennill cyflog gyda'i gilydd ar ran y teulu. Gwelwyd mai'r merched sy'n gwerthu a'r dynion yn creu'r nwyddau yn y portread o'r Sipsiwn yn y nofel *The Virgin and the Gipsy* a gyhoeddwyd yn 1930, gan ddangos bod yr arferiad yma wedi treiddio i farn gyhoeddus am y Sipsiwn.[802] Yn debyg, merched sy'n cael eu disgrifio fel gwerthwyr o ddrws i ddrws yn y nofel *Tân ar y Comin*, sydd wedi'i lleoli yng Nghymru.[803] Gwelwyd bod syniadau am swyddi Sipsiwn benywaidd wedi treiddio i lenyddiaeth Cymru a thu hwnt. Mae'r darlun o'r ferch Sipsi yn y portreadau a gawn yn y llyfrau yma yn dangos bod Sipsiwn benywaidd yn cael eu hystyried fel gweithwyr gan y cyhoedd yn yr ugeinfed ganrif. Yn ôl Harvey, roedd pegiwr da yn gallu creu pedwar dwsin o begiau mewn awr, ac roedd y merched yn tueddu i'w gwerthu am

[800] Davies, *Tales of the Old Gypsies*, tt.39-40.
[801] R. Hodgson, 'Romany Recollections', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.46 (1967), t.51.
[802] D. H. Lawrence, *The Virign and the Gipsy* (Middlesex, 1930).
[803] Jones, *Tân ar y Comin*, t.128.

ddeunaw ceiniog y dwsin.[804] Nwyddau cyffredin eraill oedd yn cael eu gwerthu oedd deunydd, blodau ffres a blodau artiffisial. Gallai nifer o Sipsiwn greu basgedi eu hunain i werthu yn ogystal, gan greu dei allan o flodau i'w lliwio.[805] Arferai basgedi y Sipsiwn werthu yn dda yn draddodiadol. Y term Romani am y system yma o werthu o ddrws i ddrws oedd 'hawking'. Yn ôl y Sipsi Cymreig Betsy Wood, roedd merched y teulu yn gadael y gwersyll gyda'i gilydd yn y bore er mwyn mynd i werthu, gyda rhai yn cario babanod yn eu siôl.[806] Mae'r disgrifiad yma yn cyd-fynd â dadansoddiad Smith yn 1880, ac yn ei eiriau ef,

> 'The poor women are the slaves and tools for the whole family and can be seen very often with a child upon their backs another in their arms, and a heavily laden basket by their side. Upon the shoulders of the women rests the responsibility of providing for the herds of ditch-dwelling heathens.'[807]

Darlunnir bywydau merched Sipsi yn galed gan Smith, gan ddangos bod hawking ddim yn aml yn weithgaredd rhamantaidd fel yr oedd yn cael ei ddarlunio gan rai. Roedd yn rhaid i'r merched yma weithio mewn pob tywydd er mwyn bwydo'r teulu a'r plant, neu y 'herds of ditch-dwelling heathens' y disgrifiodd Smith hwy. Er bod Smith yn gallu bod yn feirniadol tuag at y Sipsiwn, mae'n eithaf cadarnhaol wrth ddisgrifio pa mor benderfynol oedd y Sipsiwn benywaidd ym Mhrydain o ddarparu ar gyfer eu teuluoedd. Gallai hawking fod yn dasg anodd a blinedig i ferched, gan na allent ddychwelyd i'r gwersyll heb ddim arian o gwbl neu nwyddau. Yn aml roedd angen gwerthu nes oedd dim nwyddau ar ôl. Roedd angen i'r hawkers fod yn werthwyr cadarnhaol. Yn ôl Julie McCready, mewn hunangofiant am ei bywyd fel Sipsi Seisnig yn yr 1940au a'r 1950au yn Lloegr, roedd ei chwaer yn arfer mynd i

[804] E. Harvey, 'English Gypsy Crafts No.1: Clothes Peg Making', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol.20 (1941), t.165.
[805] E. Harvey, 'English Gypsy Crafts No.2: Basket Making', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol.21 (1942), t.62-64.
[806] Lyster, *The Gypsy Life of Betsy Wood*, tt.30-31.
[807] Smith, *Gypsy Life: our Gypsies and their children*, t.98.

werthu gyda'i baban mewn sling hefo hi, sy'n cadarnhau dyfyniad Smith uchod.[808] Roedd angen i ferch Sipsi fod yn weithiwr a gofalwr ac mae hyn yn dangos pa mor galed oedd bywydau'r merched yma yn gallu bod.

Gallai'r merched orau ennill cyflogau cadarn wrth werthu. Yng ngeiriau Hodgson mewn erthygl o 1967, a briododd ferch Sipsi,

> 'with Phyllis going out hawking with the women every day, and doing fairly well with my pegs and artificial flowers, we had saved in two months about £30'.[809]

Darlunnir y cwpl Sipsi fel tîm a oedd yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn cynnal eu hunain a'u plant. Roedd tri deg punt yn swm cadarnhaol o arian yn 1967, felly mae'r ffaith bod y cwpl Sipsi wedi gallu ei gynilo yn arwyddocaol. Dangosa hyn bod hawking yn ffordd effeithiol, ond anodd, o ennill cyflog i'r gymuned. Mae'r dyfyniad uchod yn pwysleisio mai rhanbarth merched oedd yr hawking ei hun. Yn ôl Williamson, roedd merched y gymuned yn mynd â'i merched ifanc gyda hwy i werthu er mwyn eu hyfforddi mewn hawking.[810] Roedd dysgu sut i werthu yn effeithiol yn rhan o hyfforddiant merch Sipsi, ac yn sicrhau ei bod yn gallu cynnal ei theulu drwy ei sgiliau wedi iddi briodi. Mae hyn yn dangos pa mor bwysig oedd hawking fel swydd i ferched Sipsi a'r hyfforddiant mewn sut i ennill cymaint ag arian â phosibl. Mae ffigwr 2 yn dangos merch yn gafael mewn basged yn ochr dde y llun.

[808] McCready a McCready, *A Wandering of Gypsies-The Autobiography of Two Present-day Romanies*, t.98.
[809] Hodgson, 'My Dukkeripen', t.99.
[810] Williamson, *The king and the lamp: Scottish traveller tales*, t.302.

Ffigwr 2: ‘Locks (al.Boswell)-1 negative black and white’, *Liverpool Special Collections & Archives,* SMGC Shaw p.122. (Golwg diwethaf-10/10/19). Trwy gwrteisi Llyfrgell Prifysgol Lerpwl.

Y teulu Sipsiwn Cymraeg, Lock, sydd yn y llun. Gyda’i het a siôl amdani, mae’n debygol bod y ferch yma un ai newydd ddod yn ôl o hawking, yntau yn barod i adael. Arferai merched Sipsi oedd yn mynd i werthu gario eu nwyddau mewn basgedi anferth, allai fod yn drwm i gario drwy’r dydd. Cafodd y llun ei dynnu yn Rhosneigr Ynys Môn yn 1914, mewn cyfnod ble roedd y teulu Lock yn parhau i deithio o amgylch yr Ynys. Dyma gyfnod ble fyddai hawking ar ei uchaf. Nid oedd merched mewn ardaloedd gwledig â mynediad i drafnidiaeth, ac felly yn methu teithio i drefi yn aml i brynu nwyddau. Dyma sut oedd yr hawker yn gallu elwa, drwy werthu nwyddau ni all ferched gwledig Cymru cael gafael arnynt. Yn ôl Mayall,

roedd yr hawkers yn gallu elwa gan bobl oedd yn byw yn bell o'r siopa a threfi.[811] Diddorol yw'r rhaniad rhywedd yn y llun, gyda'r merched ar un ochr a'r dynion ar yr ochr arall. Dyma ddangos mai mamau oedd yn dysgu'r merched, tra bod y bechgyn yn cael eu hyfforddi gan eu tadau. Roedd hyn yn rhannu cyfrifoldeb y plant rhwng y ddau riant, ond hefyd yn sicrhau bod y plant yn dysgu sgiliau perthnasol i'w rhywedd o oedran ifanc, fel hawking yn achos merched.

Gwaith tymhorol ac ymdrech rhyfela

Yn ôl Greenfields, pan oedd mwy o Sipsiwn yn teithio roedd y merched yn cymryd rhan yn y gwaith amaethyddol tymhorol fel yr oedd y dynion.[812] Roedd y gwaith yma yn cynnwys casglu llysiau a ffrwythau, ac roedd Sipsiwn yn tueddu i deithio mewn cylchred o gwmpas ffermydd penodol pob blwyddyn. Yng ngeiriau Cressy,

> 'versatile and self-reliant, they were purposeful travellers, not mindless wanderers, who followed circuits of sociability, business and opportunity.'[813]

Roedd y cylchred yn rhoi pwrpas a tharddiad i'r Sipsiwn, ac yn golygu eu bod yn adnabod cenhedloedd o ffermwyr o un teulu gan greu cysylltiad ehangach. Cawn gadarnhad o hyn mewn atgofion Lily Smith, a fu'n gwario ei phlentyndod yn casglu hopys gyda'i theulu.[814] Yng ngeiriau cyfranogwr i gwestiwn deuddeg yr holiadur sef 'A yw rôl merched Sipsi wedi newid dros y blynyddoedd yn eich barn chi? Os ydi, sut?',

> 'my own grandmothers and great grandmothers helped their husbands work on farm work, logging and scrapping.'

[811] Mayall, *Gypsy-travellers in nineteenth-century society,* t.49.
[812] Greenfields, 'Family, community and identity', t.50.
[813] Cressy, *Gypsies: An English History,* t.239.
[814] 'Gypsy Life, Childhood, Family, Work sections', *Safle wê Friends Families and Travellers,* https://www.gypsy-traveller.org/heritage/gypsy-life/ (golwg diwethaf-10/12/19).

Gallai teuluoedd olrhain llwybrau eu cyn-deidiau i rai ffermydd, gyda llawer o genhedloedd yn gwneud gwaith tebyg, fel yn yr enghraifft yma. Mae'r dyfyniad yn dangos bod merched yn cymryd rhan mewn gwaith fyddai'n cael ei ystyried yn eithaf gwrywaidd, yn enwedig sgrapio a logio. Dyma waith caled, trwm a blinedig. Dangoswyd y dyfyniad yma bod merched Sipsi wedi hen arfer gwneud gwaith fferm anodd i helpu eu gwŷr a sicrhau bod cyflog ychwanegol yn cael ei dalu i'r teulu, mewn cyfnod ble fyddai pob ceiniog yn bwysig. Yr oedd nifer o unigolion o'r dosbarth gweithiol yn treulio unrhyw amser rhydd o'r gweithlu yn casglu hopys yn ardal Caint hefyd, nid yn unig y Sipsiwn.[815] Gwelir bod casglu llysiau a ffrwythau yn rhan o economi nifer o drigolion Prydain, ar wahân i'r Sipsiwn. Byddai pob aelod o'r teulu yn cymryd rhan yn y casglu, fel yn y gymuned Sipsi, er mwyn ennill cymaint o arian â phosibl.

Yn ogystal, tra bod y dynion Sipsi yn ymladd yn y rhyfeloedd byd, roedd eu gwragedd yn parhau gyda'r gwaith amaethyddol traddodiadol.[816] Roedd y dynion Sipsi yn ymladd yn y rhyfeloedd byd, er bod llywodraeth Prydain ddim yn ymladd ar eu rhan hwy, nac yn sicr yn ymladd dros eu hawliau hwythau hyd heddiw. Hyd yn oed pan oedd gŵyr i ffwrdd yn ymladd, roedd merched a phlant angen cyflogau o hyd i'w cynnal ac roedd y gwaith amaethyddol yn cynnig hyn iddynt. Gallai'r merched ifanc Sipsi cael swyddi mewn ffatrïoedd.[817] Os oedd teulu wedi penderfynu setlo mewn un lle, byddai hyn yn haws. Er hynny, roedd y gwaith amaethyddol yn fwy o atyniad i'r rhan fwyaf o ferched Sipsi gan eu bod hefo amryw o blant i ofalu amdanynt hefyd ac yn parhau i deithio. Yn ôl Bendell, Sipsi Seisnig, yn ystod y rhyfeloedd dysgodd y merched gwaith y dynion, a gwario eu dyddiau yn casglu llysiau i ffermwyr.[818] Er hyn, mae'r bennod yma wedi dangos bod merched Sipsi wedi

[815] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950's,* t.319.
[816] B. Taylor, *A minority and the state-Travellers in Britain in the twentieth century* (Manceinion, 2008), t.43.
[817] E. Harvey, 'Wartime work of the English Gypsies', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.21 (1942), t.86.
[818] Bendell, *Rabbit stew and a penny or two*, t.25.

arfer gwneud gwaith amaethyddol cyn y rhyfeloedd. I rai merched, ni fyddent yn gorfod dysgu i wneud y gwaith, gan fyddent wedi bod yn cymryd rhan ynddo o oedran ifanc heb os. Gallai plant gymryd rhan mewn gwaith amaethyddol gyda'i mamau, gan gadw allan o drybini ac ennill ychydig mwy o arian mewn cyfnod o galedi gyda cholled incwm y tad. Roedd y plant yn gweithio o wirfodd ymysg y Teithwyr Albanaidd, yn ôl Betsy Whyte.[819] Fel y Sipsiwn, roedd y grŵp teithiol yma yn teithio o amgylch cylchred penodol o ffermydd er mwyn gwneud gwaith amaethyddol. Byddai'n naturiol i'r plant cael eu galw arnynt i helpu os oedd angen. Gall bywyd ferch Sipsi fod yn anodd, er enghraifft gyda thad y Teithiwr Albanaidd Jess Smith yn mynd i ymladd yn yr ail ryfel byd, a'i mam yn feichiog gyda'i thrydydd plentyn.[820] Byddai gwaith amaethyddol yn opsiwn i ferched allu cynnal eu hunain a'u plant drwy'r blynyddoedd o ryfela.

Yn gyffredinol yn yr ugeinfed ganrif roedd ffermwyr benywaidd yn fwy cyffredin, yn enwedig wedi ymdrechion y fyddin dirol merched yn yr ail ryfel byd.[821] Roedd merched Prydain wedi profi eu bod yn gallu gweithio cystal â'r dynion. Wedi'r rhyfel gwelwyd nifer o wragedd fferm yn weddwon ac felly yn gorfod cymryd cyfrifoldeb llwyr dros y fferm a'r gwaith amaethyddol. Enghraifft anghyffredin yw'r ferch Sipsi a ymunodd yn y gwasanaethau llyngesol Brenhinol fel deallusydd gwybodaeth yn Bletchley Park.[822] Er nid yw'r ferch yn cael ei henwi, mae'n bwysig gweld bod Sipsiwn benywaidd wedi cael rhan arwyddocaol yn yr ymdrech rhyfel. Pan oedd y fyddin angen pren, symudodd nifer o deuluoedd Sipsi i ardaloedd coedwigol er mwyn i'r dynion allu cael gwaith, a'r merched helpu gyda tasgau fel clirio a llosgi prysgwydd.[823] Hyd yn oed pan nid oedd y dynion Sipsi yn mynd i ryfela ac yn gweithio ym Mhrydain er lles yr ymdrech ryfel, gwelwyd bod y merched yn gwneud eu rhan

[819] Whyte, *The Yellow on the Broom-the early days of a traveller woman*, t.120.
[820] J. Smith, *Way of the Wanderers- The story of Travellers in Scotland* (Edinburgh, 2012), (dim tudalennau).
[821] Brown a Baker, *Mothers, wives and changing lives- women in mid twentieth-century rural Wales*, t.45.
[822] J. K. Black, *Gypsies of Britain* (Rhydychen, 2013), tt.44-45.
[823] Harvey, 'Wartime work of the English Gypsies', t.87.

hefyd. Nid oedd merched Sipsi yn ddieithriaid i waith caled ac yn gallu addasu i wneud gwaith gwahanol yn ddibynnol ar yr amser o'r flwyddyn neu'r amgylchiadau. Cafodd nifer fawr o Sipsiwn benywaidd rôl mewn niferoedd eang o swyddi yn ystod y rhyfel a chyfrannu at yr ymdrech ryfela fel y gwnaeth niferoedd eang o ferched ar draws Prydain.

Y mae'r adran nesaf yn rhoi cyd-destun i hanes merched yn y rhyfeloedd byd, gan ddangos bod merched ledled Prydain o bob cefndir wedi cymryd rhan yn yr ymdrech ryfela. Yn ôl rhaglen newyddion *Pathe News* a oedd yn rhedeg o 1910-1970 ym Mhrydain, arweiniodd pennaeth y symudiad Swffragét Emmeline Pankhurst orymdaith drwy Lundain yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf i annog y Llywodraeth i gydnabod bod merched â lle yn yr ymdrech ryfela.[824] Gwelir bod merched Prydain yn benderfynol o wneud eu rhan yn yr ymdrech ryfela ac eisiau gweithio er lles y deyrnas. Yn y rhyfel byd cyntaf ymunodd 80-90,000 o ferched y Fyddin Merched Cynorthwyol, gyda'r niferoedd yn cynyddu yn yr ail ryfel byd i 494,000 erbyn 1944.[825] Roedd y merched yma ar y blaen gyda'r ymdrechion rhyfela. Ymunodd nifer o ferched â'r ffatrïoedd arfau rhyfel a sefydlwyd sawl meithrinfa ar gyfer plant y merched 'arfau rhyfel' er mwyn annog merched i'r gweithlu.[826] Dyma waith anodd a pheryglus, ni fyddai wedi'i gysylltu â merched ym Mhrydain cyn y rhyfeloedd. Gwelir bod amseroedd enbyd yn galw am fesurau enbyd i Lywodraeth Prydain. Mabwysiadodd nifer o ferched ifanc swyddi 'gwrywaidd' er enghraifft gyda'r swyddfa bost, yr adran sifil yn y llywodraeth ac fel wardeiniaid cyrch awyr.[827] Yng Nghymru, roedd y merched wedi eu cyflogi mewn amryw o swyddi, er enghraifft mewn siopau, fel cludwyr nwyddau, ac mewn swyddfeydd.[828] Gwelwyd

[824] 'The Emancipation of Women', *Fideo Youtube*, https://www.youtube.com/watch?v=y8qsZX61zBw (golwg diwethaf-15/05/20), 17:30.
[825] L. Noakes, 'War and Peace', yn I. Z. Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), t.307.
[826] 'The Emancipation of Women', *Fideo Youtube*, 17:30.
[827] Bruley, *Women in Britain since 1900*, t.101.
[828] Beddoe, 'Munitionettes, Maids and Mams: Women in Wales, 1914-1939', tt.189-190.

bod ymdrechion merched Sipsi yn ystod y rhyfeloedd ddim yn unigryw, gan fod gweddill merched Prydain yn gwneud eu rhan hefyd.

Cafodd nifer o ferched hyfforddiant cymhleth a phrofiad eang o weithio.[829] Rhoddodd y cyfrifoldebau yma barch a hunanhyder i ferched Prydain. Ar ôl yr ail ryfel byd, roedd yn anodd i nifer o ferched ailgymhwyso gan eu bod wedi arfer gyda bywyd sengl heb ŵr o gwmpas a dim cyfrifoldeb dros blant, os oeddynt wedi cael eu halltudio i'r gefnwlad.[830] Nid yw'n syndod bod ysgaru wedi cynyddu, gyda merched yn gwrthod bod yn israddol wedi eu cyfraniad eang i'r ymdrech ryfela. Gwelwyd bod merched Prydain, gan gynnwys y Sipsiwn benywaidd, wedi darganfod eu lle yn y gweithlu a dangos i'r dynion eu bod yn ddigon tebol i allu bod yn wragedd tŷ ac yn weithwyr. Er hynny, wedi'r rhyfel dychwelodd y rhan fwyaf o ferched i'r cartref er mwyn gadael swyddi yn agored i'r dynion. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd swyddi i ferched wedi cael eu portreadu fel swyddi dros dro, nes i'r dynion ddychwelyd adref.[831] Yng ngeiriau Summerfield,

> 'Advertisers and magazine editors advised women that they should maintain their femininity in masculine settings as a matter of morale.'[832]

Er bod merched wedi treiddio i'r gweithlu yn ystod yr Ail Ryfel Byd, roedd y mwyafrif o swyddi yn cael eu portreadu fel amgylchedd gwrywaidd o hyd. Roedd annog merched i cynnal eu benyweidd-dra yn tanseilio eu cyfraniad fawreddog tuag at yr ymdrech ryfel. Yn ôl Beddoe, roedd y ffeministiaid wedi meddwl byddai rôl merched wedi newid oherwydd eu hymdrechion ryfela, ond bod hyn heb ddigwydd wedi iddynt orfod dychwelyd i'r cartref.[833] Yr oedd gobeithion y ffeministiaid wedi eu dymchwel. I rai merched oedd wedi gweithio'n

[829] Dyhouse, 'Education', t.123.
[830] Bruley, *Women in Britain since 1900*, t.129.
[831] P. Summerfield, *Reconstructing women's wartime lives: Discourse and subjectivity in oral histories of the Second World War* (Manceinion, 1998), t.81.
[832] Ibid, t.81.
[833] Beddoe, 'Munitionettes, Maids and Mams: Women in Wales, 1914-1939', t.186.

galed drwy'r rhyfel am dâl isel, a'i gyfuno gyda gofal plant a dyletswyddau domestig, roedd dychwelyd i'r cartref yn ryddhad.[834] Roedd nifer o ferched a dynion yn ymgeisio i ddychwelyd i'r bywydau oedd ganddynt cyn y rhyfel.[835] Amlinellodd yr adroddiad Beveridge (diwygiwr cymdeithasol) yn 1942, mai rôl merched oedd sicrhau parhad delweddau Prydeinig.[836] Byddai'r 'delweddau Prydeinig' hyn yn cynnwys geni plant i sicrhau parhad y deyrnas a chadw i ranbarthau mewnol fel y cartref, ac felly bywyd domestig. Er bod merched wedi eu hannog i weithio drwy gydol yr ail ryfel byd er lles y deyrnas, byddai sicrhau parhad rolau derbyniol cymdeithasol y ddau rhywedd yn golygu bod swyddi ar gael i'r dynion fyddai'n dychwelyd o'r rhyfel. Gwelwyd bod yr 1950au wedi ail-sefydlu y rôl ddomestig i ferched Prydain, o'r bennod ynghynt.

Adrodd ffortiwn

Er bod Sipsiwn benywaidd yn ennill cyflogau da gyda'r hawking a gwaith amaethyddol, eu prif ffordd o ennill symiau mwy o arian oedd drwy ddweud ffortiwn yn ôl Davies.[837] Cysylltwyd Sipsiwn benywaidd yn aml gyda'r ddelwedd draddodiadol o'r adroddwr ffortiwn. Mewn statud o 1531, adeg oes Harri VIII, disgrifir y Sipsiwn gyda'r canlynol, 'used greate subtyll and crafty meanes to deceive the people' by telling 'womens fortunes'.[838] Mae'r statud yn dangos bod cred mewn ofergoeliaeth yn cael ei feirniadu mewn cymdeithas ble roedd y Grefydd Gristnogol yn bwysig. Cysylltir adrodd ffortiwn gyda'r gymuned o'r cyfnod daethant i Brydain, gan awgrymu bod y sgiliau wedi dod hefo'r gymuned o Ewrop. Dywedodd George Borrow yn 1905 bod merched Sipsi yn adrodd ffortiwn pan ddaethant i

[834] C. Beaumont, 'The Women's Movement, Politics and Citizenship, 1918-1950s', yn I. Z. Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), t.273.
[835] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950's,* t.43.
[836] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950's*, t.44.
[837] O. Davies, *Witchcraft, Magic and Culture 1736-1951* (Manceinion, 1999), t.258.
[838] Morgan, ''Counterfeit Egyptians': The construction and implementation of a criminal identity in early modern England', t.111.

Brydain am y tro cyntaf.[839] Nid yw'n dyfynnu unrhyw dystiolaeth am hyn er hynny. Rhaid felly cwestiynu sut oedd Borrow yn gwybod am hyn. Mae'n debyg ei fod yn defnyddio'r ystrydebau am Sipsiwn oedd wedi bodoli ym Mhrydain ers canrifoedd yn ei waith. Er hynny, yng ngeiriau Borrow,

> 'Gypsy women, as long as we have known anything of Gypsy history, have been arrant fortune tellers'.[840]

Mae'r ystrydeb yma yn parhau hyd at heddiw am ferched Sipsi. Hyd at 1867, roedd ofergoeliaeth a'r goruwchnaturiol yn cael ei feirniadu ym Mhrydain, er enghraifft, gyda'r dyfyniad canlynol gan Thrupp,

> 'The religion of savages is often nothing but a vague belief in the supernatural'.[841]

Gwelir fod Thrupp yn ceisio tanseilio pŵer ofergoeliaeth ym Mhrydain, drwy gysylltu'r goruwchnaturiol â'r syniadau am anwariaid. Mae'r syniadau yma yn mynd yn groes i'r ffaith bod y gred yn y goruwchnaturiol wedi bodoli ym Mhrydain ers canrifoedd, a chyn i'r Sipsiwn lanio ar yr Ynys. Wrth alw'r unigolion oedd yn credu yn y goruwchnaturiol yn anwariaid, y mae Thrupp yn sarhau hynafiaid y rhan fwyaf o drigolion Prydain a oedd yn ystyried ofergoeliaeth a'r goruwchnaturiol yn rhan cyffredin o'i bywydau. Er y syniadau am y goruwchnaturiol gan haenau uwch y gymdeithas, ymysg y werin yr oedd adroddwyr ffortiwn yn gallu elwa. Mae Baxter a Thorburn yn honni fod adrodd ffortiwn wedi dod gyda'r Sipsiwn o India.[842] Mae'n anodd gwybod os yw'r gosodiad yma yn wir. Erbyn i'r Sipsiwn gyrraedd Prydain er hynny roeddynt yn cael eu hadnabod am eu siliau proffwydo. Yn ôl Cooper, mae'r

[839] Borrow, *Romano Lavo-Lil Word-Book of the Romany or English Gypsy language with specimens of Gypsy poetry,* t.174.
[840] Borrow, *Romano Lavo-Lil Word-Book of the Romany or English Gypsy language with specimens of Gypsy poetry,* t.197.
[841] J. Thrupp, 'British Superstitions as to Hares, Geese and Poultry', *Transactions of the Ethnological Society of London*, Vol.5 (1867), t.162.
[842] J. Baxter a G. Thorburn, *Travelling Art- Gypsy Caravans and Canal Barges* (Gloucestershire, 2010), t.19.

Sipsiwn yn enwog am eu pwerau seicig ac mae adrodd ffortiwn yn cael ei gysylltu fwyaf gyda'r grŵp ethnig hwn.[843] Mae'n bosibl bod y gymuned wedi dysgu sgiliau proffwydo o'r gwledydd daethant mewn i gysylltiad âg. Neu mae'n bosibl bod y proffwydo wedi gwreiddio o'r Sipsiwn eu hunain. Yn ôl Capp, merched oedd yn arfer ymweld âg adroddwyr ffortiwn yn yr oes fodern gynnar, i ofyn am eu priodasau.[844] Hyd heddiw, mae merched yn cael eu cysylltu mwyaf gyda'r byd goruwchnaturiol. Er dyletswyddau domestig y Sipsiwn benywaidd, gallai nifer ohonynt ddefnyddio eu sgiliau proffwydo i ennill cyflog ychwanegol i'r teulu. Roedd y werin yn sicr yn defnyddio sgiliau'r adroddwyr ffortiwn fel adloniant, ond hefyd mewn ffurf fwy ymarferol, fel bydd yn cael ei drafod yn y paragraffau nesaf.

Y mae'r hanesyddiaeth am Sipsiwn yn adrodd ffortiwn yng Nghymru yn brin. Nid yw hyn yn syndod gan fod yr hanesyddiaeth yn gyffredinol am y Sipsiwn a hefyd am ddewiniaeth ac adrodd ffortiwn yng Nghymru yn brin o'i gymharu â gwledydd eraill. Disgrifiwyd y Sipsiwn yn llyfr George Borrow, *Wild Wales*, a gyhoeddwyd yn 1906 fel,

> 'Dark, handsome people, sir, who occasionally used to come about in vans and carts, the men buying and selling horses, sometimes tinkering, whilst the women told fortunes'.[845]

Roedd Borrow yn rhamantu'r Sipsiwn yn ei waith gan ychwanegu at y syniadau ystrydebol am ferched Sipsi fel adroddwyr ffortiwn. Yn ddiweddar mae Tallis wedi pwysleisio bod y Sipsiwn heb eu hintegreiddio i mewn i hanesyddiaeth dewiniaeth llawer.[846] Cysylltwyd adroddwyr ffortiwn gyda'r syniad o ddewiniaeth, felly mae'n syndod bod cyn lleied o gyfeiriadaeth at Sipsiwn yn y gweithiau hanesyddol am wrachod a dewiniaeth. Y prif

[843] P. Cooper, *Gypsy Magic-The Romany book of charms, herbs & fortune-telling* (Llundain, 2001), t.4, t.66.
[844] Capp, *When Gossips Meet: Women, Family and Neighbourhood in Early Modern England,* t.364.
[845] Borrow, *Wild Wales- The People, Language and Scenery*, t.72.
[846] L. M. Tallis, 'Which Craft? Witches, Gypsies, and the Fenyw Hysbys in Eighteenth-Century Wales', *Preternature: Critical and Historical Studies on the Preternatural*, Vol.8 (2019), t.232.

academydd am ddewiniaeth yng Nghymru yw Suggett.[847] Nid yw ei waith ef yn cyfeirio at yr adroddwyr ffortiwn Sipsi yng Nghymru llawer ychwaith. Er hyn, mae Suggett yn honni bod gwrachod enwog ardal Llanddona yn Ynys Môn yn gwreiddio o Sipsiwn.[848] Mae'r hanes hwn yn rhan o len-werin yr Ynys, gydag Jones yn honni yn 1957 bod y Sipsiwn wedi glanio ar lan y môr yn Llanddona, cyn ymgartrefi yn y pentref.[849] Yn yr hanes hwn mae'r Sipsiwn yn cael eu darlunio yn anfad, gan ddod â thrybini i bobl leol Llanddona. Gwelwyd bod y darlun traddodiadol o'r wrach wedi'i drosglwyddo i'r Sipsiwn fel pobl allanol yn yr achos yma. Mae hanes gwrachod Llanddona yn eithaf adnabyddus yn hanes llen-werin Ynys Môn, ac ar wahân i'r enghraifft yma, mae'r enghreifftiau o Sipsiwn a gysylltwyd gyda dewiniaeth yn brin yng ngwaith Suggett. Ar wahân i'r hanes hon, mae'r straeon am adroddwyr ffortiwn Sipsi yng Nghymru yn amwys neu'n gwbl absennol mewn gweithiau academaidd i raddau helaeth. Dylai enghreifftiau o adroddwyr ffortiwn Sipsi cael eu cynnwys yn y gweithiau academaidd am ddewiniaeth, gan yn aml roedd yr unigolion yma yn cwblhau gweithredoedd oedd yn cael eu hystyried fel dewiniaeth, megis gwrthsefyll dewiniaeth ddrwg, cwblhau swynion ar ran eu cwsmeriaid a dymchwel ysbrydion anfad. Roedd Sipsiwn yn cael eu adnabod fel gallu melltithio ar ran eu hunain hefyd. Yn ôl George Locke, roedd swyni ei nain Louisa Smith yn gweithio, er enghraifft collodd ffarmwr ei fferm wedi iddo wthio ei nain i'r llawr a hithau yn ei felltithio.[850] Byddai'r unigolion oedd yn gallu melltithio yn cael eu parchu oddi fewn i'r gymuned, a'u pryderu gan unigolion nad oedd yn Sipsiwn.

Er nid yw'r adroddwyr ffortiwn Sipsi wedi eu cynnwys mewn gweithiau academaidd llawer, mae digonedd o enghreifftiau o'r unigolion yma yn ymddangos mewn ffynonellau cynradd

[847] R. Suggett, *A History of Magic and Witchcraft in Wales* (Gloucestershire, 2008).
[848] Ibid, t.107.
[849] B. Jones, *Crwydro Môn* (Llandebie, 1957), t.48.
[850] Locke, *Big Louie & Me- Caravans, curses & cockfights*, tt.10-11.

drwy gydol yr ugeinfed ganrif. Yng ngeiriau Nathaniel Lee, Sipsi o Loegr yn yr 1970au cynnar,

> 'my mum was a cushti duckerer and her great grandmother was burned as a witch'.[851]

Y term Romani am ddweud ffortiwn oedd 'dukkering', ac roedd y merched yn gallu ennill cyflogau gweddus am hyn. Diddorol yw'r ffaith bod cyn-nain i Lee wedi cael ei llosgi'n fyw am fod yn wrach. Pwysleisia hyn yr ystrydeb o'r adroddwr ffortiwn Sipsi fel gwrach beryglus mewn llen-werin. Mae'r dyfyniad yn dangos sut oedd y sgiliau proffwydo yn cael eu pasio ymlaen drwy'r cenhedloedd. Mae'n eithaf anarferol i Sipsi gwrywaidd fod yn adroddwr ffortiwn nodedig, ond mae hyn yn wir yn achos Lee. Er mai merched Sipsi darluniwyd yn draddodiadol fel adroddwyr ffortiwn, mae'r enghraifft yma yn dangos bod dynion Sipsi hefyd yn mabwysiadu'r sgiliau. Er yr esiampl yn nyfyniad Lee, yng Nghymru nid oedd llawer o ddienyddio gwrachod, gyda phum unigolyn yn cael ei ddienyddio am ddewiniaeth rhwng 1568-1698.[852] Ar y llaw arall, roedd dienyddio eang o wrachod yn Edinburgh rhwng 1590-91.[853] Mae'n bosibl bod y lleiafrif o ddienyddio gwrachod yng Nghymru ac agwedd achlysurol y Cymry tuag at ddewiniaeth yn cysylltu â'r diffyg gweithiau academaidd am ddewiniaeth yng Nghymru. Gyda chyn lleied o achosion llys, mae'n annhebyg bod amryw o ffynonellau a dogfennau am ddewiniaeth yng Nghymru, sy'n golygu bod astudio'r pwnc yn gallu bod yn broses anodd. O ystyried y canrannau o ddienyddio yng Nghymru, mae'n debygol nid oedd yr adroddwyr ffortiwn Sipsi yn cael eu hystyried yn fygythiad enfawr i'r gymuned Gymraeg. Yn wir, roedd y Sipsiwn weithiau'n cael eu cyflogi i wrthsefyll dewiniaeth ddrwg.[854]

---

[851] *Rokkering to the Gorgios-In the early nineteen seventies-British Romany Gypsies speak of their hopes, fears and aspirations*, t.30.
[852] R. Suggett, 'Witchcraft Dynamics in Early Modern Wales', yn M. Roberts a S. Clarke (gol), *Women and Gender in Early Modern Wales* (Caerdydd, 2000), t.77.
[853] L. Normand a G. Roberts, *Witchcraft in Early Modern Scotland-James IV's Demonology and the North Berwick Witches* (Lerpwl, 2000), t.2.
[854] T. Waters, 'Maleficent witchcraft in Britain since 1900', *History Workshop Journal*, Vol.80 (2015), t.104.

Mewn ardaloedd gwledig Gymraeg ble roedd ofergoeliaeth yn fyw, roedd y Sipsiwn benywaidd yn gallu cynnig cymorth a chyngor. Yn yr ardaloedd gwledig, roedd dewiniaeth ar gael i bobl yn hawdd ac yn ffordd i ddelio â phroblemau.[855] Gall y problemau hyn gynnwys methu beichiogi, cnydau yn methu neu ŵr disylw. Yn yr achosion hyn, roedd y Sipsiwn hefo'u sgiliau dewiniol a phroffwydo ar gael i helpu'r merched gwerin. Gwelwyd ynghynt bod Sipsiwn benywaidd a sgiliau meddygol a llysieuol yn aml, ac roedd y sgiliau yma yn cael eu defnyddio gan yr adroddwyr ffortiwn yn aml i helpu hefo problemau'r werin. Roedd dewiniaeth naturiol yn rhan o fywyd pob dydd i'r gymuned Sipsi, felly ddim yn cael ei ofni. Defnyddia'r holl gymuned Sipsi y byd naturiol o'u cwmpas i broffwydo eu dyddiau. Gwelwyd symbolau yn y byd natur yn rhan o ddewiniaeth naturiol y cefn gwlad. Yn anochel, roedd unigolion y gymuned yn fwy tebygol o ddangos sgiliau proffwydo a dewiniol oherwydd eu magwraeth ymysg symbolau natur. Yn ôl Wilby, roedd pobl gyffredin Prydain modern cynnar yn defnyddio dewiniaeth hunangymorth yn aml, ond yn troi at berson oedd wedi'i hyfforddi mewn dewiniaeth am bethau mwy soffistigedig.[856] Yn y ffordd hon, roedd dewiniaeth wedi bod yn rhan gyffredinol o'r gefnwlad ers canrifoedd ac wedi gwreiddio. Roedd Cymru'n wlad ofergoelus, sy'n golygu bod digon o waith ar gael i'r adroddwyr ffortiwn yn y wlad. Ymhell i mewn i'r ugeinfed ganrif, roedd y Cymry yn parhau i gredu mewn defodau goruwchnaturiol. Enghraifft yw'r gred os byddech yn sbecian drwy dwll clo yr Eglwys ar Noson Calan Gaeaf byddwch yn gweld ysbrydion unigolion y gymuned fyddai'n marw y flwyddyn ganlynol.[857] Gallai adroddwyr ffortiwn elwa mewn cymuned a oedd yn credu yn y defodau goruwchnaturiol, ac yn cymryd diddordeb mawr ynddo. Yn wir, arferai'r Cymry gymryd diddordeb eang yn y traddodiadau a basiwyd i lawr y cenhedloedd.

[855] P. G. M. Stuart, *An Abundance of Witches-The Great Scottish Witch-Hunt* (Gloucestershire, 2005), t.11.
[856] E. Wilby, *Cunning Folk and Familiar Spirits-Shamanistic Visionary Traditions in Early Modern British Witchcraft and Magic* (Eastbourne, 2005), t.26.
[857] Owen, *The Customs and Traditions of Wales*, t.38.

Dim ond yn ddiweddar, ers ail hanner yr ugeinfed ganrif, y mae'r traddodiadau yma wedi dirywio.

Yn ôl Wilby, merched oedd y mwyafrif o'r unigolion oedd yn cael eu cyhuddo o fod yn wrachod.[858] Mae hyn yn dangos rhagfarn yr amser tuag at ferched, ond hefyd yn cyd-fynd â'r ddelwedd o lên-werin nifer o wledydd o'r hen wreigan yn cymryd rhan mewn dewiniaeth. Cytuna Macfarlane â'r gosodiad yma gan honni mai merched hŷn, a oedd yn yntau wragedd neu weddwon, oedd yn cael eu cyhuddo rhan amlaf.[859] Yn achos yr adroddwyr ffortiwn Sipsi, cysylltwyd y sgil gyda merched y gymuned rhan amlaf hefyd, er bod eithriadau i hyn. Merched oedd yn cyfathrebu fwyaf gyda'r werin oherwydd eu sgiliau hawking, felly roedd gallu ychwanegu at gyflog y cartref drwy adrodd ffortiwn eu cwsmeriaid ar yr un adeg yn gallu bod yn broffidiol i ferched Sipsi. Yng ngeiriau Smith yn ei waith am Sipsiwn Prydain yn 1880,

> 'The women who are good at fortune-telling can make a good thing out of it, even at this late day, in the midst of so much light and Christianity'.[860]

Merched sy'n cael eu cyfeirio atynt fel adroddwyr ffortiwn yn y dyfyniad yma gan academydd, ac mewn nifer o ddyfyniadau eraill gan amlygu'r ystrydebau am y gymuned gan y gymuned allanol. Gwelwyd yn y dyfyniad hwn fod yr adroddwyr ffortiwn yn gallu elwa mewn cyfnod ceidwadol ym Mhrydain hyd yn oed. Mae'r ysgrifennwr wedi'i synnu bod adrodd ffortiwn yn parhau i fod yn boblogaidd mewn oes oleuo, ond hefyd y mae parch yn cael ei drosglwyddo i'r merched am allu elwa cymaint. Pan gyhoeddodd Fitzgerald ei lyfr ef am y tro cyntaf yn 1942, dadleuodd mai'r werin yn y gefnwlad yn unig oedd yn ofergoelus ac

[858] Owen, *The Customs and Traditions of Wales*, t.27.
[859] A. Macfarlane, *Witchcraft in Tudor and Stuart England-A regional and comparative study* (Llundain, 1999), tt.160-164.
[860] Smith, *Gypsy Life: our Gypsies and their children*, t.248.

yn credu mewn adrodd ffortiwn.[861] Drwy gydol yr ugeinfed ganrif, roedd adrodd ffortiwn yn dechrau dirywio ac allan o ffasiwn yn y safleoedd mwy addysgedig fel y trefi a dinasoedd. Gyda thwf addysg a dirywiad ofergoeliaeth yn y trefi a dinasoedd, mae'n anochel bod adrodd ffortiwn wedi dirywio yn yr ardaloedd yma. Yn y gefnwlad serch hynny, parhaodd adrodd ffortiwn i fod yn boblogaidd ymhell i mewn i'r ugeinfed ganrif, oherwydd parhad ofergoeliaeth. Yn y gymuned Sipsi er hynny, roedd adroddwyr ffortiwn da yn cael eu hanrhydeddu, heb os eu rhywedd. Gall y swydd fod yn enillfawr i ferched ac roedd galwadau am wasanaethau'r adroddwyr ffortiwn yn uchel yng Nghymru'r drydedd ganrif ar bymtheg hyd at ddechrau'r ugeinfed ganrif.[862]

Mae cred mewn ofergoeliaeth wedi parhau hyd heddiw ym myd y Sipsiwn yng Nghymru, ac yng ngweddill Prydain, fel mae'r gwaith yma wedi amlygu. Yn 1957, roedd Zylpha Lovell yn honni bod ofergoeliaeth wedi'i basio i lawr drwy'r cenhedloedd yn y gymuned.[863] Nid yw'r weithred yma wedi dirywio yn y cyfnod modern ychwaith. Gan fod y Sipsiwn yn arfer byw bywydau naturiol, roedd ysbrydion a hud yn rhan gyffredinol yn eu bywydau. Roedd yna adroddwyr straeon enwog ymysg y gymuned. Pan oedd y merched yn adrodd straeon, roeddynt yn eu perfformio i'r teulu a'r plant rhan amlaf, tra bod yn dynion yn gallu perfformio yn gyhoeddus.[864] Yn y teulu o Sipsiwn Cymraeg, y Woods, roedd 'Black' Ellen yn cael ei hystyried fel adroddwr straeon nodedig.[865] I ychwanegu, cafodd gwraig y Sipsi Cymraeg Charlie Wood, Mary, ei moli gan Yates oherwydd ei hadnabyddiaeth eang o hanes y teulu.[866] Gwelwyd bod merched yn cael eu hanrhydeddu am eu sgiliau, yn ogystal â'r

[861] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History*, t.125.
[862] Tallis, 'Which Craft? Witches, Gypsies, and the Fenyw Hysbys in Eighteenth-Century Wales', t.248.
[863] C. F. Payne, 'Some Romani Superstitions', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.36 (1957), t.110.
[864] Williamson, *The king and the lamp: Scottish traveller tales*, t.xiii.
[865] E. Jarman, 'Abram Wood', *Oxford Dictionary of National Biography*, fersiwn ar lein, https://www-oxforddnb-com.ezproxy.bangor.ac.uk/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-62919?rskey=Y6C2ba&result=1 (golwg diwethaf-24/10/19).
Johnes, Martin, *Wales since 1939* (Manceinion, 2012).
[866] Yates, *My Gypsy Days- Recollections of a Romani Rawnie*, t.71.

dynion. Roedd ofergoeliaeth yn gallu cael ei basio ymlaen o amgylch y tân ar nosweithiau yng nghwmni ei gilydd, heb adloniant eraill. Yn y ffordd yma roedd ofergoeliaeth am symbolau naturiol a dewiniaeth yn cael ei drosglwyddo ar lafar i lawr y cenhedloedd. Dyma wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer unigolyn Sipsi oedd yn dangos arwyddion o fod yn adroddwr ffortiwn. Ymysg y Teithwyr Albanaidd, roedd adrodd straeon yn ffordd i drosglwyddo ar lafar gwerthoedd a thraddodiadau diwylliannol y gymuned, gan gysylltu â hunaniaeth.[867] Ymysg Sipsiwn Prydain, roedd hyn yn wir hefyd. Mae'r straeon yn uno'r cymunedau o Sipsiwn a Theithwyr, gan amlygu eu gwerthoedd a thraddodiadau tebyg. Yr oedd adrodd straeon o amgylch y tân adeg nosweithiau gaeafol yn rhan o ddiwylliant y Cymry eu hunain hefyd.[868] Mewn ardaloedd gwledig ymhell o'r trefi a dinasoedd roedd adrodd straeon yn adloniant cyffredinol. Pasiwyd straeon ymlaen ar lafar mewn nifer o gymunedau drwy gydol yr ugeinfed ganrif ac roedd hyn yn sicr yn digwydd yng Nghymru yn y ddwy gymuned. Oherwydd hyn, roedd ofergoeliaeth yn parhau mewn ardaloedd gwledig fel Cymru ymhell i mewn i'r ugeinfed ganrif. Roedd hyn yn galluogi i'r adroddwyr ffortiwn elwa o hyn a denu nifer o gwsmeriaid.

Er i'r adroddwyr ffortiwn ragweld digwyddiadau drwg fel marwolaethau ac angladdau, roeddynt hefyd yn rhagweld digwyddiadau da fel priodasau a genedigaethau.[869] Y digwyddiadau da yr oedd y Sipsiwn yn tueddu i ganolbwyntio arno gyda'r Gorgio. Dyma'r digwyddiadau yr oedd y Gorgio eisiau clywed amdano, ac yn barod i dalu amdano. Nid oedd y rhan fwyaf o Sipsiwn benywaidd eisiau datgelu digwyddiadau negyddol i unigolion ac yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau cadarnhaol. O ran dysgu'r gelfyddyd, yn ôl Buckland,

[867] C. Clark, adolygiad o *Scottish Traveller Tales: lives shaped through stories*, gan D. Braid, *Romani Studies*, Vol.13 (2003), https://search-proquest-com.ezproxy.bangor.ac.uk/docview/763140228/F05015819A0E44D2PQ/1?accountid=14874 (golwg diwethaf-21/07/20), tt.74-75.
[868] Owen, *The Customs and Traditions of Wales*, t.38.
[869] J. G. Campbell, *Witchcraft and Second Sight in the Highlands and Islands of Scotland-Tales and Traditions collected entirely from oral sources* (Glasgow, 1902), t.129.

dysgwyd Bregus Wood gan ei mam.[870] Yn ogystal, amlinellodd Petulengro bod y sgiliau yn cael eu dysgu i'w merched gan eu mamau yn y gymuned.[871] I ychwanegu, yn ôl Yates dysgodd y Sipsi Cymreig Alice Wood am swynion a melltithion gan ei mam.[872] Mae hyn yn cyd-fynd â thraddodiad y Sipsiwn o basio sgiliau ymlaen i'w plant. Yn aml, mae angen i'r merched ddangos dawn am broffwydo o oedran ifanc cyn i'w mamau eu dysgu'r sgiliau.

Ystyrir Alabaina Wood, o'r teulu Sipsi Cymraeg, fel adroddwr ffortiwn dda oedd yn proffwydo drwy edrych ar wyneb pobl, yn hytrach nac ar eu dwylo.[873] Disgrifiwyd y merched Wood, gan gynnwys Alabaina, fel adroddwr ffortiwn nodedig gan Jarman.[874] Gwelir bod y sgiliau proffwydo yn cael ei gysylltu â merched y teulu penodol yma. Yn aml, roedd hyn yn wir mewn teuluoedd eraill o Sipsiwn hefyd. Golyga hyn bod merched y teuluoedd penodol yma yn aml yn gallu elwa oherwydd eu sgiliau. Fel Alabaina Wood, cytunodd Nansi Lovell sef Sipsi Cymraeg, y dylai adroddwyr ffortiwn broffwydo gydag wyneb yr unigolyn.[875] Mae'r ffordd yma yn cael ei ddarlunio fel y ffordd gywir o adrodd ffortiwn. Cyferbynna hyn gyda'r syniad traddodiadol o'r Sipsiwn yn darllen dwylo. Hefyd, roedd Rákóczi yn dadlau mai cardiau tarot oedd yr allwedd i hud y Romani.[876] Er hynny, nid yw'r ffynonellau Cymraeg yn cyd-fynd â'r gosodiad hon. Nid yw cardiau tarot yn cael eu crybwyll ynddynt. Mae'n debyg bod adroddwyr ffortiwn gwahanol yn defnyddio dulliau gwahanol yn eu darlleniadau. Byddai math o adrodd ffortiwn mam yn effeithio ar y ferch. Hynny yw, byddai dulliau proffwydo yn cael eu pasio ymlaen drwy'r cenhedloedd ac yn effeithio ar ymarferion Sipsi benywaidd.

Bu'n rhaid i'r Sipsi Cymraeg Rosie Griffiths gymryd rheolaeth o'i theulu gan ddweud ffortiwn a gwerthu o amgylch tai i gynnal ei theulu oherwydd salwch ei mam a marwolaeth ei

[870] Buckland, *Buckland's Book of Gypsy Magic,* t.67.
[871] Petulengro, *The Girl in the Painted Caravan-Memories of a Romany Childhood*, t.41.
[872] Yates, *My Gypsy Days- Recollections of a Romani Rawnie,* t.65.
[873] Sampson, 'The Wood Family-Part 2', t.68.
[874] Jarman, 'Abram Wood', *Oxford Dictionary of National Biography*.
[875] Morgan, *Nansi Lovell-Hunangofiant Hen Sipsi,* t.31.
[876] Rákóczi, 'Gypsy Magic', t.39.

thad.[877] Tua thair ar ddeg oed oedd Rosie pan wnaeth Dora Yates ei chwrdd am y tro cyntaf, ond roedd hi'n arwain materion teuluol a chynghori ei mam yn barod.[878] Gwelwyd bod merched Sipsi yn gallu addasu i sefyllfaoedd yn effeithiol, gan ddefnyddio'r sgiliau wedi eu dysgu drwy eu bywydau i ennill incwm i'r teulu. Dangosa'r enghraifft hon pa mor hyblyg oedd angen i ferch Sipsi fod. Bu'n rhaid i Rosie rhoi'r gorau i'w gobeithion ei hunan am ei dyfodol i ofalu am ei theulu. Yn yr achos yma, roedd y sgiliau proffwydo yn ffordd gadarnhaol i gynnal y teulu, ac roedd y ferch hon yn barod i ddefnyddio ei sgiliau er lles ei theulu cyfan. Dukkerer arall oedd Fictoria Lee, Sipsi o Blackpool a oedd yn adrodd ffortiwn yn Llundain erbyn ei chyfweliad gydag McFarlane yn 1943.[879] Gwelwyd bod y swydd yma yn gallu dod âg elw da i ferched Sipsi, a'r modd iddynt allu gweithredu yn annibynnol. Roedd yn ffordd i ferched Sipsi ennill dylanwad a phŵer yn hawl ei hun. Gallai'r elw sicrhau annibyniaeth i rai o'r merched, mewn cymuned ble roedd eu bywydau wedi eu cyfyngu. Yn y teulu Gray, Sipsiwn o Loegr, roedd y merched mor brysur â'r dynion yn yr haf yn adrodd ffortiwn i ymwelwyr.[880] Roedd cyflog mawr ar gael i'r adroddwyr ffortiwn dda ac roedd y gwŷr yn annog eu gwragedd i ennill cymaint o arian ag oedd yn bosibl. Gwelwyd bod dynion y gymuned yn ddibynnol ar eu gwragedd i ennill incwm yn aml. Gallai'r adroddwyr ffortiwn fenywaidd ennill cyflogau mwy sylweddol na'r dynion, yn enwedig adeg yr amseroedd ble roedd yna ymwelwyr eang yn eu hardaloedd.

Dysgodd yr hanner Sipsi Cymraeg Betsy Wood yn ôl ei hunangofiant, sut i ddweud ffortiwn ac ennill arian o'i wneud gan ei mam-yng-nghyfraith, Syforella Wood.[881] Disgrifiodd Sampson, Syforella, fel unigolyn oedd yn cynnwys pob nodwedd Sipsi, gan gynnwys pwerau

[877] D. E. Yates, 'Studies of British and Foreign Gypsies, No.11, Rosie Griffiths: A Romani Chai', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol.31 (1952), t.57.
[878] Ibid, tt.54-55.
[879] A. McFarlane, 'The Memories and Opinions of Victoria Lee', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.25 (1946), t.120.
[880] I. H. N. Evans, 'Stray Memories of British Gypsies', *Journal of the Gypsy Lore Society, Vol.35 (1956),* t.103.
[881] Lyster, *The Gypsy Life of Betsy Wood*, t.56.

darogan.[882] Er nid oedd Betsy Wood â'r sgiliau proffwydo, dysgodd Syforella iddi allu twyllo y Gorgio er mwyn ennill arian i'r teulu. Darluniwyd y Sipsiwn benywaidd yn cymryd mantais o unigolion ffôl er mwyn cynnal eu teuluoedd. Yn ôl Borrow, merched dosbarth gweithiol arferai cael eu twyllo fwyaf.[883] Ystrydeb yw hon, o'r syniad bod merched yn fwy agored i gael eu twyllo nac dynion. Yn ogystal, merched oedd yn ymweld â'r adroddwyr ffortiwn fwyaf, felly roedd mwy o siawns i'w cael eu twyllo. Roedd anrhydedd mawr yn cael ei drosglwyddo i'r merched Sipsi oedd yn gallu gwneud hyn. Mewn erthygl o'r papur newydd Cymraeg 'Seren Cymru' o 1826, cawn hanes merch Sipsi yn twyllo gwraig fferm allan o chwe deg punt gan ddweud bod hi'n gwybod ble roedd gwerth pump mil o bunnoedd wedi'i guddio.[884] Mae'r hanes yma yn gyffredin wrth drafod arferion y Sipsiwn. Er bod rhai o'r merched yn cael eu hystyried â'r ddawn o broffwydo, roedd eraill yn cael eu haddysgu o oedran ifanc sut i dwyllo'r Gorgio er mwyn ennill cymaint o arian ag oedd yn bosibl i'r teulu. Mewn papur newydd *Rhyl Record and Advertiser* o 1899, roedd achos llys wedi cymryd lle yn Somersetshire oherwydd bod ofergoeliaeth yn fyw yn yr ardal a bod merch Sipsi dienw wedi'i chyhuddo o dderbyn £11, oriawr a chadwyn gan ferch sengl wrth ei thricio hi.[885] Mae'n bwysig gweld bod awdur yr erthygl papur newydd yma yn ystyried adrodd ffortiwn a gweithgareddau'r adroddwyr ffortiwn fel ofergoeliaeth na ddylid ei gredu ynddo bellach yn 1899. Ond yn wir, mae'r gwaith yma wedi dangos bod ofergoeliaeth yn fyw yng Nghymru yn bell i mewn i'r ugeinfed ganrif. Yn ôl Suggett, roedd anffafriaeth mewn rhai ardaloedd yng Nghymru tuag at yr adroddwyr ffortiwn Sipsi, er enghraifft, gyda chlerigwr o Sir Dinbych yn eu beirniadu am addo cyfoeth mawr i'r Cymry yn 1730.[886] Byddai triciau fel y rhai uchod yn

[882] J. Sampson, 'The Wood Family-Part 3', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.12 (1933), t.38.
[883] Borrow, *Romano Lavo-Lil Word-Book of the Romany or English Gypsy language with specimens of Gypsy poetry*, t.200.
[884] Davies, 'Welsh Sources for Gypsy History', t.70.
[885] 'Deluded by a Gipsy', *Rhyl Record and Advertiser- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 4 Tachwedd 1899.
[886] Suggett, *A History of Magic and Witchcraft in Wales*, t.85.

cael eu hadrodd o flaen y tân yn y nosweithiau, gyda'r Sipsiwn yn ymfalchïo a'u gweld yn ddoniol iawn. Roedd y bardd, John Clare, yn honni bod adroddwyr ffortiwn yn gwneud hwyl am ben y bobl oeddynt yn elwa ohonynt.[887] Roedd gan y Sipsiwn derm penodol ar gyfer y tric mawr hwn, sef 'hokkano baro', sy'n dangos pa mor gyffredin oedd y weithred.[888] Er hynny, roedd y triciau yma yn negyddol i'r gwir adroddwyr ffortiwn. Gallent droi'r bobl gyffredin yn erbyn y Sipsiwn a chynyddu rhagfarn tuag atynt. Yng ngeiriau Fonseca mewn astudiaeth am Sipsiwn ledled Ewrop yn yr 1990au,

> 'I knew that Gypsy fortune-telling was pure theatre-for sale exclusively to gullible gadje.'[889]

Dyma'r syniadau a ddatblygodd drwy gydol yr ugeinfed ganrif am adroddwyr ffortiwn Sipsi, oherwydd bod cymaint o dwyllo yn cymryd lle yn y swyddogaeth. Mae'n debygol bod hyn wedi cyfrannu at ddirywiad y swydd i nifer o ferched Sipsi erbyn diwedd y ganrif. Roedd teuluoedd yn ddibynnol ar yr incwm o ddweud ffortiwn yn aml, felly gallai fod yn negyddol tu hwnt os oedd eu cwsmeriaid yn troi yn eu herbyn. Ar y cyfan, er hynny, roedd y mwyafrif o adroddwyr ffortiwn Sipsi yn ceisio helpu'r pobl am swm teg. Darluniwyd dukkering yn y nofel *The Gypsy Bride* fel ffordd i ferched gwerin cael adloniant.[890] Er mai ffuglen yw'r llyfr yma, mae'n wir fod nifer o unigolion yn defnyddio adroddwyr ffortiwn fel adloniant, ar draws y canrifoedd. Gallai'r adroddwyr ffortiwn fod yn gymorth i unigolion mewn cyfnodau o angen ac nid oedd y niferoedd eang yn cymryd mantais.

[887] Mayall, *Gypsy-travellers in nineteenth-century society*, t.50.
[888] Davies, *Witchcraft, Magic and Culture 1736-1951*, t.260.
[889] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.137.
[890] Hutton, *The Gypsy Bride*, t.91.

Yng nghwestiwn agored naw yr holiadur 'Oes yna unrhyw draddodiadau ydych chi'n cadw ato?', fe wnaeth rhai gyfranogwyr sôn am flaenolwyr oedd yn gallu proffwydo'r dyfodol, neu'n defnyddio dulliau i adrodd ffortiwn. Un esiampl oedd y canlynol,

> 'My mother taught me; spit three time's for the devil/ if someone curses you to your face or when given the evil eye… If you make a curse on someone expect results.'

Yn yr achos yma, byddai'r poeri yn canslo y felltith mae'n debyg. Mae'r ffaith bod mam yr unigolyn wedi ei dysgu yr ymadroddion uchod yn bwysig, gan ei fod yn cadarnhau bod rhai mamau Sipsi yn pasio eu sgiliau proffwydo a sgiliau melltithio ymlaen i'w merched. Mewn rhai achosion, roedd yn ffordd o basio sgiliau busnes ymlaen i ferched, gan fod mamau yn ennill symiau cadarnhaol o arian am eu sgiliau yn aml. Mae adran olaf y dyfyniad yn ddiddorol tu hwnt hefyd, sef y syniad bod melltith pob amser yn creu canlyniadau. Mae'r ffaith bod mam yr unigolyn yma wedi ei chynghori am hyn yn awgrymu bod y fam eisiau pwysleisio bod melltithion yn beryglus ac yn gallu creu canlyniadau annisgwyl i'r melltithydd. Awgrymir bod y cyngor yn fath o rybudd hefyd, sy'n dangos bod proffwydo a melltithio yn weithredoedd oedd angen cael eu cymryd o ddifri a bod rhai merched yn ystyried hyn ac yn pasio'r wybodaeth i lawr i'w merched eu hunain.

I ychwanegu roedd y dyfyniad canlynol gan gyfranogwr i gwestiwn agored naw, sef 'Oes yna unrhyw draddodiadau ydych chi'n cadw ato?', o bwys i'r testun yma hefyd,

> 'My mother is very religious, she has always read tarot and taught me fortune cards, My great great grandma was a cunning women and could talk to the deceased. She was a welsh lady. My mother states it's in our blood and it's important we throw cards when we are unsure.'

Mae'n bwysig a diddorol i nodi yma bod crefydd yn yr ystyr sy'n cael ei gyfleu yn y dyfyniad yn debygol o olygu crefydd yr adroddwyr ffortiwn. Mae hyn yn cynnwys yr adrodd

ffortiwn, proffwydo, a'r gweld symbolau mewn natur. Mae'r grefydd yma yn cael ei ystyried mewn ffordd ysbrydol yn aml. Gwelir bod proffwydo ac adrodd ffortiwn wedi'i basio ymlaen o fam i ferch yn yr esiampl yma hefyd. Yn y teulu yma, mae proffwydo yn sgil sy'n cael ei ddarlunio fel rhywbeth greddfol sydd yn eu gwaed. Merched yn unig sy'n cael eu cofnodi yn proffwydo yn yr esiampl yma. Cardiau tarot yw hoff ffordd o broffwydo mam yr unigolyn a ddatgelodd y wybodaeth yma, sy'n cael ei amlygu gyda'r frawddeg olaf. Yr adran mwyaf diddorol yw bod cyn-nain yr unigolyn yn ddynes ddoeth Gymreig allai siarad hefo'r meirw. Awgryma hyn bod y gyn-nain ddim angen defnyddio'r cardiau tarot er mwyn proffwydo. Mae'r dyfyniad 'could talk to the deceased' yn awgrymu bod cyn-nain yr unigolyn yn gweld neu'n siarad gydag ysbrydion, sgil oedd yn cael ei apwyntio i Sipsiwn benywaidd yn aml yng Nghymru a thu hwnt. Mae tôn y dyfyniad, hynny yw y bwyslais ar sgiliau cyn-nain y cyfranogwr a'r ffaith bod mam y cyfranogwr yn defnyddio cardiau tarot, yn rhoi math o hunan-barch i'r unigolyn. Awgrymir y dyfyniad bod y cymwysterau hyn yn marcio y cyfranogwr fel Sipsi benywaidd gwir yn ei llygaid hi. Mae'r unigolyn yn dod o linach hir o adroddwyr ffortiwn sydd â gwraidd yng Nghymru, anrhydedd mawr i nifer o deuluoedd Sipsi.

Erbyn heddiw mae adroddwyr ffortiwn wedi lleihau mewn poblogrwydd. Mae'n debygol bod hyn oherwydd i bobl ddod yn llai ofergoelus, a bod sgiliau'r adroddwyr ffortiwn ddim bellach yn berthnasol iddynt. Defnyddiwyd steil y Sipsiwn benywaidd fel ffasiwn newydd o ddillad gyda'r sgertiau hir a chlustdlysau aur.[891] Erbyn hyn, mae'r ystrydeb yma am eu steil wedi'i gysylltu â'r adroddwyr ffortiwn Sipsi yn yr ymwybod Prydeinig. Dyma ffordd o ramantu'r Sipsiwn a dangos bod unigolion heddiw ddim yn 'gwir' Sipsiwn. I Fraser, roedd steil penodol y Sipsiwn benywaidd yn golygu eu bod yn hawdd eu hadnabod yn syth.[892]

[891] B. Bernstein, 'Gypsy Women', *Lustre*, Vol.9 (2005), t.22.
[892] A. Fraser, *The Gypsies* (Rhydychen, 1995), t.122.

Roedd eu gwallt hir a'u dillad lliwgar yn rhoi darlun dirgel iddynt, a oedd yn cyd-fynd â'r syniad ohonynt fel adroddwyr ffortiwn. Erbyn heddiw, mae'r adroddwyr ffortiwn Sipsi wedi'i israddio i steil penodol o ddillad, gydag unigolion yn ceisio copïo'r steil awyrol. Mae'r ffordd o ennill cyflog i fwydo'r teulu wedi'i drosglwyddo i syniad rhamantaidd yn lle.

Gwaith merched Sipsi erbyn yr unfed ganrif ar hugain

Erbyn yr unfed ganrif ar hugain mae bywydau merched Sipsi wedi newid yn sylweddol ers y dyddiau hawking a dukkering. Erbyn yr 1970au ym Mhrydain roedd Mackie a Pattullo yn honni bod merched yn ei weld yn anodd cadw cydbwysedd rhwng swyddi a chyfrifoldebau teuluol.[893] Roedd y cartref a dyletswyddau domestig wedi cynyddu mewn pwysigrwydd ers yr 1950au, yn rhannol oherwydd twf technoleg glanhau fel y sugnwr llwch. Roedd merched yn cael eu hannog gan hysbysebion i sicrhau eu bod yn defnyddio'r dechnoleg newydd i gadw eu cartrefi yn lân i'w gŵr. Datblygodd y syniad o'r wraig tŷ perffaith, yn gweini ar ei gŵr a oedd yn gweithio drwy'r dydd i ddod ag incwm i'r teulu. I Castelow roedd yr 1950au ym Mhrydain yn gyfnod o gydymffurfio, gyda merched yn cael eu dysgu mewn ysgolion sut i fod yn wragedd tŷ perffaith.[894] Cafodd y delfrydau hyn effaith sylweddol ar y gymuned Sipsi, a'r syniad am rôl y merched. Er yn 2002 roedd Charles yn honni bod y niferoedd o ferched yn gweithio yn codi yn gyffredinol ym Mhrydain, nid oedd hyn yn wir yn y gymuned Sipsi.[895] Dirywiodd rôl allweddol economaidd traddodiadol y Sipsiwn benywaidd, gydag dyletswyddau domestig yn cymryd ei le i nifer o ferched. Mae Kiddle yn dadlau bod newid yn yr angen am swyddi yn golygu bod dynion yn gwneud gwaith mwy ymarferol, tra bod merched yn gofalu am y cartref a'r plant.[896] Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, gwelwyd gwelliannau yn y byd trafnidiaeth oedd yn sicrhau bod merched o'r ardaloedd gwledig yn

[893] Mackie a Pattullo, *Women at work*, t.46.
[894] Castelow, 'The 1950's Housewife'.
[895] Charles, *Gender in Modern Britain*, t.21.
[896] Kiddle, *Traveller Children-A Voice for Themselves*, t.89.

gallu teithio i siopa yn y trefi. Oherwydd hyn, dirywiodd yr angen am yr hawking, gan fod merched yn gallu prynu eu nwyddau eu hunain yn y trefi yn rhatach. Dirywiodd yr hawking a gwaith amaethyddol i'r Sipsiwn oherwydd twf cyfyngiadau ar deithio a gwersylla hefyd.[897] Gyda thwf technoleg newydd ar ffermydd i gasglu cnydau, roedd cymorth tymhorol y Sipsiwn yn ddiangen. Yn ôl Fonseca, nid yw Sipsiwn sy'n byw ar safleoedd parhaol yn cael gadael y safle am gyfnod hir, sy'n golygu bod gwaith amaethyddol allan o'u gafael.[898] Golyga hyn fod Sipsiwn yn cael eu hannog a'u gwthio i setlo yn lle teithio o un le i'r llall er mwyn cael gwaith. Yn ogystal, gwelwyd cyfyngiadau ar allu galw yn nhai pobl a'r syniad negyddol o'r 'cold callers' a effeithiodd ar fusnes yr hawkers yn sylweddol.[899] Dirywiodd y galw am adroddwyr ffortiwn hefyd, efallai oherwydd iddo fynd allan o ffasiwn. Cynyddodd y syniad o'r wraig tŷ yn y gymuned Sipsi. Roedd y dynion yn gallu ennill cyflogau gwell gyda swyddi addurno tai, casglu sgrap a thorri coed, ac felly'n annog eu gwragedd i aros adref. Gwelwyd bod ffiniau rhywedd fwy cadarn wedi ymddangos yn y gymuned Sipsi, yn enwedig yn y syniadau am rôl a dyletswyddau.

Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, roedd rhai teuluoedd Sipsi yn annog merched y gymuned i aros yn y cartref, tra bod eraill yn addasu i fabwysiadu swyddi eraill. Yn ôl y Teithiwr Albanaidd, Smith, wedi i'r merched rhoi'r gorau i'r hawking a'r dukkering, aeth llawer ohonynt i weithio yn y ffatrïoedd newydd.[900] Roedd merched Sipsi wedi arfer addasu i'w sefyllfaoedd, ac yn barod yn aml i wneud unrhyw fath o waith i gynnal eu teulu. I rai teuluoedd ble roedd gŵyr yn ennill symiau cadarnhaol o arian am eu swyddi nhw, nid oedd gymaint o bwysau ar y merched i gyfrannu at yr incwm teuluol, ac felly roedd nifer o ferched yn aros yn y cartref. Er hynny, i'r merched fyddai wedi addasu yn y gymuned Sipsi a chael

[897] Parker a McVeigh, 'Do not cut the grass: expressions of British Gypsy-Traveller identity on cemetery memorials', t.292.
[898] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey,* t.233.
[899] Quarmby, *No Place To Call Home-Inside the Real Lives of Gypsies& Travellers,* t.227.
[900] Smith, *Jessie's Journey-Autobiography of a Traveller Girl*, t.171.

mynediad i'r gweithlu traddodiadol byddent yn wynebu anhafalrwydd yn aml. Yn 1999 roedd Arber yn dadlau bod anhafalrwydd cyflogau merched ym Mhrydain yn sicrhau safle israddol merched yn gyffredinol.[901] Gwelwyd bod swyddi merched ddim yn cael eu cymryd o ddifri erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif. Er bod yr 1950au ym Mhrydain wedi gweld twf y wraig tŷ a lleihad yn y gweithlu benywaidd, roedd yr 1960au ymlaen wedi gweld cynnydd sylweddol yn y gweithlu benywaidd. Er hynny, roedd merched yn y gweithlu yn parhau i gael eu hisraddio gyda chyflogau anhafal, er enghraifft, roedd streicio yn ffatri Ford Dagenham yn 1968 oherwydd hyn.[902] Nid oedd swyddi i ferched yn cael eu hystyried yn bwysig, nac o ddifri. Yn ôl Wilson, roedd cyflog merch yn cael ei israddio drwy ei ddisgrifio fel rhywbeth ychwanegol i gyflog y gŵr. [903] Dyma ffordd gweithlu gwrywaidd o atgoffa merched o'u lle yn y gymdeithas Brydeinig. Roedd diwygio yn y gweithlu yn 1970 gyda'r ddeddf Cyflogau Hafal ac yna'r ddeddf Anffafriaeth yn 1975.[904] Er i'r deddfau hyn geisio sicrhau bod merched yn cael eu trin yn hafal i ddynion yn y gweithlu, a derbyn yr un cyflog yn ogystal â pharch, roeddent yn anodd ei gweithredu. Rhaid cydnabod felly bod y deddfau uchod wedi cael effaith cadarnhaol ar rhai merched yn unig, yn ddibynnol ar eu gweithlu.

Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, roedd rhai merched yn gorfod cyfuno bod yn y gweithlu a bod yn wraig tŷ perffaith hefyd. Cynyddodd pwysigrwydd gwaith rhan-amser i ferched, er mwyn allu ennill cyflog a chyflawni tasgau domestig hefyd erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif.[905] Yn y gymuned Sipsi, roedd rôl y merched fel gweithwyr domestig wedi ei sefydlu mewn ffordd cadarn, felly roedd angen cadw safonau glanhau yn uchel. Byddai gweithio yn rhan-amser yn golygu bod amser cadarnhaol yn gallu cael ei roi at glanhau. Yn 1998, roedd

[901] Arber, 'Unequal partners: Inequality in earnings and independent income within marriage', t.175.
[902] Bruley, *Women in Britain since 1900*, t.126.
[903] D. S. Wilson, 'A new look at the Affluent Worker: The Good Working Mother in Post-War Britain', *Twentieth Century British History*, Vol.17 (2006), t.206.
[904] Bargielowska, 'Introduction', t.10.
[905] Ibid, t.228.

pedwar allan o ddeg o ferched ym Mhrydain yn gweithio yn rhan-amser.[906] Dyma bwysau ar ferched i ychwanegu at incwm y teulu, ond hefyd sicrhau parhad eu rôl ddomestig i safon uchel. Mae'r pwysau yma wedi parhau at yr unfed ganrif ar hugain. Er bod merched Prydain yn tueddu i gymryd saib o'r gweithlu er mwyn geni plant, maent yn dychwelyd i'r gweithlu mor fuan â phosibl fel arfer.[907] Mae'n bosibl bod hyn oherwydd twf yn y costau byw erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif. I ferched oedd yn dewis geni plant yn yr ugeinfed ganrif hwyr, yr oedd y dasg wedi'i gwblhau erbyn ei tri degau hwyr, gan adael amser i ddychwelyd i'r gweithlu.[908]

Mewn ymateb gan gyfranogwr i gwestiwn deuddeg yr holiadur 'A yw rôl merched Sipsi wedi newid dros y blynyddoedd yn eich barn chi? Os ydi, sut?', darluniwyd y cymysgedd o ran dyletswyddau allai merch Sipsi wynebu yn yr unfed ganrif ar hugain. Yng ngeiriau'r cyfranogwr,

> 'The women go out to work now, and earn their own wage however some traditions such as cooking and cleaning still very much lies on the women'.

Mae'r dyfyniad yn dangos yn glir sut mae nifer o ferched Sipsi, fel merched ar draws Prydain, yn gorfod gweithio a chymryd cyfrifoldeb llwyr o'r tasgau domestig. Er bod rhai dynion yn annog eu gwragedd i weithio yn y gymuned Sipsi er mwyn cael cyflog ychwanegol, byddai nifer o'r dynion hyn yn gwrthod gwneud tasgau domestig sy'n cael eu hystyried o hyd fel tasgau benywaidd. I rai dynion, byddai gwneud tasgau domestig yn gywilydd. Os ni fyddai gwraig ar gael i wneud y tasgau yma, byddai chwaer neu fam yn cael eu hymbil arnynt i'w cwblhau o brofiad personol. Golyga hyn bod merched Sipsi, sydd

[906] Bargielowska, 'Housewifery', t.157.
[907] H. Joshi a P. R. A. Hinde, 'Employment after childbearing in post-war Britain: Cohort-Study evidence on contrasts within and across generunations', *European Sociological Review*, Vol.9 (1993), t.203.
[908] Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950's,* t.288.

weithiau hefo swyddi llawn amser, hefyd yn gorfod cwblhau tasgau domestig oherwydd bod y syniadau am ddyletswyddau eu rhywedd yn annog hyn.

Rhaid gofyn y cwestiwn er hynny, pa fath o waith oedd yn wynebu merched hŷn oedd yn ceisio dychwelyd i'r gweithlu wedi iddynt fagu eu plant? Mae'n annhebygol bod merched yn eu pedwar degau wedi mabwysiadu swyddi o statws uchel, yn enwedig oherwydd y diffyg addysg uwch i ferched yn yr ugeinfed ganrif. Swyddi 'sgiliau-isel' fyddai'n wynebu y rhan fwyaf o'r merched fyddai'n dychwelyd i'r gweithlu, megis gwaith mewn ffatrïoedd neu mewn siopau. Er mwyn allu fforddio i redeg cartref erbyn hyn, mae angen incwm y ddau riant yn y mwyafrif o deuluoedd. Yn ogystal, gyda'r twf mewn addysg uwch i bobl ifanc yn ail hanner yr ugeinfed ganrif, roedd llai o blant yn aros gartref i ennill incwm ychwanegol i'r teulu. Golyga hyn fod mwy o bwysau ar y rhieni eu hunain, ac felly'r ferch, i gynnal y cartref yn ariannol ac yn ddomestig. Erbyn yr unfed ganrif ar hugain, mae merched Sipsi yn aml yn gorfod uno bywyd teuluol a swydd. Mae'r pwyslais ar y cartref perffaith sydd wedi treiddio i'r gymuned yn golygu bod pwysau mawr ar ferched Sipsi i gynnal cartref rhagorol ac ychwanegu at incwm y teulu.

Yng ngeiriau cyfranogwyr i gwestiwn deuddeg yr holiadur sef 'A yw rôl merched Sipsi wedi newid dros y blynyddoedd yn eich barn chi? Os ydi, sut?',

> 'We can now get jobs but are still expected to be mothers and cleaners.',
>
> 'We're required to continue keeping the house and raising the children, but now we have to do it while earning a living.'

Darluniwyd mabwysiadu swyddi yn ogystal â sicrhau parhad safonau glendid uchel mewn ffordd negyddol. Mae'r dyfyniadau uchod yn awgrymu bod rhai merched yn gallu cael swyddi, ond yn gorfod magu plant a chadw cartref hefyd. Nid ydynt yn cael eu portreadu fel cael llawer o ddewis yn hyn. Darluniwyd magu plant a chadw cartref fel adran naturiol o

fywyd y merched, gyda swydd yn ychwanegiad i hyn. Golyga hyn bod merched ifanc Sipsi mewn rhai teuluoedd yn llai tebygol o allu cael swyddi statws-uwch oherwydd eu bod yn gorfod magu plant o oedran ifanc. Gyda'r pwyslais mawr ar gadw'r cartref yn rhagorol mewn rhai teuluoedd, nid yw'n debygol bod rhai merched Sipsi â'r amser i fabwysiadu swyddi llawn amser. Golyga hyn bod eu siawns o fabwysiadu swyddi statws-uchel yn eithaf cyfyngedig.

Ar y llaw arall, roedd y Gyngres Byd Romani yn 1990 yn cynnwys nifer o ferched, gan ddarlunio bod rhai merched y gymuned Sipsi yn parhau i gymryd diddordeb mewn mwy na thasgau domestig yn unig.[909] Dyma rhai Sipsiwn benywaidd yn cymryd rhan yn y penderfyniadau pwysig fyddai'n effeithio'r gymuned gyfan. Roedd mam y Sipsi Seisnig Violet Cannon yn gweithio fel swyddog cyswllt i'r Gwasanaeth Addysg Teithwyr Bradford yn yr 1980au, gan ennill cyflog cadarnhaol i fforddio morgais a char ei hun.[910] Dyma ddangos bod rhai merched Sipsi yn ennill bywoliaeth ar ran eu hunain ac yn gallu fforddio moethau ar ran eu teuluoedd. Yn aml, ni fyddai dynion Sipsi yn gallu cael morgais oherwydd eu cyflogau anrhagweladwy, felly roedd y ffaith bod mam Violet yn gallu fforddio i gymryd morgais ar ei phen ei hun yn arwyddocaol tu hwnt. Ar y cyfan, er hynny, roedd llai o ferched Sipsi yn gweithio a mwy yn cymryd cyfrifoldeb llwyr dros y cartref yn lle. Yn ôl Samantha Lee, byddai gan nifer o ddynion Sipsi gywilydd gadael i'w gwragedd fynd i weithio.[911] Er hynny, mae hithau a'i gŵr yn fodlon iawn gadael i'w plant fynychu'r ysgol.[912] Mae'r hen genhedlaeth yn ceisio sicrhau parhad yn nhraddodiadau ail hanner yr ugeinfed ganrif, tra bod y genhedlaeth iau yn diwygio a newid gydag amseroedd i siwtio byd modern. Yng ngeiriau

[909] Acton et al., 'Gender issues in accounts of Gypsy health and hygiene as discourses of social control', t.176.
[910] Cannon, *Gypsy Princess-The true story of a Romany childhood*, t.67-69, t.99-103.
[911] Lee, *Gypsy Bride- One girl's true story of falling in love with a Gypsy boy*, t.135.
[912] Ibid, t.302.

cyfranogwyr i gwestiwn deuddeg yr holiadur sef ‘A yw rol merched Sipsi wedi newid dros y blynyddoedd yn eich barn chi? Os ydi, sut?’,

> ‘it’s a mans job to bring the money in and it’s a womens job to look after the home.’,
>
> ‘Oddly enough there was a trend when I was younger that it was shameful for a woman to work and it’s been passed down to some of the next generation which is stupid because Gypsy women have always worked, field picking, dukkering, flower selling, hawking.’

Mae’r dyfyniad cyntaf yn amlygu’n glir y syniadau sydd wedi datblygu ymysg rhai teuluoedd Sipsi, sef y syniad mai rhanbarth dyn yw’r gweithlu a rhanbarth merch yw’r cartref. Mae’n bwysig dangos bod rhai unigolion yn ystyried bod yr arferiad yma yn draddodiad. Er hyn, mae’r ail ddyfyniad yn pwysleisio mai arferiad eithaf modern yw i wraig Sipsi aros yn y cartref. Fel mae’r bennod yma wedi dangos, roedd merched Sipsi pob amser wedi gweithio. Mae’r ail ddyfyniad yn bwysig gan ei fod yn dangos sut mae delfrydau yn cael eu pasio i lawr y cenhedloedd. Mae’r delfrydau am rôl merched sy’n cael eu pasio ymlaen yn unigryw i bob teulu felly. Bydd gan bob teulu Sipsi syniadau gwahanol am rôl merched, yn enwedig os dylai merched cael addysg a gweithio. Yn wir, mae’r dyfyniadau uchod yn pwysleisio’r syniad yma, bod teulu yn cael effaith ar rôl merch i raddau helaeth.

Mewn ymateb arall i gwestiwn deuddeg ‘A yw rôl merched Sipsi wedi newid dros y blynyddoedd yn eich barn chi? Os ydi, sut?’, mae cyfranogwr yn awgrymu bod newid dyletswyddau wedi digwydd yn y gymuned Sipsi. Yng ngeiriau’r cyfranogwr,

> ‘the older generation of woman worked hard while the men stayed home. Now it’s the other way round’.

Mae’r gwaith yma wedi dangos sut oedd cwplau Sipsi yn rhannu’r llwyth gwaith fel arfer, yn enwedig yn ystod y gwaith amaethyddol a’r hawking, ble roedd dynion yn creu’r nwyddau

a'r merched yn ei werthu. Awgrymwyd yn y gwaith bod y ddau rywedd yn gyfrifol am ennill cyflogau i'r teulu, a thra bod merched yn fwy tebygol o ennill arian o ddydd i ddydd, roedd y dynion hefyd yn dod a symiau mawr o arian i mewn i'r teulu, yn enwedig am werthu ceffylau. Er hyn, mae'r dyfyniad yma yn awgrymu mai'r merched oedd a'r baich o weithio yn draddodiadol, tra bod y dynion yn aros yn y cartref. Yna, mae'r cyfranogwr yn pwysleisio bod y dyletswyddau yma wedi newid, wrth i fwy o ferched aros yn y cartref a'r dynion orfod mynd i weithio. Er bod y gwaith yma ddim yn cadarnhau'r syniadau yma, mae'n bwysig ystyried safbwyntiau eraill am gyflwr swyddi merched Sipsi. Yn bwysicach na dim, mae'r dyfyniad yn pwysleisio bod merched ddim yn cael eu hannog i weithio mewn rhai teuluoedd Sipsi erbyn hyn, a'u hannog yn lle i aros yn y cartref.

Yn y presennol, mae'n bwysig cydnabod bod nifer o ferched Sipsi â swyddi ac yn ennill cyflogau cadarnhaol i gynnal eu teuluoedd. Dyfyniad gan gyfranogwr arall i gwestiwn deuddeg yr holiadur 'A yw rôl merched Sipsi wedi newid dros y blynyddoedd yn eich barn chi? Os ydi, sut?' oedd y canlynol, 'Less pressure in the new generation to be a homemaker.' I rai cyfranogwyr, roedd hi'n glir bod merched Sipsi yn gallu gwneud y mwyaf o addysg a chael swyddi cadarnhaol erbyn heddiw. Yn sicr, roedd y dyfyniad uchod yn dangos bod merched Sipsi ddim yn angenrheidiol yn gorfod bod yn wragedd tŷ erbyn heddiw, sy'n dangos syniadau gwahanol i rai teuluoedd Sipsi yn yr ugeinfed ganrif hwyr. Mae nifer o'r ymatebion yng nghwestiwn deuddeg 'A yw rôl merched Sipsi wedi newid dros y blynyddoedd yn eich barn chi?' yn awgrymu bod merched a dynion mewn nifer o deuluoedd Sipsi â'r run cyfleoedd erbyn hyn, ac yn gallu ymgeisio am addysg uwch a swyddi yn hawl eu hunain. Yng ngeiriau rhai o'r cyfranogwyr,

> 'the girls have rebelled against the male restraints of the traditional stay at home wife and are more independent'

> ‘In my experience more young women are now considering alternative options to getting married at 16 & having kids eg going to college’

> ‘The housewife and child-bearer role is now evolving-women are now getting careers and more freedom to progress’

Mae’r dyfyniadau yma yn bwysig tu hwnt wrth ddangos sut mae rôl merched Sipsi wedi datblygu erbyn yr unfed ganrif ar hugain. Mae’r dyfyniad cyntaf yn awgrymu bod merched Sipsi wedi gorfod brwydro yn erbyn patriarchaeth y gymuned i sicrhau rhyddid eu hunain. Roedd dyfyniad dau yn adlewyrchu syniadau nifer o gyfranogwyr eraill i gwestiwn deuddeg, y syniad bod llai o ferched Sipsi eisiau setlo mewn teuluoedd eu hunain erbyn heddiw. Y mae mwy o anogaeth erbyn hyd gan sefydliadau addysgol i hybu Sipsiwn ifanc i fynychu’r ysgol ac addysg uwch, sy’n golygu bod mwy a mwy o ferched ifanc yn mynychu’r Brifysgol. Nes ymlaen yn y bennod yma, mae esiamplau o ferched ifanc Sipsi yn mynychu’r Brifysgol. Mae’r drydydd dyfyniad yn bwysig, gan ei fod yn awgrymu bod y newidiadau i nifer o ferched Sipsi sydd wedi creu busnesau eu hunain neu fabwysiadu swyddi yn gyffredinol, yn dangos esblygu mewn rôl merched. Yr oedd merched Sipsi y rhan fwyaf o deuluoedd yn arfer gweithio drwy gydol yr ugeinfed ganrif. Mae’r ffaith bod merched Sipsi yn cael addysg, addysg uwch a mabwysiadu swyddi statws uchel erbyn y presennol, yn rhan fach o hanes gyrfaoedd Sipsiwn benywaidd Cymru.

Yn ymateb i gwestiwn deuddeg yr holiadur sef ‘A yw rôl merched Sipsi wedi newid dros y blynyddoedd yn eich barn chi? Os ydi, sut?’, ymatebodd cyfranogwr y canlynol,

> ‘Strong Gypsy women have always been at the heart of most Gypsy families, it’s just there roles have grown and modernised along with women in wider society.’

Mae’r cyfranogwr yma wedi pwysleisio’r pwynt sy’n ceisio cael ei gyfleu yn y gwaith yma, sef y syniad bod rôl merched Sipsi a merched yn y gymuned frodorol Cymreig wedi newid ac

esblygu, yn enwedig ers ail hanner yr ugeinfed ganrif. Mae'r merched Sipsi yn dechrau 'dal i fyny hefo esblygiad y merched frodorol Cymreig, yn enwedig wrth fabwysiadu addysg uwch. Mae'r canlynol yn ddisgrifiad o ferched Sipsi gan gyfranogwr i gwestiwn deuddeg yr holiadur sef 'A yw rôl merched Sipsi wedi newid dros y blynyddoedd yn eich barn chi? Os ydi, sut?, 'i think more are seeing them self as equal and are more independent'. O'r ymatebion i gwestiwn deuddeg yr holiadur, mae'n amlwg bod hyn yn wir i nifer o ferched Sipsi. Mae'r unfed ganrif ar hugain wedi dod â mwy o gyfleoedd i ferched Sipsi, mewn addysg ac yn y gweithlu. Yn ogystal â hyn, mae cysylltiadau mwy agos gyda'r gymuned allanol yn golygu bod merched ifanc Sipsi wedi datblygu syniadau wedi eu seilio ar syniadau merched nid yw'n Sipsiwn am rôl merched. Y mae mwy o ferched ifanc Sipsi yn mynychu ysgolion ac yn cymysgu gydag unigolion o nifer o ddiwylliannau gwahanol. Mae hyn yn golygu bod syniadau am rôl merched wedi eu treiddio i mewn i'r gymuned o'r gymuned allanol. Y mae merched ifanc yn cael eu hannog gan athrawon i fod yn annibynnol ac i gyflawni eu potensial, sydd wedi hybu nifer o ferched ifanc ymlaen i gael swyddi statws uchel yn y pen draw. Yng Nghymru yn benodol, mae merched Sipsi yn fwy tebygol o ymgeisio am addysg Prifysgol erbyn hyn, a hefyd yn fwy tebygol o gael swydd gyflog uwch nac yn yr ugeinfed ganrif hwyr pan oedd merched o'r gymuned frodorol yng Nghymru yn fwy tebygol o allu gwneud hyn. Mae adran nesaf y bennod yn bwysig, gan ei fod yn rhestru esiamplau o ferched Sipsi a Theithio o Gymru a thu hwnt ym Mhrydain sydd wedi agor busnesau eu hunain, mabwysiadu swyddi neu gael addysg uwch. Mae'r merched yma ar y blaen wrth ystyried datblygiad rôl merched Sipsi yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'n bwysig cydnabod eu llwyddiannau yn y gwaith yma. Mae'r adran nesaf yn bwysig hefyd, gan ei fod yn amlygu'r traddodiad o ferched Sipsi yn gweithio, traddodiad hir-dymor ymysg y Sipsiwn, nid arferiad modern.

Mae'r esiampl gyntaf gan gyfranogwr i gwestiwn deuddeg yr holiadur sef 'A yw rol merched Sipsi wedi newid dros y blynyddoedd yn eich barn chi? Os ydi, sut?'. Yng ngeiriau'r cyfranogwr,

> 'Women can do anything in my family, my mother went to college in the 80s. But she never forgot who she is, always wanted to have a family and stay on the road. But she makes a good business on the internet selling her thing on Ebay which I think has helped a lot of women and small romani buinsesses'.

Mae'r dyfyniad yma yn amlygu pa mor flaengar oedd y teulu penodol yma, wrth i fam y cyfranogwr allu mynychu'r coleg a pharhau gyda bywyd traddodiadol Sipsi yn ystod yr 1980au. Mae'r frawddeg olaf yn y dyfyniad yn adlewyrchu sut mae merched Sipsi y presennol yn gallu rhedeg busnesau eu hunain ar lein a'i gyfuno gyda bywyd teuluol. Golyga hyn fod traddodiadau yn parhau, ond bod merched yn gallu cael annibyniaeth ariannol eu hunain hefyd. Mae'n ffordd i ferched allu defnyddio eu sgiliau eu hunain, megis sgiliau dylunio a chreadigol, i greu hunaniaeth i'w hunain ar wahân i fod yn fam a gwraig yn unig. Gyda datblygiad y we, roedd merched Sipsi hefyd yn gallu datblygu eu sgiliau busnes eu hunain. Nid yw dechrau busnes yn golygu rhoi diwedd i obeithion am ŵr a phlant i'r rhan fwyaf o ferched erbyn hyn, heb os yn y gymuned Sipsi neu yn y gymuned frodorol Cymreig.

Datblygodd y Teithiwr Albanaidd Rochelle McGavin busnes paentio ac addurno ei hun, dod yn aelod o'r cynulliad ieuenctid Sipsi a Theithwyr a gwirfoddoli gyda'r cadets.[913] Cyhoeddwyd erthygl yn amlinellu llwyddiannau nodedig Rochelle ar safle wê y *Travellers Times* yn 2018.[914] Mae hyn yn dangos bod y gwasanaethau sy'n cynghori a chymhorthi Sipsiwn a Theithwyr yn cydnabod llwyddiannau merched y gymuned ac yn eu hyrwyddo i

[913] R. M. McGavin, 'Challenging the stereotype of a Traveller women', *Traveller Times,* fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/ytt/features/challenging-stereotype-traveller-woman-rochelle-mcphee-mcgavin (golwg diwethaf-17/11/19).
[914] McGavin, 'Challenging the stereotype of a Traveller women', *Traveller Times,* fersiwn ar lein.

ysbrydoli merched eraill yn y cymunedau yma. Dyma enghraifft o ferch yn y gymuned yn herio dyletswyddau ei rhywedd er mwyn bod yn annibynnol yn ariannol. Gweithiai'r Teithiwr Albanaidd, Sabrina Smith, hefo adran grymuso merched y mudiad Teithwyr.[915] Mae Sabrina yn gweithio'n agos gyda'r heddlu er mwyn gwella perthnasau rhwng yr heddlu a'r cymunedau Sipsi, Roma a Theithwyr.[916] Dyma waith hanfodol ar gyfer gwella cyflwr bywyd y cymunedau uchod yn y pen draw. Yn ogystal â gweithio, mae Sabrina yn fam a gwraig, sy'n dangos ei fod yn bosibl i gyfuno bywyd teuluol a proffesiynol yn y gymuned. Esiampl arall yw Charlotte Donaldson a dderbyniodd wobr Points of Light gan y Prif Weinidog am ei chefnogaeth o sefydlu'r Scottish Gypsy Traveller Assemby a'i ymgyrchoedd am hawliau a chydnabyddiaeth dreftadaeth y gymuned.[917] Mae'r Teithwyr Albanaidd benywaidd ar y blaen wrth herio ffiniau eu rhywedd yn eu cymuned. Mae'r merched hyn yn enghreifftiau da ar gyfer gweddill y cymunedau Sipsi a Theithio. Er hynny, mae Cemlyn et al yn pwysleisio bod merched sydd eisiau ymgyrchu yn derbyn anawsterau fel rhagfarn gan y gymuned.[918] Mae hyn yn gallu annog merched i beidio cymryd rhan mewn swyddi oherwydd y pryder o golli cefnogaeth eu teulu a'u cymuned. Erbyn hyn, mae gwraidd dwfn yn y syniad o'r ferch fel gwraig tŷ yn unig yn y gymuned. Pwysig yw'r ffaith bod rhai unigolion yn barod i wynebu rhagfarn er mwyn cyflawni eu gobeithion yn y gweithlu.

Ar wahân i'r Teithwyr Albanaidd, cawn enghraifft o ferch Sipsi, Noreen, o Ogledd Cymru yn gweithio fel cynorthwyydd siop cacennau yn MBFGW.[919] Bwriad Noreen oedd parhau gyda'i

[915] 'Episode 18-Sabrina's Story (10/05/19)', *On the Road-Podcast for Gypsy, Roma and Traveller Communities*, 05:15.
[916] 'Episode 18-Sabrina's Story (10/05/19)', *On the Road-Podcast for Gypsy, Roma and Traveller Communities*, 05:25.
[917] 'Prime Minister awards outstanding Scottish Gypsy Traveller Assembly founder', *Travellers Times*, fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/ytt/news/2020/03/prime-minister-awards-outstanding-scottish-gypsy-traveller-assembly-founder (golwg diwethaf-10/03/20).
[918] S. Cemlyn et al., 'Gender and community activism: the role of women in the work of the National Federation of Gypsy liaison groups', yn A. Ryder a S. Cemlyn (gol), *Hearing the voices of GRT communities: Inclusive community development* (Bryste, 2014), t.157.
[919] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 1-Episode 3, *Channel 4 boxset*, 1:43:04.

swydd wedi iddi briodi, gan wrthwynebu traddodiad y gymuned. Mae'r enghraifft yma yn unigryw yn y rhaglen MBFGW, ond efallai yn dangos bod newid yn dechrau digwydd yn y gymuned o ran dyletswyddau merched yng Nghymru hefyd. Yn debyg i Noreen, datblygodd y Sipsi Seisnig Georgia fusnes trin gwallt a cholur wedi iddi orffen coleg, yn y rhaglen deledu *The Gypsies Next Door*.[920] Gwelwyd bod diddordebau merched Sipsi yn gallu ennill cyflog iddynt. Wrth i fwy o ferched yn y cymunedau penderfynu gweithio ac ennill arian eu hunain, byddent yn ysbrydoli merched eraill yn eu cymuned. Mae'r merched ifanc yn herio ffiniau eu rhywedd, efallai oherwydd dylanwad addysg a'r cyfryngau arnynt. Mae'n bosibl iddynt gael eu dylanwadu gan y gymuned allanol gyda'r syniadau bod merched yn gallu fod yn wragedd ac yn weithwyr.

Mae'r cwmni datblygiad celfyddydau (The Arts Development Company) wedi gweithio gyda Sipsiwn i greu ffilm arbennig am hanes y gymuned, gyda'r prif gymeriad wedi'i chwarae gan ferch ifanc Sipsi.[921] Mae'r gymuned yn dechrau defnyddio technoleg fodern eu hunain er mwyn rhoi'r darlun cywir am y gymuned i'r cyhoedd. Mae'r ffilm yn dangos bod merched yn cael cymryd canol y llwyfan yn y gymuned ac yn arddangos eu talentau am actio yn gyhoeddus. Yn gyffredinol ym Mhrydain, roedd merched wedi bod yn actio yn gyhoeddus ers o leiaf yr 1930au, er enghraifft, Gertrude Lawrence yn y comedi *Private Lives*.[922] Ar wahân i arddangosiad merched Sipsi a Theithio yn y rhaglen MBFGW, nid yw merched y gymuned wedi derbyn llawer o amser ar y sgrin. Mae'r ffilm yma'n bwysig felly wrth ddangos sut mae'r gymuned yn symud gydag amseroedd a moderneiddio er mwyn adael i ferched gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt.

---

[920] 'The Gypsies next door-Season 1-Episode 2', *Channel 5*, https://www.my5.tv/the-gypsies-next-door/season-1/episode-2 (golwg diwethaf-30/03/20), 03:54.
[921] S. M. Coyne, 'Ghost Gypsy', *Traveller Times*, fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/features/ghost-gypsy (golwg diwethaf-15/11/19).
[922] M. Currey, *Daily Rituals-Women at work* (Llundain, 2019), t.91.

Merch arall o'r gymuned oedd yn bwriadu ymddangos yn y byd cyhoeddus oedd Scarlett o'r rhaglen *The Gypsies Next Door*, fu'n ymgeisio i fod yn fodel cyfaredd.[923] Dyma swydd sydd ddim yn ffitio â syniadau'r gymuned am rôl merched. Yn aml, byddai swydd fel hon yn dod a sgandal i'r ferch a'i theulu. Mae hyn yn dangos bod Scarlett wedi'i phennu ar gyflawni ei breuddwyd ac yn barod i dderbyn unrhyw adlach. Rhoddodd Thelma Madine, gwniyddes ffrogiau briodas Sipsiwn, gyfle i ferched ifanc y cymunedau Sipsi a Theithio gweithio am gyfnod yn ei ffatri er mwyn dysgu sgiliau yn 2012.[924] Bwriad Thelma oedd dangos i'r merched bod mwy o opsiynau ar gael iddynt ar wahân i wneud gwaith tŷ neu drefnu priodas.[925] Yn debyg i Scarlett, roedd y merched yma yn barod i wynebu rhagfarn eu cymunedau er mwyn cynyddu eu siawns o ennill swyddi wedi'r cyfnod o weithio gyda Thelma. Gall y merched hyn fod yn ysbrydoliaeth i ferched eraill yn y gymuned. Denodd y rhaglen gyntaf 2.4 miliwn o wylwyr, gyda rhai yn ei feirniadu am gywilyddio'r merched.[926] Er hynny, mae'r raglen yn bwysig wrth ddangos bod rhai merched yn y gymuned eisiau gwella eu hunain drwy fabwysiadu sgiliau. Mae angen mwy o gyrsiau fel cwrs Thelma er mwyn rhoi'r cyfle i ferched Sipsi a Theithio fabwysiadu'r sgiliau i ymgeisio am swydd sydd o ddiddordeb iddynt.

Gwelwyd bod esiamplau di-ri o ferched Sipsi a Theithio sydd yn gweithio, neu gyfuno bywyd teuluol gyda gwaith cyflogedig erbyn hyn. Er bod dirywiad swyddi traddodiadol y Sipsiwn benywaidd ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif wedi golygu bod rhai merched Sipsi wedi aros yn y cartref, nid pob merch gwnaeth hyn. Gwelwyd bod rhai merched Sipsi wedi addasu a mabwysiadu swyddi o ddiddordeb iddynt mewn mannau eraill. Dyma ran o natur hyblyg merched Sipsi. Dros y canrifoedd y mae merched yn y gymuned wedi addasu i wneud nifer o

[923] 'The Gypsies next door-Season 1-Epsiode 4', *Channel 5*, https://www.my5.tv/the-gypsies-next-door/season-1/episode-4 (golwg diwethaf-30/03/20), 01:56.
[924] 'Thelma Madine given young traveller girls a chance to be dress-making rebels', *Fideo YouTube*, https://www.youtube.com/watch?v=vsjNINFW4S4 (golwg diwethaf-01/04/20), 01:59.
[925] Madine, *Gypsy Wedding Dreams*, t.230.
[926] Anhysbys, 'Romany teenager lashes out at Thelma's Gypsy Girls', *Broadcast*, (2012).

swyddi gwahanol, ac nid yw hyn wedi newid yn yr unfed ganrif ar hugain. Cytunodd Fonseca â'r gosodiad yma mewn astudiaeth am Sipsiwn Ewropeaidd, gan ddangos bod Sipsi yn arfer cael nifer o swyddi gwahanol dros eu bywydau.[927] Mae'r Sipsiwn wedi arfer bod yn hyblyg, yn enwedig ar ran eu swyddi. Arferai fod yn bwysig gallu mabwysiadu unrhyw fath o swydd i ychwanegu at incwm y teulu, felly nid yw'n syndod bod y traddodiad yma wedi parhau ymysg merched y gymuned.

Addysg merched Sipsi

Cefndir

I droi ein sylw nawr at addysg y gymuned Sipsi yng Nghymru, gwelwyd bod diwygio wedi digwydd erbyn heddiw. Mae'r adran yma yn pwysleisio bod addysg ar gael i rai Sipsiwn yn ystod yr ugeinfed ganrif, ond bod hyn yn eithriad. Yn ogystal, bydd yn dangos bod y ganrif newydd o'r flwyddyn 2000 ymlaen wedi gweld twf eang yn y niferoedd o Sipsiwn yn cael addysg ym Mhrydain. Bydd esiamplau penodol o ferched Sipsi yng Nghymru a thu hwnt yn defnyddio addysg i wella eu cyfleoedd a chyrraedd eu potensial erbyn hyn. Bydd y data a gasglwyd yn yr holiaduron hefyd yn amlygu sut mae nifer eang o unigolion o'r gymuned Sipsi yn gweld gwerth addysg erbyn hyn gan fod swyddi traddodiadol y Sipsiwn mewn dirywiad. Mae'r adran yma yn bwysig gan ei fod yn pwysleisio sut mae Sipsiwn benywaidd yn addasu erbyn y presennol i ddefnyddio addysg fel ffordd i sicrhau annibyniaeth ariannol i'w hunain.

Addysg yn yr ugeinfed ganrif cynnar

Yn yr ugeinfed ganrif, roedd addysg yn foethusrwydd prin i nifer o Sipsiwn ym Mhrydain. Ym Mhrydain 1900, roedd yn orfodol i ferched o oedran pump i ddeuddeg oed fynychu'r

[927] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, tt.239-240.

ysgol.[928] Wedi'r cyfnod yma roedd merched dosbarth gweithiol yn tueddu i wasanaethu mewn plasty cyfagos. Roedd rhai merched ifanc yn gadael yr ysgol yn anghyfreithlon i helpu i ofalu am blant iau.[929] Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, gyda'r diffyg dulliau atal genhedlu, roedd mamau dosbarth gweithiol angen cymorth eu merched hynaf i ofalu am blant iau. Mewn achosion ble roedd y fam yn marw, roedd y ferch hynaf yn gorfod cymryd drosodd dyletswyddau'r fam.[930] Yn yr achos yma, byddai gobeithion addysgol neu weithiol i'r ferch honno yn cael eu rhoi naill ochr er lles y teulu. I'r merched oedd yn cael addysg, tueddai i fod yn syml, gyda phwyslais penodol ar ysgrifennu a darllen. Yn gyffredinol ym Mhrydain, roedd Elisabeth Reed wedi sefydlu coleg yn Sgwâr Bedford yn 1849, gan ddechrau blaenoriaethu addysg i ferched yn y deyrnas.[931] Yr haenau uwch o'r gymdeithas fyddai'n elwa o'r coleg mae'n debyg, gan fyddai rhieni yn gorfod ariannu llety a bywoliaeth y ferch tra yn y Brifysgol. I deuluoedd dosbarth gweithiol a oedd yn brwydro yn erbyn tlodi yn barod, ni fyddai hyn yn opsiwn. Er hyn, roedd yna alw am addysg yn y dosbarthiadau is yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd yna nifer o ysgolion o gwmpas, gan gynnwys ysgolion elusennol ac ysgolion Sul a oedd yn cynnig opsiynau i bobl ifanc Prydain ar wahân i'r un swyddi a'u rhieni.[932] Roedd mwy o bobl ifanc eisiau dysgu sgiliau llythrennedd allai eu tynnu i ffwrdd o'u bywydau caled. Newidiodd addysg merched o gelf, dawnsio a cherddoriaeth, i glasuron, mathemateg a gwyddoniaeth, gan ddangos diwygio eang mewn addysg.[933] Diwygio hefyd yr oedd y syniad am y rôl gall merched chwarae yn y gymdeithas Brydeinig.

[928] P. Tinkler, 'Girlhood and Growing Up', yn I. Z. Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001), t.36.
[929] Ibid, t.39.
[930] Tinkler, 'Girlhood and Growing Up', t.45.
[931] R. Ashton, *Victorian Bloomsbury* (Connecticut, 2012), t.215.
[932] P. Gardner, 'Literacy, Learning and Education', yn C. Williams (gol), *A Companion to Nineteenth Century Britain* (Rhydychen, 2004), tt.355-360.
[933] Ellis, *The women of England: Their social duties and domestic habits*, t.351.

Yn ôl Morgan, gwelodd degawd cyntaf yr ugeinfed ganrif, newidiadau cymdeithasol ar ffurf agor ysgolion uwchradd a cholegau Prifysgol yng Nghymru.[934] Roedd hyn yn herio rhaniadau dosbarthiadau cymdeithasol, gan fod unigolion ffodus o ddosbarthiadau gweithiol oedd yn gallu mynychu, er enghraifft oherwydd ysgoloriaethau, yn gallu gwella eu gobeithion yn y dyfodol gyda'r addysg.[935] Byddai'r unigolion yma felly hefo siawns o newid eu dosbarth cymdeithasol oherwydd hyn. Er hyn, yn aml nid oedd yr ysgolion uchod yn opsiwn i'r Sipsiwn. Gyda'u bywydau teithiol, nid oedd digon o amser i setlo mewn un lle i'r plant dderbyn addysg. Oherwydd tlodi nifer fawr o'r teuluoedd Sipsi hefyd, roedd angen cymorth y plant i weithio ac ennill cyflog er mwyn i'r teulu cyfan oroesi. Gyda'r twf diwydiannol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, dirywiodd y niferoedd o bobl ifanc oedd yn derbyn addysg yn gyffredinol ym Mhrydain, yn enwedig y merched.[936] Roedd angen pob cyflog oedd yn bosibl yn y teuluoedd dosbarth gweithiol, fel yn y cymunedau o Sipsiwn. Gallai'r merched ifanc un ai cael swyddi eu hunain yn y ffatrïoedd, yntau ofalu am y cartref a'r plant iau er mwyn i'r fam ennill cyflog. Ymysg y Teithwyr Albanaidd, roedd pethau'n eithaf gwahanol. Yn ôl Betsy Whyte, Teithiwr Albanaidd ei hun, roedd yn rhaid iddi fynychu'r ysgol am gan ddiwrnod y flwyddyn o leiaf er mwyn osgoi helynt hefo'r awdurdodau.[937] O gwmpas yr 1930au yr oedd Betsy yn mynychu'r ysgol, ac roedd yn rhaid i blant fynychu o leiaf nes eu harddegau cynnar. Nid oedd y weithred yma yn gyfarwydd ar draws Prydain. Heb os, mae'n dangos bod grwpiau oedd yn teithio fel y Sipsiwn a'r Teithwyr Albanaidd wedi gorfod dechrau meddwl am addysg i'w plant mewn rhai ardaloedd o Brydain i osgoi helynt. Mae'n ddiddorol gweld mai am gan ddiwrnod yn unig yr oedd angen i Betsy fynychu'r ysgol, sy'n dangos bod y teulu yn gallu parhau i fyw bywyd teithiol yn yr amseroedd eraill. Yn y ffordd hon, roedd plant Teithio yn cael addysg, ond ddim yn gorfod anwybyddu eu diwylliant a

[934] Morgan, *Wales: An Illustrated History*, t.259.
[935] Ibid, t.259.
[936] Gardner, 'Literacy, Learning and Education', t.355.
[937] Whyte, *The Yellow on the Broom-the early days of a traveller woman*, t.13.

thraddodiadau eu hunain ychwaith, megis teithio yn ystod yr haf rhwng ffermydd gwahanol i wneud gwaith amaethyddol.

Cawn ddarlun unigryw o addysg Sipsiwn Cymru yn ystod yr ail ryfel byd o atgofion yr athrawes Mimi Hatton o ardal Porthmadog rhwng 1944-1945 sef,

> 'At the beginning of the war the infants were not allowed to assemble as bombs were expected, so I cycled round teaching small groups in parents' front rooms, and the gypsies in their camps.'[938]

Mae'r ffynhonnell hon yn cyferbynnu gyda'r awgrym traddodiadol, sef bod y Sipsiwn yn gwrthod addysg. Gwelwyd bod y Sipsiwn yn ardal Porthmadog yn croesawu'r athrawes hon yn eu mysg er mwyn sicrhau bod eu plant yn cael rhyw fath o addysg. Gwelwyd bod ardal Porthmadog ar y blaen o'r enghraifft flaenorol. Mae'r wybodaeth o'r ffynhonnell yn gynnil, ond yn bwysig er hynny gan fod ffynonellau am addysg y Sipsiwn Cymreig yn yr ugeinfed ganrif yn brin. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd i cyn lleied o Sipsiwn mynychu'r ysgolion yng Nghymru yn yr ugeinfed ganrif gynnar yn enwedig. Er hyn, cytuna'r erthygl 'The Welsh gipsies' gan awdur anhysbys o 1914, bod rhieni eisiau addysg i'w plant ond yn gorfod parhau i deithio, er enghraifft oherwydd iddynt gael eu symud gan yr heddlu, neu fethu fforddio rhentu tŷ yn yr ardal.[939] Gwelwyd bod addysg eu plant allan o reolaeth y rhieni yn aml, yn enwedig oherwydd iddynt fethu â gwreiddio mewn ardaloedd oherwydd diffyg cynilion. Nid oedd rhai rhieni eisiau i'w plant fynychu'r ysgol oherwydd nifer o resymau, megis bwlio a rhagfarn. Yn ogystal, roedd nifer o rieni eisiau i'w plant aros adref i helpu gyda thasgau domestig neu i weithio er mwyn ennill cyflog i'r teulu. Roedd hyn hefyd yn wir yn y gymuned frodorol Cymreig. Gwelwyd hyn yn y thema am feichiogrwydd a'r rhesymau dros

[938] 'Miss Mimi. O. Hatton of Plymouth and Porthmadog talks about the Porthmadog Evacuee School, 1944-45', *Archifdy Caernarfon*, XM/T/380. (Golwg diwethaf-12/09/19). Gyda chaniatâd Archifdy Caernarfon
[939] Anhysbys, 'The Welsh gipsies: A social problem', *Welsh Outlook,* Vol.1 (1914), t.317.

eni niferoedd eang o blant i rai teuluoedd. Fel y gwelwyd, roedd lot o resymau dros beidio derbyn addysg drwy'r ugeinfed ganrif ymysg y Sipsiwn. Nid yw'r enghraifft uchod yn mynd i fanylder am brofiadau addysgol Sipsiwn benywaidd Cymru yn benodol er hynny. Nid ychwaith yw gweithiau academaidd yn canolbwyntio ar hanes addysg Sipsiwn benywaidd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg hwyr a'r ugeinfed ganrif. Roedd yn anarferol i Sipsiwn heb os eu rhywedd cael addysg yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif, felly nid yw'n syndod bod cyn lleied o ffynonellau yn trafod addysg y Sipsiwn ar ddechrau'r ganrif hwnnw.

Mae'r ffaith bod y dosbarth gweithiol wedi dechrau derbyn addysg fwy yn dangos pam efallai bod Sipsiwn Porthmadog yn yr enghraifft uchod yn derbyn addysg. Roedd myfyrwyr ysgolion Cymru yn cael eu gwahardd rhag ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn ysgolion, gyda'r pwyslais ar yr iaith Saesneg yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.[940] Byddai'r plant yn cael eu cosbi am ddefnyddio'r Gymraeg. Gan mai Romani Cymraeg ac yna Cymraeg ei hun fyddai'r rhan fwyaf o Sipsiwn Cymru yn siarad, gall y rheol uchod esbonio pam bod y Sipsiwn yn gwrthod gyrru eu plant i ysgolion cyhoeddus Cymru. Mae'n debygol byddai eu plant yn cael eu rhagfarnu am eu hiaith, ond hefyd eu diwylliant. Mewn astudiaeth am Sipsiwn Ewrop gan Fonseca yn yr 1990au, darganfuwyd bod nifer o Sipsiwn yn gadael yr ysgol oherwydd bod eu prif iaith ddim yn cael ei siarad yn yr ysgol.[941] Fel yn achos y Sipsiwn yng Nghymru, roedd iaith yn gallu cael effaith trawiadol ar yr amser oedd Sipsiwn Ewropeaidd yn gwario yn yr ysgol. I Sipsiwn ifanc oedd heb lawer o sgiliau llythrennedd yn y lle cyntaf, roedd gorfod dysgu mewn ail iaith neu iaith nid oeddent yn gyfarwydd ag yn gallu bod yn heriol tu hwnt. Byddai rheolau'r ysgol yn rhyfedd i'r plant Sipsi hefyd. Ni fyddent wedi arfer aros y tu mewn i ystafell am gyfnodau hir o amser. Tueddent dreulio y rhan fwyaf o'u hamser y tu allan, felly byddai mynychu ysgol yn mynd yn erbyn eu ffordd o

[940] Anhysbys, 'Education in Wales', *The Cambro-Briton*, Vol.1 (1819), t.77.
[941] Fonseca, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their Journey*, t.163.

fyw yn aml. Mae'n bosibl bod hyn yn rheswm arall pam bod rhieni Sipsi yn gwrthod gyrru eu plant i'r ysgol ar adegau.

Wrth ystyried addysg Sipsiwn benywaidd, mae'n bwysig ei osod mewn cyd-destun wrth ystyried addysg merched yn gyffredinol ym Mhrydain yn yr ugeinfed ganrif. Ymhell cyn yr ugeinfed ganrif, mewn adroddiad i gyflwr addysg y Cymry yn 1842 gan gomisiynwyr o Loegr, roedd addysg i ferched yn cael ei ddarlunio yn anarferol a bod y merched mewn addysg yn cael eu paratoi am fywyd domestig, yntau fel morwynion neu fel gwragedd.[942] Nid oedd y syniadau yma wedi newid llawer yn yr ugeinfed ganrif er hynny yn ôl ymchwiliadau. Mewn ymchwiliad gan Spencer a oedd yn cynnwys cyfweliad gyda thri ar hugain o ferched a adawodd yr ysgol rhwng 1956-1960, dylanwad rhieni oedd yn annog merched i adael i raddau helaeth.[943] Roedd yr ysgolion gramadegol yn rhoi straen economaidd ar rieni, felly roedd merched yn dewis mabwysiadu swyddi yn lle. Gwelwyd bod sefyllfa economaidd y bobl gyffredin yn debyg iawn i'r Sipsiwn, gyda phlant yn cael eu hannog i weithio yn hytrach nac dibynnu ar eu rhieni i'w cynnal. I'r merched oedd yn mabwysiadu swyddi, tueddent i gael swyddi mewn nyrsio neu fel ysgrifenyddion.[944] Roedd angen hyfforddiant i allu ymgeisio am swyddi fel rhain. Byddai'n anodd i ferched Sipsi sicrhau hyfforddiant heb safle parhaol i wersylla arno.

Addysg yn ail hanner yr ugeinfed ganrif

Yn ystod canol yr ugeinfed ganrif datblygodd mwy o ysgolion uwchradd ar draws Prydain yn cynnig addysg am ddim o safon uwch. Mewn ysgolion Uwchradd, roedd merched yn cael eu hannog i ddysgu sgiliau perthnasol i'w rhywedd, megis coginio a gofalu am gartref, er mwyn eu hyfforddi am eu bywyd teuluol nes ymlaen. Yn 1959 ac ymhellach, roedd merched a

[942] Roberts, *The Language of the Blue Books- The Perfect Instrument of Empire*, tt.157-158.
[943] S. Spencer, *Gender, Work and Education in Britain in the 1950's* (Hampshire, 2005), tt.158-170.
[944] Spencer, *Gender, Work and Education in Britain in the 1950's*, t.171.

bechgyn yn derbyn addysg wahanol i'w paratoi ar gyfer y cartref a'r gweithlu.[945] Pwysleisir mai merched oedd yn gallu gwneud y gwaith domestig i'r safon orau. Dyma ffordd i'r ysgolion cadarnhau rolau rhywedd derbyniol i bobl ifanc, o oedran ifanc iawn. Byddai unrhyw berson oedd yn herio'r syniadau hyn yn derbyn rhagfarn mae'n debyg. Gwelwyd bod rhaniadau rhywedd yn cael eu cadw atynt mewn ysgolion ymhell i'r ugeinfed ganrif. Ni ddaeth anhafalrwydd rhywedd mewn addysg yn bolisi nes yr 1980au, felly roedd merched yn cael eu cyfyngu mewn ysgolion hyd at ddiwedd y ganrif.[946] Byddai syniadau'r 1950au am ranbarthau merched wedi eu treiddio i nifer o genhedloedd erbyn hyn, ac wedi creu gwraidd. Gyda hyn, byddai syniadau am rôl y ferch wedi'i throsglwyddo drwy'r cenhedloedd i'r iau. Hyd at ddiwedd yr ugeinfed ganrif, roedd pwysau ar ferched i ddarganfod siwtor wedi iddynt adael yr ysgol.[947] Gwelir bod syniadau'r 1950au am rôl y ferch yn anodd diddymu wedi iddynt dreiddio i'r ymwybyddiaeth gyffredinol genedlaethol. Gwelir bod merched o hyd yn cael eu hannog i greu perthynas, ac felly cychwyn cartref, fel rhan o'u rôl draddodiadol.

I nifer o deuluoedd nid oedd gyrru eu plant i'r ysgol yn opsiwn economaidd angenrheidiol oherwydd iddynt orfod talu am wisg ysgol ac arian teithio yn aml. I'r rhai oedd yn dewis gyrru eu plant, y bechgyn oedd yn cael blaenoriaeth oherwydd iddynt gael eu hystyried fel gallu gwneud y mwyaf o'r addysg a chael swyddi gwell na'r genethod. Hyd at yr unfed ganrif ar hugain mae ymchwiliadau yn parhau i ystyried bod bechgyn yn cael blaenoriaeth mewn ysgolion i gyrraedd eu potensial. Yn ôl Jackson et al yn 2010, gan fod merched yn tueddu i gael graddau gwell yn yr ysgol, mae mwy o bwyslais ar wella safonau'r bechgyn.[948] Mae hyn yn annheg, gan nid pob merch sy'n rhagori mewn ysgolion. I nifer o ferched, mae derbyn addysg yn her hyd at y presennol, mewn amryw o gymunedau.

---

[945] P. Woods, *The Happiest Days? How pupils cope with school* (Oxon, 1990), t.55.
[946] Bargielowska, 'Introduction', t.9.
[947] Tinkler, 'Girlhood and Growing Up', t.48.
[948] C. Jackson et al., 'Introduction', yn C. Jackson et al., (gol*), Girls and Education-continuing concerns, new agendas* (Berkshire, 2010), t.1.

Erbyn 1984, roedd 40% o ferched yn mynychu Prifysgolion ym Mhrydain, ac yn ddiddorol iawn roedd cynnydd yn y niferoedd o ferched aeddfed mewn Prifysgolion o'r 1970au.[949] Mae'r ffigwr yma wedi bod ar lethr, gyda niferoedd eang o ferched yn mynychu Prifysgolion yn yr unfed ganrif ar hugain. Yn anghyffredin, cafodd y Sipsi Seisnig Violet Cannon ei gyrru i'r ysgol yn yr 1980au.[950] Hefyd, cafodd y Sipsi Cymreig Gevoner Lock ei gyrru i ysgol leol yn Ynys Môn nes iddi droi'n bymtheg oed oherwydd bod ei rhieni wedi setlo yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif.[951] Er bod yr esiamplau yma yn eithaf prin, mae'n dangos bod rhai teuluoedd Sipsi eisiau i'w merched dderbyn addysg a chael fwy o opsiynau yn yr ugeinfed ganrif hwyr. Mewn astudiaeth yn 1994 gan Garland, gwelwyd bod merched aeddfed wedi dewis mynychu Prifysgol Bangor er mwyn datblygu eu hunain a chael swyddi yn hytrach nac gwneud gwaith tŷ yn unig.[952] Dangosa'r astudiaeth hon bod merched yng Nghymru yn gyffredinol yn gweld addysg fel opsiwn da er mwyn allu cael swydd i ennill cyflog ychwanegol i'r teulu a datblygu eu sgiliau. Roedd y merched hyn yn gweld addysg fel opsiwn yn hwyrach ymlaen yn eu bywydau gan ddarlunio bod sgiliau merched tu allan i'r cartref wedi dechrau cael eu gweld yn bwysig hefyd. Er hynny, mae Morgan wedi ail-ystyried gwaith Garland yn 2016 gan ddangos bod nifer o heriau yn gwynebu merched aeddfed sydd eisiau cael addysg uwch.[953] Gall yr heriau hyn gynnwys diffyg graddau perthnasol yn yr ysgol, methu cael gofal plant neu ddiffyg hyder. Dangoswyd bod addysg yn parhau i fod yn her i nifer o ferched hŷn yng Nghymru yn y cyfnod modern yma. Mae addysg yn gallu bod yn her i unigolion yn y gymuned Sipsi yn gyffredinol, heb os eu hoedran.

[949] Dyhouse, 'Education', t.127.
[950] Cannon, *Gypsy Princess-The true story of a Romany childhood*, t.44.
[951] Davies, *Tales of the Old Gypsies*, t.69.
[952] M. Morgan, 'Re-educating Rhian: Experiences of working-class mature student mothers', yn D. Mannay (gol), *Our Changing Land: Revisiting Gender, Class and Identity in Contemporary Wales* (Caerdydd, 2016), t.113.
[953] Morgan, 'Re-educating Rhian: Experiences of working-class mature student mothers', t.124.

Erbyn yr unfed ganrif ar hugain mae Lloyd a McCluskey yn dadlau er bod tŵf diddordeb mewn addysg ymysg y gymuned Sipsi, mae gan nifer o bobl ifanc bryder ynglŷn â mynychu'r ysgol oherwydd bwlio a hiliaeth.[954] Y mae hiliaeth tuag at y gymuned yn broblem hir-dymor sy'n parhau hyd at y presennol. Cysyllta hyn âg astudiaeth Mirza yn yr 1980au wnaeth ddarganfod bod 33% o athrawon yn hiliol ym Mhrydain.[955] Os yw'r athrawon eu hunain yn hiliol, nid yw'n syndod bod pobl ifanc Sipsi yn derbyn rhagfarn gan eu cyfoedion hefyd. Oherwydd hyn, mae nifer o bobl ifanc Sipsi yn dysgu o adref, yn llwyddiannus ac aflwyddiannus.[956] Yn ôl Deddf Addysg 1944 yng Nghymru a Lloegr, roedd rhieni yn gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn yn cael addysg berthnasol dderbyniol i'w hoedran.[957] Oherwydd hyn, yn y Deyrnas Unedig, mae gan riant hawl i addysgu eu plant o adref, ond yn gorfod profi bod eu plentyn yn derbyn addysg ffurfiol.[958] Nid yw'n deg bod pobl ifanc yn teimlo eu bod yn gorfod cael eu dysgu o adref er lles eu diogelwch. Mae'n anodd gwybod pa mor dderbyniol yw'r addysg o adref, wrth i rai rhieni gosod pwysigrwydd ar ddysgu sgiliau busnes teuluol, yn hytrach nac ar raddau ffurfiol. Mae Bhopal a Myers yn pwysleisio bod rhai teuluoedd Sipsi sydd yn fwy cyfoethog yn gallu fforddio tiwtor personol i'w plant.[959] Eithriad ydi hyn yn y gymuned er hynny. I'r mwyafrif, y rhieni sy'n gyfrifol am eu haddysg, heb os lefelau llythrennedd y rhieni. I ychwanegu, mewn astudiaeth yn 2015 roedd canrannau uchel o absenoldeb mewn ysgolion ymysg plant Sipsi ac roeddent ymysg y myfyrwyr sy'n cyflawni eu potensial lleiaf.[960] Dyma ddyfodol digalon nifer o bobl ifanc o'r gymuned, os nid yw pethau yn newid. Yn ogystal, mae'n gallu bod yn anodd i bobl ifanc ganolbwyntio a deall

[954] Marcus, *Gypsy and Traveller Girls- Silence, Agency and Power*, t.91.
[955] Tinkler, 'Girlhood and Growing Up', t.41.
[956] 'Tackling inequalities faced by Gypsy, Roma, Traveller communities-Education', *Safle wê Parliament UK*, https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmwomeq/360/report-files/36008.htm (golwg diwethaf-10/12/19).
[957] K. Bhopal a M. Myers, 'Marginal groups in marginal times: Gypsy and Traveller parents and home education in England, UK', *British Educational Research Journal*, Vol.42 (2016), t.8.
[958] Ibid, t.9.
[959] Bhopal a Myers, 'Marginal groups in marginal times: Gypsy and Traveller parents and home education in England, UK', t.12.
[960] Cattanach, 'Reducing child health inequality among Gypsy Travellers', t.46.

gwaith heb gymorth athrawon. Mae addysg yn y cartref yn gallu bod yn heriol oherwydd hyn. Mae'r ofn o ragfarn mewn ysgolion yn parhau yn y gymuned Sipsi, oherwydd ei statws fel cymuned ethnig leiafrifol. Gwelwyd bod agweddau'r gymuned tuag at ysgolion heb newid llawer ers yr ugeinfed ganrif. Mae angen gwneud mwy i sicrhau bod Sipsiwn ifanc yn teimlo'n gyfforddus mewn ysgolion. Byddai hyn yn annog mwy o bobl ifanc i ddefnyddio addysg i wella eu cyflwr bywyd a gweld bod mwy o opsiynau ar gael iddynt. Gwelwyd bod mwy o rieni o'r gymuned eisiau i'w plant cael addysg, a pheidio fod yn gwbl hunan-addysgol yn y dyddiau modern hyn.[961] Y mae angen i awdurdodau addysgol weithio gyda rhieni Sipsi i wella presenoldeb plant a phobl ifanc Sipsi mewn ysgolion. Mewn adroddiad gan y Tŷ Cyffredin, gwelwyd bod pobl ifanc o gefndir Sipsi neu Deithio ddim yn cyflawni eu potensial ac yn methu cael mynediad i addysg.[962] Mae pobl ifanc o'r gymuned wedi eu gadael i lawr gan awdurdodau addysgol ac mae mwy angen cael ei wneud i wella cyfleoedd addysgol Sipsiwn a Theithwyr.

Gallai'r teuluoedd Sipsi a'r ysgolion wrthdaro ar adegau oherwydd gwahaniaethau diwylliannol. Mae bywyd crwydrol rhai teuluoedd yn gallu cythruddo ysgolion, er enghraifft gyda'r holl deulu yn teithio i ffair geffylau yn ystod tymor yr ysgol.[963] Yn yr achosion yma, mae angen i'r ysgolion fod yn ymwybodol o wahaniaethau diwylliannol y bobl ifanc Sipsi a chymryd hyn i ystyriaeth. Gall agweddau cadarnhaol mewn ysgolion annog mwy o bobl ifanc Sipsi i fynychu'r ysgolion. Mewn ymchwiliad gan Hamilton, roedd rhai merched Sipsi yn gweld addysg fel ffordd o fynd i'r coleg a Phrifysgol a chael swydd dda er mwyn sicrhau

[961] 'Episode 8-Education Matters: Gypsy& Traveller children and the education system (18/01/19), *On the Road-Podcast for Gypsy, Roma and Traveller Communities*, fersiwn ar lein, http://ontheroadradio.libsyn.com/episode-9-education-matters-gypsy-traveller-children-and-the-education-system (golwg diwethaf-02/03/20), 06:20.
[962] 'House of Commons Women and Equalities Committee-Tackling inequalities faced by Gypsy, Roma and Traveller communities', t.29.
[963] K. Bhopal, ''What about us?' Gypsies, Travellers and 'white racism' in secondary schools in England', *International Studies in Sociology of Education*, Vol.21 (2011), t.322.

annibyniaeth ariannol a chymdeithasol.[964] Mae'r Llywodraeth angen gwneud y mwyaf o newidiadau cynnil fel hyn. Gwelwyd bod newid yn dechrau digwydd oddi fewn i'r gymuned, gyda rhai merched ifanc yn herio'r safonau cymdeithasol derbyniol. Mae addysg yn dechrau cael ei ystyried fel ffordd o wella cyflwr bywydau i rai merched. Mae'n rhoi ymwybyddiaeth o'r opsiynau sydd ar gael i'r merched hyn oddi wrth y rolau traddodiadol o wragedd tŷ. Dangosa ymchwiliad arall gan Hamilton bod y bobl ifanc sydd yn hoffi mynd i'r ysgol yn y gymuned yn tueddu i gael mamau cefnogol.[965] Gwelwyd bod gan y fam rôl arwyddocaol yn addysg ei phlant yn y gymuned. Mae barn y fam am addysg yn cael effaith ar sut mae'r plant yn ystyried ysgol. Gall mamau cael dylanwad eang ar ddyfodol eu plant oherwydd hyn. Mae ychydig o dystiolaeth bod addysg yn fwy o atyniad i ferched Sipsi, tra bod swyddi traddodiadol yn fwy o atyniad i'r bechgyn.[966] Mae angen annog Sipsiwn ifanc heb os eu rhywedd i wneud y mwyaf o'r addysg sy'n cael eu cynnig iddynt. Ym Mhrydain 1972, pasiodd merched fwy o lefelau A nac bechgyn, er bod rhieni'n tueddu i gefnogi eu meibion fwy mewn addysg.[967] Ystrydeb heb sylfaen oedd i fechgyn allu gwneud mwy o'u cyfleoedd addysgol nac merched, a chael swyddi gwell ar y diwedd. Mae mwy angen cael ei wneud i annog y ddau rywedd i fynychu'r ysgol yn y gymuned Sipsi. Gall dylanwad mamau yn y gymuned fod yn gam bwysig i annog bechgyn a merched i wneud y mwyaf o'r addysg sydd ar gael.

Addysg yn yr unfed ganrif ar hugain

Mae'n bwysig ystyried esiamplau o ferched Sipsi yng Nghymru yn gwneud y mwyaf o wasanaethau addysgol. Yn 2017 yn Sir Benfro yng Nghymru, roedd o leiaf naw o ferched o

[964] Hamilton, 'School books or wedding dresses? Examining the cultural dissonance experienced by young Gypsy/Traveller women in secondary education', t.835.
[965] Hamilton, 'Engaging Gypsy and Traveller pupils in secondary education in Wales: tensions and dilemmas of addressing difference', t.15.
[966] Cemlyn et al., 'Inequalities experienced by Gypsy and Traveller communities: A review', t.108.
[967] Mackie a Pattullo, *Women at work,* t.29.

gefndir Sipsi neu Deithio yn mynychu cwrs cynorthwyydd addysgu ym Mhrifysgol Cymru-Y Drindod Dewi Sant.[968] Roedd y rhan fwyaf o'r merched hyn yn fyfyrwyr aeddfed, gan ddangos bod merched y gymuned yn dechrau ystyried gwerth eu hunain yn y byd proffesiynol nes ymlaen yn eu bywydau. Gan fod plant y merched hyn un ai wedi tyfu neu yn yr ysgol lawn-amser, roedd hyn yn golygu bod ganddynt yr amser a'r cyfle i allu fod yn ddelfryd ar gyfer eu plant. Yn debyg, cynllwyniodd un Teithiwr Gwyddelig benywaidd o raglen *YouTube* ddechrau cwrs addysg gyda'r mudiad *Traveller Movement* er mwyn allu mynd i'r Brifysgol.[969] Gwelwyd bod rhai merched Sipsi a Theithio yng Nghymru ag ymhellach â diddordeb mewn addysg ac yn gweld ei fod yn opsiwn iddynt erbyn hyn. Gydag addysg, roedd y merched hyn yn sicrhau bod gweithio yn opsiwn iddynt, yn hytrach nac anobaith. Roedd rhai o'r Teithwyr benywaidd yn ymchwiliad Norman yng Ngogledd Cymru yn dysgu sut i ddarllen ac ysgrifennu.[970] Dyma ddangos bod newid ac esblygu yn digwydd yn y teulu penodol hwnnw. Gwelwyd bod rhai merched eisiau mabwysiadu sgiliau allai fod yn werthfawr iddynt, er enghraifft wrth i sgiliau llythrennedd fod yn hanfodol ar gyfer llenwi ffurflenni ac yn y blaen.

Eto o Ogledd Cymru, sicrhaodd Shelby Holmes o'r gymuned dynion sioe, le ym Mhrifysgol Rhydychen i astudio llenyddiaeth Saesneg yn 2013.[971] Y gymuned dynion sioe sy'n berchen ar nifer o ffeiriau hwyl Prydain ac mae ganddynt gysylltiad hir-dymor gyda grwpiau teithiol eraill oherwydd cyd-briodi. Dyma enghraifft o ferch o'r gymuned estynedig o Deithwyr yn herio ystrydebau ei rhywedd oddi fewn i'r gymuned i barhau gydag addysg uwch, mewn un o Brifysgolion mwyaf nodedig Prydain. Roedd Shelby yn brif-ferch yn ei hysgol a sicrhaodd hi

[968] R. Beacham, 'Gypsy women breaking education barriers with Uni degrees', *BBC News Online*, https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-40728470 (golwg diwethaf-20/10/19).
[969] 'Traveller women telling it straight', *Fideo YouTube*, https://www.youtube.com/watch?v=RtddrgWOopA (golwg diwethaf-28/02/20), 30:24.
[970] Norman, *The changing lives of women Travellers*, t.29.
[971] 'Traveller Girl's New Journey', *Daily Post*, 4 Chwefror 2013.

ddwy A seren ac un B yn ei lefelau A, gan ddod yn esiampl ragorol i ferched ei chymuned.[972] Gwelir bod merched o'r cymunedau teithiol yng Nghymru yn herio'r syniadau ymysg rhai teuluoedd yn y cymunedau yma am rôl merched. Y mae esiamplau eang erbyn hyn o ferched ifanc Sipsi a Theithio yn rhagori mewn ysgolion ac yn mynd ymlaen i addysg uwch. Enghraifft arall o ferch Roma yn mynd i'r Brifysgol oedd Brigitta Balogh, a raddiodd i fod yn fargyfreithiwr.[973] Er bod Brigitta ddim yn Sipsi Cymraeg, gwelwyd bod merched ar draws y gymuned Sipsi, Roma a Theithwyr yn dechrau ystyried eu hopsiynau i ffwrdd o'r cartref. Mae merched fel Shelby a Brigitta yn teimlo anrhydedd mawr yn eu cymuned, ond hefyd yn gweld gwerth addysg a'r annibyniaeth allai hynny ddod ag. Dyma esiamplau ardderchog i weddill y gymuned, gan ddangos bod merched ag opsiynau eraill ar wahân i ddod yn wragedd tŷ.

Er yr esiamplau uchod, yn ôl D'Arcy a Galloway, mae nifer o bobl ifanc Sipsi a Theithio yn ystyried coleg a Phrifysgol yn anghyraeddadwy oherwydd y graddau sydd ei angen.[974] Er hynny, gall enghreifftiau fel y rhai uchod sbarduno pobl ifanc y gymuned i ymgeisio ac i barhau mewn addysg. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adroddiad sy'n amlinellu bod angen cefnogaeth i'r gymuned Sipsi gyflawni eu potensial a chyfrannu i'r gymdeithas Gymraeg.[975] Er hynny, mae'n anodd gweithredu'r cynlluniau yma mewn cymuned gyfan. Hefyd, mae'n anodd newid syniadau traddodiadol rhai teuluoedd Sipsi am addysg a'i rôl ym mywydau merched yn benodol. I'r merched Sipsi sydd yn mynychu'r coleg neu'r Brifysgol, gall nifer o heriau eu hwynebu. Mae gofynion cwrs yn gallu bod yn broblemus, er enghraifft pwysau gwaith darllen ac ysgrifennu, i unigolion sydd heb arfer gyda hyn. Amlinellodd

[972] 'Traveller Girl's New Journey', *Daily Post*, 4 Chwefror 2013.
[973] M. Oppenheim, 'Brigitta Balogh: woman set to become Britain's first Roma barrister on Brexit insecurity and racism', *Independent-ar lein*, https://www.independent.co.uk/news/uk/home-news/uk-first-roma-barrister-woman-brigitta-balogh-antigypsyism-racism-discrimination-brexit-a8547591.html (golwg diwethaf-01/11/19).
[974] K. D'Arcy a L. Galloway, 'Access and inclusion for Gypsy and Traveller Students in Higher Education', yn J. Arday a H. S. Mirza (gol), *Dismantling Race in Higher Education: racism, whiteness and decolonising the academy* (Switzerland, 2018), t.224.
[975] 'Enabling Gypsies, Roma and Travellers report', *Llywodraeth Cymru*, t.2.

Freeman, Teithiwr Gwyddelig, ei fod yn anodd iddi ddarganfod lle distaw i astudio yn ei chartref a'i fod yn anodd gorfod gwreiddio a rhoi diwedd i deithio er mwyn cael addysg.[976] Gallai heriau fel darganfod lle i astudio a gorfod gwreiddio fod yn broblemus tu hwnt i Sipsi oherwydd eu ffordd draddodiadol o fyw. I rai Sipsiwn sy'n parhau i deithio, nid yw gwreiddio yn opsiwn. I ychwanegu, mae nifer o Sipsiwn hefyd hefo teuluoedd enfawr, felly mae diffyg lle astudio yn broblem gyffredin. Gall unigolion eraill o'r gymuned wneud hwyl am ben y person sydd eisiau astudio, oherwydd bod yr unigolyn hwnnw yn mynd yn erbyn y traddodiadau parhaol. I mi yn bersonol, roedd y ffaith fy mod i eisiau cael addysg uwch ac yna eisiau cwblhau PhD ddim yn cael ei weld yn aml yn y teulu fel swydd gwir. Yn aml, roedd y gwaith yma yn cael ei weld fel jôc, neu rhywbeth i beidio cymryd o ddifri. Mae'r ffaith bod Sipsiwn a Theithwyr yn gorfod gwreiddio yn aml i'w plant cael addysg yn gallu cael effaith negyddol ar y diwylliant ac ar iechyd meddwl yr unigolion. I'r Sipsiwn ifanc sydd yn dewis gadael eu cartref i fynychu Prifysgol, gall y newid yma mewn ffordd o fyw fod yn frawychus. Gan fod Sipsiwn ifanc, yn enwedig merched, ddim yn gadael eu rhieni o gwbl am nosweithiau i ffwrdd, gallai symud o gartref fod yn straen mawr iddynt. I rai pobl ifanc Sipsi, gallai symud oddi wrth y teulu cael effaith ar eu ffordd o fyw a pha mor llym y gallent ddilyn rheolau diwylliannol a thraddodiadol.

Ymatebion yr holiadur am addysg

Yr oedd cwestiwn penodol yn yr holiadur oedd yn gofyn am effaith addysg ysgol ar Sipsiwn, sef cwestiwn pedwar ar ddeg 'Ydych chi'n meddwl bod addysg ffurfiol mewn ysgolion wedi cael effaith ar fywyd Sipsiwn?'. Mae'r graff canlynol yn amlinellu'r ymatebion gan y cant dau ddeg ac wyth o gyfranogwyr a dewisodd ymateb i'r cwestiwn hon:

[976] R. Freeman, 'My Gypsy Childhood', *The Guardian*, fersiwn ar lein, https://www.theguardian.com/lifeandstyle/2009/sep/07/gypsy-childhood-prejudice-education (golwg diwethaf-15/11/19).



Roedd angen geirio y cwestiwn yma yn glir, gan fod pobl ifanc Sipsi, fel mae'r gwaith yma wedi dangos, yn ystyried y ddysg gan eu rhieni yn y cartref a'r busnes teuluol yn addysg ffurfiol hefyd. Fel y gwelir, dewisodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr i ateb 'Ydi', sy'n dangos bod yr unigolion yma yn cydnabod bod addysg ysgol wedi cael effaith ar fywyd y Sipsiwn, boed hynny yn effaith negyddol neu gadarnhaol. Dewisodd ffigwr arwyddocaol 'Ansicr', sy'n deg gan mai dyma'r cwestiwn anoddach i ateb yn yr holiadur wrth iddo ofyn am destun sydd ddim yn agos i galon nifer o bobl yn gyffredinol yn y gymuned. Gwelwyd bod canran eithaf cadarnhaol wedi dewis ateb 'Nac ydi' sy'n darlunio bod yr unigolion yma yn cydnabod bod addysg ysgol heb gael effaith ar y bywyd Sipsi o gwbl, ac efallai yn ystyried bod pethau eraill wedi cael mwy o effaith arno. Er bod yr ystadegau yn y graff uchod yn ddiddorol, nid ydynt yn manylu ar y rhesymau dros yr ymatebion, sydd yn bwysig i'r gwaith yma. Fel atodiad i'r cwestiwn yma, roedd yna le i gyfranogwyr ychwanegu sylwadau eu hunain i esbonio eu hateb os oeddynt yn dewis gwneud. Dyma'r adran a ddatgelodd y wybodaeth fwyaf defnyddiol ar gyfer y testun yma, ac sy'n amlygu yr effaith gadarnhaol a negyddol oedd y cyfranogwyr yn ystyried oedd addysg ysgol wedi cael ar y ffordd o fyw Sipsi.

O'r chwe deg tri o sylwadau yn yr adran agored, roedd pedwar deg pump o'r ymatebion yn ystyried addysg ysgol fel rhywbeth cadarnhaol oherwydd nifer o resymau gwahanol fydd yn

cael eu trafod yn y paragraff nesaf. Roedd sylwadaeth un ar bymtheg o gyfranogwyr yn darlunio addysg ysgol mewn ffordd negyddol neu fel wedi cael effaith negyddol, ac roedd dau o'r cyfranogwyr yn ystyried addysg ysgol yn gadarnhaol ac yn negyddol yn eu tro. Felly, er bod canran uchel o gyfranogwyr wedi dewis 'Ydi' fel ymateb i gwestiwn pedwar ar ddeg 'Ydych chi'n meddwl bod addysg ffurfiol mewn ysgolion wedi cael effaith ar fywyd Sipsiwn?', nid oedd pob un o'r cyfranogwyr yma yn ystyried bod addysg ysgol wedi cael effaith cadarnhaol ar ffordd o fyw y gymuned.

Yn gyntaf, edrychwn ar esiamplau o'r ymatebion sy'n amlygu effaith cadarnhaol addysg ysgol ar y gymuned Sipsi. Roedd pwyslais penodol gan amryw o gyfranogwyr ar sut oedd addysg ysgol yn gwella cyfleoedd gwaith i Sipsiwn. Mewn cymuned oedd yn arfer dibynnu ar eu sgiliau eu hunain yn draddodiadol i ennill arian, mae'n bwysig cydnabod bod nifer o Sipsiwn erbyn hyn yn gallu defnyddio addysg ysgol i ehangu y mathau o waith sy'n agored iddynt. Yng ngeiriau'r cyfranogwyr,

> 'Allows more job opportunities and to adjust to more modern lifestyle.'
>
> 'A formal education gives choices and means we don't have to do the traditional jobs like gardening, buying and selling etc and can do more technical jobs which also means living a more settled lifestyle.'
>
> 'Helps our young ones go on to move into the bigger businesses.'
>
> 'I think it helps them for the future in a world that is changing and values educational qualifications more than unqualified skills.'

Mae'r dyfyniad cyntaf yn ddiddorol, gan ei fod yn cysylltu addysg ysgol gyda mwy o gyfleoedd gwaith, ond hefyd hefo'r syniad o ffordd o fyw bywyd mwy modern. Mae'r syniadau yma yn awgrymu bod Sipsiwn sydd yn dewis cael addysg ysgol yn fwy parod i addasu ac esblygu mewn cyfnod modern. Darluniwyd hyn mewn agwedd gadarnhaol, gan

ddangos natur y Sipsiwn o addasu i sefyllfaoedd newydd, gan gynnwys byw mewn byd modern ble mae addysg ysgol yn gallu cael effaith da ar obeithion Sipsiwn iau am eu gyrfaoedd. Mae'r ail ddyfyniad yn esbonio sut mae swyddi traddodiadol y Sipsiwn i raddau helaeth yn dirywio mewn byd modern, a bod galw mewn swyddi technegol yn lle. Mae hyn eto yn dangos sut mae'r Sipsiwn yn addasu i fabwysiadu swyddi sydd yn berthnasol i'r oes, rhywbeth sydd wedi digwydd yn y gymuned yn draddodiadol dros y cenhedloedd hefyd. Roedd y gymuned yn arfer gwneud nifer o fathau gwahanol o waith drwy'r flwyddyn yn yr ugeinfed ganrif. Roeddent yn fwy na pharod i fabwysiadu sgiliau newydd er mwyn allu ennill mwy o arian i'r teulu. Nid yw hyn yn wahanol i'r Sipsiwn ifanc sydd yn mabwysiadu sgiliau yn yr ysgol sydd yn eu helpu i ymgeisio am swyddi da yn y dyfodol. Cyfeiriodd y cyfranogwr yn nyfyniad dau at y ffaith bod y twf mewn Sipsiwn yn gwneud swyddi mwy technegol yn golygu bod mwy o Sipsiwn wedi gorfod setlo. Yn anochel, wrth i Sipsiwn fabwysiadu swyddi sydd ddim yn hunan-gyflogedig, mae angen iddynt setlo. Gall hyn fod yn anodd i deulu traddodiadol gorfod wynebu. Ar y llaw arall, mae'r buddion fel arfer yn gorbwyso'r negyddol yn yr achosion hyn, ac mae gallu darparu yn ariannol ar gyfer y teulu yn bwysicach na dim i Sipsiwn fel arfer. Mae'r drydydd dyfyniad yn amlygu bod rhai o'r Sipsiwn hŷn eisiau i'w plant gwneud y mwyaf o'r addysg ysgol i allu agor drysau i'w hunain at swyddi statws-uchel. Mae llawer o rieni eisiau i'w plant cael y cyfleoedd na chawsant hwythau ac yn ceisio eu cefnogi hefo'u gwaith ysgol. Mae'r bedwerydd dyfyniad yn crynhoi syniadau nifer o rieni Sipsi at addysg, sef y syniad bod wir angen graddau ysgol er mwyn llwyddo mewn byd modern. I rai, nid yw'r sgiliau traddodiadol yn berthnasol mewn byd modern, ac mae angen sgiliau addysg ysgol er mwyn allu cyrraedd eu potensial. Er bod y gymuned Sipsi yn 'dal gafael ar sgiliau traddodiadol yn aml, mae'r gymuned allanol yn newid ac esblygu. Mae gofynion swyddi yn cyfeirio at raddau ysgol i raddau helaeth erbyn hyn, ac heb raddau ffurfiol byddai nifer o unigolion yn cael eu gwrthod mewn cyfweliadau. Felly, mae'r

dyfyniadau uchod yn pwysleisio pa mor bwysig yw addysg i nifer o Sipsiwn erbyn hyn, fel ffordd o fabwysiadu swyddi da a chael y cyfleoedd gorau sy'n bosibl.

Yn ddiddorol, roedd ymatebion eraill yn yr adran agored yn cyfeirio at y ffaith bod addysg ysgol ffurfiol yn helpu'r gymuned Sipsi i frwydro yn erbyn hiliaeth a rhagfarn gan bobl nad yw'n Sipsiwn a'r llywodraeth ym Mhrydain. Roedd y rhain yn ymatebion annisgwyl, ond yn ddiddorol tu hwnt gan eu bod yn amlygu'r ffaith bod unigolion Sipsi ar hyn o bryd yn ymgyrchu ar ran y gymuned ledled Prydain. Yng ngeiriau rhai o'r cyfranogwyr,

> 'We have a better understanding of what settled people think of us, and we now have the means to stop them pushing us around. We were always smart but now we have the education to beat them at their own game. I've never seen a gorjer be able to survive like we do but we have that and an education now.'
>
> 'It is allowing us to tackle racism at the heart of the government.'
>
> 'It gives Gypsy children a much better idea how things work in the bigger world and gives them a much better idea about claiming Ethnic Rights etc'
>
> 'Means we know how the gorjas think and we can beat them at their own game, lot of young rai and raunees out there got the intelligence to get in positions to help the ole folkee out now.'

Darluniwyd addysg yn y dyfyniad cyntaf fel angenrheidiol i ddeall syniadau ystrydebol y gymuned allanol am y Sipsiwn. I rai Sipsiwn, mae hiliaeth a rhagfarn gan unigolion nid yw'n Sipsiwn yn ffurfio rhan gyffredin o'u magwraeth. Roedd y Sipsiwn yn cael eu gweld yn eraill digroeso mewn amryw o gymunedau ac yn cael eu gwthio o un lle i'r llall gan awdurdodau er mwyn sicrhau eu bod nhw ddim yn gwreiddio yn aml. Mae gan nifer o deuluoedd bryder ynghylch yr heddlu a'r llywodraeth ac felly mae teimladau o hiliaeth yn cael ei rannu gan nifer o unigolion oddi fewn i'r gymuned. Nid yw'n syndod felly bod yr addysgedig yn y

gymuned eisiau defnyddio'r addysg hwnnw i frwydro yn erbyn yr hiliaeth a rhagfarn yma. Mae brawddeg olaf dyfyniad un yn bwysig gan ei fod yn amlygu anrhydedd y gymuned yn eu bodolaeth hyd at y presennol. Mae'r dyfyniad yn dangos agwedd hyblyg y Sipsiwn tuag at addysg ffurfiol ysgol a'r syniad ei fod yn atodiad yn unig i weddill sgiliau y gymuned. Mae'r ail ddyfyniad yn amlygu sut mae rhai Sipsiwn yn defnyddio eu haddysg erbyn hyn i ymgyrchu yn lleol ac yn genedlaethol am hawliau i Sipsiwn ym Mhrydain. Nid yw'n glir os yw'r dyfyniad yn cyfeirio at y Llywodraeth ei hun fel bod yn hiliol, neu fod hiliaeth yn cael ei frwydro o galon y Llywodraeth gan unigolion Sipsi sydd mewn swyddi gwleidyddol. Heb os, mae'r bennod yma wedi dangos bod Sipsiwn a Theithwyr benywaidd yn ymgyrchu ar ran eu cymunedau ar hyn o bryd. Mae'n debygol bod addysg ysgol wedi rhoi'r modd i rai o'r unigolion yma siarad yn gyhoeddus am heriau eu cymuned. Cadarnhawyd y syniad bod addysg ysgol yn sbarduno pobl ifanc i gael dweud am eu cymuned yn nyfyniad tri. Darluniodd y cyfranogwr yma sut mae ysgolion yn addysgu pobl ifanc am hawliau ethnig ac am faterion rhyngwladol. Gallai hyn sbarduno pobl ifanc i ymgyrchu ar ran eu cymuned, neu i sefyll i fyny am eu hunain yn gyffredinol mewn teyrnas ble mae hiliaeth a rhagfarn tuag at Sipsiwn yn gyffredin o hyd. Mae'r pedwerydd dyfyniad yn amlygu'r syniad bod addysg ysgol yn helpu'r Sipsiwn i ddeall sut mae'r 'gorjas', neu bobl nid yw'n Sipsiwn, yn meddwl. Mae'r cyfranogwr yma yn pwysleisio sut mae addysg ysgol yn gallu agor drysau i safleoedd nodedig i Sipsiwn yn y gweithlu ym Mhrydain. Mae'r cyfranogwr yn cyfeirio yn benodol at swyddi allai helpu'r Sipsiwn hŷn yn y gymuned, yr 'ole folkee'. Gyda'r helyntion ynglŷn â safleoedd gwersylla, safleoedd parhaol, rhagfarn a hiliaeth sy'n cael ei wynebu gan y gymuned Sipsi, nid yw'n syndod bod rhai cyfranogwyr i'r cwestiwn yma yn pwysleisio'r gobaith bod pobl ifanc y gymuned yn mynd i greu newidiadau ar ran y gymuned, gan mai hwythau sydd yn fwy na thebyg wedi derbyn addysg ysgol. Y mae pwysau ar y bobl ifanc Sipsi sydd yn derbyn addysg uwch i frwydro ar ran eu cymuned, swydd nid pob Sipsi ifanc

sydd ei eisiau. Yn aml, mae Sipsiwn ifanc eisiau mynd i goleg neu'r Brifysgol i wella cyfleoedd eu hunain ac i greu dyfodol gwell i'w hunain. Wrth i fwy o bobl ifanc Sipsi fabwysiadu addysg, mae hyn yn brwydro yn erbyn nifer o ystrydebau y mae'r gymuned annol yn dal yn erbyn y Sipsiwn megis y syniad eu bod heb addysg neu'n ddibynnol ar fuddion gan y Llywodraeth. Mae angen i fwy o Sipsiwn mewn swyddi da fod yn agored am eu cefndir ethnig, ac yn y ffordd yma bydd ystrydebau yn cael eu herio fwyaf.

Yn cysylltu â hyn, cyfeiriodd rhai cyfranogwyr at y cysylltiadau ehangach rhwng Sipsiwn a phobl o gymunedau eraill nad yw'n Sipsiwn y mae addysg ysgol yn hyrwyddo. Yn sicr, mae rhyngweithio gyda phobl ifanc nid yw'n Sipsiwn yn golygu bod ystrydebau am y gymuned yn cael eu herio o oedran ifanc pan mae pobl ifanc yn fwy parod i newid. Byddai hyn yn ei dro yn ychwanegu at leihau'r rhagfarn sy'n cael ei ddangos at y gymuned yn aml. Yng ngeiriau rhai o'r cyfranogwyr,

> 'In many cases it allows Gypsies to associate more with the non Gypsy. It helps us to communicate outside our own culture, This modern world is a bleak dark place if we cannot see beyond our own boundaries, a formal education gives us a broader scope. We can build stronger bonds with those who matter and we can deal with the authorities if we have the means to understand them, education is a must.'

> 'i went to secondary school and university and the non-gypsies were v accepting of my gypsy life-but the other gypsies thought i must be tainted by palling about with non-gypsies.'

Mae'r cyfranogwr yn y dyfyniad cyntaf yn gweld cysylltiadau rhwng Sipsiwn a phobl nid yw'n Sipsiwn yn rhywbeth cadarnhaol a ddylai cael ei annog. Dadleua'r cyfranogwr bod creu cysylltiadau tu allan i'r gymuned Sipsi yn bwysig er mwyn ehangu dealltwriaeth y gymuned ac i greu cysylltiadau pwysig gydag awdurdodau. Y mwy o Sipsiwn sydd yn cael addysg

ysgol ac addysg uwch, y mwy o unigolion o'r gymuned fydd yn gallu siarad ar ran eu cymuned, yn hytrach nac gadael unigolion nid yw'n Sipsiwn siarad ar eu rhan. Cawn argraff bod y cyfranogwr yn nyfyniad un yn pwysleisio bod y gymuned Sipsi angen rhoi'r gorau i greu ffin benodol ni ellir ei basio, rhyngddynt a chymunedau eraill. Mewn byd modern, byddai lleihau'r ffin rhwng y ddwy gymuned yn creu llai o ragfarn yn y pen draw wrth i Sipsiwn a phobl nid yw'n Sipsiwn ddod i adnabod ei gilydd yn hytrach nac amau ei gilydd. Mae'r ail ddyfyniad yn un ddiddorol gan ei fod yn dangos sut mae rhai Sipsiwn yn cael eu croesawu gan bobl o gymunedau eraill pan maent yn mabwysiadu addysg ysgol neu addysg uwch. Yn yr esiampl yma, cafodd cefndir yr unigolyn ei dderbyn yn llwyr gan gyfeillion yn y Brifysgol. Ar y llaw arall, unigolion o'r gymuned Sipsi ei hun oedd yn rhagfarnu yn erbyn y cyfranogwr yma oherwydd y cysylltiad gyda'r gymuned allanol. Roedd y ffaith bod gan y cyfranogwr gyfeillion nid oedd yn Sipsiwn yn golygu dirywiad diwylliannol yn llygaid rhai o'r Sipsiwn eraill. Bydd y syniadau yma yn cael eu trafod ymhellach ymlaen hefyd, gan ei fod yn ddiddorol ystyried sut mae rhai Sipsiwn yn ystyried bod unigolion sydd yn dewis cael addysg ysgol yn wahanol mewn rhyw ffordd a'u bod ddim yn wir Sipsiwn o'i herwydd. Yn yr achos yma, gwelwyd bod cysylltiad y cyfranogwr yma wedi bod yn gadarnhaol ac yn negyddol, wrth i'r unigolyn cael ei dderbyn gan ei gyfeillion nid oedd yn Sipsiwn, ond ei ymwrthod gan ei bobl ei hun.

Nid yn unig plant Sipsi sydd yn gallu elwa o addysg ffurfiol. Gall mamau Sipsi fod yn esiamplau da i'w plant wrth fabwysiadu addysg uwch eu hunain hefyd. Roedd un esiampl gan gyfranogwr yn sefyll allan yn benodol. Yng ngeiriau'r cyfranogwr,

> 'I have had an education to a degree level and it has had a positive effect on my life. I work, provide for my children and even own my own house. Education has helped me to do this. My children both are in education, one at college and one in primary school and both have aspirations of what they want to do with their lives. They have a wide

> range of friends and interact with others outside of the gypsy community which is what I want for my children, just like I did. Education opens up a whole new world for gypsy children, tones have changed from generations ago where education/ school was feared and misunderstood.'

Mae'r ymateb yma yn dangos yn glir sut mae addysg wedi cael effaith cadarnhaol ar y fam yma a'r esiampl mae hi wedi gosod ar gyfer ei phlant hi. Gwelir bod y ferch yma yn pwysleisio ei bod yn gallu darparu ar gyfer ei phlant a bod yn berchen ar gartref ei hun. Nid yw'r cyfranogwr yn sôn am unrhyw ŵr neu ffigwr gwrywaidd yn y cartref, sydd efallai yn awgrymu bod y ferch yma yn fam sengl. Yn ddiddorol tu hwnt, y mae plant y cyfranogwr yn derbyn addysg ysgol a hefo gobeithion am y dyfodol. Tybed mai'r ffaith bod eu mam wedi derbyn gradd mewn Prifysgol ac yn darparu ar eu rhan yw'r rheswm dros lwyddiant y plant yma yn yr ysgol? Mae'n ddigon teg i awgrymu bod hyn yn wir, wrth i ddylanwad rhieni cael effaith cryf ar plant ym mhob cymuned. Gyda chymorth ac anogaeth eu rhiant, yn yr achos yma mewn addysg, mae'n fwy tebygol i'r plant gwneud y mwyaf ohono. Gwelwyd dylanwad y rhiant nes ymlaen yn y dyfyniad hefyd, wrth i'r plant rhyngweithio gyda phlant nid yw'n Sipsiwn, fel gwnaeth y rhiant hefyd. Mae'r dyfyniad yma yn dangos bod rhieni Sipsi yn cael dylanwad eang ar fywydau eu plant a sut mae eu plant yn cael eu magu. I'r rhieni sydd eisiau i'w plant cael addysg a chyd-fyw hefo'r cymunedau nad yw'n Sipsiwn, mae'n fwy na thebyg bod hyn yn mynd i ddigwydd. I'r rhieni sydd yn erbyn addysg i'w plant, mae'n fwy na thebyg bod y plant yma yn mynd i adael yr ysgol yn fuan. Mae'r frawddeg olaf yn y dyfyniad yn pwysleisio sut mae addysg yn rhoi cyfleoedd i blant Sipsi ac yn gyffredin erbyn hyn i'r rhan fwyaf o bobl ifanc Sipsi. Awgryma hyn bod fwy o rieni yn annog eu plant i dderbyn addysg ysgol erbyn hyn, a'u bod yn fwy parod i gefnogi eu plant yn eu gobeithion addysgol. Mae'r esiampl yma yn pwysleisio hefyd nid pobl ifanc yn unig sydd wedi elwa o addysg yn y gymuned a bod rhai Sipsiwn wedi gwneud y mwyaf o addysg ysgol ers rhai degawdau.

Gan mai Sipsiwn benywaidd sy'n cael eu canolbwyntio arnynt i raddau helaeth yn y gwaith yma, mae'r sylwadau gan gyfranogwyr at addysg i ferched yn bwysig. Yng ngeiriau'r cyfranogwyr,

> 'women' in both cultures need to be able to think for their selfs. That doesn't mean an education needs to stop you living your life the way you were brought up, to have pride and respect for you self. Ignorance is not bliss.'
>
> 'If a female is lucky enough to get a full education it will change her lifestyle. It will open her eyes to the opportunities availible to her thus enabling her to move out of the patriarchal lifestyle that historically has been expected of her.'
>
> 'If you can survive the prejudices of the non gypsy people AND TEACHERS, you'll give yourself and your family more options to the world out there, especially the females who are expected to marry young and have children kept by thei husband's.'

Mae'r dyfyniad cyntaf yn dangos bod merched yn gyffredinol yn gallu defnyddio addysg i greu syniadau eu hunain am y byd o'u cwmpas. Gall hyn olygu bod merched Sipsi yn gallu gweld sut mae merched eraill wedi defnyddio addysg er lles eu hunain, a gwneud hynny hefyd. Mae'r cyfranogwr hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod mabwysiadu addysg ysgol ddim yn golygu colled diwylliant i Sipsi. Nid yw addysg ysgol yn golygu bod traddodiadau yn gorfod dod i ben yn y gymuned, fel mae rhai unigolion yn dadlau. Mae gallu darllen, ysgrifennu a datblygu dealltwriaeth o reolau a hawliau'r wlad yn bwysig i gymuned sydd yn arfer derbyn gormes. Mae'n bwysicach na dim i ferched Sipsi er mwyn dangos bod mwy i fywyd nac bod yn wraig tŷ yn unig. Hefyd, mae'r opsiynau ar gyfer mynd i'r coleg neu'r Brifysgol ran-amser erbyn hyn yn golygu bod mwy o ferched Sipsi yn gallu cael addysg uwch, ond hefyd parhau i fyw bywyd traddodiadol merch Sipsi wrth fagu plant a chadw cartref. Mae datblygiad adnoddau fel y Brifysgol Agored hefyd yn golygu bod Sipsiwn sydd

yn parhau i deithio ddim yn gorfod rhoi'r gorau i deithio er mwyn cael addysg erbyn hyn. Mae'r ail ddyfyniad yn darlunio addysg ysgol gyflawn i ferch Sipsi fel rhywbeth lwcus i unigolion penodol. Darluniwyd addysg fel ffordd i frwydro yn erbyn cymuned wrywaidd a'r rôl dderbyniol sy'n cael ei apwyntio i rai merched Sipsi hyd heddiw. Er hyn, mae'r bennod yma yn pwysleisio bod addysg ar gael i bob person ifanc ym Mhrydain erbyn hyn. Effaith y rhieni sydd yn aml yn cyfrannu at y penderfyniad o aros yn yr ysgol neu adael yn y gymuned Sipsi. Mae'r cyfranogwr yn wir wrth ddweud bod merched yn gallu herio cymuned batriarchaidd drwy fabwysiadu addysg ysgol. Gydag addysg, mae merched a siawns da o fabwysiadu swyddi gwell. Felly, mewn amgylchiadau negyddol fel trais domestig, mae'n fwy tebygol i ferched allu gadael gyda'r plant a sefydlu eu hunain mewn mannau eraill os oes ganddynt swyddi. Mae'r trydydd dyfyniad yn crynhoi sut mae addysg yn rhoi cyfleoedd i Sipsiwn yn gyffredinol, ond yn benodol i'r merched sydd yn cael eu hannog i fod yn wragedd tŷ. Yn bwysig, mae'r cyfranogwr yn tynnu sylw at y ffaith bod addysg yn gallu bod yn heriol tu hwnt i unigolion o'r gymuned Sipsi oherwydd rhagfarn. Mae hyn yn gallu cyfrannu at y ffaith bod nifer o Sipsiwn benywaidd yn rhoi'r gorau i fynychu'r ysgol yn eithaf buan. Gwelwyd bod y merched Sipsi sydd yn cael addysg ysgol yn brin yn ôl y cyfranogwr yma. Mae'n bosibl iawn fod canrannau uchel o ferched Sipsi yng Nghymru a thu hwnt eisiau cael addysg ysgol neu addysg uwch, ond yn pryderu ynghylch hiliaeth a rhagfarn.

Er yr amryw o ymatebion cadarnhaol i adran sylwadaeth cwestiwn pedwar ar ddeg 'Ydych chi'n meddwl bod addysg ffurfiol mewn ysgolion wedi cael effaith ar fywyd Sipsiwn?', roedd nifer o gyfranogwyr yn ystyried bod addysg wedi cael effaith negyddol ar ffordd o fyw y Sipsiwn. Dirywiad diwylliannol oedd y prif effaith negyddol oedd yn cael ei gyfeirio ato gan gyfranogwyr. Yng ngeiriau'r cyfranogwyr eu hunain,

> 'As you are exposed to different ideas and cultures you start to lose some of your own traditions naturally and act different.'

> ‘Traditions slowly dying out.’
>
> ‘Yes it makes people travel less.’
>
> ‘It is hard for anyone to maintain a foot in both camps. Gypsy children are used to being active trailers are small so therefore families spend a lot of their time outside and active. Some children struggle to be cooped up in a classroom it not a natural environment for them to be in.’

Mae’r dyfyniad cyntaf yn cyfeirio at golled traddodiadau fel anochel pan mae unigolion yn dod yn agored i wahanol syniadau a diwylliannau. I raddau helaeth, gallai hyn fod yn wir yn enwedig i’r unigolion sydd yn edrych am wahanol safbwyntiau i’w cymuned eu hunain. Byddai hyn yn arbennig o berthnasol i rai unigolion sydd yn derbyn gormes neu’n teimlo yn israddol yn y gymuned ei hun, megis rhai merched a rhai unigolion o’r gymuned LGBT. Byddai cysylltiad gyda’r chymunedau eraill i rai unigolion yn agor llygaid i safbwyntiau hollol wahanol i’w teuluoedd, safbwyntiau fyddai’n cael eu ffafrio gan yr unigolion eu hunain hefyd. Mae’r ail ddyfyniad hefyd yn pwysleisio bod addysg yn golygu colled traddodiadau i rai unigolion. Er hyn, mae’r bennod yma wedi dangos bod modd cael addysg a chadw traddodiadau’r gymuned yn fyw. Yng ngeiriau cyfranogwr arall i’r cwestiwn,

> ‘I have a career and still able to live a gypsy lifestyle. You don’t have to be living out of a trailer to be a traveller, its in your blood.’

Mae’n ddiddorol gweld bod rhai cyfranogwyr yn ystyried bod addysg ffurfiol yn medru arwain at colled diwylliant, tra bod eraill yn defnyddio addysg i wella eu sefyllfa ond yn cadw eu traddodiadau yn gyfan hefyd. I rai unigolion, mae’r trydydd dyfyniad yn berthnasol tu hwnt. Er mwyn i bobl ifanc allu mynychu ysgolion, mae angen i’r teulu setlo yn aml, boed hynny am gyfnod hir ai beidio. Ond, fel mae’r dyfyniad uchod yn dangos, nid yw Sipsi yn stopio fod yn Sipsi oherwydd iddynt setlo. Mae’n bosibl cadw at draddodiadau a defodau y

gymuned heb deithio, fel mae canrannau uchel o Sipsiwn yng Nghymru a thu hwnt yn ei wneud. I'r Sipsiwn sydd yn dewis teithio, mae'r opsiwn o addysgu eu plant o'r cartref yn gallu bod yn effeithiol tu hwnt iddynt. Yn y ffordd yma, mae rhieni yn gallu goruchwylio addysg eu plant a pheidio gorfod setlo mewn un lle penodol. I'r plant hŷn sydd eisiau cael addysg uwch, mae'r Brifysgol Agored yn golygu bod teithio yn gallu cymryd lle o hyd. Golyga hyn fod bywyd pob dydd y teulu ddim yn cael ei effeithio gan obeithion addysgol y plentyn. Gwelwyd yr effaith negyddol gall mynychu ysgol ei gael ar ffordd o fyw plant ifanc yn y gymuned Sipsi yn nyfyniad pedwar. Mae gan y cyfranogwr bwynt teg, sef y ddadl bod trosglwyddo o un gymuned i'r llall yn gallu bod yn heriol tu hwnt i blant ifanc. Gwelwyd yn y dyfyniad bod y cyfranogwr yn pwysleisio bod aros mewn ystafell ysgol yn annaturiol i blentyn Sipsi, sydd wedi arfer gwario y rhan fwyaf o amser y tu allan. Mae hyn yn fwy perthnasol i blant Sipsi sydd yn byw mewn carafannau, nid yn angenrheidiol plant Sipsi sydd yn byw mewn tai. Mae'r gwrthdaro rhwng diwylliannau sy'n cael ei darlunio yn yr enghraifft yma yn dangos bod mynychu ysgol yn gallu mynd yn erbyn arferion a thraddodiadau plant Sipsi a'r ffordd maent wedi arfer byw.

Fe wnaeth cyfranogwyr eraill i'r cwestiwn dynnu sylw at y gwrthdaro diwylliannol sy'n cael ei greu oherwydd mynychu ysgol neu addysg uwch. Darluniodd rhai cyfranogwyr oedd wedi derbyn addysg sut oeddynt yn cael eu gweld yn wahanol gan rhai unigolion o'r gymuned o'i herwydd. Yng ngeiriau un o'r cyfranogwyr,

> 'I think that in my case, it creates a void because by wanting education I was "getting above myself" and my parents took it as a rejection of their simpler ways; I was encouraged in arts and craft but not in academic things. I think it was cultural and generational, I was also meeting new people and seeing how their family culture differed from mine. I was "passing" during education and having a completely

> different home life, it caused problems in my family relationships and also in my mental health.'

Yn anffodus, mewn rhai teuluoedd Sipsi gwelwyd bod y plant a phobl ifanc yn gallu cael eu beirniadu am eu gobeithion addysgol. Mae'r gyfeiriadaeth at 'getting above myself' yn awgrymu bod yr unigolyn yn cael ei ystyried gan ei rhieni fel teimlo'n uwch nac gweddill y teulu oherwydd eu haddysg. Nid yw hyn yn wir, ond mae'n dangos agwedd negyddol rhai unigolion o'r gymuned Sipsi at addysg ac effaith addysg. Er i'r unigolyn yma cael ei annog mewn diddordebau oedd yn cael ei dderbyn gan y rhieni, roedd addysg ysgol yn cael ei weld fel ymwrthod diwylliannol. Drwy ddefnyddio'r term 'generational' mae'r cyfrannwr yn pwysleisio'r syniad bod cenhedloedd gwahanol oddi fewn i'r gymuned efallai yn gweld addysg mewn ffordd wahanol. Mae'n naturiol i bobl o oedran gwahanol ystyried pethau mewn ffurf wahanol. Agwedd bwysig i'r cyfranogwr o ystyried y dyfyniad oedd y ffaith bod addysg yn agor drysau i greu cysylltiadau gyda phobl o diwylliannau gwahanol a gweld y gwahaniaethau yn eu ffordd o fyw. Mae'n bosibl bod hyn yn creu pryder i rieni'r cyfranogwr, oherwydd yr ofn o safbwyntiau a chredoau y gymuned allanol cael effaith ar eu plentyn mewn ffordd y byddent hwythau yn ystyried yn negyddol. Mae'r frawddeg olaf yn pwysleisio bod y ffin rhwng y ddwy gymuned yn gallu bod yn heriol ar adegau gan iddo effeithio ar berthnasau teuluol, sydd yn ei dro yn gallu effeithio ar iechyd meddwl yr unigolyn (fel yn achos y cyfranogwr yma). Mae'n anodd i rai unigolion Sipsi fod yn rhan o'r ddwy gymuned wahanol yma. Darluniwyd hyn ymhellach yn y dyfyniad nesaf, gan gyfranogwr arall:

> 'It shouldn't be, but normally if you receive a formal education (especially if it's to higher education) then you will be always seen as a little different by your family and community…I think too much emphasis is sometimes placed on very specific cultural aspects of Gypsy lifestyle, which supposedly makes you more or less of a Gypsy.'

Ym marn y cyfranogwr yma, mae cael addysg yn gallu golygu eich bod yn cael eich gweld yn wahanol yn y gymuned. Mae'n ddiddorol bod hyn yn fwy perthnasol pan mae'r unigolyn yn mynychu addysg uwch. Gall hyn cael ei egluro mewn ffordd eithaf syml. Y mae nifer eang o bobl ifanc Sipsi yn cael addysg ysgol, ond yn gadael yn un ar bymtheg oed i ddechrau ar swydd gyda'r teulu. Mae'r addysg yma yn aml yn cael ei dderbyn gan y gymuned, fel ffordd i ddysgu sgiliau cyffredinol allai helpu'r unigolyn yn y gweithlu. Ar y llaw arall, mae addysg uwch yn gallu cael ei ystyried yn ddiangen. Gall yr unigolion sy'n dewis mynychu'r chweched dosbarth, coleg neu Brifysgol, yn hytrach nac ymuno â'r busnes teuluol, cael eu beirniadu am beidio fod yn Sipsiwn 'gwir'. Mae'r frawddeg olaf yn y dyfyniad yn cadarnhau hyn, gan ddangos bod rhai Sipsiwn â syniadau penodol am ddyletswyddau a rôl y ddau rywedd yn y gymuned, a ddim eisiau gwyro oddi wrth y syniadau hyn. Golyga hyn fod pobl ifanc yn gadael yr ysgol yn fuan er gobeithion addysgol ehangach, oherwydd dylanwad eu cymuned ar adegau.

Ar wahân i'r effaith ar unigolion a sut maent yn cael eu trin yn y gymuned oherwydd addysg ffurfiol, roedd rhai cyfranogwyr yn beirniadu cwricwlwm ysgolion, gan ystyried ei fod yn cael effaith negyddol ar blant Sipsi. Yng ngeiriau'r cyfranogwyr eu hunain,

> 'Children learn a lot of bad things. The boys need to learn a trade with their dads and girls learn how to be good wives and mothers at home.'
>
> 'We don't believe in many of the things that is been taught to tiny children now. They shouldn't know these things until later in there lives.'

Y pethau drwg mae'r cyfranogwyr yma yn cyfeirio atynt mae'n debyg yw addysg rhyw, testun y mae nifer o rieni yn erbyn i'w plant ddysgu. Y pryder i rai rieni yw i'w plant cael eu heffeithio gan y syniadau sy'n cael eu cyfleu yn y dosbarthiadau addysg rhyw. Ofnai rai rhieni i'w merched yn benodol fabwysiadu arferion cymunedau eraill oherwydd y

dosbarthiadau yma ac effaith myfyrwyr eraill. Byddai'r arferion yma yn cynnwys cael rhyw cyn priodi, neu ddefnyddio dulliau atal genhedlu, sydd wedi eu gwahardd mewn rhai cymunedau o Sipsiwn a Theithwyr sydd yn ymarfer Catholigiaeth. Yr oedd grwpiau teithiol ar draws Prydain yn arfer osgoi siarad am destunau fel rhyw. Enghraifft yw'r ffaith bod y Teithwyr Albanaidd yn hanner cyntaf yr ugeinfed ganrif yn osgoi dysgu eu plant am fislif a'r cyfnewid yn ôl Betsy Whyte.[977] Mae hyn yn parhau ymysg nifer o deuluoedd teithiol, sy'n golygu bod pobl ifanc yn anymwybodol yn aml am y testunau yma cyn priodi hyn yn oed. Darluniwyd yn y dyfyniad cyntaf bod y cyfranogwr yma yn cytuno â'r syniadau am rolau derbyniol rhywedd sy'n bodoli mewn rhai teuluoedd Sipsi. Gwelwyd bod addysg ffurfiol ysgol ddim yn berthnasol i'r cyfranogwr yma, wrth iddynt bwysleisio y dylai blant Sipsi ddysgu sgiliau gan eu rhieni yn hytrach nac bod yn yr ysgol ble mae pethau 'drwg' yn cael eu dysgu. Mae'r ail ddyfyniad yn dangos pryder sy'n bodoli mewn cymunedau eraill ym Mhrydain hefyd, sef bod plant ifanc yn dechrau dysgu am addysg rhyw yn fuan iawn tra maent yn yr ysgol gynradd. I rai rhieni Sipsi, mae amddiffyn moesau a diniweidrwydd eu plant yn holl-bwysig, sy'n esbonio pam bod y cyfranogwyr yn y dyfyniadau uchod yn teimlo yn gryf am y testun. Mae'n ddiddorol gweld enghreifftiau penodol o sut mae cyfranogwyr yr holiadur yn gweld effaith addysg ffurfiol ar y gymuned, ac ar eu plant yn yr achos yma.

Gwelwyd bod yr ymatebion i adran agored cwestiwn pedwar ar ddeg yr holiadur 'Ydych chi'n meddwl bod addysg ffurfiol mewn ysgolion wedi cael effaith ar fywyd Sipsiwn? yn amrywiol ac yn pwysleisio bod unigolion gwahanol yn ystyried effeithiau gwahanol addysg ffurfiol ysgol ar y ffordd o fyw Sipsi. Gwelwyd bod canrannau uchel yn gweld addysg ffurfiol yn gadarnhaol am wella cyfleoedd gwaith pobl ifanc yn benodol. Mewn cyfnod ble mae'r galw am sgiliau traddodiadol yn isel, mae angen graddau ffurfiol ar bobl ifanc i gyrraedd eu potensial ac i sicrhau swyddi da. Pwysleisiodd rhai cyfranogwyr bod addysg

[977] Whyte, *Red Rowans and Wild Honey*, t.83.

ffurfiol yn addysgu pobl ifanc am y rhagfarn yn eu herbyn ac am eu hawliau dynol, sy'n cyfrannu at yr ymgyrchwyr ar ran y gymuned. Wrth i fwy o bobl ifanc Sipsi cael addysg, bydd mwy o unigolion o'r gymuned Sipsi ei hun yn gallu siarad ac ymgyrchu ar ran y gymuned. Yn ddiddorol tu hwnt, cyfeiriodd rhai cyfranogwyr at y buddion o greu cysylltiadau rhwng unigolion o wahanol ddiwylliannau y mae addysg ffurfiol yn hybu. Wrth i bobl ifanc Sipsi ddod i adnabod pobl ifanc o gymunedau eraill, bydd hiliaeth a rhagfarn yn dirywio ar y ddwy ochr. Yn olaf, ac yn berthnasol tu hwnt i'r gwaith yma, yw'r ffaith bod addysg ffurfiol i rai cyfranogwyr yn golygu cyfle i ferched herio rôl draddodiadol eu rhywedd mewn rhai teuluoedd Sipsi. Wrth i mamau cael addysg a mabwysiadu swyddi, mae plant y gymuned yn gallu cael eu hysbrydoli. Yn ogystal, mae'r merched ifanc sydd wedi eu magu i fod yn wragedd tŷ yn gallu gweld bod opsiynau eraill ar gael iddynt oddi wrth y syniadau delfrydol am eu rhywedd. Mae addysg yn hollbwysig i ferched Sipsi yn benodol. Mae'n ffordd o sicrhau annibyniaeth ariannol, i osgoi gorfod dibynnu ar ŵr am fywoliaeth. Er i nifer o gyfranogwyr bwysleisio effaith cadarnhaol addysg ffurfiol ar y ffordd o fyw Sipsi, cyfeiriodd eraill at yr effaith negyddol allai addysg ei gael ar y gymuned. Pryder i rai oedd bod addysg ffurfiol yn golygu dirywiad diwylliannol yn y gymuned, wrth i bobl ifanc mynychu'r Brifysgol a chael swyddi statws uchel. Roedd rhai unigolion yn ofni bod traddodiadau ac arferion yn cael eu colli gan yr unigolion yma. I gysylltu â hyn, roedd rhai o'r cyfranogwyr oedd wedi cael addysg neu addysg uwch yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn wahanol gan Sipsiwn eraill oherwydd hynny. Gallai fod yn anodd i unigolion Sipsi fyw mewn dau fyd a chael eu cydnabod fel gwir Sipsiwn, er nid yw addysg neu swydd benodol yn eich gwneud yn fwy neu lai o Sipsi. Yr effaith negyddol olaf a drafodwyd oedd syniadau dau gyfranogwr bod cwricwlwm ysgolion yn dysgu pethau drwg i'w plant. Gallwn dybio mai addysg rhyw sy'n cael ei gyfeirio ato yn yr achos yma. Mae'r dyfyniadau yn pwysleisio pryder rhai rhieni ynghylch effaith y gymuned allanol ar ymddygiad eu plant. I grynhoi,

mae'n bwysig cydnabod bod syniadau'r holl gyfranogwyr yn yr holiadur yn ddilys a bod pob person a hawl i'w farn. Cydnabod dadleuon sy'n gwrthddweud ei gilydd, fel y rhai uchod am effaith cadarnhaol a negyddol addysg ffurfiol ar y gymuned Sipsi, sy'n creu gwaith nid yw'n rhagfarnllyd. Mae'r cyfanswm o ymatebion i'r adran sylwadau, chwe deg tri o sylwadau, yn pwysleisio bod unigolion o'r gymuned Sipsi â diddordeb yn y testun yma sy'n cael effaith ar y gymuned ar hyn o bryd.

Elusennau a merched Sipsi

Ar wahân i swyddi ac addysg, mae rhai Sipsiwn benywaidd wedi bod yn ymgyrchu ar gyfer elusennau yn ddiweddar. Yng Nghymru yn benodol casglodd Lillymarie Lovell o Ynys Môn dair mil o bunnoedd ar gyfer Tŷ Gobaith, llety plant, er cof am ei chyfaill drwy deithio o amgylch yr Ynys mewn vardo am fis yn 2016.[978] Yn ogystal, casglodd yr efeilliaid Maggie a Jade Smith arian i Gymdeithas Epilepsi er cof am eu cyfaill yn 2019.[979] Mae'r enghreifftiau yma yn dangos bod merched Sipsi â'r ddawn i wneud mwy na gwaith domestig yn unig. Mae ganddynt y potensial i fod yn ymgyrchwyr elusennau yn hawl eu hunain. Mae rhai merched Sipsi yn defnyddio llwyfannau ar lein i ysbrydoli unigolion eraill yn y gymuned. Cyhoeddodd Kerry Maines erthygl am ei siwrne gyda phroblemau iechyd meddwl, testun sy'n cael ei anwybyddu ormod yn y gymuned.[980] Yn ddiweddar, mae dwy o ferched Sipsi wedi dosbarthu prydau o fwyd i bobl fregus yn ystod amser y clefyd Covid 19.[981] Dyma ffordd i ferched allu cael dylanwad ar eu cymuned mewn ffordd bersonol iawn. Hefyd, mae'n ffordd i ferched

[978] 'Travelling in Hope raises over £3,000 for children's hospice', *Travellers Times*, fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/news/2016/09/travelling-hope-raises-over-ps3000-childrens-hospice (golwg diwethaf-15/11/19).
[979] 'Sisters honour friend's memory by raising money for epilepsy society', *Traveller Times Magazine*, Hydref 2019, t.12.
[980] K. Maines, 'Baking your way to good mental health', *Travellers Times*, fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/features/baking-your-way-good-mental-health-kerry-maines (golwg diwethaf-10/12/19).
[981] 'Kerry and Nisha catering for their community before lockdown', *Travellers Times*, fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/news/2020/04/kerry-and-nisha-catering-their-community-lockdown (golwg diwethaf-10/04/20).

Sipsi allu herio ystrydebau am y gymuned a'r syniad o bob Sipsi fel troseddwr. Gwelwyd bod y merched yn gallu defnyddio eu sgiliau traddodiadol, fel coginio, i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yn eu cymuned a chymunedau eraill. Gan mai merched Sipsi oedd yn gofalu am y diniwed a'r henoed yn y gymuned rhan amlaf yn draddodiadol, nid yw'n syndod eu bod yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd elusennol yn y presennol.

Casgliad y bennod am gwaith ac addysg merched Sipsi

Er y diwygio o ran agweddau merched Sipsi tuag at addysg a swyddi, mae Casey yn dadlau bod agweddau am rôl priodasau, teulu a gofalu am blant ym mywydau merched y gymuned heb newid llawer.[982] Mae hyn yn golygu bod nifer o ferched yn cydnabod gwerth addysg a chael swydd, ond hefyd eisiau cydymffurfio â dyletswyddau traddodiadol merched Sipsi. Gall rhai merched gyfuno gwaith domestig gyda swydd neu addysg, ond nid yw hyn yn berthnasol i bob merch Sipsi. Rhaid cofio nid pob Sipsi benywaidd sydd eisiau mynd i weithio, gyda rhai yn ffafrio fod yn wraig tŷ a magu plant yn lle.[983] Mae gan bawb yr hawl i ddewis eu dyfodol a'u dyletswyddau. Yn MBFGW, er bod gan y Sipsi Seisnig Violet swydd, roedd hi'n bwriadu ymddiswyddo er mwyn priodi a byw bywyd mwy traddodiadol.[984] Mae'r esiampl yma yn dangos bod rhai merched Sipsi yn fwy na bodlon cael swyddi cyn priodi, ond yn teimlo bod angen iddynt ymddiswyddo wedi'r briodas. Yn debyg iawn, penderfynodd y Teithiwr Rosie McKinley ymddiswyddo o'i swydd mewn bwyty oherwydd ei bod hi'n priodi, gan nid oedd hithau yn adnabod unrhyw ferch Teithio priod arall oedd yn gweithio.[985] Dangosa hyn fod traddodiadau teuluol yn cael effaith ar obeithion merched yn y gweithlu. Ni fyddai rhai merched eisiau parhau i weithio oherwydd iddynt bryderu cael eu trin yn wahanol

[982] Casey, ''Caravan wives' and 'decent girls': Gypsy-Traveller women's perceptions of gender, culture and morality in the North of England', t.22.
[983] R. C. Morris a L. Clements, *Gaining Ground: Law Reform for Gypsies and Travellers* (Hertfordshire, 1999), t.5.
[984] 'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 1-Episode 4, *Channel 4 boxset*, 20:20.
[985] McKinley, *Gypsy Girl-A life on the road, A journey to freedom*, t.101, t.139.

gan merched eraill priod y teulu oedd yn dewis peidio gweithio. Y mae'r agwedd yma angen dod i ben er mwyn i ferched Sipsi fod yn gwbl hafal yn y gymuned. Cysyllta hyn gyda dadl Madine, sef bod rhai merched Sipsi yn gweithio a phriodi yn hwyrach ymlaen yn eu dauddegau cynnar, ond yn ymddiswyddo cyn priodi.[986] Gwelwyd bod rhai merched y gymuned yn gweld gwerth cael annibyniaeth ariannol mewn swydd, ond ddim eisiau i draddodiadau'r gymuned dirywio ychwaith. Er hyn, mae'r gwaith yma wedi dangos bod swyddi ac addysg ddim yn gorfod golygu dirywiad diwylliannol i ferch Sipsi. Y mae merched Sipsi wedi gweithio drwy'r canrifoedd ac yn parhau i wneud mewn canrannau uchel hyd at y presennol. Y mae ymddiswyddo cyn priodi, neu peidio cael swydd o gwbl yn achos y merched, yn draddodiad newydd tu hwnt. Mae rhai merched Sipsi yn barod i briodi hwyrach ymlaen, ond ddim yn barod i herio rolau eu rhywedd tra'n briod. Yn gyffredinol, mae Britten a Heath yn honni bod y mwyafrif o ferched Prydain yn ddibynnol ar eu gwŷr yn 1985, hyd yn oed y rhai hefo swyddi.[987] Nid yw'r syniad yma wedi newid i rai merched yn y gymuned Sipsi, wrth iddynt barhau i ddibynnu ar eu gwŷr yn ariannol hyd heddiw. I'r merched sydd yn gweithio, mae'r cyflogau yn gallu bod yn isel ofnadwy.[988] Golyga hyn fod y merched yma methu creu bywoliaeth eu hunain, ac yn cael eu pwyso i gael perthynas er mwyn allu cynnal cartref.

Mae'n bosibl iawn bydd y syniadau yma yn newid yn fwy sydyn gyda thwf yn y merched Sipsi yn cwblhau'r ysgol ac yn symud ymlaen i addysg uwch. Yn yr achosion yma, bydd merched Sipsi â mwy o siawns o allu cael swyddi i gynnal eu hunain yn hytrach na gorfod dibynnu ar ŵr i ddarparu ar eu cyfer. I rai o'r Sipsiwn benywaidd tramor, fel y Polska Roma, mae priodasau cynnar yn golygu bod merched ddim yn parhau gydag addysg ychwaith.[989]

[986] Madine, *Tales of the Gypsy Dressmaker*, t.171.
[987] N. Britten a A. Heath, 'Women, Men and Social Class', yn D. Morgan et al., (gol), *Gender, Class and Work* (Hants, 1985), t.46.
[988] Lewis, 'Marriage', t.69.
[989] S. Kapralski, 'Gender, history, and Roma identities: from cultural determinism to the long shadow of the past', *Slovensky Narodopis*, Vol.66 (2018), t.475.

Gwelwyd bod canran enfawr o ferched yn colli allan ar gyflawni eu potensial oherwydd traddodiadau eu cymuned. Er bod merched Sipsi yn tueddu i aros yn yr ysgol yn hirach na'r bechgyn, nid yw'r merched sydd eisiau symud ymlaen i golegau a Phrifysgolion yn cael cefnogaeth gan eu teulu yn aml.[990] Gallai'r merched cael eu hannog felly i briodi a dechrau teulu, yn hytrach nac pharhau gydag addysg uwch. Mae Rees yn pwysleisio bod merched sydd eisiau ymgeisio am swyddi yn cael eu herio gan eu hunaniaeth, rôl, a'r darlun ohonynt maent yn ceisio ei gyfleu, yn enwedig mewn lleiafrifoedd ethnig.[991] Yn sicr mae'r ddadl hon yn cyd-fynd â chymuned y Sipsiwn, wrth i ferched cael eu tynnu rhwng eu potensial a'u dyletswyddau diwylliannol. Gyda'r unfed ganrif ar hugain a gwelliannau mewn addysg i ferched Sipsi, mae'n bosibl bod yr heriau sy'n wynebu y merched hyn yn dirywio ar hyn o bryd.

Y mae newidiadau ym mywydau merched Sipsi yn digwydd ledled y byd ar hyn o bryd. Mae'r canlynol yn amlinellu rhai o'r newidiadau yma. Yn Hwngari, er enghraifft, mae nifer o'r merched Sipsi erbyn hyn yn defnyddio dulliau atal genhedlu i reoli faint o blant maent yn eu cael, yn mabwysiadu swyddi eu hunain, ac yn annog eu plant i gael addysg.[992] Yn debyg i'r gymuned frodorol yn yr ardal, mae'r merched Sipsi yn priodi o gwmpas deunaw oed ac yn cael pedwar o blant ar y mwyaf.[993] Gwelwyd bod cymunedau o Sipsiwn yn diwygio ledled y byd ac yn mabwysiadu rhai arferion y cymunedau frodorol i siwtio eu hunain. Yn y cymunedau yma, mae gan y merched fwy o ddylanwad dros eu bywydau eu hunain, a'u plant. Gwelwyd bod addysg wedi cael effaith cadarnhaol tu hwnt ar ferched Sipsi Hwngari. Y mae'r merched yma wedi eu haddysgu am fuddion dulliau atal cenhedlu, a fyddai'n cael effaith cadarnhaol ar eu hiechyd ac ar economi y cartref. Gallai leihau'r maint o blant yr

[990] 'Tackling inequalities faced by Gypsy, Roma, Traveller communities-Education', *Safle wê Parliament UK.*
[991] Rees, 'Women and paid work in Wales', t.93.
[992] J. Durst, '"What makes us Gypsies, who knows…?!": Ethnicity and Reproduction', yn M. Stewart a M. Rovid (gol), *Multi-Disciplinary Approaches to Romany Studies* (Budapest, 2010), tt.20-22.
[993] Durst, '"What makes us Gypsies, who knows…?!": Ethnicity and Reproduction', t.21.

ydynt yn ei cael leihau'r tlodi eang sy'n bodoli yn y gymuned Sipsi yn Hwngari. Yn ogystal, mae'r ffaith bod merched Sipsi Hwngari yn mabwysiadu swyddi ac yn annog eu plant i gael addysg yn dangos bod y merched hyn yn symud gyda'r amser ac yn addasu i'r byd modern. Y mae'r merched yma yn esiamplau da i weddill merched Sipsi rhyngwladol.

Yng Nghymru, mae nifer o Sipsiwn yn byw yn ôl arferion y gymuned frodorol mewn rhai achosion, er enghraifft drwy briodi yn hŷn a chael llai o blant. Y mae merched Sipsi yng Nghymru yn aml â pherthnasau agosach i'r gymuned frodorol oherwydd iddynt fabwysiadu swyddi ac annog eu plant i fynd i'r ysgol i raddau helaeth. Mae'r gwaith yma wedi dangos bod merched ifanc ac aeddfed Sipsi yng Nghymru yn mynychu Prifysgolion erbyn hyn mewn canrannau eithaf uchel, sy'n golygu bod y gweithlu yn opsiwn iddynt, fel gweddill merched y wlad. I gloi, mae angen cydnabod bod y rhan fwyaf o ferched sengl dros y canrifoedd wedi gorfod gweithio i ennill bywoliaeth.[994] Roedd hyn yn gyffredin ar draws diwylliannau, ac yn sicr yn wir yn y gymuned Sipsi, gyda'r merched yn parhau i weithio wedi priodas yn draddodiadol. Fel yn y gymuned Sipsi, roedd merched yn y gymuned frodorol Gymreig yn tueddu i weithio neu'n helpu gyda busnes y gŵr. Nid oedd merched yn tueddu i gael eu talu am weithio fel ysgrifennydd ar ran busnesau eu gŵyr yn aml.[995] Dyma'r math o waith sy'n cael ei anwybyddu wrth feddwl am swyddi merched drwy'r ugeinfed ganrif. Mae nifer o Sipsiwn benywaidd yng Nghymru erbyn hyn yn ymgeisio am swyddi ac yn dewis peidio fod yn wragedd tŷ yn unig. Mae'r merched yn ffafrio ennill cyflogau eu hunain i sicrhau eu hannibyniaeth. Mae Bargielowska yn pwysleisio bod merched dosbarth canol wedi gallu gwneud y mwyaf o ddiwygio addysg i ferched a swyddi statws uchel, ond nid oedd merched dosbarth gweithiol yn gallu gwneud y mwyaf ohonynt.[996] Nes yn eithaf diweddar roedd hyn yn wir i raddau helaeth, er enghraifft oherwydd diffyg arian i yrru merch i'r Brifysgol. Yn yr

[994] Bargielowska, 'Introduction', t.9.
[995] Holden, 'Family, Caring and Unpaid Work', t.143.
[996] Bargielowska, 'Introduction', t.13.

unfed ganrif ar hugain er hynny, mae merched dosbarth gweithiol yn gallu gwneud y mwyaf o'r grantiau sydd ar gael gan y Llywodraeth er mwyn mynychu'r Brifysgol a chael swydd statws uchel. Yn ôl Nicholson, mae merch gyda gradd yn yr unfed ganrif ar hugain yn debygol iawn o gael swydd sy'n cydberthyn i'w gradd.[997] Mae'r enghreifftiau yn y bennod yma yn dangos bod merched ifanc yn y gymuned Sipsi yn gwneud y mwyaf o'r addysg sydd ar gael iddynt ac yn gallu mynychu'r Brifysgol, sydd erbyn hyn yn opsiwn i bron pawb ym Mhrydain. Mae'n debygol bod hyn oherwydd y twf mewn addysg i blant y gymuned ac effaith hynny ar y diwylliant. Mae'r cynnydd yn y cysylltiad rhwng Sipsiwn a'r gymuned frodorol yng Nghymru yn golygu bod effaith ar y ddwy ochr yn anochel. Yn ôl Rostas a Ryder, mae angen i ddynion Sipsi gydnabod y ffactorau sy'n cyfrannu at anhafalrwydd merched Sipsi a'u hymdriniaeth.[998] I ychwanegu, mae Richardson a Ryder yn dadlau gallai fwy o newidiadau creu rolau rhywedd fwy teg, gyda merched yn mabwysiadu rolau economaidd, cymdeithasol a gwasanaethol hafal.[999] Gwelwn fod dyfodol a rolau merched Sipsi yn cael eu hymchwilio iddynt ar hyn o bryd. Er hynny, mae'n anodd ymarfer y diwygio sydd ei angen yn y gymuned ei hunan gan fod arferion wedi eu plannu'n ddwfn.

[997]Nicholson, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950's,* t.190.
[998] J. Rostas a A. Ryder, 'EU Framework for National Roma Integration Strategies: insights into empowerment and inclusive policy development', yn J. Richardson a A. Ryder (gol), *Gypsies and Travellers-Empowerment and inclusion in British Society* (Bristol, 2012), t.194.
[999] J. Richardson a A. Ryder, 'Conclusion and next steps: inclusion, space and empowerment or Gypsies, Roma and Travellers?', yn J. Richardson a A. Ryder (gol), *Gypsies and Travellers-Empowerment and inclusion in British Society* (Bristol, 2012), t.220.

Traddodiadau a defodau heddiw

Er bod bywydau rhai merched Sipsi yng Nghymru yn wahanol iawn i'w blaenolwyr, mae'n anodd rhoi'r gorau i rai o'r traddodiadau a defodau sy'n ymwneud a Sipsiwn benywaidd yng Nghymru. Mae rhai traddodiadau a defodau llym wedi eu treiddio drwy'r cenhedloedd ac yn cael eu hystyried fel rheolau cadarn gan rhai teuluoedd. Yng ngeiriau cyfranogwr i gwestiwn naw yn yr holiadur am y traddodiadau neu ddefodau yr oedd yr unigolion yn cadw atynt,

> 'There's also a few superstitions about things that bring bad luck which I don't really believe but still do anyway out of habit. Things like saying hello to pied wagtails (supposed to be friendly to gypsies), saluting magpies (which are bad luck), not making a toast with glasses that don't contain alcohol (bad luck)'

I rai teuluoedd, mae'n bosibl bod y traddodiadau a defodau sy'n ymwneud â merched hefyd yn cael eu cadw atynt oherwydd arferiad, nid oherwydd bod y teulu hwnnw wir yn credu yn yr ofergoeliaeth. Tueddai'r gymuned Sipsi yng Nghymru yn benodol fod yn draddodiadol tu hwnt, yn enwedig wrth ystyried y syniadau am rôl y ddau rywedd. Felly, er bod merched Sipsi yng Nghymru yn fwy tebygol o gael addysg a swyddi erbyn heddiw, hwythau sydd hyd heddiw yn cael eu tasgu hefo'r swyddi domestig oherwydd bod hyn yn arferiad hir-dymor. Mewn cymuned mor draddodiadol, mae'n anochel bod traddodiadau a defodau yn parhau ac yn ffynnu neu ddatblygu, heb os mai merched ydynt yn cyfeirio atynt.

Y mae'r gwaith yma wedi dangos sut oedd traddodiadau yn rhan allweddol o fywydau Sipsiwn benywaidd Cymru, yn enwedig drwy gydol yr ugeinfed ganrif. Roedd y traddodiadau a defodau hyn yn rhan gyffredin o fywyd o ddydd i ddydd i'r raddau helaeth o ferched Sipsi yng Nghymru a thu hwnt yn yr ugeinfed ganrif. Erbyn yr unfed ganrif ar hugain er hynny, mae nifer fawr o'r traddodiadau oedd yn cysylltu â Sipsiwn benywaidd yng Nghymru a thu hwnt ym Mhrydain, ac yn eu gwneud yn unigryw wedi diddymu neu newid.

Mewn byd modern nid oes angen y traddodiadau glendid llym er enghraifft. Yn ogystal, mae rhai traddodiadau wedi dirywio neu newid oherwydd cysylltiad gyda chymunedau eraill ac effaith y cyfryngau, er enghraifft, traddodiadau priodasol. Cwestiwn pwysig yn yr holiadur oedd cwestiwn deg, sef 'ydych chi'n meddwl bod llai o draddodiadau a defodau yn cael eu cadw atynt yn y gymuned?', 'Os ydw, pam ydych chi'n meddwl bod hyn yn wir?' Roedd y cwestiwn yma yn rhoi siawns i gyfranogwyr ystyried os oeddynt yn tueddu i gadw at eu traddodiadau yn eu teuluoedd hwythau mewn ffordd fwy llym, neu os oedd y traddodiadau wedi dirywio erbyn y presennol. Er nid oedd y cwestiwn yma yn cysylltu'n benodol gyda'r testun ymchwil, sef traddodiadau a defodau Sipsiwn benywaidd Cymru, roedd yn bwysig i'r diweddglo er mwyn ystyried pam efallai bod y traddodiadau sy'n cael eu trafod yn y gwaith yma wedi dirywio, newid ac esblygu dros y blynyddoedd. Ar y cyfan, dewisodd y mwyafrif o'r cyfranogwyr ateb 'Ydw' i'r cwestiwn yma, gan ddangos bod canran uchel o unigolion yn y gymuned efallai yn meddwl bod traddodiadau a defodau wedi dirywio erbyn y presennol. Allan o'r cant dau ddeg ac un o gyfranogwyr i'r cwestiwn yma, y canlynol oedd y canrannau:



Mae'r graff uchod yn dangos yn glir bod y mwyafrif o gyfranogwyr yn ystyried bod traddodiadau a defodau wedi dirywio yn y gymuned. Er hynny, roedd 23.14% yn credu bod traddodiadau a defodau heb ddiddymu, a bydd eu syniadau hwythau yn cael eu trafod hefyd.

Ymddangosodd nifer o resymau gan gyfranogwyr am ddirywiad traddodiadau a defodau yn eu barn hwythau. Syniad cyffredin oedd bod traddodiadau a defodau ddim yn cael eu pasio ymlaen ar lafar, ac felly yn cael eu colli. Yng ngeiriau rhai o'r cyfranogwyr,

> 'They don't get passed on and then they get forgotten.'
>
> 'Not the fireside story telling there used to be.'
>
> 'travelling life is just generally being watered down with each generation'

Mae'n ymddangos bod llawer o unigolion yn y gymuned yn credu bod rhieni ddim yn pasio traddodiadau a defodau ymlaen i'w plant erbyn y presennol. Oherwydd dirywiad bywyd teithiol y rhan fwyaf o Sipsiwn, fel mae'r dyfyniad uchod yn amlygu, nid yw straeon traddodiadol yn cael eu hadrodd, a oedd yn cyfleu gwerthoedd a defodau ynddynt. Golyga hyn fod rhai Sipsiwn yn gweld Sipsiwn y presennol fel Sipsiwn anwir ar adegau oherwydd nid ydynt yn byw yn ôl traddodiadau'r gymuned erbyn hyn. Cyfeiriodd rhai cyfranogwyr at y syniadau am effaith dirywiad teithio y Sipsiwn. Yng ngeiriau rhai o'r cyfranogwyr,

> 'government is making it near impossible to roam.'
>
> 'since being forced into housing, many of our family traditions have stopped and aren't being passed on.'
>
> 'Because gypsies are now living amongst gorgers so have adapted to their ways of living.'

Mae'r ffaith bod y llywodraeth wedi'i gwneud hi'n anodd ofnadwy i Sipsiwn a Theithwyr deithio a bod hyn wedi cael effaith negyddol ar drosglwyddo traddodiadau a defodau yn cael ei adlewyrchu gan nifer o'r cyfranogwyr i'r cwestiwn hwn. Gyda'r *Police, Crime, Sentencing and Courts Act 2022*, roedd gwersylla heb ganiatâd yn anghyfreithlon, a gallai unigolion

derbyn dirwy neu hyd at dri mis yn y carchar.[1000] Oherwydd hyn mae teuluoedd yn cael eu rhannu oddi wrth ei gilydd, ac felly mae arferion, gwerthoedd a thraddodiadau yn cael eu colli, er enghraifft oherwydd diffyg adrodd straeon. Mae'n anochel bod byw ymysg cymunedau nid yw'n Sipsiwn ac mewn tai yn benodol yn mynd i gael effaith ar fywyd traddodiadol y Sipsiwn. Mae'r atebion i'r cwestiwn yn cyfleu sut mae'r cyfranogwyr wedi myfyrio eu bywydau efallai ac ystyried pa fath o bethau allai cael effaith ar draddodiadau eu diwylliant. I niferoedd eang o'r unigolion, byw bywydau mwy tebyg i'r Gorgio sy'n cael ei disgrifio fel y brif ffordd o golli traddodiadau a chael effaith ar ddiwylliant.

I unigolion eraill, y mae pobl ifanc Sipsi yn cysylltu â'r dirywiad yn y defnydd o draddodiadau a defodau. Yng ngeiriau'r cyfranogwyr,

> 'Less time together as the younger generation have had to move away to find work.'
>
> 'many younger rom are not superstitious anymore.'
>
> 'Younger people are not in contact with older people and they're increasingly influences by external factors, social media and celebrity lifestyle.'

Yn anochel, mae'r Sipsiwn ifanc sydd yn dewis chwilio am swyddi tu hwnt i ardal leol eu teulu yn mynd i'w cael eu heffeithio gan ddiwylliannau ac arferion cymunedau eraill. Pan mae pobl ifanc yn byw oddi wrth y teulu, mae arferion y teulu hwnnw yn cael eu hanghofio neu eu hymadael ag, un ai trwy ddewis neu beidio. Cyfeiriodd rhai cyfranogwyr at y syniad bod rhai traddodiadau ddim yn berthnasol erbyn y presennol, ac i nifer o bobl ifanc mae'n debygol bod hyn yn wir. Mae'n annhebyg byddai merch Sipsi Cymraeg ifanc yn y presennol yn barod i ddilyn rheolau llym mochadi er enghraifft. Fel mae'r dyfyniad uchod yn awgrymu, nid yw ofergoeliaeth yn berthnasol i fywydau nifer o Sipsiwn ifanc yng Nghymru erbyn hyn.

[1000] 'Police, Crime, Sentencing and Courts Act 2022', *Tŷ Cyffredin- Sesiynau 2019-21, 2021-22,* https://bills.parliament.uk/bills/2839 (diweddariad diwethaf- 14 Gorffennaf, 2022).

Mewn byd modern, mae'r ifanc yn benodol yn fwy parod i ymadael â chredoau ofergoelus. Yn olaf, mae effaith y cyfryngau ac enwogion ar bobl ifanc yn cael ei weld gan amryw o gyfranogwyr fel rheswm dilys dros ddirywiad traddodiadau a defodau. Nid yw'r cyfranogwyr yn mynd i fanylder llawer am y syniadau yma. Er hyn, mae'n bosibl bod y cyfranogwyr yn gweld y cyfryngau fel effaith y gymuned 'allanol' ar bobl ifanc y gymuned Sipsi. I rai, mae'r effaith yma yn golygu bod pobl ifanc y gymuned yn byw yn fwy tebyg i bobl ifanc o gymunedau eraill erbyn hyn a bod y traddodiadau Sipsi ddim yn berthnasol iddynt.

Nid yw'r cydweddiad yma i arferion y gymuned wedi digwydd oherwydd pobl ifanc yn unig. Yng ngeiriau cyfranogwr i gwestiwn deg sef 'Ydych chi'n meddwl bod llai o draddodiadau a defodau yn cael eu cadw atynt yn y gymuned? Os ydw, pam ydych chi'n meddwl bod hyn yn wir?',

> 'Assimilation I suppose our family settled around 1950 and traditions and rituals were kept by my grandmother and her generation as they were the last generation to travel. They became less with my mother's generation and then my generation as we never travelled and mostly married local Welsh non gypsy folk but I remember them from my grandmothers generation.'

Mae'r dyfyniad yma yn benodol yn bwysig i'r gwaith yma gan ei fod yn trafod dirywiad traddodiadau a defodau yng Nghymru. I'r unigolyn yma, mae'n glir bod traddodiadau a defodau yn cysylltu â theithio. Heb y teithio, dirywiodd yr angen am y traddodiadau a oedd yn cael ei adlewyrchu fwy a fwy wrth i'r cenhedloedd newydd gael eu geni a'u magu. Mae adran olaf y dyfyniad yn ddiddorol tu hwnt, sef y datganiad bod cyd-briodi gydag unigolion o'r gymuned frodorol yng Nghymru yn gyffredin yn y teulu yma. Yn bersonol, roedd cyd-briodi yn y teulu Lock yng Ngogledd Cymru gydag unigolion o'r gymuned frodorol yn ddigwyddiad cyffredin iawn erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif hefyd. Mae'n debyg byddai hyn

wedi cael effaith ar draddodiadau'r gymuned, wrth i arferion y cwpl o ddwy gymuned wahanol orfod plethu wedi priodas. Yng ngeiriau cyfranogwr arall,

> 'Women are marrying gorger men and men are marrying gorger women and are losing alot of our history as alot of our generation just dont see the point.'

Dyma deimlad sy'n cael ei rannu gan nifer o unigolion, sef y syniad bod cydbriodas gyda'r gymuned frodorol yn golygu colled diwylliant. Er bod hyn yn wir mewn rhai sefyllfaoedd, nid yw'n berthnasol i bob teulu o gwbl.

Dyma ymatebion eraill i'r cwestiwn, oedd yn rhoi mewnwelediad pwysig i syniadau rhai unigolion o'r gymuned Sipsi. Yng ngeiriau un cyfranogwr, 'Cause we have to hide who we are or face discrimination.' Roedd yr ymateb yma yn syndod, ac yn dangos sut mae hiliaeth a rhagfarn yn cael effaith ar y gymuned Sipsi hyd at y presennol. Mae'n dangos bod rhai teuluoedd yn pryderu ynghylch cadw at eu traddodiadau, oherwydd yr ofn o gael eu barnu a'u heithrio gan bobl eu hardal nad yw'n Sipsiwn. Ymatebodd cyfranogwr arall,

> 'I think old traditions die out and new ones are formed. Also many traditions have become distorted along the way.'

Mae'r wybodaeth yn y gwaith yma wedi tystio i hyn, er enghraifft y traddodiad o ffrogiau priodas goch yn diddymu, a ffrogiau enfawr yn cynyddu. Erbyn heddiw, mae'n anodd gwybod os yw'r traddodiadau sy'n cael eu hapwyntio i'r Sipsiwn gwir yn adlewyrchu sut oedd y Sipsiwn ar ddechrau'r ugeinfed ganrif er enghraifft yn byw. Er bod cyfranogwyr y Gymdeithas Llen Sipsi yn tystio i'r traddodiadau, nid oes sicrwydd bod y traddodiadau hyn yn cael eu defnyddio gan bob teulu yn yr ugeinfed ganrif gynnar. Mae'n anochel hefyd bod traddodiadau yn newid ac esblygu dros amser, fel yn y gymuned frodorol yng Nghymru yn benodol. Fel mae'r gwaith yma wedi dangos, roedd dirywiad mewn traddodiadau Cymreig yn yr ugeinfed ganrif hefyd, yn enwedig o ran priodasau drwy neidio'r gansen a'r syniad o'r

‘bidder’. Mae’n bwysig cydnabod bod traddodiadau yn newid, a bod hyn yn rhan naturiol o ddatblygiad ac esblygiad cymuned a diwylliant.

Ar y llaw arall, roedd un sylwadaeth benodol yn sefyll allan ar gyfer y cwestiwn hwn. Yng ngeiriau’r cyfranogwr,

> ‘not in our tribe. We are old fashioned and intend to stay that way.’

Mae’r sylwadaeth yma yn awgrymu bod rhai teuluoedd yn parhau i gadw’r hen draddodiadau yn fyw. Mae’r ffaith bod y cyfranogwr heb fynd i fanylder am y traddodiadau y mae’r teulu penodol hwnnw yn cadw atynt, yn ei wneud yn anodd ystyried i ba raddau mae’r teulu yn cadw at draddodiadau. Mae’r gwaith yma wedi dangos bod teuluoedd Sipsi yn tueddu i ddal gafael ar draddodiadau sy’n siwtio eu bywydau erbyn hyn. Mae’r rhan fwyaf o unigolion a gyfrannodd i’r holiadur yma yn parhau gyda rhai traddodiadau, defodau neu ofergoeliaeth hyd heddiw. Yn y rhan fwyaf o deuluoedd Sipsi, mae rhai traddodiadau a defodau wedi parhau, tra bod eraill wedi dirywio, newid neu esblygu. Mae hyn yn pwysleisio sut mae’r gymuned wedi addasu erbyn heddiw.

Er y canran uchel o gyfranogwyr atebodd ‘Ydw’ i gwestiwn deg ‘Ydych chi’n meddwl bod llai o draddodiadau a defodau yn cael eu cadw atynt yn y gymuned?’ roedd y wybodaeth yma yn cael ei wrthddweud i raddau helaeth gyda’r ymatebion i gwestiwn naw. Cwestiwn naw oedd ‘Ydych chi’n credu bod traddodiadau a defodau yn rhan bwysig o fywyd Sipsiwn?’. Roedd yna gwestiwn agored yn dilyn y cwestiwn yma sef, ‘Oes yna unrhyw draddodiadau ydych chi’n cadw ato?’. Mae nifer o’r ymatebion i’r cwestiwn agored wedi cael eu trafod yn barod yn y gwaith yma. Er hyn, roedd yr ymatebion i gwestiwn naw yn ddiddorol i’w gymharu gydag ymatebion cwestiwn deg, sef ‘ydych chi’n meddwl bod llai o draddodiadau a defodau yn cael eu cadw atynt yn y gymuned?’. Y mae’r graff canlynol yn amlinellu’r ymatebion i gwestiwn naw gan y cant dau ddeg ac wyth o gyfranogwyr a ddewisodd ei ateb:



Gwelwyd bod 96.88% o gyfranogwyr, swm syfrdanol, yn meddwl bod traddodiadau a defodau yn rhan bwysig o fywyd Sipsiwn. Dim ond 3.12% o gyfranogwyr nid oedd yn credu bod traddodiadau a defodau yn bwysig i'r gymuned. Syndod felly yw'r gwahaniaethau rhwng yr ymatebion i gwestiynau naw a deg. Tra bod 96.88% o gyfranogwyr yn credu bod traddodiadau a defodau yn bwysig i Sipsiwn, roedd 76.86% o gyfranogwyr hefyd yn credu bod llai o draddodiadau a defodau yn cael eu cadw atynt yn y gymuned. Felly er bod y mwyafrif o gyfranogwyr i'r holiadur yn credu bod traddodiadau a defodau yn bwysig i'r gymuned hyd at y presennol, roedd canran uchel hefyd yn credu bod dirywiad yn y gymuned o gadw at y traddodiadau a defodau yma. Mae'n glir o'r ymatebion i gwestiwn naw bod traddodiadau a defodau yn bwysig i amryw o unigolion o'r gymuned Sipsi. Defnyddiwyd nifer o enghreifftiau o'r adran agored yng nghwestiwn naw sef 'Oes yna unrhyw draddodiadau ydych chi'n cadw ato?', fel tystiolaeth yn aml yn y gwaith yma. Er nid yw pob traddodiad neu ddefod yn cael eu cadw atynt yn y gymuned Sipsi erbyn y presennol, mae'r enghreifftiau o gwestiwn agored naw yn dangos bod amryw o draddodiadau yn cael eu dilyn gan unigolion. Felly, mae ymatebion cwestiynau naw a deg yn awgrymu bod canrannau uchel o Sipsiwn yn credu bod traddodiadau a defodau yn bwysig i Sipsiwn, ond bod ffordd o fyw y

Sipsiwn yn yr unfed ganrif ar hugain efallai yn golygu nid oes angen cadw at y traddodiadau hyn cymaint.

Casgliad terfynol

Genedigaethau a marwolaethau

Roedd genedigaethau a marwolaethau yn ddigwyddiadau pwysig i'r Sipsiwn. Roedd bedydd ac angladd yn benodol, fel yn achos eu priodasau, yn denu teuluoedd o Sipsiwn at eu gilydd ac yn ffordd o sicrhau parhau traddodiadau yn y gymuned. Roedd genedigaeth yn cael ei ystyried yn draddodiadol fel digwyddiad benywaidd, ond erbyn hyn mewn amryw o deuluoedd o Sipsiwn mae dynion yn presenoli genedigaeth. Ar y llaw arall, mewn digwyddiadau teuluol mae rhai teuluoedd o Sipsiwn yn parhau i rhannu yn ôl eu rhywedd, gyda'r dynion a merched ar ochrau gwahanol o'r ystafell mewn dathliad.

Dangosodd y gwaith yma fod geni niferoedd eang o blant yn rhoi statws goruwch i ferch Sipsi, mewn cymuned eithaf gwrywaidd. Mae'r ffaith bod nifer o Sipsiwn yn Catholigion yn golygu bod dulliau atal cenhedlu ddim yn cael eu defnyddio ganddynt, sy'n golygu bod cael nifer o blant yn gyffredin. Roedd rhai ymatebion yn yr holiadur yn awgrymu bod rhai merched Sipsi y presennol ddim yn gweld bod ganddynt dewis o ran ymgymryd â rôl mam. Yng ngeiriau cyfranogwr mewn ymateb i gwestiwn deuddeg sef 'A yw rôl merched Sipsi wedi newid dros y blynyddoedd yn eich barn chi? Os ydi sut?', 'Were still pretty much baby makers.'

O ran traddodiadau unigryw, yng Nghymru roedd trochi baban newydd mewn dŵr oer yn sicrhau bod y baban yn ddigon cryf i oroesi bywyd caled y Sipsiwn. Traddodiad wedi marwolaeth person oedd llosgi eiddo a chartref y meirw i fodloni'r enaid. Gwelir bod traddodiadau'r Sipsiwn ar ddechrau a diwedd bywyd yr unigolyn ag agwedd symbolaidd iddynt. Yn yr achosion yma, roedd trochi'r baban mewn dŵr yn symbolaidd bwysig i sicrhau bod y plentyn yn goroesi, ac yn achos llosgi eiddo'r meirw roedd yn symbol o diweddglo bywyd ac yn ffordd o warchod y teulu rhag ysbrydion anfad. Mae'r ffaith bod y traddodiadau

symbolaidd yma wedi cymryd lle yn dangos bod ofergoeliaeth yn cael ei gymryd o ddifri gan y gymuned.

Mae gweithiau diweddar am farwolaeth ymysg y Sipsiwn yn canolbwyntio ar effaith colled ar unigolion yn y gymuned. Tueddai teuluoedd fod yn agos iawn oherwydd natur eu magwraeth ymysg ei gilydd. O ddechrau eu bywyd, nes y diwedd, mae rhai teuluoedd o Sipsiwn dros rhai cenhedloedd yn byw ymysg eu gilydd. Mae cofeb mewn ffurf bedd wedi dod yn symbol o ethnigrwydd i amryw o deuluoedd Sipsi. Yn draddodiadol ni enwir y meirw o gwbl wedi'r farwolaeth. Erbyn hyn, mae cenhedloedd newydd yn cael eu henwi ar ôl blaenolwyr sy'n dangos bod traddodiadau yn addasu a newid bellach.

Priodasau, ysgaru a gwahanu

Roedd rhai Sipsiwn ifanc o Gymru yn ffoi ymaith i briodi yn draddodiadol. Yn aml, byddent yn ffoi i dref gyfagos ac yna'n dychwelyd i rieni'r ferch i ofyn am faddeuant. Erbyn yr unfed ganrif ar hugain, mae'r traddodiad yma yn cael ei weld fel sgandal. I'r Sipsiwn Catholig neu Sipsiwn sydd ddim yn Catholig ond yn ceisio cadw eu merched yn geidwadol a phur, mae'r ffoi ymaith yn cael ei wgu arno. Ar ddechrau'r ugeinfed ganrif, roedd treialu priodasau yn digwydd ymysg y Sipsiwn yng Nghymru, gyda cwpl yn gallu gwahanu heb unrhyw effaith ar eu henw da. Mae'n ddiddorol bod Sipsiwn mewn rhai teuluoedd bellach yn cael eu hannog i fyw ar wahân, a pheidio cael rhyw cyn priodi, sy'n gyferbyniad i'r agwedd at briodasau yn anffurfiol yng Nghymru'r ugeinfed ganrif yn y gymuned.

Traddodiad ymysg y Sipsiwn Cymraeg oedd neidio'r ysgubell fel symbol o'r undod priodasol. Bwriad y traddodiad oedd sicrhau bod y ferch yn ffrwythlon a gwarchod y cwpl rhag ysbrydion anfad. Er hynny, mae tystiolaeth fwy diweddar wedi awgrymu bod y Cymry eu hunain yn cymryd rhan yn y traddodiad hwn cyn i'r Sipsiwn mudo i'r wlad gan ddangos bod y Sipsiwn wedi benthyg y ddefod i rhoi ffurfioldeb i'w priodasau. Mae'r darlun anffurfiol yma o'r priodas

Sipsiwn yn cyferbynnu gyda'r darlun modern o briodasau y Sipsiwn yn y rhaglen deledu *MBFGW*, gyda'r ffrogiau priodas enfawr a'r dathliadau afradlon. Fel yn achos bedydd ac angladdau, mae *MBFGW* yn darlunio'r rhaniad rhywedd yn y dathliad. Er fod *MBFGW* yn rhoi mewnwelediad i'r gymuned gyfrinachol hon, Teithwyr Gwyddelig yw'r rhan fwyaf o'r cwplau newydd ar y sioe, ac nid yw cwplau o Sipsiwn Cymreig yn cael ei grybwyll arno.

Mae ysgaru wedi datblygu i fod yn bwnc tabŵ i nifer o deuluoedd Sipsi. Gyda chysylltiadau ehangach y Sipsiwn gyda'r gymuned frodorol a'r mabwysiadu Cristnogaeth fwy ffurfiol ymysg nifer o aelodau o'r gymuned Sipsi, roedd newid agwedd tuag at ysgaru yn ail hanner yr ugeinfed ganrif. Treiddiodd syniadau negyddol am ysgaru at y Sipsiwn drwy Cristnogaeth. I'r merched Sipsi sydd yn dewis ysgaru, yn aml nid ydynt wedi arfer ennill cyflog, ac mae'r ofn yn bodoli o golli cefnogaeth eu teulu a chymuned. Er hyn, mae anffyddlondeb dynion Sipsi yn gyffredin iawn yn y gymuned, ac yn tueddu i gael ei anwybyddu. Yn ogystal, mae trais domestig yn broblem fawr, gyda'r merched yn cael eu dysgu i'w anwybyddu. Mae'n bwysig pwysleisio mai merched y gymuned i'r raddau helaeth sy'n cael eu heffeithio gan y rheolau cadarn er enghraifft peidio cael rhyw cyn priodi. Merched sy'n ysgaru sy'n derbyn beirniadaeth hefyd, nid dynion. Mae'n dangos bod y darlun o gymuned wedi'i ddominyddu gan ddynion yn bodoli i nifer o ferched Sipsi hyd heddiw.

<u>Defodau glendid a dyletswyddau domestig</u>

Fel yn achos priodasau Sipsi, merched sydd hefyd yn cael eu heffeithio fwyaf gan y traddodiadau a defodau glendid. Roedd defodau mochadi, sef rheolau moesol a chorfforol y Sipsiwn, yno i warchod purdeb unigolion y gymuned. Roedd gwaith Thompson yn 1922 yn dangos bod merched Sipsi yn cael eu hystyried fwyaf aflan yn y gymuned.[1001] Dyma ffordd i israddio merched y gymuned, a sicrhau mai merched oedd yn gorfod cwblhau'r rhan fwyaf o'r

[1001] Thompson, 'The uncleanness of women among English Gypsies', t.21.

tasgau domestig i leihau eu llygredd. Rhaid pwysleisio mai rheolau moesol ydynt hefyd, sy'n darlunio pam bod merched ifanc Sipsi yn aml yn cael eu gwahardd gan eu rhieni i gymryd rhan yn nosbarthiadau addysg rhyw, er mwyn gwarchod eu diniweidrwydd.

Roedd ymatebion cwestiwn naw yr holiadur yn tynnu sylw at draddodiadau oedd y cyfranogwyr yn cadw atynt:

'I'm a housewife and my husband works'

'Traditional family roles'

'Im home with the kids making sure the house is clean and always have food'

I rhai, mae'r darlun o'r wraig tŷ yn rhan o'u hunaniaeth fel merch Sipsi. Oherwydd dirywiad gwaith taladwy i rhai merched Sipsi ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, roedd glanhau yn ffordd iddynt gyfrannu at y teulu o hyd. Yn y gymuned Sipsi, ond hefyd mewn cymunedau eraill, mae dyletswyddau domestig wedi eu darlunio fel rhan o'r rôl draddodiadol fenywaidd. Roedd y syniadau yma am rôl y ferch yn cael eu trosglwyddo drwy'r cenhedloedd o mamau i'w merched.

Er hyn, i rhai merched Sipsi yn y presennol mae rheolau llym mochadi wedi dod yn ddibwrpas. Pan gyhoeddodd Fitzgerald ei waith ef am y tro cyntaf yn 1942, roedd y defodau llym mochadi yn dirywio oherwydd bod unigolion yn y gymuned yn cydnabod nid oedd trybini yn digwydd pan oedd y defodau ddim yn cymryd lle.[1002] Yn y presennol, nid oes angen rheolau mor llym ar gyfer unigolion sy'n byw mewn cartrefi moethus. Pan oedd Sipsiwn yn teithio, roedd angen y rheolau fwy er mwyn cadw'r cartref a'r teulu yn lân ac yn iach. Mae'r dirywiad yma mewn ffordd o fyw yn golygu dirywiad yn y rheolau glendid a moesol i rhai. Oherwydd natur yr economi a'r angen am ail gyflog yn y rhan fwyaf o deuluoedd, nid yw rhai merched yn gallu

[1002] Fitzgerald, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History*, t.54.

cyflawni eu nod o fod yn wragedd tŷ erbyn hyn. Er bod merched Sipsi erbyn heddiw ddim yn cadw at y rheolau llym mochadi oedd yn cael eu darlunio yng ngwaith Thompson yn 1922, mae dyletswyddau domestig yn parhau i fod o bwysigrwydd diwylliannol i rhai ac yn cael eu cyfuno gyda gwaith taladwy gan eraill.[1003]

Gwaith ac addysg

I merched Sipsi yr unfed ganrif ar hugain, yn aml mae angen cyfuno gwaith taladwy a rôl draddodiadol o'r fam delfrydol yn cwblhau'r tasgau domestig. Roedd y thema yma yn pwysleisio bod merched Sipsi wedi arfer gweithio drwy'r cenhedloedd. Dim ond yn ddiweddar y mae rhai teuluoedd yn beirniadu merched am weithio yn y gymuned. Roedd merched Sipsi'r ugeinfed ganrif yn gweithio, un ai drwy greu meddyginiaeth, gwerthu o ddrws i ddrws neu waith amaethyddol. Cysylltir y Sipsiwn benywaidd a'r goruwchnaturiol hefyd, oherwydd eu dawn o adrodd ffortiwn. Roedd angen i ferched allu darparu yn ariannol ar gyfer prynu bwyd y teulu pob dydd, felly roedd ganddynt gyfrifoldeb mawr.

Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, oherwydd gwelliannau mewn trafnidiaeth, roedd y merched Cymraeg yng nghefn gwlad bellach yn gallu teithio i'r trefi i brynu nwyddau yn haws. Golyga hyn fod swyddi'r hawkers yn dod yn llai buddiol. Cynyddodd cyflogau nifer o ddynion Sipsi erbyn diwedd y ganrif oherwydd twf swyddi fel tarmacio, addurno cartrefi a thorri coed yn y gymuned. Golygodd hyn bod rhai dynion yn annog eu gwragedd i aros yn y cartref yn hytrach nac mynd i weithio.

Mae'n bosibl bod dirywiad rôl yr hawkers wedi annog merched Sipsi ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif, ond yn bendant erbyn yr unfed ganrif ar hugain, i ddefnyddio addysg fel ffordd o cael annibyniaeth ariannol i'w hunain yn lle. Drwy gydol yr ugeinfed ganrif, roedd addysg i'r Sipsiwn wedi bod yn foethusrwydd anarferol ar y gorau i rhai Sipsiwn, neu'n aml yn cael ei

[1003] Thompson, 'The uncleanness of women among English Gypsies', t.21.

osgoi gan eraill. Gwelodd yr unfed ganrif ar hugain twf yn y diddordeb mewn addysg yn y gymuned Sipsi. Erbyn hynny, roedd y mwyafrif o Sipsiwn wedi gwreiddio, ac eisiau i'w plant cael addysg mewn byd ble roedd gwaith traddodiadol y Sipsiwn yn dirywio. I ferched Sipsi mae addysg yn ffordd i frwydro yn erbyn y syniadau am wraig tŷ delfrydol sydd wedi treiddio i'r gymuned ers diwedd yr ugeinfed ganrif. Mae'r Sipsiwn wedi addasu yn aml dros y canrifoedd, ac mae addysg yn un rhan o'r addasu yma.

I gloi

Mae'r gwaith yma yn rhan o'r hanesyddiaeth am 'gymunedau' yng Nghymru yn gyffredinol. Ni fu gwaith academaidd penodol am Sipsiwn benywaidd yng Nghymru nes y gwaith yma. Yn ogystal, roedd modd cymharu bywydau Sipsiwn benywaidd Cymru gyda bywydau'r merched Cymreig yn y wlad ac ystyried sut oedd eu bywydau'n debyg neu'n wahanol. Bwriad hyn oedd rhoi cyd-destun i fywydau merched Sipsi yng Nghymru ac ystyried pa mor wahanol i'r gymuned frodorol oedd eu bywydau o ddydd i ddydd. Yn y ffordd yma, roedd y gwaith yn ffitio i'r hanesyddiaeth am fywydau pob dydd, sy'n canolbwyntio ar fywydau pobl gyffredin, y bobl sy'n anhysbys mewn hanes i raddau helaeth.[1004] Oherwydd bod yr astudiaethau am ferched Sipsi, yn enwedig yng Nghymru, wedi bod mor brin yn y gorffennol, mae'r gwaith yma wedi dangos eu pwysigrwydd yn hanes Cymru a'u dylanwad ar ardaloedd gwledig y wlad yn benodol. Hefyd, mae'r gwaith wedi dangos dylanwad y merched Sipsi oddi fewn i'w cymuned eu hunain, er enghraifft fel cyfryngwyr, penaethiaid, gweithwyr a mamau. Roedd bywydau pob dydd merched Sipsi yn anodd ac yn heriol tu hwnt, er enghraifft oherwydd natur eu gwaith a'r ffaith eu bod yn methu dod adref heb arian i'r teulu pob dydd, gorfod gweithio y tu allan ym mhob tywydd, diffyg arian yn gyffredinol, cyfrifoldeb mawr o

[1004] A. Lüdtke, 'Introduction- What is the history of everyday life and who are its practitioners?', gan Alf Lüdtke (gol), *The History of Everyday Life- Reconstructing Historical Experiences and Ways of Life* (West Sussex, 1995), tt.3-4.

ofalu am niferoedd uchel o blant a chadw cartref bychain yn lan ac hefyd y bygythiad o cael eu symud ymlaen gan yr awdurdodau ar unrhyw adeg. Mae hyn yn golygu bod y merched yma yn arwyr yn hawl eu hunain oherwydd eu bod yn wedi goroesi a bodoli dros y degawdau ac wedi gallu dal gafael ar eu traddodiadau a defodau i raddau fel cymuned. Mae astudiaeth Wierling am hanes fywydau pob dydd yn canolbwyntio ar pwysigrwydd perthnasau rhywedd.[1005] Mae'r gwaith yma wedi gwneud hyn hefyd, gan ddangos sut oedd merched a dynion yn cael eu trin yn wahanol yn y gymuned Sipsi oherwydd eu rhywedd a bod cyfrifoldebau penodol wedi eu hapwyntio iddynt oherwydd eu rhywedd. I'r merched, roedd cyfuno bywyd domestig a gwaith wedi'i ariannu yn yr ugeinfed ganrif yn rhan o'u cyfrifoldebau fel merched yn y gymuned. Newidiodd hyn i rhai merched erbyn diwedd y ganrif, gyda mwy o ferched yn cymryd cyfrifoldeb llwyr dros y gwaith domestig ac yn rhoi'r gorau i weithio am arian. Ond, y peth pwysicaf i nodi yw bod hyn yn cysylltu a rhywedd eto, oherwydd bod merched mewn rhai teuluoedd bellach yn cael eu gweld fel ased domestig yn unig, oherwydd eu rhywedd. Mewn cymuned fel y gymuned Sipsi mae cyfrifoldebau yn ôl eich rhywedd yn hynod bwysig ac yn ffurfio rhan o'ch hunaniaeth, fel roedd pennod tri am rôl domestig y Sipsiwn benywaidd yn dangos.

Mae'r astudiaeth hon wedi cyfrannu at y gweithiau am y gymuned Sipsi, pwnc ymchwil sy'n tyfu ar hyn o bryd. Yn ogystal, mae wedi ychwanegu hanesyddiaeth mwy diweddar am Sipsiwn yng Nghymru, testun na fu wedi ei ganolbwyntio arno yn drylwyr ers yr 1970au gan Jarman a Jarman.[1006] Roedd y gwaith yma yn wahanol i waith Jarman a Jarman oherwydd dyma'r gwaith cyntaf i ganolbwyntio ar hanes merched Sipsi yng Nghymru yn hawl ei hun. Canolbwyntiodd Sampson ar yr iaith Romani Cymreig yn 1926, oedd yn darganfyddiad

[1005] D. Wierling, 'The history of everyday life and gender relations on historical and historiographical relationships', gan Alf Lüdtke (gol), *The History of Everyday Life- Reconstructing Historical Experiences and Ways of Life* (West Sussex, 1995), t.150.
[1006] Jarman a Jarman, *Y Sipsiwn Cymreig- Teulu Abram Wood.*

anhygoel.[1007] Er hyn, mae'n bwysig ystyried y pobl eu hunain yn hawl eu hunain, trafod eu traddodiadau a defodau ac ystyried sut oedd y pobl yma yn byw o ddydd i ddydd. I mi, roedd yn bwysig ystyried rôl merched Sipsi yn y wlad a dangos eu bod wedi cael effaith trawiadol ar eu cymunedau eu hunain, er enghraifft drwy gynnal eu teuluoedd yn ariannol o ddydd i dydd, helpu merched eraill eu cymuned i eni babanod a thrwy bod yn gyfrifol am gadw eu cartrefi yn lan. Roeddent yn bwysig i'r Cymry frodorol hefyd, oherwydd eu sgiliau meddyginiaeth, trwy werthu nwyddau defnyddiol iddynt ac wrth gwblhau swynion ar eu rhan. Gwaith pwysig diweddar am y Sipsiwn yng Nghymru yw gwaith Brooks a ganolbwyntiodd yn 2015 a 2021 ar yr iaith Romani fel un o dwy iaith frodorol Cymru, a cysylltu hyn gyda'r syniad o'r Sipsiwn a'r Cymry fel lleiafrifoedd.[1008] Eto, roedd gweithiau Brooks yn dangos bod diddordeb ieithyddol yn y Sipsiwn Cymreig wedi parhau yn yr unfed ganrif ar hugain, fel yn achos Sampson ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Ond, i mi, y pobl eu hunain oedd yn fy niddori, yn enwedig yn achos y merched. Dyma fy hynafiaid i, ac roeddwn yn teimlo'n gryf eu bod yn haeddu gwaith eu hunain yn trafod traddodiadau a defodau mewn ffordd fwy cyffredinol. Mae'r gwaith wedi dangos bod Sipsiwn benywaidd Cymru wedi cael dylanwad eang, hi-dymor yng Nghymru yn eu cymunedau eu hunain, ond hefyd ar y Cymry eu hunain. Mae'r thesis wedi dangos bod traddodiadau a defodau wedi eu cysylltu yn aml a symboliaeth neu ofergoeliaeth yn y gymuned, a bod ofergoeliaeth yn parhau i fod yn bwysig yn y gymuned hyd heddiw. Yn ogystal, mae'r gwaith wedi dangos bod rhai traddodiadau yn benodol, er enghraifft rheolau mochadi a rheolau genedigaeth yn cael eu heffeithio gan rhywedd. Er hynny, nid oedd merched Sipsi yn ffigyrau israddol i'w gwyr o ystyried y gwaith yma, yn enwedig wrth iddynt fod yn asedau economaidd yn yr ugeinfed ganrif a rheoli eu cartrefi yn ogystal. Yn olaf, roedd y gwaith yma yn bwysig wrth ystyried hanes

[1007] Sampson, *The Dialect of the Gypsies of Wales- Being the older form of British Romani preserved in the speech of the clan of Abram Wood.*
[1008] Brooks, 'Cof am fath arall o Gymraeg, Romani Cymreig'; Brooks, *Hanes Cymry: Lleiafrifoedd Ethnig yn y Gwareiddiad Cymraeg.*

merched yng Nghymru gan ei fod o'n dangos bod merched Sipsi wedi dylanwadu ar fywyd yn y cefnwlad drwy gydol yr ugeinfed ganrif. Roedd merched Sipsi Cymreig yn ddylanwadol yn hawl eu hunain, ac roedd angen gwaith penodol oedd yn pwysleisio hyn, fel roedd y thesis yma yn dangos. I mi, roedd bywydau pob dydd merched Sipsi yng Nghymru wedi eu rheoli yn aml gan ddefodau a thraddodiadau oedd wedi gwreiddio, ond roeddent yn ffigyrau dylanwadol yn aml allai cael effaith arwyddocaol ar eu cymuned yn hawl eu hunain.

Ymchwiliadau pellach

Byddai ymchwiliadau pellach am Sipsiwn yng Nghymru yn ychwanegu gwybodaeth fwy cyflawn am hanes y gymuned unigryw yma yn y wlad. Gall ymchwiliadau pellach ganolbwyntio ar safleoedd gwersylla traddodiadol yng Nghymru a'u rhesymau dros fod yn bwysig i'r Sipsiwn. Roedd ambell cyfeiriad yn y thesis yma at safleoedd gwersylla fel ardaloedd symbolaidd bwysig i'r Sipsiwn, fel yn achos dychwelyd i le penodol i eni plentyn. Er hyn, mae angen gwaith penodol sy'n esbonio'r cylchred penodol o safleoedd gwersylla oedd y Sipsiwn Cymreig yn tueddu i fyw arnynt. Gall ymchwilydd ystyried un teulu penodol ac olrhain eu cylchred, gan bod Sipsiwn o deuluoedd gwahanol yn teithio i leoedd gwahanol yn aml. Neu, byddai ymchwiliad yn gallu ystyried safleoedd gwersylla poblogaidd y Sipsiwn Cymreig ac ystyried pam oeddynt yn bwysig iddynt, neu os oeddynt yn ddefnyddiol iddynt. Gall y gwaith edrych ar ardal penodol o Gymru hefyd. Mae Damian Le Bas wedi cyhoeddi llyfr am safleoedd gwersylla ym Mhrydain, ond yn crybwyll Cymru yn unig heb mynd i fanylder am safleoedd gwersylla y wlad.[1009] Yn ogystal, mae Simon Evans wedi canolbwyntio ar safleoedd gwersylla De Llundain a Kent.[1010] Mae hyn yn dangos bod diddordeb yn y testun gan academyddion, ond mae angen gwaith penodol sy'n trafod Cymru.

[1009] Bas, *The Stopping Places-A Journey Through Gypsy Britain*.
[1010] Evans, *Stopping Places- A Gypsy History of South London and Kent*.

Mi wnaeth y thema genedigaethau a marwolaethau yn y thesis yma ddangos bod diwylliant materol a gwrthrychau yn bwysig i'r gymuned Sipsi, er enghraifft eiddo'r meirw a'r gofeb.[1011] Gallai astudiaethau yn y dyfodol ganolbwyntio mwy ar y syniad yma o ddiwylliant materol ac ystyried eu harwyddocâd fel rhan o traddodiadau'r gymuned Sipsi. Byddai modd cymharu diwylliant materol a gwrthrychau'r Sipsiwn Cymreig gyda grwpiau teithiol eraill ym Mhrydain, megis y Sipsiwn Seisnig a'r Teithwyr Albanaidd.

Mae gan y Teithwyr Albanaidd, fel grŵp hynafol teithiol ym Mhrydain, hanes hir-dymor a ddiddorol. Mi fyddai edrych yn manylach ar hanes y grŵp teithiol yma, er enghraifft o ongl tebyg i'r gwaith yma, fod yn werthfawr. Fel yn achos y Sipsiwn Cymreig, mae'r grŵp teithiol yma wedi'i anwybyddu yn aml mewn hanesyddiaeth. Mae'r astudiaethau academaidd am y grŵp yma yn tueddu i ganolbwyntio ar addysg, tra bod astudiaethau hanesyddol wedi tueddu i ganolbwyntio ar hanes Sipsiwn Seisnig.[1012] Mae angen ystyried hanes y grŵp yma yn hawl ei hun, ystyried eu gwraidd, eu traddodiadau a defodau unigryw, eu dylanwad yn yr Alban a'u bywydau erbyn heddiw.

Cyfanswm geiriau: 99,375

Cyfanswm geiriau (gan gynnwys y crynodeb): 99,783

[1011] Parker a McVeigh, 'Do not cut the grass: expressions of British Gypsy-Traveller identity on cemetery memorials', tt.306-307.
[1012] R. Deuchal a K. Bhopal, ' "We're still human beings, we're not aliens": promoting the citizenship rights and cultural diversity of Traveller children in schools: Scottish and English perspectives', *British Educational Research Journal*, Vol.39 (2013), tt.733-750; Cressy, *Gypsies: An English History.*

Atodiad: Copi o'r holiadur

1. Rhywedd:

Gwryw ☐ Benyw ☐ Ddim eisiau datgelu ☐

2. Oed:

18-24 ☐

25-40 ☐

41-60 ☐

61+ ☐

3. Ieithoedd gallwch siarad:

Cymraeg ☐ Saesneg ☐ Romani ☐ Arall ☐

4. Hunaniaeth:

Cymraeg ☐ Sipsi Cymreig ☐ Sipsi/Teithiwr Seisnig ☐

Prydeinig ☐ Teithiwr Albanaidd ☐ Teithiwr Gwyddelig ☐

Saesneg ☐ Arall ☐

Gwyddelig ☐

Albanaidd ☐

5. Ydych chi wedi teithio o gwmpas yn eich bywyd?

Do ☐ Naddo ☐

6. Yn draddodiadol, ble roedd plant Sipsi yn tueddu i gael eu geni?

7. Lle cafodd chi eich geni?

Ysbyty ☐ Gartref ☐ Arall ☐

8. A oedd yna fydwragedd penodol o fewn y gymuned?

Oedd ☐ Nac oedd ☐

9. Ydych chi'n credu bod traddodiadau a defodau yn rhan bwysig o fywyd Sipsiwn?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Oes yna unrhyw draddodiadau ydych chi'n cadw ato?

10. Ydych chi'n meddwl bod llai o draddodiadau a defodau yn cael eu cadw atynt yn y gymuned?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

Os ydw, pam ydych chi'n meddwl bod hyn yn wir?

11. Fyddech chi'n ystyried y diwylliant Sipsi fel bod yn ofergoelus?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

12. A yw rôl merched Sipsi wedi newid dros y blynyddoedd yn eich barn chi?

Ydi ☐ Nac ydi ☐

Os ydi, sut?

13. A yw priodas Sipsi yn wahanol i briodas person nad yw'n Sipsi?

Ydi ☐ Nac ydi ☐

Os ydi, sut?

14. Ydych chi'n meddwl bod addysg ffurfiol mewn ysgolion wedi cael effaith ar fywyd Sipsiwn?

Ydi ☐ Nac ydi ☐ Ansicr ☐

Os ydi, sut?

Questionnaire

1. Gender:

Male ☐ Female ☐ Prefer not to say ☐

2. Age:

18-24 ☐

25-40 ☐

41-60 ☐

61+ ☐

3. Languages you can speak:

Welsh ☐ English ☐ Romani ☐ Other ☐

4. Identity:

Welsh ☐ Welsh Gypsy ☐ English Gypsy/Traveller ☐

British ☐ Scottish Traveller ☐ Irish Traveller ☐

English ☐ Other ☐

Irish ☐

Scottish ☐

5. Have you travelled around in your lifetime?

Yes ☐ No ☐

6. Traditionally, where were children in the Gypsy community generally born?

7. Where were you born?

Hospital ☐ Home ☐ Other ☐

8. Were there designated midwives within the community?

Yes ☐ No ☐

9. Do you think that traditions and rituals are an important part of Gypsy lifestyle?

Yes ☐ No ☐

Are there any traditions that you keep to?

10. Do you think that less traditions and rituals are being kept to within the Gypsy community?

Yes ☐ No ☐

If yes, then why do you think this is?

11. Would you consider Gypsy culture to be superstitious?

Yes ☐ No ☐

12. Has the role of Gypsy women changed over the years in your opinion?

Yes ☐ No ☐

If yes, how so?

13. Does a Gypsy marriage differ from a non-Gypsy marriage?

Yes ☐ No ☐

If yes, how so?

14. Do you think that receiving a formal school education has had an effect on Gypsy lifestyle?

Yes ☐ No ☐ Unsure ☐

If yes, how so?

Llyfryddiaeth

Ffynonellau cynradd

‘Absolutely Ascot-Season 1, episode 2’, *ITV Hub*, https://www.itv.com/hub/absolutely-ascot/2a5862a0002 (golwg diwethaf-19/11/19).

‘Absolutely Ascot-Season 2, episode 2’, *ITV Hub*, https://www.itv.com/hub/absolutely-ascot/2a5862a0010 (golwg diwethaf-10/12/19).

‘Absolutely Ascot-Season 2, episode 3’, *ITV Hub*, https://www.itv.com/hub/absolutely-ascot/2a5862a0011 (golwg diwethaf-10/12/19).

A new member, ‘My Dukkeripen’, *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.45 (1966), tt.41-50.

‘A Strange Gipsy Rite’, *The Cardigan Observer and General Advertiser for the Counties of Cardigan, Carmarthen and Pembroke- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 28 Mawrth 1896.

‘Bangor Police Court’, *The North Wales Express-Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 20 Gorffennaf 1906.

Bas, Damian. Le, *The Stopping Places-A Journey Through Gypsy Britain* (Llundain, 2018).

Bendell, Maggie. Smith, *Rabbit stew and a penny or two* (Llundain, 2010).

Borrow, George, *Romano Lavo-Lil Word-Book of the Romany or English Gypsy language with specimens of Gypsy poetry, and an account of certain Gypsyries or places inhabited by them, and of various things relating to Gypsy Life in England* (Llundain, 1905).

Borrow, George, *Wild Wales- The People, Language and Scenery* (Llundain, 1906).

Boswell, Silvester. Gordon, 'The Book of Boswell', gol. gan John Seymore, J*ournal of the Gypsy Lore Society,* Vol.49 (1970), tt.3-24.

Campbell, John. Gregorson, *Witchcraft and Second Sight in the Highlands and Islands of Scotland-Tales and Traditions collected entirely from oral sources* (Glasgow, 1902).

Cannon, Violet, *Gypsy Princess-The true story of a Romany childhood* (Llundain, 2011).

Crabbe, George, *Selected Poems* (Llundain, 1991).

'Deluded by a Gipsy', *Rhyl Record and Advertiser- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 4 Tachwedd 1899.

'Desperate Gipsy Woman', *The Cardiff Times- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 26 Awst 1905.

Doherty, Paddy, *Hard Knocks& Soft Spots* (Edbury, 2012).

Duffy, Ryalla, *Pinnies& Pegs-A Gypsy Childhood* (Derbyshire, 2009).

'Episode 1: Gypsy Kids-Our Secret World-Season 1 2016', *Channel 5*, fersiwn ar lein, https://www.my5.tv/gypsy-kids-our-secret-world/season-1/episode-1 (golwg diwethaf-24/10/19).

'Episode 3: Gypsy Kids-Our Secret World-Season 1 2016', *Channel 5*, fersiwn ar lein, https://www.my5.tv/gypsy-kids-our-secret-world/season-1/episode-3 (golwg diwethaf-25/10/19).

'Episode 2: Gypsy Kids-Our Secret World-Season 2 2018', *Channel 5*, fersiwn ar lein, https://www.my5.tv/gypsy-kids-our-secret-world/season-2/episode-2 (golwg diwethaf-29/10/19).

‘Episode 3: Gypsy Kids-Our Secret World-Season 2 2018’, *Channel 5*, fersiwn ar lein, https://www.my5.tv/gypsy-kids-our-secret-world/season-2/episode-3 (golwg diwethaf-29/10/19).

‘Episode 5: Gypsy Kids-Our Secret World-Season 2 2018’, *Channel 5*, fersiwn ar lein, https://www.my5.tv/gypsy-kids-our-secret-world/season-2/episode-5 (golwg diwethaf-31/10/19).

‘Episode 6: Gypsy Kids-Our Secret World-Season 2 2018’, *Channel 5*, fersiwn ar lein, https://www.my5.tv/gypsy-kids-our-secret-world/season-2/episode-6 (golwg diwethaf-31/10/19).

‘Episode 7: Gypsy Kids-Our Secret World-Season 2 2018’, *Channel 5*, fersiwn ar lein, https://www.my5.tv/gypsy-kids-our-secret-world/season-2/episode-7 (golwg diwethaf-31/10/19).

‘Episode 8: Gypsy Kids-Our Secret World-Season 2 2018’, *Channel 5*, fersiwn ar lein, https://www.my5.tv/gypsy-kids-our-secret-world/season-2/christmas-special (golwg diwethaf-31/10/19).

‘Episode 4-Escaping Domestic Violence: Tina’s Story (22/11/18)’, *On the Road-Podcast for Gypsy, Roma and Traveller Communities*, fersiwn ar lein, http://ontheroadradio.libsyn.com/escaping-domestic-violence-tinas-story-episode-4 (golwg diwethaf-02/03/20).

‘Episode 7-Memory Lane: Stories of Gypsy Days Gone By (20/12/18)’, *On the Road-Podcast for Gypsy, Roma and Traveller Communities*, fersiwn ar lein, http://ontheroadradio.libsyn.com/memory-lane-episode-7 (golwg diwethaf-02/03/20).

‘Episode 8-Education Matters: Gypsy& Traveller children and the education system (18/01/19)’, *On the Road-Podcast for Gypsy, Roma and Traveller Communities*, fersiwn ar lein, http://ontheroadradio.libsyn.com/episode-9-education-matters-gypsy-traveller-children-and-the-education-system (golwg diwethaf-02/03/20).

‘Episode 18-Sabrina’s Story (10/05/19)’, *On the Road-Podcast for Gypsy, Roma and Traveller Communities*, fersiwn ar lein, http://ontheroadradio.libsyn.com/sabrinas-story-episode-18 (golwg diwethaf-27/09/19).

Evans, Ivor. H. N, ‘Stray Memories of British Gypsies’, *Journal of the Gypsy Lore Society, Vol.35 (1956), tt.98-116.*

Fychan, Cledwyn, ‘Llyn boddi babis arall’, *Llafar Gwlad cyfredol*, Rhif 149, Awst 2020.

‘Gipsies in Anglesey and their purchases-Larceny or buying on credit?’, *The North Wales Express- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 25 Mawrth 1892.

‘Gipsy Queen’s Death’, *Rhyl Record and Advertiser- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 12 Ionawr 1907.

‘Gipsy women in trouble’, *Rhyl Journal- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru,* 21 Mehefin 1902.

Gmelch, Sharon, *Nan-The Life of an Irish Travelling Woman* (Llundain, 1986).

Hodgson, Robert, ‘My Dukkeripen’, *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.46 (1967), tt.98-104.

Hutton, Katie, *The Gypsy Bride* (Llundain, 2020).

Huws, Howard, ‘Llyn Boddi Babis’, *Llafar Gwlad*, Rhif 146, Hydref 2019.

James, H. Gwerfyl, ‘Hanes y Gipsies’, *Seren Cymru- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 4 Mehefin 1869.

John, Augustus, *Chiaroscuro- Fragments of Autobiography: First Series* (Llundain, 1952).

Jones, Bobi, *Crwydro Môn* (Llandebie, 1957).

Jones, T. Llew, *Tân ar y Comin* (Llandysul, 2013).

Lee, Patrick. Jasper, *We Borrow the Earth-An Intimate Portrait of the Gypsy Folk Tradition and Culture* (Ravine cyhoeddwyr ar lein, 2015).

Lee, Samantha, *Gypsy Bride- One girl’s true story of falling in love with a Gypsy boy* (Llundain, 2011).

‘Llangefni Petty Sessions’, *The North Wales Chronicle and Advertiser for the Principality- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 23 Mai 1919.

Locke, George, *Big Louie & Me- Caravans, curses & cockfights* (Hertfordshire, 2012).

Loveridge, Nell, *Gypsies-I married a Romany! Honest, Raw and Extremely Funny!* (Seattle, 2017).

Lyster, M. E, *The Gypsy Life of Betsy Wood* (Llundain, 1926).

Maccoll, Ewan. a Peggy Seeger, *Till Doomsday in the afternoon-The folklore of a family of Scots Travellers-The Stewarts of Blairgowrie* (Manceinion, 1986).

Madine, Thelma, *Gypsy Wedding Dreams* (Llundain, 2013).

Madine, Thelma, *Tales of the Gypsy Dressmaker* (Llundain, 2012).

‘Marwolaeth “Brenin y Gipsies”’, *Seren Cymru- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 29 Awst 1884.

McCready, Tom. a Julie McCready, *A Wandering of Gypsies-The Autobiography of Two Present-day Romanies* (Derbys, 2001).

McDonagh, Cindy, 'Not in our name either', *Travellers Times*, fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/features/not-our-name-either (golwg diwethaf-19/11/19).

McDonagh, Eddie, 'Not in our name either', *Travellers Times*, fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/features/not-our-name-either (golwg diwethaf-19/11/19).

McKinley, Rosie, *Gypsy Girl-A life on the road, A journey to freedom* (Llundain, 2011).

Morgan, Ceridwen Lloyd, *Augustus John Papers at the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1996).

Morgan, Elena. P, *Nansi Lovell-Hunangofiant Hen Sipsi* (Morgannwg, 2018).

'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 1-Episode 1, *Channel 4 boxset*.

'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 1-Episode 2, *Channel 4 boxset*.

'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 1-Episode 3, *Channel 4 boxset*.

'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 1-Episode 4, *Channel 4 boxset*.

'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 1-Episode 5, *Channel 4 boxset*.

'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 2-Episode 2, *Channel 4 boxset*.

'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 2-Episode 4, *Channel 4 boxset*.

'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 2-Episode 5, *Channel 4 boxset*.

'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 2-Episode 6, *Channel 4 boxset*.

'My Big Fat Gypsy Wedding', Season 2-Episode 7, *Channel 4 boxset*.

Penfold, Rosemary, *A Field Full of Butterflies- Memories of a Romany Childhood* (Llundain, 2011).

Pennant, Thomas, *The History of the Parishes of Whiteford and Holywell* (Clwyd, 1988).

Petulengro, Eva, *The Girl in the Painted Caravan-Memories of a Romany Childhood* (Llundain, 2011).

Reeve, Dominic, *Smoke in the Lanes-Happiness and Hardship on the Road with the Gypsies in the 1950s* (Hatfield, 2003).

Rokkering to the Gorgios-In the early nineteen seventies-British Romany Gypsies speak of their hopes, fears and aspirations, casglu a gol.gan Jeremy Sandford (Herefordshire, 2000).

Sampson, John, 'Tales in a Tent', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol. 3 (1892), tt.199-211.

Sampson, John, *The Dialect of the Gypsies of Wales- Being the older form of British Romani preserved in the speech of the clan of Abram Wood* (Rhydychen, 1926).

Sampson, John (wedi eu casglu), *Gypsy Folk Tales* (Llundain, 1984).

Smith, George, *Gypsy Life: our Gypsies and their children* (Llundain, 1880).

Smith, Jess, *Bruar's Rest* (Rhydychen, 2006).

Smith, Jess, *Jessie's Journey-Autobiography of a Traveller Girl* (Edinburgh, 2008).

Smith, Jess, *Tales from the Tent-Jessie's Journey continues* (Edinburgh, 2003).

Smith, Jess, *Way of the Wanderers- The story of Travellers in Scotland* (Edinburgh, 2012).

'The Gypsies next door-Season 1-Episode 1', *Channel 5*, https://www.my5.tv/the-gypsies-next-door/season-1/episode-1 (golwg diwethaf-30/03/20).

‘The Gypsies next door-Season 1-Episode 2’, *Channel 5*, https://www.my5.tv/the-gypsies-next-door/season-1/episode-2 (golwg diwethaf-30/03/20).

‘The Gypsies next door-Season 1-Epsiode 3’, *Channel 5*, https://www.my5.tv/the-gypsies-next-door/season-1/episode-3 (golwg diwethaf-30/03/20).

‘The Gypsies next door-Season 1-Epsiode 4’, *Channel 5*, https://www.my5.tv/the-gypsies-next-door/season-1/episode-4 (golwg diwethaf-30/03/20).

‘Thelma Madine given young traveller girls a chance to be dress-making rebels’, *Fideo YouTube*, https://www.youtube.com/watch?v=vsjNINFW4S4 (golwg diwethaf-01/04/20).

The Law of Hywel Dda- Law texts from Medieval Wales, cyfieithu a gol. gan Dafydd Jenkins (Llandysul, 1986).

‘The marriage of Miss M. Lee and Mr H. Gorton’, *The North Wales Express- Papurau Newydd Cymru-Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 7 Tachwedd 1884.

‘Traveller Girl’s New Journey’, *Daily Post*, 4 Chwefror 2013.

Whyte, Betsy, *Red Rowans and Wild Honey* (Edinburgh, 2000).

Whyte, Betsy, *The Yellow on the Broom-the early days of a traveller woman* (Edinburgh, 2001).

Williamson, Duncan, *The king and the lamp: Scottish traveller tales* (Edinburgh, 2000).

Wood, Manfri. Frederick, *In the Life of a Romany Gypsy*, gol. gan John. A. Brune (Llundain, 1973).

Wyn, Eifion, ‘The Gypsy’, cyfieithu gan J. Glyn. Davies, *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol. 7 (1928), t.199.

Yates, Dora. E, *My Gypsy Days- Recollections of a Romani Rawnie* (Llundain,1953).

Ffynonellau Archifdai:

‘Harold Lock, Louie Lock, William Ferguson and others-1 negative black and white’, *Liverpool Special Collections & Archives,* SMGC Shaw p.239. (Golwg diwethaf-10/10/19). Trwy gwrteisi Llyfrgell Prifysgol Lerpwl.

‘Locks (al.Boswell)-1 negative black and white’, *Liverpool Special Collections & Archives,* SMGC Shaw p.122. (Golwg diwethaf-10/10/19). Trwy gwrteisi Llyfrgell Prifysgol Lerpwl.

‘Miss Mimi. O. Hatton of Plymouth and Porthmadog talks about the Porthmadog Evacuee School, 1944-45’, *Archifdy Caernarfon,* XM/T/380. (Golwg diwethaf-12/09/19). Gyda chaniatâd Archifdy Caernarfon

‘Myfanwy Griffiths recalls her association with the gypsies of the Hirael area of Bangor’, *Archifdy Caernarfon,* XM/T/319. (Golwg diwethaf-12/09/19). Gyda chaniatâd Archifdy Caernarfon

Ffynonellau eilradd:

Aaron, Jane, *Pur fel y Dur- Y Gymraes yn llen Menywod y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg* (Caerdydd, 1998).

Acton, T., Susan Caffrey, Sylvia Dunn a Penny Vinson, 'Gender issues in accounts of Gypsy health and hygiene as discourses of social control', yn Thomas Acton a Gary Mundy (gol.), *Romani Culture and Gypsy Identity* (Hertfordshire, 1997).

Adams, Barbara., Judith Okely, David Morgan a David Smith, *Gypsies and Government Policy in England- A study of Travellers' way of life in relation to the policies and practices of Central and Local Government* (Llundain, 1975).

Adams, Sheila, 'Women, Death and *In Memoriam* Notices in a Local British Newspaper', yn Kathy Charmaz, Glennys Howarth ac Allan Kellehear (gol), *The Unknown Country: Death in Australia, Britain and the USA* (Llundain, 1997).

Allen, Sheila, 'Race, Ethnicity and Nationality: some questions of identity', yn Haleh Afshar a Mary Maynard (gol), *The Dynamics of 'Race' and Gender: some feminist interventions* (Llundain, 1994).

Anhysbys, 'Education in Wales', *The Cambro-Briton*, Vol.1 (1819), tt.76-78.

Anhysbys, 'Romany teenager lashes out at Thelma's Gypsy Girls', *Broadcast*, (2012).

Anhysbys, 'The Welsh gipsies: A social problem', *Welsh Outlook*, Vol.1 (1914), tt.316-317.

An Old Member, 'English Gypsy Dress in Bygone Days (continued)', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.39 (1960), tt.35-42.

Arber, Sara, 'Unequal partners: Inequality in earnings and independent income within marriage', yn Linda McKie, Sophia Bowlby a Susan Gregory (gol), *Gender, Power and the Household* (Hampshire, 1999).

Ashton, Rosemary, *Victorian Bloomsbury* (Connecticut, 2012).

'A Woman's World', *Fideo Youtube*, https://www.youtube.com/watch?v=GZOHlbtC3cU (golwg diwethaf-15/05/20).

Bardi, Abby, 'The Gypsy as Trope in Victorian and Modern British Literature', *Romani Studies,* Vol.16 (2006), tt.31-42.

Bargielowska, Ina. Zweiniger, 'Housewifery', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

Bargielowska, Ina. Zweiniger, 'Introduction', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

Bargielowska, Ina. Zweiniger, 'The Body And Consumer Culture', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

Bartlett, D. M. M, 'Two Recent Gypsy Funerals', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.13 (1934), tt.89-98.

Baxter, John. a Gordon Thorburn, *Travelling Art- Gypsy Caravans and Canal Barges* (Gloucestershire, 2010).

Beacham, Rhiannon, 'Gypsy women breaking education barriers with Uni degrees', *BBC News Online,* https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-40728470 (golwg diwethaf-20/10/19).

Beaumont, Caitriona, 'The Women's Movement, Politics and Citizenship, 1918-1950s', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

Beddoe, Deirdre, 'Munitionettes, Maids and Mams: Women in Wales, 1914-1939', yn Angela John (gol), *Our Mother's Land: Chapters in Welsh Women's History, 1830-1939* (Caerdydd, 2011).

Beddoe, Deirdre, *Out of the Shadows- A History of Women in twentieth century Wales* (Caerdydd, 2000)

Beier, Lucinda. McCray, 'Expertise and Control: Childbearing in Three Twentieth Century working-class Lancashire communities', *Bulletin of the History of Medicine*, Vol.78 (2004), tt.379-409.

Bernstein, Beth, 'Gypsy Women', *Lustre,* Vol.9 (2005), tt.22-26.

Betts, Sandra, 'The changing family in Wales', yn Jane Aaron, Teresa Rees, Sandra Betts a Moira Vincentelli (gol), *Our Sisters' Land-The Changing Identities of Women in Wales* (Caerdydd, 1994).

Bevan, Nathan, 'History month challenges the stereotype of Gypsies in Wales', *Wales Online*, https://www.walesonline.co.uk/lifestyle/showbiz/history-month-challenges-stereotype-gypsies-2029120 (golwg diwethaf-31/10/19).

Bhopal, Kalwant. a Martin Myers, *Insiders, Outsiders and Others- Gypsies and Identity* (Herefordshire, 2008).

Bhopal, Kalwant. a Martin Myers, 'Marginal groups in marginal times: Gypsy and Traveller parents and home education in England, UK', *British Educational Research Journal*, Vol.42 (2016), tt.5-20.

Bhopal, Kalwant, 'Gender, identity and experience: Researching marginalised groups', *Women's Studies International Forum*, Vol.33 (2010), tt.188-195.

Bhopal, Kalwant, ''What about us?' Gypsies, Travellers and 'white racism' in secondary schools in England', *International Studies in Sociology of Education*, Vol.21 (2011), tt.315-329.

Bindel, Julie, 'The big fat truth about Gypsy life', *The Guardian*, fersiwn ar lein, https://www.theguardian.com/lifeandstyle/2011/feb/25/truth-about-gypsy-traveller-life-women (golwg diwethaf-25/10/19).

Black, Janet. Keet, *Gypsies of Britain* (Rhydychen, 2013).

Blaxter, Loraine., Christina Hughes a Malcolm Tight, *How to Research: Fourth Edition* (Berkshire, 2010).

Brittain, Marcus, 'Layers of life and death: aspects of monumentality in the early Bronze Age of Wales', yn Vicki Cummings a Chris Fowler (gol), *The Neolithic of the Irish Sea- Materiality and traditions of practice* (Rhydychen, 2015).

Britten, Nicky. a Anthony Heath, 'Women, Men and Social Class', yn David Morgan, June Purvis a Daphne Taylorson (gol), *Gender, Class and Work* (Hants, 1985).

Brooke, Stephen, 'Class and gender', gan Francesca Carnevali a Julie-Marie Strange (gol), *Twentieth-Century Britain- Economic, Cultural and Social Change* (Harlow, 2007). Er mwyn gweld

Brooks, Simon, 'Cof am fath arall o Gymraeg, Romani Cymreig', *Taliesin*, Cyfrol 154 (2015), tt.24-31.

Brooks, Simon, *Hanes Cymry: Lleiafrifoedd Ethnig yn y Gwareiddiad Cymraeg* (Caerdydd, 2021).

Brown, B.J. a Sally Baker, *Mothers, wives and changing lives- women in mid twentieth-century rural Wales* (Caerdydd, 2011).

Bruley, Sue, *Women in Britain since 1900* (Hampshire, 1999).

Buckland, Raymond, *Buckland's Book of Gypsy Magic* (San Francisco, 2010).

Burns, Robert. B, *Introduction to Research Methods* (Llundain, 2000).

Capp, B. S, *When Gossips Meet: Women, Family and Neighbourhood in Early Modern England* (Rhydychen, 2003).

Cartwright, Garth, 'Among the Gypsies', *World Literature Today*, Vol.80 (2006), tt.51-55.

Casey, Rionach, ''Caravan wives' and 'decent girls': Gypsy-Traveller women's perceptions of gender, culture and morality in the North of England', *Culture, Health& Sexuality*, Vol.16 (2014), tt.806-819.

Castelow, Ellen, 'The 1950's Housewife', *Historic UK*, https://www.historic-uk.com/CultureUK/The-1950s-Housewife/ (golwg diwethaf-20/04/20).

Cattanach, Jacqueline, 'Reducing child health inequality among Gypsy Travellers', *Community Practitioner*, Vol.93 (2020), tt.45-47.

Cemlyn, Sarah., Maggie Smith-Bendell, Siobhan Spencer a Sally Woodbury, 'Gender and community activism: the role of women in the work of the National Federation of Gypsy liaison groups', yn Andrew Ryder a Sarah Cemlyn (gol), *Hearing the voices of GRT communities: Inclusive community development* (Bryste, 2014).

Cemlyn, Sarah., Margaret Greenfields, Sally Burnett, Zoe Matthews a Chris Whitwell, 'Inequalities experienced by Gypsy and Traveller communities: A review', *University of Britstol, Buckinghamshire New University, Friends, Families and Travellers-Equality and Human Rights Commission*, https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/research_report_12inequalities_experienced_by_gypsy_and_traveller_communities_a_review.pdf (golwg diwethaf-31/10/19).

Challenger, Gemma, 'Cemetery Culture and Traditions for people from the Traveller communities with regards to cemeteries and burying the dead', *Safle wê Friends Families*

and Travellers, https://www.gypsy-traveller.org/wp-content/uploads/2017/03/Cemetery-Culture-and-Traditions_v2.pdf (golwg diwethaf-29/01/21).

Chambers, William, *Exploits and Anecdotes of the Scottish Gypsies- with traits of their origin, character and manners* (Edinburgh, 1886).

Chapman, Robert, 'Beyond the Archaeology of Death?', *Historiae Mortis*, Vol.1 (2003), tt.1-12.

Charles, Nickie, *Gender in Modern Britain* (Rhydychen, 2002).

Charles, Nickie, 'The refuge movement and domestic violence', yn Jane Aaron, Teresa Rees, Sandra Betts a Moira Vincentelli (gol), *Our Sisters' Land-The Changing Identities of Women in Wales* (Caerdydd, 1994).

Cheal, Yvonne, 'Beyond the stereotypes: A review of Gypsies/Roma/Travellers and the Arts in Wales', *Safle wê Romani Arts*, http://www.romaniarts.co.uk/wp-content/uploads/2012/12/Beyond-the-Stereotypes.pdf (golwg diwethaf-31/10/19).

Clark, Colin, adolygiad o *In search of the true Gypsy: From Enlightenment to final solution*, gan Wim Willems, *Romani Studies*, Vol.10 (2000), https://search-proquest-com.ezproxy.bangor.ac.uk/docview/762798970/3ED63AE02BC949FEPQ/1?accountid=14874 (golwg diwethaf-21/07/20).

Clark, Colin, adolygiad o *Scottish Traveller Tales: lives shaped through stories*, gan Donald Braid, *Romani Studies*, Vol.13 (2003), https://search-proquest-com.ezproxy.bangor.ac.uk/docview/763140228/F05015819A0E44D2PQ/1?accountid=14874 (golwg diwethaf-21/07/20).

Clebert, Jean-Paul, *The Gypsies*, gol. gan Charles Duff (Middlesex, 1967).

Connell, Andrew, *Appleby Gypsy Horse Fair: Mythology, Origins, Evolution and Evaluation* (Cumberland a Westmorland, 2015).

Cooper, Patrinella, *Gypsy Magic-The Romany book of charms, herbs & fortune-telling* (Llundain, 2001).

Coyne, Sharon. Muiruri, 'Ghost Gypsy', *Traveller Times*, fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/features/ghost-gypsy (golwg diwethaf-15/11/19).

Crawley, Heaven, *Moving Forward- the provision of accommodation for Travellers and Gypsies* (Llundain, 2004).

Cressy, David, *Gypsies: An English History* (Rhydychen, 2018).

Cromptom, Rosemary. a Clare Lyonette, 'Are we all working too hard? Women, Men, and changing attitudes to employment?', yn Alison Park, John Curtice, Katarina Thomson, Miranda Phillips a Mark Johnson (gol), *British Social Attitudes-The 23rd report- Perspectives on a changing society* (California, 2011).

Crooke, William, 'Gypsy Forms and Ceremonies', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.3 (1909), tt.174-182.

Cross, Gwenith. Siobhan, '"A Midwife at every confinement": Midwifery and Medicalized Childbirth in Ontario and Britain, 1920-1950', *Canadian Bulletin of Medical History*, Vol.31 (2014), tt.139-159.

Cullen, Sue., Paul Hayes a Liz Hughes, 'Good practice guide: working with housed Gypsies and Travellers', *Shelter England*, http://england.shelter.org.uk/__data/assets/pdf_file/0010/57772/Working_with_housed_Gypsies_and_Travellers.pdf (golwg diwethaf-01/11/19).

Cunliffe, Barry, 'Celtic Death Rituals', *Archaeology*, Vol.41 (1988), tt.39-43.

Currey, Mason, *Daily Rituals-Women at work* (Llundain, 2019).

Daniels, Cora. Linn. a C.M. Stevans, *Encyclopaedia of Superstitions, Folklore, and the Occult Sciences of the World* (Honolulu, 1903).

D'Arcy, Kate. a Lisa Galloway, 'Access and inclusion for Gypsy and Traveller Students in Higher Education', yn Jason Arday a Heidi Safia Mirza (gol), *Dismantling Race in Higher Education: racism, whiteness and decolonising the academy* (Switzerland, 2018).

Dart, Daniel. Rhydderch., 'Making Communities in Modern Wales: Caernarfonshire in the Late Victorian and Early Edwardian Eras' (Thesis PhD., Prifysgol Bangor, 2020).

Davies, Jennifer, *Tales of the Old Gypsies* (Newton Abbot, 1999).

Davies, J. Glyn, 'Welsh Sources for Gypsy History', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.9 (1930), tt.64-86.

Davies, John, *A History of Wales* (Llundain, 2007).

Davies, Owen, *Witchcraft, Magic and Culture 1736-1951* (Manceinion, 1999).

Davies, R. E, 'Welsh Gypsies', *Welsh Outlook*, Vol.14 (1927), tt.52-53.

Davies, Russell, *Hope and Heartbreak: A Social History of Wales and the Welsh, 1776-1871* (Caerdydd, 2005).

Davies, Russell, *Sex, Sects and Society 'Pain and Pleasure': A Social History of Wales and the Welsh, 1870-1945* (Caerdydd, 2018).

Davis, Angela, 'Wartime women giving birth: Narratives of pregnancy and childbirth, Britain c.1939-1960', *Studies in History and Philosophy of Biological and Biomedical Sciences*, Vol. 47 (2014), tt.257-266.

D'Cruze, Shani, 'Crime', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

Deuchal, Ross a Kalwant Bhopal, ' "We're still human beings, we're not aliens": promoting the citizenship rights and cultural diversity of Traveller children in schools: Scottish and English perspectives', *British Educational Research Journal*, Vol.39 (2013), tt.733-750.

Douaud, Kristine, 'The tie that binds: Gypsies, John Clare and English folk-culture', *Romani Studies*, Vol.18 (2008), tt.1-38.

Douglas, Mary, *Purity and Danger: An Analysis of Concepts of Pollution and Taboo* (Oxon, 2003).

Draisey, Derek, *Women in Welsh History* (Abertawe, 2004).

Dundes, Alan, '"Jumping the Broom": On the origin and meaning of an African American wedding custom, *The Journal of American Folklore*, Vol.109 (1996), tt.324-329.

Durst, Judit, '"What makes us Gypsies, who knows…?!": Ethnicity and Reproduction', yn Michael Stewart a Marton Rovid (gol), *Multi-Disciplinary Approaches to Romany Studies* (Budapest, 2010).

Dyhouse, Carol, 'Education', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

Ellis, Sarah, *The women of England: Their social duties and domestic habits* (Llundain, 1839).

'Enabling Gypsies, Roma and Travellers report', *Llywodraeth Cymru*, https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-02/enabling-gypsies-roma-and-travellers_0.pdf (golwg diwethaf-31/10/19).

English, Rebecca, 'Pennies for heir to the throne: 2,013 silver coins to be minted for children born on same day as royal baby', *Daily Mail ar lein*, https://www.dailymail.co.uk/femail/article-2354742/Royal-baby-Silver-coins-minted-child-born-day.html (golwg diwethaf-09/08/20).

Esplugas, Celia, 'Gypsy women in English life and literature', yn Marilyn Button a Toni Reed (gol), *The Foreign woman in British Literature: Exotics, Aliens and Outsiders* (Llundain, 1999).

Evans, Neil, 'Immigrants and Minorities in Wales, 1840-1990: A Comparitive Perspective', yn Charlotte Williams, Neil Evans a Paul O'Leary (gol), *A Tolerant Nation? Exploring Ethnic Diversity in Wales* (Caerdydd, 2003).

Evans, Neil., Paul O'Leary a Charlotte Williams, 'Introduction: Race, Nation and Globalization', yn Charlotte Williams, Neil Evans a Paul O'Leary (gol), *A Tolerant Nation? Exploring Ethnic Diversity in Wales* (Caerdydd, 2003).

Evans, Simon, *Stopping Places- A Gypsy History of South London and Kent* (Hertfordshire, 2004).

Fabeni, Giuseppe. Beluschi, 'Ritual Spaces and Burial Places: International migration and transnational change among the Korturare Roma', *Intersections*, Vol.4 (2018), tt.136-157.

Fisher, Kate, *Birth Control, Sex and Marriage in Britain 1918-1960* (Rhydychen, 2006).

Fitzgerald, Brian. Vesey, *Gypsies of Britain-An Introduction to their History* (Devon, 1974).

Fletcher, Anthony, *Gender, Sex and Subordination in England 1500-1800* (Llundain, 1995).

Floate, Sharon. S, *My ancestors were Gypsies* (Llundain, 1999).

Fonseca, Isabel, *bury me standing- The Gypsies and their journey* (Llundain, 1995).

Fonseca, Isabel, *Bury Me Standing- The Gypsies and Their journey* (Llundain, 2006).

Foster, Brian. a Peter Norton, 'Educational equality for Gypsy, Roma and Traveller children and young people in the UK', *Equal Rights Trust*, https://www.equalrightstrust.org/ertdocumentbank/ERR8_Brian_Foster_and_Peter_Norton.pdf (golwg diwethaf-31/10/19).

Francis, Martin, 'Leisure and Popular Culture', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

Fraser, Angus, *The Gypsies* (Rhydychen, 1995).

Fraser, Angus. M, 'George Borrow's Walking Tours: The Welsh Diaries, 2-6 September 1854', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.49 (1970), tt.97-110.

Freeman, Roxy, 'My Gypsy Childhood', *The Guardian*, fersiwn ar lein, https://www.theguardian.com/lifeandstyle/2009/sep/07/gypsy-childhood-prejudice-education (golwg diwethaf-15/11/19).

Gardiner, Juliet, 'The story of women in the 1950's', *History Today*, https://www.historytoday.com/reviews/story-women-1950s (golwg diwethaf-20/04/20).

Gardner, Philip, 'Literacy, Learning and Education', yn Chris Williams (gol), *A Companion to Nineteenth Century Britain* (Rhydychen, 2004).

Gibson, J, *The Emancipation of Women* (Llundain, 1897).

Gillis, Stacy a Joanne Hollows, 'Introduction', yn Stacy Gillis a Joanne Hollows (gol), *Feminism, Domesticity and Popular Culture* (Oxon, 2009).

Gill, W. Walter, 'Manx Gypsies', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.15 (1936), tt.145-160.

Godden, Rumer, *The Diddakoi* (Llundain, 2004).

Goward, P., J. Repper, L. Appleton a T. Hagan, 'Crossing boundaries. Identifying and meeting the mental health needs of Gypsies and Travellers', *Journal of Mental Health*, Vol.15 (2006), tt.315-327.

Greenfields, Margaret. a David Martin Smith, 'Housed Gypsy Travellers, Social Segregation and the Reconstruction of Communities', *Housing Studies*, Vol.25 (2010), tt.397-412.

Greenfields, Margaret, 'Family, community and identity', yn Colin Clark a Margaret Greenfields (gol), *Here to Stay-The Gypsies and Travellers of Britain* (Hatfield, 2006).

Greenfields, Margaret, 'Travellers' health', yn Colin Clark a Margaret Greenfields (gol), *Here to Stay-The Gypsies and Travellers of Britain* (Hatfield, 2006).

Gregory, Susan, 'Gender roles and food in families', yn Linda McKie, Sophia Bowlby a Susan Gregory (gol), *Gender, Power and the Household* (Hampshire, 1999).

Griffith, Robert, *Llyfr Cerdd Dannau- Ymchwiliad i hanes hen gerddoriaeth a'r dulliau hynaf o ganu* (Caernarfon, 1913).

'Gypsy Life, Childhood, Family, Work sections', *Safle wê Friends Families and Travellers,* https://www.gypsy-traveller.org/heritage/gypsy-life/ (golwg diwethaf-10/12/19).

Hamilton, Paula, 'Engaging Gypsy and Traveller pupils in secondary education in Wales: tensions and dilemmas of addressing difference', *International Studies in Sociology of Education,* Vol.27 (2018), tt.4-22.

Hamilton, Paula, 'School books or wedding dresses? Examining the cultural dissonance experienced by young Gypsy/Traveller women in secondary education', *Gender and Education*, Vol.30 (2018), tt.829-845.

Harding, D.W, *Death and Burial in Iron Age Britain* (Rhydychen, 2016).

Harris, Anita, *Future Girl: Young Women in the Twenty-First Century* (Llundain, 2004).

Harvey, Edward, 'English Gypsy Crafts No.1: Clothes Peg Making', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol.20 (1941), tt.162-166.

Harvey, Edward, 'English Gypsy Crafts No.2: Basket Making', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol.21 (1942), tt.61-66.

Harvey, Edward, 'Wartime work of the English Gypsies', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol.21 (1942), tt.81-87.

Hayes, Rosemary, *The Travellers-Four People: One Story- Lizzie* (Hampshire, 2015).

Heaslip, Vanessa., Sarah Hean a Jonathan Parker, 'Lived experiences of vulnerability from Gypsy Roma Traveller perspective', *Journal of Clinical Nursing,* Vol.25 (2016), tt.1987-1998.

Hiepler, Samantha. Zahn, 'The Romani Death and Mortuary Practices', *Safle wê Cornerstone-Minnesota State Uni,* https://cornerstone.lib.mnsu.edu/gos/2018/presentations/9/ (golwg diwethaf-15/10/20).

Hill, Lesley. A, 'Sexuality', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

Hodgson, Robert, 'Romany Recollections', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol.46 (1967), tt.51-56.

Holcombe, Lee, *Victorian Ladies At Work* (Newton Abbot, 1973).

Holden, Katherine, 'Family, Caring and Unpaid Work', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

Hopegood, Rosie, 'Inside the world of the gypsy girls and why they leave school at the age of 11 to stay home and clean', *Mirror News*, ar lein, https://www.mirror.co.uk/news/real-life-stories/inside-world-gypsy-girls-leave-11133880 (golwg diwethaf-20/04/20).

Horder, Rebecca. a John Davies, 'Working with Gypsy and Traveller children and young people', *safle wê YoungWales*, http://www.youngwales.wales/images/Blast_Off_16_Working_with_Gypsy_and_Traveller_Children_and_Young_People.pdf (golwg diwethaf-31/10/19).

'House of Commons Women and Equalities Committee-Tackling inequalities faced by Gypsy, Roma and Traveller communities', *UK Parliament Seventh Report of Sessions 2017-19*, fersiwn ar lein, https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmwomeq/360/full-report.html (golwg diwethaf-25/10/19).

Howarth, Glennys, 'Is there a British Way of Death?', yn Kathy Charmaz, Glennys Howarth ac Allan Kellehear (gol), *The Unknown Country: Death in Australia, Britain and the USA* (Llundain, 1997).

Howells, William, *Cambrian superstitions, comprising Ghosts, Omens, Witchcraft, Traditions &.c.* (Llundain, 1831).

Huq, Rupa, *Making Sense of Suburbia through popular culture* (Llundain, 2013).

Jackson, Carolyn., Carrie Paechter ac Emma Renold, 'Introduction', yn Carolyn Jackson, Carrie Paechter ac Emma Renold (gol*), Girls and Education-continuing concerns, new agendas* (Berkshire, 2010).

Jarman, Eldra. a A.O.H. Jarman, *Y Sipsiwn Cymreig- Teulu Abram Wood* (Caerdydd, 1979).

Jarman, Eldra, 'Abram Wood', *Oxford Dictionary of National Biography*, fersiwn ar lein, https://www-oxforddnb-com.ezproxy.bangor.ac.uk/view/10.1093/ref:odnb/9780198614128.001.0001/odnb-9780198614128-e-62919?rskey=Y6C2ba&result=1 (golwg diwethaf-24/10/19).

Jenkins, Dafydd, *Cyfraith Hywel- Rhagarweiniad i Gyfraith Gynhenid Cymru'r Oesau Canol* (Llandysul, 1970).

Jenkins, J. Geraint, *Life & Traditions in Rural Wales* (Gloucestershire, 2009).

Johnes, Martin, *Wales since 1939* (Manceinion, 2012).

Johnson, Miriam. J, *Strong Mothers-Weak Wives* (Llundain,1988).

Jones, Harriet, 'The State and Social Policy', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

Jones, Helen, 'Health and Reproduction', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

Jones, Helen, *Health and Society in Twentieth Century Britain* (Oxon, 2013).

Jones, Rhidian, *The Canon Law Of The Roman Catholic Church of England: 2nd Edition* (Llundain, 2011).

Jones, R. Merfyn, *The North Wales Quarrymen 1874-1922* (Caerdydd, 1982).

Jones, R.W, 'Gypsies in Wales', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.19 (1930), tt.87-89.

Jones, T. Gwynn, 'Sipsiwn Cymru', *Y Ford Gron*, Ionawr 1932.

Jones, W. Rhys, '"Besom Wedding" in the Ceiriog Valley', *Folklore*, Vol.39 (1928), tt.149-166.

Joshi, Heather. a P. R. Andrew. Hinde, 'Employment after childbearing in post-war Britain: Cohort-Study evidence on contrasts within and across generations', *European Sociological Review*, Vol.9 (1993), tt.203-227.

Jupp, Peter. C, 'Why was England the first country to popularize cremation?', yn Kathy Charmaz, Glennys Howarth ac Allan Kellehear (gol), *The Unknown Country: Death in Australia, Britain and the USA* (Llundain, 1997).

Kann, Alex, '5 Big Fat Myths about Gypsies, Travellers and Roma', *Independent-ar lein*, https://www.independent.co.uk/voices/comment/5-big-fat-myths-about-gypsies-travellers-and-roma-8609751.html (golwg diwethaf-01/11/19).

Kapralski, Stawomir, 'Gender, history, and Roma identities: from cultural determinism to the long shadow of the past', *Slovensky Narodopis*, Vol.66 (2018), tt.467-486.

Keefe, Alexa, 'Life with the Irish Travellers reveals a bygone world', *National Geographic-ar lein*, https://www.nationalgeographic.com/photography/proof/2016/08/irish-travellers-uphold-the-traditions-of-a-bygone-world/ (golwg diwethaf-01/11/19).

Kendall, Sally, 'Sites of resistance: places on the margin-the Traveller 'homeplace'', yn Thomas. Allan. Acton (gol), *Gypsy politics and Traveller identity* (Hertfordshire, 1997).

Kenrick, Donald, *The A-Z of the Gypsies* (Lanham, 2010).

'Kerry and Nisha catering for their community before lockdown', *Travellers Times*, fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/news/2020/04/kerry-and-nisha-catering-their-community-lockdown (golwg diwethaf-10/04/20).

Kiddle, Cathy, *Traveller Children-A Voice for Themselves* (Llundain, 1999).

Ladrew, Roslyn Blyn, 'Ancient Bards, Welsh Gypsies, and Celtic Folklore in the Cauldron of Regeneration', *Western Folklore*, Vol.54 (1998), tt.225-243.

Lawrence, D. H, *The Virign and the Gipsy* (Middlesex, 1930).

Lawton, Jocelyne, *Flowers & Fables- A Welsh Herbal* (Bridgend, 2006).

Lehti, Arja. a Bengt. Mattson, 'Health, attitude to care and pattern of attendance among Gypsy women-a general perspective', *Family Practice*, Vol.18 (2001), tt.445-448.

Lennon, Mary., Marie McAdam a Joanne O'Brien, *Across the Water-Irish Women's Lives in Britain* (Llundain, 1988).

Lewis, Jane, 'Marriage', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

Liégeois, Jean-Pierre, *Gypsies- An Illustrated History* (Llundain, 2006).

Longford, Elizabeth, *The Royal House of Windsor* (Llundain, 1974).

Lown, Judy, 'Not so much a factory, more a form of patriarchy: Gender and Class during industrialisation', yn David Morgan, June Purvis a Daphne Taylorson (gol), *Gender, Class and Work* (Hants, 1985).

Lucy, Sam, *The Anglo-Saxon way of Death -Burial Rites in Early England* (Gloucestershire, 2000).

Lüdtke, Alf, 'Introduction- What is the history of everyday life and who are its practitioners?', gan Alf Lüdtke (gol), *The History of Everyday Life- Reconstructing Historical Experiences and Ways of Life* (West Sussex, 1995).

Lund, Rebecca, 'Gypsy Feminism: An Interview with Laura Corradi', *Nordic Journal of Feminist and Gender Research*, Vol.27 (2019), tt.139-143.

Macfarlane, Alan, *Witchcraft in Tudor and Stuart England-A regional and comparative study* (Llundain, 1999).

Mackey, Jaimie. a Sharbari Bose, ’14 Hindu Wedding Ceremony Traditions You Need to Know’, *Safle Wê Brides*, https://www.brides.com/hindu-wedding-ceremony-rituals-traditions-4795869 (golwg diwethaf-30/05/20).

Mackie, Lindsay. a Polly Pattullo, *Women at work* (Llundain, 1977).

Maddrell, Avril. a James. D. Sidaway, ‘Introduction: Bringing a Spacial Lens to Death, Dying, Mourning and Remembrance’, yn Avril Maddrell a James. D. Sidaway (gol), *Deathspaces- Spaces for Death, Dying, Mourning and Remembrance* (Oxon, 2016).

Maines, Kerry, ‘Baking your way to good mental health’, *Travellers Times*, fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/features/baking-your-way-good-mental-health-kerry-maines (golwg diwethaf-10/12/19).

Mannay, Dawn, ‘Who should do the dishes now? Revisiting Gender and Housework in contemporary urban South Wales’, yn Dawn Mannay (gol), *Our Changing Land: Revisiting Gender, Class and Identity in Contemporary Wales* (Caerdydd, 2016).

Mason, Barry. a Ed. Mason, ‘Masculinity and family work’, yn Rosine Jozef Perelberg a Ann. C. Miller (gol), *Gender and Power in Families* (Llundain, 1990).

Marcus, Geetha, *Gypsy and Traveller Girls- Silence, Agency and Power* (Switzerland, 2019).

Marcus, Geetha, ‘Marginalisation and the Voices of Gypsy/Traveller Girls’, *Cambridge Open-Review Education Research e-Journal*, Vol.1 (2015), tt.55-77.

Marushiakova, Elena. a Vesselin Popov, ‘Myth ac Process’, yn Thomas Acton (gol), *Scholarship and the Gypsy Struggle: Commitment in Romani Studies* (Hatfield, 2000).

Matthews, Jodie, *The Gypsy Woman-Representations in Literature and Visual Culture* (Llundain, 2018).

Mayall, David, *Gypsy-travellers in nineteenth-century society* (Caergrawnt, 1988).

Mayhead, Robin, *Walter Scott* (Caergrawnt, 1973).

Mcalpine, Fraser, 'Five Birth Traditions of the British Isles', *BBC America*, fersiwn ar lein, http://www.bbcamerica.com/anglophenia/2013/07/british-birth-traditions (golwg diwethaf-17/01/20).

McCloskey, Deirdre, 'Paid Work', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

McDonagh, Sabrina, 'Addressing Domestic Violence', *Traveller Times*, fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/features/addressing-domestic-violence (golwg diwethaf-17/11/19).

McFarlane, Andrew, 'The Memories and Opinions of Victoria Lee', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.25 (1946), tt.120-132.

McGavin, Rochelle. Mcphee, 'Challenging the stereotype of a Traveller women', *Traveller Times*, fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/ytt/features/challenging-stereotype-traveller-woman-rochelle-mcphee-mcgavin (golwg diwethaf-17/11/19).

McGowan, Alan, *On the Gypsy Trail- Sources for the family history of Gypsies* (Romany and Traveller Family History Society, 1998).

McIntosh, Tania, *A Social History of Maternity and Childbirth: Key themes in maternity care* (Oxon, 2012).

McKie, Linda., Sophia Bowlby a Susan Gregory, 'Connecting Gender, Power and the Household', yn Linda McKie, Sophia Bowlby a Susan Gregory (gol), *Gender, Power and the Household* (Hampshire, 1999).

Mcleish, Jenny, ‘Gypsy and Traveller women: The road to better care’, *The Practicing Midwife*, Vol.11 (2008), tt.1-5.

Melman, Billie, ‘Changing The Subject: Women’s History And Historiography 1900-2000’, yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

Morgan, John, ‘‘Counterfeit Egyptians’: The construction and implementation of a criminal identity in early modern England’, *Romani Studies*, Vol.26 (2016), tt.105-128.

Morgan, Melanie, ‘Re-educating Rhian: Experiences of working-class mature student mothers’, yn Dawn Mannay (gol), *Our Changing Land: Revisiting Gender, Class and Identity in Contemporary Wales* (Caerdydd, 2016).

Morgan, Prys, *Wales: An Illustrated History* (Gloucestershire, 2005).

Morris, Rachel. C. a Luke Clements, *Gaining Ground: Law Reform for Gypsies and Travellers* (Hertfordshire, 1999).

‘Moving Forward-Gypsy Traveller Education’, *Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau-Llywodraeth Cynulliad Cymru*, Fersiwn ar lein, https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-11/moving-forward-gypsy-traveller-education.pdf (golwg diwethaf-03/10/19).

Murdoch, Angus. a Chris Johnson, ‘Introduction’, yn Chris Johnson a Marc Willers (gol), *Gypsy and Traveller Law* (Llundain, 2007).

Nguyen, Yen., Robin Reeves, Cassius. M. Hossfeld, Angelique Karditzal, Bethany Williams, Brittany Hayes, Chelsea Price, Kat Sherwood, Catherine Smith, Roxy Simons, ‘Understanding Wales: Nationalism and Culture’, *Colonial Academic Alliance Undergraduate Research Journal*, Vol. 4 (2015), tt.1-20.

Nicholson, Virginia, *Perfect Wives in Ideal Homes: The Story of Women in the 1950s* (Llundain, 2015).

Nielsen, Karen. H, 'Rituals to free the spirit-or what the cremation pyre told', yn Duncan Sayer a Howard Williams (gol), *Mortuary practices and social identities in the Middle Ages-Essays in burial archaeology in honour of Heinrich Härke* (Exeter, 2009).

Noakes, Lucy, 'War and Peace', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

Nord, Deborah. Epstein, *Gypsies and the British Imagination 1807-1930* (Efrog Newydd, 2006).

Norman, Irene, *The changing lives of women Travellers* (Bangor, 2002).

Normand, Lawrence. a Gareth Roberts, *Witchcraft in Early Modern Scotland-James IV's Demonology and the North Berwick Witches* (Lerpwl, 2000).

Oakley, Ann, *Housewife* (Llundain, 1976).

Okely, Judith, 'Constructing Difference: Gypsies as "Other"', *Anthropological Journal on European Cultures*, Vol.3 (1994), tt.55-73.

Okely, Judith, 'Gypsy Intermediaries Guide the Stranger: Bringing Reciprocity, Some Misunderstanding, but Protection from Outsiders', *Journal of Gypsy Studies*, Vol.1 (2017), tt.65-84.

Okely, Judith, 'Gypsy Justice versus Gorgio Law: Interrelations of Difference', *The Sociological Review*, Vol.53 (2005), tt.691-709.

Okely, Judith, 'Gypsy Women-Models in Conflict', yn Shirley Ardener (gol), *Perceiving Women* (Llundain, 1975).

Okely, Judith, *The Traveller-Gypsies* (Caergrawnt, 1983).

O'Leary, Paul, *Immigration and Integration: The Irish in Wales, 1798-1922* (Caerdydd, 2000).

Oppenheim, Maya, 'Brigitta Balogh: woman set to become Britain's first Roma barrister on Brexit insecurity and racism', *Independent-ar lein*, https://www.independent.co.uk/news/uk/home-news/uk-first-roma-barrister-woman-brigitta-balogh-antigypsyism-racism-discrimination-brexit-a8547591.html (golwg diwethaf-01/11/19).

O'Rourke, Diane, 'Mourning becomes eclectic: Death of communal practice in a Greek cemetery', *American Ethnologist*, Vol.34 (2007), tt.387-402.

Owen, Trefor. M, *The Customs and Traditions of Wales* (Caerdydd, 1991).

Parker, Greig. a Clare McVeigh, 'Do not cut the grass: expressions of British Gypsy-Traveller identity on cemetery memorials', *Mortality*, Vol.18 (2013), tt.290-312.

Parry, Tyler. D, 'The Holy Land of Matrimony: The complex legacy of the Broomstick wedding in American History, *American Studies*, Vol,55 (2016), tt.81-106.

Payne, C. F, 'Some Romani Superstitions', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.36 (1957), tt.110-115.

Pearson, Mike. Parker, *The Archaeology of Death and Burial* (Gloucestershire, 1999).

Petts, David, 'De Situ Brecheniauc and Englynion Y Beddau: Writing about Burial in Early Medieval Wales', *Anglo-Saxon Studies in Archaeology*, Vol.14 (2007), tt.163-172.

Phoenix, Ann, *Young Mothers* (Cambridge, 1991).

Picker, Giovanni, adolygiad o *Gypsies and Travellers in Housing: The Decline of Nomadism*, gan David Smith a Margaret Greenfields, *Roma Rights*, Vol.1 (2014), tt.113-114.

Pilcher, Jane, 'Who should do the dishes? Three generations of Welsh women talking about men and housework', yn Jane Aaron, Teresa Rees, Sandra Betts a Moira Vincentelli (gol), *Our Sisters' Land-The Changing Identities of Women in Wales* (Caerdydd, 1994).

'Police, Crime, Sentencing and Courts Act 2022', *Tŷ Cyffredin- Sesiynau 2019-21, 2021-22*, *https://bills.parliament.uk/bills/2839* (diweddariad diwethaf- 14 Gorffennaf, 2022).

Pollert, Anna, 'Women, Gender Relations and Wage Labour', yn David Morgan, June Purvis a Daphne Taylorson (gol), *Gender, Class and Work* (Hants, 1985).

Pollock, Karen, *The evolution and role of burial practice in Roman Wales* (Thesis PhD., Prifysgol Bangor, 2005).

'Prime Minister awards outstanding Scottish Gypsy Traveller Assembly founder', *Travellers Times*, fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/ytt/news/2020/03/prime-minister-awards-outstanding-scottish-gypsy-traveller-assembly-founder (golwg diwethaf-10/03/20).

Quarmby, Katharine, *No Place To Call Home-Inside the Real Lives of Gypsies& Travellers* (Llundain, 2013).

Rákóczi, Basil. Ivan, 'Gypsy Magic', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.35 (1956), tt.39-46.

Rao, Aparna, adolygiad o *Gypsies amd other itinerant groups: A socio-historical approach*, gan Leo Lucassen, Wim Willems ac Annemarie Cottaar, *Romani Studies*, Vol.10 (2000), https://search-proquest com.ezproxy.bangor.ac.uk/docview/762798928/CA58747C054346F7PQ/1?accountid=14874 (golwg diwethaf-21/07/20).

Rees, Teresa, ‘Women and paid work in Wales’, yn Jane Aaron, Teresa Rees, Sandra Betts a Moira Vincentelli (gol), *Our Sisters’ Land-The Changing Identities of Women in Wales* (Caerdydd, 1994).

Richardson, Joanna. ac Andrew Ryder, ‘Conclusion and next steps: inclusion, space and empowerment or Gypsies, Roma and Travellers?’, yn Joanna Richardson a Andrew Ryder (gol), *Gypsies and Travellers-Empowerment and inclusion in British Society* (Bristol, 2012).

Richardson, Joanna. a Richard O’Neill, ‘‘Stamp on the Camps’: the social construction of Gypsies and Travellers in media and political debate’, yn Joanna Richardson a Andrew Ryder (gol), *Gypsies and Travellers-Empowerment and inclusion in British Society* (Bristol, 2012).

Roberts, Gwilym. R, *New Lives in the Valley- Slate Quarries and Quarry Villages in North Wales, New York and Vermont 1850-1920* (New Hampshire, 1998).

Roberts, Gwyneth. Tyson, *The Language of the Blue Books- The Perfect Instrument of Empire* (Cardiff, 1998).

Roberts, Peter, *Cambrian Popular Antiquities, or an account of some traditions, customs and superstitions of Wales, with observations as to their origin etc* (Llundain, 1815).

Rogers, Carol. a Margaret Greenfields, ‘Hidden losses and ‘forgotten’ suffering: the bereavement experiences of British Romany Gypsies and Travellers’, *Bereavement Care*, Vol.36 (2017), tt.94-102.

Rogers, Carol., ‘Beyond Bereavement: is close kinship enough? An exploration of the bereavement experiences and support in Gypsy and Traveller families’ (Thesis PhD., Buckinghamshire New University, 2016).

‘Romani Cymru’, *Gwefan Romany Wales Project*, http://www.valleystream.co.uk/romany-welsh%20.htm (golwg diwethaf-24/01/20).

Rostas, Iulius. ac Andrew Ryder, 'EU Framework for National Roma Integration Strategies: insights into empowerment and inclusive policy development', yn Joanna Richardson a Andrew Ryder (gol), *Gypsies and Travellers-Empowerment and inclusion in British Society* (Bristol, 2012).

Roud, Steve, *The Penguin Guide to the Superstitions of Britain and Ireland* (Llundain, 2003).

Rowbotham, Sheila, *Women in Movement: Feminism and Social Action* (Llundain, 1992).

Rugg, Julie. a Brian Parsons, *Funerary Practices in England and Wales* (Bingley, 2018).

Sampson, Anthony, *The Scholar Gypsy- The quest for a family secret* (Llundain, 1997).

Sampson, John, 'An Englishman in Wales', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol.51 (1972), tt.82-91.

Sampson, John, 'The Wood Family-Part 2', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol.11 (1932), tt.56-71.

Sampson, John, 'The Wood Family-Part 3', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol.12 (1933), tt.33-46.

Sandford, Jeremy, *Gypsies* (Llundain, 1973).

Sharpe, James, *Instruments of Darkness-Witchcraft in England 1550-1750* (Llundain, 1996).

Shaw, Martin, 'Intersecting stories and gender support systems in Violet Cannon's Gypsy Princess: The true story of a Romany childhood', *Romani Studies,* Vol.28 (2018), tt.219-238.

Sikes, Wirt, *British Goblins: Welsh Folklore, Fairy Mythology, Legends and Traditions* (Llundain, 1880).

'Sisters honour friend's memory by raising money for epilepsy society', *Traveller Times Magazine,* Hydref 2019, t.12.

Skeggs, Beverley, *Formations of class and gender-Becoming Respectable* (Llundain, 1997).

Smale, B, 'The Social Construction of Funerals in Britain', yn K. Charmaz, G. Howarth a A. Kellehear (gol), *The Unknown Country: Death in Australia, Britain and the USA* (Llundain, 1997).

Smart, Carol, *The ties that bind-law, marriage and the reproduction of patriarchal relations* (Llundain, 1984).

Smith, Alexander, 'Death in the Countryside: Rural Burial Practices', yn Alexander Smith, Martyn Allen, Tom Brindle, Michael Fulford, Lisa Lodwick a Anna Rohnbogner (gol), *Life and Death in the countryside of Roman Britain* (Llundain, 2018).

Smith, Amber. Fensham, 'Gypsy and Traveller Education: Engaging Families-A Research Report', *Gwefan Llywodraeth Cymru*, https://gov.wales/gypsy-and-traveller-education-0 (golwg diwethaf-03/10/19).

Smith, Harold. L, 'The Women's Movement, Politics and Citizenship, 1960s-2000', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

Smith, Jess, *Bruar's Rest* (Edinburgh, 2006).

Smith, Llinos. Beverley, 'Towards a History of Women in Late Medieval Wales', yn Michael Roberts a Simone Clarke (gol), *Women and Gender in Early Modern Wales* (Caerdydd, 2000).

Spencer, Stephanie, *Gender, Work and Education in Britain in the 1950's* (Hampshire, 2005).

Stacey, Robin. Chapman, 'Divorce, Medieval Welsh style', *Speculum*, Vol.77 (2002), tt.1107-1127.

Stevens, Catrin, *Welsh Courting Customs* (Llandysul, 1993).

Stuart, P.G. Maxwell, *An Abundance of Witches-The Great Scottish Witch-Hunt* (Gloucestershire, 2005).

Sullivan, C. W, '"Jumping the Broom": A further consideration of the origins of an African American wedding custom', *The Journal of American Folklore*, Vol.110 (1997), tt.203-204.

Summerfield, Penny, *Reconstructing women's wartime lives: Discourse and subjectivity in oral histories of the Second World War* (Manceinion, 1998).

'Supporting Gypsies and Travellers living with domestic violence', Taflen wybodaeth wedi'i greu gan, *Friends, Families and Travellers*, http://www.gypsy-traveller.org/wp-content/uploads/file/10_06_09%20DV%20leaflet.pdf (golwg diwethaf-31/10/19).

Suggett, Richard, *A History of Magic and Witchcraft in Wales* (Gloucestershire, 2008).

Suggett, Richard, 'Witchcraft Dynamics in Early Modern Wales', yn Michael Roberts a Simone Clarke (gol), *Women and Gender in Early Modern Wales* (Caerdydd, 2000).

'Tackling inequalities faced by Gypsy, Roma, Traveller communities-Education', *Safle wê Parliament UK*, https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmwomeq/360/report-files/36008.htm (golwg diwethaf-10/12/19).

Tallis, Lisa. M, 'Which Craft? Witches, Gypsies, and the Fenyw Hysbys in Eighteenth-Century Wales', *Preternature: Critical and Historical Studies on the Preternatural*, Vol.8 (2019), tt.231-253.

Tarlow, Sarah, *Ritual, Belief and the Dead in Early Modern Britain and Ireland* (Caergrawnt, 2011).

Taylor, Becky, *A minority and the state-Travellers in Britain in the twentieth century* (Manceinion, 2008).

Taylor, Becky, 'Britain's Gypsy Travellers: A people on the outside', *safle wê History Today,* https://www.historytoday.com/archive/britains-gypsy-travellers-people-outside (golwg diwethaf-01/11/19).

Tebbutt, Melanie, *Women's Talk? A Social History of 'gossip' in working-class neighbourhoods, 1880-1960* (Hants, 1997).

'The Big Gypsy Eviction', *Fideo YouTube,* https://www.youtube.com/watch?v=DAYyCte8nHQ (golwg diwethaf-29/02/20).

'The Emancipation of Women', *Fideo Youtube,* https://www.youtube.com/watch?v=y8qsZX61zBw (golwg diwethaf-15/05/20).

The Library of Congress, 'Hindu Rites and Rituals: The Ceremonies of Hinduism', *Safle wê Learn Religions,* https://www.learnreligions.com/hindu-rites-and-rituals-1770058 (golwg diwethaf-30/05/20).

Thompson, T.W, 'Additional notes on English Gypsy Death and Burial Customs', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol. 9 (1930), tt.34-38.

Thompson, T.W, 'Additional notes on the English Gypsy uncleanness taboos', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol. 8 (1929), tt.33-39.

Thompson, T.W, 'English Gypsy Death and Burial Customs', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.3 (1924), tt.5-38.

Thompson, T.W, 'English Gypsy Death and Burial Customs-continuation', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.3 (1924), tt.60-93.

Thompson, T. W, 'English Gypsy Folk-Medicines', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol. 4 (1925), tt.159-172.

Thompson, T.W, 'English Gypsy Folk-tales, and other Traditional Stories', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol. 8 (1914-15), tt.163-242.

Thompson, T.W, 'Gypsy Marriage in England', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol. 5 (1926), tt.9-37.

Thompson, T.W, 'Gypsy Marriage in England', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol. 6 (1927), tt.101-129.

Thompson, T.W, 'Gypsy Marriage in England- continuation from page 129', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol. 6 (1927), tt.151-182.

Thompson, T.W, 'The ceremonial customs of the British Gipsies', *Folklore,* Vol.24 (1913), tt.314-356.

Thompson, T.W, 'The uncleanness of women among English Gypsies', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol. 1 (1922), tt.15-43.

Thrupp, J, 'British Superstitions as to Hares, Geese and Poultry', *Transactions of the Ethnological Society of London,* Vol.5 (1867), tt.162-167.

Tibbott, S. Minwel, *Domestic Life in Wales* (Caerdydd, 2002).

Tinkler, Penny, 'Girlhood and Growing Up', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

Tipler, Derek, 'Life with some South Welsh Gypsies', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol.35 (1956), tt.11-28.

Tipler, Derek, 'Specimens of Modern Welsh Romani', *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol.36 (1957), tt.9-24.

Todd, Selina, *Young Women, Work and Family in England 1918-1950* (Rhydychen, 2005).

Todorović, Dragan, ‘Preface’, yn Dragan Todorović (gol), *Romani narratives about pre-death death and after-death customs* (Niš, 2005).

Tompkins, Laura, ‘Mary Percy and John de Southeray: Wardship, Marriage and Divorce in fourteenth-century England’, yn Gwilym Dodd (gol), *Fourteenth Century England X* (Suffolk, 2018).

Toynbee, J. M. C, *Death and Burial in the Roman World* (Llundain, 1996).

‘Traveller women telling it straight’, *Fideo YouTube*, https://www.youtube.com/watch?v=RtddrgWOopA (golwg diwethaf-28/02/20).

‘Travelling in Hope raises over £3,000 for children’s hospice’, *Travellers Times*, fersiwn ar lein, https://www.travellerstimes.org.uk/news/2016/09/travelling-hope-raises-over-ps3000-childrens-hospice (golwg diwethaf-15/11/19).

Tremlett, Annabel, ‘Demotic or Demonic? Race, Class and Gender in ‘Gypsy’ reality TV’, *The Sociological review*, Vol.62 (2014), tt.316-334.

Trevelyan, Marie, *Welsh Traditions and Superstitions- A Historical Article of the Mythology of Wales* (Worcestershire, 2016).

Ucko, Peter. J, ‘Ethnography and Archaeological Interpretation of Funerary Remains’, *World Archaeology*, Vol.1 (1969), tt.262-280.

Ureche, Heather. a Myfanwy Franks, ‘This is who we are-A study of the views and identities of Rroma, Gypsy and Traveller young people in England’, *The Children’s Society Report*, https://www.childrenssociety.org.uk/sites/default/files/tcs/research_docs/This%20is%20who%20we%20are%20-%20A%20study%20of%20the%20experiences%20of%20Rroma,%20gypsy%20and%20traveller%20children%20throughout%20England.pdf (golwg diwethaf-31/10/19).

Wade, R. A. R, 'The saving of Appleby Fair', *Journal of the Gypsy Lore Society*, Vol.45 (1966), tt.29-39.

Walker, S. H, 'John Clare's Gypsies', *Romani Studies*, Vol.19 (2009), tt.125-145.

Walter, Tony, 'Emotional Reserve and the English Way of Grief', yn Kathy Charmaz, Glennys Howarth ac Allan Kellehear (gol), *The Unknown Country: Death in Australia, Britain and the USA* (Llundain, 1997).

Waters, Thomas, 'Maleficent witchcraft in Britain since 1900', *History Workshop Journal*, Vol.80 (2015), tt.99-122.

Webster, Wendy, ''Race', Ethnicity and National Identity', yn Ina Zweiniger-Bargielowska (gol), *Women in Twentieth-Century Britain* (Essex, 2001).

Weyrauch, W. O, 'Oral Legal Traditions of Gypsies and Some American Equivalents, yn W. O. Weyrauch (gol), *Gypsy Law-Romani Legal Traditions and Culture* (Oakland, 2001).

'Where to give birth: the options', *NHS ar lein*, https://www.nhs.uk/conditions/pregnancy-and-baby/where-can-i-give-birth/ (golwg diwethaf-18/08/20).

Whitaker, Elizabeth, *An Analysis of Betty Friedan's- The Feminine Mystique* (Llundain, 2017).

Wierling, Dorothee, 'The history of everyday life and gender relations on historical and historiographical relationships', gan Alf Lüdtke (gol), *The History of Everyday Life-Reconstructing Historical Experiences and Ways of Life* (West Sussex, 1995).

Wilby, Emma, *Cunning Folk and Familiar Spirits-Shamanistic Visionary Traditions in Early Modern British Witchcraft and Magic* (Eastbourne, 2005).

Williams, Gwyn. A, *The Welsh in their history* (Llundain, 1982).

Williams, Howard. a Duncan Sayer, ‘Halls of Mirrors: death and identity in medieval archaeology’, yn Duncan Sayer a Howard Williams (gol), *Mortuary practices and social identities in the Middle Ages- Essays in burial archaeology in honour of Heinrich Härke* (Exeter, 2009).

Wilson, Dolly. Smith, ‘A new look at the Affluent Worker: The Good Working Mother in Post-War Britain’, *Twentieth Century British History,* Vol.17 (2006), tt.206-229.

Wood, Juliette, ‘Perceptions of the Past in Welsh Folklore Studies’, *Folklore,* Vol.108 (1997), tt.93-102.

Woods, Peter, *The Happiest Days? How pupils cope with school* (Oxon, 1990).

Wright, Martin, ‘Whose past? Whose future? An exploration of women’s history in Wales’, *Equal Opportunities,* Vol.19 (2000), tt.25-30.

Yates, Dora. E, ‘Lamentation for the Dead: A Welsh Gypsy Belief and its parallels’, *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol. 9 (1930), tt.26-28.

Yates, Dora. E, ‘Studies of British and Foreign Gypsies, No.11, Rosie Griffiths: A Romani Chai’, *Journal of the Gypsy Lore Society,* Vol.31 (1952), tt.54-62.